

Rhaglen Gyflawn

CABINET



CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD	Dydd Mawrth, 14eg Hydref, 2025
AMSER	1.00 y.h.
LLEOLIAD	Cyfarfod Aml-leoliad – Siambr Hywel Dda a Zoom
PWYNT CYSWLLT	Gwen Roberts cabinet@gwynedd.llyw.cymru

AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Nia Wyn Jeffreys	Arweinydd y Cyngor
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Amgylchedd
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Paul John Rowlinson	Aelod Cabinet Tai ac Eiddo
Menna Trenholme	Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd
June Jones	Aelod Cabinet dros Briffyrdd, Peirianeg ac Ymgynghoriaeth Gwynedd
R Medwyn Hughes	Aelod Cabinet Economi a Chymuned
Dewi Jones	Aelod Cabinet Addysg
Huw Wyn Jones	Aelod Cabinet Cyllid
Llio Elenid Owen	Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a'r Gymraeg

RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYN			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 MEDI 2025			4 - 10
6	STRATEGAETH TOILED AU LLEOL	Cyng. June Jones	Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC	11 - 37
7	MODERNEIDDIO ADDYSG - YSGOL NEBO	Cyng. Dewi Jones	Gwern Ap Rhisiart, Pennaeth Addysg	38 - 159
8	MODERNEIDDIO ADDYSG - YSGOL BALADEULYN	Cyng. Dewi Jones	Gwern Ap Rhisiart, Pennaeth Addysg	160 - 276
9	CYTUNDEB ADY A CHYNHWYSIAD GWYNEDD AC YNYS MON	Cyng. Dewi Jones	Gwern Ap Rhisiart, Pennaeth Addysg	277 - 300
10	ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL - CYNLLUN DATBLYGU LLEOL 2024-2025	Cyng. Craig ab Iago	Gareth Jones, Pennaeth Cynorthwyol yr Adran	301 - 468
11	ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024/2025 CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A	Cyng. Craig ab Iago	Bethan Richardson, Rheolwr	469 - 509

	NATUR		Rhaglen Newid Hinsawdd	
12	CYNLLUN RHEOLI MAES PARCIO DINAS DINLLE	Cyng. R Medwyn Hughes	Llyr Jones, Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned	510 - 541

Y CABINET DYDD MAWRTH, 16 MEDI 2025

Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Nia Jeffreys, Menna Trenholme, R. Medwyn Hughes, Craig ab Iago, Huw Wyn Jones, June Jones, Dilwyn Morgan, Llio Elenid Owen, Paul Rowlinson a Dewi Jones.

Hefyd yn bresennol-

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Bethan Richardson (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd), Esyllt Rhys Jones (Rheolwr Rhaglenni Adfywio), Llŷr B Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Delyth Williams (Ymgynghorydd Cydraddoldeb), Gwen Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) a Courtney Leigh Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan nodi ei bod yn ddiwrnod Owain Glyndŵr. Diolchwyd i staff y Cyngor a'r Cynghorwyr am eu gwaith diflino drwy gyfnod yr Haf. Croesawyd Catrin Thomas i'r cyfarfod yn ei rôl newydd, sef Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cyngor.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem 6 gan y Cyng. Paul Rowlinson gan ei fod ar Fwrdd Ynni Ogwen, a gan y Cyng. Menna Trenholme gan ei bod yn gyfarwyddwr ar Gwyrfa Gwyrdd. Nodwyd bod y rolau hyn yn rai gwirfoddol felly nid oedd y buddiannau'n rhagfarnu, a ni wnaethant adael y cyfarfod.

3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw fater brys.

4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

5. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2025 fel y rhai cywir.

6. CYNLLUN YNNI LLEOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Craig ab Iago.

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan ei ganmol, ond nodwyd ei bod yn annhebygol y bydd adnoddau ac arian yn dod gan Lywodraeth Cymru i weithredu ar y Cynllun ar hyn o bryd.

Mynegwyd pryder nad yw'r cynlluniau newid hinsawdd yn rhan o ddiwylliant Cymru ar y funud, er pwysigrwydd cyrraedd y targedau a osodwyd. Nodwyd bod ansicrwydd ynglŷn â chanlyniad Etholiad y Senedd yn 2026 a sut y bydd hyn yn effeithio'r pwyslais a gaiff ei roi ar faterion amgylcheddol wrth symud ymlaen. Cadarnhawyd bod dyfnder y cynllun hwn yn golygu y gellir ei ddefnyddio beth bynnag a ddigwyddai yn yr Etholiad.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd cydweithio â siroedd eraill yng Ngwynedd er mwyn gweithredu'r Cynllun. Atgoffwyd pawb nad Cynllun i Gyngor Gwynedd yn unig yw hwn ond cynllun i Wynedd gyfan.

Datganwyd bod y Cynllun yn rhan o rwydwaith o gynlluniau ynni lleol i bob sir yng Nghymru, a bydd y cynllun yn bwydo i fewn i gynllun rhanbarthol sydd eisoes yn ei le. Ychwanegwyd bod gobaith y bydd y cynlluniau hyn yn arwain at gynllun ynni cenedlaethol a gaiff ei arwain gan y Llywodraeth.

Eglurwyd bod y Cynllun yn ceisio edrych ar ym mhle a gan bwy mae'r galw am ynni, a sut y caiff yr ynni ei gynhyrchu a'i ddosbarthu. Ychwanegwyd bod yr Adroddiad Technegol yn ddefnyddiol gan fod bas data gwerthfawr y gellir dibynnu arno, ond cadarnhawyd y bydd hwn angen ei ddiweddarau mewn ychydig flynyddoedd, fel mae sefyllfaoedd yn newid.

Argymhellwyd bod angen ail edrych a diweddarau'r cynllun hwn bob rhyw 3 – 5 mlynedd.

Sylwadau'r codi o'r drafodaeth:

- Soniwyd bod gan Uchelgais Gogledd Cymru nifer o gynlluniau ar y gweill a holwyd os oes bwriad o drafod gyda nhw er mwyn ceisio sicrhau cyllid i wireddu cynlluniau o'r adroddiad. Eglurwyd bod bwriad o sicrhau

trafodaethau ar lefel rhanbarthol, gan gynnwys gydag Uchelgais Gogledd Cymru, a bod ceisiadau am gyllid pellach yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru neu sefydliadau perthnasol i ariannu'r cynlluniau.

- Datganwyd bod dros £270miliwn wedi ei fuddsoddi mewn ynni gwyrdd rhwng 2012 a 2025 ond bod yr adenillon o hyn yn dros £400miliwn. Gan ategu pwysigrwydd y Cynllun hwn, ychwanegwyd bod buddsoddiad mewn ynni gwyrdd yn helpu'r economi yn ogystal â chreu swyddi, sydd yn ei dro yn sicrhau ein bod yn cyrraedd y targedau net sero.
- Nodwyd bod yr ystadegau hyn wedi eu hamlygu gan y Llywodraeth wrth sôn am economi gylchol, ond eto bod dim buddsoddiad ganddynt i wireddu cynlluniau fel hyn.

7. CYNNAL PLEIDLAIS ARDALOEDD GWELLA BUSNES BANGOR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. R Medwyn Hughes.

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan ddatgan bod yr Ardal Gwella Busnes (AGB) ym Mangor wedi cyflwyno rhybudd i'r Cyngor ar gyfer adnewyddu'r AGB.

Nodwyd nad yw hi'n ymddangos bod y rhybudd yn gwrthdaro gydag unrhyw bolisi sydd gan y Cyngor, felly gyda chymeradwyaeth y Cabinet, y cam nesaf fydd i'r Cyngor gyfarwyddo'r swyddog canlyniadau i gynnal y bleidlais ar y dyddiadau a nodir yn yr adroddiad.

Ychwanegwyd bod y mater hwn yn dechnegol ac yn ymarferol o ran trefniadau.

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024-25, CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-24

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Llio Elenid Owen

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan ddatgan mai hwn yw adroddiad blynyddol cyntaf Cynllun Cydraddoldeb 2024-2028.

Eglurwyd bod yr adroddiad yn nodi'r cynnydd sydd wedi ei wneud yn erbyn y 5 amcan cydraddoldeb a gaiff ei nodi yn yr adroddiad, sef y gwaith hwnnw fydd yn flaenoriaeth i'r Cyngor drwy gydol cyfnod y Cynllun.

Ymfalchiwyd yn y ffaith bod y rhan fwyaf o'r gwaith a glustnodwyd ar gyfer y cyfnod wedi ei gwblhau, a bydd unrhyw waith heb ei gwblhau yn cael ei wneud eleni.

Amlygwyd rhai o brif bwyntiau'r adroddiad:

- Soniwyd bod y Cyngor wedi derbyn achrediad lefel 2 o'r Cynllun Hyderus o ran Anabledd, a nawr yn gweithio tuag at lefel 3.
- Nodwyd bod Fforwm Cydraddoldeb Staff wedi cychwyn fel bod modd i staff gyfrannu a rhoi barn ar faterion cydraddoldeb o fewn eu cyflogaeth.
- Amlygwyd bod hyfforddiant yn cael ei roi i staff ac i aelodau etholedig yn y maes niwroamrywiaeth. Ychwanegwyd bod y niferoedd o staff sy'n gwneud yr hyfforddiant mandadol nawr ar gael i'r aelodau, ac mae meysydd blaenoriaeth ar gyfer hyfforddiant wedi cael eu hadnabod felly mae'r gwaith i drefnu hyfforddiant yn y meysydd cydraddoldeb eraill ar droed.
- Datgelwyd bod yr Adran Tai ac Eiddo wedi bod yn casglu gwybodaeth drwy'r arolwg corfforaethol Ardal Ni, yn uchafu'r nifer o dai fforddiadwy ac yn darparu cymorth er mwyn cynyddu effeithlonrwydd tai. Ategwyd bod trefniadau wedi cael eu symleiddio fel ei bod yn haws i bobl gael mynediad at grant cymorth tai a'r drefn tai cymdeithasol.
- Nodwyd bod camau gweithredu wedi eu sefydlu ar gyfer ysgolion drwy ddadansoddi'r Siarter 'Y Gost o Fynychu'r Ysgol', sy'n edrych ar y gost ariannol ac emosiynol i blant fynychu'r ysgol.
- Mae Cydlynnydd Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi'i benodi i sefydlu trefniadau effeithiol i dderbyn mewnbwn plant a phobl ifanc, drwy gynghorau a fforymau ysgol, gan sicrhau gweithredu ar lais y disgybl, beth bynnag eu nodweddion gwarchodedig a'u hanghenion.

Eglurwyd bod nifer o adrannau gwahanol ar draws y Cyngor wedi bod yn rhan o adeiladu'r Cynllun, a bod hyn wedi cyfrannu at ei lwyddiant.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Diolchwyd am yr adroddiad, a mynegwyd balchder o weld ffocws wedi ei roi ar drafod gyda chymunedau a gwrando ar leisiau pobl ifanc y sir.
- Holwyd am yr ymateb sy'n deillio o'r Fforwm Cydraddoldeb Staff. Cadarnhawyd mai un cyfarfod sydd wedi bod hyd yma, a bod bwriad i adeiladu ar hyn.

- Crybwyllwyd cyfraniad yr Adran Tai ac Eiddo i'r cynllun a thynnwyd sylw at y ffaith fod y Siop Un Stop nawr ar agor. Nodwyd y bydd hyn yn ehangu mynediad y cyhoedd at wasanaethau tai a fydd, yn y pen draw, yn hyrwyddo cydraddoldeb.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd y parhad yn ymrwymiad y Cyngor i gydraddoldeb. Soniwyd am y gwaith gwych a wneir gan y tîm awtistiaeth yn ogystal. Mynegwyd balchder bod Gwynedd yn Awdurdod Oed Gyfeillgar sydd wedi ei ddynodi gan sefydliad lechyd y Byd, a bod y cynllun hwn yn cadarnhau ymrwymiad y Cyngor i'r dynodiad hwnnw.
- Ategwyd ei bod yn hanfodol i'r Cabinet ystyried cydraddoldeb ar bob adeg yn ei benderfyniadau.
- Tynnwyd sylw at y ffaith bod 18 cwyn yn gysylltiedig â chydraddoldeb wedi eu nodi yn yr adroddiad, a 7 o'r rheiny yn gwynion dilys; holwyd sut y defnyddir y wybodaeth hon i wella gwasanaethau. Nodwyd bod 'mynediad' wedi ei adnabod fel patrwm yn y cwynion hyn, ac ychwanegwyd ei fod yn bwnc sydd o fewn y Cynllun yn barod â'r mannau problemus wedi eu hadnabod ac yn cael sylw arbennig.
- Soniwyd am roi ffocws ychwanegol o fewn y prosiect Merched Mewn Arweinyddiaeth ar ferched o gefndiroedd lleiafrifol ethnig a'r rheiny sydd ag anabledau er enghraifft. Cadarnhawyd bod sylw'n cael ei roi i'r mater hwn o fewn Amcan 1 y Cynllun yn barod.

9. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Huw Wyn Jones.

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad.

TRAFODAETH

Eglurwyd bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn hanfodol wrth gefnogi gwydnwch y Cyngor, drwy ddarparu rhagolwg strategol o'r rhagolygon ariannol ar gyfer cyfnod o 3 blynedd, sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2026.

Nodwyd bod yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf sydd ar gael am y newid yn yr incwm a fydd y Cyngor yn ei dderbyn dros y cyfnod (drwy Grant y Llywodraeth a Threth Cyngor), a'r gofynion gwariant ychwanegol dros yr un cyfnod.

Pwysleisiwyd bod yr adroddiad yn ddogfen fyw, ac y bydd yn newid fel mae mwy o wybodaeth ar gael.

Eglurwyd nad yw'r Cyngor yn disgwyl cael gwybod beth fydd Grant y Llywodraeth ar gyfer 2026/27 tan o leiaf fis Tachwedd eleni, ond gyda'r rhagolygon fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn bwriadu rhoi cynnydd o 2% ar holl benawdau gwariant cyllideb y Llywodraeth ar gyfer 2026/27, gall y Cyngor ddisgwyl cynnydd blynyddol yn ei setliad ariannol o oddeutu 1.5%.

Datganwyd bod blwch cronrus o £40miliwn yn cael ei ragweld dros y tair blynedd nesaf.

Soniwyd i'r Cyngor dderbyn arian ychwanegol yn ystod y flwyddyn hon gan Lywodraeth Cymru; nodwyd y croesawir hyn ond y byddai derbyn yr arian hwn ar gychwyn y flwyddyn fel rhan o'r setliad yn fwy buddiol i awdurdodau lleol.

Cadarnhawyd bod y diffyg eglurder a'r negeseuon anghyson gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan yn gwneud blaen gynllunio ar sail setliad tebygol 2026/27 yn anoddach na'r arfer.

Cyfeiriwyd at fygythiad Llywodraeth Cymru o "rollover budget" ar gyfer 2026/27, sef parhad o gyllideb eleni gan gynnwys ychwanegiad bychan tuag at chwyddiant yn unig. Ategwyd y golyga hyn na fydd cydnabyddiaeth ariannol o'r costau sylweddol eraill sy'n wynebu awdurdodau lleol. Rhybuddiwyd y byddai hyn yn doriad cyllideb heblaw bod graddfa chwyddiant yn gostwng cyn Ebrill 2026.

Mynegwyd pryder mawr am y bwlch cyllidebol potensial sy'n wynebu'r Cyngor, gan amlygu bod y Cyngor yn barod wedi gwasgu'r gyllideb gan adnabod £74miliwn o doriadau ac arbedion dros y cyfnod o tua 15 mlynedd diwethaf.

Pryderwyd am effaith uniongyrchol toriadau pellach ar y gwasanaethau a gynigir i drigolion Gwynedd ac effaith hynny ar gymunedau, os na fydd y Cyngor yn derbyn setliad teg. Nodwyd bod y ffigyrau hyn yn rai brawychus, gan ategu pwysigrwydd ystyried y camau nesaf.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Cyfeiriwyd at y sefyllfa ansicr hon, gan nodi bod cryn wahaniaeth rhwng lefel chwyddiant a'r cynnydd yn y setliad. Nodwyd y bydd gorfod cynyddu'r dreth cyngor i gau'r diffyg hwn yn ganlyniad uniongyrchol o fethiant Llywodraeth Cymru i gynyddu'r setliad yn unol â chwyddiant.
- Ychwanegwyd bod awdurdodau lleol, drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi bod yn pwysu am setliadau aml-flwyddyn, ond bod addewidion y Llywodraeth o hynny ddim wedi dod i law.

10. BLAENRAGLEN Y CABINET

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Nia Jeffreys.

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd y flaenraglen.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00yh a daeth i ben am 2:00yh.

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Strategaeth Toiledau Lleol
Aelod Cabinet:	Cynghorydd June Jones
Swyddog perthnasol:	Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC
Dyddiad y cyfarfod:	14 Hydref, 2025

1. Penderfyniad a Geisir:

Yr ydym yn edrych i'r Cabinet dderbyn a mabwysiadu'r Strategaeth Toiledau Lleol atodol.

2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

Mae rhan 8 o'r Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i lunio a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer eu hardal. Mae'r Ddeddf yn gwneud hi'n ofynnol i gynnal adolygiadau cyson a chyflwyno adroddiadau cynnydd yn ddilynol. Mae'r strategaeth bresennol yn dyddio nôl i 2019, ac rydym wedi ei ddiweddarau yn unol â'r gofyn. Gofynnir felly i'r Cabinet fabwysiadu'r Strategaeth Toiledau Lleol 2025.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

3.1 Cefndir / Cyflwyniad

Cytunodd Llywodraeth Cymru i fabwysiadu Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ym Mai 2017. Daw'r Ddeddf ag ystod o gamau gweithredu ymarferol ynghyd ar gyfer gwella a diogelu iechyd. Mae Rhan 8 y Ddeddf yn cyflwyno gwaith darparu toiledau, a strategaethau toiledau lleol yn benodol. O safbwynt cyfleusterau cyhoeddus, nod cyffredinol y ddeddfwriaeth yw sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn asesu anghenion eu cymunedau o ran toiledau ac yna'n defnyddio dull strategol a thryloyw i ddiwallu'r angen hwnnw yn y modd gorau posib.

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru gyfrifoldeb i:

- Asesu'r angen am ddarpariaeth toiledau yn eu cymunedau;
- Cynllunio i ddiwallu'r anghenion hynny;
- Llunio strategaeth toiledau lleol; a
- Adolygu'r strategaeth, diweddarau a chyhoeddi unrhyw ddiwygiadau.

Bydd Cyngor Gwynedd felly yn unol â'r argymhellion hyn yn parhau i fynd i'r afael gydag anghenion y gymuned ac i wella safonau cyfleusterau cyhoeddus sydd dan reolaeth yr awdurdod lleol.

3.2 Rhesymeg a chyflwyniad dros argymell y penderfyniad

Nod yn y strategaeth hon yw sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gwrdd ag anghenion pobl Gwynedd er gwaethaf y ffaith fod adnoddau'r Cyngor yn prinhaus. Pwyslais y strategaeth hon fydd sicrhau fod gan Wuneddd ddarpariaeth ddigonol i'r dyfodol a'n bod yn gallu gweithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid i ddarparu modelau darparu amgen er mwyn llwyddo i gyflawni hyn. Bydd y strategaeth yn sicrhau:

- Darpariaeth o gyfleusterau glân, diogel wedi eu cynnal yn dda;
- Uchafu argaeledd toiledau drwy bartneriaethau;
- Hysbysu a hyrwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth toiledau drwy wefannau a chyfryngau eraill;
- Sicrhau ymwybyddiaeth y cyhoedd o leoliadau toiledau drwy ddefnyddio arwyddion cyfeirio da ac arwyddion gwybodaeth cyfleusterau unigol;
- Asesu argaeledd a dosbarthiad y cyfleusterau yn ôl y galw;
- Darpariaeth addas o fewn y gyllideb sydd ar gael.

3.3 Darpariaeth Toiledau Cyhoeddus

Yr ydym â 60 o doiledau cyhoeddus yn ein cyfrifoldeb ac mae wedi bod yn bosibl cadw'r nifer uchel yma o doiledau yn agored drwy gynllun Partneriaeth Cyngorau Cymuned a Thref. Mae'r Cynllun Partneriaeth yn gweithio drwy i'r Cyngorau Cymuned a Thref gyfrannu tuag at gostau rhedeg y toiledau.

Mae'r cyfraniad cyllidol drwy'r drefn partneriaethu o £261,600 yn 2025/26 yn hanfodol at gyfarch cost flynyddol neu dymhorol rhedeg y toiled.

3.4 Toiledau Cymunedol

Caiff y Cynllun Grantiau Toiledau Cymunedol ei ariannu a'i reoli gan Gyngor Gwynedd. Mae'r Cynllun yma yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd i ddefnyddio cyfleusterau toiled mewn ystod o sefydliadau lleol cymeradwy yn ystod eu horiau agor. Darperir y cyfleusterau yn rhad ac am ddim a heb unrhyw ddisgwyliad y bydd defnyddwyr yn prynu nwyddau neu wasanaethau pan fyddant yn yr eiddo. Bydd angen i bob eiddo sy'n cymryd rhan i gadw eu toiledau yn ddiogel, glân, hygrych a gyda digon o nwyddau. Yr uchafswm grant yw £500 y flwyddyn i bob lleoliad. Bydd yr union swm yn ddibynnol ar nifer yr oriau mae'r toiled ar gael mewn wythnos. I dderbyn y £500 llawn mae rhaid i'r toiled fod yn agored am 37.5 awr yr wythnos.

Ar hyn o bryd mae gennym 41 eiddo ar draws Gwynedd sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth arddangos o leiaf un arwydd a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar ei ffenestr neu ddrws i ddangos eu bod yn aelod o'r cynllun fel bod y cyhoedd yn gwybod bod ganddynt hawl i ddefnyddio'r toiledau. Mae cais wedi ei dderbyn gan un sefydliad pellach fydd yn derbyn archwiliad i weld os ydynt yn addas ai peidio.

3.5 Gwella Cyfleusterau

Mae'r adran wedi bod yn llwyddiannus yn denu arian o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin – Gwynedd Ni er mwyn darparu gwelliannau i doiledau cyhoeddus. Cafwyd swm o £234,000 i uwchraddio toiledau cyhoeddus Abermaw ac Abersoch yn ystod 2025/26.

Bu i'r adran dderbyn bid cyfalaf o £80,000 i uwchraddio drysau talu mewn 3 o'r 5 toiled yn y sir ble mae ffi o 20 ceiniog yn daladwy. Bydd y peiriannau yn galluogi defnyddwyr dalu mewn ffordd "ddi-gyffwrdd" yn ogystal â gyda arian parod. Mae'r drysau wedi eu gosod yn nhoiledau ar y Maes ym Mhwlheli. Mae bwriad gosod y drysau talu yn nhoiledau'r Empire yng Nghaernarfon a thoiledau Dolgellau.

Mae gwaith wedi ei gwblhau yn ddiweddar ar uwchraddio toiledau yn Aberdyfi, Pwllheli a Criccieth yn dilyn grant o £140,000 drwy gronfa Gronfa Ffyniant Gyffredin - Pethau Pwysig.

3.6 Toiledau “Changing Places”

Mae pobl gydag anableddau dysgu lluosog ynghyd â phobl gydag amhariadau corfforol eraill yn aml angen cyfarpar ychwanegol a gofod er mwyn iddynt allu defnyddio'r toiledau yn gyfforddus ac yn ddiogel. Nod toiledau “Changing Places” ydy cyfarch yr anghenion yma.

Er nad oes gan Cyngor Gwynedd ddarpariaeth o'r math yma ei hun mae tri safle gyda darpariaeth ‘changing places’ o fewn y sir sef Gorsaf Rheilffordd Ffestiniog ac Eryri yng Nghaernarfon, Canolfan Pontio ym Mangor a Chanolfan Crefft Corris.

Nodir nad yw'n ofyn statudol cynnwys toiledau ‘changing places’ mewn unrhyw gynllun newydd. Os bydd cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau o'r fath, bydd y Cyngor yn ystyried pob cyfle wrth symud ymlaen, yn enwedig os derbynnir grant i ddatblygu cyfleusterau newydd. Yn ddelfrydol mae angen i gyfleusterau ‘changing places’ gael eu lleoli o fewn safle sydd wedi ei staffio megis llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol neu amgueddfeydd er mwyn osgoi pryderon ynghylch fandaliaeth.

3.7 Hyrwyddo

Mae lleoliad toiledau Gwynedd i'w gweld ar MapDataCymru sy'n cynnwys lleoliad holl doiledau cyhoeddus Cymru. Mae hefyd rhestr o doiledau Gwynedd ar wefan y Cyngor sydd yn nodi lleoliad ac os ydyw yn doiled tymhorol a'i peidio. Mae hefyd rhestr o'r toiledau cymunedol sydd ar gael ar draws Gwynedd ar y wefan yn nodi lleoliad, oriau agor a pha fath o gyfleusterau sydd ar gael yn y lleoliad. Bydd yr adran yn edrych ar ffyrdd o hyrwyddo'r toiledau drwy ddefnyddio uned fusnes yr Adran, sydd ag arbenigedd mewn meysydd cyfathrebu ac e-ddatblygu.

3.8 Ymgynghori

Gan bydd angen llunio strategaeth newydd ar gyfer y cyfnod 2029 ymlaen bydd yr adran yn cynnal ymgynghoriad gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

3.9 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod y Ddeddf yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Wrth ddatblygu'r strategaeth hon roedd rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth lawn i'r Ddeddf.

Mae'r Strategaeth Toiledau Lleol yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio mae'n ofynnol i Gyngor Gwynedd eu dilyn i sicrhau ein bod yn datblygu strategaeth gynaliadwy:

- Ystyried pwysigrwydd cydbwysu anghenion byr dymor gyda'r angen hefyd i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor;
- Gweithredu mewn modd integredig;
- Cydweithio ag eraill er mwyn dod o hyd i atebion cynaliadwy;
- Cynnwys pobl yn y penderfyniadau fydd yn effeithio arnynt; a
- Gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

3.10 Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae gofyn statudol i baratoi ac ystyried canfyddiadau asesiad o effaith o safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi'r strategaeth yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y gweithredir yng Nghymru.

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd dyfarniad gan yr oruchaf lys fod rhyw, o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010, yn golygu rhyw biolegol yn unig. Rydym fel Cyngor yn disgwyl i ddefnyddwyr barchu'r dyfarniad yma.

Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod nad oes gennym ddarpariaeth addas ar gyfer pobl trawsryweddol ac anneuol yn y mwyafrif o'n toiledau. Gobeithiwn bydd canllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn rhoi arweiniad pellach i ni ar hyn.

Un opsiwn sy'n cael ei ystyried gan rai mudiadau yn y tymor byr yw'r defnydd o doiledau hygrych. Nid yw hynny yn bosib yn nhoiledau hygrych Gwynedd gan mai dim ond gyda goriad "radar" maent yn gallu cael eu hagor sydd yn arbennig i bobl sy'n anabl.

Mae'r dyfarniad diweddar wedi cael ei ystyried yn yr asesiad cydraddoldeb ar gyfer y Strategaeth Toiledau Lleol 2025. Gweler copi o'r asesiad llawn wedi ei ddiweddarau yn Atodiad 3.

3.11 Camau nesaf

Nodir y camau allweddol ac amserlen fel y ganlyn:

Camau Nesaf	Pryd
Cyhoeddi adolygiad o'r Strategaeth Toiledau Lleol yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cabinet	
Adolygu'r strwythur codi tal ar rai toiledau'r Sir drwy osod drysau talu o'r newydd gan gynnwys cyfleon talu gyda cherdyn neu arian parod	Hydref, 2025
Adolygu'r ddarpariaeth o fewn adeiladau'r Cyngor, gan gynnwys llyfrgelloedd ayb i sicrhau uchafu'r defnydd i'r cyhoedd ble mae'n bosibl	Ionawr, 2026
Parhau i hysbysu a diweddu'r Cynllun Grant Cymunedol i fusnesau lleol fel ffordd o gael darpariaeth ychwanegol mewn ardaloedd ble mae'r angen fwyaf wedi ei adnabod.	Parhaus
Adolygu'r ddarpariaeth bresennol o doiledau cyhoeddus a monitro'r drefn glanhau er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol ac effeithlon	Ebrill, 2026
Ymchwilio i gyfleon am grantiau i ddatblygu ymhellach a chydweithio gydag adrannau'r Cyngor a phartneriaid ac eraill i gynyddu'r ddarpariaeth o gyfleusterau 'Changing Places' sydd ar gael yng Ngwynedd o fewn adeiladau'r Cyngor	Parhaus
Adolygu'r Bartneriaeth gyda Chynghorau Cymuned a Thref	2025/26
Parhau i ddenu cyfleon am grantiau i uwchraddio'r stoc toiledau cyhoeddus	Parhaus
Edrych ar opsiynau gwahanol ar gyfer nodweddion amgylcheddol a datblygiadau ynni cynaliadwy	Parhaus
Fe fydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r Heddlu, Diogelwch Cymunedol a thrigolion, grwpiau cymunedol ac eraill i sicrhau bod y cyfleusterau mor ddiogel â phosib	Parhaus
Adolygu'r Strategaeth a chynnal ymgynghoriad	Cyn 2029

4. Sylwadau Swyddogion Statudol

4.1 Prif Swyddog Cyllid

Mae mabwysiadu'r Strategaeth yma yn cwrdd â gofynion statudol sydd ar y Cyngor. Fel gwelir o'r adroddiad blaen, mae'r maes hwn yn un lle bu sawl her ariannol yn y gorffennol ac ymdrechion i ddarganfod ffyrdd amgen o ariannu'r gwasanaeth. Bydd swyddogion Cyllid yn parhau i gefnogi a chynorthwyo'r swyddogion perthnasol wrth i'r cynlluniau yn y strategaeth ddatblygu.

4.2 Swyddog Monitro

Mae'r angen i adolygu Strategaeth Toiledau Cyhoeddus yn drefniant statudol. Mae'r gofynion statudol sydd yn ynghlwm ac adolygu'r Strategaeth wedi eu hamlinellu yn briodol yn yr adroddiad ynghyd a'r camau a gymerwyd i'w cyfarch.

Rhestr Atodiadau:

Atodiad 1 – Strategaeth Toiledau Lleol

Atodiad 2 – Darpariaeth Bresennol o Doiledau Cyhoeddus

Atodiad 3 – Asesiad Cydraddoldeb



Cyngor Gwynedd

Strategaeth Toiledau Lleol

Mai 2025



1. Cefndir

Cytunodd Llywodraeth Cymru i fabwysiadu Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ym Mai 2017. Daw'r Ddeddf ag ystod o gamau gweithredu ymarferol ynghyd ar gyfer gwella a diogelu iechyd. Mae Rhan 8 y Ddeddf yn cyflwyno gwaith darparu toiledau, a strategaethau toiledau lleol yn benodol. O safbwynt cyfleusterau cyhoeddus, nod cyffredinol y ddeddfwriaeth yw sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn asesu anghenion eu cymunedau o ran toiledau ac yna'n defnyddio dull strategol a thryloyw i ddiwallu'r angen hwnnw yn y modd gorau posib.

Nid bwriad Rhan 8 y Ddeddf yw atal awdurdodau lleol rhag gwneud penderfyniadau y mae angen iddynt eu gwneud yn ystod eu gweithgarwch, a allai gynnwys penderfyniadau i gau rhai cyfleusterau toiledau cyhoeddus traddodiadol neu adeilad pan fo hynny'n briodol. Yn hytrach, ei bwriad yw gwella'r modd y caiff darpariaeth ei chynllunio er mwyn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud yng nghyd-destun cyffredinol y gwaith o ddiwallu'r anghenion y mae awdurdodau lleol wedi'u hadnabod mewn cymunedau. Bydd dull strategol hefyd o gymorth i liniaru unrhyw effeithiau negyddol newidiadau i'r ddarpariaeth.

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru gyfrifoldeb i:

- Asesu'r angen am ddarpariaeth toiledau yn eu cymunedau;
- Cynllunio i ddiwallu'r anghenion hynny;
- Llunio strategaeth toiledau lleol; a
- Adolygu'r strategaeth, diweddarau a chyhoeddi unrhyw ddiwygiadau.

Bydd Cyngor Gwynedd felly yn unol â'r argymhellion hyn yn mynd ati i fynd i'r afael gydag anghenion y gymuned ac i wella safonau cyfleusterau cyhoeddus sydd dan reolaeth yr awdurdod lleol.

2. Cyflwyniad

Ein nod yn y strategaeth hon yw sicrhau ein bod yn parhau i gwrdd ag anghenion pobl Gwynedd er gwaethaf y ffaith fod adnoddau'r Cyngor yn prinhaus. Y pwyslais yn y strategaeth hon fydd sicrhau fod gan Wynedd ddarpariaeth ddigonol i'r dyfodol a'n bod yn gallu gweithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid i ddarparu modelau darparu amgen er mwyn llwyddo i gyflawni hyn.

Mae'r strategaeth hefyd yn cael ei pharatoi mewn cyfnod o gyni ariannol ac felly mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i'r cyd-destun hwnnw. Mae darpariaeth cyfleusterau cyhoeddus yn darparu'r seilwaith sydd ei angen i hwyluso mwynhad o ardaloedd yng Ngwynedd gan drigolion ac ymwelwyr. Gallant fod ag effaith sylweddol ar gyfforddusrwydd unigolion a theuluoedd sy'n ymweld â mannau cyhoeddus yn yr ardal a'u canfyddiad o Wynedd fel lle dymunol i ddod i ymweld.

Mae mynediad i gyfleusterau toiled yn bwysig i bob rhan o'r boblogaeth ac nid dim ond i bobl hŷn. Yn aml, bydd diffyg toiledau cyhoeddus yn cael ei roi fel rheswm pam fod pobl hŷn yn mynd yn ynysig yn gymdeithasol a gall hyn wedyn achosi unigrwydd. Er hynny, mae llawer o bobl (yn cynnwys pobl iau, teuluoedd a phobl o bob oedran sy'n anabl neu gyflwr iechyd) angen mynediad i gyfleusterau toiled ac yn aml gall diffyg darpariaeth arwain atynt yn cyfyngu ar eu cyswllt cymdeithasol gydag eraill.

Er bod Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn canolbwyntio ar 'Ddarpariaeth Toiledau', nid yw darpariaeth cyfleusterau cyhoeddus gan awdurdod lleol ar hyn o bryd yn ddyletswydd statudol.

Yn gynyddol mae'r Cyngor yn wynebu heriau i gynnal safonau cynnal a chadw darpariaeth toiledau a glanhau oherwydd yr arian cyfyngedig a'r pwysau ar adnoddau ond serch hynny, Gwynedd yw'r ail uchaf o ran nifer y toiledau gaiff eu cynnal gan gynghorau yng Nghymru.

3. Amcanion y Strategaeth

Nod y strategaeth yw cwrdd ag anghenion trigolion ac ymwelwyr â Gwynedd drwy ddarparu:-

- Darpariaeth o gyfleusterau glân, diogel wedi eu cynnal yn briodol;
- Uchafu'r argaeledd toiledau drwy bartneriaeth gyda'r Cyngor a darpariaeth arall;
- Hysbysu a hyrwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth toiledau drwy wefannau a chyfryngau eraill;
- Cyfleusterau sy'n hawdd dod o hyd iddynt gydag arwyddion cyfeirio da ac arwyddion gwybodaeth cyfleusterau unigol;
- Asesu argaeledd a dosbarthiad cyfleusterau yn seiliedig ar alw;
- Darpariaeth addas o fewn y gyllideb sydd ar gael;

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu Cynllun Gweithredu i nodi sut y bydd Cyngor Gwynedd yn gweithio tuag at ddiwallu anghenion y boblogaeth leol o fewn ei gyllideb bresennol ar gyfer cyfleusterau cyhoeddus.

4. Sut y cafodd y strategaeth ei datblygu?

Mae'r strategaeth yma yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau a gwasanaethau eraill y Cyngor gan gyfrannu at ein gweledigaeth fel Cyngor i gefnogi pobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywydau llawn yn eu cymunedau, mewn sir sydd yn un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth lawn i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nod y Ddeddf yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gwneud i awdurdodau lleol feddwl mwy am yr hirdymor, cydweithio'n well â phobl a chymunedau ac â'i gilydd, ceisio atal problemau, a gweithredu mewn modd mwy cyd-gysylltiedig. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod 'egwyddor datblygiad cynaliadwy' sy'n rhoi gwybod i sefydliadau sut i fynd o'i chwmpas hi i gwrdd â'u dyletswydd o dan y Ddeddf, sy'n golygu bod yn rhaid i Gyngor Gwynedd weithredu mewn modd mwy cynaliadwy.

Mae'r Strategaeth Toiledau Lleol yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio mae'n ofynnol i Gyngor Gwynedd eu dilyn i sicrhau ein bod yn datblygu strategaeth gynaliadwy:

- Ystyried pwysigrwydd cydbwyso anghenion byr dymor gyda'r angen hefyd i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor;
- Gweithredu mewn modd integredig;
- Cydweithio ag eraill er mwyn dod o hyd i atebion cynaliadwy;
- Cynnwys pobl yn y penderfyniadau fydd yn effeithio arnynt; a
- Gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

5. Adolygu'r Strategaeth

Mae'r Ddeddf yn gwneud hi'n ofynnol i gynnal adolygiadau cyson a chyflwyno adroddiadau cynnydd yn ddilynol.

6. Darpariaeth Cyngor Gwynedd

Mae gan Wunedd gymysgedd o ran darpariaeth toiledau. Ar hyn o bryd, rydym yn darparu 60 o doiledau cyhoeddus traddodiadol a weithredir gan y Cyngor, sydd yn cynnwys 41 o gyfleusterau toiledau cymunedol. Mae rhan fawr o'r ardal hefyd yn rhan o Barc Cenedlaethol Eryri sydd hefyd yn darparu cyfleusterau toiledau.

Yn Atodiad A ceir rhestr o'r ddarpariaeth bresennol yng Ngwynedd.

7. Beth mae Gwynedd yn ei wneud ar hyn o bryd?

Cynllun Partneriaethu Cyngorau Cymuned a Thref

Yn dilyn Ymarfer Ymgysylltu Her Gwynedd yn 2016, adolygodd y Cabinet ei benderfyniad i gyflawni toriad yn y gwasanaeth drwy wireddu Cynllun Partneriaethu arfaethedig gyda Chynghorau Tref a Chymuned er mwyn cadw mwyafrif toiledau presennol y Sir yn agored i'r dyfodol.

Datblygwyd y cynllun fel trefniant amgen i'r penderfyniad a gymerwyd i gau hyd at 50 o doiledau fel rhan o'r gyfundrefn o doriadau. Ymgynghorwyd gyda'r holl Gynghorau Cymuned a Thref yng Ngwynedd i ganfod os oedd digon o ddiddordeb mewn gweithio mewn partneriaeth gyda ni i gadw'r toiledau yn agored. Mae'r Cynllun Partneriaeth yn gweithio drwy i'r Cynghorau Cymuned a Thref gyfrannu yn flynyddol neu'n dymhorol tuag at gostau rhedeg y toiledau.

Mae hyd at 60 o doiledau bellach wedi cael eu cadw yn agored gyda chymorth Cyngorau Tref a Chymuned ac eraill.

Gweithio gydag eraill

Lle nad oedd hi'n bosib i'r Cynghorau Cymuned a Thref gyfrannu yn ariannol at gadw'r cyfleusterau yn agored yn eu hardaloedd, mae'r Cyngor wedi ceisio gweithio gydag eraill, h.y. partneriaid trydydd sector, busnesau preifat a grwpiau cymuned lleol i gadw'r ddarpariaeth yn agored yn eu hardaloedd lleol. Erbyn hyn, mae sawl enghraifft o hyn yn weithredol.

Cynllun Grantiau Toiledau Cymunedol

Caiff y Cynllun Grantiau Toiledau Cymunedol ei ariannu a'i reoli gan Gyngor Gwynedd. Mae'r Cynllun yma yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd i ddefnyddio cyfleusterau toiled mewn ystod o sefydliadau lleol cymeradwy yn ystod eu horiau agor. Darperir y cyfleusterau yn rhad ac am ddim a heb unrhyw ddisgwyliad y bydd defnyddwyr yn prynu nwyddau neu wasanaethau pan fyddant yn yr eiddo. Bydd angen i bob eiddo sy'n cymryd rhan i gadw eu toiledau yn ddiogel, glân, hygyrch a gyda digon o nwyddau. Yr uchafswm grant yw £500 y flwyddyn i bob lleoliad. Ar hyn o bryd mae gennym 41 eiddo ar draws Gwynedd sy'n cymryd rhan yn y cynllun.

Rhaid i'r darparwr gwasanaeth arddangos o leiaf un arwydd a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar ei ffenestr(i) neu ddrws (drysau) i ddangos ei fod yn aelod o'r cynllun fel bod y cyhoedd yn gwybod bod ganddynt hawl i ddefnyddio'r toiledau.

Gwella Cyfleusterau drwy Arian Grant

Ers 2019, rydym wedi llwyddo i ddenu grantiau cyfwerth a dros £500k. Mae'r arian yma wedi ei ddefnyddio i uwchraddio 5 o doiledau'r Sir.

“Changing Places”

Nid yw toiledau safonol hygyrch yn cyfarch anghenion pobl anabl i gyd. Mae pobl gydag anableddau dysgu lluosog ynghyd a phobl gydag amhariadau corfforol eraill fel anaf i'r asgwrn cefn, dystroffi cyhyrau a sglerosis gwasgaredig yn aml angen cyfarpar ychwanegol a gofod er mwyn iddynt allu defnyddio'r toiledau yn gyffyrddus ac yn ddiogel. Mae'r anghenion yma yn cael ei gyfarch gan doiledau 'Changing Places'. Erbyn hyn mae 3 safle gyda darpariaeth 'changing places' o fewn y Sir (Gorsaf Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri yng Nghaernarfon, Canolfan Pontio ym Mangor a Chanolfan Crefft Corris).

9. Beth fyddwn ni'n ei wneud am y cyfnod nesaf?

Rhaid cydnabod ein bod yn wynebu pwysau ariannol ond mae'r Cyngor yn ymrwymo i'r Cynllun Gweithredu canlynol:

Cynllun Gweithredu 2025 – 2029

Rhif	Amcan	Targed
1	Adolygu'r strwythur codi tal ar rai toiledau'r Sir drwy osod drysau talu o'r newydd gan gynnwys cyfleon talu gyda cherdyn neu arian parod.	Hydref, 2025
2	Adolygu'r ddarpariaeth o fewn adeiladau'r Cyngor, gan gynnwys llyfrgelloedd a.y.y.b i sicrhau uchafu'r defnydd i'r cyhoedd ble mae'n bosibl.	Ionawr, 2026
3	Parhau i hysbysu a diweddarau'r Cynllun Grant Cymunedol i fusnesau lleol fel ffordd o gael darpariaeth ychwanegol mewn ardaloedd ble mae'r angen fwyaf wedi ei adnabod.	Parhaus
4	Adolygu'r ddarpariaeth bresennol o doiledau cyhoeddus a monitro'r drefn glanhau er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol ac effeithlon.	Ebrill, 2026
5	Ymchwilio i gyfleon am grantiau i ddatblygu ymhellach a chydweithio gydag adrannau'r Cyngor a phartneriaid ac eraill i gynyddu'r ddarpariaeth o gyfleusterau 'Changing Places' sydd ar gael yng Ngwynedd o fewn adeiladau'r Cyngor.	Parhaus
6	Adolygu'r Bartneriaeth gyda Chynghorau Cymuned a Thref.	Blwyddyn Ariannol 2025/26
7	Parhau i ddenu cyfleon am grantiau i uwchraddio'r stoc toiledau cyhoeddus.	Parhaus
8	Edrych ar opsiynau gwahanol ar gyfer nodweddion amgylcheddol a datblygiadau ynni cynaliadwy.	Parhaus
9	Fe fydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda'r Heddlu, Diogelwch Cymunedol a thrigolion, grwpiau cymunedol	Parhaus

	ac eraill i sicrhau bod y cyfleusterau mor ddiogel â phosib.	

Awdur:

Amanda Murray – Rheolwr Asedau Bwrdeistrefol, Adran Priffyrdd, Peirianeg ac YGC

ATODIAD 2

Tref neu Bentref / Town or Village	Lleoliad / Location	Agored / Open	Darpariaeth ar gyfer yr anabl / Provision for disabled RADAR	
Ardal ARFON Area				
Bangor	Glanrafon	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	1
Bangor	Tanyfynwent	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	2
Bethesda	Stryd Fawr	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year		3
Caernarfon	Allt y Castell	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	4
Caernarfon	Empire	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	5
Caernarfon	Penllyn	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	6
Dinas Dinlle	Marine	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	7
Felinheli	Ffordd y Traeth	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	8
Llanberis	Ger y Llyn	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	9
Llanberis	Maes Padarn	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	10
Llanberis	Y Glyn	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	11
Ardal DWYFOR Area				
Aberdaron	Traeth	Tymhorol / Seasonal	✓	1
Abersoch	Ger y bont	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	2
Abersoch	Golff	Tymhorol / Seasonal	✓	3
Abersoch	Machroes	Tymhorol / Seasonal	✓	4
Beddgelert		Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year		5
Borth y Gest	Maes Parcio	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year		6
Criccieth	Esplanade	Tymhorol / Seasonal	✓	7
Criccieth	Maes Parcio	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	8
Llanbedrog	Traeth	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year		9
Llanystumdwy		Tymhorol / Seasonal		10
Morfa Bychan	Traeth	Tymhorol / Seasonal	✓	11
Morfa Bychan	Gwydryn	Tymhorol / Seasonal		12
Morfa Nefyn	Cae Coch	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year		13
Morfa Nefyn	Traeth	Tymhorol / Seasonal		14
Mynytho		Tymhorol / Seasonal	✓	15
Nefyn	Cefn Twr	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	16
Nefyn	Lon Gam	Tymhorol / Seasonal		17

Porthmadog	Y Parc	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	18
Pwllheli	South Beach	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	19
Pwllheli	Stryd Penlan	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	20
Pwllheli	Y Maes	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	21
Trefor	Traeth	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year		22
Ardal MEIRIONNYDD Area				
Aberdyfi	Neuadd Dyfi	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year		1
Aberdyfi	Y Cei	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	2
Abergynolwyn		Tymhorol / Seasonal		3
Abermaw	Llys Cambrian	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	4
Abermaw	Promenad y Gogledd	Tymhorol / Seasonal	✓	5
Abermaw	Y Cei	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	6
Bala	Plase	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	7
Bala	Y Grin	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	8
Blaenau Ffestiniog	Diffwys	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	9
Bryncrug		Tymhorol / Seasonal		10
Corris Isaf		Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year		11
Dinas Mawddwy		Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year		12
Dolgellau	Maes Parcio'r Marian	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	13
Ganllwyd		Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year		14
Harlech	Bron y Graig	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	15
Harlech	Min y Don	Tymhorol / Seasonal		16
Harlech	Queen's	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year		17
Llanbedr		Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year		18
Llandanwg		Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	19
Llwyngwril		Tymhorol / Seasonal		20
Maentwrog		Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	21
Pennal		Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year		22

Penrhyndeudraeth	Maes Parcio	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	23
Talybont	Pentre	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year		24
Trawsfynydd		Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	25
Tywyn	Maes Adloniant	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	26
Tywyn	Sinema	Agor trwy'r flwyddyn / Open all Year	✓	27
CYFANSWM / TOTAL				60

Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

I) Manylion

I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Strategaeth Toiledau Lleol

I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Strategaeth Toiledau Lleol Cafodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 Gydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017. Mae'r Ddeddf yn dod ag ystod o gamau gweithredu ymarferol ynghyd ar gyfer gwella a diogelu iechyd. Mae Rhan 8 y Ddeddf yn cyflwyno gwaith darparu toiledau, a strategaethau toiledau lleol yn benodol.

Nod Rhan 8 yw gwella'r modd y caiff y ddarpariaeth o doiledau sydd ar gael at ddefnydd y cyhoedd ei chynllunio, drwy sicrhau bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn asesu anghenion eu cymuned o ran toiledau, ac yna'n defnyddio dull strategol a thryloyw o ddiwallu'r angen hwnnw yn y modd gorau posibl.

Bwriedir y broses o ddatblygu'r strategaeth ei gwneud yn bosib i ni ystyried opsiynau ehangach sydd ar gael o ran darparu toiledau i'r cyhoedd, a mynd i'r afael â'r heriau presennol sy'n ymwneud â darparu'r cyfleusterau mewn cymunedau, a hynny gyda lleihad difrifol yng nghyllideb y gwasanaeth.

Wrth ddatblygu Strategaeth Toiledau Lleol ar gyfer Gwynedd, rydym yn ystyried yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr a'r gymuned ehangach. Mae'n debygol y bydd y strategaeth yn cael fwy o effaith ar rhai nodweddion gwarchodedig nac eraill, ond hyderwn ein bod wedi rhoi ystyriaeth i hynny, a cheisio lliniaru effaith negyddol yn ein amcanion.

1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Amanda Murray – Rheolwr Asedau Bwrdeistrefol, Priffyrdd, Peirianeg ac YGC

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Tachwedd 2018 - Cychwyn

Fersiwn Ebrill 2019 – Asesiad gwreiddiol

Fersiwn Mai 2025 – Asesiad cyfredol

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Swyddogion Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Y Cyhoedd
Grwpiau gyda nodweddion gwarchodedig
Cynghorau Cymuned a Thref
Sefydliadau Trydydd Sector perthnasol
Sefydliadau Twristiaeth
Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dadansoddi a delio gyda cwynion dderbynir

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Ar gyfer diweddaru'r strategaeth yn 2025 mae gwaith wedi ei wneud i edrych ar y math o gwynion dderbynnir gan y cyhoedd.

Mae'r dadansoddiad yma yn cael ei drafod yng nghyfarfodydd Herio Perfformiad yr Adran.

Bydd yr ymgynghoriad llawn nesaf yn cael ei wneud o fewn y ddwy flynedd nesaf er mwyn paratoi at gyhoeddi'r Strategaeth ar gyfer y cyfnod o 2029 ymlaen.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Mae canlyniadau'r ymgysylltu nol yn 2019 ar gael.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Anabledd

Mae elusennau a mudiadau sy'n cynrychioli pobl anabl o'r farn bod toriadau i gyfleusterau cyhoeddus yn cael effaith niweidiol iawn o safbwynt y byddent yn cael eu rhwystro neu'n ofnus o fentro o'u cartrefi oherwydd diffyg cyfleusterau ar gael yn y gymuned. Gall rhai anhwylderau neu amhariadau wneud yr effaith yn waeth.

Yn ôl elusen crohn's & colitis uk mae gan o leiaf 300,000 o bobl yn y DU Clefyd Crohns neu Colitis Ulcerative, a adnabyddir fel 'Inflammatory Bowel Disease' (IBD).

Yn ol adroddiad "Taking the P***" gan y Royal Society for Public Health 2019, mae eu hymchwil wedi datgelu bod 56% o bobl yn peidio yfed rhag ofn na fydd toiled cyhoeddus ar gael. Mae hyn yn gallu cael effaith niweidiol ar rai sydd efo cyflyrau meddygol megis diabetes neu gyflwr ar y bledren/bowel.

Oedran

Mae adroddiad "Toiledau Cyhoeddus yng Nghymru" gan Gaomisiynydd Pobl Hyn Cymru (Awst 2023) yn nodi bod 61% o bobl wnaeth ateb eu ymgynghoriad wedi nodi ei bod yn anodd dod o hyd id oiled y neu hardal.

Mewn adroddiad Ymchwil gan Fforwm Cymru yn 2023 nododd 59% o'r ymatebwyr eu bod yn lleihau yr amser neu belter o'u cartrefi oherwydd y diffyg darpariaeth. Dywedodd 11% y byddent yn debygol o gael damwain yn gyhoeddus os na fyddai toiled ar gael.

Mae ei thystiolaeth yn awgrymu bod y diffyg mewn cyfleusterau cyhoeddus yn ffactor cyfrannol sylweddol i'r unigedd o bobl hŷn, gyda mwy na hanner o bobl hŷn yn teimlo bod diffyg cyfleusterau cyhoeddus lleol yn nadu iddynt fynd allan mor aml a dymunent.

Ar hyn o bryd mae Age Cymru yn datblygu adroddiad sy'n edrych ar gyfrifoldebau awdurdodau lleol ynghylch darparu toiledau cyhoeddus. Byddwn yn ystyried darganfyddiadau'r adroddiad pan fydd yn cael ei gyhoeddi.

2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Nid oes gwybodaeth benodol i Wynedd neu lefel daearyddol is am gyflyrau iechyd megis Crohns a Colitis, na am tueddiadau na galw ymwelwyr.

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

Nodweddion	Sut fath o effaith?	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Dim	Dim effaith
Anabledd	Positif	Fel rhan o'r Strategaeth Toileddau Lleol, bydd y Cyngor yn: Cynnal adolygiad o drefniadau glanhau, oriau agor, sy'n rhan o amcan o ddarpariaeth gyfleusterau glan, diogel a gynhelir yn briodol. Bydd hyn yn ymateb i bryderon safon glendid ac oriau agor anaddas. Byddwn yn gweithio ar uchafu'r dewis o ddarpariaeth toiledau a'u hyrwyddo fel rhan o amcan 'Uchafu'r argaeledd toiledau drwy bartneriaeth gyda'r Cyngor a darpariaeth arall'. Byddwn yn hysbysu lleoliadau a chyfleusterau sydd ar gael yn y toiledau yn amcan 'Hysbysebu a hyrwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth toiledau drwy wefannau a chyfryngau eraill'. Mae toiledau hygyrch newydd 'Changing Places' ar agor yng Ngorsaf Rheilffordd Eryri yng Nghaernarfon, Canolfan Pontio ym Mangor a Chanolfan Crefft Corris. Mae'r toiledau yn cynnwys, offer arbennig megis hoist, cyfleusterau addas a lle ar gyfer newid person anabl. Am fwy o wybodaeth am doiledau 'Changing Places' ewch i: http://www.changing-places.org/

Rhyw	Dim	Rhywbeth sydd wedi digwydd wrth i'r strategaeth gael ei ysgrifennu yw dyfarniad yr oruchaf lys. Mae'n nodi fod rhyw yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn golygu rhyw biolegol yn unig. Disgwylir i ddefnyddwyr barchu canfyddiad y ddyfarniad.
Oedran	Positif	Fel rhan o'r Strategaeth Toiledau Lleol, bydd y Cyngor yn: gweithio ar uchafu'r dewis o ddarpariaeth toiledau a'u hyrwyddo yn amcan 'Uchafu'r argaeledd toiledau drwy bartneriaeth gyda'r Cyngor a darpariaeth arall'. Byddwn yn hysbysu lleoliadau a chyfleusterau sydd ar gael yn y toiledau yn amcan 'Hysbysu a hyrwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth toiledau drwy wefannau a chyfryngau eraill'. Bydd amcan 'Cyfleusterau sy'n hawdd dod o hyd iddynt gydag arwyddion cyfeirio da ac arwyddion gwybodaeth cyfleusterau unigol' yn rhoi ystyriaeth i sut allwn wella arwyddion a chyfeirio pobl tuag at y toiledau a'u gwneud yn haws i ddarganfod.
Cyfeiriadedd rhywiol	Dim	Nid ydym wedi adnabod unrhyw effaith ar hyn o bryd, oherwydd na fydd unrhyw newidiadau mawr yn cael ei gwneud i'r asedau sy'n bodoli.
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Positif	Gyda rhai crefydd buasai defnyddio cyfleusterau amgen preifat yn gyfyngedig wrth ddefnyddio rhai sefydliadau (e.e. tafarnau) gall fod yn erbyn rhai crefydd neu gred. Er mwyn diwallu'r angen yma bydd y Strategaeth Toiledau Lleol yn: Parhau i weithio gyda Chynghorau Cymuned a Thref a grwpiau a sefydliadau er mwyn sicrhau dewis eang o ddarpariaeth a chadw cynifer o doiledau cyhoeddus traddodiadol ar agor yn amcan 'Uchafu'r argaeledd toiledau drwy bartneriaeth gyda'r Cyngor a darpariaeth arall'.
Ailbennu rhywedd	Negyddol	Yn ddiweddar, cyhoeddwyd dyfarniad yr oruchaf lys fod rhyw, o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010, yn golygu rhyw biolegol yn unig. Rydym yn disgwyl i ddefnyddwyr barchu'r ddyfarniad yna. Ond rydym yn cydnabod nad oes gennym ddarpariaeth addas ar gyfer pobl trawsryweddol ac anneuol yn y mwyafrif o'n toiledau. Un opsiwn sy'n cael ei ystyried gan rai mudiadau yn y tymor byr yw'r defnydd o doiledau hygrych. Nid yw hynny yn bosib yn ein toiledau cyhoeddus gan eu bod ond yn gallu cael eu hagor gyda goriad radar.

		Gobeithiwn y bydd canllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn rhoi arweiniad pellach i ni ar hyn.
Beichiogrwydd a mamolaeth	Positif	Mae rhieni a gwarcheidwad o fabanod a phlant ifanc angen gallu defnyddio cyfleusterau addas mewn cyfleusterau cyhoeddus merched a dynion wrth ymweld â mannau cyhoeddus ac yn aml ar fyr rybudd. Mewn ymateb i bryder fod prinder o ran cyfleusterau a'u bod yn safon glanweithdra yn isel, bydd y Cyngor yn cynnal adolygiad o drefniadau glanhau, a chynnal awdit o'r nifer o fannau newid babanod yn amcan 'Darpariaeth o gyfleusterau glân, diogel wedi eu cynnal yn briodol'.
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim	Dim effaith
Yr iaith Gymraeg	Dim	Dim effaith
Anfantais Economaidd-Gymdeithasol	Positif	Fel rhan o'r Strategaeth Toiledau Lleol, bydd y Cyngor yn: gweithio ar uchafu'r dewis o ddarpariaeth toiledau a'u hyrwyddo yn amcan 'Uchafu'r argaeledd toiledau drwy bartneriaeth gyda'r Cyngor a darpariaeth arall'. Byddwn yn hysbysu lleoliadau a chyfleusterau sydd ar gael yn y toiledau yn amcan 'Hysbysu a hyrwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth toiledau drwy wefannau a chyfryngau eraill'. Bydd amcan 'Cyfleusterau sy'n hawdd dod o hyd iddynt gydag arwyddion cyfeirio da ac arwyddion gwybodaeth cyfleusterau unigol' yn rhoi ystyriaeth i sut allwn wella arwyddion a chyfeirio pobl tuag at y toiledau a'u gwneud yn haws i ddarganfod.

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?

Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Nac ydi	Nac ydi
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi	Oherwydd yr amcanion: • Hysbysu a hyrwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth toiledau drwy wefannau a chyfryngau eraill. • Cyfleusterau sy'n hawdd dod o hyd iddynt gydag arwyddion cyfeirio da ac arwyddion gwybodaeth cyfleusterau unigol;
Meithrin perthnasau da	Ydi	Mae'r amcan hyrwyddo yn cefnogi a meithrin perthnasau da wrth hysbysu yn well y cyfleusterau a'i lleoliadau ac oriau agor i alluogi pobl hŷn fod yn fwy hyderus o fynd allan.

3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Ni fydd y Strategaeth Toiledau Lleol yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ni fydd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg. Bydd y Strategaeth yn cadw at safonau'r Gymraeg mewn perthynas ag arwyddion, apiau, adnoddau, cyhoeddiadau ac ati.

3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Dim byd pellach

3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).

Mae data economaidd-gymdeithasol sy'n ymwneud â Gwynedd yn dangos bod gan 31% o aelwydydd incwm o dan 60% o ganolrif Prydain Fawr, sy'n nodi eu bod yn byw mewn tlogi.

Fel rhan o'r strategaeth Toiledau Leol, bydd Cyngor Gwynedd yn gweithio ar uchafu'r dewis o ddarpariaeth toiledau a'u hyrwyddo yn amcan 'Uchafu'r argaeledd toiledau drwy bartneriaeth gyda'r Cyngor a darpariaeth arall'. Bydd hyn yn sicrhau bydd mwy o doiledau ar gael i'r cyhoedd heb rwymedigaeth i brynu cynhyrchion neu wasanaethau, a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar yr anghydraddoldeb.

3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

Dim byd pellach

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Yn gyffredinol mae'r Strategaeth Toiledau Lleol am gael effaith bositif ar nodweddion cydraddoldeb a nodwyd yn rhan 3.1.

Bwriad y strategaeth yw ceisio gwella'r modd y caiff y ddarpariaeth o doiledau sydd ar gael at ddefnydd y cyhoedd ei ddarparu. Wrth ddatblygu'r strategaeth, mae'r Cyngor wedi asesu anghenion eu cymuned o ran toiledau, ac wedi defnyddio'r wybodaeth i gynnig 6 amcanion er mwyn ceisio diwallu'r angen hwnnw yn y modd gorau posibl o fewn y gyllideb, a ble mae'n briodol.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Na

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	✓
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	

Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth	

4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Ddim yn berthnasol

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Ddim yn berthnasol

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Fel rhan o'r Strategaeth, bydd y Cyngor yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi 'datganiad cynnydd interim' a fydd yn monitro'r cynllun gweithredu ac yn adrodd ar yr ymgynghoriad cyhoeddus fydd yn cael ei gynnal o fewn y ddwy flynedd nesaf.

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Dyddiad y cyfarfod: 14 Hydref 2025
Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dewi Jones
Swyddog Cyswllt: Gwern ap Rhisiart – Pennaeth Addysg
Teitl yr Eitem: Ysgol Nebo – Papur Cynnig

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1 Ceisir caniatâd y Cabinet i gynnal ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1 Gofynnir am ganiatâd i ymgynghori ar y cynnig arfaethedig a nodir yn 1.1 am fod angen cyfarch sefyllfa fregus Ysgol Nebo. Mae niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo wedi bod yn isel ers peth amser. Yn ôl niferoedd Medi 2025, dim ond 11 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 sy'n mynychu'r ysgol ac 1 dysgwr yn y Meithrin, a dengys rhagamcanion y bydd y niferoedd yn parhau'n isel gyda rhagamcanion o 10 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 a 2 ddysgwr Meithrin ar y gofrestr erbyn Medi 2028.

3. CYFLWYNIAD

- 3.1 Yn eu cyfarfod ar 11 Chwefror 2025, penderfynodd y Cabinet gefnogi'r argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda Chorff Llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol Ysgol Nebo gan drafod opsiynau posib yn ymwneud â dyfodol yr ysgol yn sgil niferoedd isel o ddysgwyr a'r pryderon am gynladwyedd yr ysgol.
- 3.2 Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd yn ôl ar ganlyniad y trafodaethau lleol, a cheisio caniatâd i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr y dalgylch yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

4. CEFNDIR

- 4.1 Ysgol gynradd gymunedol yw Ysgol Nebo sydd wedi ei lleoli ym mhentref Nebo. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 11 oed ac yn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3. Derbynnir dysgwyr i'r ysgol yn rhan amser ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn ddysgwyr llawn amser ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

- 4.2 Gyda 11 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 ar gofrestr yr ysgol, a chapasiti o 51, mae 40 o lefydd gweigion yn yr ysgol, sef cyfwerth a 78% o gapasiti'r ysgol. Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin yn ogystal, felly gyda 1 dysgwr meithrin ar y gofrestr, mae 6 o lefydd gweigion yn y meithrin yn ogystal.

Cyd-destun Strategol


- 4.3 Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r Strategaeth "Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd" ers i'r Cyngor Llawn ei mabwysiadu yn Ebrill 2009.
- 4.4 Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2018, bu i'r Cabinet gymeradwyo egwyddorion "Addysg Addas i Bwrpas" sydd bellach yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn er sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r egwyddorion hyn yn gweithio tuag at resymoli ystod oedran o fewn dosbarthiadau cynradd a sicrhau amser digyswllt digonol i benaethiaid ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn yr ysgolion cynradd.

Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig

- 4.5 Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Y Cod) yn cynnwys gweithdrefn arbennig mewn perthynas ag ysgolion gwledig, gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau.
- 4.6 Fe nodir yn y Cod "*Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau, ond bod rhaid i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwybodol gan y cynigydd, gan gynnwys ffedereiddio.*"
- 4.7 Mae Ysgol Nebo wedi ei dynodi yn 'ysgol wledig' at ddiben y Cod. O ganlyniad, rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r gofynion gweithdrefnol ychwanegol mewn perthynas â llunio cynigon ar gyfer ysgolion gwledig wrth lunio'r papur cynnig hwn.

5. SEFYLLFA BRESENNOL YSGOL NEBO

- 5.1 Fel y gwelir o'r graff isod, mae gostyngiad sylweddol a chyson wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo. Ers Medi 2015, mae gostyngiad o 52% wedi bod yn niferoedd dysgwyr Derbyn i Blwyddyn 6 yr ysgol, a 54% o ostyngiad yn niferoedd Meithrin i Blwyddyn 6 yr ysgol.



- 5.2 O ganlyniad i'r niferoedd isel presennol, mae'r ysgol mewn sefyllfa fregus ac yn wynebu heriau cynyddol niferus, gan gynnwys:

- **Niferoedd isel o ddysgwyr** - Yn Ionawr 2025, roedd 10 dysgwr Derbyn – Blwyddyn 6 a 0 dysgwr meithrin yn mynychu Ysgol Nebo. Er bod y niferoedd wedi cynyddu ychydig ers hynny, mae'r niferoedd yn parhau yn isel gyda 11 dysgwr Derbyn – Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr meithrin ar y gofrestr ym Medi 2025.
- **Canran uchel o lefydd gweigion** – Gydag 11 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 ar gofrestr yr ysgol, a chapasiti o 51, mae 40 o lefydd gweigion yn yr ysgol, sef cyfwerth a 78% o gapasiti'r ysgol. Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin yn ogystal, felly gyda 1 dysgwr meithrin ar y gofrestr, mae 6 o lefydd gweigion yn y meithrin yn ogystal.
- **Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang** – Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 i Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Felly mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a hyd at 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth.
- **Rhagamcanion niferoedd** – Mae rhagamcanion Medi 2025 yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y dair mlynedd nesaf.
- **Dysgwyr y dalgylch** – Dengys data Medi 2025 mai dim ond 29% o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo sy'n dewis mynychu'r ysgol. Mae 71% o ddysgwyr y dalgylch yn dewis mynychu ysgolion all-dalgylch.
- **Ysgol Nebo yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad cyllidol craidd** – Mae Ysgol Nebo yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Cyfanswm y swm ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol 2025-26 (seiliedig ar niferoedd Medi 2024) oedd £70,694.
- **Cyfartaledd cost fesul dysgwr** – Cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Nebo yn 2025-26 yw £25,876 o gymharu â'r cyfartaledd sirol o £5,780.

6. TRAFODAETHAU LLEOL

- 6.1 Yn nhymor yr Hydref 2024, bu i swyddogion o'r Adran Addysg gyfarfod â Chorff Llywodraethol Ysgol Nebo er mwyn trafod sefyllfa fregus yr ysgol. Yn ystod y cyfarfod, nodwyd y bwriad i geisio caniatâd y Cabinet i symud y drafodaeth yn ei blaen trwy gynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda'r Corff Llywodraethol a'r rhan-ddeiliad perthnasol i drafod yr heriau ac opsiynau ar gyfer y dyfodol.
- 6.2 Yn unol â phenderfyniad y Cabinet ar 11 Chwefror 2025, sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol Nebo (PAY). Gwahoddwyd holl aelodau'r Corff Llywodraethol, rhieni a staff yr ysgol yn ogystal â'r Aelod Lleol i ymuno â'r panel a chymryd rhan yn y drafodaeth.
- 6.3 Ar 18 Mawrth 2025, cynhaliwyd y cyntaf o dri chyfarfod PAY ble amlinellwyd yr heriau oedd yn wynebu'r ysgol a chynnal trafodaeth gychwynnol i adnabod opsiynau fyddai'n ymateb i'r heriau hyn (fel y manylir ym mharagraff 5.2 uchod). Cynigiwyd esiamplau o opsiynau yn y cyfarfod, a bu i rai o ran-ddeiliaid yr ysgol gynnig opsiynau eraill er ystyriaeth.
- 6.4 Cynhaliwyd yr ail gyfarfod PAY ar 12 Mai 2025. Yn ystod y cyfarfod cyflwynwyd gwerthusiad SWOT er mwyn adnabod cryfderau, cyfleoedd, gwendidau a bygythiadau'r holl opsiynau. Derbyniwyd sylwadau pellach gan y rhan-ddeiliaid i'w hystyried, ac fe'u hychwanegwyd at y gwerthusiad.
- 6.5 Yn dilyn derbyn mewnbwn aelodau'r PAY, cynhaliwyd trydydd cyfarfod ar 14 Gorffennaf 2025 er mwyn nodi'r heriau oedd yn wynebu'r ysgol, y rhestr hir o opsiynau y cytunwyd i'w gwerthuso ac egluro'r ffactorau fyddai'n cael eu hystyried wrth gynnal gwerthusiad opsiynau ar y rhestr hir. Nodwyd y bwriad i gynnal asesiadau effaith ar yr opsiynau cyn adrodd yn ôl i'r Cabinet ym mis Hydref.

7. ADNABOD OPSIYNAU

7.1 Gyda mewnbwn aelodau'r PAY yn ystod y cyfarfodydd lleol, crëwyd rhestr hir o opsiynau i'w hystyried ar gyfer dyfodol yr ysgol. Roedd y rhain yn cynnwys opsiynau a gyflwynwyd gan ran-ddeiliaid Ysgol Nebo. Yr opsiynau hyn oedd:

- Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol
- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos
- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo
- Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni)
- Ysgol Nebo yn datblygu yn leoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes)
- Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant gydag anghenion dysgu ychwanegol
- Ysgol Nebo yn cynnig Uned Iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle
- Sefydlu ysgol ar fwy nag un safle (Ysgol aml-safle)

Opsiynau Eraill

7.2 Mae ystod eang o opsiynau wedi eu hadnabod yn ystod y cyfarfodydd lleol ac rydym hefyd wedi rhoi ystyriaeth i'r hyn mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn nodi fel enghreifftiau o opsiynau posibl y gallai fod yn werth eu hystyried wrth lunio'r cynnig ar gyfer ysgol wledig, a chafodd yr enghreifftiau canlynol eu hystyried yn ychwanegol i'r opsiynau yn adran 7.1 o'r adroddiad yma. Gwelir yr opsiynau hynny isod gyda sylwadau wedi eu hychwanegu atynt:

- Clystyru, cydweithio ag ysgolion eraill - mae'r opsiwn o ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos wedi ei gynnwys yn y gwerthusiad opsiynau.
- Defnyddio'r ysgol fel canolfan gymunedol i gynnal a chefnogi ystod o wasanaethau cymunedol – yn dilyn ystyried yr opsiwn i ddefnyddio'r ysgol fel canolfan gymunedol, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yma yn cynnig datrysiad cynaliadwy ar gyfer yr ysgol, gan na fyddai'n ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol (fel nodir yn adran 5.2). Pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'r heriau a nodir yn adran 5.2 yr adroddiad, e.e. niferoedd isel o ddisgyblion, maint dosbarthiadau bychain yn parhau, ac o ganlyniad byddai'r heriau cyllidol sy'n wynebu'r ysgol yn parhau.
- Cydlleoli gwasanaethau lleol o fewn yr ysgol i wrthbwysu costau cynnal - mae'r opsiwn yma'n cael ei ystyried ymhellach yn y gwerthusiad opsiynau trwy'r opsiynau a ganlyn: (i) *Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol* (ii) *Ysgol Nebo yn cynnig Uned Iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle*.
- Ystyried sefydlu ysgolion ar fwy nag un safle er mwyn cadw adeiladau - ychwanegwyd yr opsiwn yma, sef sefydlu ysgol aml-safle, at y rhestr o opsiynau i'w hystyried yn dilyn y trydydd cyfarfod lleol, ac felly caiff ei ystyried yn y gwerthusiad opsiynau.

8. GWERTHUSO OPSIYNAU

8.1 Yn unol â'r strategaeth "*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*" ystyriwyd nifer o ffactorau wrth werthuso'r opsiynau ar gyfer y sefyllfa, sef:

• Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion	• Y Gymuned
• Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran	• Adnoddau ariannol
• Arweinyddiaeth a staffio	• Yr iaith Gymraeg
	• Ffactorau daearyddol

8.2 Gellir gweld cymhariaeth bellach o'r holl opsiynau yn erbyn ffactorau'r strategaeth yn **Atodiad 1** (Tabl Gwerthusiad Opsiynau) ac mae casgliad o werthusiad yr opsiynau unigol i'w gweld isod.

8.3 Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol

Byddai'r opsiwn yma'n golygu na fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol yn nalgylch Ysgol Nebo.

Wedi pwyso a mesur sefyllfa ddiweddaraf yr ysgol yn erbyn y ffactorau perthnasol, deir i'r casgliad nad yw'r opsiwn yma'n cyfarch yr heriau presennol sy'n wynebu'r ysgol, a nodir yn adran 5.2, gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion – Byddai niferoedd dysgwyr yn parhau'n isel (11 Derbyn – Blwyddyn 6 ac 1 Meithrin) ac mae llefydd gweigion sylweddol (78%) yn parhau yn Ysgol Nebo. Rhagamcanion niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.
- Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang – Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 i Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Felly mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a hyd at 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth. Gan na ragwelir cynnydd yn y niferoedd, byddai maint dosbarthiadau yn parhau yn fach gydag amrediad oedran eang.
- Adnoddau ariannol – Yn 2025-26 bu i Ysgol Nebo dderbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol (£70,694) ac mae cyfartaledd cost fesul dysgwr (£25,876) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol (£5,780). Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar niferoedd dysgwyr yr ysgol, rhagwelir y byddai'r her ariannol yma'n parhau.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Mae gwerth £95,000 o waith cynnal a chadw angenrheidiol wedi ei adnabod ar gyfer adeilad Ysgol Nebo. Ni fyddai'r opsiwn yma'n gwneud dim i ymateb i'r her yma.

8.4 Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos

Mae'r Cod yn nodi bod ffederaleiddio yn dod â manteision arbennig i ysgolion gwledig ac yn datgan bod rhaid felly i gynigydd ddangos sut mae ffedereiddio wedi ei ystyried fel opsiwn. Dangoswyd y gall ffederaleiddio gynnig manteision i ysgolion gwledig mewn rhai sefyllfaoedd, yn benodol o safbwynt cryfhau arweinyddiaeth a chyfleoedd cydweithio.

Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nebo trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Ystyriwyd y posibilrwydd o ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos yn benodol Ysgol Llanllyfni ac Ysgol Bro Lleu.

Wrth ystyried y model hwn, rhaid asesu beth fyddai unrhyw effaith ar sut y byddai'r holl ysgolion fyddai'n rhan o'r ffederasiwn yn gweithredu. Gan nodi'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo, byddai'n rhaid sicrhau y byddai trefniant o'r fath yn medru cynnig manteision i holl blant a phobl ifanc yr ysgolion sy'n ffedereiddio drwy wella'r ddarpariaeth addysgol.

Gan fod niferoedd Ysgol Nebo wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 11 dysgwr (Derbyn – Bl.6) ac 1 dysgwr Meithrin ar y gofrestr, rhagwelwyd nad oedd manteision eglur i ysgolion eraill o ffederaleiddio gydag Ysgol Nebo.

Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynydd mewn niferoedd.

Yn dilyn pwyso a mesur y manteision a'r anfanteision o ffedereiddio, daethpwyd i'r casgliad nad oedd yr opsiwn hwn yn ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir yn adran 5.2 uchod, gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion – Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai ffederaleiddio yn golygu fod yr her o niferoedd dysgwyr isel a llefydd gweigion sylweddol (78%) yn Ysgol Nebo yn parhau.
- Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang- Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 i Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Felly mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a hyd at 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth. Gan na ragwelir y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd yn y niferoedd, rhagwelir na fyddai ffederaleiddio yn ymateb i'r her o ddosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang.
- Adnoddau ariannol – Yn 2025-26 mae Ysgol Nebo wedi derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol (£70,694) ac mae cyfartaledd cost fesul dysgwr (£25,876) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol (£5,780). Gan na ragwelir y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd yn niferoedd y dysgwyr, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar ddyraniad cyllidol Ysgol Nebo, rhagwelir y byddai'r her ariannol yma'n parhau.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Mae gwerth £95,000 o waith cynnal a chadw angenrheidiol wedi ei adnabod ar gyfer adeilad Ysgol Nebo. Gan y byddai adeilad Ysgol Nebo yn parhau, ni fyddai ffederaleiddio yn ymateb i'r her yma.

8.5 Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo

Mae'r Cod yn nodi bod ffederaleiddio yn dod â manteision arbennig i ysgolion gwledig ac yn datgan bod rhaid felly i gynigydd ddangos sut mae ffederaleiddio wedi ei ystyried fel opsiwn. Dangoswyd gall ffederaleiddio gynnig manteision i ysgolion gwledig mewn rhai sefyllfaoedd, yn benodol o safbwynt cryfhau arweinyddiaeth a chyfleoedd cydweithio.

Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nebo trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Ystyriwyd y posibilrwydd o ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos yn benodol Ysgol Llanllyfni ac Ysgol Bro Lleu.

Wrth ystyried y model hwn, rhaid asesu beth fyddai unrhyw effaith ar sut y byddai'r holl ysgolion fyddai'n rhan o'r ffederasiwn yn gweithredu. Gan nodi'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo, byddai'n rhaid sicrhau y byddai trefniant o'r fath yn medru cynnig manteision i holl blant a phobl ifanc yr ysgolion sy'n ffederaleiddio drwy wella'r ddarpariaeth addysgol.

Gan fod niferoedd Ysgol Nebo wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 11 dysgwr (Derbyn – Bl.6) ac 1 dysgwr rhan amser (Meithrin) ar y gofrestr, rhagwelir na fyddai manteision eglur i ysgolion eraill o ffederaleiddio gydag Ysgol Nebo ac ychwanegu uned ADY ar safle Ysgol Nebo.

Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd.

Yn ogystal â ffederaleiddio, byddai'r opsiwn yma hefyd yn golygu ychwanegu lleoliad ar gyfer uned ADY. Noder na fyddai ychwanegu uned ADY yn effeithio ar niferoedd Ysgol Nebo, gan y byddai dysgwyr yr uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol. Gan y byddai'r uned ADY wedi ei lleoli o fewn adeilad Ysgol Nebo, rhagwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at leihad yng nghapasiti'r ysgol, ac o ganlyniad, lleihad yn niferoedd llefydd gweigion Ysgol Nebo.

Yn dilyn pwyso a mesur y manteision a'r anfanteision o ffederaleiddio a lleoli uned ADY ar safle Ysgol Nebo, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn hwn yn ymateb yn ddigonol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir yn adran 5.2 uchod, gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion - Er y byddai lleihad yn nghapasiti a llefydd gweigion yr ysgol yn sgil lleoli'r uned ADY o fewn adeilad Ysgol Nebo, gan nad oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd, rhagwelir y byddai'r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Nebo yn parhau pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu. Gan y byddai dysgwyr yr uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned ADY ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel.
- Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang - Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 i Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Felly mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a hyd at 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth. Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd yn y niferoedd, rhagwelir na fyddai'r opsiwn yma'n ymateb i'r her o ddosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang.
- Adnoddau ariannol – Yn 2025-26 mae Ysgol Nebo wedi derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol (£70,694) ac mae cyfartaledd cost fesul dysgwr (£25,876) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol (£5,780). Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n arwain at gynnydd yn niferoedd y dysgwyr, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar ddyraniad cyllidol Ysgol Nebo. Rhagwelir y gall lleoli Uned ADY ar y safle o bosib wrthbwysu rhywfaint ar gostau cynnal adeilad yr ysgol. Serch hynny, o safbwynt dyraniad craidd yr ysgol, pe byddai Ysgol Nebo yn ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos ac Uned ADY yn cael ei lleoli ar y safle yn ogystal, gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar niferoedd dysgwyr yr Ysgol, rhagwelir y byddai'r her ariannol yma'n parhau.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Mae gwerth £95,000 o waith cynnal a chadw angenrheidiol wedi ei adnabod ar gyfer adeilad Ysgol Nebo. Gallai lleoli Uned ADY o fewn adeilad Ysgol Nebo wrthbwysu costau cynnal a chadw'r ysgol yn rhannol. Fodd bynnag, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, ni fyddai'r opsiwn yma'n ymateb yn ddigonol i'r her yma.

8.6 Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni)

Byddai'r opsiwn yma'n golygu cau Ysgol Nebo a chynnig lle i ddysgwyr y dalgylch yn Ysgol Llanllyfni.

Ystyrir Ysgol Llanllyfni fel yr 'ysgol gyfagos' gan mae hi yw'r ysgol ddaearyddol agosaf at Ysgol Nebo. Mae'r ysgol wedi ei lleoli rhyw 1.6 milltir o safle Ysgol Llanllyfni.

Mae Ysgol Llanllyfni hefyd yn cynnig ei hun fel yr opsiwn amlwg ar gyfer yr ysgol amgen gan fod 43% o blant oed cynradd dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu Ysgol Llanllyfni ac mae capasiti digonol yno i dderbyn dysgwyr dalgylch Ysgol Nebo.

Yn dilyn hyn, cynnigir ymestyn dalgylch Ysgol Llanllyfni i gynnwys dalgylch Ysgol Nebo ar gyfer y dyfodol.

Manylir ymhellach ar y rhesymeg y tu ôl i argymhell y cynnig yma fel yr opsiwn a ffafrir ar gyfer ymgynghori arno yn Adran 10. Yr opsiwn a ffafrir.

8.7 Ysgol Nebo yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes)

Byddai'r opsiwn yma'n golygu y byddai Ysgol Nebo yn parhau, ac yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol.

Mae niferoedd Ysgol Nebo wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gydag 11 dysgwr (Derbyn – Bl.6) ac 1 dysgwr rhan amser (Meithrin) ar y gofrestr. Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n arwain at gynnydd yn niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo.

Wedi pwysu a mesur sefyllfa ddiweddaraf yr ysgol yn erbyn y ffactorau perthnasol, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn hwn yn ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir yn adran 5.2 uchod, gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion – Byddai niferoedd dysgwyr yn parhau'n isel (11 Derbyn – Blwyddyn 6 ac 1 Meithrin) a byddai llefydd gweigion sylweddol (78%) yn parhau yn Ysgol Nebo. Rhagamcanion niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.
- Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang – Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 i Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Felly mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a hyd at 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth. Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd yn y niferoedd, byddai maint dosbarthiadau yn parhau yn fach gydag amrediad oedran eang.
- Adnoddau ariannol – Yn 2025-26 mae Ysgol Nebo wedi derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol (£70,694) ac mae cyfartaledd cost fesul dysgwr (£25,876) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol (£5,780). Gan na fyddai'r opsiwn yn effeithio ar niferoedd dysgwyr yr ysgol, rhagwelir y byddai'r her ariannol yma'n parhau.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Mae gwerth £95,000 o waith cynnal a chadw angenrheidiol wedi ei adnabod ar gyfer adeilad Ysgol Nebo. Ni fyddai'r opsiwn yma'n ymateb i'r her yma.

8.8 Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol

Cynigiwyd yr opsiwn hwn yn ystod y trafodaethau lleol. Yn benodol, bu i'r Corff Llywodraethol gynnig yr opsiwn a ganlyn:

“Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.”

Dehonglwyd yr opsiwn yma fel y byddai Ysgol Nebo yn parhau, ond byddai hefyd yn golygu ychwanegu ardal ar gyfer uned ADY ar safle'r ysgol er mwyn cynnig addysg arbennig i'r plant fyddai angen cefnogaeth ychwanegol.

Gan y byddai angen addasu adeilad yr ysgol i ddarparu lleoliad ar gyfer yr uned arbenigol, mi fyddai capasiti'r ysgol yn debygol o leihau ac felly rhagwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at leihad mewn llefydd gweigion.

Fodd bynnag, mae niferoedd Ysgol Nebo wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 11 dysgwr (Derbyn – Bl.6) ac 1 dysgwr rhan amser (Meithrin) ar y gofrestr. Gan y byddai dysgwyr yr uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned ADY ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd Ysgol Nebo yn parhau'n isel, ac ni ragwelir y byddai'n ymateb i'r heriau y mae'r ysgol yn eu hwynebu, fel y nodir yn adran 5.2 (uchod).

Yn dilyn pwysu a mesur manteision ac anfanteision yr opsiwn yma ar gyfer Ysgol Nebo, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn yma'n ymateb yn ddigonol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir yn adran 5.2 uchod, gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion – Er y byddai leihad yn nghapasiti a llefydd gweigion yr ysgol yn sgil lleoli'r uned ADY o fewn adeilad Ysgol Nebo, gan y byddai dysgwyr yr uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned ADY ar safle'r ysgol yn effeithio ar niferoedd Ysgol Nebo. O ganlyniad, rhagwelir y byddai'r niferoedd yn parhau'n isel.
- Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran - Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 i Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Felly mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a hyd at 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth. Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd yn y niferoedd, byddai maint dosbarthiadau yn parhau'n fach gydag amrediad oedran eang.

- Adnoddau ariannol – Yn 2025-26 mae Ysgol Nebo wedi derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol (£70,694) ac mae cyfartaledd cost fesul dysgwr (£25,876) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol (£5,780). Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar niferoedd dysgwyr yr ysgol, rhagwelir y byddai'r her ariannol yma'n parhau.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Mae gwerth £95,000 o waith cynnal a chadw angenrheidiol wedi ei adnabod ar gyfer adeilad Ysgol Nebo. Ni fyddai'r opsiwn yma'n ymateb i'r her yma.

8.9 Ysgol Nebo yn cynnig uned iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle

Byddai'r opsiwn yma'n golygu y byddai Ysgol Nebo yn parhau, ond byddai hefyd yn golygu ychwanegu uned drochi iaith ar safle'r ysgol er mwyn cynnig gwasanaeth trochi yn y Gymraeg i siaradwyr newydd.

Gan y byddai angen addasu adeilad yr ysgol i ddarparu lleoliad ar gyfer yr uned/canolfan iaith, byddai capasiti'r ysgol yn debygol o leihau ac felly rhagwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at leihad mewn llefydd gweigion.

Fodd bynnag, mae niferoedd Ysgol Nebo wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 11 dysgwr (Derbyn – Bl.6) ac 1 dysgwr rhan amser (Meithrin) ar y gofrestr. Gan y byddai dysgwyr yr uned/ganolfan iaith yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys canolfan iaith ar safle'r ysgol yn effeithio ar niferoedd Ysgol Nebo. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd Ysgol Nebo yn parhau'n isel, ac ni ragwelir y byddai'n ymateb i'r heriau y mae'r ysgol yn eu hwynebu, fel nodir yn adran 5.2 (uchod).

Yn dilyn pwysu a mesur manteision ac anfanteision yr opsiwn yma ar gyfer Ysgol Nebo, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn yma'n ymateb yn ddigonol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir yn adran 5.2 uchod, gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion – Er y byddai lleihad yn nghapasiti a llefydd gweigion yr ysgol yn sgil lleoli'r uned/canolfan iaith o fewn adeilad Ysgol Nebo, gan y byddai dysgwyr yr uned iaith yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned iaith ar safle'r ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel.
- Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran – Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 i Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Felly mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a hyd at 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth. Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd yn y niferoedd, byddai maint dosbarthiadau yn parhau yn fach gydag amrediad oedran eang.
- Adnoddau ariannol – Yn 2025-26 mae Ysgol Nebo wedi derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol (£70,694) ac mae cyfartaledd cost fesul dysgwr (£25,876) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol (£5,780). Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar niferoedd dysgwyr yr ysgol, rhagwelir y byddai'r her ariannol yma'n parhau.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Mae gwerth £95,000 o waith cynnal a chadw angenrheidiol wedi ei adnabod ar gyfer adeilad Ysgol Nebo. Ni fyddai'r opsiwn yma'n ymateb i'r her yma.

8.10 Sefydlu ysgol aml-safle, gan barhau efo safle Ysgol Nebo

Byddai'r opsiwn yma'n golygu uno nifer o ysgolion lleol, drwy gau'r ysgolion a sefydlu un ysgol aml-safle fyddai'n cynnwys safle Ysgol Nebo. Byddai'r opsiwn yn galluogi'r posibilrwydd o rannu adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb safle ysgol ym mhentref Nebo trwy sefydlu ysgol aml-safle, dan arweiniad pennaeth ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu (newydd) yn cael ei ffurfio ar gyfer yr ysgol aml-safle.

O dan y model hwn, byddai goblygiadau staffio a all arwain at ansicrwydd a diswyddiadau. Byddai swyddi pob aelod o staff ym mhob un o'r ysgolion fyddai'n ffurfio rhan o'r ysgol aml-safle yn dod i ben. Byddai'r penodiadau newydd yn cael eu gwneud gan gorff llywodraethu cysgodol yr ysgol aml-safle newydd.

Mae niferoedd Ysgol Nebo wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gydag 11 dysgwr (Derbyn – Bl.6) ac 1 dysgwr rhan amser (meithrin) ar y gofrestr. Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n arwain at gynnydd yn niferoedd dysgwyr ar safle Ysgol Nebo.

Yn dilyn pwyso a mesur y manteision a'r anfanteision, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn yma'n ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir yn adran 5.2 uchod, gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion - Rhagwelir y byddai niferoedd dysgwyr ar safle Ysgol Nebo yn parhau'n isel (11 Derbyn - Blwyddyn 6 ac 1 Meithrin) ynghyd â llefydd gweigion sylweddol (78%).
- Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran – Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 i Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Felly mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a hyd at 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth. Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd yn niferoedd y dysgwyr ar safle Ysgol Nebo, mae'n debygol y byddai dosbarthiadau bach yn parhau yn safle Nebo gydag ystod oedran eang o fewn y dosbarthiadau.
- Adnoddau ariannol – Byddai sefydlu ysgol aml-safle yn golygu sefydlu un ysgol aml-safle, gydag un dyraniad ar gyfer yr holl safleoedd. Rhagwelir y byddai safle Ysgol Nebo yn parhau i dderbyn swm ychwanegol i'r dyraniad craidd trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio gan y byddai niferoedd dysgwyr safle Ysgol Nebo yn parhau i fod yn isel.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Mae gwerth £95,000 o waith cynnal a chadw angenrheidiol wedi ei adnabod ar gyfer adeilad Ysgol Nebo. Gan y byddai safle Ysgol Nebo yn parhau, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn ymateb i'r her yma.

9. ASESIADAU EFFAITH – RHAGDYBIAETH YN ERBYN CAU YSGOLION GWLEDIG

Yn ogystal â'r ffactorau sy'n berthnasol wrth ddatblygu unrhyw gynnig, mae'n ofynnol hefyd cynnal asesiadau penodol mewn perthynas â chynnig arfaethedig o'r math yma. Cynhaliwyd nifer o asesiadau yn unol â gofynion y Cod o'r opsiynau o dan ystyriaeth. Mae'r asesiadau llawn i'w gweld yn **Atodiad 2**, ac mae crynodeb o'r asesiadau hyn i'w gweld yn y tabl isod:

Opsiwn	Asesiad o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg	Asesiad o'r effaith tebygol ar wahanol drefniadau teithio	Asesiad o'r effaith tebygol ar y gymuned
Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol	Niwtral – Dim newid	Niwtral – Dim newid Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	Niwtral – Dim newid Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo.
Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos	Niwtral/Rhannol bositif – Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Nebo Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	Niwtral Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol. Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo.

Ffederaiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo	Niwtral/Rhannol bositif – Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Nebo Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i gefnogi dysgwyr gydag ADY. Rhagwelir y byddai'n cael effaith bositif ar y meini prawf 'Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol'	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY.	Niwtral Posiblirwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol. Cadw'r ysgol fel adnodd cymunedol ym mhentref Nebo.
Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos	Rhannol bositif Nodai'r asesiad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Llanllyfni yn cyfateb i safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Nebo Gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni, rhagwelir y bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy, gyda chyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu dysgwyr dalgylch Nebo yn Ysgol Llanllyfni.	Negyddol Byddai angen darparu cludiant i ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo i Ysgol Llanllyfni, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd. Rhagwelir costau cludiant ychwanegol – amcan gost, £17,000-£30,000 y flwyddyn. Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	Niwtral/Rhannol Negyddol Arwain at golli ysgol ac adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. Defnydd cymunedol helaeth o adeilad Ysgol Nebo gan y gymuned. I liniaru'r effaith ar y gymuned, nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Nebo yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Llanllyfni a chymuned Nebo, lle'n briodol. Nodir fod cyfran helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni, ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Llanllyfni a chymuned Ysgol Nebo yn bodoli eisoes
Ysgol Nebo yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i	Niwtral Rhagwelir y byddai safon yr addysg yn Ysgol Nebo yn parhau, ond gan nad oes model cyffelyb yn bodoli yn y cynradd o ran safle arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol, nid oes modd asesu ei effaith	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.	Niwtral Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo.

gyflawni gwaith maes)	yn erbyn ansawdd addysg, felly niwtral yw'r effaith.	Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai ystyriaethau teithio ehangach petai safle Ysgol Nebo yn leoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau.	
Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol	Niwtral/Rhannol bositif Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Nebo Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i gefnogi dysgwyr gydag ADY. Rhagwelir y byddai'n cael effaith bositif ar y meini prawf 'Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol'.	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	Niwtral – Dim newid i'r ddarpariaeth yn Ysgol Nebo Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo.
Ysgol Nebo yn cynnig Uned/Canolfan Iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle	Niwtral - Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Nebo Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i ddarparu gwasanaeth penodol ar gyfer hwyrdyfodiaid mewn Canolfan Iaith ar safle'r ysgol.	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned iaith.	Niwtral – Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo.
Ysgol aml-safle – gan barhau efo safle Ysgol Nebo	Niwtral/ Rhannol bositif – Dim effaith ar y ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo Cyfle i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu ar safle Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Yn ddibynnol ar strwythur yr ysgol newydd, mae posibilrwydd y bydd angen	Niwtral – dim effaith ar y ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo.

		trefnu cludiant rhwng ysgolion.	

10. YR OPSIWN A FFAFRIR

10.1 O'r opsiynau a ystyriwyd, yr opsiwn a gaiff ei ffafrio ar gyfer ymgynghoriad pellach yw'r opsiwn i gau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni)

10.2 Caiff yr opsiwn hwn ei ffafrio am y rhesymau a ganlyn:

10.3 Niferoedd dysgwyr a lefydd gweigion

10.3.1 Yn Medi 2025 roedd 11 o ddysgwyr Derbyn – Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr oed Meithrin yn mynychu Ysgol Nebo. O ganlyniad, mae gan Ysgol Nebo 40 (78%) o lefydd gweigion yn yr ysgol (Derbyn – Blwyddyn 6). Wrth gynnwys capasiti a niferoedd Meithrin yr ysgol, mae gan Ysgol Nebo 46 (79%) o lefydd gweigion.

10.3.2 Mae niferoedd dysgwyr yr ysgol wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf o 23 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6, a 3 dysgwr Meithrin yn Medi 2015 i 11 dysgwr Derbyn - Bl.6 ac 1 dysgwr Meithrin yn Medi 2025, sef gostyngiad o oddeutu 54%.

10.3.3 Yn ôl y rhagamcanion a grëwyd yn Medi 2025, rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau'n isel dros y dair blynedd nesaf. Gwelir isod niferoedd Medi 2025 a rhagamcanion niferoedd Ysgol Nebo ar gyfer Medi 2026-28.

	M	D	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm D-B.6
Niferoedd Medi 2025	1	1	2	1	1	3	3	0	11
Rhagamcanion Medi 2026	2	1	1	2	1	1	3	3	12
Rhagamcanion Medi 2027	2	2	1	1	2	1	1	3	11
Rhagamcanion Medi 2028	2	2	2	1	1	2	1	1	10

10.3.4 Yn Medi 2025 roedd 59 o ddysgwyr (Derbyn – Blwyddyn 6) a 13 o ddysgwyr oed Meithrin yn mynychu Ysgol Llanllyfni. Yn ôl y rhagamcanion Medi 2025, rhagwelir y bydd 72 o ddysgwyr Derbyn i Blwyddyn 6 a 11 o ddysgwyr Meithrin yn Ysgol Llanllyfni ym Medi 2028.

10.3.5 Mae gan Ysgol Llanllyfni gapasiti o 103 (Derbyn - Bl. 6), sy'n golygu fod gan Ysgol Llanllyfni 44 o lefydd gweigion. Wrth gynnwys capasiti a niferoedd Meithrin yr ysgol, mae 45 o lefydd gweigion yn Ysgol Llanllyfni.

10.3.6 Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) Llywodraeth Cymru yn nodi fod "gormod o leoedd gwag, y gellid eu dileu, yn golygu bod adnoddau'n cael eu gwastraffu'n ddiangen. Diffinnir lefel sylweddol o ddarpariaeth dros ben fel 25% neu fwy o gapasiti ysgol". O ganlyniad i'r niferoedd isel, mae 78% (40 mewn nifer) o lefydd gweigion (D-Bl.6) yn Ysgol Nebo.

10.3.7 Wrth ystyried capasiti Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni ar y cyd (sef capasiti o 154 Derbyn i Bl.6 a 175 Meithrin – Bl.6), rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo a throsglwyddo dysgwyr y dalgylch i Ysgol Llanllyfni yn lleihau'r cyfanswm nifer o lefydd gweigion yn ardal dalgylch Ysgol

Nebo ac ardal dalgylch Ysgol Llanllyfni o 84 (55%) i 33 (32%) (Derbyn – Bl.6), ac o 91 (52%) i 33 (28%) wrth ystyried niferoedd a capasiti'r Meithrin.

10.4 **Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran**

Fel y gwelir o'r tabl isod, mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 i Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Felly mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a hyd at 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth.

	Blwyddyn								
Ysgol	Meithrin	0	1	2	3	4	5	6	Cyfartaledd maint dosbarthiadau
Nebo	1	1	2	1	1	3	3	0	6
Dosbarthiadau	6					6			
Llanllyfni	13	12	10	8	5	6	9	9	18
Dosbarthiadau	13	22		19			18		

Fel y gwelir o'r tabl uchod mae 4 dosbarth yn Ysgol Llanllyfni (Medi 2025). Cyfartaledd maint dosbarthiadau Ysgol Llanllyfni yw 18 .

O ganlyniad, rhagwelir y byddai trosglwyddo dysgwyr i Ysgol Llanllyfni yn golygu fod y plant yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau maint mwy hyfyw, a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran.

10.5 **Ffactorau daearyddol a theithio**

10.5.1 Nodir yn y Strategaeth “Addysg Gynradd o’r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd” y dylid ceisio cyfyngu teithio i uchafswm o 30 munud o deithio unffordd rhwng y cartref a’r ysgol. O weithredu’r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai pob dysgwr presennol y dalgylch o fewn cyrraedd rhesymol (llai na 30 munud o deithio) i’r ysgol amgen, sef Ysgol Llanllyfni.

10.5.2 Pe byddai’r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu byddai disgyblion sy’n byw o fewn dalgylch presennol Ysgol Nebo yn cael cynnig cludiant i Ysgol Llanllyfni yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion y Sir. Rhagwelir y byddai cost cludiant oddeutu £17,000-£30,000 y flwyddyn.

10.6 **Adnoddau Ariannol**

10.6.1 Yn sgil niferoedd isel o ddysgwyr yn Ysgol Nebo nid yw’r dyraniad ar sail y dysgwyr yn ddigonol i allu cynnal yr ysgol. O ganlyniad, mae Ysgol Nebo yn derbyn swm ychwanegol i’r dyraniad craidd trwy’r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio (sy’n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ymhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Dyrannwyd cyllid ychwanegol o £70,694 i Ysgol Nebo eleni (2025-26) trwy’r Polisi Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio.

10.6.2 Mae dyraniad Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni ar gyfer y flwyddyn 2025-26, wedi eu selio ar niferoedd Medi 2024 a gellir gweld y symiau y mae’r 2 ysgol yn eu derbyn isod:

Ysgol	Sail dyraniad (Niferoedd Medi 2024)			Dyraniad craidd	Dyraniad cyllidol ychwanegol (Polisi Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio)	Cyfanswm	£ y dysgwr
	M	CS	CA2				

Nebo	0	4	4	£136,242	£70,694	£206,936	£25,867
Llanllyfni	11	28	37	£402,831	-	£402,831	£5,768
Cyfanswm	11	32	41	£539,073	£70,694	£609,767	-

10.6.3 Mae'r gost fesul dysgwr yn Ysgol Nebo yn £25,867 a'r gost fesul dysgwr yn Ysgol Llanllyfni yn £5,768 (Cyllideb 2025-26, sy'n seiliedig ar niferoedd Medi 2024). Cyfartaledd Sirol cost y dysgwr cynradd ar gyfer yr un cyfnod yw £5,780. Golyga hyn fod y gost fesul dysgwr yn Ysgol Nebo £20,087 yn uwch na'r cyfartaledd sirol am yr un cyfnod.

10.6.4 Dyrannwyd cyfanswm o £609,797 i'r ddwy ysgol yn y flwyddyn ariannol 2025-26. Nid yw Ysgol Llanllyfni yn derbyn swm ychwanegol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio. Mae niferoedd dysgwyr presennol yr ysgol yn denu cyllideb ddigonol i gynnal lefelau staffio priodol.

10.6.5 O safbwynt costau refeniw, pe gweithredir y cynnig, a pe byddai holl ddysgwyr Ysgol Nebo yn trosglwyddo i Ysgol Llanllyfni, yn seiliedig ar gyllideb 2025-26 (sy'n seiliedig ar niferoedd dysgwyr Medi 2024):

- rhagwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn creu arbediad blynyddol o £146,000, llai amcan gostau anghenion cludiant ychwanegol (hyd at £30,000) - sef cyfanswm o oddeutu £116,000 y flwyddyn.
- rhagwelir y byddai cyllideb dyraniad craidd Ysgol Llanllyfni yn cynyddu i £457,000, a'r gost y fesul dysgwr yn £5,874.

10.6.6 Pe gweithredir y cynnig, a pe byddai holl ddysgwyr Ysgol Nebo yn trosglwyddo i Ysgol Llanllyfni, yn seiliedig ar amcangyfrif o gyllideb 2026-27, sef blwyddyn gweithredu'r cynnig arfaethedig (sy'n seiliedig ar ragamcanion niferoedd dysgwyr a ddarparwyd gan benaethiaid yr ysgolion yn Medi 2024):

- rhagwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn creu arbediad blynyddol o £143,000, llai costau anghenion cludiant ychwanegol (hyd at £30,000) - sef cyfanswm o oddeutu £113,000 y flwyddyn.
- rhagwelir y byddai cyllideb dyraniad craidd Ysgol Llanllyfni yn cynyddu i £468,000 a'r gost fesul dysgwr yn £5,798.

10.6.7 Bydd unrhyw arbedion mewn costau refeniw yn cael eu cadw ym maes Ysgolion Gwynedd.

10.6.8 Noder nad oes costau cyfalaf ynghlwm â'r cynnig arfaethedig.

10.7 Arweinyddiaeth a Staffio

10.7.1 Mae strwythur staffio presennol Ysgol Nebo yn cynnwys pennaeth strategol rhan amser (cyfwerth â 0.2 llawn amser) pennaeth mewn gofal 0.8, athrawes 0.2, 2 gymhorthydd, goruchwyliwr amser cinio a chlerc llywodraethwyr. Mae gan y pennaeth ymrwymiad dysgu cyfwerth â 4.5 diwrnod.

10.7.2 Yn Ysgol Llanllyfni, ceir 1 pennaeth, 2 athro/athrawes llawn amser, 1 athro/athrawes rhan amser, 3 cymhorthydd, swyddog clerigol rhan amser, a goruchwyliwr amser cinio rhan amser. Mae gan y pennaeth ymrwymiad dysgu 50% o'r amser (2.5 diwrnod) ac yn derbyn 2.5 diwrnod di gyswllt ar gyfer materion rheolaethol ac arweinyddiaeth.

10.8 Y Gymuned

10.8.1 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith cymunedol fel rhan o unrhyw gynnydd i ad-drefnu ysgolion. Cwblhawyd asesiad effaith cymunedol ar y rhestr o opsiynau a nodir ym mharagraff 6.3. **Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad 2.**

10.8.2 Dengys yr asesiad y rhagwelir peth effaith negyddol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Nebo. Cydnabyddir y byddai cau Ysgol Nebo yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nebo, fodd bynnag nodai'r asesiad fod cyfran helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion

eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni, ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Llanllyfni a chymuned Ysgol Nebo yn bodoli eisoes.

- 10.8.3 Pe byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo yn cael ei wireddu, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Llanllyfni. I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Nebo yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Llanllyfni a chymuned Nebo, lle'n briodol.
- 10.8.4 Pe byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo yn cael ei wireddu, bydd yn hanfodol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen (Ysgol Llanllyfni) a rhieni dysgwyr Ysgol Nebo fel bod modd i rieni a dysgwyr fanteisio ar eu cyfleusterau ac unrhyw weithgareddau ar ôl ysgol.
- 10.8.5 Yn ogystal, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.

10.9 Yr Iaith Gymraeg

- 10.9.1 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg fel rhan o unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion. Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad 2.
- 10.9.2 Nodir yn yr asesiad effaith na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg drwy wireddu'r cynnig arfaethedig, yn bennaf gan:
- fod ystadegau PLASC Ionawr 2025 yn dangos fod 54% o ddysgwyr Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref ac 80% o ddysgwyr Ysgol Llanllyfni
 - y byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.
 - y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion.

Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

10.10 Ansawdd a safonau addysg

- 10.10.1 Cynhaliwyd asesiad o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg ar yr holl opsiynau a nodir yn adran 7 (uchod). **Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad 2.**
- 10.10.2 Yn ôl adroddiadau diweddaraf Estyn, mae Ysgol Llanllyfni yn cynnig addysg o ansawdd a safon sy'n gyfatebol ag Ysgol Nebo.
- 10.10.3 Cafodd Ysgol Nebo ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn 2017, ble daethpwyd i'r casgliad mai 'Da' oedd perfformiad presennol yr ysgol. Bu i Ysgol Llanllyfni gael ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn 2017, ble daethpwyd i'r casgliad fod perfformiad presennol yr ysgol yn erbyn y 3 meini prawf yn 'Dda'.
- 10.10.4 Gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni, rhagwelir y bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy, gyda chyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau pe gweithredir y cynnig arfaethedig. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu dysgwyr dalgylch Nebo yn Ysgol Llanllyfni.
- 10.10.5 O ganlyniad, rhagwelir mai rhannol bositif fyddai'r effaith tebygol o safbwynt ansawdd a safonau addysg i ddysgwyr yn deillio o'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni.

10.11 Cyflwr ac addasrwydd adeiladau

10.11.1 Nodai asesiad cyflwr diweddaraf yr Awdurdod fod cyflwr adeilad Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni yn 'B'.


10.11.2 Mae gwerth £95,000 o waith cynnal a chadw angenrheidiol wedi ei adnabod yn adeilad Ysgol Nebo.

11. GOBLYGIADAU'R CYNNIG


11.1 Dalgylchoedd mynediad i Ysgolion

11.1.1 Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, byddai dalgylch Ysgol Llanllyfni yn cael ei addasu i gynnwys ardal dalgylch presennol Ysgol Nebo.

Map 1: Dalgylchoedd presennol Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni



Map 2: Dalgylch Ysgol Llanllyfni os gweithredir y cynnig arfaethedig



11.2 Cludiant

11.2.1 Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu byddai dysgwyr sy'n byw o fewn dalgylch presennol Ysgol Nebo yn cael cynnig lle yn Ysgol Llanllyfni ac yn derbyn cludiant yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion y Sir. Rhagwelir y byddai cost blynyddol cludiant oddeutu £17,000-£30,000.

11.3 Ystyriaethau Staffio

11.3.1 Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai goblygiadau staffio allasai arwain at ddiswyddiadau. Ymgynghorir yn benodol â staff a chynrychiolwyr yr Undebau fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol. Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau fyddai'n deillio o'r cynnig hwn gyd-fynd â'r polisi hwnnw. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion.

12. **YSTYRIAETHAU ERAILL**

12.1.1 Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018

12.1.2 Bydd unrhyw broses statudol yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018).

12.1.3 Asesiad effaith cydraddoldeb

12.1.4 Cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ar y cynnig arfaethedig. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad 2.

12.1.5 Mae'r asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod polisiâu a threfniadau mewn lle a fyddai'n sicrhau bod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal.

12.1.6 Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol, deuir i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar nodweddion cydraddoldeb. Nodir fod mesurau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol nac aflonyddu.

12.1.7 Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn lleihau'r anghyfartaledd yn achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau bod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at ragor o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen. Byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd mwy cyfartal gan y byddai'r dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sy'n seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

12.1.8 Drwy weithredu'r cynnig arfaethedig, byddai dysgwyr Ysgol Nebo yn cael gwell amgylchedd dysgu a byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

12.1.9 Byddai'r Cyngor yn dilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth pob ysgol â'r nodweddion cydraddoldeb.

12.1.10 Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

12.1.11 Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf Llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf Llesiant ac amcanion Llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig arfaethedig yn cwrdd â'r gofynion. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad 2.

12.1.12 Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig arfaethedig hwn, y byddai'r cynnig arfaethedig yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nebo. Fodd bynnag mae cyfran helaeth o'r plant

sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni, ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgolion a chymuned yr ysgol honno yn bodoli eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Llanllyfni, pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Llanllyfni yn cynnwys y gymuned lle'n briodol.

13. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 13.1 Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu cefnogi'r argymhelliad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn bydd angen cynnal cyfnod o ymgynghori statudol yn unol â'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a chanllawiau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Rhagwelir y byddai'r cyfnod ymgynghori hwnnw yn cael ei gynnal cyn diwedd tymor yr Hydref.
- 13.2 Wedi hynny, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r ymgynghoriad. Bydd yn ofynnol wedyn i'r Cabinet ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad, a phenderfynu a ddylid cyhoeddi Rhybudd Statudol ar y cynnig ai peidio. Pe byddai Rhybudd Statudol yn cael ei gyhoeddi, caniateir cyfnod o 28 diwrnod i unrhyw un gyflwyno gwrthwynebiad i'r cynnig, sef y 'Cyfnod Gwrthwynebu'. Yn dilyn hyn, cyflwynir adroddiad pellach i'r Cabinet am benderfyniad terfynol. Bydd yr adroddiad hwnnw'n cynnwys crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd ynghyd ag ymatebion y Cyngor iddynt.

14 Atodiadau

Atodiad 1: Tabl Gwerthusiad Opsiynau

Atodiad 2: Asesiadau Effaith:

- Asesiad Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg
- Asesiad Effaith debygol ar drefniadau teithio
- Asesiad Effaith debygol ar y Gymuned
- Asesiad Effaith leithyddol
- Asesiad Llesiant
- Asesiad Cydraddoldeb

Atodiad 3: Pecyn cefndirol gan gynnwys cyflwyniadau a chofnodion y cyfarfodydd lleol.

Atodiad 4: Sylwadau'r Aelod Lleol

15 Barn y swyddogion statudol

Y Swyddog Monitro:

"Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destun cyngor gan y Gwasanaethau Cyfreithiol. Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

Y Pennaeth Cyllid:

"O safbwynt ariannol, mae'n amlwg nad yw sefyllfa bresennol Ysgol Nebo yn gynaliadwy, o ystyried fod 78% o lefydd yr ysgol yn wag. Mae'r adroddiad yn dangos fod asesiad wedi ei gynnal o'r opsiynau sydd ar gael, ac rwyf yn fodlon â chadernid yr amcangyfrifon ariannol sydd wedi eu nodi ynddo. Rwyf felly'n cefnogi'r penderfyniad a geisir"

Gwerthusiad Opsiynau - Ysgol Nebo

Allwedd: Glas - manteision Coch - anfanteision Du – sylwadau

	Dim newid – parhau gyda’r sefyllfa bresennol	Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos	Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo	Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i’r dysgwyr mewn ysgol gyfagos, sef Ysgol Llanllyfni	Ysgol Nebo yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes)	Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol	Ysgol Nebo yn cynnig Uned/Canolfan Iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle	Ysgol aml-safle – gan barhau efo safle Ysgol Nebo
Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Nebo (Niferoedd Medi 2025: 11 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin). Nifer llefydd gweigion yn parhau yn uchel (40 o lefydd gweigion (78%) Derbyn – Blwyddyn 6; 46 o lefydd gweigion (79%) Meithrin – Blwyddyn 6) Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau’n isel dros y blynyddoedd nesaf.	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Nebo (Niferoedd Medi 2025: 11 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin). Nifer llefydd gweigion yn parhau yn uchel (40 o lefydd gweigion (78%) Derbyn – Blwyddyn 6; 46 o lefydd gweigion (79%) Meithrin – Blwyddyn 6) Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau’n isel dros y blynyddoedd nesaf. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd.	Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd ysgol. Rhagwelir y byddai niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Nebo. Gan y byddai dysgwyr yr uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned ADY ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau’n isel (Niferoedd Medi 2025: 11 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin). Gan y byddai angen addasu’r adeilad i ddarparu lleoliad ar gyfer yr uned arbenigol, mi fyddai capasiti yr ysgol yn debygol o leihau a felly bydd llai o lefydd gweigion Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau’n isel dros y blynyddoedd nesaf.	Mae niferoedd Ysgol Llanllyfni yn sefydlog gyda 59 o ddysgwyr Derbyn i Bl.6 ac 12 o ddysgwyr Meithrin ar y gofrestr (Medi 2025). Cyfradd llai o lefydd gweigion yn y dalgylch	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Nebo (Niferoedd Medi 2025: 11 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin). Nifer llefydd gweigion yn parhau yn uchel (40 o lefydd gweigion (78%) Derbyn – Blwyddyn 6; 46 o lefydd gweigion (79%) Meithrin – Blwyddyn 6) Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau’n isel dros y blynyddoedd nesaf.	Gan y byddai dysgwyr yr uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys Uned ADY ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau’n isel (Niferoedd Medi 2025: 11 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin). Gan y byddai angen addasu’r adeilad i ddarparu lleoliad ar gyfer yr uned arbenigol, mi fyddai capasiti yr ysgol yn debygol o leihau ac felly bydd llai o lefydd gweigion Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf.	Gan y byddai angen addasu’r adeilad er mwyn cynnig lleoliad addas i’r Ganolfan Iaith, mi fydd capasiti’r ysgol yn debygol o leihau ac felly byddai lleihad yn y nifer o lefydd gweigion Gan y byddai dysgwyr y ganolfan iaith yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys canolfan iaith ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau’n isel Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau yn isel dros y blynyddoedd nesaf.	Gyda ond 11 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6, ac 1 dysgwr oed Meithrin yn mynychu Ysgol Nebo (Medi 2025), rhagwelir na fyddai sefydlu ysgol aml-safle yn arwain at gynnydd yn niferoedd safle Ysgol Nebo. Gan na ragwelir cynnydd yn y niferoedd, rhagwelir y byddai’r nifer fawr o lefydd gweigion, sef lle i 46 o ddysgwyr (79%), yn parhau. Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau’ n isel dros y blynyddoedd nesaf.
Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran	Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 i blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd. Maint dosbarthiadau Ysgol Nebo felly yn	Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 i blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn	Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 i blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai lleoli uned ADY ar safle’r ysgol, nac ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. Maint dosbarthiadau Ysgol Nebo felly yn debygol o	Dysgwyr i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas. Mae dysgwyr Ysgol Llanllyfni yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas o rhwng 18 a 22 (Medi 2025). Mae 3 dosbarth gyda oedrannau cymysg yn Ysgol Llanllyfni, ynghyd â dosbarth Meithrin.	Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 i blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd. Maint dosbarthiadau Ysgol Nebo felly yn debygol o barhau yn fach. Mae amrediad oedran o hyd at 5	Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai lleoli uned ADY ar safle’r ysgol yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. Rhagwelir felly y byddai niferoedd dysgwyr yr ysgol yn parhau’n isel. Maint dosbarthiadau Ysgol Nebo felly yn debygol o barhau yn fach. Mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth.	Gan y byddai dysgwyr y ganolfan iaith yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned iaith ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau’n isel. Maint dosbarthiadau Ysgol Nebo felly yn debygol o barhau yn fach. Mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth.	Gan na ragwelir y byddai’r opsiwn yma’n arwain at gynnydd yn y niferoedd, rhagwelir y byddai maint dosbarthiadau ar safle Ysgol Nebo yn parhau’n fach, gydag amrediad oedran eang.

	debygol o barhau yn fach. Mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth.	niferoedd. Maint dosbarthiadau Ysgol Nebo felly yn debygol o barhau yn fach. Mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth.	barhau yn fach. Mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth.		mlynedd yn un dosbarth a 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth.			
Adnoddau Ariannol	Ysgol Nebo wedi derbyn swm dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £70,694 yn 2025-26 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau’n uchel (£25,876 y dysgwr) – sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol o £5,78. Cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau’n uchel (£25,876 y dysgwr) – sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol o £5,78.	Ysgol Nebo wedi derbyn swm dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £70,694 yn 2025-26 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau’n uchel (£25,876 y dysgwr) – sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol o £5,78 Cyfle i wneud arbedion drwy rannu adnoddau a chyflogi staff ar draws y ffederasiwn wrth benodi yn y dyfodol.	Byddai costau cludiant ynghlwm â lleoli Uned ADY yn Ysgol Nebo. Rhagwelir cost cyfalaf sylweddol i addasu’r adeilad. Byddai angen ffynhonnell ariannol (refeniw) ychwanegol i ariannu’r Uned ADY Ysgol Nebo wedi derbyn swm dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £70,694 yn 2025-26 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau’n uchel (£25,876 y dysgwr) – sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol o £5,78. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Ni ragwelir y byddai lleoli uned ADY ar safle’r ysgol na ffederaleiddio yn ymateb i'r her ariannol yma.	Tynnu ysgol o’r rhwyd gwarchodaeth lleiafswm staffio a dim angen am ddyraniad gwarchodaeth yn yr ysgol amgen. Bydd cost fesul dysgwr yn agosach at y cyfartaledd sirol. Mae’n debygol o arwain at gynnydd yng nghostau cludiant i’r Awdurdod.	Ysgol Nebo wedi derbyn swm dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £70,694 yn 2025-26 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau’n uchel (£25,876 y dysgwr) – sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol o £5,78.	Byddai costau cludiant ynghlwm â lleoli Uned ADY yn Ysgol Nebo. Rhagwelir cost cyfalaf sylweddol i addasu’r adeilad. Byddai angen ffynhonnell ariannol (refeniw) ychwanegol i ariannu’r Uned ADY. Ysgol Nebo wedi derbyn swm dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £70,694 yn 2025-26 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau’n uchel (£25,876 y dysgwr) – sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol o £5,78. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Ni ragwelir y byddai lleoli uned ADY ar safle’r ysgol yn ymateb i'r her ariannol yma.	Byddai costau cludiant ynghlwm â lleoli Uned laith yn Ysgol Nebo. Rhagwelir cost cyfalaf sylweddol i addasu’r adeilad. Byddai angen ffynhonnell ariannol (refeniw) ychwanegol i ariannu’r Ganolfan laith. Ysgol Nebo wedi derbyn swm dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £70,694 yn 2025-26 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Cyfartaledd cost y dysgwr yn parhau’n uchel (£25,876 y dysgwr) – sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol o £5,78. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Ni ragwelir y byddai lleoli Canolfan laith ar safle’r ysgol yn ymateb i'r her ariannol yma.	Bydd uno ysgolion yn golygu sefydlu un ysgol aml-safle, gydag un dyraniad ar gyfer yr holl safleoedd. Rhagwelir y byddai safle Nebo yn parhau i dderbyn swm ychwanegol i’r dyraniad craidd trwy’r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio gan y byddai niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo yn parhau i fod yn isel.
Arweinyddiaeth a Staffio	Swyddi presennol Ysgol Nebo yn parhau Mae’r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Mae’r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Yn sgil strwythur staffio’r ysgol mae’r Pennaeth yn gorfod	Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. Mae’r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Mae’r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Yn sgil strwythur staffio’r ysgol mae’r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o’r amser.	Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. Mae’r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Mae’r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Yn sgil strwythur staffio’r ysgol mae’r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o’r amser.	Mae strwythur staffio Ysgol Llanllyfni yn sicrhau athrawon ym mhob dosbarth a’n caniatáu mwy amser digyswllt i’r Pennaeth o’i gymharu ag Ysgol Nebo. Byddai arwain at ddiswyddo staff yn Ysgol Nebo.	Swyddi presennol Ysgol Nebo yn parhau Mae’r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Mae’r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Yn sgil strwythur staffio’r ysgol mae’r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o’r amser.	Swyddi presennol Ysgol Nebo yn parhau Mae’r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Mae’r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Yn sgil strwythur staffio’r ysgol mae’r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o’r amser.	Swyddi presennol Ysgol Nebo yn parhau Mae’r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Mae’r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Yn sgil strwythur staffio’r ysgol mae’r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o’r amser.	Byddai yna resymoli arweinyddiaeth yn yr opsiwn yma, ond gan na fyddai yna effaith ar niferoedd dysgwyr y safleoedd, byddai strwythur staffio presennol Ysgol Nebo yn parhau, gyda phennaeth safle (yn hytrach na phennaeth) a chymhorthydd.

	dysgu mwyafrif o'r amser. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.	Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.	Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.		Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.	Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.	Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.	
			Cyfrifoldeb ychwanegol ar y pennaeth, gan y byddai'n gyfrifol am reolaeth safle'r uned.			Cyfrifoldeb ychwanegol ar y pennaeth, gan y byddai'n gyfrifol am reolaeth safle'r uned.	Cyfrifoldeb ychwanegol ar y pennaeth, gan y byddai'n gyfrifol am reolaeth safle'r uned.	
Ffactorau Daearyddol	Dim newid. Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch	Dim newid. Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch	Dim newid i ddysgwyr Ysgol Nebo Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch Bydd angen trefnu cludiant i blant i'r Uned ADY.	Bydd angen cynnig cludiant i dysgwr dalgylch Ysgol Nebo. Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent yn bresennol. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	Dim newid. Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch	Dim newid i ddysgwyr Ysgol Nebo Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch Bydd angen trefnu cludiant i blant i'r Uned ADY.	Dim newid i ddysgwyr Ysgol Nebo Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch Bydd angen trefnu cludiant i blant i'r Ganolfan Iaith.	Safle ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch Yn ddibynnol ar strwythur yr ysgol newydd mae posibilrwydd y bydd angen trefnu cludiant rhwng ysgolion.
Y Gymuned	Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Nebo	Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol. Cadw'r ysgol fel adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Nebo	Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol. Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Nebo	Pentref Nebo yn colli ysgol. Cymuned ehangach ble gall y plant a'r rhieni elwa ar greu cysylltiadau cryfach rhwng 2 cymuned cyfagos.	Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo. Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Nebo	Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Nebo	Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Nebo	Cadw safle ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nebo Cymuned ehangach ble gall y plant a'r rhieni elwa ar greu cysylltiadau cryfach rhwng cymunedau cyfagos. Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg ar safle Nebo
Yr Iaith Gymraeg	Dim newid - Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg	Dim newid – Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg	Dim newid – mae'r 2 ysgol yn ysgolion cyfrwng Cymraeg	Dim newid – mae Ysgol Llanllyfni yn ysgol cyfrwng Cymraeg	Dim newid - Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg	Dim newid - Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg	Dim newid – dysgwyr Ysgol Nebo yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg	Dim newid - Rhagwelir y byddai addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnig fel y sefyllfa bresennol.
Sylwadau ychwanegol wedi eu cynnig yn ystod/dilyn PAY1 a PAY2	Cryfderau/Cyfleon: - Cymhareb staff i ddysgwr yn gweithio'n dda yn Ysgol Nebo - Ymagwedd gynhwysol gadarn yn Ysgol Nebo - Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Nebo yn ganolog i bopeth - Dosbarthiadau bychan yn gyfle/gryfder - Ystod oedran eang yn gyfle i weithio gyda'u cyfoedion (helpu ei gilydd)	Cryfderau/Cyfleon: - Cymhareb staff i ddysgwr yn gweithio'n dda yn Ysgol Nebo - Ymagwedd gynhwysol gadarn yn Ysgol Nebo - Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Nebo yn ganolog i bopeth - Gweithgareddau cymunedol rhwng yr ysgol â'r gymuned.	Cryfderau/Cyfleon: - Cymhareb staff i ddysgwr yn gweithio'n dda yn Ysgol Nebo - Ymagwedd gynhwysol gadarn yn Ysgol Nebo - Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Nebo yn ganolog i bopeth - Grantiau ychwanegol i gyfarch gwelliannau ar gyfer dysgwyr gydag ADY - Gweithgareddau cymunedol rhwng yr ysgol â'r gymuned.	Gwendidau: - Dysgwyr i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy - Colli'r ymagwedd gynhwysol gadarn mae Ysgol Nebo yn ei gynnig i gefnogi iechyd a lles - Effaith negyddol ar les y dysgwyr presennol sydd yn Ysgol Nebo	Cryfderau/Cyfleon: - Cymhareb staff i ddysgwr yn gweithio'n dda yn Ysgol Nebo - Ymagwedd gynhwysol gadarn yn Ysgol Nebo - Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Nebo yn ganolog i bopeth - Dosbarthiadau bychan yn gyfle/gryfder - Model unigryw sydd yn gyfle i ddysgu mewn amgylchedd awyr agored - Cyfrannu'n gadarnhaol at les meddyliol ac emosiynol y dysgwyr - Potensial i wella iechyd a lles	Cryfderau/Cyfleon: - Cymhareb staff i ddysgwr yn gweithio'n dda yn Ysgol Nebo - Ymagwedd gynhwysol gadarn yn Ysgol Nebo - Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Nebo yn ganolog i bopeth - Dosbarthiadau bychan yn gyfle/gryfder - Cyfrannu'n gadarnhaol at les meddyliol ac emosiynol y dysgwyr - Gweithgareddau cymunedol rhwng yr ysgol a'r gymuned - Uwch-sgilio staff presennol Ysgol Nebo	Cryfderau/Cyfleon: - Maint dosbarthiadau bychain - Gweithgareddau cymunedol rhwng yr ysgol a'r gymuned.	

Tud. 60	Gweithgareddau cymunedol rhwng yr ysgol a'r gymuned.				- Cefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru - Ysgolion eraill ledled Gwynedd yn manteisio o'r cynnig - Potensial i ddatblygu cyfleuster sydd ar agor i'r cyhoedd tu allan i oriau ysgol – fyddai'n cynhyrchu incwm – cysylltu a chynlluniau adfywio'r ardal leol - Llawer o fanteision i ddysgu awyr agored gan gynnwys (i) cefnogi datblygiad holistaidd ac academiaidd (ii) cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol (iii) codi lles meddyliol (hybu cynhwysiant, cydraddoldeb, a dysgu gwell.	- Codi iechyd a lles dysgwyr - Cynyddu cyfleoedd addysgol i bobl ifanc gymryd rhan yn llawn yn yr ysgol - Mae niferoedd dosbarth llai yn hwyluso sylw a chynnydd addysgol wedi'i bersonoli - Lleddfu pwysau ar ysgolion eraill sy'n cael trafferth diwallu anghenion dysgwyr ledled y sir - Cost gymharol is o'i gymharu â chefnogi pobl ifanc mewn darpariaeth arbenigol - Mae adnoddau ysgol a chymunedol yn parhau ar agor - Ysgol o fewn pellter rhesymol o gartrefi dysgwyr yn nalgylch Dyffryn Nantlle gyfan. Hefyd yn eithaf canolog i ddalgylchoedd eraill cyfagos - Dysgwyr sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3 mewn ysgol fach sy'n arwain at gaffael iaith yn hyderus. - Llai o achosion o ymddygiadau negyddol fel bwlio, oherwydd ethos teuluol cryf, a phresenoldeb staff addysgu mewn amseroedd cymdeithasol megis amser cinio ac amser chwarae - Yn cysylltu â chynllunio strategol ar lefel y cyngor i ddiwallu anghenion dysgwyr yn y briff ffrwd, fel y nodwyd yng nghyfarfod Craffu Addysg a'r Economi ar 10 Ebrill 2025 - Arbedion ariannol cyffredinol o'i gymharu â chymorth 1:1 mewn darpariaeth arbenigol - Mae darpariaeth effeithiol i ddiwallu anghenion disgyblion yn gynnar yn lleihau costau yn y dyfodol a dibyniaeth ar wasanaeth eraill sydd yn y pen draw yn ddrytach		

						• Mae dosbarthiadau oedran cymysg yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol gwell • Dim gwariant sylweddol ar hyfforddi staff • Cyfle cyffrous i Gyngor Gwynedd arwain ar brosiect lles arloesol y gellir ei gyflwyno i ardaloedd eraill fel enghraifft o arfer enghreifftiol. • Potensial i gysylltu ag adran ymchwil ym Mhrifysgol Bangor i recriwtio myfyriwr PhD i ymgymryd â darn o ymchwil i amlygu llwyddiant y prosiect e.e. Cheme Prosiect yn mesur enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad • Potensial i'w gyflwyno fel ateb sy'n adfywio nid yn unig Ysgol Nebo ond ysgolion bach eraill ar draws y sir ond hefyd Cymru gyfan • Gweithio ar y cyd ag asiantaethau cymorth fel CAMHS a chwnselwyr ysgol i ddarparu therapïau – i gefnogi pobl ifanc a rhieni fel ei gilydd • Mae darpariaeth effeithiol sy'n diwallu anghenion disgyblion yn lleihau nifer y teuluoedd sy'n dewis dadgofrestru eu plant, ac mae ganddi'r potensial i leihau'r duedd o gynyddu'r niferoedd ar y gofrestr Addysg Gartref Ddewisol • Mwy o ddefnydd o adeilad Anfanteision: • Trefniadau cludiant		

ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG – YSGOL NEBO (Medi 2025)

1. CYFLWYNIAD

Mae Ysgol Gynradd Nebo yn ysgol gymunedol wedi ei lleoli ym mhentref Nebo, sydd rhyw dair milltir o Benygroes, ac sydd yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3-11 oed. Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo dros y blynnyddoedd diwethaf, o 27 disgybl yn 2014 i 11 disgybl erbyn heddiw, sydd yn peri ansicrwydd ynghylch dyfodol yr ysgol.

Yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror 2025, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd roi caniatâd i'r Adran Addysg *“gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill Ysgol Nebo yn sgil pryderon ynghylch niferoedd yr ysgol, i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud a dyfodol yr ysgol.”*

Yn unol â phenderfyniad y Cabinet (11 Chwefror 2025), sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol Nebo (PAY) gan wahodd y Corff Llywodraethol, rhieni a staff a'r Aelod Lleol i ymuno â'r panel a chymryd rhan yn y drafodaeth. Cynhaliwyd tri chyfarfod PAY rhwng Mawrth 2025 a Gorffennaf 2025 i drafod ystod o opsiynau i geisio datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu.

Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, sydd yn cynnwys 'Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig', mae angen gwneud asesiad ar yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg ar unrhyw opsiwn rhesymol a ellir datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu. At ddiben y Cod, mae Ysgol Nebo wedi ei dynodi fel 'Ysgol Wledig'.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu addysg o'r ansawdd gorau posibl a fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn.

Mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i ddarparu'r profiadau dysgu gorau posibl - ar gyfer pob dysgwr o fewn y Sir, gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang, yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol sy'n eu hysgogi i ddysgu a deall, a fydd yn arwain at wella safonau.

2. CRYNODEB

Bu i Ysgol Nebo gael ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn 2017 ble daethpwyd i'r casgliad fod perfformiad presennol yr ysgol yn 'Dda'.

Mae crynodeb isod o arolygon diwethaf Ysgol Nebo, yr ysgolion cyfagos, a'r ysgolion sy'n destun unrhyw un o'r opsiynau dan ystyriaeth ar gyfer dyfodol Ysgol Nebo.

Ysgol	Blwyddyn yr arolwg	Safonau	Lles ac agweddau at ddysgu	Addysgu a phrofiadau dysgu	Gofal, cymorth ac arweiniad	Arweinyddiaeth a rheolaeth
Nebo	2017	Da	Da	Da	Da	Da
Baladeulyn	2017	Da	Da	Da	Da	Da
Brynaerau	2019	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol
Bro Llifon	2018	Da	Da	Da	Da	Da
Bro Lleu	2023	Fframwaith arolygu newydd				

Ysgol	Blwyddyn yr arolwg	Pa mor dda yw'r deilliannau?	Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?
Talysarn	2017	Da	Da	Rhagorol
Llanllyfni	2017	Da	Da	Da

3. YR OPSIYNAU DAN SYLW

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Noder, er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r model 'Gwneud dim' wedi ei gynnwys yn yr asesiad at ddiben cymharu.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nebo trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Ystyriwyd y posibilrwydd o ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos yn benodol Ysgol Llanllyfni ac Ysgol Bro Lleu.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo*

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nebo trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Ystyriwyd y posibilrwydd o ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos yn benodol Ysgol Llanllyfni ac Ysgol Bro Lleu.

Yn ogystal â ffederaleiddio, byddai'r opsiwn yma hefyd yn golygu ychwanegu lleoliad ar gyfer uned ADY.

- *Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni)*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu cau Ysgol Nebo a chynnig lle i ddysgwyr y dalgylch yn Ysgol Llanllyfni.

- *Ysgol Nebo yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes)*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu y byddai Ysgol Nebo yn parhau, ac yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol.

- *Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol, lle mae addysg prif lif yn heriol iddynt.*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu parhau gyda Ysgol Nebo ac ychwanegu ardal ar gyfer uned ADY ar safle'r ysgol er mwyn cynnig addysg arbennig i'r plant fyddai angen cefnogaeth ychwanegol.

- *Ysgol Nebo yn cynnig uned iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu parhau gyda Ysgol Nebo ac ychwanegu uned drochi iaith ar safle'r ysgol er mwyn cynnig gwasanaeth trochi yn y Gymraeg i siaradwyr newydd.

- *Sefydlu ysgol ar fwy nag un safle – Ysgol Aml-safle*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu uno nifer o ysgolion lleol, drwy gau'r ysgolion a sefydlu un ysgol aml-safle fyddai'n cynnwys safle Ysgol Nebo. Byddai'r opsiwn yn galluogi'r posibilrwydd o rannu adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb safle ysgol ym mhentref Nebo trwy sefydlu ysgol aml-safle, dan arweiniad pennaeth ac un corff llywodraethol.

4. ASESIAD O EFFAITH TEBYGOL AR SAFONAU AC ANSAWDD ADDYSG

Rydym wedi defnyddio arolygon diweddaraf Estyn ar yr ysgolion perthnasol fel meini prawf ar gyfer asesu y gwahanol opsiynau ar gyfer dyfodol addysg ar gyfer dalgylch Ysgol Nebo.

OPSIWN 1: GWNEUD DIM - PARHAU GYDA'R SEFYLLFA BRESENNOL

Byddai'r opsiwn yma yn golygu dim newid a bydda Ysgol Nebo yn parhau fel ac y mae.

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Dim newid.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Dim newid.	Niwtral
Profiadau dysgu ac addysgu	Dim newid.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	Dim newid.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Dim newid.	Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Dim newid.	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Dim newid.	Niwtral

OPSIWN 2: FFEDERALEIDDIO GYDAG YSGOL GYFAGOS

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos. Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer dangosyddion safonau Ysgol Nebo yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod safonau yn 'Dda'. Nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Bro Llew fod 'safonau addysg yn gadarn ar draws yr ysgol'. O ganlyniad, deuir i'r casgliad mai niwtral fyddai'r effaith ar safonau o ffedereiddio Ysgol Nebo gydag ysgol gyfagos megis Ysgol Llanllyfni neu Ysgol Bro Llew.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Nebo ar gyfer y maes arolygu 'Lles ac agweddau at ddysgu' yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod 'Lles ac agweddau at ddysgu' yn 'Dda'. Nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Bro Llew fod " Mae disgyblion yn canmol y berthynas gadarnhaol sy'n bodoli rhyngddynt â staff yr ysgol. O ganlyniad, mae gan bron bob un disgybl ymddiriedaeth gadarn yn naws gynhwysol yr ysgol." O ganlyniad, deuir i'r casgliad mai niwtral fyddai'r effaith ar les ac agweddau at ddysgu o ffedereiddio Ysgol Nebo gydag ysgol gyfagos megis Ysgol Llanllyfni neu Ysgol Bro Llew.	Niwtral
Profiadau addysgu a dysgu	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Profiadau dysgu'/'Addysgu a phrofiadau dysgu' ar gyfer Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni yn eu harolygon diwethaf yn 2017. Nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Bro Llew fod yr ysgol " <i>yn darparu profiadau dysgu sy'n ysbrydoli disgyblion ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau'r disgyblion at ddysgu</i> " O ganlyniad, rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n cael effaith niwtral ar brofiadau dysgu ac addysgu.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Gofal, cymorth ac arweiniad' ar gyfer Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni yn eu harolygon diwethaf yn 2017. Nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Bro Llew fod yr ysgol "yn gymuned gynhwysol a chartrefol. Mae'r staff yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi, a pharch yn llwyddiannus." O ganlyniad, rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n cael effaith niwtral ar gofal, cymorth ac arweiniad.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Mae Ysgol Llanllyfni, fel Ysgol Nebo wedi cael ei asesu yn 'Dda' yn arolwg diweddaraf Estyn. Yn ogystal, nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Bro Llew fod "arweinyddiaeth gadarn, ddeallus ac effeithiol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol" Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, a gan y byddai'r model ffederaleiddio gydag ysgol/ysgolion cyfagos yn cynnig cyfleoedd i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth Ysgol Nebo, deuir i'r casgliad y byddai arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael effaith positif neu o leiaf niwtral o weithredu'r opsiwn ffedereiddio.	Positif/Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 ym mhob ysgol yng Ngwynedd. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai effaith yr opsiwn yma ar y maen prawf hwn.	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau. Yn ogystal, roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Nebo yn 'Dda', fel ag yr oedd canlyniad arolwg Ysgol Llanllyfni. Yn seiliedig ar wybodaeth yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o weithredu'r opsiwn yma.	Niwtral

OPSIWN 3: FFEDERALEIDDIO GYDAG YSGOL GYFAGOS GAN YCHWANEGU UNED ARBENIGOL AR GYFER PLANT AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YN YSGOL NEBO

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag Ysgol Llanllyfni. Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer dangosyddion safonau Ysgol Nebo yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod safonau yn 'Dda'. Nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Bro Lleu fod 'safonau addysg yn gadarn ar draws yr ysgol' O ganlyniad, deuir i'r casgliad mai niwtral fyddai'r effaith ar safonau o weithredu'r opsiwn yma.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Nebo ar gyfer y maes arolygu 'Lles ac agweddau at ddysgu' yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod 'Lles ac agweddau at ddysgu' yn 'Dda'. Nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Bro Lleu fod " Mae disgyblion yn canmol y berthynas gadarnhaol sy'n bodoli rhyngddynt â staff yr ysgol. O ganlyniad, mae gan bron bob un disgybl ymddiriedaeth gadarn yn naws gynhwysol yr ysgol." O ganlyniad, deuir i'r casgliad mai niwtral fyddai'r effaith ar les ac agweddau at ddysgu o weithredu'r opsiwn yma.	Niwtral
Profiadau addysgu a dysgu	Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Profiadau dysgu'/'Addysgu a phrofiadau dysgu' ar gyfer Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni yn eu harolygon diwethaf yn 2017. Nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Bro Lleu fod yr ysgol " yn darparu profiadau dysgu sy'n ysbrydoli disgyblion ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau'r disgyblion at ddysgu" O ganlyniad, rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n cael effaith niwtral ar brofiadau dysgu ac addysgu.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Gofal, cymorth ac arweiniad' ar gyfer Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni yn eu harolygon diwethaf yn 2017. Nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Bro Lleu fod yr ysgol " yn gymuned gynhwysol a chartrefol. Mae'r staff yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwртеisi, a pharch yn llwyddiannus." O ganlyniad, rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n cael effaith niwtral ar gofal, cymorth ac arweiniad.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Ni ragwelir unrhyw newid gan fod Ysgol Llanllyfni, fel Ysgol Nebo wedi cael ei asesu yn 'Dda' yn arolwg diweddaraf Estyn. Yn ogystal, nodai arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Bro Lleu fod "arweinyddiaeth gadarn, ddeallus ac effeithiol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol". Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, a gan y byddai'r model ffederaleiddio gydag ysgol/ysgolion cyfagos yn cynnig cyfleoedd i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth Ysgol Nebo, deuir i'r casgliad y byddai arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael effaith positif neu o leiaf niwtral o weithredu'r opsiwn yma.	Positif
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 ym mhob ysgol yng Ngwynedd. Rhagwelir y byddai'r opsiwn yn cael effaith gadarnhaol ar y meini prawf hwn gan y byddai'n ymestyn darpariaeth ADY yn yr ardal.	Positif
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau. Yn ogystal, roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Nebo yn 'Dda', fel ag yr oedd canlyniad arolwg Ysgol Llanllyfni. Yn seiliedig ar wybodaeth yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o weithredu'r opsiwn yma. Yn ogystal, rhagwelir y byddai'r opsiwn yn cael effaith gadarnhaol ar meini prawf hwn gan y byddai'n ymestyn y ddarpariaeth ADY yn yr ardal.	Niwtral

OPSIWN 4: CAU YSGOL NEBO A CHYNNIG LLE I'R DYSGWYR MEWN YSGOL CYFAGOS (YSGOL LLANLLYFNI)

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion safonau Ysgol Nebo yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer Ysgol Llanllyfni hefyd yn 'Dda'. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn drwy addysgu'r dysgwyr yn ysgol Llanllyfni.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer Lles yn Ysgol Nebo ac yn Ysgol Llanllyfni yn 'Dda' yn eu harolygon diwethaf yn 2017. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y maes yma trwy addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni.	Niwtral
Profiadau addysgu a dysgu	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Profiadau dysgu' ar gyfer Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni yn eu harolygon diwethaf yn 2017. Er hynny, gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni rhagwelir bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy a chydio cyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu dysgwyr dalgylch Nebo yn Ysgol Llanllyfni.	Positif
Gofal, cymorth ac arweiniad	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Gofal, cymorth ac arweiniad' yn Ysgol Nebo a Llanllyfni yn eu harolwg diwethaf yn 2017. O ganlyniad, bernir y byddai'r opsiwn yn cael effaith niwtral.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Nodwyd yn adroddiad Estyn diwethaf fod arweinyddiaeth a'r rheolaeth Ysgol Nebo a Ysgol Llanllyfni yn 'Dda'. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, deuir i'r casgliad y byddai arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael effaith niwtral o addysgu dysgwyr dalgylch Nebo yn Ysgol Llanllyfni.	Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 ym mhob ysgol yng Ngwynedd. Wrth gynllunio staffio (e.e. rôl y CADY) a'r map darpariaeth, mae'r gofyn ar ysgolion yn heriol, ac mae hynny yn dod yn fwy amlwg wrth ystyried y gofyn ar ysgolion llai. Mewn ysgolion mwy mae amodau'r cydlynnydd anghenion ychwanegol yn well, ac mae cyfarch y gofyn statudol yn haws yn sgil hynny. Yn ogystal, mae ymateb i angen y dysgwyr hefyd yn haws mewn ysgolion mwy gan y gallent efallai cynnal grŵp ymyrraeth i dargedu anghenion penodol. Mae map darpariaeth yn fwy eang mewn ysgolion mwy er mwyn ymateb i'r gofyn. O ganlyniad, gan y byddai'r dysgwyr yn cael cynnig lle mewn ysgol gyda nifer uwch o ddysgwyr, rhagwelir mai positif fyddai effaith yr opsiwn yma ar y maen prawf hwn.	Positif
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Nebo yn 'Dda', fel ag yr oedd canlyniad arolwg Ysgol Llanllyfni. Yn seiliedig ar wybodaeth yr arolygon yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o addysgu dysgwyr dalgylch Ysgol Nebo yn Ysgol Llanllyfni. O ganlyniad, rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar hyn o bryd yn Ysgol Nebo, fan lleiaf.	Niwtral

**OPSIWN 5: YSGOL NEBO YN DATBLYGU YN LEOLIAD ARBENIGOL AR GYFER RHAI PYNCIAU UNIGOL
(CYFLEON UNIGRYW I GYFLAWNI GWAITH MAES)**

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau i ddarparu addysg gynradd statudol, fel ag y mae yn bresennol, ni ragwelir effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau i ddarparu addysg gynradd statudol, fel ag y mae yn bresennol, ni ragwelir effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Profiadau addysgu a dysgu	Gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau i ddarparu addysg gynradd statudol, fel ag y mae yn bresennol, ni ragwelir effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	Gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau i ddarparu addysg gynradd statudol, fel ag y mae yn bresennol, ni ragwelir effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau i ddarparu addysg gynradd statudol, fel ag y mae yn bresennol, ni ragwelir effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau i ddarparu addysg gynradd statudol, fel ag y mae yn bresennol, ni ragwelir effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau i ddarparu addysg gynradd statudol, fel ag y mae yn bresennol, ni ragwelir effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral

OPSIWN 6: YSGOL NEBO YN CYNNIG UNED ARBENIGOL AR GYFER CEFNOGI PLANT SYDD GYDAG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL, LLE MAE ADDYSG PRIF LIF YN HERIOL IDDYNT

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Gan y byddai'r uned arbenigol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Gan y byddai'r uned arbenigol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Profiadau addysgu a dysgu	Gan y byddai'r uned arbenigol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Positif
Gofal, cymorth ac arweiniad	Gan y byddai'r uned arbenigol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Gan y byddai'r uned arbenigol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Gan y byddai'r uned arbenigol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. Fodd bynnag, er na ragwelir y byddai'r uned arbenigol yn effeithio ar yr ysgol, rhagwelir y gallai'r adnodd newydd gael effaith positif ar y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr gydag ADY yn yr ardal.	Positif
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Gan y byddai'r uned arbenigol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. Fodd bynnag, er na ragwelir y byddai'r uned arbenigol yn effeithio ar yr ysgol, rhagwelir y gallai'r adnodd newydd gael effaith positif ar y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr ADY yn yr ardal.	Positif

OPSIWN 7: YSGOL NEBO YN CYNNIG UNED IAITH AR GYFER DALGYLCH DYFFRYN NANTLLE

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Profiadau addysgu a dysgu	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Nebo, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Nebo o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral

OPSIWN 8: SEFYDLU YSGOL AML-SAFLE

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion safonau Ysgol Nebo yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer ysgolion cynradd cyfagos eraill hefyd (ysgolion cynradd dalgylch Dyffryn Nantlle) yn 'Dda' gydag Ysgol Brynaerau yn 'Rhagorol'. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn gan fod asesiad Estyn yn gyson ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion, gydag un ysgol (allan o 7 yn y dalgylch) yn rhagori ar y gweddill. Gallai'r model ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas â'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral/Positif
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion llesiant ac agweddau at ddysgu Ysgol Nebo yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer yr ysgolion cyfagos (dalgylch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda' gyda Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn yn 'Rhagorol'. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn gan fod asesiad Estyn yn gyson ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion, gyda dwy ysgol (allan o 7 yn y dalgylch) yn rhagori ar y gweddill. Gallai'r model ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas â'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral/Positif
Profiadau addysgu a dysgu	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion profiadau addysgu a dysgu Ysgol Nebo yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer yr ysgolion cyfagos (dalgylch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda' gydag Ysgol Brynaerau yn 'Rhagorol'. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn gan fod asesiad Estyn yn gyson ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion, gydag un ysgol (allan o 7 yn y dalgylch) yn is na'r mwyafrif ac un yn rhagori ar y gweddill. Gallai'r model ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas â'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral/Positif
Gofal, cymorth ac arweiniad	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion arweiniad a chymorth gofal Ysgol Nebo yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer ysgolion cyfagos (dalgylch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda' gydag Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn yn 'Rhagorol'. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn gan fod asesiad Estyn yn gyson ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion, gyda dwy ysgol (allan o 7 yn y dalgylch) yn rhagori ar y gweddill. Gallai'r model ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas â'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral/Positif
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion arweinyddiaeth a rheolaeth Ysgol Nebo yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer ysgolion cyfagos (Dalgylch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda' gydag Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn yn 'Rhagorol'. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn gan fod asesiad Estyn yn gyson ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion, gydag un ysgol (allan o 7 yn y dalgylch) yn is na'r mwyafrif ac dwy yn rhagori ar y gweddill. mwy neu lai yr un fath ar gyfer pob ysgol. Gallai'r model ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r	Niwtral/Positif

	ddarpariaeth mewn perthynas a'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 fel ym mhob ysgol yng Ngwynedd. Gallai'r model ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas a'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da, arbenigedd a phrofiadau rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral/Positif
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Nebo yn 'Dda', ac yr oedd canlyniad arolygon yr ysgolion cyfagos yn Nalgylch Dyffryn Nantlle unai yn 'Dda' neu'n 'Rhagorol'. Yn seiliedig ar wybodaeth yr arolygon yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o weithredu'r opsiwn yma. Gallai'r model ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella ddarpariaeth mewn perthynas a'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral/Positif

4. CASGLIAD

Dengys yr asesiad hwn o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg, y byddai cyflwyno'r opsiwn i gau Ysgol Nebo a throsglwyddo'r dysgwyr i Ysgol Llanllyfni yn debygol o gael effaith bositif, neu effaith niwtral ar y lleiaf.

Yn ogystal, mae'r asesiad yn nodi mai effaith niwtral/rhannol bositif a ragwelir ar ansawdd a safonau addysg o weithredu opsiynau eraill megis ffederaleiddio, sefydlu uned arbenigol ar safle Ysgol Nebo, a sefydlu ysgol aml-safle. Noder cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol aml-safle, ac ysgolion fyddai'n rhan o'r ffederasiwn, a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.

Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiadau uchod a chymharu adroddiadau Estyn, deuir i'r casgliad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Llanllyfni yn cyfateb i safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Nebo. Gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni, rhagwelir y bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy, gyda cyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu dysgwyr dalgylch Nebo yn Ysgol Llanllyfni.

O ganlyniad, rhagwelir y byddai niwtral/rhannol bositif fyddai effaith tebygol gweithredu'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni.

1. CYFLWYNIAD

1.1 Polisi Cludiant Cyngor Gwynedd

Mae strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd' yn anelu at gyfyngu teithio o'r cartref i'r ysgol i daith un ffordd sydd heb fod yn fwy na 30 munud.

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (nid yw'n cynnwys dysgwyr meithrin). Disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd. Mae'r polisi cludiant i'w weld yn y llawlyfr i rieni:

(<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Ysgolion-a-dysgu---dogfennau/Gwybodaeth-i-Rieni.pdf>)

1.2 Cyd-destun Ysgol Nebo

Mae Ysgol Gynradd Nebo wedi ei lleoli ym mhentref Nebo, rhyw dair milltir o Benygroes, ac yn gwasanaethu'r pentrefi a'r ardal gyfagos. Mae'n darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 11 oed ac mae ganddi gapasiti o 58 (M-B16) ac mae 11 o ddysgwyr Derbyn i Blwyddyn 6 ac 1 dysgwyr Meithrin yn mynychu'r ysgol.

2. ASESIAD O EFFAITH TEBYGOL POB OPSIWN AR DREFNIADAU TEITHIO

2.1 Nodir isod effaith tebygol pob opsiwn ar drefniadau teithio:

- Dim newid- Parhau gyda'r sefyllfa bresennol

Byddai'r model yma yn golygu na fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol yn nalgylch Ysgol Nebo.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Nebo, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.

- Ffederaleiddio gyda'r ysgol gyfagos

Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nebo trwy drefniant cyd-weithio gydag, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio.

Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Nebo, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.

- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo.

Mi fyddai'r opsiwn yma yn golygu ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos ac ychwanegu ardal ADY ar safle ysgol Nebo er mwyn darparu addysg arbennig i'r plant fydda angen cefnogaeth ychwanegol.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Nebo, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwr yr uned ADY.

- Cau Ysgol Nebo a chynniq lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni)

Byddai'r model yma'n golygu cau Ysgol Nebo a chynniq lle i'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni.

Mae Ysgol Llanllyfni wedi ei leoli 1.6 milltir o Ysgol Nebo. Dyma'r ysgol ddaearyddol agosaf at Ysgol Nebo.

Byddai'r model hwn yn cael effaith ar drefniadau teithio, gan y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu yn Ysgol Llanllyfni. Byddai angen darparu cludiant i ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo i Ysgol Llanllyfni, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd. Rhagwelir costau cludiant ychwanegol (amcan gost) rhwng £17,000 i hyd at £30,000 y flwyddyn. Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.

- Ysgol Nebo yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd uniaryw i gyflawni gwaith maes)

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Nebo, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.

- Ysgol Nebo yn cynniq uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol, lle mae addysg prif lif yn heriol iddynt.

Mi fyddai'r opsiwn yma yn golygu ychwanegu uned arbenigol ar safle'r ysgol er mwyn darparu addysg arbennig i'r plant fydda angen cefnogaeth ychwanegol. Ni fydd unrhyw newid i'r elfen ysgol.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Nebo, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwr yr uned ADY. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.

- Ysgol Nebo yn cynniq uned iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle

Mi fyddai'r opsiwn yma yn golygu ychwanegu uned iaith ar safle'r ysgol er mwyn cynniq gwasanaeth trochi i'r plant yn y Gymraeg sydd ei angen cyn ymuno a'u hysgolion dewisol yn llawn amser. Ni fyddai unrhyw newid i'r elfen ysgol.

Ni fyddai'r model hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Nebo, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen

- Sefydlu Ysgol ar fwy nag un safle (Ysgol Aml-safle)

Byddai'r opsiwn yma'n golygu uno nifer o ysgolion lleol, drwy gau'r ysgolion a sefydlu un ysgol aml-safle fyddai'n cynnwys safle Ysgol Nebo.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Nebo, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo. Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn ar safle Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Yn ddibynol ar strwythur yr ysgol newydd, mae posibilrwydd y bydd angen trefnu cludiant rhwng ysgolion.

2.2 Opsiynau cludiant di-dâl

Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd, disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf.

Y llwybr byrraf sydd ar gael yw'r un nad yw'r Cyngor yn ei ystyried yn arbennig o beryglus, ar ôl asesu'r llwybrau eraill y gellid eu defnyddio, a byddai'r llwybrau hyn yn cael eu hasesu yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

Nodir fod nifer o fsys ysgol yn rhedeg yn yr ardal. Nid oes yr un o'r bysus ysgolion cynradd yn rhedeg rhwng Nebo a Llanllyfni i fedru manteisio ar un o'r rhain.

2.3. Crynodeb o'r effaith tebygol ar drefniadau teithio

Mae crynodeb isod o'r effaith ar drefniadau teithio yr opsiynau dan ystyriaeth:

Opsiynau	Yr effaith debygol ar drefniadau teithio i ddysgwyr	Yr effaith debygol ariannol blyneddol ar drefniadau teithio i'r Awdurdod
Dim newid- Parhau gyda'r sefyllfa bresennol	Niwtral – Dim newid Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	£0
Ffederaleiddio gyda ysgol cyfagos (Ysgol Llanllyfni)	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	£0
Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant	Niwtral	£0

ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo.	Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwr yr uned ADY.	Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiad i ddysgwyr yr uned ADY.
Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni)	Negyddol Mae Ysgol Llanllyfni wedi ei lleoli 1.6 milltir o Ysgol Nebo. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr dalgylch presennol Ysgol Nebo fyddai'n mynychu Ysgol Llanllyfni ac yn byw fwy na 2 filltir o'r ysgol, yn unol â Pholisi Cludiant yr Awdurdod. Wedi ystyried niferoedd presennol (Medi 2025), rhagwelir y byddai angen trefnu bws 8 sedd i gludo dysgwyr dalgylch Ysgol Nebo (fyddai'n gymwys am gludiant yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd) i Ysgol Llanllyfni. Rhagwelir y byddai hyn ar gost o hyd at £17,000. Pe byddai cynnydd yn niferoedd dysgwyr y dalgylch i'r dyfodol, yna fe all olygu y byddai angen darparu bws ysgol er mwyn cludo dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Nebo fyddai'n gymwys am gludiant (yn unol a pholisi cludiant Cyngor Gwynedd). Rhagwelir y byddai hyn ar gost o hyd at £30,000. Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	£17,000 - £30,000
Ysgol Nebo yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes)	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r	£0

	dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	
Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol, lle mae addysg prif lif yn heriol iddynt.	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwr yr uned ADY. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol	£0 Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiad i ddysgwyr yr uned ADY.
Ysgol Nebo yn cynnig uned iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwr yr uned iaith.	£0 Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiad i ddysgwyr yr uned iaith.
Sefydlu Ysgol ar fwy nag un safle	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn ar safle Ysgol Nebo a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Yn ddibynnol ar strwythur yr ysgol newydd, mae posibilrwydd y bydd angen trefnu cludiant rhwng ysgolion.	£0

3. CASGLIAD

Ni ragwelir y byddai effaith negyddol ar drefniadau teithio dysgwyr Ysgol Nebo yn deillio o weithredu'r unrhyw un o'r opsiynau a restrir uchod (adran 2), ac eithrio'r opsiwn i gau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni.

Pe byddai'r opsiwn o gau Ysgol Nebo a chynnig addysg i'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y byddai effaith ar drefniadau teithio i'r plant. Fodd bynnag ni ragwelir y bydd unrhyw ddysgwr dalgylch Nebo angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.

Wrth ystyried y data niferoedd diweddaraf, sef Medi 2025, rhagwelir y byddai angen trefnu cludiant 8 sedd er mwyn cludo dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Nebo fyddai'n gymwys am gludiant (yn unol a pholisi cludiant Cyngor Gwynedd) i Ysgol Llanllyfni. Amcangyfrifir i'r costau cludiant hyn fod oddeutu £17,000 y flwyddyn.

Pe byddai cynnydd yn niferoedd dysgwyr y dalgylch i'r dyfodol, yna fe all olygu y byddai angen darparu bws ysgol er mwyn cludo dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Nebo fyddai'n gymwys am gludiant (yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd). Amcangyfrifir i'r costau cludiant hyn fod oddeutu £30,000 y flwyddyn.

O ganlyniad, rhagwelir y byddai'r opsiwn i gau Ysgol Nebo a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Llanllyfni yn arwain at gostau cludiant ychwanegol i'r Awdurdod. Amcangyfrifir i'r costau hyn fod oddeutu £17,000-£30,000 y flwyddyn i ddarparu cludiant pe byddai holl ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo yn dewis mynychu Ysgol Llanllyfni.

1. CYFLWYNIAD

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer trefniadaeth ysgolion, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynnal asesiad o effaith debygol ar y gymuned, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

1.1 Cefndir

Mae Ysgol Gynradd Nebo yn ysgol gymunedol wedi ei lleoli ym mhentref Nebo, sydd rhyw dair milltir o Benygroes, ac sydd yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3-11 oed. Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo dros y blynyddoedd diwethaf. Erbyn hyn, Medi 2025, dim ond 11 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 ac 1 dysgwr Meithrin sy'n mynychu'r ysgol.

Yn eu cyfarfod ar 11 Chwefror 2025, bu i'r Cabinet gefnogi argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda rhanddeiliaid Ysgol Nebo er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol. Rhwng Mawrth a Gorffennaf 2025, cynhaliwyd 3 cyfarfod lleol gyda rhan-ddeiliaid Ysgol Nebo ymhle cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau.

2. YR OPSIYNAU

Bu i'r Awdurdod ystyried a thrafod nifer o opsiynau ar gyfer dyfodol Ysgol Nebo, gan gynnwys:

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol*
- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nebo trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Ystyriwyd y posibilrwydd o ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos yn benodol Ysgol Llanllyfni ac Ysgol Bro Lleu.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo.*

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nebo trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Ystyriwyd y posibilrwydd o ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos yn benodol Ysgol Llanllyfni ac Ysgol Bro Lleu.

Yn ogystal â ffederaleiddio, byddai'r opsiwn yma hefyd yn golygu ychwanegu lleoliad ar gyfer uned ADY.

- *Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni)*

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Nebo yn cau, ac y byddai dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Nebo yn cael cynnig lle yn Ysgol Llanllyfni (yr ysgol amgen).

- *Ysgol Nebo yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes)*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu y byddai Ysgol Nebo yn parhau, ac yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol.

- *Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol, lle mae addysg prif lif yn heriol iddynt.*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu ychwanegu ardal ar gyfer uned ADY ar safle'r ysgol er mwyn cynnig addysg arbennig i'r plant fyddai angen cefnogaeth ychwanegol.

- *Ysgol Nebo yn cynnig uned iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu ychwanegu uned drochi iaith ar safle'r ysgol er mwyn cynnig gwasanaeth trochi yn y Gymraeg i siaradwyr newydd

- *Sefydlu ysgol ar fwy nag un safle – Ysgol Aml-safle*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu uno nifer o ysgolion lleol, drwy gau'r ysgolion a sefydlu un ysgol aml-safle fyddai'n cynnwys safle Ysgol Nebo. Byddai'r opsiwn yn galluogi'r posibilrwydd o rannu adnoddau, TG, adeiladau, ac arbenigedd.

Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb safle ysgol ym mhentref Nebo trwy sefydlu ysgol aml-safle, dan arweiniad pennaeth ac un corff llywodraethol.

3. CRYNODEB O'R DALGYLCH

3.1 Yr Ardal

Mae Ysgol Gynradd Nebo wedi ei lleoli ym mhentref gwledig Nebo, sydd rhyw dair milltir o Benygroes yng Ngwynedd o fewn Ward Clynnog. Yn ôl cyfrifiad 2021, mae 1,300 o bobl yn byw yn ward Clynnog.

3.2 Yr Economi

Mae 55.1% o bobl rhwng 16 a 74 mlwydd oed o fewn ward Clynnog yn weithgar yn economaidd, a 1.1% o'r rhain yn ddi-waith. Mae 43.4% o bobl yn yr un grŵp oedran yn anweithgar yn economaidd gyda 3.4% o'r rhain yn sâl neu'n anabl am gyfnod hir.

Mae'r math o ddiwydiant y mae'r boblogaeth yn weithgar ynddo yn amrywiol yn yr ardal, gyda'r gyfradd uchaf (16.5%) yn gweithio yn y maes iechyd a gwaith cymdeithasol.

Yn ôl data 'Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019)' mae cyfradd cyflogaeth ward Llanllyfni a Chlynnog o gymharu â wardiau eraill yng Nghymru yn rhoi ranc o 1149 allan o 1909 o wardiau. Felly, mae ward Llanllyfni a Chlynnog o fewn y 30-50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

3.3 Amddifadedd

Mae Ward Llanllyfni a Chlynnog wedi ei raddio o fewn y 30%-50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (ranc 748 allan o 1909 o wardiau).

Mae nifer o feysydd yn llunio'r mynegai cyffredinol yma, gan gynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai.

Nodir fod ward Llanllyfni a Chlynnog o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'Tai'. Dangosyddion y maes hwn yw'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi gorlawn (defnydd ystafelloedd gwely), a'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi heb wres canolog.

Yn ogystal, mae ward Llanllyfni a Chlynnog o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'mynediad i wasanaethau', h.y. amddifadedd am nad yw pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae'r dangosyddion yn cynnwys cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i nifer o wasanaethau megis siopau bwyd, meddygfa, ysgolion cynradd ac uwchradd, swyddfa bost, llyfrgell gyhoeddus, fferylflfa, canolfan hamdden ac amser teithio preifat i orsaf betrol.

Mae crynodeb isod o sut y mae ardal Llanllyfni a Chlynnog wedi ei lleoli yng nghyd-destun ardaloedd eraill yng Nghymru yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019):

Maes	Ranc yng Nghymru, allan o 1909 o ardaloedd. (1 = mwyaf difreintiedig a 1909 = lleiaf difreintiedig)	Mwyaf difreintiedig % yng Nghymru
Cyflogaeth	1149	
Incwm	860	
Iechyd	1267	
Addysg	1238	
Tai	67	O fewn y 10% mwyaf difreintiedig
Amgylchedd ffisegol	1251	
Mynediad i wasanaethau	100	O fewn y 10% mwyaf difreintiedig
Diogelwch cymunedol	922	

3.4 Y Gymuned

Mae trigolion Nebo a Nasareth yn gwneud defnydd rheolaidd o'r 'ystafell gymunedol' a leolir yn Ysgol Nebo ar gyfer cynnal achlysuron a digwyddiadau cymunedol. Dyma rai o achlysuron a digwyddiadau cymdeithasol a gynhelir yn ystafell gymunedol Ysgol Nebo:

- Cyfarfodydd misol Pwyllgor Ardal Nebo a Nasareth
- Clwb Dydd Llun: Yn cwrdd pob yn ail ddydd Llun am sgwrs a phaned.
- Nosweithiau cymdeithasol: Siaradwyr gwadd o'r gymuned a thu allan.
- Cymorth Cyntaf efo St John Ambiwylans: Hyfforddiant ar CPR a defnydd y diffibrilyddion ar yr Ysgol a Chapel Nasareth.
- Clwb Garddio: Yn cwrdd yn aml i drefnu arddangosfeydd blodeuog y pentref, ymweliad gerddi, rhannu planhigion a hadau. Hefyd yn trefnu cynhaliadau y berllan gymunedol ym Mharc Nebo gyda phlant yr ysgol yn helpu plannu'r coed ffrwyth.
- Gwersi Cymraeg i ddysgwyr.
- Clwb Gweu a Chrosiet; Yn cwrdd yn wythnosol i greu pabys, addurniadau Nadoligaidd ac arddangosfeydd tymhorol 3D am y pentrefi.
- Teithiau cerdded lleol: Lluniaeth ar ôl teithiau lleol, yn gynnwys taith cerdded flynyddol Dydd Calan at Lyn Cwm Dulyn.
- Defod Sul y Cofio.
- Ras Mynydd Craig Goch: Defnyddio adeilad yr ysgol i gofrestru rhedwyr, ac yn rhan bwysig o gynnal lluniaeth i'r rhedwyr.
- Gwarchod amgylchedd: Trefnu sesiynau casglu sbwriel a gweithredu atal baw cŵn.

4. YSGOL NEBO A'R YSGOLION CYFAGOS

4.1 Cyd-destun yr ysgolion yn ôl Adroddiadau Arolygon Estyn

Fel rhan o adroddiadau Estyn, gosodir yr ysgolion o fewn cyd-destun, a manylir ar eu cysylltiadau cymunedol. Dyma'r cyd-destun a roddwyd i Ysgol Nebo, Ysgol Llanllyfni a Ysgol Bro Lleu gan arolygwyr Estyn.

Ysgol Nebo

"Mae Ysgol Gynradd Nebo rhyw dair milltir o Benygroes yng Ngwynedd. Cymraeg yw prif gyfrwng a bywyd yr ysgol."

Ffynhonnell: Adroddiad Estyn, Hydref 2017

Ysgol Llanllyfni

“Mae Ysgol Gynradd Llanllyfni mewn pentref bychain ar gyrion Caernarfon. Daw tua 76% o’r disgyblion o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg.”

Ffynhonnell: Adroddiad Estyn, Mawrth 2017

Ysgol Bro Lleu

“Mae Ysgol Bro Lleu yn ysgol hapus, gyfeillgar a chynhwysol sy’n rhoi pwyslais cryf ar barchu pob aelod o’r gymuned. Mae ei gweledigaeth o roi’r cyfle gorau i bob disgybl yn treiddio drwy holl weithgarwch yr ysgol. O ganlyniad, mae agweddau’r disgyblion at eu dysgu yn gadarn a’u hymddygiad yn ardderchog.

Ffynhonnell: Adroddiad Estyn, Ebrill 2023

4.2 Gwybodaeth ystadegol yr ysgolion

Dengys y tabl isod niferoedd Ysgol Nebo a’r ysgolion eraill o fewn dalgylch Ysgol Dyffryn Nantlle. Gwelir yn ogystal yn y tabl hwn beth yw capasiti’r ysgol a nifer ar y gofrestr yn Medi 2025. Mae pob ysgol yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ysgol	Capasiti Llawn (M – B16)	Nifer ar y gofrestr Medi 2025 (M – B16)	Categori Cyfreithiol	Categori leithyddol
Baladeulyn	62	8	Ysgol Gymunedol	Categori 3
Talysarn	104	101	Ysgol Gymunedol	Categori 3
Bro Lleu	207	190	Ysgol Gymunedol	Categori 3
Llanllyfni	117	72	Ysgol Gymunedol	Categori 3
Nebo	58	12	Ysgol Gymunedol	Categori 3
Brynaerau	81	59	Ysgol Gymunedol	Categori 3
Bro Llifon	196	149	Ysgol Gymunedol	Categori 3

Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2025

4.3 Gwybodaeth lleoliad annedd a dewis ysgolion dysgwyr

Mae gan bob ysgol ddalgylch penodol y mae’n gwasanaethu ac sydd yn bwysig o ran polisi mynediad a chluant y Cyngor. Nid oes rhaid i ddysgwyr fynychu eu hysgol dalgylch, mae’r dewis i fyny i rieni (yn unol â’r polisi mynediad).

Dengys y data diweddaraf (data Medi 2025) fod 71% o blant sy’n byw yn nalgylch Ysgol Nebo yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Mae’r tabl isod yn nodi cyfran y dysgwyr sy’n byw yn y dalgylch ac yn mynychu’r ysgol dalgylch, a’r gyfran o ddysgwyr y dalgylch sy’n mynychu ysgolion tu allan i’r dalgylch.

Ysgol	Cyfran o ddysgwyr y dalgylch sy’n mynychu’r ysgol dalgylch	Cyfran o ddysgwyr y dalgylch sy’n mynychu ysgolion all-dalgylch	Cyfran o ddysgwyr yr ysgol sy’n mynychu’r ysgol o du allan i’r Dalgylch
Bro Lleu	79.4%	20.6%	25%
Brynaerau	81.5%	18.5%	17%
Llanllyfni	53.6%	46.4%	25%
Nebo	28.6%	71.4%	81.8%
Talysarn	83.1%	16.9%	23.8%
Baladeulyn	25%	75%	71.4%
Bro Llifon	85.5%	14.2%	23.1%

Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2025

4.4 Crynodeb o'r amrywiol gyfleusterau sydd yng nghymuned Nebo a Llanllyfni (Medi 2025)

	Nebo	Llanllyfni
Canolfan Gymuned / Neuadd Bantref		
Capel/Eglwys		✓
Trafnidiaeth Gyhoeddus	✓	✓
Siop		
Caffi/Tafarn		
Swyddfa Bost		
Fferyllfa		
Llyfrgell		
Cae Chwarae Plant		
Banc		
Cartref Henoed		
Canolfan Hamdden		
Garej		
Atyniad Twristaidd	✓	
Cylch Ti a Fi + Meithrin		✓

Canolfan Gymunedol

Nid oes canolfan cymunedol yn y Pentref. Mae trigolion Nebo a Nasareth yn gwneud defnydd rheolaidd o'r 'ystafell gymunedol' yr ysgol ar gyfer achlysuron a digwyddiadau cymunedol.

4.5 Crynodeb o weithgareddau neu grwpiau y mae'r ysgol yn ymwneud yn rheolaidd â nhw:

	Nebo	Llanllyfni
Cylch Meithrin/Ti a Fi		✓
Eisteddfodau (Lleol/Sirol/Cenedlaethol)	✓	✓
Adrannau'r Urdd	✓	
Gweithgareddau eraill (chwaraeon, clybiau)		✓

4.6 Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol ar ran y gymuned ble y byddent yn cael eu darparu os caiff yr ysgol ei chau?

Ysgol	Ble darparir cyfleusterau pe bai'n cau
Nebo	Cynhelir nifer o ddigwyddiadau cymunedol yn adeilad Ysgol Nebo. Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.

4.7 Gwybodaeth am bellter ac amser teithio i ysgolion eraill y dalgylch

Mae'r tabl isod yn nodi pellter ac amser teithio rhwng Ysgol Nebo ac ysgolion yr ardal. Gwelwn mai Ysgol Llanllyfni yw'r agosaf at Ysgol Nebo. Mae'r amseroedd teithio isod yn ystyried natur y lonydd a'r effaith y gall hynny ei gael ar amser teithio mewn ardal wledig.

Ysgol		Nebo
Llanllyfni	Milltir	1.6
	Munudau	5
Bro Lleu	Milltir	2.6
	Munudau	9
Talysarn	Milltir	3.8
	Munudau	11
Baladeulyn	Milltir	5.8
	Munudau	14
Brynaerau	Milltir	5.3
	Munudau	14
Bro Llifton	Milltir	5.5
	Munudau	11

Ffynhonnell: Mapiau Google 2025

5. ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR Y GYMUNED

Er mwyn asesu effaith cymunedol y modelau posib, penderfynwyd creu meini prawf yn unol ag argymhellion ystyriaethau asesiad cymunedol y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

OPSIWN 1: PARHAU GYDA'R SEFYLLFA BRESENNOL

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Ni fydd unrhyw newid i'r ddarpariaeth bresennol felly ni ragwelir effaith ar iechyd a lesiant.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Gan na fyddai newid i'r ddarpariaeth gyfredol ni ragwelir effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus. Bydd unrhyw gludiant sydd angen i Ysgol Nebo ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol â Pholisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Ni fydd newid i'r ddarpariaeth felly ni ragwelir unrhyw effaith ar ddefnydd presennol yr ysgol.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni fydd newid i'r ddarpariaeth felly ni ragwelir unrhyw effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni fydd newid i'r ddarpariaeth felly ni ragwelir unrhyw effaith ar sut mae rhieni yn dewis ysgol i'w plant nac yn effeithio ar ddewis byw yn y dalgylch.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Ni fuasai unrhyw newid i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith ar wasanaethau eraill lleol.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni fuasai unrhyw newid i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Ni fuasai unrhyw newid i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir effaith ar y gymuned leol.	Niwtral

OPSIWN 2: FFEDEREIDDIO GYDAG YSGOL GYFAGOS

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol felly ni ragwelir effaith ar iechyd a llesiant.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni ragwelir effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus. Bydd unrhyw gludiant sydd angen i Ysgol Nebo ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol â Pholisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw newid i ddefnydd presennol yr ysgol.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni ragwelir effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw effaith ar sut mae rhieni yn dewis ysgol i'w plant nac yn effeithio ar ddewis byw yn y dalgylch neu ddim. Mae cyfran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (71%)	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw effaith ar yr hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd, felly ni ragwelir unrhyw effaith ar wasanaethau eraill lleol.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw effaith ar yr hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw effaith ar yr hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith ar y gymuned leol. Fodd bynnag, nodir cyfleoedd i gymuned Nebo a chymuned ysgol Llanllyfni i ddod at ei gilydd.	Niwtral

OPSIWN 3: FFEDERALEIDDIO GYDAG YSGOL GYFAGOS GAN YCHWANEGU UNED ARBENIGOL AR GYFER PLANT AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YN YSGOL NEBO

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iechyd a llesiant gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, ond fel rhan o ffederasiwn gydag ysgol gyfagos, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, ond fel rhan o ffederasiwn gydag ysgol gyfagos, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. Bydd unrhyw gludiant sydd angen i Ysgol Nebo ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol â Pholisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Gan y bydda ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Nebo yn parhau ar agor ni fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol felly ni ragwelir effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag darpariaeth uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n annog teuluoedd a phlant oedran ysgolion i adael y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. Mae cyfran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (71%)	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar economi ehangach y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. Fodd bynnag, nodir cyfleoedd i gymuned Nebo a chymuned ysgol Llanllyfni i ddod at ei gilydd.	Niwtral

OPSIWN 4: CAU YSGOL NEBO A CHYNNIG LLE I'R DYSGWYR MEWN YSGOL GYFAGOS (YSGOL LLANLLYFNI)

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Gan fod yr ysgol amgen wedi ei lleoli tua milltir a hanner o Ysgol Nebo, ac ymhellach o gartrefi dysgwyr y dalgylch, ni ragweli y byddent yn debygol o gerdded i'r ysgol. Rhagwelir y byddai bod mewn ysgol mwy megis Ysgol Llanllyfni yn cynnig mwy o gyfleoedd chwarae a chymryd rhan mewn chwaraeon tîm ac felly yn cyfrannu'n bositif tuag at iechyd a llesiant dysgwyr.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Ni ragwelir bydd unrhyw effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y bydd unrhyw gludiant i ysgol amgen yn sgil unrhyw newid yn cael ei drefnu yn benodol ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn unol â Pholisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Mae'r gymuned yn gweud defnydd rheolaidd o adeilad Ysgol Nebo er mwyn cynnal digwyddiadau cymunedol. Pe byddai'r ysgol yn cau, byddai'n rhaid ystyried y darpariaethau hyn wrth drafod ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol.	Negyddol
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Gan fod cyfran uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion all-dalgylch eisoes, gyda 43% o blant oed cynradd dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu Ysgol Llanllyfni, ni ragwelir y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y gymuned pe byddai'r ysgol yn cau. Yn ogystal, gan fod ysgol amgen wedi ei lleoli 1.6 milltir o Ysgol Nebo, ni ragwelir y byddai'n cael effaith ar deuluoedd a phant oedran ysgol yn gadael y gymuned. Mae cyfran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch, felly ni ragwelir y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y gymuned pe byddai'r ysgol yn cau.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Gan fod cyfran uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion all-dalgylch eisoes, ni ellir ddod i gasgliad y byddai cau yr ysgol yn cael effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Gan fod mwyafrif o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion all-dalgylch, ni ragwelir y byddai cau Ysgol Nebo yn cael effaith ar economi ehangach y gymuned.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Yn ystod y trafodaethau lleol, bu i'r rhan-ddeiliaid nodi pwysigrwydd yr ysgol i'r gymuned ym mhentref Nebo, gan nodi'r defnydd rheolaidd a wneir o adeilad yr ysgol gan y gymuned. Pe byddai Ysgol Nebo yn cau, byddai'r ysgol leol yn bellach o gartrefi o fewn dalgylch presennol Ysgol Nebo, ac o safbwynt amddifadedd – golyga fod un o ddangosyddion 'mynediad i wasanaethau' yn pellhau oddi wrth drigolion yr ardal. O ganlyniad, rhagwelir y bydd peth effaith negyddol ar y gymuned leol pe byddai'r ysgol yn cau. Fodd bynnag dylid nodi fod canran uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion all-dalgylch eisoes. I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Nebo yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Llanllyfni a chymuned Nebo, lle'n briodol.	Negyddol

OPSIWN 5: YSGOL NEBO YN DATBLYGU YN LEOLIAD ARBENIGOL AR GYFER RHAI PYNCIAU UNIGOL (CYFLEON UNIGRYW I GYFLAWNI GWAITH MAES)

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a Llesiant	Gan y byddai'r ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo yn parhau, ni rhagwelir y byddai'r opsiwn yma'n effeithio'n negyddol ar iechyd a lesiant.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Gan y byddai'r ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo yn parhau, ni ragwelir effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu Byddai unrhyw gludiant fyddai ei angen i safle Ysgol Nebo ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol â Pholisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Gan y byddai'r ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo yn parhau, ni rhagwelir y byddai'r opsiwn yma'n effeithio ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n annog teuluoedd a phlant oedran ysgolion i adael y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar economi ehangach y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau.	Niwtral

OPSIWN 6: YSGOL NEBO YN CYNNIG UNED ARBENIGOL AR GYFER CEFNOGI DYSGWYR SYDD GYDAG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL, LLE MAE ADDYSG PRIF LIF YN HERIOL

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iechyd a llesiant gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar i ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y meini prawf hwn gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n annog teuluoedd a phlant oedran ysgolion i adael y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gyda anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar economi ehangach y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral

OPSIWN 7: YSGOL NEBO YN CYNNIG UNED IAITH AR GYFER DALGYLCH DYFFRYN NANTLLE

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iechyd a llesiant gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y meini prawf hwn gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n annog teuluoedd a phlant oedran ysgolion i adael y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar economi ehangach y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y gymuned, gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gydag darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral

OPSIWN 8: SEFYDLU YSGOL AR FWY NAG UN SAFLE – YSGOL AML-SAFLE

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Gan y byddai'r ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo yn parhau, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n effeithio'n negyddol ar iechyd a llesiant.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Gan y byddai'r ddarpariaeth ar safle Ysgol Nebo yn parhau, ni ragwelir effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu Byddai unrhyw gludiant fyddai ei angen i safle Ysgol Nebo ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol a Polisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Gan y byddai safle Ysgol Nebo yn parhau fel rhan o'r ysgol aml-safle, ni ragwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma yn cael effaith ar gyfleusterau/gwasanaethau eraill ar ddarperir yn yr ysgol	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach, gan y byddai ddarpariaeth addysg yn parhau ar safle Ysgol Nebo.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni ragwelir unrhyw effaith ar y meini prawf yma, gan y byddai ddarpariaeth addysg yn parhau ar safle Ysgol Nebo.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Gan y byddai safle Ysgol Nebo yn parhau fel rhan o'r ysgol aml-safle, ni ragwelir effaith ar wasanaethau eraill lleol.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n effeithio ar yr hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Gan y byddai safle Ysgol Nebo yn parhau, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith gyffredinol ar y gymuned leol pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu.	Niwtral

6. CASGLIAD

Dengys yr asesiad hwn mai niwtral fyddai'r effaith tebygol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiynau a restrir isod:

- Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol
- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos
- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo
- Ysgol Nebo yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes)
- Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol
- Ysgol Nebo yn cynnig uned iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle
- Sefydlu Ysgol ar fwy nag un safle – ysgol aml-safle

Er y byddai rhai o'r opsiynau yn golygu lleoli uned iaith neu ddarpariaeth ADY ar safle Ysgol Nebo, ac o ganlyniad, byddai gwasanaethau ychwanegol yn cael eu darparu ar safle'r ysgol, ni ragwelir y byddai hynny'n cael effaith ar y gymuned.

Dengys yr asesiad y rhagwelir peth effaith negyddol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Nebo. Cydnabyddir y byddai cau Ysgol Nebo yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nebo, fodd bynnag nodai'r asesiad fod cyfran helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni (43%), ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Llanllyfni a chymuned Ysgol Nebo yn bodoli eisoes.

Pe byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo yn cael ei wireddu, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Llanllyfni. I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Nebo yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Llanllyfni a chymuned Nebo, lle'n briodol.

Pe byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo yn cael ei wireddu, bydd yn hanfodol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen (Ysgol Llanllyfni) a rhieni dysgwyr Ysgol Nebo fel bod modd i rieni a dysgwyr fanteisio ar eu cyfleusterau ac unrhyw weithgareddau ar ôl ysgol.

Yn ogystal, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.

ASESIAD EFFAITH IEITHYDDOL – YSGOL NEBO (MEDI 2025)

1. CYFLWYNIAD

Mae cefnogi a datblygu gallu plant Gwynedd i ddysgu a defnyddio eu sgiliau iaith yn allweddol bwysig i strategaethau addysg y Sir.

1.1 Y Sefyllfa yng Ngwynedd

Mae ffigyrau yng Nghyfrifiad 2021 yn nodi fod 66% o bobl dros dair oed yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae Cyfrifiad 2021 hefyd yn nodi bod 64% yn siarad Cymraeg sydd yn ostyngiad ers y cyfrifiad blaenorol, pan oedd y ffigwr yn 65%.

Yng Ngwynedd, fel mewn sawl Awdurdod Lleol eraill yng Nghymru, mae cryn wahaniaeth yng nghanran y siaradwyr Cymraeg o fewn gwahanol wardiau. Ar un eithaf, mewn wardiau megis Aberdyfi, Tywyn a Canol Bangor mae rhwng 26% a 44% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, tra bod cymaint â 86% yn siarad Cymraeg yn yr ardaloedd mwyaf Cymreig e.e. Hendre a Llanrug.

1.2 Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg (CSGA)

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn ddogfen statudol yr Awdurdod Lleol ac yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg (yn unol â thargedau *Cymraeg 2050*). Mae 7 deiliant y disgwylir i Awdurdodau Lleol eu gweithredu er mwyn gwireddu'r deilliannau, sef:

1. Mwy o blant meithrin/3 oed yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.
2. Mwy o blant dosbarth derbyn/5 oed yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.
3. Mwy o blant yn parhau i wella sgiliau wrth drosglwyddo o un cyfnod addysg i'r llall.
4. Mwy o ddysgwyr yn astudio Cymraeg fel pwnc a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
5. Cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.
6. Gwellu darpariaeth addysg Gymraeg i ddisgyblion ADY.
7. Cynyddu nifer staff sydd yn gallu addysgu yn Gymraeg.

1.3 Polisi Iaith

Cynradd

Yr un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y Sir, sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyfedr yn y ddwy iaith erbyn diwedd CA2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, parheir i ddatblygu gfael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

Uwchradd

Yn yr uwchradd, disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd y lefel angenrheidiol, sef lefel 3+ ar ddiwedd CA2 ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Y gobaith yw y gall y disgyblion hyn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd blwyddyn 11.

Mae'r ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau fod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw'r Sir yn diffinio ysgolion uwchradd yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un disgwyliad mewn perthynas â'r Polisi Iaith, sef rhoi cyfle i holl ddisgyblion y Sir fod yn hyfedr ddwyieithog.

1.4 Miliwn o siaradwyr erbyn 2050

Cymraeg 2050 yw strategaeth ddiweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ac mae'n cwmpasu'r tri degawd nesaf. Nodir yn y ddogfen hon dargedau penodol ar gyfer cynyddu'r niferoedd sy'n siarad yr iaith ynghyd â'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae nodau Cymraeg 2050 yn cynnwys:

	Nod	Targed
1.	Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg	1 Miliwn o siaradwyr erbyn 2050
2.	Cynyddu defnydd o'r Gymraeg	Defnyddwyr dyddiol o'r Gymraeg yn cynyddu o 10% i 20%

Pwysleisia'r ddogfen strategol *Cymraeg 2050*: Miliwn o siaradwyr bwysigrwydd cynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg ond hefyd pwysleisir fod cynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg yr un mor bwysig.

Mae symud i sefyllfa lle mae miliwn o siaradwyr yn un agwedd ar ein gweledigaeth ar gyfer ffyniant y Gymraeg. Ond mae iaith Gymraeg sy'n ffynnu yn iaith sy'n cael ei defnyddio. Rydym am i'r defnydd o'r Gymraeg fod yn rhan arferol o fywyd bob dydd, fel bod siaradwyr ar bob lefel yn teimlo'n hyderus i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol..... Yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2013–15 (Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg 2015) mae cysylltiad clir rhwng rhuglder a pha mor aml y defnyddir y Gymraeg – mae 84% o siaradwyr Cymraeg rhugl yn siarad Cymraeg bob dydd.

Ffynhonnell: Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr (2017)

1.5 Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033

Mae Safonau'r Gymraeg a osodwyd ar Gyngor Gwynedd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod disgwyliad ar y Cyngor i lunio strategaeth 5 mlynedd fydd yn dangos sut y bwriedir mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg ar draws y sir. Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033 yw strategaeth ddiweddaraf Cyngor Gwynedd ar gyfer y Gymraeg. Nodir yn y ddogfen hon dargedau penodol ar gyfer cynyddu'r niferoedd sy'n siarad yr iaith:

	Sut byddwn yn cynyddu nifer siaradwyr?	Sut byddwn yn mesur ar lefel leol, ac yn ystod cyfnod y strategaeth?
1.	Rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc nad ydynt eto yn siaradwyr Cymraeg (e.e. newydd-ddyfodiaid, plant sydd ddim yn derbyn addysg prif ffrwd), i ddysgu a dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus.	Nifer y plant sydd yn cael addysg cyfrwng Cymraeg. Nifer plant sydd yn cael cefnogaeth drwy gyfundrefn drochi'r Adran Addysg.
2.	Rhoi cyfleoedd i oedolion ddod yn siaradwyr newydd drwy gynlluniau cefnogi dysgwyr y Cyngor a darpariaeth gymunedol partneriaid.	Nifer gweithwyr y Cyngor sydd yn derbyn gwersi dysgu Cymraeg. Darpariaeth cyrsiau dysgu Cymraeg cymunedol.

Ceir yn y Strategaeth hefyd ymrwymiad i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y meysydd canlynol:

- *Iaith y blynyddoedd cynnar*
- *Iaith Dysgu*
- *Iaith Gwaith a Gwasanaeth*
- *Iaith y Gymraeg*

2. PROFFIL IAITH DALGYLCH NEBO

2.1 Cefndir Proffil Iaith Gwynedd

Mae 64.4% o boblogaeth y Sir sydd dros dair oed yn siaradwyr Cymraeg – sylweddol uwch na'r ffigwr trwy Gymru gyfan o 17.8%. Yng Ngwynedd, mae'r gallu i siarad Cymraeg uchaf yn ward Hendre (mae 86% yn siarad Cymraeg), ac ar ei isaf yn ardal Canol Bangor (25.6%).

2.2 Wardiau

2.2.1 Ward Llanllyfni a Chlynnog

Mae dalgylch Ysgol Nebo, Ysgol Baladeulyn, Ysgol Brynaerau ac Ysgol Llanllyfni o fewn ward Llanllyfni a Chlynnog gyda dalgylch Ysgol Bro Llifon o fewn ward Y Groeslon, gyda dalgylch Ysgol Bro Lleu o fewn ward Penygroes a dalgylch Ysgol Talysarn o fewn ward Talysarn (Swyddfa Ystadegol Gwladol 2021). Mae proffil ieithyddol wardiau'r ysgolion hyn wedi ei grynhoi yn y tabl isod:

	Llanllyfni a Chlynnog	Y Groeslon	Penygroes	Talysarn	Gwynedd	Cymru
Hunaniaeth Gymreig yn unig	1,407 (64.8%)	1,200 (72.2%)	1,363 (75.6%)	1,206 (62.2%)	69,560 (59.3%)	1,715,975 (55.2%)
Dim hunaniaeth Gymreig	35.2%	27.8%	24.4%	37.8%	36.3%	36.7%
Poblogaeth 3+ mlwydd oed	2,173 (100%)	1,621 (100%)	1,802 (100%)	1,943 (100%)	114,308 (100%)	3,018,172 (100%)
Gallu siarad Cymraeg	1,508 (69.4%)	1,247 (77%)	1,447 (80.3%)	1,312 (67.5%)	73,560 (64.4%)	538,296 (17.8%)
Dim sgiliau Cymraeg	429 (19.7%)	237 (14.6%)	195 (10.8%)	390 (20.1%)	29,977 (26.2%)	2,259,017 (74.8%)
Gallu deall Cymraeg ar lafar yn unig	121 (5.6%)	98 (6.0%)	66 (3.7%)	133 (6.8%)	8,166 (7.1%)	156,762 (5.2%)
Gallu siarad Cymraeg ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg	108 (5%)	58 (3.6%)	96 (5.3%)	104 (5.4%)	6,142 (5.4%)	68,391 (2.3%)
Gallu siarad a darllen Cymraeg ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg	53 (2.4%)	43 (2.7%)	52 (2.9%)	57 (2.9%)	3,170 (2.8%)	33,971 (1.1%)
Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	1,327 (61.1%)	1,128 (69.6%)	1,279 (71%)	1,119 (57.6%)	63,256 (55.3%)	429,313 (14.2%)
Gallu ysgrifennu Cymraeg ond ddim yn gallu siarad na darllen Cymraeg	10 (0.5%)	7 (0.4%)	2 (0.1%)	7 (0.4%)	387 (0.3%)	4,970 (0.2%)
Gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg ond ddim yn gallu siarad Cymraeg	16 (0.7%)	23 (1.4%)	24 (1.3%)	12 (0.6%)	1,004 (0.9%)	17,560 (0.6%)
Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg	20 (0.9%)	18 (1.1%)	20 (1.1%)	32 (1.6%)	993 (0.9%)	6,621 (0.2%)

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegol Gwladol

2.3 Ysgol Nebo

Dengys y tabl isod fod y mwyafrif o ddysgwyr Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Ysgol	Siarad Cymraeg yn rhugl gartref	Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg o gwbl
Nebo	50%	12.5%	25%	12.5%	0%

Ffynhonnell: Canran o nifer yr ymatebwyr Ionawr 2025

2.4 Ysgolion cyfagos

Mae data ieithyddol ar gyfer yr ysgolion cyfagos i'w gweld isod.

Ysgol	Siarad Cymraeg yn rhugl gartref	Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg o gwbl
Baladeulyn	55%	27%	0%	18%	0%
Brynaerau	63%	8%	2	10%	17%
Llanllyfni	80%	8%	1%	4%	7%
Bro Lleu	73%	3%	2%	6%	16%
Talysarn	37%	16%	4%	19%	24%
Bro Llifon	83%	3%	1%	3%	10%

Ffynhonnell: Canran o nifer yr ymatebwyr Ionawr 2025

2.5 Gweithgareddau ar ôl ysgol

Dyma grynodeb o'r hyn mae Ysgol Nebo a'r ysgolion eraill dalgylch uwchradd Dyffryn Nantlle yn ei gynnig ar safleoedd yr ysgol.

	Baladeulyn	Talysarn	Bro Lleu	Llanllyfni	Brynaerau	Bro Llifon	Nebo
Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)			✓				
Aelwyd yr Urdd				✓		✓	✓
Bore/Noson Goffi	✓	✓		✓	✓	✓	
Cylch/Ysgol Feithrin			✓	✓		✓	
Clwb/Clwb ar ôl ysgol / Gweithgaredd Chwaraeon		✓	✓	✓	✓	✓	✓

Gwelir yn y tabl uchod fod nifer o ysgolion yr ardal, gan gynnwys Ysgol Nebo yn cynnig clybiau gyda'r Urdd ar ôl ysgol. Golygai hyn gallai'r dysgwyr barhau i fanteisio ar y gweithgareddau hyn fel cyfle ychwanegol i ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg.

2.6 Gweithgareddau Cymunedol

Nid oes adeilad/canolfan gymunedol ym mhentref Nebo. Mae trigolion Nebo a Nasareth yn gwneud defnydd rheolaidd o 'ystafell gymunedol' yr ysgol ar gyfer achlysuron a digwyddiadau cymunedol. Dyma rai o achlysuron a digwyddiadau cymdeithasol sy'n digwydd yn Ystafell Gymunedol yr Ysgol:

- Cyfarfodydd misol Pwyllgor Ardal Nebo a Nasareth
- Clwb Dydd Llun: Yn cwrdd pob yn ail ddydd Llun am sgwrs a phaned.
- Nosweithiau cymdeithasol: Siaradwyr gwadd o'r gymuned a thu allan.
- Cymorth Cyntaf efo St John Ambiwllans: Hyfforddiant ar CPR a defnydd y diffibrilyddion ar yr Ysgol a Chapel Nasareth.
- Clwb Garddio: Yn cwrdd yn aml i drefnu arddangosfeydd blodeuog y pentref, ymweliad gerddi, rhannu planhigion a hadau. Hefyd yn trefnu cynhaliaeth y berllan cymunedol ym Mharc Nebo gyda plant yr ysgol yn helpu plannu'r coed ffrwyth.
- Gwersi Cymraeg i ddysgwyr.
- Clwb Gweu a Chrosiet; Yn cwrdd yn wythnosol i greu pabys, addurniadau Nadoligaidd ac arddangosfeydd tymhorol 3D am y pentrefi.
- Teithiau cerdded lleol: Lluniaeth ar ôl teithiau lleol, yn gynnwys taith cerdded flynyddol Dydd Calan at Llyn Cwm Dulyn.
- Defod Sul y Cofio.
- Ras Mynydd Craig Goch: Defnyddio adeilad yr ysgol i gofrestru rhedwyr, ac yn rhan bwysig o gynnal lluniaeth i'r rhedwyr.
- Gwarchod amgylchedd: Trefnu sesiynau casglu sbwriel a gweithredu atal baw cŵn.

2.7 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032

Mae Ysgol Nebo a'r ysgolion cyfagos yn gweithredu amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys:

- Bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bod y disgwyliad hwnnw yn gyson ar draws pob un o'r ysgolion.
- Bod darpariaeth addas i alluogi pob disgybl i ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i ysgolion barhau i feithrin sgiliau'r disgyblion hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n ddysgwyr.
- Bod holl sefydliadau addysg y sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol, yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

Byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn cyd-fynd ag amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32.

2.8 Tystiolaeth Ychwanegol

Ysgol Nebo

Mae adroddiad Estyn yn 2017 yn dweud:

“Cymraeg yw prif gyfrwng a bywyd yr ysgol. Mae tua 58% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref, ac nid oes yr un disgybl o gefndir lleiafrifol ethnig”

[Adroddiad arolwg Estyn Ysgol Nebo Hydref 2017](#)

Ysgol Llanllyfni

Mae adroddiad Estyn 2017 yn dweud:

“Daw tua 76% o'r disgyblion gartrefi lle y siaredir y Gymraeg. Mae hyn yn ostyngiad ers yr arolygiad diwethaf pan roedd 95% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd.”

[Adroddiad arolygiad Estyn Ysgol Llanllyfni 2017](#)

3. Asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg

3.1 Yr Opsiynau

- *Gwneud dim- Parhau gyda'r sefyllfa bresennol*

Byddai cadw'r drefn bresennol yn golygu fod Ysgol Nebo yn parhau yn yr un modd, gyda'r un strwythur staffio.

Noder, er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r model Gwneud dim wedi ei gynnwys yn yr asesiad at ddiben cymharu.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nebo trwy drefniant cydweithio gydag ysgol, neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Ni ragwelir y byddai ffederaleiddio yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gyda chyfleoedd i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth, a chydweithio ar gyfer yr ysgol.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo.*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos ac ychwanegu uned ADY ar safle Ysgol Nebo er mwyn cynnig addysg arbennig i'r plant fyddai angen cefnogaeth ychwanegol. Ni fydd unrhyw newid i'r elfen ysgol.

Ni ragwelir y byddai ffederaleiddio yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg yn yr ysgol gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau, gyda chyfleon i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth, a chydweithio ar gyfer yr ysgol.

- *Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni)*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni.

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Nebo yn cau, ac y byddai dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Nebo yn cael cynnig lle yn Ysgol Llanllyfni (yr ysgol amgen).

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn cynnwys asesiad o effaith cau Ysgol Nebo ac addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni, ar yr iaith Gymraeg o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae'r tabl hefyd yn amlinellu'r cyfleoedd ychwanegol ar gyfer cryfhau'r iaith Gymraeg, a dulliau lliniaru unrhyw effaith negyddol allai ddeillio o'r cynnig arfaethedig.

- *Ysgol Nebo yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes)*

Byddai cadw'r drefn bresennol yn golygu fod Ysgol Nebo yn parhau yn yr un modd, gyda'r un strwythur staffio.

Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau.

- *Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol, lle mae addysg prif lif yn heriol iddynt.*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gydag Ysgol Nebo gan ychwanegu ardal benodol arbenigol i blant gydag anghenion dysgu ychwanegol ar safle'r ysgol.

Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Nebo yn parhau.

- *Ysgol Nebo yn cynnig uned iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gydag Ysgol Nebo gan ychwanegu uned iaith ar safle'r ysgol.

Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg yn yr ysgol gan na fyddai newid i'r ddarpariaeth gan Ysgol Nebo. Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai'n cael effaith bositif ar iaith Gymraeg y dysgwyr fydd yn mynychu'r Uned iaith.

- *Sefydlu Ysgol ar fwy nag un safle*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu cau ysgolion lleol, gan gynnwys Ysgol Nebo, a sefydlu ysgol newydd ar draws nifer o safleoedd, gan gynnwys safle presennol Ysgol Nebo.

Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg. Yn ddibynnol ar strwythur yr ysgol aml-safle, gall fod cyfleoedd i ddysgwyr gael mynediad at ystod ehangach o adnoddau addas, cyflenwad uwch yn nhermau staffio, a gallent fod yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion.

4. ASESIAD O'R EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG

Asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg – Cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni)

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith	Oes unrhyw fesurau wedi'u hadnabod i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd positif	Effaith derfynol (yn dilyn dulliau liniaru)
Iaith yr ysgol (ffurfiol)	Mae Ysgol Nebo yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng. Gan fod Ysgol Llanllyfni hefyd yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng, deuir i'r casgliad na fyddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar iaith addysg y plant.	Niwtral	Amherthnasol	Amherthnasol
Iaith yr ysgol (anffurfiol)	Mae ystadegau CYBLD Ionawr 2025 yn dangos fod 50% o ddysgwyr Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 80% o ddysgwyr Ysgol Llanllyfni. Gan y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, gallasai'r cynnig gryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda'u cyfoedion. Ar sail hynny, o wireddu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.	Positif	Amherthnasol	Amherthnasol
Mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg	Mae Ysgol Llanllyfni yn ysgol Gymraeg eu cyfrwng, fel Ysgol Nebo. Ni ragwelir felly y byddai'r cynnig yn effeithio ar y meini prawf hwn.	Niwtral	Amherthnasol	Amherthnasol
Darpariaeth anstatudol	Byddai gan ddysgwyr fynediad at gyflenwad uwch yn nhermau staffio, a byddent yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion o'r un oedran.	Positif	Gallai'r awdurdod lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Llanllyfni drafod dulliau i sicrhau bod dysgwyr yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.	Positif
Gweithgareddau cyn / ar ôl ysgol	Mae Ysgol Llanllyfni yn ysgol fwy o ran niferoedd o ddysgwyr felly bydd y grwpiau cyfoedion yn fwy. Mae Ysgol Llanllyfni hefyd yn cynnig clybiau a gweithgareddau ar ôl ysgol sydd yn cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg cyn/ar ôl ysgol.	Positif	Gallai'r Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Llanllyfni ystyried unrhyw gyfleoedd ychwanegol ar gyfer cynnal gweithgareddau ar ôl ysgol, gan sicrhau fod trefniadau mewn lle i gynnwys dysgwyr dalgylch Nebo.	Positif
Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned	Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol yn deillio o wireddu'r cynnig, e.e gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd yn cyfarfod yn ddyddiol yng nghymuned Nebo wrth ollwng/casglu plant o'r ysgol.	Negyddol	Gall yr Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Llanllyfni ystyried dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nebo yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol.	Niwtral

5. CASGLIAD

Ein disgwyliadau yw bod holl ddysgwyr y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys, oed perthnasol er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni. Bydd angen i'r cynigion ar gyfer ad-drefnu gymryd ystyriaeth lawn o'r holl effeithiau ieithyddol. Bydd cynnal a gwell defnydd o'r Gymraeg fel iaith addysgol a chymdeithasol ymhlith plant yn ystyriaeth allweddol wrth lunio cynigion o fewn yr ardal.

Ni ragwelir y byddai unrhyw un o'r opsiynau a nodir yn adran 3 uchod yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.

O safbwynt y cynnig i gau Ysgol Nebo a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Llanllyfni, ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg, yn bennaf gan:

- fod ystadegau PLASC Ionawr 2025 yn dangos fod 50% o ddysgwr Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 80% o ddysgwr Ysgol Llanllyfni
- y byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.
- y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau'r cyfleodd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion.

Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

ASESIAD EFFAITH DEDDF LLESIANT A CHENDEDLAETHAU'R DYFODOL – YSGOL NEBO (MEDI 2025)

1. CYFLWYNIAD

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd. Gweledigaeth y Cyngor yw:

Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant sydd yn ategu'r nodau llesiant cenedlaethol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc
- Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng
- Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau
- Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau
- Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned
- Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd
- Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol.

	Llewyrchus	Cydnherth	Iachach	Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn fflwynu	Yn gyfrifol ar lefel fyd-eang
GWYNEDD YFORY Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc							
GWYNEDD LEWYRCHUS Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng							
GWYNEDD GLYD Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau							
GWYNEDD OFALGAR Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau							
GWYNEDD GYMRAEG Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.							
GWYNEDD WERDD Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd							
GWYNEDD EFFEITHLON Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon							

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg dysgwyr drwy eu gweithgareddau a'u prosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella yn "Cynllun Gwynedd 2023-2028".

2. SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

Y cynnig arfaethedig:

Ceisir caniatâd y Cyngor i gynnal ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

Amcanion	
Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc	Byddai'r cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yr ardal yn meithrin profiadau drwy gymdeithasu gydag ystod ehangach o gyfoedion, oed-berthnasol gan dderbyn addysg o ansawdd mewn ysgol sydd yn gallu cynnig amgylchedd ddysgu a phrofiadau i ystod ehangach o ddysgwyr.
Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng	Rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n arwain at ddiswyddiadau staff. Datblygwyd polisi staffio manwl gan Gyngor Gwynedd mewn cydweithrediad ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd y polisi yn sail i unrhyw newid i gyflogaeth staff sy'n deillio o unrhyw gynnig. Bydd cyfathrebu eglur ac agored yn greiddiol i weithrediad llwyddiannus unrhyw gynigion.
Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau	Dim effaith.
Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau	Bydd sicrhau fod y dysgwyr yn derbyn addysg o'r radd flaenaf yn greiddiol i'r cynnig arfaethedig, gan sicrhau y byddant yn derbyn addysg o'r un ansawdd a safon yn yr ysgol amgen.
Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned	Mae dysgwyr Ysgol Nebo yn byw mewn cymdeithas Gymraeg ac yn cael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, fel yr ysgol amgen. Mae'n debygol y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith cadarnhaol ar y Gymraeg wrth i ddysgwyr Ysgol Nebo elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol. Mae Ysgol Llanllyfni yn gwasanaethu ardaloedd sydd yn gadarnle i'r iaith Gymraeg gyda nifer uchel o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg.
Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd	Dim effaith.
Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon	Dim effaith.

3. A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

Nod	Yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma?	Mesurau lliniaru effeithiau negyddol ar y nod yma:
Cymru lewyrchus Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith.	Byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo ac addysgu'r plant mewn ysgol amgen cyfagos yn golygu fod y dysgwyr yn meithrin profiadau drwy gymdeithasu gydag ystod ehangach o gyfoedion, oed-berthnasol gan dderbyn addysg o ansawdd mewn ysgol sydd yn gallu cynnig amgylchedd ddysgu a phrofiadau i ystod ehangach o ddysgwyr. Gall cyflwyno'r opsiwn arfaethedig arwain at staff yn colli eu swyddi.	Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen i ymgynghori ar y cynnig arfaethedig, bydd ymgynghoriad statudol yn cael ei gynnal fyddai'n cynnwys holl ran-ddeiliaid yr ysgol dan sylw, gan gynnwys staff a chynrychiolwyr undebau. Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd ac Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn gyd-fynd â'r polisi hwnnw. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion.
Cymru gydnerth Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).	Ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.	Dim effaith
Cymru iachach Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd.	Ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.	Dim effaith
Cymru sy'n fwy cyfartal Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).	Rhagwelir y byddai'r cynnig yn gwella gallu'r Awdurdod i <i>"gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn"</i> yn unol â gweledigaeth Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd.	Nodai'r Asesiad Cydraddoldeb na ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith negyddol ar gydraddoldeb. Yn ogystal, nodwyd fod polisïau a threfniadau cadarn mewn lle a fyddai'n sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal. Nodir fod mesurau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahanïaethu anghyfreithiol nac aflonyddu.

Cymru o gymunedau gydlynus Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.	Mae cymuned Nebo yn gryf a gweithgar a chydabyddir y gallai cau Ysgol Nebo arwain at beth effaith negyddol ar y gymuned.	Yn dilyn cynnal asesiad o'r effaith tebygol ar y gymuned, daethpwyd i'r casgliad y gallai'r cynnig arfaethedig arwain at beth effaith negyddol ar y gymuned. Wrth gydnabod yr effaith negyddol y gallai cau'r ysgol ei gael ar y gymuned, nodir bod nifer o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn dewis mynychu Ysgol Llanllyfni. Credir felly bod cyswllt eisoes yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ardal ehangach. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, bydd cyfle i adeiladu ar y cysylltiadau rhwng y gymuned yn Nebo ac Ysgol Llanllyfni drwy gynnal trafodaethau fyddai'n hybu cynnwys cymuned Nebo yng ngweithgarwch cymunedol yr ysgol.
Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.	Ni ragwelir effaith ar y nod hwn gan y byddai gwireddu'r cynnig arfaethedig yn golygu y bydd dysgwyr Ysgol Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.	
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.	Ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.	Dim effaith

4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

Egwyddorion Datblygu cynaliadwy	A yw'r cynnig yn ystyried yr egwyddor?
Tymor Hir Cydbwysu anghenion tymor byr gyda rhai hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol.	Mae'r patrwm o niferoedd dysgwyr yn gostwng wedi bod yn gyson ers nifer o flynyddoedd, gyda rhagamcanion yn dangos y bydd niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo yn parhau i fod yn fregus dros y blynyddoedd nesaf, ac felly dengys y bydd yr heriau presennol sydd yn wynebu'r ysgol yn rhai hir dymor, ac felly mae'r achos dros newid yn glir.
Atal Neilltuo adnoddau ar gyfer atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Byddwn yn rhoi sylw i broblemau drwy atal ac ymyrryd yn fuan yn hytrach na thrwy ymateb.	Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu gweithredu ymhellach, bydd anghenion y dysgwyr yn flaenoriaeth yn ystod pob cam o unrhyw broses.
Integreiddio Cael effaith gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant.	Bu i'r awdurdod benderfynu cychwyn y broses o edrych ar ddyfodol Ysgol Nebo yn sgil sefyllfa argyfyngus sy'n wynebu'r ysgol.
Cydweithredu Gweithio gyda phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaethau.	Bydd cydweithio gydag adrannau perthnasol eraill a'r ysgol amgen yn rhan bwysig o gyflawni'r amcanion er lles yr ysgol a phlant y dalgylch.
Cynnwys (Cyfathrebu ac Ymgysylltu) Cynnwys pobl Gwynedd wrth geisio gwireddu ein cynllun a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal.	Yn unol â phenderfyniad y Cabinet (11 Chwefror 2025), sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol Nebo (PAY) gan wahodd y Corff Llywodraethol, rhieni a staff a'r Aelod Lleol i ymuno â'r panel a chymryd rhan yn y drafodaeth. Cynhaliwyd tri chyfarfod PAY rhwng Mawrth a Gorffennaf 2025 i drafod ystod o opsiynau i geisio ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu. Pe byddai Cabinet Cyngor Gwynedd yn penderfynu symud ymlaen i ymgynghori ar y cynnig arfaethedig yna bydd yr awdurdod yn cynnal ymgynghoriad statudol gyda rhan-ddeiliaid megis rhieni, staff, undebau a'r gymuned ehangach. Bydd yr ymgynghoriad hwn hefyd yn cynnwys ymgynghoriad penodol gyda plant a phobl ifanc.

5. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion.

Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig arfaethedig hwn, gall arwain at golli ysgol yng nghymuned Nebo, fodd bynnag mae nifer helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu yr ysgolion amgen cyfagos, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni ac felly mae cyswllt rhwng yr ysgolion a chymuned Nebo eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y gymuned a Ysgol Llanllyfni. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Llanllyfni yn cynnwys cymuned Nebo lle'n briodol.

Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd o gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

Asesu'r Effaith ar Bobl Gwynedd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010.** Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
 - o ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
 - o hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
 - o meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.
- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a weir o'r Gymraeg.
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.
- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gyngorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

Ysgol Nebo

Awdur: Gwern ap Rhisiart

Dyddiad: Medi 2025

Fersiwn: 1

CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?

- Polisiâu, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu rai sy'n cael eu hadolygu (sy'n golygu newid yn narpariaeth y gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)

2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Ceisir caniatâd Cabinet y Cyngor i gynnal ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

Mae Ysgol Nebo wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2014 ac yn fregus ers peth amser. O ganlyniad, mae'n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys:

- **Niferoedd dysgwyr** – Yng nghyfrifiad Medi 2025, dim ond 11 disgybl Derbyn i Blwyddyn 6 oedd yn mynychu'r ysgol ac 1 plentyn yn y Dosbarth Meithrin. Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 51 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 (+7 yn y Dosbarth Meithrin).
- **Dysgwyr y dalgylch** – Dengys data Medi 2025 mai dim ond 29% o ddysgwyr dalgylch Ysgol Nebo sy'n dewis mynychu'r ysgol. Mae 71% o ddysgwyr y dalgylch yn dewis mynychu ysgolion all-dalgylch.
- **Rhagamcanion niferoedd** – Mae rhagamcanion niferoedd yn argymhell fydd niferoedd yn parhau'n fregus i'r dyfodol: Medi 2026= 12, Medi 2027= 11, Medi 2028=10
- **Canran uchel o lefydd gweigion** – Yn seiliedig ar ffigyrau Medi 2025, mae o ddeutu 79% o lefydd gweigion yn yr ysgol (46 mewn nifer)
- **Maint dosbarthiadau bychain** – Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Nebo (Medi 2025) gyda 5 dysgwr (Derbyn – Blwyddyn 3) ac 1 dysgwr Meithrin mewn un dosbarth. Mae 6 dysgwr (Blwyddyn 4 i Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth.
- **Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau** – Mae amrediad oedran o hyd at 5 mlynedd yn un dosbarth a 3 mlynedd yn yr ail ddosbarth.
- **Cyllid ychwanegol i'r dyraniad** - Mae Ysgol Nebo yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ymhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Cyfanswm y swm ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol 2025-26 (seiliedig ar niferoedd Medi 2024) oedd £70,694.

- **Cost fesul dysgwr** - Cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Nebo yn 2025-26 yw £25,876 o gymharu â'r cyfartaledd sirol o £5,780.

3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?

- Staff, Llywodraethwyr a Rhieni/Gwarchodwyr Ysgol Nebo,
- Pe byddai'r Cabinet yn cefnogi'r argymhelliad i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig arfaethedig, byddwn yn ymgynghori gyda'r holl ymgynghorai a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion,
- Adran Addysg a Swyddogion adrannau eraill Cyngor Gwynedd

CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?

Oes

Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud

Gweithrediad	Dyddiadau	Gwybodaeth
Panel Adolygu Nebo 1	18 Mawrth 2025	Sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol (PAY) Nebo ym mis Mawrth 2025 a chynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhwng mis Mawrth a Gorffennaf 2025, gyda'r olaf ar 14 Gorffennaf 2025. Roedd aelodaeth y PAY yn cynnwys pennaeth a staff yr ysgol, llywodraethwyr, yr Aelod Lleol, rhieni/gwarchodwyr. Yn ystod y cyfarfodydd, ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd dalgylch Ysgol Nebo er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol, gan ymateb yn benodol i'r niferoedd isel o ddysgwyr.
Panel Adolygu Nebo 2	12 Mai 2025	
Panel Adolygu Nebo 3	14 Gorffennaf 2025	

5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?

	Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol	Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol
Hil	Mae gan ysgolion Gwynedd bolisiau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisiau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r Polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol. Yn ogystal, fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn <i>"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i> Ni ragwelir felly y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar y nodwedd yma.	Dim
Anabledd	Ni rhagwelir y byddai'r newid yn cael effaith ar y nodwedd yma. Byddai asesiad o unrhyw ysgolion amgen perthnasol ar sail hygyrchedd yn cael ei gynnal, a byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw gludiant a ddarperir (yn unol a pholisi cludiant yr Adran Addysg) yn addas ar gyfer anghenion yr unigolyn. Bydd anghenion unrhyw blentyn anabl yn cael eu hystyried yn unol â pholisiau Hygyrchedd a Chydraddoldeb yr Adran Addysg.	Dim
Rhyw	Ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn effeithio ar y nodwedd yma. Byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn golygu fod pawb yn parhau i gael eu trin yn ôl eu hangen beth bynnag yw eu rhyw. Mae bob ysgol yn gweithredu Polisi Cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn: <i>"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i>	Dim

Oedran	Pe gweithredir y cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai plant Ysgol Nebo yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol yn eu dosbarth gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas i'w hoedran ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol. Credwn y bydd dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy addas i'w hoedran yn yr ysgol amgen gyfagos oherwydd bydd y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi wedi'u gwahaniaethu yn briodol ar gyfer yr ystod oedran. Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn golygu fod pobl o unrhyw oedran yn cael eu trin yn deg ac yn ôl eu hangen. Mae Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn: <i>"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i>	Positif
Crefydd a Chred	Ysgolion cymunedol yw Ysgol Nebo a'r ysgol amgen a nodir yn y cynnig arfaethedig (Ysgol Llanllyfni). Mae gan bob ysgol Bolisi Cynhwysiad a fyddai'n delio ag unrhyw ddigwyddiad gwahaniaethol a allai godi yn yr ysgol, sy'n gysylltiedig â chrefydd neu gred. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar y nodwedd hwn.	Dim
Cyfeiriadedd Rhywiol	Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei gyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, sy'n greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau. Credwn y bydd dysgwyr yn derbyn	Dim

	mwy o gyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd a dysgu yn gydweithredol fel rhan o ddosbarth mwy mewn ysgol amgen. Ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar bobl ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Mae Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni, yr ysgol amgen arfaethedig, yn gweithredu polisi cydraddoldeb sy'n nodi fod yr ysgol yn: <i>"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i>	
Ail-bennu rhywedd	Ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar bobl ar sail ailbennu rhywedd. Fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd gan gynnwys Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni, fod yr ysgolion yn <i>"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i>	Dim
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar unrhyw un priod neu mewn partneriaeth sifil, gan fod y ddwy ysgol sy'n rhan o'r cynnig arfaethedig yn gweithredu'r un polisïau.	Dim
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar unrhyw un beichiog, boed yn staff neu yn riant, gan fod y ddwy ysgol sy'n rhan o'r cynnig arfaethedig yn gweithredu'r un polisïau.	Dim
Iaith Gymraeg	Yr un yw nod Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd y sir. Golyga hyn, pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, y bydd dysgwyr Ysgol Nebo, yn gallu parhau i dderbyn eu haddysg yn Gymraeg a dwyieithog yn unol â'r Polisi Iaith Addysg yn Ysgol Llanllyfni. Ni ragwelir y byddai effaith negyddol pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, ac mae'n debygol y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg wrth i ddysgwyr Ysgol Nebo elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol. Mae'r ysgol amgen arfaethedig, sef Ysgol Llanllyfni, yn gwasanaethu ardaloedd sydd yn gadarnle i'r iaith Gymraeg. Fodd bynnag, pe byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio, ac o ganlyniad, y	Negyddol / Positif

	defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol yn deillio o wireddu'r cynnig, gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd yn cyfarfod yn ddyddiol yng nghymuned Nebo wrth ollwng/casglu plant o'r ysgol.	
Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol	Rhagwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn lleihau anfantais cymdeithasol drwy sicrhau mwy o brofiadau ac amrywiaeth dysgu, mwy o adnoddau a mynediad at fwy o wasanaethau a gweithgareddau.	Positif
Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluedd Arfog, Ynghyd a'u Teuluoedd	Ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluedd arfog, ynghyd a'u teuluoedd. Bydd plant i deuluoedd milwrol neu gyn-filwrol yn cael yr un chwarae teg pa bynnag ysgol mae nhw'n mynychu.	Dim
Hawliau Dynol	Ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar hawliau dynol.	Dim
Arall	-	-

6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?

Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu cefnogi'r argymhelliad i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig arfaethedig, byddwn yn diweddarau'r holl asesiadau yn dilyn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad arfaethedig.

7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw bolisiau arfaethedig fydd yn effeithio ar blant a phobl ifanc yr ardal.

8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwrmpasu?

Ni rhagwelir y bydd y cynnig arfaethedig yn cael effaith ar ddyletswydd statudol yr ysgol i amddiffyn dysgwyr rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth.

Anelir i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a hybu'r ysgol amgen arfaethedig i barhau i ddilyn polisiau a gweithdrefnau cydraddoldeb. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei wireddu, rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd cyfartal wrth gael eu lleoli yn Ysgol Llanllyfni gan y byddai'r dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sy'n

seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd a gwersi wedi'u gwahaniaethu yn briodol ar gyfer yr ystod oedran.

Gan fod nifer o ddysgwyr sy'n byw yn nalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu Ysgol Llanllyfni mae cysylltiad rhwng yr ysgol a'r gymuned yn bodoli eisoes. Er hynny, pe gweithredir y cynnig arfaethedig, fe hyrwyddir cyfleon i'r ysgol adeiladu ar ei chysylltiadau presennol gyda dalgylch Ysgol Nebo.

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei chyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, sy'n greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosïynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau. O weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd a dysgu yn gydweithredol fel rhan o ddosbarth mwy.

9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)

Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn lleihau yr anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau fod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at fwy o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen. Rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy cyfartal gan y byddai y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sy'n seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

Drwy weithredu'r cynnig arfaethedig, byddai dysgwyr Ysgol Nebo yn cael gwell amgylchfyd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr o'r un oedran, a byddai'n sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg. Rhagwelir y byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Ein disgwyliadau yw bod holl ddysgwyr y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys a gallu perthnasol er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Bydd angen i'r cynigion ar gyfer newid trefniadau lleol gymryd ystyriaeth lawn o'r holl effeithiau ieithyddol. Bydd cynnal a chynyddu defnydd o'r Gymraeg fel iaith addysgol a chymdeithasol ymhlith y dysgwyr yn ystyriaeth allweddol wrth lunio'r cynnig.

Yr un yw nod Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd y Sir, ac mae pob ysgol gynradd (namyn un ysgol) yn disgyn i gategori 3 yn unol â chanllaw categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg, Llywodraeth Cymru. Golyga hyn y bydd dysgwyr Ysgol Nebo yn gallu parhau i dderbyn eu haddysg yn Gymraeg a dwyieithog yn unol â'r Polisi Iaith Addysg yn Ysgol Llanllyfni, pe gweithredir y cynnig arfaethedig.

Ni ragwelir y byddai effaith negyddol pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, ac mae'n debygol y bydd y cynnig yn cael effaith bositif ar y Gymraeg wrth i ddysgwyr Ysgol Nebo elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol.

Fel y gwelir o'r tabl isod mae canran uchel o ddysgwyr y 2 ysgol yn siarad Cymraeg gartref:

Ysgol	Siarad Cymraeg yn rhugl gartref	Ddim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl	Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl	Ddim yn siarad Cymraeg gartref a nid yn rhugl	Ddim yn gallu siarad Cymraeg o gwbl
Nebo	50%	25%	12.5%	12.5%	0%
Llanllyfni	80%	2%	8%	5%	6%
	Cymraeg Rhugl		Ychydig o Gymraeg		Dim Cymraeg

Pe gweithredir y cynnig arfaethedig rhagwelir y bydd digon o le yn Ysgol Llanllyfni i unrhyw ddysgwyr o ddalgylch Ysgol Nebo i'r dyfodol.

Dengys yr asesiad y rhagwelir peth effaith negyddol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Nebo. Cydnabyddir y byddai cau Ysgol Nebo yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nebo, fodd bynnag nodai'r asesiad fod cyfran helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni, ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Llanllyfni a chymuned Ysgol Nebo yn bodoli eisoes.

Pe byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo yn cael ei wireddu, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Llanllyfni. I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Nebo yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Llanllyfni a chymuned Nebo, lle'n briodol. Yn ogystal, gall yr Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Llanllyfni ystyried dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nebo yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol.

11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion.

Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig arfaethedig hwn, gall arwain at golli ysgol yn y gymuned, fodd bynnag mae nifer helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni, ac felly mae cyswllt rhwng yr ysgolion a chymuned yr ysgol honno yn bodoli eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Llanllyfni. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Llanllyfni yn cynnwys y gymuned lle'n briodol.

Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?

Na

CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?

Effaith Gadarnhaol Sylweddol:

Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy cyfartal wrth gael eu lleoli mewn ysgol amgen oherwydd bydd y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sydd yn seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol, ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

Drwy weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai dysgwyr Ysgol Nebo yn cael gwell amgylchfyd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr yr un oedran, bydd yn sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg, ac yn caniatáu mynediad at fwy o weithgareddau perthnasol i'w lefel gallu. Byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

Effaith Negyddol Sylweddol:

Cydnabyddir y gall yr opsiwn arfaethedig sydd yn cael eu cynnig gael effaith ar sefydliad o fewn y gymuned a chael effaith ar gydlyniant cymunedol, a rhagwelir yr angen i liniaru hyn drwy feithrin cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r gymuned.

Yr ysgol (a'u Corff Llywodraethu) sydd yn gyfrifol am weithredu ei pholisi cydraddoldeb a bydd yr Awdurdod, drwy ei weithdrefnau cefnogi a monitro arferol yn sicrhau cydymffurfiaeth.

14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol

Na

15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?

Ddim yn berthnasol.

Noder y rheswm dros ddweud hynny a'r cyfiawnhad dros barhau

Ddim yn berthnasol.

16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?

Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen i ymgynghori ar y cynnig arfaethedig, yna byddwn yn monitro ymateb yr ymgynghoriad er mwyn gweld os oes unrhyw newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi.

17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn lleihau yr anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau fod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at fwy o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen. Byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy cyfartal gan y byddai'r dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sy'n seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

Drwy weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai dysgwyr Ysgol Nebo yn cael gwell amgylchfyd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr yr un oedran, a byddai'n sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg. Byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Rhagwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith positif ar y Gymraeg gan y byddai dysgwyr Ysgol Nebo yn elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol.

Pe byddai'r ysgol yn cau, gallai'r Awdurdod Lleol a Chyrff Llywodraethol yr ysgolion amgen ystyried dulliau i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn gymdeithasol trwy gyfrwng gweithgareddau allgyrsiol a chymunedol.

19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?

Oes

CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:

Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol.

CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisiau/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu [Fframwaith Fesur](#)

21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:

Gweithrediad	Dyddiadau	Amserlen	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth
Ymgynghori yn statudol ar y cynnig (yn ddibynnol ar benderfyniad y Cabinet)	Tymor yr Hydref	42 diwrnod	Adran Addysg	Na

22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:

Trefniadau Monitro ac Adolygu (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi)	Amserlen ac Amllder	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth
Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei wireddu, byddwn yn monitro effaith cau'r ysgol ac yn ymdrechu i gynorthwyo gydag unrhyw effaith negyddol all ddeillio o ganlyniad y polisi.	Parhaol	Adran Addysg	Na

Pecyn Cefndirol

Ysgol Nebo

Cynnwys	
1	Cyfarfod Lleol 1 – 18 Mawrth 2025
	Cyflwyniad
	Cofnodion y cyfarfod
2	Cyfarfod Lleol 2 – 12 Mai 2025
	Cyflwyniad
	Cofnodion y cyfarfod
3	Cyfarfod Lleol 3 – 14 Gorffennaf 2025
	Cyflwyniad
	Cofnodion y cyfarfod
4	Crynodeb o'r mewnbwn yn dilyn Cyfarfodydd Lleol

PANEL ADOLYGU YSGOL GYNRADD NEBO YSGOL GYNRADD NEBO REVIEW MEETING

18 Mawrth 2025
18 March 2025




1

AGENDA


1. Croeso	1. <i>Welcome</i>
2. Y Sefyllfa Bresennol	2. <i>The Current Situation</i>
3. Opsiynau Posib	3. <i>Possible Options</i>
4. Camau Nesaf	4. <i>Next Steps</i>
5. Cloi	5. <i>Close</i>



2



3



4

SEFYLLFA BRESENNOL – RHAGAMCANION/ THE CURRENT SITUATION – PROJECTIONS

	Blwyddyn / Year								Cyfanswm / Total	
	M / N	0	1	2	3	4	5	6	Meithrin / Nursery	Derbyn-BI.6 / Reception – Y6
Ionawr / January 2025	0	2	0	2	3	3	0	0	0	10
Rhagamcanion Medi 2025 Projection for September 2025	2	0	2	0	2	3	3	0	2	10
Rhagamcanion Medi 2026 Projection for September 2026	2	2	0	2	0	2	3	3	2	12
Rhagamcanion Medi 2027 Projection for September 2027	2	2	2	0	2	0	2	3	2	11



5

SEFYLLFA BRESENNOL – DYSGWYR Y DALGYLCH THE CURRENT SITUATION – CATCHMENT PUPILS

Disgyblion dalgylch Nebo (Ionawr 2025) Nebo catchment pupils (January 2025)									
	Bro Lleu	Brynerau	Llanllyfni	Nebo	Talysarn	Baladeulyn	Bro Lliffon	Arall	Cyfanswm Ysgol (M – BI.6) / School Total (N- Y.6)
Mynychu Ysgol / School Attending (Ionawr / January 2025)									
Bro Lleu				1					
Brynerau				0					
Llanllyfni				3*					
Nebo	0	0	7	2	1	0	0	0	10
Talysarn				0					
Baladeulyn				0					
Bro Lliffon				1					
Arall / Other				1					
Cyfanswm Total				8					

Meddalwedd GIS y Cyngor (System Gwybodaeth Ddaearyddol), yn nodi mai dim ond 8 dysgwr oed cynradd sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Nebo (sydd yn cynnwys 1 dysgwr oed Meithrin). Er hyn, dim ond 2 sydd yn dewis mynychu'r ysgol, gyda 5 o'r dysgwyr yn mynychu ysgolion cynradd eraill yn nalgylch Dyffryn Nantlle ac 1 yn mynd all-dalgylch.

The Council's GIS software (Geographical Information System) shows that only 8 primary age learners live in the catchment area of Ysgol Nebo (which includes 1 Nursery age learner). Despite this, only 2 choose to attend the school, with 5 of the learners attending other primary schools in the Dyffryn Nantlle catchment area, and 1 going outside the catchment area.



6

SEFYLLFA BRESENNOL – CYLLIDEB YR YSGOL (2024/25)/ THE CURRENT SITUATION – SCHOOL BUDGET (2024/25)

	Ysgol Nebo	Cyfartaledd Sirol County Average
Dyranïad Craidd 2024-2025 Allocation 2024-2025	£148,493	-
Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio* Minimum Staffing Protection*	£49,404	-
Cyfanswm Dyranïad Total Allocation	£197,897	-
Cyfartaledd y Disgybl Average per Pupil	£14,857	£5,223

**Mae'r polisi gwarchodaeth yn sicrhau o leiaf pennaeth ac athro/athrawes ym mhob ysgol gyda mwy na 15 disgybl, a pennaeth a chymhorthydd dosbarth mewn ysgolion gyda llai na 15 disgybl.

**The minimum staffing protection policy ensures a minimum of headteacher and teacher at every school which has more than 15 pupils, and a headteacher and a classroom assistant in a school with fewer than 15 pupils.



7

SEFYLLFA BRESENNOL – STRWYTHUR STAFFIO THE CURRENT SITUATION – STAFF STRUCTURE

Trwy Polisi Gwarchodaeth Cyngor Gwynedd, gwarantir isafswm lefel staffio o bennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr. Mae strwythur staffio presennol Ysgol Gynradd Nebo yn cynnwys pennaeth (cyfwerth â llawn amser) a 45 awr o amser cymorthyddion dysgu.

Through Cyngor Gwynedd Protection Policy, a minimum staffing level of a headteacher and assistant is available in schools with less than 15 learners. The current staffing structure of Ysgol Nebo includes a Headteacher (equivalent to full time) and 45 hours of teaching assistants.



8

CRYNHOI PRIF HERIAU'R SEFYLLFA BRESENNOL / SUMMARY OF THE MAIN CHALLENGES OF THE CURRENT SITUATION

1	Nifer disgyblion yr ysgol yr isaf yn y sir <i>The number of pupils at the school is the lowest in the county</i>
2	Rhagamcanion yn parhau yn isel <i>Projections remain low</i>
3	Nifer uchel o lefydd gweigion <i>High number of surplus places</i>
4	Maint dosbarthiadau bychain <i>Small class sizes</i>
5	Amrediad ystod oed eang o fewn dosbarthiadau <i>Broad age range within classes</i>
6	Cost y disgybl ymysg yr uchaf yn y sir a sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol <i>Cost per pupil amongst the highest in the county and significantly higher than the county average</i>
7	Ysgol yn derbyn swm ychwanegol o £49,404 (Med 2024) trwy'r gwarchodaeth staffio <i>School receives an additional £49,404 (September 2024) through the minimum staffing protection</i>



9

YSTYRIAETHAU CONSIDERATIONS

Wrth lunio a chymharu opsiynau, byddwn yn rhoi ystyriaeth i sawl ffactor, gan gynnwys:
In formulating and comparing options, we will consider several factors, including:

1	Maint dosbarthiadau / <i>Class sizes</i>
2	Niferoedd disgyblion / <i>Pupil numbers</i>
3	Arweinyddiaeth a Staffio / <i>Leadership and Staffing</i>
4	Y Gymuned / <i>The Community</i>
5	Adnoddau ariannol / <i>Financial resources</i>
6	Yr iaith Gymraeg / <i>The Welsh language</i>
7	Ansawdd addysg / <i>Quality of education</i>
8	Cyflwr ac addasrwydd adeiladau / <i>Condition and suitability of the building</i>
9	Daearyddol a teithio / <i>Geographical and travel</i>



10

OPSIYNAU POSIB / POSSIBLE OPTIONS

1	Status Quo – Parhau hefo’r sefyllfa bresennol. <i>Status Quo – Continue with the current situation.</i>
2	Ffedereiddio gydag ysgol gyfagos/arall. <i>Federation with neighboring / other school.</i>
3	Cau Ysgol Gynradd Nebo a chynnig lle i’r disgyblion mewn ysgol amgen. <i>Close Ysgol Gynradd Nebo and offer pupils a place at an alternative school.</i>



11

CAMAU NESAF/ NEXT STEPS

Camau Nesaf / <i>Next Steps</i>	Dyddiad / <i>Date</i>
Dyddiad cau ar gyfer derbyn unrhyw opsiynau / sylwadau pellach <i>Closing date for receiving any further options / comments</i>	01/04/2025
Cyfarfod Panel Adolygu 2 <i>Review Panel Meeting 2</i>	Ebrill 2025 / <i>April 2025</i>



12

PANEL ADOLYGU YSGOL GYNRADD NEBO

Addysg

Cyfarfod:	Panel Adolygu Ysgol Nebo	Dyddiad/Amser/Lleoliad: 18 Mawrth 2025, 18:00, Ysgol Nebo
Presennol:	<u>Aelodau Etholedig:</u> Cynghorydd Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg). <u>Swyddogion Adran Addysg:</u> Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Rhian Eifiona Hughes (Swyddog Moderneiddio Addysg), Hana Llyn Roberts (Swyddog Prosiect Addysg). <u>Staff a Llywodraethwyr Ysgol Nebo:</u> 8 Aelod <u>Rhieni / Gwarchodwyr:</u> 3 Aelod	
Ymddiheuriadau:		

Rhif Eitem	Eitem / Pwnc	Gweithrediad	Erbyn
6	Camau Nesaf	Rhanddeiliaid i rannu opsiynau amgen gyda Phennaeth Ysgol Nebo ac yna eu pasio ymlaen at Moderneiddio Addysg erbyn dydd Mawrth 1af o Ebrill .	01/04/25

Cofnod Llawn		
	Eitem/ Pwnc	Gweithrediad
1	Croeso	- Croesawodd Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg pawb i'r cyfarfod. - Pwrpas y cyfarfod yw rhoi trosolwg o sefyllfa Ysgol Nebo, gan ystyried a thrafod opsiynau posib i geisio ymateb i'r heriau mae'r ysgol yn wynebu.
2	Y Sefyllfa Bresennol	- Aethpwyd drwy'r cyflwyniad sydd yn amlygu'r sefyllfa bresennol gan gyfarch: - niferoedd dysgwyr - amrediad oedran dosbarthiadau - rhagamcanion - nifer o ddysgwyr sydd yn byw yn y dalgylch - cyllideb yr ysgol - strwythur staffio - heriau'r sefyllfa bresennol - ystyriaethau a'r opsiynau posib wrth symud ymlaen 10 o ddysgwyr oedd yn mynychu Ysgol Nebo mis Ionawr (PLASC Ionawr 2025). Gyda chapasiti o 51, mae gan yr ysgol nifer fawr o lefydd gweigion sef lle i 41 o ddysgwyr. 80% o lefydd gweigion. Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi os oes mwy na 10% o leoedd gwag mewn ardal yn gyffredinol, mae dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i adolygu'r ddarpariaeth. - Nodwyd mai dim ond 8 dysgwyr oed cynradd sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Nebo. Er hyn, dim ond 2 sydd yn dewis mynychu'r ysgol, gyda 5 o'r dysgwyr yn mynychu ysgolion cynradd eraill yn nalgylch Dyffryn Nantlle ac 1 yn mynd all-dalgylch (Sleid 6 o'r cyflwyniad). - Cyfartaledd cost y pen Ysgol Nebo yw £14,857, sydd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol sydd yn £5,223. - Mae strwythur staffio presennol Ysgol Nebo yn cynnwys pennaeth (cyfwerth a llawn amser) a 45 awr o amser cymorthyddion dysgu. Mae Ysgol Nebo yn derbyn swm ychwanegol o £49,404 trwy'r gwarchodaeth staffio.

3	Opsionau Posib	1) Status Quo - Parhau gyda'r sefyllfa bresennol. 2) Ffedereiddio gydag ysgol gyfagos/ arall. Mae Ysgol Nebo yn cael ei diffinio yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion fel ysgol wledig, felly bydd angen edrych i mewn i'r opsiwn o ffedereiddio gydag ysgol gyfagos. 3) Cau Ysgol Gynradd Nebo a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen. Fel rhan o'r camau nesaf wrth ystyried opsiynau posib, bydd asesiad effaith yn cael eu llunio ar gyfer yr opsiynau er mwyn edrych ar yr elfennau teithio, cydraddoldeb, llesiant, ansawdd addysg, ieithyddol a chymunedol.
4	Camau Nesaf	- Y cam nesaf yw derbyn unrhyw sylwadau / opsiynau gan randdeiliaid Ysgol Nebo. Dyddiad cau ar gyfer derbyn opsiynau yw Dydd Mawrth, 1af o Ebrill. - Cytunwyd i bawb yrru sylwadau/ opsiynau ymlaen at Bennaeth Ysgol Nebo ac yna i'r ysgol eu pasio ymlaen at Rhian Hughes, Swyddog Moderneiddio Addysg. - Bydd cyfarfod Panel Adolygu 2 yn cael ei gynnal mis Ebrill/Mai i fynd drwy'r holl opsiynau.
5	Cwestiynau/ Sylwadau	Rhoddwyd cyfle i bawb i ofyn cwestiynau: a) A fyddai'r awdurdod yn ystyried cadw'r ysgol yn agored ar gyfer plant sydd yn anhapus mewn ysgol fwy o ganlyniad i fwlio distaw yn sgil ychydig o'u anghenion? Gall plant deimlo yn fwy cyfforddus mewn ysgol fach. <i>Nododd GapRh bod gan bob ysgol bolisi i ddelio gyda bwlio, a dylai pob ysgol allu delio gyda problemau bwlio gan sicrhau tegwch i bob plentyn. Er hyn, cydnabod gall taclo bwlio fod yn her mewn ysgolion mwy. Awgrymwyd y gallai fod yn opsiwn i rhanddeiliaid yr ysgol ei gynnig, a gall yr Awdurdod werthuso manteision ac anfanteision yr opsiwn.</i> b) Mae gan yr ardal lot i gynnig o ran iechyd a lles. Lleoliad arbennig ar gyfer gwneud gwaith yn yr awyr agored gyda byd natur a gwaith trawsgwricwlaidd. Teithiau natur wythnosol o amgylch y pentref. Nid oes lleoliad tebyg ar gyfer gwneud hynny. Rhinweddau'r ysgol yn ei gwneud y le arbennig iawn. c) Angen gofyn pam bod rhieni yn mynd a'u plant all-dalgylch. <i>Nododd GapRh fod Polisi Mynediad yn caniatáu i rieni anfon eu plant i unrhyw ysgol. Canlyniad hyn yw fod rhai ysgolion yn ennill a rhai yn colli. Mae ysgol feithrin yn chwarae rhan fawr hefyd lle mae'r dysgwyr yn gwneud cysylltiadau ac eisiau mynd i'r un ysgol a'u ffrindiau. Mae genedigaethau yn isel yng Ngwynedd ac yn her fawr i'r Adran Addysg.</i> d) Mae diffyg tai fforddiadwy yn yr ardal wedi effeithio ar y niferoedd sydd yn byw yn y dalgylch. Nid oedd y Cyngor yn caniatáu datblygu tai yn Nebo. Ydi hyn dal i fodoli, a fyddai'r Cyngor yn ystyried adeiladu tai fforddiadwy yn Nebo? <i>Nododd Cynghorydd Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg) ei fod yn cydnabod y byddai adeiladu tai fforddiadwy yn yr ardal yn gallu arwain at ddenu mwy o deuluoedd, ac yn y pendraw yn cynyddu niferoedd sydd yn mynychu'r ysgol. Nododd y byddai'n codi'r mater gyda'r Adran Tai. Yn sgil y fformiwla adeiladu tai, byddai angen adeiladu nifer fawr o dai yn Nebo i gynyddu niferoedd yr ysgol, byddai angen adeiladu 15 tŷ er mwyn cael 1 plentyn mewn ysgol.</i> e) Beth fyddai'n digwydd os yw Ysgol Nebo yn cau ac ysgolion cyfagos yn llawn? <i>Petai opsiwn rhif 3 yn cael ei weithredu, bydd rhaid edrych ar lefydd gweigion yn yr ysgolion cyfagos gan flaenoriaethu dysgwyr sydd yn byw yn y dalgylch.</i>

- f) Beth fyddai'n digwydd os fyddai'r ysgol yn cau a nid yw'r plentyn eisiau mynd i unrhyw ysgol arall ac yn gwrthod mynd i'r ysgol?**
Nododd GapRh bod dyletswydd ar rieni i sicrhau bod plant yn mynychu'r ysgol er pa mor anodd yw hyn weithiau. Mae Swyddog Presenoldeb a Swyddog Lles ar gael i roi cyngor a chefnogaeth. Os ydych yn teimlo'n gryf bod ysgol amgen ddim yn opsiwn yna mae'r opsiwn o roi addysg gartref i'ch plentyn.
- g) Beth fyddai'n digwydd i'r staff os fydd yr ysgol yn cau?**
Nodwyd petai opsiwn 3 yn cael ei weithredu, y byddai'r Cyngor ar gael i roi cefnogaeth i'r staff a fyddai'n cael eu heffeithio, a byddai Adnoddau Dynol ar gael i gynghori pob unigolyn.
- h) Petai opsiwn 3 yn cael ei ddewis sef cau Ysgol Nebo, beth yw'r amserlen?**
- *Gall proses lawn gymryd oddeutu deunaw mis.*
 - *Unwaith byddwn wedi gwerthuso'r holl opsiynau bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet, ac yn ddibynnol ar ganlyniad y gwerthusiad opsiynau, byddwn yn gofyn am ganiatâd i gynnal ymgynghoriad, lle bydd cyfle i bobl leisio eu barn.*
 - *Pe byddai cyfnod ymgynghori'n cael ei gynnal, byddai angen adrodd yn ôl i'r Cabinet ar ganlyniad yr ymgynghoriad, a phenderfynu a ddylid symud ymlaen i gyhoeddi rhybudd statudol a chynnal cyfnod gwrthwynebu ar y cynnig ai peidio. Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen i gyflwyno rhybudd statudol ar y cynnig, yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, byddai'r Cabinet yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau ddaeth i law, cyn dod i benderfyniad terfynol.*
 - *Felly mae'n broses hir gyda llawer o gamau i sicrhau ein bod yn dilyn y Cod Trefniadaeth Ysgolion.*
- i) Nododd aelod o'r Corff Llywodraethol pwysigrwydd yr ysgol i'r pentref a faint o golled fyddai cau'r ysgol i'r gymuned. Byddai'n anodd i'r gymuned redeg yr adeilad yn sgil costau cynnal a chadw. Does dim yn y pentref os byddai'r ysgol yn cau. Mae nifer o weithgareddau sydd yn pontio cenedlaethau yn cael eu cynnal yn yr ysgol:**
- **Clwb yr Henoed (dros 50) yn cyfarfod pob pythefnos**
 - **Gwersi Cymraeg**
 - **Clwb Gwnïo**
 - **Cawl a Chân**
 - **Berllan yn y parc**
- Nodwyd fod y polisi ôl-ddefnydd yn caniatáu i'r gymuned gael y cynnig cyntaf lle fyddai'n bosib troi'r adeilad yn adnodd cymunedol os bydd diddordeb gan y gymuned. Bydd asesiad effaith ar y Gymuned hefyd yn cael ei greu ar gyfer pob opsiwn.*
- j) A fyddai'n bosib cadw'r ysgol o dan ofal yr Adran Addysg gan ei ail-ddiffinio fel Canolfan Awyr Agored ar gyfer holl blant y Sir?**
Nododd GapRh os byddai'r ysgol yn cau, mae'n annhebygol y byddai'r Adran Addysg yn gallu ariannu hynny, ond fe all fod yn opsiwn i'r gymuned ei wireddu, yn unol a'r polisi ôl-ddefnydd. Nodwyd fod pentref Abersoch yn y broses o droi hen adeilad yr ysgol mewn i ganolfan gymunedol amlbwrpas, gyda chaffi ac unedau busnes.
- k) A fyddai'r gymuned/ plant yn cael anfon sylwadau/ cynnig opsiynau?**
Nodwyd, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen i gynnal ymgynghoriad statudol, byddai cyfle yn ystod y cyfnod ymgynghori i gynnal sesiwn penodol gyda'r plant a byddai eu sylwadau yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad fel sylwadau pawb arall.

6	Cloi	• Y cam nesaf yw rhannu opsiynau amgen gyda Moderneiddio Addysg erbyn dydd Mawrth 1af o Ebrill. • Yn dilyn derbyn yr opsiynau amgen bydd cyfarfod Panel Adolygu 2 yn cael ei gynnal ym mis Ebrill/ Mai i drafod yr holl opsiynau.

PANEL ADOLYGU YSGOL GYNRADD NEBO YSGOL GYNRADD NEBO REVIEW MEETING

12 MAI 2025
12 MAY 2025



1

AGENDA

1. Croeso	1. <i>Welcome</i>
2. Crynhoi Prif Heriau	2. <i>Summary of Main Challenges</i>
3. Opsiynau Posib	3. <i>Possible Options</i>
4. Dadansoddiad SWOT	4. <i>SWOT Analysis</i>
5. Camau Nesaf	5. <i>Next Steps</i>



2

CRYNHOI PRIF HERIAU'R SEFYLLFA BRESENNOL / SUMMARY OF THE MAIN CHALLENGES OF THE CURRENT SITUATION

1	Nifer disgyblion yr ysgol yr isaf yn y sir <i>The number of pupils at the school is the lowest in the county</i>
2	Rhagamcanion yn parhau yn isel <i>Projections remain low</i>
3	Nifer uchel o lefydd gweigion <i>High number of surplus places</i>
4	Maint dosbarthiadau bychain <i>Small class sizes</i>
5	Amrediad ystod oed eang o fewn dosbarthiadau <i>Broad age range within classes</i>
6	Cost y disgybl ymysg yr uchaf yn y sir a sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol <i>Cost per pupil amongst the highest in the county and significantly higher than the county average</i>
7	Ysgol yn derbyn swm ychwanegol o £49,404 (Medi 2024) trwy'r gwarchodaeth staffio <i>School receives an additional £49,404 (September 2024) through the minimum staffing protection</i>



3

RHESTR O OPSIYNAU / LIST OF OPTIONS

1	Parhau gyda'r sefyllfa bresennol / <i>Continue with the current situation.</i>
2	Ffederaleiddio gyda ysgol gyfagos / <i>Federate with a neighboring school.</i>
3	Ffederaleiddio gyda ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant gyda anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo, lle mae addysg prif lif yn heriol iddynt / <i>Federation with neighboring school while adding a specialist unit for children with additional learning needs at Ysgol Nebo, where mainstream education is challenging for them.</i>
4	Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol cyfagos / <i>Close Ysgol Nebo and offer places to the learners in a neighboring school.</i>
5	Ysgol Nebo yn datblygu yn leoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleon unigryw i gyflawni gwaith maes) / <i>Ysgol Nebo to be developed as a specialist location for certain individual subjects (unique opportunities to carry out fieldwork).</i>
6	Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gyda anghenion dysgu ychwanegol, lle mae addysg prif lif yn heriol iddynt / <i>Ysgol Nebo to offer a specialist unit to support children with additional learning needs, where mainstream education is challenging for them.</i>
7	Ysgol Nebo yn cynnig Uned Iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle / <i>Establish a Language Unit for the Dyffryn Nantlle catchment area at Ysgol Nebo.</i>

4

OPSIYNAU / OPTIONS

- Rydym wedi ymchwilio i'r 7 opsiwn yma.
- Mae pob opsiwn wedi ei ddadansoddi ar ffurf 'SWOT Analysis'.
- We have researched these 7 options.*
- Each option has been analysed by means of a 'SWOT Analysis'*

**Sylwer bod y sylwadau a rannwyd yn ystod y cyfarfod wedi'u hychwanegu mewn coch o dan bob opsiwn.*

**Please note that the comments shared during the meeting have been added in red under each options.*



5

1. Parhau gyda'r sefyllfa bresennol

CRYFDERAU	GWENDIDAU
Cadw ysgol ac adnodd cymunedol yn Nebo.	Niferoedd dysgwyr yn parhau yn isel.
Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartref dysgwyr y dalgylch.	Cost y disgybl yn parhau'n uchel.
Dysgwyr yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3.	Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau.
Swyddi staff yr ysgol yn parhau (yn ddibynnol ar y dyraniad).	Maint dosbarthiadau bychain.
<i>Cymhareb staff i ddysgwyr yn gweithio'n dda yn Ysgol Nebo.</i>	Niferoedd dysgwyr ddim yn ddigon i ganiatáu amser digyswllt i'r Pennaeth.
<i>Ymagwedd gynhwysol gadarn yn Ysgol Nebo.</i>	Canran uchel o lefydd gweigion yn yr ysgol yn parhau.
<i>Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Nebo yn ganolog i bopeth.</i>	
CYFLEON	BYGYTHIADAU
<i>Dosbarthiadau bychain</i>	Rhagamcanion niferoedd yn parhau yn isel.
<i>Ystod oedran eang yn gyfle i weithio gyda'u cyfoedion (helpu eu gilydd).</i>	Posiblirwydd o ddiffyg yn y gyllideb.
<i>Gweithgareddau cymunedol rhwng yr ysgol â'r gymuned.</i>	Costau cynnal a chadw'r adeilad yn parhau.
	Canran uchel o blant dalgylch Nebo yn mynychu ysgolion all dalgylch.
	Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynnaladwyedd hir dymor yr ysgol.

6

1. Continue with the current situation

STRENGTHS	WEAKNESSES
School and community resource to remain in Nebo.	Number of learners remain low.
School within reasonable distance of the homes of learners in the catchment area.	Cost per learner remains high.
Learners receiving Category 3 Welsh-medium education.	Wide age range within classes.
School staff positions will continue (subject to the allocation).	Small classes.
Staff to learner ratio working well at Ysgol Nebo.	Numbers of learners not enough to allow non-teaching time for the Headteacher.
A robust inclusive approach at Ysgol Nebo.	A high percentage of surplus places at the school remains.
The health and well-being of Ysgol Nebo learners is central to everything.	
OPPORTUNITIES	THREATS
Small classes.	Projected learner numbers remain low.
Wide age range is an opportunity to work with their peers (help each other).	Possibility of a budget deficit.
Community activities between the school and the community.	Building maintenance costs continue.
	A high percentage of children from the Nebo catchment area attend schools outside the catchment area.
	Uncertainty continues regarding the long-term sustainability of the school.

7

2. Ffedereiddio gyda ysgol gyfagos

CRYFDERAU	GWENDIDAU
Cadw ysgol ac adnodd cymunedol yn Nebo.	Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau
Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartref dysgwyr y dalgylch.	Maint dosbarthiadau bychain.
Dysgwyr yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3.	Niferoedd dysgwyr yn parhau yn isel.
Cymhareb staff i ddysgwr yn gweithio'n dda yn Ysgol Nebo.	Niferoedd ddim yn ddigon i ganiatáu amser digyswllt i'r Pennaeth.
Ymagwedd gynhwysol gadarn yn Ysgol Nebo.	Llefydd gweigion yn parhau. Dim yn debygol o arwain at gynnydd yn nifer dysgwyr Ysgol Nebo.
Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Nebo yn ganolog i bopeth.	Cost y dysgwr yn parhau yn uchel.
CYFLEON	BYGYTHIADAU
Un Corff Llywodraethol.	Posiblirwydd o ddiffyg yn y gyllideb.
Rhannu adnoddau ac arbenigeddau.	Costau cynnal a chadw'r adeiladau yn parhau.
Ysgolion yn cefnogi eu gilydd.	Rhagamcanion niferoedd yn parhau yn isel.
Gall model ffurfiol roi strwythur pendant.	Canran uchel o blant dalgylch Nebo yn mynychu ysgolion all dalgylch.
Gweithgareddau cymunedol rhwng yr ysgol â'r gymuned.	Ffederasiwn yn fodel sydd yn ddibynol ar barodrwydd ysgolion eraill i ymuno â' trefniant i gyd-weithio.

8

2. Federation with neighboring school

STRENGTHS	WEAKNESSES
School and community resource to remain in Nebo.	Wide age range within classes.
School within reasonable distance of the homes of learners in the catchment area.	Small classes.
Learners receiving Category 3 Welsh-medium education.	Numbers of learners remain low.
Staff to learner ratio working well at Ysgol Nebo.	Numbers of learners not enough to allow non-teaching time for the Headteacher.
A robust inclusive approach at Ysgol Nebo.	High percentage of surplus places in the school. Not likely to lead to an increase in the number of learners at Ysgol Nebo.
The health and well-being of Ysgol Nebo learners is central to everything.	Cost per pupil remains high.
OPPORTUNITIES	THREATS
One Governing Body.	Possibility of a budget deficit.
Sharing resources and expertise.	Building maintenance costs continue.
Schools supporting each other.	Projected learner numbers remain low.
A formal model can provide a clear structure.	A high percentage of children from the Nebo catchment area attend schools outside the catchment area.
Community activities between the school and the community.	Federation is a model which is dependent on the willingness of other schools to join an arrangement to work together.

9

3. Ffederaleiddio gyda ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant gyda anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo, lle mae addysg prif lif yn heriol iddynt.

CRYFDERAU	GWENDIDAU
Cadw ysgol ac adnodd cymunedol yn Nebo.	Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau
Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartref dysgwyr y dalgylch.	Maint dosbarthiadau bychain.
Dysgwyr yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3.	Niferoedd dysgwyr yn parhau yn isel, gan nad yw ffederaleiddio na lleoli uned ADY ar safle ysgol yn arferol yn denu dysgwyr ychwanegol i'r ysgol.
Cymhareb staff i ddysgwr yn gweithio'n dda yn Ysgol Nebo.	Niferoedd ddim yn ddigon i ganiatáu amser digyswllt i'r Pennaeth.
Ymagwedd gynhwysol gadarn yn Ysgol Nebo.	Llefydd gweigion yn parhau. Dim yn debygol o arwain at gynydd yn nifer dysgwyr Ysgol Nebo.
Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Nebo yn ganolog i bopeth.	Cost y dysgwr yn parhau yn uchel.
CYFLEON	BYGYTHIADAU
Un Corff Llywodraethol.	Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad yn gweithio efo ysgolion i sicrhau bod disgyblion gydag anawsterau penodol yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm, gan sicrhau ethos gynhwysol ysgol gyfan, gyda disgyblion ag ADY yn cael eu cefnogi i gymryd rhan lawn yng nghymuned yr ysgol.
Rhannu adnoddau ac arbenigeddau.	Posiblirwydd o ddiffyg yn y gyllideb.
Ysgolion yn cefnogi eu gilydd.	Costau cynnal a chadw'r adeiladau yn parhau.
Gall model ffurfiol roi strwythur pendant.	Rhagamcanion niferoedd yn parhau yn isel.
Gwell defnydd o'r adeilad drwy leoli uned ADY ar y safle.	Canran uchel o blant dalgylch Nebo yn mynychu ysgolion all dalgylch.
Grantiau ychwanegol i gyfarch gwelliannau ar gyfer dysgwyr gyda ADY.	Ffederasiwn yn fodel sydd yn ddibynnol ar barodrwydd ysgolion eraill i ymuno â trefniant i gyd-weithio.
Gweithgareddau cymunedol rhwng yr ysgol â'r gymuned.	

10

3. Federation with neighboring school while adding a specialist unit for children with additional learning needs at Ysgol Nebo, where mainstream education is challenging for them.

STRENGTHS	WEAKNESSES
School and community resource to remain in Nebo.	Wide age range within classes.
School within reasonable distance of the homes of learners in the catchment area.	Small classes.
Learners receiving Category 3 Welsh-medium education.	Numbers of learners remain low, as federating or locating an ALN unit on a school site does not normally attract additional learners to the school.
Staff to learner ratio working well at Ysgol Nebo.	Numbers of learners not enough to allow non-teaching time for the Headteacher.
A robust inclusive approach at Ysgol Nebo.	High percentage of surplus places in the school. Not likely to lead to an increase in the number of learners at Ysgol Nebo.
The health and well-being of Ysgol Nebo learners is central to everything.	Cost per pupil remains high.
OPPORTUNITIES	THREATS
One Governing Body.	The ALN and Inclusion Service works with schools to ensure that learners with specific needs are included in the curriculum, ensuring the inclusive ethos of the whole school, with learners with ALN being supported to participate fully in the school community.
Sharing resources and expertise.	Possibility of a budget deficit.
Schools supporting each other.	Building maintenance costs continue.
A formal model can provide a clear structure.	Projected learner numbers remain low.
Increased use of building by locating a ALN unit on the site.	A high percentage of children from the Nebo catchment area attend schools outside the catchment area.
Additional grants to address improvements for learners with ALN.	Federation is a model which is dependent on the willingness of other schools to join an arrangement to work together.
Community activities between the school and the community.	

11

4. Cau Ysgol Gynradd Nebo a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol gyfagos.

CRYFDERAU	GWENDIDAU
Dysgwyr i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy hyfyw / addas.	Colli presenoldeb ysgol yn Nebo.
Lleihad yng nghanran y llefydd gweigion.	Pellter teithio pellach o gartref dysgwyr dalgylch Nebo.
Llawer o blant dalgylch Nebo eisoes yn mynychu ysgolion cyfagos.	Costau cludiant i gludo dysgwyr i ysgol amgen.
Lleihad yng nghost y disgybl.	Dysgwyr i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy.
Gwarchodaeth lleiafswm staffio yn lleihau.	Colli'r ymagwedd gynhwysol gadarn mae Ysgol Nebo yn gynnig i gefnogi iechyd a lles.
Ni fyddai rhaid i ddysgwyr deithio pellter afresymol i ysgol gyfagos.	Effaith negyddol ar les y dysgwyr presennol sydd yn Ysgol Nebo.
Ysgolion cyfagos yn cynnig addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3.	
Ansawdd addysg holl ysgolion cyfagos o leiaf gystal â Ysgol Nebo (Arolygon Estyn)	
CYFLEON	BYGYTHIADAU
Cyfle i ddysgwyr gymysgu yn ddyddiol gyda mwy o ddysgwyr o'r un oedran.	Diswyddo Staff.
Cymuned ehangach ble gall y plant a'r rhieni elwa ar greu cysylltiadau cryfach rhwng cymunedau.	Posiblirwydd o golli adnodd cymunedol yn y pentref.
Arbed ar gostau cynnal a chadw adeilad.	

12

4. Close Ysgol Gynradd Nebo and offer pupils a place at a neighboring school.

STRENGTHS	WEAKNESSES
Learners to be taught in classes of a more viable / suitable size.	Loss of school presence in Nebo.
A reduction in the percentage of surplus places.	Greater travelling distance from the homes of learners living in the Nebo catchment area.
Many children from the Nebo catchment area already attends nearby schools.	Transport costs to transport learners to an alternative school.
Reduction in the cost per pupil.	Learners to be taught in larger class sizes.
Minimum staffing protection reduced.	Losing the robust inclusive approach that Ysgol Nebo offers to support health and well-being.
Learners would not have to travel an unreasonable distance to a neighboring school.	A negative impact on the well-being of the current learners at Ysgol Nebo.
Nearby schools offering Category 3 Welsh-medium education.	
The quality of education at all neighboring schools is at least as good as Ysgol Nebo (Estyn Reports).	
OPPORTUNITIES	THREATS
Opportunity for learners to mix daily with other learners of the same age.	Staff Redundancy.
A wider community where children and parents can benefit from stronger connections between communities.	Possibility of losing a community resource in the village.
Savings on building maintenance costs.	

13

5. Ysgol Nebo yn datblygu yn leoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleon unigryw i gyflawni gwaith maes)

CRYFDERAU	GWENDIDAU
Cadw presenoldeb safle ysgol ac adnodd cymunedol yn Nebo.	Niferoedd dysgwyr yn parhau yn isel.
Dysgwyr yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3.	Cost y disgybl yn uchel.
Cymhareb staff i ddysgwyr yn gweithio'n dda yn Ysgol Nebo.	Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau.
Ymagwedd gynhwysol gadarn yn Ysgol Nebo.	Maint dosbarthiadau bychain.
Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Nebo yn ganolog i bopeth.	Niferoedd dysgwyr ddim yn ddigon i ganiatáu amser digyswllt i'r Pennaeth.
	Canran uchel o lefydd gweigion yn yr ysgol.
CYFLEON	BYGYTHIADAU
Dosbarthiadau bychain	Costau cynnal a chadw'r adeilad yn parhau.
Model unigryw sydd yn gyfle i ddysgu mewn amgylchedd awyr agored.	Canran uchel o blant dalgylch Nebo yn debygol o barhau i fynychu ysgolion all dalgylch.
Cyfrannu'n gadarnhaol at les meddyliol ac emosiynol y dysgwyr.	Yn ddibynol ar yr union fodel, posib y byddai angen gweithredu proses i gau'r ysgol bresennol ac ail agor fel ysgol arbenigol. Gallai hynny arwain at ddiswyddiadau staff.

14

5. Ysgol Nebo to be developed as a specialist location for certain individual subjects (unique opportunities to carry out fieldwork).

STRENGTHS	WEAKNESSES
School site and community resource to remain in Nebo.	Learner numbers remain low.
Learners receiving Category 3 Welsh-medium education.	Cost per learner remains high.
Staff to learner ratio working well at Ysgol Nebo.	Wide age range within classes.
A robust inclusive approach at Ysgol Nebo.	Small classes.
The health and well-being of Ysgol Nebo learners is central to everything.	Numbers of learners not enough to allow non-teaching time for the Headteacher.
	High percentage of surplus places in the school.
OPPORTUNITIES	THREATS
Small classes.	Building maintenance costs continue.
A unique model that offers an opportunity to learn in an outdoor environment.	A high percentage of children from the Nebo catchment area are likely to continue attending schools outside the catchment area.
Contribute positively to the mental and emotional well-being of the learners.	Depending on the exact model, it may be necessary to implement a process to close the current school and reopen as a specialist school. That could lead to staff redundancies.

15

6. Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gyda anghenion dysgu ychwanegol, lle mae addysg prif lif yn heriol iddynt.

CRYFDERAU	GWENDIDAU
Cadw ysgol ac adnodd cymunedol yn Nebo.	Niferoedd dysgwyr yn parhau yn isel, gan nad yw lleoli uned ADY ar safle ysgol yn arferol yn denu dysgwyr ychwanegol i'r ysgol.
Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartref dysgwyr y dalgylch.	Cost y dysgwr yn parhau yn uchel.
Dysgwyr yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3.	Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau.
Cymhareb staff i ddysgwyr yn gweithio'n dda yn Ysgol Nebo.	Maint dosbarthiadau bychain.
Ymagwedd gynhwysol gadarn yn Ysgol Nebo.	Niferoedd dysgwyr ddim yn ddigon i ganiatáu amser digyswllt i'r Pennaeth.
Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Nebo yn ganolog i bopeth.	Costau cludiant uwch i gludo dysgwyr i'r Uned ADY.
CYFLEON	BYGYTHIADAU
Gwell defnydd o'r adeilad drwy leoli uned ADY ar y safle.	Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad yn gweithio efo ysgolion i sicrhau bod disgyblion gydag anawsterau penodol yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm, gan sicrhau ethos gynhwysol ysgol gyfan, gyda disgyblion ag ADY yn cael eu cefnogi i gymryd rhan lawn yng nghymuned yr ysgol.
Dosbarthiadau bychain.	Diffyg cyllideb cyfalaf i wneud addasiadau i'r safle.
Cyfrannu'n gadarnhaol at les meddyliol ac emosiynol y dysgwyr.	Costau cynnal a chadw'r adeilad yn parhau.
Gweithgareddau cymunedol rhwng yr ysgol â'r gymuned.	Angen hyfforddiant / recriwtio staff arbenigol.
Uwch-sgilio staff presennol Ysgol Nebo.	Canolfannau arbenigol eisoes wedi'u sefydlu ar gyfer plant gyda anghenion dwys
	Aberthu gofod dysgu ar gyfer yr Uned ADY ar y safle.
	Canran uchel o blant dalgylch Nebo yn debygol o barhau i fynychu ysgolion all dalgylch.

16

6. Ysgol Nebo to offer a specialist unit to support children with additional learning needs, where mainstream education is challenging for them.

STRENGTHS	WEAKNESSES
School and community resource to remain in Nebo.	Learner numbers remain low, as locating an ALN unit on a school site does not usually attract additional learners to the school.
School within reasonable distance of the homes of learners in the catchment area.	Cost per learner remains high.
Learners receiving Category 3 Welsh-medium education.	Wide age range within classes.
Staff to learner ratio working well at Ysgol Nebo.	Small classes.
A robust inclusive approach at Ysgol Nebo.	Numbers of learners not enough to allow non-teaching time for the Headteacher.
The health and well-being of Ysgol Nebo learners is central to everything.	Higher transport costs to transport learners to the ALN Unit.
OPPORTUNITIES	THREATS
Increased use of building.	The ALN and Inclusion Service works with schools to ensure that learners with specific needs are included in the curriculum, ensuring the inclusive ethos of the whole school, with learners with ALN being supported to participate fully in the school community.
Small classes.	Lack of capital funding to adapt / modify the site.
Contribute positively to the mental and emotional well-being of the learners.	Building maintenance costs continue.
Community activities between the school and the community.	It would be necessary to recruit specialist staff.
Upskilling the current staff of Ysgol Nebo.	Specialist centres have already been established.
	Sacrifice learning space for the ALN Unit on site.
	A high percentage of children from the Nebo catchment area are likely to continue attending schools outside the catchment area.

17

7. Ysgol Nebo yn cynnig Uned Iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle

CRYFDERAU	GWENDIDAU
Cadw ysgol ac adnodd cymunedol yn Nebo.	Niferoedd dysgwyr yn parhau yn isel, gan nad yw lleoli uned iaith ar safle ysgol yn arferol yn denu dysgwyr ychwanegol i'r ysgol.
Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartref dysgwyr y dalgylch.	Cost y dysgwr yn parhau yn uchel.
Dysgwyr yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3.	Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau.
Maint dosbarthiadau bychain.	Maint dosbarthiadau bychain.
	Niferoedd dysgwyr ddim yn ddigon i ganiatáu amser digyswllt i'r Pennaeth.
	Costau cludiant uwch i gludo dysgwyr i'r Uned Iaith.
CYFLEON	BYGYTHIADAU
Uned iaith penodol i ddalgylch Dyffryn Nantlle.	Dim arian cyfalaf i ddatblygu Ysgol Nebo. Buddsoddiad o dros £2 miliwn (Grant Llywodraeth Cymru) wedi galluogi Cyngor Gwynedd wireddu'r weledigaeth newydd ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi yng Ngwynedd tuag at 2032 a thu hwnt (Cabinet Gorffennaf 2021).
Gwell defnydd o'r adeilad.	Canolfannau iaith Uwchradd a Chynradd yn gwasanaethu ym mhob ardal yng Ngwynedd (Arfon, Dwyfor a Meirionnydd).
Gweithgareddau cymunedol rhwng yr ysgol â'r gymuned.	Costau i addasu'r safle a chostau rhedeg ychwanegol i'r Gyfundrefn Drochi i gynnal Uned Iaith.
	Costau cynnal a chadw'r adeilad yn parhau
	Aberthu gofod dysgu ar gyfer yr Uned Iaith.
	Canran uchel o blant dalgylch Nebo yn debygol o barhau i fynychu ysgolion all dalgylch.

18

7. Ysgol Nebo offers a Language Unit for the Dyffryn Nantlle catchment area

STRENGTHS	WEAKNESSES
School and community resource to remain in Nebo.	Learner numbers remain low, as locating an ALN unit on a school site does not usually attract additional learners to the school.
School is within a reasonable distance of the homes of the learners living in the catchment area.	Cost per learner remains high.
Learners receiving Category 3 Welsh-medium education.	Wide age range within classes.
Dosbarthiadau bychain.	Small classes.
	Numbers of learners not enough to allow non-teaching time for the Headteacher.
	Higher transport costs to transport learners to the language Unit.
OPPORTUNITIES	THREATS
Specific Language Unit for Dyffryn Nantlle catchment area.	No capital funding to develop Ysgol Nebo. An investment of over £2 million (Welsh Government Grant) has enabled Cyngor Gwynedd to fulfil the new vision for an Immersion Education System in Gwynedd towards 2032 and beyond (Cabinet July 2021).
Increased use of building.	Secondary and Primary language centres serving all areas in Gwynedd (Arfon, Dwyfor and Meirionnydd).
Community activities between the school and the community.	Costs to adapt the site and additional running costs for the Welsh Language Immersion Education System to maintain a Language Unit.
	Building maintenance costs continue.
	Sacrifice learning space for the Language Unit on site.
	A high percentage of children from the Nebo catchment area are likely to continue attending schools outside the catchment area.

19

CAMAU NESAF/ NEXT STEPS

Camau Nesaf / <i>Next Steps</i>	Dyddiad / <i>Date</i>
Dyddiad cau ar gyfer derbyn unrhyw gywiriadau / sylwadau <i>Closing date for receiving any corrections / comments</i>	23/05/2025
Cyfarfod Panel Adolygu 3 / <i>Review Panel Meeting 3</i>	Gorffennaf 2025 / <i>July 2025</i>
Adrodd yn ôl i Gabinet ar ganlyniad y trafodaethau / <i>Report back to Cabinet on the outcome of the discussions</i>	Medi 2025 / <i>September 2025</i>



20

Cyfarfod:	Panel Adolygu Ysgol Nebo	Dyddiad/Amser/Lleoliad: 12 Mai 2025, 18:00, Ysgol Nebo
Presennol:	<u>Aelod Cabinet Addysg:</u> Cynghorydd Dewi Jones. <u>Swyddogion Adran Addysg:</u> Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Rhian Eifiona Hughes (Swyddog Moderneiddio Addysg), Hana Llyn Roberts (Swyddog Prosiect Addysg). <u>Staff a Llywodraethwyr Ysgol Nebo:</u> 10 aelod <u>Rhieni / Gwarchodwyr:</u> 2 aelod <u>Pwyllgor Nebo a Nasareth:</u> 1 aelod	

Cofnod Llawn		
	Eitem/ Pwnc	Gweithrediad
1	Croeso	Croesawodd Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg pawb i'r cyfarfod.
2	Crynhof'r Prif Heriau	- Aethpwyd drwy'r cyflwyniad sydd yn amlygu'r sefyllfa bresennol gan gyfarch y prif heriau sef: - Nifer disgyblion yr ysgol yr isaf yn y sir - Rhagamcanion yn parhau yn isel - Nifer uchel o lefydd gweigion - Maint dosbarthiadau bychain - Amrediad ystod oed eang o fewn dosbarthiadau - Cost y disgybl ymysg yr uchaf yn y sir a sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol - Ysgol yn derbyn swm ychwanegol o £49,404 (Medi 2024) trwy'r gwarchodaeth staffio. - Nododd GapRh nad oes newid i'r heriau ers y cyfarfod diwethaf ac mae'r rhagamcanion yn parhau i fod yn isel. - Eglurodd bod dyletswydd ar yr awdurdod yn unol â'r Cod Trefniadaeth i adolygu'r ddarpariaeth os oes canran uchel o lefydd gweigion.
3	Opsiynau Posib	- Nodwyd fod 7 opsiwn wedi dod i'n sylw. Mae 3 opsiwn wedi cael ei gynnig gan yr Adran Addysg a 4 ychwanegol wedi cael ei gyflwyno gennych chi fel rhanddeiliaid. - Nodwyd ein bod wedi cynnal dadansoddiad SWOT ar y 7 opsiwn yn erbyn yr heriau mae'r ysgol yn wynebu. Gofynnwyd i'r rhanddeiliaid adael i'r Adran Addysg wybod os oes rhywbeth yn ffeithiol anghywir ac eglurwyd bod y cyfarfod heno yn gyfle i dderbyn mewnbwn gan y rhanddeiliaid. Opsiwn 1: Parhau gyda'r sefyllfa bresennol. - Aethpwyd trwy gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau'r opsiwn. - Fe nododd un rhiant fod yna ddiffyg trefniant hyblyg ar gyfer plant mewn ysgolion a'i fod yn wendid nad oes gan y Cyngor bolisi sydd yn caniatáu i ysgolion fod yn hyblyg o ran nifer o ddiwrnodau mae plant sydd yn cael eu haddysgu gartref yn mynychu'r

		ysgol. Nododd y rhiant os byddai polisi yn caniatáu i fod yn hyblyg byddai niferoedd yr ysgol yn cynyddu. • GapRh yn adnabod yr her, ac yn deall fod canran o rieni eisiau addysgu gartref rhan amser. Os ydym yn newid y polisi buasai hyn yn cael effaith ar bob ysgol nid Ysgol Nebo yn unig. • GapRh yn cytuno i edrych ar yr elfen trefniant hyblyg ac i adrodd yn ôl. • Nododd un rhiant fod rhieni yn dewis mynd a'u plant all-dalgylch oherwydd nad oes Cylch Meithrin/ clwb ar ôl ysgol yn cael ei gynnig yma. Nododd GapRh byddai cynnal Cylch Meithrin yn heriol gyda niferoedd y dalgylch mor isel (8 disgybl oed cynradd sydd yn byw yn nalgylch Nebo). • Sylw arall gafodd ei godi oedd nad yw'r Cyngor yn marchnata dosbarthiadau bychain fel rhywbeth da. Cafwyd sylw fod dosbarthiadau bychain yn cael ei farchnata fel gwendid. Angen ei ychwanegu fel cryfder yn y SWOT. Nodwyd fod astudiaethau wedi cael eu cynnal yn dangos fod ethos a lles saff yn well mewn ysgolion gyda llai o blant. Mewn ysgolion preifat ceir ddosbarthiadau dim mwy nag 15 o ddysgwyr, felly ddim yn gweld pam fod dosbarthiadau o 30 yn cael ei weld fel rhywbeth da. • Nododd GapRh ei fod yn cytuno gall dosbarthiadau o 30 fod yn heriol, ond rydym yn edrych ar ffigyrau sengl yma yn Ysgol Nebo. • Sylw arall gafodd ei godi oedd pam fod amrediad oedran eang yn cael ei weld fel gwendid, mae hefyd yn gryfder. • Cytunwyd i ychwanegu amrediad oedran eang a maint dosbarthiadau bychain fel cryfder i'r SWOT sydd wedi cael ei gynnig gan y rhanddeiliaid. Opsiwn 2: Ffedereiddio gydag ysgol gyfagos. • Eglurwyd fod ffedereiddio yn broses ffurfiol lle mae dwy ysgol yn dod at ei gilydd gydag un pennaeth ar gyfer y ddwy ysgol. Drwy ffedereiddio gydag ysgol gyfagos mae rhai manteision fel adnodd cymunedol yn parhau, dim angen cludiant i ysgol amgen, ond mae posibilrwydd byddai'r heriau presennol hefyd yn parhau. • Ychwanegwyd fod ffederasiwn yn fodel sydd yn ddibynnol ar barodrwydd ysgolion eraill i ymuno a'r trefniant i gyd-weithio. • Nodwyd y byddwn yn trafod gyda ysgolion cyfagos fel rhan o'r broses i weld os oes awydd ganddynt ffedereiddio. Opsiwn 3: Ffedereiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo. • Aethpwyd drwy'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a'r bygythiadau. • Nododd GapRh fod galw am gefnogaeth ADY, felly mae'n rhywbeth rydym yn edrych arno. Strategaeth ADY a Chynhwysiad yr Adran Addysg yw cynhwyso plant o fewn ysgolion, yn hytrach na thynnu nhw allan o'r ysgol a symud nhw i ddarpariaeth arall. • Nododd yr Aelod Lleol bod posibilrwydd i dderbyn grantiau gan y Llywodraeth i wella darpariaeth ADY. Eglurodd GapRh bod grantiau ADY ar gael ar gyfer pob ysgol. Petai Ysgol Nebo yn cael ei thrawsnewid i fod un Uned ADY, byddai angen buddsoddiad sylweddol. • Sylw arall gafodd ei godi oedd bod cynhwysiad mewn ysgolion bach yn well gan fod modd derbyn mwy o gefnogaeth. Mae'r galw am fwy o gefnogaeth ADY yn cynyddu. • Nodwyd gan y rhanddeiliaid, er bod yr opsiwn yma yn cyfarch ADY, mae pwyslais hefyd ar ddarparu lleoliad ar gyfer plant sydd yn dioddef gyda gor-bryder, a phlant sydd methu ymdopi gydag amgylchedd ysgol fawr, plant sydd ddim o reidrwydd yn

		dod o dan anghenion dysgu ychwanegol. Os yw plant yn cael ymyrraeth yn ifanc mae'n bosib gwneud arbedion tymor hir. - Nododd GapRh bod modd cynnwys yr elfen uchod o dan yr opsiwn hwn. - Sylw arall a gododd oedd bod angen ehangu mwy ar yr ochor gymunedol yn y cryfderau. Nododd GapRh byddai'r manylder am yr ochor gymunedol yn cael ei gyfarch yn yr asesiad effaith cymunedol fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet. Bydd y manylder yn yr asesiad effaith. - Nododd y Pennaeth ei bod yn bwysig nodi fod nifer o blant all dalgylch yn dewis dod i Ysgol Nebo. - Gofynnwyd pwy sydd yn gosod ac yn penderfynu'r dalgylchoedd, ac os oes posib gwneud dalgylch Nebo yn fwy. Nododd GapRh bod y dalgylchoedd yn hanesyddol ac wedi bod mewn lle ers blyneddau, ac os byddwn yn gwneud dalgylch Nebo yn fwy byddai yn golygu gwneud dalgylchoedd ysgolion eraill yn llai. Erbyn heddiw mae rhieni yn cael penderfynu pa ysgol i ddanfon eu plant gyda Pholisi Mynediad. Opsiwn 4: Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos. - Aethpwyd drwy'r cryfderau, y gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau. - Nododd yr Awdurdod y byddai'r opsiwn yma yn golygu colli adnodd cymunedol. Er hyn mae gan y Cyngor Bolisi Ôl-ddefnydd sydd yn sicrhau fod y cynnig cyntaf yn mynd i'r gymuned i fabwysiadu a gwneud defnydd o'r adeilad. - Un sylw a gododd oedd effaith negyddol ar les y dysgwyr petai'r opsiwn yma yn cael ei weithredu. Nodwyd ei fod yn hanfodol bod lles y plant yn cael ei ychwanegu i'r SWOT fel gwendid yn yr opsiwn yma. - Pryder i riant os bydd Ysgol Nebo ac ysgol gyfagos yn cau, nid oes ysgol fach arall yn y dalgylch. Ychwanegodd y gall Ysgol Nebo fod yn adnodd gwych ar gyfer plant sydd yn dioddef gor-bryder eithafol a methu ymdopi mewn ysgol fawr. Opsiwn 5: Ysgol Nebo yn datblygu yn leoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes). - Nodwyd fod yr opsiwn yma wedi codi yn y cyfarfod diwethaf. Aethpwyd drwy'r cryfderau, y gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau sydd yn deillio o'r opsiwn. - Eglurwyd, os byddai'r opsiwn yma yn cael ei weithredu, o bosib byddai angen gweithredu proses i gau'r ysgol bresennol, ac ail agor fel ysgol arbenigol gan fod y ddarpariaeth yn newid, a gallai hynny arwain at ddiswyddiadau staff. Opsiwn 6: Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol, lle mae addysg prif lif yn heriol iddynt. - Nodwyd fod yr opsiwn yma wedi codi yn y cyfarfod diwethaf. - Aethpwyd drwy'r cryfderau, y gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau. - Nododd un o'r rhanddeiliaid, fel opsiwn 3, er bod yr opsiwn yma yn cyfarch ADY, mae pwyslais hefyd ar ddarparu lleoliad ar gyfer plant sydd yn dioddef gyda gor-bryder, a phlant sydd methu ymdopi gydag amgylchedd ysgol fawr, plant sydd ddim o reidrwydd yn dod o dan anghenion dysgu ychwanegol. - Cafwyd sylwad y byddai'r opsiwn yma'n gyfle unigryw i'r Cyngor wneud rhywbeth gwahanol yn Nebo. Cyfle i dreialu darpariaeth wahanol o bosib. - Ychwanegwyd cryfder, sef cyfle i uwch sgilio staff presennol yn hytrach na recriwtio staff newydd.

		- Nodwyd nad yw capasiti presennol yr ysgol yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa. Nododd GapRh ei fod yn hapus edrych i mewn i rif derbyn / capasiti yr ysgol, ond nid yw'n newid y sefyllfa bresennol a'r heriau. Opsiwn 7: Ysgol Nebo yn cynnig Uned Iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle. - Nodwyd fod yr opsiwn yma wedi cael ei amlygu yn y cyfarfod diwethaf. - Eglurwyd, drwy addasu'r ysgol i gynnwys Uned Iaith byddai rhai manteisio e.e. adnodd cymunedol yn parhau ac uned iaith benodol yn Nyffryn Nantlle, ond byddai holl heriau presennol hefyd yn parhau. Mi fyddai angen addasu'r ysgol er mwyn creu gofod newydd ar gost sylweddol. - Eglurwyd bod buddsoddiad eisoes wedi digwydd i wireddu'r weledigaeth ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi yng Ngwynedd, felly nid oes galw ychwanegol am ganolfannau iaith yng Ngwynedd ar hyn o bryd.
4	Sylwadau Cyffredinol ar y Dadansoddiad SWOT	- Roedd un unigolyn yn teimlo bod mwy o gryfderau yn opsiwn 4 oedd yn gwneud iddi gwestiynu os ydym yn rhagdybio'r broses. - Pwysleisiwyd mai pwrpas y sesiwn heno oedd cael mewnbwn y rhanddeiliaid ar yr opsiynau ac ein bod yn hollol agored gyda'r rhanddeiliaid am yr heriau mae'r ysgol yn ei wynebu. - Nodwyd nad ydym yn ffafrio unrhyw opsiwn ar y pwynt yma a bydd gwerthusiad opsiynau manylach yn cael ei gynnal ar yr holl opsiynau.
5	Camau Nesaf	- Rhanddeiliaid i rannu unrhyw gywiriadau/ sylwadau erbyn y 23 o Fai. Os ydych yn dymuno cael mwy o amser, mae croeso i'r Pennaeth gysylltu gyda'r Tîm Moderneiddio Addysg. - Nodwyd y byddwn yn cylchredeg y cyflwyniad yn dilyn eich mewnbwn heno. - Cyfeiriwyd at trydydd cyfarfod gan nodi y byddwn yn cyflwyno gwerthusiad opsiynau ar y 7 opsiwn cyn gwyliau'r haf (mis Gorffennaf). - Nodwyd y bwriad i adrodd yn ôl i Gabinet ym mis Medi gan roi argymhelliad i'r Cabinet yn dilyn cwblhau'r holl asesiadau perthnasol. Eglurwyd pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen i ymgynghori ar unrhyw gynnig, bydd cyfle i'r gymuned gyflwyno eu sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori. - Nododd Pennaeth Ysgol Nebo bod staff yn pryderu am eu sefyllfa cyflogaeth. Cynigwyd i drefnu sesiwn pellach gyda'r ysgol i drafod unrhyw bryderon ac bod modd i Adnoddau Dynol fod yn bresennol os ydych yn teimlo bod huna'n briodol ar y pwynt yma.

YSGOL NEBO

14 Gorffennaf 2025
14 July 2025



Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
 Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

1

AGENDA

1. Croeso	1. Welcome
2. Trafodaethau blaenorol	2. Previous discussions
3. Gwerthusiad Opsiynau	3. Options Appraisal
4. Camau Nesaf ac Amserlen Amlinellol	4. Next Steps and the Outline Timetable
5. Cloi	5. Close



Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
 Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

2

TRAFODAETHAU BLAENOROL / PREVIOUS DISCUSSIONS

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



3

PRIF HERIAU'R SEFYLLFA BRESENNOL / MAIN CHALLENGES OF THE PRESENT SITUATION

1	Nifer disgyblion yr ysgol yr isaf yn y sir <i>The number of pupils at the school is the lowest in the county</i>
2	Rhagamcanion yn parhau yn isel <i>Projections remain low</i>
3	Nifer uchel o lefydd gweigion <i>High number of surplus places</i>
4	Maint dosbarthiadau bychain <i>Small class sizes</i>
5	Amrediad ystod oedran eang o fewn dosbarthiadau <i>Broad age range within classes</i>
6	Cost y disgybl ymysg yr uchaf yn y sir a sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol <i>Cost per pupil amongst the highest in the county and significantly higher than the county average</i>
7	Ysgol yn derbyn swm ychwanegol o £49,404 (Medi 2024) trwy'r gwarchodaeth staffio <i>School receives an additional £49,404 (September 2024) through the minimum staffing protection</i>

4

RHESTR HIR OPSIYNAU / LONG LIST OF OPTIONS

Yn sgil y mewnbwn a dderbyniwyd yn ystod, ac yn dilyn y cyfarfod cyntaf, cynhyrchwyd rhestr o opsiynau i'w hystyried. Er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r opsiwn 'Gwneud Dim' wedi ei gynnwys at ddiben cymharu.

As a result of the input received during, and following the first meeting, a list of options was produced for consideration. Although the case for change has been established, the 'Do Nothing' option is included for comparison purposes.

1	Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol	1	No change – continue with the current situation
2	Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos	2	Federation with a neighboring school
3	Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo	3	Federation with a neighboring school while adding a specialist unit for children with additional learning needs at Ysgol Nebo
4	Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos	4	Close Ysgol Nebo and offer places to the learners in a neighboring school.
5	Ysgol Nebo yn datblygu yn leoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleon unigryw i gyflawni gwaith maes)	5	Ysgol Nebo to be developed as a specialist location for certain individual subjects (unique opportunities to carry out fieldwork).
6	Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gyda anghenion dysgu ychwanegol, lle mae addysg prif lif yn heriol iddynt	6	Ysgol Nebo to offer a specialist unit to support children with additional learning needs, where mainstream education is challenging for them.
7	Ysgol Nebo yn cynnig Uned Iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle	7	Establish a Language Unit for the Dyffryn Nantlle catchment area at Ysgol Nebo.

5

GWERTHUSIAD OPSIYNAU / OPTIONS APPRAISAL

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



6

OPSIYNAU I'W GWERTHUSO / OPTIONS TO APPRAISE

1	Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol
2	Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos
3	Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo
4	Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol cyfagos
5	Ysgol Nebo yn datblygu yn leoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleon unigryw i gyflawni gwaith maes)
6	Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gyda anghenion dysgu ychwanegol, lle mae addysg prif lif yn heriol iddynt
7	Ysgol Nebo yn cynnig Uned Iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle

1	No change – continue with the current situation
2	Federation with a nearby school
3	Federation with neighboring school while adding a specialist unit for children with additional learning needs at Ysgol Nebo
4	Close Ysgol Nebo and offer places to the learners in a neighboring school.
5	Ysgol Nebo to be developed as a specialist location for certain individual subjects (unique opportunities to carry out fieldwork).
6	Ysgol Nebo to offer a specialist unit to support children with additional learning needs, where mainstream education is challenging for them.
7	Establish a Language Unit for the Dyffryn Nantlle catchment area at Ysgol Nebo.

7

YSTYRIAETHAU / CONSIDERATIONS

Wrth gymharu opsiynau, byddwn yn rhoi ystyriaeth i sawl ffactor, gan gynnwys:
In comparing options, we will consider several factors, including:

1	Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion/ <i>Pupil numbers and surplus places</i>
2	Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran/ <i>Class sizes and age range</i>
3	Adnoddau ariannol / <i>Financial resources</i>
4	Arweinyddiaeth a Staffio / <i>Leadership and Staffing</i>
5	Ffactorau daearyddol a teithio / <i>Geographical and travel factors</i>
6	Y Gymuned / <i>The Community</i>
7	Yr iaith Gymraeg / <i>The Welsh language</i>
8	Ansawdd addysg / <i>Quality of education</i>
9	Cyflwr ac addasrwydd adeiladau / <i>Condition and suitability of the buildings</i>



8



CYNGOR
GWYNEDD
COUNCIL

PANEL ADOLYGU YSGOL NEBO

Addysg

Cyfarfod:	Panel Adolygu Ysgol Nebo	Dyddiad/Amser/Lleoliad: 14 Gorffennaf 2025, 18:00, Ysgol Nebo
Presennol:	<u>Swyddogion Adran Addysg:</u> Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Gwenno Haf Jones (Uwch Swyddog Moderneiddio Addysg), Hana Llyn Roberts (Swyddog Prosiect Addysg). <u>Staff, Llywodraethwyr a Rhieni/Gwarchodwyr Ysgol Nebo:</u> 9	

	Eitem/ Pwnc	Cofnodion
1	Croeso	Croesawodd Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg pawb i'r cyfarfod.
2	Trafodaethau blaenorol	- Nodwyd mai pwrpas y cyfarfod ydi i roi diweddariad ar y broses, egluro beth yw'r camau nesaf a rhoi chyfle i rhanddeiliaid ofyn cwestiynau. - Aeth GapRh drwy prif heriau'r sefyllfa bresennol a gafodd eu cyflwyno eisoes yn y cyfarfodydd blaenorol; - Nifer disgyblion yr ysgol yr isaf yn y sir - Rhagamcanion yn parhau yn isel - Nifer uchel o lefydd gweigion - Maint dosbarthiadau bychain - Amrediad ystod oedran eang o fewn dosbarthiadau - Cost y disgybl ymysg yr uchaf yn y sir a sylwedd uwch na'r cyfartaledd sirol - Ysgol yn derbyn swm ychwanegol o £49,404 (Medi 2024) trwy'r gwarchodaeth staff - Cydnabuwyd y gall rhai fod o'r farn fod rhai o'r prif heriau sydd wedi cael eu nodi uchod hefyd gael eu hystyried fel cryfderau.
3	Gwerthusiad Opsiynau	- Eglurwyd y bydd yr Adran Addysg yn symud ymlaen i gynnal gwerthusiad opsiynau gan fesur pob un o'r opsiynau yn erbyn yr ystyriaethau. Aethpwyd trwy'r 7 opsiwn; - Dim newid- parhau gyda'r sefyllfa bresennol - Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos - Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Nebo - Cau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos - Ysgol Nebo yn datblygu yn lleoliad arbenigol ar gyfer rhai pynciau unigol (cyfleoedd unigryw i gyflawni gwaith maes) - Ysgol Nebo yn cynnig uned arbenigol ar gyfer cefnogi plant sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol, lle mae addysg prif lif yn heriol iddynt - Ysgol Nebo yn cynnig Uned Iaith ar gyfer dalgylch Dyffryn Nantlle - Eglurwyd, bydd ystyriaeth i sawl ffactor wrth lunio'r gwerthusiad opsiynau, gan gynnwys; - Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion - Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran - Adnoddau ariannol - Arweinyddiaeth a Staffio - Ffactorau daearyddol a teithio - Y Gymuned - Yr iaith Gymraeg - Ansawdd addysg - Cyflwr ac addasrwydd adeiladau - Ychwanegwyd y byddwn yn ystyried cynnwys yr asesiad SWOT a sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y trafodaethau lleol wrth lunio'r gwerthusiad opsiynau.



		- Eglurwyd, yn dilyn gwerthuso'r opsiynau, mi fyddwn yn dod a'r rhestr hir i lawr i restr fer gan yna gynnal asesiadau effaith ar y rhestr fer. - Cyflwynwyd esiampl o brosiect blaenorol oedd yn dangos sut fydd y gwerthusiad yn edrych, gydag opsiynau ar hyd y top ac ystyriaethau i lawr ar yr ochor chwith.
4	Camau Nesaf ac Amserlen Amlinellol	- Nodwyd mai'r camau nesaf yw i swyddogion yr Adran Addysg gwblhau gwerthusiad opsiynau a chynnal asesiadau effaith. Mi fydd hyn yn ein galluogi i ddod i benderfyniad ar y rhestr fer, ac ar yr opsiwn ffafriedig fydd yn ymateb orau i'r ystyriaethau. - Ychwanegwyd, yna bydd yr Adran Addysg yn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet ar y 14^{eg} o Hydref. Nodwyd y bydd yr Adran Addysg yn rhannu cynnwys yr adroddiad gyda chynrychiolwyr yr ysgol cyn i'r adroddiad gael ei chyhoeddi. Bydd yna hefyd gais am sylwadau gan yr aelod lleol. - Nodwyd mai'r Cabinet fydd yn penderfynu ar y ffordd ymlaen, ac yn ddibynnol ar y penderfyniad fe all olygu cyfnod ymgynghori ar opsiwn ffafriedig. Eglurwyd, pe byddai penderfyniad i ymgynghori, yna mi fyddai'r cyfnod hwnnw'n gyfnod o 6 wythnos, a byddai cyfle i unrhyw un gyflwyno sylwadau. Eglurwyd y bydd unrhyw broses statudol yn cael ei gynnal yn unol a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.
5	Cwestiynau a Sylwadau	- Gofynnodd un o'r rhanddeiliaid os mai'r Cyngor yw'r cynigydd, gan nodi nad yw'n gweld yn briodol fod y swyddogion yn dewis y rhestr fer. Gofynnwyd oni ddylai fod yn gyfrifoldeb y Cabinet i ddewis y rhestr fer. Heriwyd a yw'r drefn yma'n cyd-fynd a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. - Nodwyd fod y Llywodraethwyr wedi gweithio yn galed ar yr opsiynau ac y byddai'n annheg eu diystyru. - Nododd GapRh y byddwn yn pwyso a mesur pob opsiwn ac yn gwneud gwaith pellach ar yr opsiynau. Pwysleisiwyd y bydd aelodau'r Cabinet yn cael gweld yr holl opsiynau a ystyriwyd. Byddwn yn rhannu'r adroddiad drafft gyda cynrychiolwyr yr ysgol cyn adrodd i'r Cabinet, ond ni fydd yr adroddiad yn derfynol nes y bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet, mae'n bosib y bydd addasiadau i'r adroddiad cyn i'r fersiwn terfynol gael ei gyhoeddi. - Gofynnwyd os yw'r Cabinet yn agored i'r cyhoedd fynychu ar y diwrnod. Nodwyd fod cyfarfod y Cabinet yn agored i'r cyhoedd ei fynychu, ond bod rheolau pendant o safbwynt cyfrannu. Nodwyd fod yna groeso i'r cyhoedd fynychu ond ni fydd yna gyfle i'r cyhoedd siarad yn ystod y cyfarfod. Nodwyd y bydd cyfle i'r Aelod Lleol siarad ar ran y rhan-ddeiliaid lleol. Eglurwyd fod cyfarfod y Cabinet hefyd yn cael ei ddarlledu'n fyw ar y we. - Un sylw a gododd oedd nad yw'r opsiynau yn cyfarch gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Amlygwyd, yn y cod, wrth gyfeirio at ysgolion gwledig, mae'n nodi "<i>Ymhlith yr opsiynau i'w hystyried yn hytrach na chau ysgol, gellid trafod a oes lle i'r ysgol gael ei hintegreiddio'n well i broses ehangach o fewn yr awdurdod lleol i reoli asedau a chynllunio cymunedau. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, creu cysylltiadau effeithiol â strategaethau lleol i adfywio cymunedau.</i>" Teimlwyd nad yw hyn wedi cael ei gynnwys yn y rhestr opsiynau a'i fod wedi cael ei fethu fel opsiwn i'w hystyried. - Nododd GapRh ei fod yn derbyn y sylw a byddwn yn gwneud yn siŵr y bydd bob rhan o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn derbyn sylw wrth i'r Adran Addysg baratoi'r adroddiad/ddogfennaeth ar gyfer y Cabinet. Byddwn hefyd yn edrych ar agweddau cymunedol wrth lunio'r adroddiad a'r asesiadau effaith. - Heriwyd cywirdeb a sail y ffigwr a nodir fel cyfartaledd Sirol Cost y disgybl (£5,233), a pwysleisiwyd yr angen i'r data fod yn dryloyw. Teimlwyd hefyd nad yw'n deg cymharu ysgol fach gyda gweddill y Sir, gan nad yw ysgolion llai yn gallu cystadlu, mae'n mynd i edrych yn llai ffafriol. Nodwyd fod angen rhannu'r holl ddata. - Nododd GapRh y byddwn yn gwirio cywirdeb y ffigyrau wrth symud ymlaen. - Cadarnhawyd nad yw oriau integreiddio yn cael ei gynnwys yn y ffigyrau cost fesul dysgwr a bod y ffigyrau yn cael ei cyfrifo gan gyfrifwyr yr Adran Addysg. - Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a beth fyddai'n digwydd i adeilad yr ysgol pe byddai'r ysgol yn cau, nodwyd fod gan y Cyngor bolisi ôl-ddefnydd ar gyfer achosion o'r fath, sydd yn caniatáu i'r cynnig cyntaf fynd i'r gymuned. Mewn achosion lle mae ysgolion yn cau, pe na byddai cymuned a diddordeb yn adeilad yr ysgol, yna byddai'r adeilad yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor.

		- Gofynnwyd os bydd adeilad yr ysgol yn cael ei drosglwyddo i'r gymuned a fyddai'n bosib i'r gymuned gynnal darpariaeth addysgol yma gyda chefnogaeth y Cyngor. Nododd GapRh os byddai penderfyniad i gau'r ysgol, ni ragwelir y bydda'r Cyngor yn ariannu'r ddarpariaeth. - Gofynnwyd pwy sydd yn berchen ar adeilad yr ysgol. Nododd GapRh y byddai'n gwneud ymholiadau gydag adran stadau i weld pwy sydd yn berchen ar yr adeilad. - Derbyniwyd sylw ynglŷn â'r defnydd cymunedol. Amlygwyd ei fod yn nodi yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion <i>"a ellid archwilio'r posibilïadau o wneud defnydd llawnach o'r adeiladau presennol fel adnodd cymunedol neu addysgol; (Dylai awdurdodau lleol ystyried a fyddai'n ddichonadwy ac yn ddarbodus cydleoli gwasanaethau lleol yn yr ysgol i wrthbwyso costau cynnal yr ysgol);"</i> Gofynnwyd a ddylai hyn gael ei ystyried ar y pwynt yma? Nododd GapRh y byddwn yn cyfarch bob un o agweddau'r Cod wrth lunio adroddiad i'r Cabinet. - Gofynnwyd sut byddai'r uned arbennig yn gallu cael ei ariannu, ac oes yna grantiau ar gael. Nododd GapRh fod grantiau cyfalaf ar gael, ond mae cyllideb refeniw yn heriol i'w gynnal. - Nododd aelod arall o'r panel nad yw o reidrwydd yn ddarpariaeth ychwanegol ac felly ddim yn gost ychwanegol i'r Cyngor os yw'r ddarpariaeth yno eisoes. - Sylw arall a gododd oedd yr angen am uned ar gyfer plant sydd ddim o reidrwydd gydag anghenion arbennig, ond yn cael hi'n anodd mynychu ysgol fwy. Wrth gynnal ymweliad i ysgolion mae'n amlwg fod yna bryder i gynhwyso plant sydd ddim o reidrwydd efo anghenion dwys. Cyfle gwych i feddwl yn greadigol ac achub ysgol wledig. - Nododd GapRh ei fod yn cydnabod yr angen, ond hefyd yn cydnabod fod rhieni eisiau plant integreiddio efo cymunedau lleol; mae adnoddau a chyllid hefyd yn ffactor. - Sylw arall gafodd ei godi oedd bod niferoedd dysgwyr yn gostwng nid o reidrwydd oherwydd gostyngiad mewn cyfraddau geni ond oherwydd fod mwy o rieni yn dewis addysgu cartref, ac fod angen edrych ar bolisi addysg hyblyg (<i>flexi-schooling</i>).
	Cloi	Nododd GapRh ei fod yn croesawu'r holl sylwadau sydd wedi cael eu codi heno, ac mai sesiwn ymgysylltu ydi hwn yn unig. Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen i ymgynghori ar unrhyw opsiwn, bydd cyfle i gynnig sylwadau pellach bryd hynny. Nodwyd y byddwn yn mynd ati i edrych ar yr ymholiadau sydd wedi cael eu codi heno a dod yn ôl atoch gydag ymatebion mor fuan â phosib.

Mewnbwn yn dilyn Cyfarfodydd Panel Adolygu Ysgol Nebo

Yn dilyn y cyfarfodydd lleol, mae crynodeb isod o'r sylwadau a dderbyniwyd:

Cyfarfod PAY Nebo 1 – 18 Mawrth 2025

Derbyniwyd 6 llythyr gan ran-ddeiliaid Ysgol Nebo yn dilyn y cyfarfod lleol cyntaf. Dyma grynodeb o'r prif sylwadau a nodwyd yn yr ohebiaeth:

- Roedd sawl llythyr yn nodi cefnogaeth i Ysgol Nebo ac yn gwrthwynebu'r opsiwn i gau'r ysgol, gan nodi'r effaith negyddol fyddai cau'r ysgol yn ei gael ar y gymuned.
- Nodir fod Ysgol Nebo yn hwb cymunedol.
- Nodwyd pwysigrwydd Ysgol Nebo a manteision ysgolion bach gwledig, megis maint dosbarthiadau bychain.
- Cynigiwyd opsiwn i ddatblygu Ysgol Nebo fel ysgol ar gyfer darpariaeth addysg amgen i gefnogi plant sy'n profi heriau mewn ysgolion mwy.
- Gofynnir i'r Cabinet fuddsoddi mewn ysgolion gwledig megis Ysgol Nebo a'i datblygu'n safle unigryw fyddai'n darparu ar gyfer anawsterau emosiynol, ymddygiadol neu academiaidd.
- Cynigiwyd opsiynau i'w hystyried. Nodwyd fod yr opsiynau hyn wedi eu cynnwys yn y gwerthusiad opsiynau.
- Nodir pryderon am effaith cau Ysgol Nebo ar yr iaith Gymraeg yn Nebo a Nasareth.

Cyfarfod PAY Nebo 2 – 12 Mai

Derbyniwyd 2 lythyr gan ran-ddeiliaid Ysgol Nebo yn dilyn yr ail gyfarfod lleol. Dyma grynodeb o'r prif sylwadau a nodwyd yn yr ohebiaeth:

- Nodi sylwadau pellach ac astudiaethau achos i'w hystyried mewn perthynas â'r opsiwn "*Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg briff ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth*".
- Nodi cefnogaeth i'r opsiwn a gynigir gan y Corff Llywodraethol ynghyd â'r opsiwn i ddatblygu Nebo fel canolfan arbenigol e.e. ar gyfer gwaith maes

*NODIR: Wrth baratoi'r sylwadau hyn, nid rwyf wedi derbyn Atodiad 2 sy'n cynnwys yr asesiadau effaith.

GWORTHWYNEBIAD I'R CYNNIG ARFAETHEDIG I GAU YSGOL NEBO AR 31 RHAGFYR 2026 A THROSGLWYDDO DISGYBLION I YSGOL LLANLLYFNI O 1 IONAWR 2027 YMLAEN.

Hoffwn ddiolch i'r Adran Addysg am eu gwaith yn paratoi'r ddogfen a'r gefnogaeth mae Ysgol Nebo wedi derbyn dros y blynyddoedd.

Fel yr Aelod Lleol dymunaf gyflwyno fy sylwadau ar Adroddiad Cabinet Ysgol Nebo ac fy mod yn erbyn yr argymhelliad a ffefrir i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen. Nid yw'r achos dros gau yn bodloni "*rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig*" (adran 4.5-4.7) yn y Cod Trefniadaeth 011/2018. Nid yw'r adroddiad, fel y mae, yn profi bod pob opsiwn ymarferol arall wedi cael ei ystyried "yn gydwybodol", nac yn dangos asesiad effeithiau llawn a chyfoes.

Yn siomedig, nid yw'r Adran Addysg o blaid yr un opsiwn a ffafrir gan y Corff Llywodraethol - sef:

"Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro -amrywiaeth."

Cywiriadau

Yn 10.7 mae'r adroddiad yn nodi bod pennaeth strategol 0.2 a pennaeth llawn amser. Yn hytrach, y trefniant cywir ydi Pennaeth strategol 0.2, Pennaeth mewn gofal 0.8 ac athrawes 0.2.

Mae'r ddogfen yn nodi mai 1 dosbarth sydd gan Ysgol Nebo. Mewn gwirionedd mae gan Ysgol Nebo 2 ddosbarth.

Cydnabyddiaeth

Rydym yn cydnabod fod yr ysgol ar hyn o bryd mewn sefyllfa fregus gyda niferoedd isel. Yn anffodus, mae hyn yn batrwm ehangach ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd y Sir. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod canran uchel o ddisgyblion sydd yn mynychu Ysgol Nebo yn ddisgyblion all-dalgylch. Mae angen deall y rhesymau dros hyn cyn penderfynu ar gau. Yn ogystal â hyn mae nifer disgyblion yr ysgol wedi cynyddu 50% ers y flwyddyn ddiwethaf.

Rhagamcanion

Nid oes eglurhad methodolegol clir ynghylch sut y cyfrifwyd y rhagolygon poblogaeth. Heb fodel demograffig tryloyw, nid yw'r casgliad "*bydd niferoedd yn parhau'n isel*" yn gadarn. Er enghraifft, dylid ystyried Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd (700 o dai cymdeithasol erbyn 2029), lle gallai pentref Nebo elwa'n uniongyrchol ac arwain at dwf niferoedd yr ysgol.

Cyllid

Er bod cau ysgol yn ymddangos fel arbediad i'r Cyngor, nid yw'r ddogfen yn cynnwys costau diswyddiadau, ailstrwythuro, pontio, nac gostyngiadau posibl mewn refeniw grantiau.

Mae'r cyfeiriad at gostau cynnal a chadw hefyd yn gamarweiniol, gan fod y gwaith yma yn '*angenrheidiol*' byddai'r gwaith yn digwydd beth bynnag y penderfyniad. Yn ogystal nid oes tystiolaeth ategol i gyfiawnhau'r ffigwr o £95,000. Oherwydd y rhesymau hyn dylid hepgor y ffigwr £95,000.

Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg

Byddai cau Ysgol Nebo yn cael effaith negyddol sylweddol ar y gymuned, gan fod perthynas clos iawn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned. Mae'r ysgol yn ased i'r Gymraeg a diwylliant lleol, bydd ei golli yn golygu colled barhaol i'r pentref.

Addysg Gartref (EHE)

Mae 269 o blant yn derbyn eu haddysg gartref yn y Sir - cynnydd o 134 ers Medi llynedd. Ffigwr pryderus iawn. Mae nifer o rieni wedi nodi na fyddai ysgol fwy yn addas i'w plant; mae tystiolaeth leol yn dangos bod rhai dysgwyr wedi ffynnu ar ôl symud i Nebo, diolch i ddosbarthiadau llai a gofal unigol - gwerth amhrisiadwy.

Dosbarthiadau Bach

Mae nifer o astudiaethau ym Mhrydain yn cefnogi manteision dosbarthiadau llai, yn enwedig i blant ieuengach a'r rhai o gefndiroedd difreintiedig. Mae profiad Ysgol Nebo yn ategu hyn drwy welliant mewn lles a chynnydd i rai dysgwyr.

Dewisiadau Amgen heb eu Harchwilio

Yn unol â'r "*rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig*" (Cod Trefniadaeth 011/2018), rhaid profi fod pob opsiwn wedi'i ystyried yn gydwybodol. Credwn nad yw hyn wedi digwydd yn ddigonol. Er bod opsiwn 8.8 yn cyfeirio at yr hyn a gyflwynwyd gan y Corff Llywodraethol, nid oedd bwriad gan y corff i gynnwys uned ADY. Yn hytrach, y bwriad yw cynnig ysgol a fyddai'n darparu cyfle i ddisgyblion bregus aros yn y prif lif ac o bosib osgoi cynnydd pellach mewn plant yn derbyn eu haddysg gartref.

Dymunwn fod opsiwn a gyflwynwyd gan y Corff Llywodraethwyr Ysgol Nebo yn cael ei ystyried yn llawn.

"Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro -amrywiaeth."

Casgliad

Mae cyfle i Gyngor Gwynedd weithredu'n arloesol drwy gefnogi Ysgol Nebo fel safle peilot ac enghreifftiol gan fanteisio ar yr opsiynau mae'r Corff Llywodraethwyr wedi cynnig. Byddai hyn yn dangos arweiniad cenedlaethol ar sut i gryfhau ysgolion gwledig, ac yn rhoi dewis cadarnhaol yn hytrach na chau ysgol werthfawr.

Gyda niferoedd o ddisgyblion yn dewis addysgu gartref yn cynyddu ar raddfa frawychus yn y Sir, mae angen archwilio pam fod rhai wedi dewis Ysgol Nebo cyn troi at addysgu gartref.

Felly, gofynnwn i'r Cabinet ohirio'r ymgynghoriad statudol ar gau, a chefnogi cynllun peilot i brofi model arloesol byddai'n cynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro -amrywiaeth.

Yn aml rydym yn gweld y Cyngor hwn yn arwain y ffordd yng Nghymru a thu hwnt. Dyma gyfle arall i Gyngor Gwynedd arwain ar sut i sicrhau dyfodol cynaliadwy i ysgolion gwledig, cefnogi'r Gymraeg, a denu teuluoedd yn ôl o addysg gartref.

Diolch

Cynghorydd Dafydd Davies

Aelod Lleol

Ward Clynnog

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Dyddiad y cyfarfod: 14 Hydref 2025
Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dewi Jones
Swyddog Cyswllt: Gwern ap Rhisiart – Pennaeth Addysg
Teitl yr Eitem: Ysgol Baladeulyn - Papur cynnig

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1 Ceisir caniatâd y Cabinet i gynnal ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1 Gofynnir am ganiatâd i ymgynghori ar y cynnig arfaethedig a nodir yn 1.1 am fod angen cyfarch sefyllfa fregus Ysgol Baladeulyn. Mae niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn wedi bod yn isel ers peth amser. Yn ôl niferoedd Medi 2025, dim ond 6 dysgwr llawn amser sy'n mynychu'r ysgol gyda 2 arall yn y meithrin, a dengys rhagamcanion y bydd y niferoedd yn parhau'n isel gyda rhagamcanion o 8 dysgwr llawn amser ar y gofrestr erbyn Medi 2028.

3. CYFLWYNIAD

- 3.1 Yn eu cyfarfod ar 11 Chwefror 2025, penderfynodd y Cabinet gefnogi'r argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda Chorff Llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol Ysgol Baladeulyn gan drafod opsiynau posib yn ymwneud â dyfodol yr ysgol yn sgil niferoedd isel o ddysgwyr a'r pryderon am gynladwyedd yr ysgol.
- 3.2 Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd yn ôl ar ganlyniad y trafodaethau lleol, a cheisio caniatâd i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddisgyblion y dalgylch yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

4. CEFNDIR

- 4.1 Ysgol gynradd gymunedol yw Ysgol Baladeulyn sydd wedi ei lleoli ym mhentref Nantlle yn Nyffryn Nantlle. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 11 oed ac yn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3. Derbynnir dysgwyr i'r ysgol yn rhan amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn ddysgwyr llawn amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

- 4.2 Gyda 6 o ddysgwyr (Derbyn i Flwyddyn 6) ar gofrestr yr ysgol, a chapasiti o 55, mae 49 o lefydd gweigion yn yr ysgol, sef cyfwerth a 89% o gapasiti'r ysgol. Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin yn ogystal, felly gyda 2 ddysgwr meithrin ar y gofrestr, mae 5 o lefydd gweigion yn y Meithrin yn ogystal.

Cyd-destun Strategol


- 4.3 Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r Strategaeth "Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd" ers i'r Cyngor Llawn ei mabwysiadu yn Ebrill 2009.
- 4.4 Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2018, bu i'r Cabinet gymeradwyo egwyddorion "Addysg Addas i Bwrpas" sydd bellach yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn er sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r egwyddorion hyn yn gweithio tuag at resymoli ystod oedran o fewn dosbarthiadau cynradd a sicrhau amser digyswllt digonol i benaethiaid ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn yr ysgolion cynradd.

Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig

- 4.5 Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (Y Cod) yn cynnwys gweithdrefn arbennig mewn perthynas ag ysgolion gwledig, gan sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau.
- 4.6 Fe nodir yn y Cod "*Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau, ond bod rhaid i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwybodol gan y cynigydd, gan gynnwys ffedereiddio.*"
- 4.7 Mae Ysgol Baladeulyn wedi ei dynodi yn 'ysgol wledig' at ddiben y Cod. O ganlyniad, rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r gofynion gweithdrefnol ychwanegol mewn perthynas â llunio cynigon ar gyfer ysgolion gwledig wrth lunio'r papur cynnig hwn.

5. SEFYLLFA BRESENNOL YSGOL BALADEULYN

- 5.1 Fel y gwelir o'r graff isod, mae gostyngiad sylweddol a chyson wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn. Yn Medi 2017, roedd 23 o ddysgwyr Derbyn i Blwyddyn 6 a 6 dysgwr Meithrin yn mynychu'r ysgol, ond erbyn hyn, mae'r niferoedd wedi gostwng i 6 dysgwr llawn amser (Derbyn – Blwyddyn 6) a 2 Meithrin, sy'n cyfateb i ostyngiad o 72% yn niferoedd y dysgwyr.



- 5.2 O ganlyniad i'r niferoedd isel presennol, mae'r ysgol mewn sefyllfa fregus ac yn wynebu heriau cynyddol niferus, gan gynnwys:

- **Niferoedd isel o ddysgwyr** – Yn Ionawr 2025, roedd 13 dysgwr llawn amser a 0 dysgwr meithrin yn Ysgol Baladeulyn. Mae'r niferoedd wedi gostwng ymhellach ers hynny gyda 6 dysgwr llawn amser a 2 ddysgwr meithrin ar y gofrestr yn Medi 2025.
- **Canran uchel o lefydd gweigion** – Yn seiliedig ar ffigyrau Medi 2025, mae oddeutu 89% o lefydd gweigion yn yr ysgol (49 mewn nifer). Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin yn ogystal, felly gyda 2 ddysgwr meithrin ar y gofrestr, mae 5 o lefydd gweigion yn y meithrin yn ogystal.
- **Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang** - Mae 2 ddosbarth yn cwrdd yn y bore; un gyda dau blentyn meithrin ac un Blwyddyn 1, a'r llall gyda gweddill y dysgwyr derbyn - blwyddyn 6. Yn y prynhawn mae 2 ddosbarth ar gyfer dysgwyr derbyn- blwyddyn 6. Mae un dosbarth ar gyfer 2 ddysgwr blwyddyn 1 a'r llall ar gyfer 4 dysgwr blynyddoedd 2 - 6.
- **Rhagamcanion niferoedd** - Mae rhagamcanion Medi 2025 yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau'n isel dros y tair blynedd nesaf.
- **Dysgwyr y dalgylch** – Dengys data Medi 2025 mai dim ond 25% o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn sy'n dewis mynychu'r ysgol. Mae 75% o ddysgwyr y dalgylch yn dewis mynychu ysgolion all-dalgylch
- **Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad cyllidol craidd** – Mae Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Cyfanswm y swm ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol 2025-26 (seiliedig ar niferoedd Medi 2024) oedd £56,781.
- **Cyfartaledd cost fesul dysgwr** – Cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Baladeulyn yn 2025-26 yw £14,953 o gymharu â'r cyfartaledd sirol o £5,780.

6. TRAFODAETHAU LLEOL

- 6.1 Yn nhymor yr Hydref 2024, bu i swyddogion o'r Adran Addysg gyfarfod â Chorff Llywodraethol Ysgol Baladeulyn er mwyn trafod sefyllfa fregus yr ysgol. Yn ystod y cyfarfod, nodwyd y bwriad i geisio caniatâd y Cabinet i symud y drafodaeth yn ei blaen trwy gynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda'r Corff Llywodraethol a'r rhan-ddeiliad perthnasol i drafod yr heriau ac opsiynau ar gyfer y dyfodol.
- 6.2 Yn unol â phenderfyniad y Cabinet ar 11 Chwefror 2025, sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol Baladeulyn (PAY). Gwahoddwyd holl aelodau'r Corff Llywodraethol, rhieni a staff yr ysgol yn ogystal â'r Aelod Lleol i ymuno â'r panel a chymryd rhan yn y drafodaeth.
- 6.3 Ar 17 Mawrth 2025, cynhaliwyd y cyntaf o dri cyfarfod PAY ble amlinellwyd yr heriau oedd yn wynebu'r ysgol a chynnal trafodaeth gychwynnol i adnabod opsiynau fyddai'n ymateb i'r heriau hyn (fel y manylir ym mharagraff 5.2 uchod). Cynigiwyd esiamplau o opsiynau yn y cyfarfod, a bu i rai o ran-ddeiliaid yr ysgol gynnig opsiynau eraill er ystyriaeth.
- 6.4 Cynhaliwyd yr ail gyfarfod PAY ar 19 Mai 2025. Yn ystod y cyfarfod cyflwynwyd gwerthusiad SWOT er mwyn adnabod cryfderau, cyfleoedd, gwendidau a bygythiadau'r holl opsiynau. Derbyniwyd sylwadau i'r gwerthusiad yn ystod y cyfarfod ac aethpwyd ati i addasu'r gwerthusiad er mwyn eu cynnwys.
- 6.5 Yn dilyn derbyn mewnbwn aelodau'r PAY, cynhaliwyd trydydd cyfarfod ar 7 Gorffennaf 2025 er mwyn nodi'r heriau oedd yn wynebu'r ysgol, y rhestr hir o opsiynau y cytunwyd i'w gwerthuso ac egluro'r ffactorau fyddai'n cael eu hystyried wrth gynnal gwerthusiad opsiynau ar y rhestr hir. Nodwyd y bwriad i gynnal asesiadau effaith ar yr opsiynau cyn adrodd yn ôl i'r Cabinet ym mis Hydref.

7. ADNABOD OPSIYNAU

7.1 Gyda mewnbwn aelodau'r PAY yn ystod y cyfarfodydd lleol, crëwyd rhestr hir o opsiynau i'w hystyried ar gyfer dyfodol yr ysgol. Roedd y rhain yn cynnwys opsiynau a gyflwynwyd gan fuddeiliaid Ysgol Baladeulyn. Yr opsiynau hyn oedd:

- Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol
- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)
- Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)
- Newid statws Ysgol Baladeulyn i fod yn ysgol Gristnogol
- Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn – Ysgol aml-safle
- Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn
- Ffederaleiddio gydag ysgol arall gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn
- Cynnwys uned iaith yn safle Ysgol Baladeulyn

Mae Adran 40(5) Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn darparu:

“Ni chaniateir i unrhyw newid gael ei wneud i ysgol a gynhelir sy'n newid cymeriad crefyddol yr ysgol neu'n peri i ysgol gaffael neu golli ei chymeriad crefyddol.”

O ganlyniad, diystyriwyd un opsiwn oedd wedi ei gynnig gan ran-ddeiliaid yr ysgol, sef yr opsiwn i newid statws Ysgol Baladeulyn i fod yn ysgol Gristnogol.

Opsiynau Eraill

7.2 Mae ystod eang o opsiynau wedi eu hadnabod yn ystod y cyfarfodydd lleol ac rydym hefyd wedi rhoi ystyriaeth i'r hyn mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018 yn nodi fel enghreifftiau o opsiynau posibl y gallai fod yn werth eu hystyried wrth lunio'r cynnig ar gyfer ysgol wledig, a cafodd yr enghreifftiau canlynol eu hystyried yn ychwanegol i'r opsiynau yn adran 7.1 o'r adroddiad yma. Gwelir yr opsiynau hynny isod gyda sylwadau wedi eu hychwanegu atynt:

- Clystyru, cydweithio ag ysgolion eraill - mae'r opsiwn o ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos wedi ei gynnwys yn y gwerthusiad opsiynau.
- Defnyddio'r ysgol fel canolfan gymunedol i gynnal a chefnogi ystod o wasanaethau cymunedol – yn dilyn ystyried yr opsiwn i ddefnyddio'r ysgol fel canolfan gymunedol, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yma yn cynnig datrysiad cynaliadwy ar gyfer yr ysgol, gan na fyddai'n ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol (fel nodir yn adran 5.2). Pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'r heriau a nodir yn adran 5.2 yr adroddiad, e.e. niferoedd isel o ddisgyblion, maint dosbarthiadau bychain yn parhau, ac o ganlyniad byddai'r heriau cyllidol sy'n wynebu'r ysgol yn parhau.
- Cytleoli gwasanaethau lleol o fewn yr ysgol i wrthbwysu costau cynnal - mae'r opsiwn o ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn a'r opsiwn o gynnwys uned iaith yn safle Ysgol Baladeulyn wedi eu cynnig yn ystod y trafodaethau lleol ac yn cael eu hystyried yn y gwerthusiad opsiynau.
- Ystyried sefydlu ysgolion ar fwy nag un safle er mwyn cadw adeiladau - mae'r opsiwn yma wedi ei gynnig yn ystod y trafodaethau lleol (uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn) ac yn cael ei ystyried yn y gwerthusiad opsiynau.

8. GWERTHUSO OPSIYNAU

8.1 Yn unol â'r strategaeth "Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd" ystyriwyd nifer o ffactorau wrth werthuso'r opsiynau ar gyfer y sefyllfa, sef:

- Niferoedd dysgwyr a llyfdd gweigion
- Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran
- Arweinyddiaeth a staffio
- Y Gymuned
- Adnoddau ariannol
- Yr iaith Gymraeg
- Ffactorau daearyddol a theithio

8.2 Gellir gweld cymhariaeth bellach o'r holl opsiynau yn erbyn ffactorau'r strategaeth yn **Atodiad 1** (Tabl Gwerthusiad Opsiynau) ac mae casgliad o werthusiad yr opsiynau unigol i'w gweld isod.

8.3 Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol

Byddai'r opsiwn yma'n golygu na fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol yn nalgylch Ysgol Baladeulyn.

Wedi pwyso a mesur sefyllfa ddiweddaraf yr ysgol yn erbyn y ffactorau perthnasol, deir i'r casgliad nad yw'r opsiwn yma'n cyfarch yr heriau presennol sy'n wynebu'r ysgol a nodir yn 5.2, gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llyfdd gweigion - Mae niferoedd dysgwyr yn isel (6 D – Bl.6 a 2 Meithrin) ac mae llyfdd gweigion sylweddol (89% D-Bl.6 a 87% M-Bl.6) yn Ysgol Baladeulyn ac mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu bydd hyn yn parhau.
- Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang – Mae 2 ddosbarth yn cwrdd yn y bore; un gyda dau blentyn meithrin ac un blwyddyn 1, a'r llall gyda gweddill y dysgwyr Derbyn – Blwyddyn 6. Yn y prynhawn mae 2 ddosbarth ar gyfer dysgwyr Derbyn- Blwyddyn 6. Mae un dosbarth ar gyfer 2 ddysgwr blwyddyn 1 a'r llall ar gyfer 4 dysgwr blynnyddoedd 2 – 6.
- Adnoddau ariannol – Yn 2025-26 mae Ysgol Baladeulyn yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol (£56,781) ac mae cyfartaledd cost y pen pob dysgwr (£14,953) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol (£5,780)
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Mae gwerth £125,000 o waith cynnal a chadw angenrheidiol wedi ei adnabod ar gyfer adeilad Ysgol Baladeulyn. Ni fyddai'r opsiwn yma'n gwneud dim yn ymateb i'r her yma.

8.4 Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)

Mae'r Cod yn nodi bod ffederaleiddio yn dod â manteision arbennig i ysgolion gwledig ac yn datgan bod rhaid felly i gynigydd ddangos sut mae ffedereiddio wedi ei ystyried fel opsiwn. Dangoswyd gall ffederaleiddio gynnig manteision i ysgolion gwledig mewn rhai sefyllfaoedd, yn benodol o safbwynt cryfhau arweinyddiaeth a chyfleoedd cydweithio.

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng 3 ysgol, gan fod Ysgol Talysarn eisoes wedi ffedereiddio gydag Ysgol Brynaerau.

Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Wrth ystyried y model hwn, rhaid asesu beth fyddai unrhyw effaith ar sut byddai'r ysgolion sy'n rhan o'r ffederasiwn yn gweithredu. Gan nodi'r heriau sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn, byddai'n rhaid sicrhau y byddai trefniant o'r fath yn medru cynnig manteision i holl blant a phobl ifanc yr ysgolion sy'n rhan o'r ffederasiwn drwy wella'r ddarpariaeth addysgol.

Gan fod niferoedd Ysgol Baladeulyn wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 6 dysgwr (Derbyn – Bl.6) a 2 dysgwr Meithrin ar y gofrestr, rhagwelwyd nad oedd manteision eglur i ysgolion eraill o ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn.

Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynydd mewn niferoedd.

Yn dilyn pwyso a mesur y manteision a'r anfanteision ffedereiddio, daethpwyd i'r casgliad nad oedd yr opsiwn hwn yn ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir yn 5.2 uchod, gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion –Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynydd mewn niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai ffederaleiddio yn golygu fod yr her o niferoedd dysgwyr isel (6 D – Bl.6 a 2 Meithrin) a llefydd gweigion sylweddol (89% D-Bl.6 a 87% M-Bl.6) yn Ysgol Baladeulyn yn parhau.
- Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang – Mae 2 ddosbarth yn cwrdd yn y bore; un gyda dau blentyn meithrin ac un blwyddyn 1, a'r llall gyda gweddi y dysgwyr derbyn – blwyddyn 6. Yn y prynhawn mae 2 ddosbarth ar gyfer dysgwyr derbyn- blwyddyn 6. Mae un dosbarth ar gyfer 2 ddysgwr blwyddyn 1 a'r llall ar gyfer 4 dysgwr blynedd 2 – 6. Gan na ragwelir y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynydd yn y niferoedd, rhagwelir na fyddai ffederaleiddio yn ymateb i'r her o ddosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang.
- Adnoddau ariannol – Yn 2025-26 mae Ysgol Baladeulyn yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol (£56,781) ac mae cyfartaledd cost y pen pob dysgwr (£14,953) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol (£5,780). Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yma yn arwain at gynydd yn niferoedd y dysgwyr, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar ddyraniad cyllidol Ysgol Baladeulyn.
- Cyflwr ac Addasrwydd adeiladau - Mae gwerth £125,000 o waith cynnal a chadw angenrheidiol wedi ei adnabod ar gyfer Ysgol Baladeulyn. Gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, ni fyddai'r opsiwn yma yn ymateb yn ddigonol i'r her yma.

8.5 Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)

Byddai'r opsiwn yma'n golygu cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i ddysgwyr y dalgylch yn Ysgol Talysarn.

Ystyrir Ysgol Talysarn fel yr 'ysgol gyfagos' gan mae hi yw'r ysgol ddaearyddol agosaf at Ysgol Baladeulyn. Mae'r ysgol wedi ei lleoli rhyw 2.5 milltir o safle Ysgol Baladeulyn.

Mae Ysgol Talysarn hefyd yn cynnig ei hun fel yr opsiwn amlwg ar gyfer yr ysgol amgen gan fod 63% o blant oed cynradd dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu Ysgol Talysarn ac mae digon o gapasiti yno i dderbyn dysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn.

Yn dilyn hyn, cynigir ymestyn dalgylch Ysgol Talysarn i gynnwys dalgylch Ysgol Baladeulyn ar gyfer y dyfodol.

Manylir ymhellach ar y rhesymeg y tu ôl i argymhell y cynnig yma fel yr opsiwn a ffafrir ar gyfer ymgynghori arno yn Adran 10. Yr opsiwn a ffafrir.

8.6 Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn – Ysgol aml-safle

Byddai'r opsiwn yma'n golygu uno nifer o ysgolion lleol, drwy gau'r ysgolion a sefydlu un ysgol aml-safle fyddai'n cynnwys safle Ysgol Baladeulyn.

Byddai'r opsiwn yn galluogi'r posibilrwydd o rannu adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb safle ysgol ym mhentref Nantlle trwy sefydlu ysgol aml-safle, dan arweiniad pennaeth ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu (newydd) yn cael ei ffurfio ar gyfer yr ysgol aml-safle.

O dan y model hwn, byddai goblygiadau staffio a all arwain at ansicrwydd a diswyddiadau. Byddai swyddi pob aelod o staff ym mhob un o'r ysgolion fyddai'n ffurfio rhan o'r ysgol aml-safle yn dod i ben. Byddai'r penodiadau newydd yn cael eu gwneud gan gorff llywodraethu cysgodol yr ysgol aml-safle newydd.

Mae niferoedd Ysgol Baladeulyn wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 6 dysgwr (Derbyn – Bl.6) a 2 ddysgwr rhan amser (meithrin) ar y gofrestr. Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n arwain at gynnydd yn niferoedd dysgwyr ar safle Ysgol Baladeulyn.

Yn dilyn pwyso a mesur y manteision a'r anfanteision, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn yma'n ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir yn adran 5.2 uchod, gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion – Rhagwelir y byddai niferoedd dysgwyr ar safle Baladeulyn yn parhau'n isel (6 Derbyn i Bl.6 a 2 Meithrin) ynghyd â llefydd gweigion sylweddol (89% D-Bl.6 a 87% M-Bl.6).
- Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang - Mae 2 ddosbarth yn cwrdd yn y bore; un gyda dau blentyn meithrin ac un blwyddyn 1, a'r llall gyda gweddill y dysgwyr derbyn - blwyddyn 6. Yn y prynhawn mae 2 ddosbarth ar gyfer dysgwyr derbyn- blwyddyn 6. Mae un dosbarth ar gyfer 2 ddysgwr blwyddyn 1 a'r llall ar gyfer 4 dysgwr blynedd 2 - 6. Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd yn niferoedd y dysgwyr ar safle Baladeulyn, rhagwelir y byddai dosbarthiadau bach yn parhau yn safle Baladeulyn gydag ystod oedran eang o fewn dosbarthiadau.
- Adnoddau ariannol – Byddai sefydlu ysgol aml-safle yn golygu sefydlu un ysgol aml-safle, gydag un dyraniad ar gyfer yr holl safleoedd. Rhagwelir y byddai safle Baladeulyn yn parhau i dderbyn swm ychwanegol i'r dyraniad craidd trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio gan y byddai niferoedd dysgwyr safle Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn isel.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Byddai costau cynnal a chadw safle Baladeulyn yn parhau (£125,000 yn barod wedi ei adnabod).

8.7 Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn

Byddai'r opsiwn yma'n golygu y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond byddai hefyd yn golygu ychwanegu ardal ar gyfer uned ADY ar safle'r ysgol er mwyn cynnig addysg arbennig i'r plant fyddai angen cefnogaeth ychwanegol.

Gan y byddai angen addasu adeilad yr ysgol i ddarparu lleoliad ar gyfer yr ardal arbenigol, byddai capasiti'r ysgol yn debygol o leihau ac felly rhagwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at leihad mewn llefydd gweigion.

Fodd bynnag, mae niferoedd Ysgol Baladeulyn wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 6 dysgwr (Derbyn – Bl.6) ac 2 dysgwr rhan amser (meithrin) ar y gofrestr. Gan y byddai dysgwyr yn yr ardal ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd Ysgol Baladeulyn yn parhau'n isel, ac ni ragwelir y byddai'n ymateb i'r heriau y mae'r ysgol eu hwynebu, fel nodir yn adran 5.2 (uchod).

Yn dilyn pwyso a mesur manteision ac anfanteision yr opsiwn yma ar gyfer Ysgol Baladeulyn, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn yma yn ateb yn ddigonol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir yn adran 5.2 uchod gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion – Er y byddai leihad yn nghapasiti a llefydd gweigion yr ysgol yn sgil lleoli'r ardal ADY o fewn adeilad Ysgol Baladeulyn, gan y byddai dysgwyr yr ardal/uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned ADY ar safle'r ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel.

- Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang - Mae 2 ddosbarth yn cwrdd yn y bore; un gyda dau blentyn meithrin ac un blwyddyn 1, a'r llall gyda gweddill y dysgwyr derbyn - blwyddyn 6. Yn y prynhawn mae 2 ddosbarth ar gyfer dysgwyr derbyn- blwyddyn 6. Mae un dosbarth ar gyfer 2 ddysgwr blwyddyn 1 a'r llall ar gyfer 4 dysgwr blyneddod 2 - 6. Byddai lleoli Uned ADY ar safle Ysgol Baladeulyn yn golygu y byddai mwy o blant ar y safle, ond byddai'r Uned yn gweithredu ar wahân i weddill Ysgol Baladeulyn ac felly ni fyddai effaith ar faint dosbarthiadau ac amrediad oedran Ysgol Baladeulyn.
- Adnoddau ariannol – Yn 2025-26 mae Ysgol Baladeulyn yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol (£56,781), ac mae cyfartaledd cost y pen pob dysgwr (£14,953) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol (£5,780). Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar niferoedd dysgwyr yr Ysgol, rhagwelir y byddai'r her ariannol yma'n parhau.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Byddai costau cynnal a chadw Ysgol Baladeulyn yn parhau (£125,000 yn barod wedi ei adnabod).

8.8 Ffederaleiddio gydag ysgol arall gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn

Mae'r Cod yn nodi bod ffederaleiddio yn dod â manteision arbennig i ysgolion gwledig ac yn datgan bod rhaid felly i gynigydd ddangos sut mae ffedereiddio wedi ei ystyried fel opsiwn. Dangoswyd y gall ffederaleiddio gynnig manteision i ysgolion gwledig mewn rhai sefyllfaoedd, yn benodol o safbwynt cryfhau arweinyddiaeth a chyfleoedd cydweithio.

Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Ystyriwyd y posibilrwydd o ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos yn benodol Ysgol Talysarn. O ganlyniad, byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng 3 ysgol, gan fod Ysgol Talysarn eisoes wedi ffedereiddio gyda Ysgol Brynaerau.

Wrth ystyried y model hwn, rhaid asesu beth fyddai unrhyw effaith ar sut y byddai'r ysgolion a ddeuai'n rhan o'r ffederasiwn yn gweithredu. Gan nodi'r heriau sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn, byddai'n rhaid sicrhau y byddai trefniant o'r fath yn medru cynnig manteision i holl blant a phobl ifanc yr ysgolion sy'n ffedereiddio drwy wella'r ddarpariaeth addysgol.

Gan fod niferoedd Ysgol Baladeulyn wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 6 dysgwr (Derbyn – Bl.6) a 2 dysgwr rhan amser (Meithrin) ar y gofrestr, rhagwelir na fyddai manteision eglur i ysgolion eraill o ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn ac ychwanegu ardal arbenigol ar safle Ysgol Baladeulyn.

Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd.

Yn ogystal â ffederaleiddio, byddai'r opsiwn yma hefyd yn golygu ychwanegu lleoliad ar gyfer ardal arbenigol ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Noder na fyddai ychwanegu ardal arbenigol yn effeithio ar niferoedd Ysgol Baladeulyn, gan y byddai dysgwyr yr ardal ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol. Gan y byddai'r ardal ADY wedi ei lleoli o fewn adeilad Ysgol Baladeulyn, rhagwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at leihad yng nghapasiti'r ysgol, ac o ganlyniad, lleihad yn niferoedd llefydd gweigion Ysgol Baladeulyn.

Yn dilyn pwyso a mesur y manteision a'r anfanteision ffedereiddio a lleoli ardal arbenigol ADY ar safle Ysgol Baladeulyn, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn hwn yn ymateb yn ddigonol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir yn adran 5.2 uchod, gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion – Er y byddai lleihad yn nghapasiti a llefydd gweigion yr ysgol yn sgil lleoli'r uned ADY o fewn adeilad Ysgol Baladeulyn, gan nad oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd, rhagwelir y byddai'r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Baladeulyn yn

parhau pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu. Gan y byddai dysgwyr yr uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned ADY ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel.

- Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang – Mae 2 ddosbarth yn cwrdd yn y bore; un gyda dau blentyn meithrin ac un blwyddyn 1, a'r llall gyda gweddill y dysgwyr Derbyn – Blwyddyn 6. Yn y prynhawn mae 2 ddosbarth ar gyfer dysgwyr Derbyn- Blwyddyn 6. Mae un dosbarth ar gyfer 2 ddysgwr blwyddyn 1 a'r llall ar gyfer 4 dysgwr blynnyddoedd 2 – 6. Ni ragwelir y byddai ffederaleiddio yn newid hyn. Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd yn y niferoedd, rhagwelir na fyddai'r opsiwn yma'n ymateb i'r her o ddosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang.
- Adnoddau ariannol - Yn 2025-26 mae Ysgol Baladeulyn yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol (£56,781) ac mae cyfartaledd cost fesul dysgwr (£14,953) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol (£5,780). Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar niferoedd dysgwyr yr Ysgol, rhagwelir y byddai'r her ariannol yma'n parhau.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Mae gwerth £125,000 o waith cynnal a chadw angenrheidiol wedi ei adnabod ar gyfer adeilad Ysgol Baladeulyn. Ni fyddai'r opsiwn yma'n ymateb i'r her yma.

8.9 Cynnwys uned iaith ar safle Ysgol Baladeulyn

Byddai'r opsiwn yma'n golygu y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond byddai hefyd yn golygu ychwanegu uned drochi iaith ar safle'r ysgol er mwyn cynnig gwasanaeth trochi yn y Gymraeg i siaradwyr newydd.

Gan y byddai angen addasu adeilad yr ysgol i ddarparu lleoliad ar gyfer yr uned/canolfan iaith, byddai capasiti'r ysgol yn debygol o leihau ac felly rhagwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at leihad mewn llefydd gweigion.

Fodd bynnag, mae niferoedd Ysgol Baladeulyn wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus gyda 6 dysgwr (Derbyn – Bl.6) a 2 ddysgwr rhan amser (meithrin) ar y gofrestr. Gan y byddai dysgwyr yr uned/ganolfan iaith yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys canolfan iaith ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd Ysgol Baladeulyn yn parhau'n isel, ac ni ragwelir y byddai'n ymateb i'r heriau y mae'r ysgol eu hwynebu, fel y nodir yn adran 5.2 (uchod).

Yn dilyn pwysu a mesur manteision ac anfanteision yr opsiwn yma ar gyfer Ysgol Baladeulyn, deuir i'r casgliad nad yw'r opsiwn yma yn ymateb yn ddigonol i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, fel y nodir yn adran 5.2 uchod, gan gynnwys:

- Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion – Er y byddai lleihad yn nghapasiti a llefydd gweigion yr ysgol yn sgil lleoli'r uned/canolfan iaith o fewn adeilad Ysgol Baladeulyn, gan y byddai dysgwyr yr uned iaith yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned iaith ar safle'r ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau'n isel.
- Maint dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang – Mae 2 ddosbarth yn cwrdd yn y bore; un gyda dau blentyn meithrin ac un blwyddyn 1, a'r llall gyda gweddill y dysgwyr derbyn – blwyddyn 6. Yn y prynhawn mae 2 ddosbarth ar gyfer dysgwyr derbyn- blwyddyn 6. Mae un dosbarth ar gyfer 2 ddysgwr blwyddyn 1 a'r llall ar gyfer 4 dysgwr blynnyddoedd 2 – 6. Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd yn y niferoedd, byddai maint dosbarthiadau yn parhau yn fach gydag amrediad oedran eang.
- Adnoddau ariannol – Yn 2025-26, roedd Ysgol Baladeulyn yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol sylweddol (£56,781), ac mae cyfartaledd cost fesul dysgwr (£14,953) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol (£5,780). Gan na ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar niferoedd dysgwyr yr Ysgol, rhagwelir y byddai'r her ariannol yma'n parhau.
- Cyflwr ac addasrwydd adeiladau – Mae gwerth £125,000 o waith cynnal a chadw angenrheidiol wedi ei adnabod ar gyfer adeilad Ysgol Baladeulyn. Ni fyddai'r opsiwn yma'n ymateb i'r her yma.

9. ASESIADAU EFFAITH – RHAGDYBIAETH YN ERBYN CAU YSGOLION GWLEDIG

Yn ogystal â'r ffactorau sy'n berthnasol wrth ddatblygu unrhyw gynnig, mae'n ofynnol hefyd cynnal asesiadau penodol mewn perthynas â chynnig arfaethedig o'r math yma. Cynhaliwyd nifer o asesiadau yn unol â gofynion y Cod o'r opsiynau o dan ystyriaeth. Mae'r asesiadau llawn i'w gweld yn Atodiad 2, ac mae crynodeb o'r asesiadau hyn i'w weld yn y tabl isod:

Opsiwn	Asesiad o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg	Asesiad o'r effaith tebygol ar wahanol drefniadau teithio	Asesiad o'r effaith tebygol ar y gymuned
Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol	Niwtral – Dim newid	Niwtral – Dim newid Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	Niwtral – Dim newid Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle.
Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)	Niwtral/Rhannol bositif– Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	Niwtral Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol. Cadw'r ysgol fel adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle.
Ffederaleiddio gydag ysgol arall gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn	Niwtral/Rhannol bositif– Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i gefnogi dysgwyr gydag ADY. Rhagwelir y byddai'n cael effaith bositif ar y meini prawf 'Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol'	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwr yr uned ADY.	Niwtral Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol. Cadw'r ysgol fel adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle.
Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos	Rhannol bositif Nodai'r asesiad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Talysarn yn cyfateb i safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Baladeulyn	Negyddol Byddai angen darparu cludiant i ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn i Ysgol Talysarn, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.	Niwtral/Rhannol Negyddol Arwain at golli ysgol ac adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle. I liniaru'r effaith ar y gymuned, nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Nantlle

(Ysgol Talysarn)	Gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Talysarn, rhagwelir y bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy, gyda chyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau. Yn seiliedig ar hyn, deir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn Ysgol Talysarn.	Rhagwelir costau cludiant ychwanegol – amcan gost, oddeutu £17,000-£30,000 y flwyddyn. Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Nantlle, lle'n briodol. Nodir fod cyfran helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn, ac felly deir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Ysgol Baladeulyn yn bodoli eisoes.
Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn	Niwtral/Rhannol bositif - Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i gefnogi dysgwyr gydag ADY. Rhagwelir y byddai'n cael effaith bositif ar y meini prawf 'Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol'	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	Niwtral – Dim newid i'r ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle.
Cynnwys uned iaith ar safle Ysgol Baladeulyn	Niwtral - Dim effaith ar y ddarpariaeth yn Ysgol Baladeulyn Cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i ddarparu gwasanaeth penodol ar gyfer hwyrddyfodiaid mewn Canolfan Iaith ar safle'r ysgol.	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned iaith.	Niwtral – Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle.
Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn	Niwtral/Rhannol bositif – Dim effaith ar y ddarpariaeth ar safle Ysgol Baladeulyn	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu ar safle Ysgol Baladeulyn a byddai	Niwtral – Dim effaith ar y ddarpariaeth ar safle Ysgol Baladeulyn

	Cyfle i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Yn ddibynnol ar strwythur yr ysgol newydd, mae posibilrwydd y bydd angen trefnu cludiant rhwng ysgolion.	Cadw ysgol a'i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle.

10. YR OPSIWN A FFAFRIR

10.1 O'r opsiynau a ystyriwyd, yr opsiwn a gaiff ei ffafrio ar gyfer ymgynghoriad pellach yw'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)

10.2 Caiff yr opsiwn hwn ei ffafrio am y rhesymau a ganlyn:

10.3 Niferoedd dysgwyr a lefydd gweigion

10.3.1 Yn Medi 2025 roedd 6 o ddysgwyr Derbyn – Blwyddyn 6 a 2 Meithrin yn mynychu Ysgol Baladeulyn. O ganlyniad, mae gan Ysgol Baladeulyn 49 (89%) o lefydd gweigion yn yr ysgol (Derbyn – Blwyddyn 6). Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 7 dysgwr yn y dosbarth Meithrin yn ogystal, felly gyda 2 ddysgwr meithrin ar y gofrestr, mae 5 o lefydd gweigion yn y meithrin yn ogystal.

10.3.2 Mae niferoedd dysgwyr yr ysgol wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf o 23 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 yn Medi 2017 i 6 dysgwr yn Medi 2025, sef gostyngiad o dros 74%.

10.3.3 Yn ôl y rhagamcanion a grëwyd yn Medi 2025, rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau'n isel dros y tair blynedd nesaf. Gwelir isod niferoedd Medi 2025 a rhagamcanion niferoedd Ysgol Baladeulyn ar gyfer 2026-28.

	M	D	1	2	3	4	5	6	Cyfanswm D-BI.6
Niferoedd Medi 2025	2	0	2	1	0	2	1	0	6
Rhagamcanion Medi 2026	1	2	0	2	1	0	2	1	8
Rhagamcanion Medi 2027	1	1	2	0	2	1	0	2	8
Rhagamcanion Medi 2028	1	1	1	2	0	2	1	0	7

10.3.4 Yn Medi 2025 roedd 84 o ddysgwyr (Derbyn – Blwyddyn 6) a 17 o ddysgwyr Meithrin yn mynychu Ysgol Talysarn. Yn ôl y rhagamcanion Medi 2025, rhagwelir y bydd 85 o ddysgwyr Derbyn i Blwyddyn 6 ac 11 dysgwyr Meithrin yn Ysgol Talysarn ym Medi 2028.

10.3.5 Mae gan Ysgol Talysarn gapasiti o 91 (Derbyn – Bl. 6), sy'n golygu fod gan Ysgol Talysarn 8% o lefydd gweigion. Wrth gynnwys capasiti a niferoedd yr ysgol, mae 7 o lefydd gweigion yn Ysgol Talysarn.

10.3.6 Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) Llywodraeth Cymru yn nodi fod “gormod o leoedd gwag, y gellid eu dileu, yn golygu bod adnoddau’n cael eu gwastraffu’n ddiangen. Diffinnir lefel sylweddol o ddarpariaeth dros ben fel 25% neu fwy o gapasiti ysgol”. O ganlyniad i’r niferoedd isel, mae 89% (49 mewn nifer) o lefydd gweigion (D-BI-6) yn Ysgol Baladeulyn.

10.3.7 Wrth ystyried capasiti Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn ar y cyd (sef capasiti o 146 D- BI.6 a 166 M – BI.6), rhagwelir y byddai gweithredu’r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo dysgwyr y dalgylch i Ysgol Talysarn yn lleihau’r cyfanswm nifer o lefydd gweigion yn ardal dalgylch Ysgol Baladeulyn ac ardal dalgylch Ysgol Talysarn o 56 (38%) i 1 (1%) (Derbyn-BI.6), ac o 52 (31%) i 0 (Meithrin-BI.6) .

10.4 Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran

Fel y gwelir o’r tabl isod mae 2 ddosbarth yn cwrdd yn y bore; un gyda dau blentyn meithrin ac un blwyddyn 1, a’r llall gyda gweddill y dysgwyr derbyn – blwyddyn 6. Yn y prynhawn mae 2 ddosbarth ar gyfer dysgwyr derbyn- blwyddyn 6. Mae un dosbarth ar gyfer 2 ddysgwr blwyddyn 1 a’r llall ar gyfer 4 dysgwr blynwyddoedd 2 – 6. Cyfartaledd maint dosbarthiadau (derbyn – blwyddyn 6) yn Ysgol Baladeulyn ydi 3 dysgwr.

Mae’r tabl yn dangos bod 5 dosbarth (derbyn – blwyddyn 6) yn Ysgol Talysarn (Medi 2025). Cyfartaledd maint dosbarthiadau Ysgol Talysarn yw 21 dysgwr.

	Blwyddyn								
Ysgol	Meithrin	0	1	2	3	4	5	6	Cyfartaledd maint dosbarthiadau
Baladeulyn	2	0	2	1	0	2	1	0	3
y.b.	Dosbarth 3			Dosbarth 5					
y.p.			Dosbarth 2		Dosbarth 4				
Talysarn	17	11	10	11	15	15	11	11	21
	17	Dosbarth 16		Dosbarth 16	Dosbarth 30		Dosbarth 22		

O ganlyniad, rhagwelir y byddai trosglwyddo dysgwyr i Ysgol Talysarn yn golygu fod y plant yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau maint mwy hyfyw, a gyda mwy o blant o’r un grŵp oedran.

10.5 Ffactorau daearyddol a teithio

10.5.1 Nodir yn y Strategaeth “Addysg Gynradd o’r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd” y dylid ceisio cyfyngu teithio i uchafswm o 30 munud o deithio unffordd rhwng y cartref a’r ysgol. O weithredu’r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai pob dysgwr presennol y dalgylch o fewn cyrraedd rhesymol (llai na 30 munud o deithio) i’r ysgol amgen, sef Ysgol Talysarn.

10.5.2 Yn dilyn asesu pellter Ysgol Talysarn o Ysgol Baladeulyn a diogelwch llwybrau cerdded a beicio i’r ysgol amgen, deuir i’r casgliad, gan fod y pellter dros 2 filltir a’r llwybrau yn anaddas i blant oed cynradd gerdded na beicio, y byddai cludiant yn cael ei gynnig i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn i Ysgol Talysarn, yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion y Sir. Rhagwelir y byddai cost cludiant oddeutu £17,000-£30,000 y flwyddyn.

10.6 Adnoddau Ariannol

10.6.1 Yn sgil niferoedd isel o ddysgwyr yn Ysgol Baladeulyn nid yw'r dyraniad ar sail y dysgwyr yn ddigonol i allu cynnal yr ysgol. O ganlyniad, mae Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad craidd trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ymhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Dyrannwyd cyllid ychwanegol o £56,781 i Ysgol Baladeulyn eleni (2025-26) trwy'r Polisi Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio.

10.6.2 Mae dyraniad Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn ar gyfer y flwyddyn 2025-26, wedi eu selio ar niferoedd Medi 2024 a gellir gweld y symiau y mae'r 2 ysgol yn eu derbyn isod:

Ysgol	Sail dyraniad (Niferoedd Medi 2024)			Dyraniad craidd	Dyraniad cyllidol ychwanegol (gwarchodaeth)	Cyfanswm	£ y dysgwr
	M	CS	CA2				
Baladeulyn	0	3	10	£137,610	£56,781	£194,391	£14,953
Talysarn	10	36	50	£521,659	£0	£521,659	£5,771
Cyfanswm	10	39	60	£659,269	£56,781	£716,050	-

10.6.3 Mae cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Baladeulyn yn £14,953 ac yn £5,771 yn Ysgol Talysarn. Cyfartaledd Sirol cost y dysgwr 2025-26 yw £5,780. Golyga hyn fod y gost fesul dysgwr yn Ysgol Baladeulyn £9,182 yn uwch na'r cyfartaledd sirol am yr un cyfnod.

10.6.4. Dyrennir cyfanswm o £716,050 i'r ddwy ysgol yn y flwyddyn ariannol 2025-26. Nid yw Ysgol Talysarn yn derbyn swm ychwanegol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio. Mae niferoedd dysgwyr presennol yr ysgol yn denu cyllideb ddigonol i gynnal lefelau staffio priodol.

10.6.5 O safbwynt costau refeniw, pe gweithredir y cynnig, a pe byddair holl ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn trosglwyddo i Talysarn, yn seiliedig ar gyllideb 2025-26 (sy'n seiliedig ar niferoedd dysgwyr Medi 2024)

- rhagwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn creu arbediad blynyddol o £129,191, llai costau anghenion cludiant ychwanegol (hyd at £30,000) - sef cyfanswm o oddeutu £99,191 y flwyddyn.
- rhagwelir y byddai cyllideb dyraniad craidd Ysgol Talysarn yn cynyddu i £604,522 a'r gost fesul dysgwr yn £5,846

10.6.6 Pe gweithredir y cynnig, a pe byddair holl ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn trosglwyddo i Ysgol Talysarn, yn seiliedig ar amcangyfrif o gyllideb 2026-27, sef blwyddyn gweithredu'r cynnig arfaethedig (sy'n seiliedig ar ragamcanion niferoedd dysgwyr a ddarparwyd gan benaethiaid yr ysgolion yn Medi 2024):

- rhagwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn creu arbediad blynyddol o £144,338, llai costau anghenion cludiant ychwanegol (hyd at £30,000) - sef cyfanswm o oddeutu £114,338 y flwyddyn.
- rhagwelir y byddai cyllideb dyraniad craidd Ysgol Talysarn yn cynyddu i £576,294 a'r gost fesul dysgwr yn £5,966.

10.6.7 Bydd unrhyw arbedion mewn costau refeniw yn cael eu cadw ym maes Ysgolion Gwynedd.

10.6.8 Noder nad oes costau cyfalaf ynghlwm â'r cynnig arfaethedig.

10.7 Arweinyddiaeth a Staffio

10.7.1 Mae strwythur staffio presennol Ysgol Baladeulyn yn cynnwys Pennaeth mewn gofal llawn amser sy'n gwario 80% o'i amser yn dysgu, ynghyd â 2 o gymorthyddion dysgu.

10.7.2 Yn Ysgol Talysarn, ceir Pennaeth sydd yn gwario 100% o'i hamser yn arwain ffederasiwn Ysgol Talysarn (3 diwrnod) ac Ysgol Brynaerau (2 ddiwrnod). Mae hefyd dirprwy llawn amser, dau athro llawn amser ac un athro 0.8 (4 diwrnod), 7 cymhorthydd, ynghyd â swyddog clerigol rhan amser.

10.8 Y Gymuned

10.8.1 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith cymunedol fel rhan o unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion. Cwblhawyd asesiad effaith cymunedol ar y rhestr o opsiynau a nodir ym mharagraff 6.3. Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad 2.

10.8.2 Dengys yr asesiad y rhagwelir peth effaith negyddol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn. Cydnabyddir y byddai cau Ysgol Baladeulyn yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle, fodd bynnag nodai'r asesiad fod cyfran helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill (75%), gan gynnwys Ysgol Talysarn (63%), ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Ysgol Baladeulyn yn bodoli eisoes.

10.8.3 Er nad oes defnydd cymunedol o adeilad Ysgol Baladeulyn, mae'r ysgol yn ymwneud â'i chymuned ac yn defnyddio cyfleusterau y gymuned yn achlysurol.

10.8.4 Pe byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Talysarn. I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Baladeulyn yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Baladeulyn, lle'n briodol.

10.8.5 Pe byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, bydd yn hanfodol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen (Ysgol Talysarn) a rhieni dysgwyr Ysgol Baladeulyn fel bod modd i rieni a dysgwyr fanteisio ar eu cyfleusterau ac unrhyw weithgareddau ar ôl ysgol.

10.9 Yr Iaith Gymraeg

10.9.1 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg fel rhan o unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion. Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad 2.

10.9.2 Nodai'r asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg y rhagwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith rhannol ar rai elfennau yng nghyd-destun y Gymraeg, yn bennaf:

- byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.
- byddai'r cynnig arfaethedig yn golygu y byddai gan ddysgwyr fynediad at gyflenwad uwch yn nhermau staffio a byddent yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion o'r un oedran, gallai'r cynnig gryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr o fewn y dosbarth.
- y byddai'r cynnig arfaethedig yn golygu y byddai dysgwyr Baladeulyn yn llai tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion y tu hwnt i oriau ysgol.
- Y byddai'r cynnig arfaethedig yn golygu y byddai llai o rieni yn debygol o gyfarfod yn ddyddiol yng nghymuned Baladeulyn wrth ddanfôn a gollwng plant.

Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir na fyddai effaith ar ddefnydd dysgwyr dalgylch Baladeulyn o'r Gymraeg mewn cyd-destun ffurfiol yn yr ysgol. Serch hynny, rhagwelir y byddai llai o ddefnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol y tu hwnt i oriau ysgol.

10.10 Ansawdd a safonau addysg

10.10.1 Cynhaliwyd asesiad o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg ar yr holl opsiynau. Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad 2.

10.10.2 Yn ôl adroddiadau diweddaraf Estyn, mae Ysgol Talysarn yn cynnig addysg o ansawdd a safon sy'n gyfatebol, ag Ysgol Baladeulyn, fan lleiaf.

10.10.3 Cafodd Ysgol Baladeulyn ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn 2017, ble daethpwyd i'r casgliad mai Da oedd perfformiad presennol yr ysgol. Bu i Ysgol Talysarn gael eu harolygu diwethaf gan Estyn yn 2017, ble daethpwyd i'r casgliad fod perfformiad presennol yr ysgol yn erbyn y cwestiynau deilliannau a'r ddarpariaeth yn Dda, a'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn Rhagorol.

10.10.4 Gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Talysarn, rhagwelir y bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy, gyda chyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau pe gweithredir y cynnig arfaethedig. Yn seiliedig ar hyn, deir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn Ysgol Talysarn.

10.10.5 O ganlyniad, rhagwelir mai rhannol bositif fyddai'r effaith tebygol o safbwynt ansawdd a safonau addysg i ddysgwyr yn deillio o'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn.

10.11 Cyflwr ac addasrwydd adeiladau

10.11.1 Nodir asesiad cyflwr diweddaraf yr Awdurdod fod cyflwr adeilad Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn yn 'B'.


10.11.2 Mae gwerth £125,000 o waith wedi ei adnabod i wella cyflwr ac addasrwydd Ysgol Baladeulyn.

11. GOBLYGIADAU'R CYNNIG


11.1 Dalgylchoedd mynediad i Ysgolion

11.1.1 Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, byddai dalgylch Ysgol Talysarn yn cael ei addasu i gynnwys ardal dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn.

Map 1: Dalgylchoedd presennol Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn



Map 2: Dalgylch Ysgol Talysarn os gweithredir y cynnig arfaethedig



11.2 Cludiant

- 11.2.1 Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu byddai disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn yn cael cynnig lle yn Ysgol Talysarn ac yn derbyn cludiant yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion y Sir. Rhagwelir y byddai cost blynyddol cludiant o gwmpas £17,000-£30,000.

11.3 Ystyriaethau Staffio

- 11.3.1 Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai goblygiadau staffio allasai arwain at ddiswyddiadau. Ymgynghorir yn benodol â staff a chynrychiolwyr yr Undebau fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol. Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau fyddai'n deillio o'r cynnig hwn gyd-fynd â'r polisi hwnnw. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion.

12. YSTYRIAETHAU ERAILL

12.1.1 Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018

12.1.2 Bydd unrhyw broses statudol yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018).

12.1.3 Asesiad effaith cydraddoldeb

12.1.4 Cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ar y cynnig arfaethedig. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad 2.

12.1.5 Mae'r asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod polisiau a threfniadau mewn lle a fyddai'n sicrhau bod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal.

12.1.6 Wedi pwyso a mesur y ffactorau perthnasol, deuir i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar y mwyafrif o nodweddion cydraddoldeb. Nodir fod mesurau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol nac aflonyddu.

12.1.7 Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn lleihau'r anghyfartaledd yn achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau bod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at ragor o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen. Byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd mwy cyfartal gan y byddai'r dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sy'n seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

12.1.8 Drwy weithredu'r cynnig arfaethedig, byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn cael gwell amgylchedd dysgu a byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

12.1.9 Byddai'r Cyngor yn dilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth pob ysgol â'r nodweddion cydraddoldeb.

12.1.10 Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

12.1.11 Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf Llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf Llesiant ac amcanion Llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion. Gellir gweld yr asesiad llawn yn Atodiad 2.

12.1.12 Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig arfaethedig hwn, gall arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle. Fodd bynnag mae nifer helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn, ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgolion a chymuned yr ysgol honno yn bodoli eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Talysarn. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Talysarn yn cynnwys y gymuned lle'n briodol.

13. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

13.1 Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu cefnogi'r argymhellid a gyflwynir yn yr adroddiad hwn bydd angen cynnal cyfnod o ymgynghori statudol yn unol â'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a chanllawiau'r Cod

Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Rhagwelir y byddai'r cyfnod ymgynghori hwnnw yn cael ei gynnal cyn diwedd tymor yr Hydref.

- 13.2 Wedi hynny, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r ymgynghoriad. Bydd yn ofynnol wedyn i'r Cabinet ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad, a phenderfynu a ddylid cyhoeddi Rhybudd Statudol ar y cynnig ai peidio. Pe byddai Rhybudd Statudol yn cael ei gyhoeddi, caniateir cyfnod o 28 diwrnod i unrhyw un gyflwyno gwrthwynebiad i'r cynnig, sef y 'Cyfnod Gwrthwynebu'. Yn dilyn hyn, cyflwynir adroddiad pellach i'r Cabinet am benderfyniad terfynol. Bydd yr adroddiad hwnnw'n cynnwys crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd ynghyd ag ymatebion y Cyngor iddynt.

14 Atodiadau

Atodiad 1: Tabl Gwerthusiad Opsiynau

Atodiad 2: Asesiadau Effaith:

- Asesiad Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg
- Asesiad Effaith debygol ar drefniadau teithio
- Asesiad Effaith debygol ar y Gymuned
- Asesiad Effaith leithyddol
- Asesiad Llesiant
- Asesiad Cydraddoldeb

Atodiad 3: Pecyn cefndirol gan gynnwys cyflwyniadau a chofnodion y cyfarfodydd lleol.

16 Barn y swyddogion statudol

Y Swyddog Monitro:

"Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destun cyngor gan y Gwasanaethau Cyfreithiol. Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."

Y Pennaeth Cyllid:

"O safbwynt ariannol, mae'n amlwg nad yw sefyllfa bresennol Ysgol Baladeulyn yn gynaliadwy, o ystyried fod 89% o lefydd yr ysgol yn wag. Mae'r adroddiad yn dangos fod asesiad wedi ei gynnal o'r opsiynau sydd ar gael, ac rwyf yn fodlon â chadernid yr amcangyfrifon ariannol sydd wedi eu nodi ynddo. Rwyf felly'n cefnogi'r penderfyniad a geisir"

17 Sylwadau'r Aelod Lleol

"Siom o'r mwyaf ydi darllen penderfyniad yr adran addysg ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026.

Mi fydd cymuned Nantlle yn drist iawn yn clywed y argymhelliad yma. Yn fy marn i, mi fydd effaith negyddol ar y gymuned, a fyddai cau Ysgol Baladeulyn yn ergyd drom i bentref Nantlle. Mae yr ysgol yn galon y pentref ac yn ymwneud a'i chymuned a defnyddio cyfleusterau y pentref yn achlysurol. Pe byddai cynnig arfaethedig yma'n cael ei wireddu ni fyddai teuluoedd Cymru Cymraeg am ddod i fyw i'r pentref i fagu ei plant a rwyf yn tybio bydd mewnfudwyr yn prynu y tai ac yn gwneud y pentref yn le diarth.

Mae 25 o ysgolion wedi cau yn Gwynedd ers 2009 sydd yn niweidiol iawn i ein cymunedau. Bod o yn effaith ar y plant, rhieni, y gymuned a'r iaith Gymraeg. Bydd hyn yn cael effaith negyddol i drigolion Nantlle enwedig i'r rhai sydd wedi byw yn y pentref drwy ei bywydau ac yn cofio yr addysg gwych gafwyd yn Ysgol Baladeulyn gyda llawer wedi mynd ymlaen i gael gyrfaedd gwych.

Bu i swyddogion o'r Adran Addysg gyfarfod â Chorff Llywodraethol Ysgol Baladeulyn er mwyn trafod sefyllfa fregus yr ysgol dros y flwyddyn diwethaf a hoffwn ddiolch iddynt am rhoid ei amser i ddod i ein gweld i'r ysgol. Hefyd diolch i Dewi Jones, aelod o'r cabinet dros addysg am fod yno i ateb cwestiynau ac hefyd fod ochor arall i'r ffon pam fod galw. Be oedd yn glir yn y trafodaethau gyda rhieni y plant sydd yn mynychu yr ysgol oedd bod nhw yn ddiolchgar o gael rhoid ei plant mewn ysgol bychan oherwydd yr addysg gwych un am un oedd y plant yn ei gael. Ac hefyd bod gan yr athrawon fwy o amser gyda yr unigolion a oedd gyda anghenion dysgu ychwanegol.

Rwyf yn glir yn fy meddwl mae bosib cadw Ysgol Baladeulyn yn agored drwy yr opsiwn o Ffederaleiddio gyda ysgol Talysarn gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu arbennig ADY yn Ysgol Baladeulyn. Mae'r Cod trefniadaeth ysgolion yn nodi bod ffederaleiddio yn dod â manteision arbennig i ysgolion gwledig drwy cyd-weithio a cryfhau arweinyddiaeth a chyfleoedd gydweithio. Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol Talysarn o dan arweiniad pennaeth a un corff llywodraethwyr.

Mi fydd yna Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng ysgol Talysarn ac Ysgol Baladeulyn a chadw'r ysgol yn agored fel adnodd cymunedol yn Nantlle. Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau ac yn costio llai i'r Cyngor. Hefyd cyfle i ddatblygu adnodd ychwanegol i gefnogi dysgwyr ADY yma yn Dyffryn Nantlle. Rhagwelir y byddai'n cael effaith bositif ar y plant sydd angen cymorth gyda ADY ac ar y rhieni sydd efallai yn gorfod trafaelio i Gaernarfon i gael y gwasanaeth yma.

Drwy ddewis yr opsiwn yma mi fydd dim rhaid cau ysgol gwledig arall yma yn Gwynedd ac yn tawelu meddyliau y rhieni a'r plant sydd yn mynychu ysgol Baladeulyn a bydd drysau yr ysgol yn aros yn agored drwy fformat newydd ac yn cadw Nantlle yn bentref lle all deuluoedd magu ei plant mewn gymdeithas Cymraeg gyda hyder am ddyfodol yr ysgol a'r iaith."

Gwerthusiad Opsiynau Ysgol Baladeulyn

Allwedd: Glas - manteision Coch - anfanteision Du – sylwadau

	Dim newid – parhau gyda’r sefyllfa bresennol	Ffederaleiddio gyda ysgol cyfagos (Ysgol Talysarn)	Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i’r dysgwyr mewn ysgol cyfagos (Ysgol Talysarn)	Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn	Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn	Ffederaleiddio gyda ysgol arall gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn	Cynnwys Uned/Canolfan Iaith ar safle Ysgol Baladeulyn
Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Baladeulyn (Niferoedd Medi 2025: 6 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 2 ddysgwr Meithrin). Nifer llefydd gweigion yn parhau yn uchel (49 o lefydd gweigion (89%) Derbyn i Blwyddyn 6; 54 o lefydd gweigion (87%) Meithrin – Blwyddyn 6) Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau’n isel dros y blynyddoedd nesaf.	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Baladeulyn (Niferoedd Medi 2025: 6 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 2 ddysgwr Meithrin). Nifer llefydd gweigion yn parhau yn uchel (49 o lefydd gweigion (89%) Derbyn i Blwyddyn 6; 54 o lefydd gweigion (87%) Meithrin – Blwyddyn 6) Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau’n isel dros y blynyddoedd nesaf. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd.	Mae niferoedd Ysgol Talysarn yn sefydlog gyda 84 o ddysgwyr Derbyn i Blwyddyn 6 ac 17 o ddysgwyr Meithrin ar y gofrestr (Medi 2025). Cyfradd llai o lefydd gweigion yn y dalgylch	Gyda ond 6 o ddysgwyr Derbyn i Blwyddyn 6, a 2 ddysgwr Meithrin yn mynychu Ysgol Baladeulyn (Medi 2025), rhagwelir na fyddai uno gydag ysgolion lleol yn arwain ar gynnydd yn y niferoedd ar safle Ysgol Baladeulyn. Gan na ragwelir cynnydd yn y niferoedd, rhagwelir y byddai nifer fawr o lefydd gweigion, sef lle i 49 o ddysgwyr (89%), yn parhau. Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau’n isel dros y blynyddoedd nesaf.	Gan y byddai dysgwyr yr uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys ardal arbenigol ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau’n isel. (Niferoedd Medi 2025: 6 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 2 ddysgwr Meithrin). Gan y byddai angen addasu’r adeilad i ddarparu lleoliad ar gyfer uned arbenigol, mi fyddai capasiti yr ysgol yn debygol o leihau a felly bydd llai o lefydd gweigion.	Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd yr ysgol. Rhagwelir y byddai niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Baladeulyn. Gan y byddai dysgwyr yr uned ADY yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys ardal arbenigol ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau’n isel. (Niferoedd Medi 2025: 6 dysgwr Derbyn i Blwyddyn 6 a 2 ddysgwr Meithrin). Gan y byddai angen addasu’r adeilad i ddarparu lleoliad ar gyfer yr ardal arbenigol, byddai capasiti yr ysgol yn debygol o leihau ac felly bydd llai o lefydd gweigion. Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau’n isel dros y blynyddoedd nesaf.	Gan y byddai angen addasu’r adeilad er mwyn cynnig lleoliad addas i’r Ganolfan Iaith ar safle’r ysgol, byddai capasiti’r ysgol yn debygol o leihau a felly bydd llai o lefydd gweigion. Gan y byddai dysgwyr y ganolfan iaith yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys canolfan iaith ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau’n isel. Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd niferoedd yn parhau yn isel yn y blynyddoedd nesaf.

Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran	Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Baladeulyn (Medi 2025) gyda 3 dysgwr (Derbyn i Blwyddyn 2) a 2 ddysgwr bore yn unig (Meithrin) yn un dosbarth. Mae 3 dysgwr (Blwyddyn 3 i Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd. Mae dosbarthiadau Ysgol Baladeulyn felly yn debygol o barhau yn fach gyda amrediad oedran o hyd at 4 blynedd ym mhob dosbarth.	Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Baladeulyn (Medi 2025) gyda 3 dysgwr (Derbyn i Blwyddyn 2) a 2 ddysgwr bore yn unig (Meithrin) yn un dosbarth. Mae 3 dysgwr (Blwyddyn 3 i Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. Maint dosbarthiadau Ysgol Baladeulyn felly yn debygol o barhau yn fach gydag amrediad oedran o hyd at 4 blynedd ym mhob dosbarth.	Dysgwyr i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas. Mae dysgwyr Ysgol Talysarn yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas o rhwng 25 a 36 (Medi 2025). Mae 3 dosbarth gydag oedrannau cymysg yn Ysgol Talysarn.	Gan na ragwelir y byddai’r opsiwn yma’n arwain at gynnydd yn y niferoedd, rhagwelir y byddai maint dosbarthiadau ar safle Ysgol Baladeulyn yn parhau yn fach, gydag amrediad oedran eang.	Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai lleoli uned ADY ar safle’r ysgol yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. Rhagwelir felly y byddai niferoedd dysgwyr yr ysgol yn parhau’n isel. Maint dosbarthiadau Ysgol Baladeulyn felly yn debygol o barhau yn fach gydag amrediad oedran o hyd at 4 blynedd ym mhob dosbarth.	Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Baladeulyn (Medi 2025) gyda 3 dysgwr (Derbyn i Blwyddyn 2) a 2 ddysgwr bore yn unig (Meithrin) yn un dosbarth. Mae 3 dysgwr (Blwyddyn 3 i Blwyddyn 6) yn yr ail ddosbarth. Yn ôl rhagamcanion ni ragwelir cynnydd yn y niferoedd. Nid oes tystiolaeth amlwg y byddai lleoli uned ADY ar safle’r ysgol, nac ffederaleiddio yn arwain at gynnydd mewn niferoedd. Maint dosbarthiadau Ysgol Baladeulyn felly yn debygol o barhau yn fach gyda amrediad oedran o hyd at 4 blynedd ym mhob dosbarth.	Gan y byddai dysgwyr y ganolfan iaith yn parhau i gofrestru fel dysgwyr yn eu hysgol wreiddiol, ni ragwelir y byddai cynnwys uned iaith ar safle ysgol yn effeithio ar y niferoedd. O ganlyniad, rhagwelir y byddai niferoedd yn parhau’n isel. Maint dosbarthiadau Ysgol Baladeulyn felly yn debygol o barhau yn fach gydag amrediad oedran o hyd at 4 blynedd ym mhob dosbarth.
Adnoddau Ariannol	Ysgol Baladeulyn wedi derbyn dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £56,781 yn 2025-26 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Cyfartaledd y dysgwr Ysgol Baladeulyn yn parhau’n uchel (£14,953 y dysgwr) sylweddol uwch	Ysgol Baladeulyn wedi derbyn dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £56,781 yn 2025-26 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyraniad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Cyfartaledd y dysgwr Ysgol Baladeulyn yn parhau’n uchel (£14,953 y dysgwr) sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol o £5,780.	Tynnu ysgol o’r rhwyd gwarchodaeth lleiafswm staffio a dim angen am ddyraniad gwarchodaeth yn yr ysgol amgen. Bydd cost fesul dysgwr yn agosach at y cyfartaledd sirol. Mae’n debygol o arwain at gynnydd yng nghostau cludiant i’r Awdurdod.	Bydd uno ysgolion yn golygu sefydlu un ysgol aml-safle, gydag un dyraniad ar gyfer yr holl safleoedd. Rhagwelir y byddai safle Baladeulyn yn parhau i dderbyn swm ychwanegol i’r dyraniad craidd trwy’r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio gan y byddai niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn isel.	Byddai costau cludiant ynghlwm â lleoli Uned ADY yn Ysgol Baladeulyn. Rhagwelir cost cyfalaf sylweddol i addasu’r adeilad. Byddai angen ffynhonnell ariannol (refeniw) ychwanegol i ariannu’r Uned ADY. Ysgol Baladeulyn wedi derbyn dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £56,781 yn 2025-26 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am	Byddai costau cludiant ynghlwm â lleoli Uned ADY yn Ysgol Baladeulyn. Rhagwelir cost cyfalaf sylweddol i addasu’r adeilad. Byddai angen ffynhonnell ariannol (refeniw) ychwanegol i ariannu’r Uned ADY. Ysgol Baladeulyn wedi derbyn dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £56,781 yn 2025-26 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Cyfartaledd y dysgwr Ysgol Baladeulyn yn parhau’n uchel	Byddai costau cludiant ynghlwm â lleoli Uned Iaith yn Ysgol Baladeulyn. Rhagwelir cost cyfalaf sylweddol i addasu’r adeilad. Byddai angen ffynhonnell ariannol (refeniw) ychwanegol i ariannu’r Uned Iaith. Ysgol Baladeulyn wedi derbyn dyraniad gwarchodaeth lleiafswm staffio o £56,781 yn 2025-26 gan yr Awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Cyfartaledd y dysgwr Ysgol Baladeulyn yn parhau’n uchel (£14,953 y dysgwr) sylweddol

	na’r cyfartaledd sirol o £5,780.	Cyfle i wneud arbedion drwy rannu adnoddau a chyflogi staff ar draws y ffederasiwn wrth benodi yn y dyfodol.			ddyrianiad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Ni ragwelir y byddai lleoli uned ADY ar safle’r ysgol yn ymateb i'r her ariannol yma.	(£14,953 y dysgwr) sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol o £5,780. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyrianiad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Ni ragwelir y byddai lleoli uned ADY ar safle’r ysgol na ffederaleiddio yn ymateb i'r her ariannol yma.	uwch na’r cyfartaledd sirol o £5,780. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd yr angen am ddyrianiad gwarchodaeth sylweddol yn parhau. Ni ragwelir y byddai lleoli Uned laith ar safle’r ysgol yn ymateb i'r her ariannol yma.
Arweinyddiaeth a Staffio	Swyddi presennol Ysgol Baladeulyn yn parhau. Mae’r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Mae’r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Yn sgil strwythur staffio’r ysgol mae’r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o’r amser. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.	Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. Mae’r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Mae’r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Yn sgil strwythur staffio’r ysgol mae’r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o’r amser. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau.	Mae strwythur staffio Ysgol Talysarn yn sicrhau athrawon ym mhob dosbarth ac yn caniatáu amser digyswllt i’r Pennaeth Bydd angen diswyddo staff Ysgol Baladeulyn.	Byddai yna resymoli arweinyddiaeth yn yr opsiwn yma, ond gan na fydd yna effaith ar niferoedd dysgwyr y safleoedd, byddai strwythur staffio presennol Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda pennaeth safle yn hytrach na phennaeth a chymhorthydd.	Swyddi presennol Ysgol Baladeulyn yn parhau Mae’r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Mae’r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau. Yn sgil strwythur staffio’r ysgol, mae’r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o’i amser. Cyfrifoldeb ychwanegol ar y pennaeth, gan y byddai’n gyfrifol am reolaeth safle’r uned.	Cyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. Mae’r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Mae’r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Mae’r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o’i amser. Mae rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau. Cyfrifoldeb ychwanegol ar y pennaeth, gan y byddai’n gyfrifol am reolaeth safle’r uned.	Swyddi presennol Ysgol Baladeulyn yn parhau. Mae’r ysgol wedi derbyn dyraniad llai ar gyfer 2025/26 gan fod niferoedd Medi 2024 yn îs na 15 dysgwr llawn amser. Mae’r dyraniad i sicrhau gallu cyflogi pennaeth a chymhorthydd. Mae’r rhagolygon niferoedd yn awgrymu y bydd hyn yn parhau. Yn sgil strwythur staffio’r ysgol, mae’r Pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o’i amser. Cyfrifoldeb ychwanegol ar y pennaeth, gan y byddai’n gyfrifol am reolaeth safle’r uned.
Ffactorau Daearyddol	Dim newid. Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch.	Dim newid. Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch.	Bydd angen cynnig cludiant i ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn.	Safle ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch Yn ddibynnol ar strwythur yr ysgol newydd mae	Dim newid i ddysgwyr Ysgol Baladeulyn Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch	Dim newid i ddysgwyr Ysgol Baladeulyn Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch	Dim newid i ddysgwyr Ysgol Baladeulyn Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch

			Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i’r ysgol nac y maent yn bresennol. Ni fydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i’r ysgol.	posibilrwydd y bydd angen trefnu cludiant rhwng ysgolion.	Bydd angen trefnu cludiant i ddysgwyr yr Uned ADY.	Bydd angen trefnu cludiant i ddysgwyr yr Uned ADY.	Bydd angen trefnu cludiant i ddysgwyr y Ganolfan Iaith.
Y Gymunedol	Cadw ysgol a’i photensial i fod yn adnodd cymunedol yn Nantlle Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Baladeulyn	Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol. Cadw’r ysgol fel adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle. Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch Nid oes defnydd cymunedol o’r ysgol tu allan i oriau ysgol. Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Baladeulyn.	Pentref Nantlle yn colli ysgol. Cymuned ehangach ble gall y plant a’r rhieni elwa ar greu cysylltiadau cryfach rhwng 2 gymuned cyfagos.	Cadw safle ysgol a’i photensial i fod yn adnodd cymunedol ym mhentref Nantlle Cymuned ehangach ble gall y plant a’r rhieni elwa ar greu cysylltiadau cryfach rhwng cymuned Dyffryn Nantlle. Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Baladeulyn	Cadw ysgol a’i photensial i fod yn adnodd cymunedol yn Nantlle Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Baladeulyn	Cadw ysgol a’i photensial i fod yn adnodd cymunedol yn Nantlle Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch Posibilrwydd o gydweithio cymunedol rhwng y 2 ysgol. Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Baladeulyn	Cadw ysgol a’i photensial i fod yn adnodd cymunedol yn Nantlle Mwyafrif o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Baladeulyn
Yr Iaith Gymraeg	Dim newid - Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg	Dim newid – Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg	Dim newid – mae Ysgol Talysarn yn ysgol cyfrwng Cymraeg	Dim newid - rhagwelir y byddai addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gynnig fel y sefyllfa bresennol.	Dim newid - Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg	Dim newid – mae’r 2 ysgol yn ysgolion cyfrwng Cymraeg	Dim newid – dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg
Sylwadau ychwanegol wedi eu cynnig yn dilyn PAY1 a PAY2	Cryfderau / Cyfleoedd: - Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda. - Dosbarthiadau bychain yn golygu mwy o sylw i ddysgwyr unigol. - Amrediad oedran eang yn y dosbarthiadau yn cynnig cyfle i weithio gyda	Cryfderau / Cyfleoedd: - Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda. - Dosbarthiadau bychain yn golygu mwy o sylw i ddysgwyr unigol. - Amrediad oedran eang yn y dosbarthiadau yn cynnig cyfle i weithio gyda plant	Gwendidau: - Dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy. - Colli’r ymagwedd gynhwysol gadarn sydd yn cael ei gynnig ym mhresennol i gefnogi iechyd a lles. - Effaith negyddol posib ar les y dysgwyr presennol.	Cryfderau / Cyfleoedd: - Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda. - Dosbarthiadau bychain yn golygu mwy o sylw i ddysgwyr unigol. - Amrediad oedran eang yn y dosbarthiadau yn cynnig cyfle i weithio gyda plant o wahanol oedrannau.	Cryfderau / Cyfleoedd: - Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda - Dosbarthiadau bychain yn Ysgol Baladeulyn yn golygu mwy o sylw i ddysgwyr unigol - Amrediad oedran eang yn y dosbarthiadau yn cynnig cyfle i weithio gyda plant o wahanol oedrannau	Cryfderau / Cyfleoedd: - Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda. - Dosbarthiadau bychain yn golygu mwy o sylw i ddysgwyr unigol. - Amrediad oedran eang yn y dosbarthiadau yn cynnig cyfle i weithio gyda plant o wahanol oedrannau.	Cryfderau / Cyfleoedd: - Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda. - Dosbarthiadau bychain yn golygu mwy o sylw i ddysgwyr unigol. - Amrediad oedran eang yn y dosbarthiadau yn cynnig cyfle i weithio gyda plant o wahanol oedrannau.

	plant o wahanol oedrannau.	o wahanol oedrannau. Cyfrannu’n gadarnhaol at les meddyliol ac emosiynol y dysgwyr.		- Cyfle i sefydlogi niferoedd dysgwyr, cynyddu cyllid, a lleihau costau gweithredu. - Ysgol Baladeulyn yn parhau i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel i bob myfyriwr. - Creu sefydliad cyfunol a all weithredu'n fwy effeithlon - cyfuno adnoddau'r ysgolion, megis staff, cyfleusterau a deunyddiau addysgu, gan gynnal y ffocws ar gyfrwng y Gymraeg. - Caniatáu cydgrynhoi swyddogaethau gweinyddol, megis rolau arweinyddiaeth, cyllid, AD a gwasanaethau TG, gan leihau costau gorbenion. - Byddai’r ysgol gyfunol yn elwa o arbedion maint. - Cyfle i rannu adnoddau megis staff, deunyddiau addysgol, cyfleusterau chwaraeon a rhaglenni allgyrsiol. - Cyfle i Ysgol Baladeulyn ehangu ei chwricwlwm a'i gweithgareddau allgyrsiol. - Cyfle i ddatblygu rhaglenni a chefnogaeth arbenigol i fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gynnwys yn y profiad addysgol	- Cyfrannu’n gadarnhaol at les meddyliol ac emosiynol y dysgwyr. - cyd-fynd â'r gydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd addysg gynhwysol a chefnogaeth i blant ag anghenion dysgu amrywiol - Ni fydd angen i deuluoedd deithio pellteroedd hir mwyach am gymorth arbenigol, gan y bydd ganddynt fynediad at ateb lleol, Cymraeg ar gyfer anghenion addysgol arbennig eu plant. - Caniatáu i blant ag ADY dderbyn addysg unigol - Helpu i feithrin ymdeimlad o gynhwysiant, a sicrhau bod plant ag ADY yn cael eu hintegreiddio i gymuned ehangach yr ysgol - Sicrhau fod plant ag ADY yn cael mynediad at addysg yn eu hiaith gyntaf, gan gadw eu treftadaeth ddiwylliannol.	Cyfrannu’n gadarnhaol at les meddylion ac emosiynol y dysgwr	

				• Cyfle i ddenu mwy o gyllideb gan Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol – gall arwain at incwm mwy sefydlog, a chaniatáu i'r ysgol gynllunio'n well ar gyfer anghenion y dyfodol. • Cyfle i helpu i leihau dyblygu gwasanaethau, e.e. gallai arwain at un tîm arweinyddiaeth a lleihau nifer y staff nad ydynt yn addysgu, gan arwain at leihad yng nghost y dysgwr. • Cyfle i wasanaethau a rennir e.e. Cludiant a chynnal a chadw fod yn fwy cost effeithiol yn sgil eu canoli. • Cyfle i gael mynediad at gyllid ychwanegol o amrywiol grantiau addysgol a diwylliannol, gan gynnwys y rhai sy'n canolbwyntio ar ddiogelu'r iaith Gymraeg, anghenion dysgu ychwanegol, ac addysg wledig • Arwain at ddyrannu staff addysgu yn fwy effeithlon, dilyniant staff a chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant mewn meysydd arbenigol megis ADY, datblygu'r iaith Gymraeg, a thechnoleg. • Cyfle i gynnig addysg cryfach mwy amrywiol, gydag ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol, gwasanaethau			

				cymorth a rhaglenni arbenigol. • Helpu i feithrin ymdeimlad mwy o gymuned • Gallu i gefnogi plant ag ADY yn well			

ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG – YSGOL BALADEULYN (Medi 2025)

1. CYFLWYNIAD

Mae Ysgol Gynradd Baladeulyn yn ysgol gymunedol wedi ei lleoli ym mhentref Nantlle yn Nyffryn Nantlle, ac yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3-11 oed. Mae'r niferoedd Ysgol Baladeulyn wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf gyda 33 o ddysgwyr yn 2016 i 6 disgybl Derbyn - Bl.6 a 2 Meithrin erbyn heddiw, sydd yn peri ansicrwydd ynghylch dyfodol yr ysgol.

Yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror 2025, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd roi caniatâd i'r Adran Addysg *“gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill Ysgol Baladeulyn yn sgil pryderon ynghylch niferoedd yr ysgol, i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud a dyfodol yr ysgol.”*

Yn unol â phenderfyniad y Cabinet (11 Chwefror 2025), sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol Baladeulyn (PAY) gan wahodd y Corff Llywodraethol, rhieni a staff a'r Aelod Lleol i ymuno â'r panel a chymryd rhan yn y drafodaeth. Cynhaliwyd tri cyfarfod PAY rhwng Mawrth 2025 a Gorffennaf 2025 i drafod ystod o opsiynau i geisio ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu.

Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, sydd yn cynnwys 'Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig', mae angen gwneud asedid ar yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg ar unrhyw opsiwn rhesymol a ellir datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu. At ddiben y Cod, mae Ysgol Baladeulyn wedi ei dynodi fel 'Ysgol Wledig'.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu addysg o'r ansawdd gorau posibl a fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn.

Mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i ddarparu'r profiadau dysgu gorau posibl - ar gyfer pob dysgwr o fewn y Sir, gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang, yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol sy'n eu hysgogi i ddysgu a deall, a fydd yn arwain at wella safonau.

2. CRYNODEB

Bu i Ysgol Baladeulyn gael ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn 2017 ble daethpwyd i'r casgliad fod perfformiad presennol yr ysgol yn 'Dda'.

Mae crynodeb isod o arolygon diwethaf Ysgol Baladeulyn, yr ysgolion cyfagos, neu ysgolion sydd yn destun unrhyw un o'r opsiynau dan ystyriaeth ar gyfer dyfodol Ysgol Baladeulyn.

Ysgol	Blwyddyn yr arolwg	Safonau	Lles ac agweddau at ddysgu	Addysgu a phrofiadau dysgu	Gofal, cymorth ac arweiniad	Arweinyddiaeth a rheolaeth
Baladeulyn	2017	Da	Da	Da	Da	Da
Nebo	2017	Da	Da	Da	Da	Da
Brynaerau	2019	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol	Rhagorol
Bro Llifon	2018	Da	Da	Da	Da	Da
Bro Lleu	2023	Fframwaith arolygu newydd				

Ysgol	Blwyddyn yr arolwg	Pa mor dda yw'r deilliannau?	Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?
Talysarn	2017	Da	Da	Rhagorol
Llanllyfni	2017	Da	Da	Da

3. YR OPSIYNAU DAN SYLW

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Noder, er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r model Gwneud dim wedi ei gynnwys yn yr asesiad at ddiben cymharu.

- *Ffederaleiddio gyda ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng 3 ysgol, gan fod Ysgol Talysarn eisoes wedi ffedereiddio gyda Ysgol Brynaerau. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

- *Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol cyfagos (Ysgol Talysarn)*

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, ac y byddai dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn yn cael cynnig lle yn Ysgol Talysarn (yr ysgol amgen).

- *Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu uno nifer o ysgolion lleol, drwy gau'r ysgolion a sefydlu un ysgol aml-safle fyddai'n cynnwys safle Ysgol Baladeulyn. Byddai'r opsiwn yn galluogi'r posibilrwydd o rannu adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb safle ysgol ym mhentref Nantlle trwy sefydlu ysgol aml-safle, dan arweiniad pennaeth ac un corff llywodraethol.

- *Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gyda Ysgol Baladeulyn gan ychwanegu ardal benodol arbenigol i plant gyda anghenion dysgu ychwanegol ar safle'r ysgol.

- *Ffederaleiddio gyda ysgol arall gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng 3 ysgol, gan fod Ysgol Talysarn eisoes wedi ffedereiddio gyda Ysgol Brynaerau. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gyda Ysgol Baladeulyn ac ychwanegu ardal benodol arbenigol i plant gyda anghenion dysgu ychwanegol ar safle'r ysgol gan ei ffedereiddio gyda ysgol arall.

- *Cynnwys uned iaith yn safle Ysgol Baladeulyn*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gyda Ysgol Baladeulyn gan ychwanegu Uned Iaith ar safle yr ysgol

4. ASESIAD O EFFAITH AR SAFONAU AC ANSAWDD ADDYSG

Rydym wedi defnyddio arolygon diweddaraf Estyn ar yr ysgolion perthnasol fel meini prawf ar gyfer asesu y gwahanol opsiynau ar gyfer dyfodol addysg ar gyfer dalgylch Ysgol Baladeulyn.

OPSIWN 1: GWNEUD DIM - PARHAU GYDA'R SEFYLLFA BRESENNOL

Byddai'r opsiwn yma yn golygu dim newid a bydda Ysgol Baladeulyn yn parhau fel ac y mae.

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Dim newid.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Dim newid.	Niwtral
Profiadau dysgu ac addysgu	Dim newid.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	Dim newid.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Dim newid.	Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Dim newid.	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Dim newid.	Niwtral

OPSIWN 2: FFEDERALEIDDIO GYDA YSGOL GYFAGOS (YSGOL TALYSARN)

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag Ysgol Talysarn. Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer dangosyddion safonau Ysgol Baladeulyn yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn fod safonau yn 'Dda'. O ganlyniad, deuir i'r casgliad mai niwtral fyddai'r effaith ar safonau o ffedereiddio Ysgol Talysarn gydag Ysgol Baladeulyn.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Baladeulyn ar gyfer y maes arolygu 'Lles ac agweddau at ddysgu' yn 'Dda'. Roedd adroddiad arolwg Estyn diwethaf Ysgol Talysarn yn nodi canlyniad 'Rhagorol' gyferbyn a'r pennawd 'Lles' gan nodi fod 'bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gwerthfawrogi eu bod yn cael cefnogaeth o ansawdd uchel gan oedolion yn yr ysgol'. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, a gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau fel endid ar wahân o dan y model hwn, deuir i'r casgliad mae effaith niwtral a ragwelir ar y maes yma o ffedereiddio Ysgol Baladeulyn gydag Ysgol Talysarn.	Niwtral
Profiadau dysgu ac addysgu	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Profiadau dysgu'/'Addysgu a phrofiadau dysgu' ar gyfer Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn yn eu harolygon diwethaf yn 2017. O ganlyniad, rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n cael effaith niwtral ar brofiadau dysgu ac addysgu.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Gofal, cymorth ac arweiniad' yn Ysgol Baladeulyn yn eu harolwg diwethaf yn 2017, tra bod y canlyniad ar gyfer Ysgol Talysarn yn 'Rhagorol'. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, a gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau fel endid ar wahân o dan y model hwn, deuir i'r casgliad mae effaith niwtral a ragwelir ar y maes yma o ffedereiddio gydag ysgol gyfagos.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Nodwyd yn adroddiad Estyn diwethaf Ysgol Baladeulyn fod yr arweinyddiaeth yn yr ysgol yn 'Dda' tra barnwyd bod arweinyddiaeth a Ysgol Talysarn yn 'Rhagorol'. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, ac gan y byddai'r model ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos yn cynnig cyfleoedd i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth Ysgol Baladeulyn, deuir i'r casgliad y byddai arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael effaith positif neu o leiaf niwtral o weithredu'r opsiwn ffedereiddio.	Positif/Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 ym mhob ysgol yng Ngwynedd. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai effaith yr opsiwn yma ar y maen prawf hwn.	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau. Yn ogystal, roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', fel ag yr oedd canlyniad arolwg Ysgol Talysarn. Yn seiliedig ar wybodaeth yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o weithredu'r opsiwn yma	Niwtral

OPSIWN 3: CAU YSGOL BALADEULYN A CHYNNIG LLE I'R DYSGWYR MEWN YSGOL CYFAGOS (YSGOL TALYSARN)

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion safonau Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer Ysgol Talysarn hefyd yn 'Dda'. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn drwy addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer Lles yn Ysgol Baladeulyn yn 'Dda' gyda Ysgol Talysarn yn 'Rhagorol'. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith positif ar y maes yma trwy addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn.	Positif
Profiadau dysgu ac addysgu	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Profiadau dysgu' ar gyfer Ysgol Baladeulyn a Ysgol Talysarn yn eu harolygon diwethaf yn 2017. Er hynny, gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Talysarn rhagwelir bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy a chydio cyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn Ysgol Talysarn.	Positif
Gofal, cymorth ac arweiniad	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Gofal, cymorth ac arweiniad' yn Ysgol Baladeulyn, tra roedd canlyniad Ysgol Talysarn yn 'Rhagorol'. O ganlyniad, bernir y byddai'r opsiwn yn cael effaith positif.	Positif
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Nodwyd yn adroddiad Estyn diwethaf fod arweinyddiaeth a'r rheolaeth Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', tra roedd canlyniad Ysgol Talysarn yn 'Rhagorol'. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, deuir i'r casgliad y byddai arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael effaith positif o addysgu dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn Ysgol Talysarn.	Positif
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 ym mhob ysgol yng Ngwynedd. Wrth gynllunio staffio (e.e. rôl y CADY) a'r map darpariaeth, mae'r gofyn ar ysgolion yn heriol, ac mae hynny yn dod yn fwy amlwg wrth ystyried y gofyn ar ysgolion llai. Mewn ysgolion mwy mae amodau'r cydlynnydd anghenion ychwanegol yn well, ac mae cyfarch y gofyn statudol yn haws yn sgil hynny. Yn ogystal, mae ymateb i angen y dysgwyr hefyd yn haws mewn ysgolion mwy gan y gallent efallai cynnal grŵp ymyrraeth i dargedu anghenion penodol. Mae map darpariaeth yn fwy eang mewn ysgolion mwy er mwyn ymateb i'r gofyn. O ganlyniad, gan y byddai'r dysgwyr yn cael cynnig lle mewn ysgol gyda nifer uwch o ddysgwyr, rhagwelir mai positif fyddai effaith yr opsiwn yma ar y maen prawf hwn.	Positif
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', fel ag yr oedd canlyniad arolwg Ysgol Talysarn. Yn seiliedig ar wybodaeth yr arolygon yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o addysgu dysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn yn Ysgol Talysarn. O ganlyniad, rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar hyn o bryd yn Ysgol Baladeulyn, fan lleiaf.	Niwtral

OPSIWN 4: UNO YSGOLION LLEOL ER MWYN CEFNOGI A CHYNNAL YSGOL BALADEULYN

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion safonau Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer ysgolion cynradd cyfagos eraill hefyd (ysgolion cynradd dalgylch Dyffryn Nantlle) yn 'Dda' gydag Ysgol Brynaerau yn 'Rhagorol'. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn gan fod asesiad Estyn yn gyson ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion, gydag un ysgol (allan o 7 yn y dalgylch) yn rhagori ar y gweddill. Gallai'r model ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas â'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion llesiant ac agweddau at ddysgu Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer yr ysgolion cyfagos (dalgylch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda' gyda Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn yn 'Rhagorol'. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn gan fod asesiad Estyn yn gyson ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion, gyda dwy ysgol (allan o 7 yn y dalgylch) yn rhagori ar y gweddill. Gallai'r model ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas â'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral
Profiadau dysgu ac addysgu	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion profiadau addysgu a dysgu Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer yr ysgolion cyfagos (dalgylch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda' gydag Ysgol Brynaerau yn 'Rhagorol'. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn gan fod asesiad Estyn yn gyson ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion, gydag un ysgol (allan o 7 yn y dalgylch) yn is na'r mwyafrif ac un yn rhagori ar y gweddill. Gallai'r model ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas â'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion arweiniad a chymorth gofal Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer ysgolion cyfagos (dalgylch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda' gydag Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn yn 'Rhagorol'. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn gan fod asesiad Estyn yn gyson ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion, gyda dwy ysgol (allan o 7 yn y dalgylch) yn rhagori ar y gweddill. Gallai'r model ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas â'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion arweinyddiaeth a rheolaeth Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', tra roedd canlyniad	Niwtral

	arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer ysgolion cyfagos (Dalgylch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda' gydag Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn yn 'Rhagorol'. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn gan fod asesiad Estyn yn gyson ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion, gydag un ysgol (allan o 7 yn y dalgylch) yn is na'r mwyafrif ac dwy yn rhagori ar y gweddill. mwy neu lai yr un fath ar gyfer pob ysgol. Gallai'r model ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas a'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 fel ym mhob ysgol yng Ngwynedd. Gallai'r model ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas a'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da, arbenigedd a phrofiadau rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', ac yr oedd canlyniad arolygon yr ysgolion cyfagos yn Nalgylch Dyffryn Nantlle unai yn 'Dda' neu'n 'Rhagorol'. Yn seiliedig ar wybodaeth yr arolygon yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o weithredu'r opsiwn yma. Gallai'r model ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella ddarpariaeth mewn perthynas a'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.	Niwtral

OPSIWN 5: YCHWANEGU ARDAL ARBENIGOL AR GYFER PLANT AG ANGHENION ARBENNIG YN YSGOL BALADEULYN

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Gan y byddai'r uned anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Gan y byddai'r uned anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Profiadau dysgu ac addysgu	Gan y byddai'r uned anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	Gan y byddai'r uned anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Gan y byddai'r uned anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Gan y byddai'r uned anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. Fodd bynnag, er na ragwelir y byddai'r uned arbenigol yn effeithio ar yr ysgol, rhagwelir y gallai'r adnodd newydd gael effaith bositif ar y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr gydag ADY yn yr ardal.	Positif
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Gan y byddai'r uned anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. Fodd bynnag, er na ragwelir y byddai'r uned ADY yn effeithio ar yr ysgol, rhagwelir y gallai'r adnodd newydd gael effaith bositif ar y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr ADY yn yr ardal.	Positif

OPSIWN 6: FFEDERALEIDDIO GYDA YSGOL ARALL GAN YCHWANEGU ARDAL ARBENIGOL AR GYFER PLANT AG ANGHENION ARBENNIG YN YSGOL BALADEULYN

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag Ysgol Talysarn. Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer dangosyddion safonau Ysgol Baladeulyn yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn fod safonau yn 'Dda'. O ganlyniad, deuir i'r casgliad mai niwtral fyddai'r effaith ar safonau o weithredu'r opsiwn yma..	Niwtral
Lles ac agweddau at ddysgu	Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Baladeulyn ar gyfer y maes arolygu 'Lles ac agweddau at ddysgu' yn 'Dda'. Roedd adroddiad arolwg Estyn diwethaf Ysgol Talysarn yn nodi canlyniad 'Rhagorol' gyferbyn a'r pennawd 'Lles' gan nodi fod 'bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn gwerthfawrogi eu bod yn cael cefnogaeth o ansawdd uchel gan oedolion yn yr ysgol'. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, deuir i'r casgliad mae effaith niwtral a ragwelir ar y maes yma o weithredu'r opsiwn yma.	Niwtral
Profiadau dysgu ac addysgu	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Profiadau dysgu'/'Addysgu a phrofiadau dysgu' ar gyfer Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn yn eu harolygon diwethaf yn 2017. O ganlyniad, rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n cael effaith niwtral ar brofiadau dysgu ac addysgu.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Gofal, cymorth ac arweiniad' yn Ysgol Baladeulyn yn eu harolwg diwethaf yn 2017, tra bod y canlyniad ar gyfer Ysgol Talysarn yn 'Rhagorol'. O ganlyniad, rhagwelir y gallai'r opsiwn gael effaith positif neu o leiaf niwtral ar arweiniad a chymorth gofal.	Positif/Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Nodwyd yn adroddiad Estyn diwethaf Ysgol Baladeulyn fod yr arweinyddiaeth yn yr ysgol yn 'Dda' tra barnwyd bod arweinyddiaeth a Ysgol Talysarn yn 'Rhagorol'. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, a gan y byddai'r model ffederaleiddio gydag ysgol/ysgolion cyfagos yn cynnig cyfleoedd i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth Ysgol Baladeulyn, deuir i'r casgliad y byddai arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael effaith positif neu o leiaf niwtral o weithredu'r opsiwn yma.	Positif
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 ym mhob ysgol yng Ngwynedd. Rhagwelir y byddai'r opsiwn yn cael effaith gadarnhaol ar y meini prawf hwn gan y byddai'n ymestyn darpariaeth ADY yn yr ardal.	Positif
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau. Yn ogystal, roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', fel ag yr oedd canlyniad arolwg Ysgol Talysarn. Yn seiliedig ar wybodaeth yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o weithredu'r opsiwn yma. Yn ogystal, rhagwelir y byddai'r opsiwn yn cael effaith gadarnhaol ar meini prawf hwn gan y byddai'n ymestyn y ddarpariaeth ADY yn yr ardal.	Niwtral

OPSIWN 7: CYNNWYS UNED IAITH YN SAFLE YSGOL BALADEULYN

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Profiadau dysgu ac addysgu	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Gofal, cymorth ac arweiniad	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral

4. CASGLIAD

Dengys yr asesiad hwn o'r effaith tebygol ar ansawdd a safonau addysg, y byddai cyflwyno'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo'r dysgwyr i Ysgol Talysarn yn debygol o gael effaith bositif, neu effaith niwtral ar y lleiaf.

Yn ogystal, mae'r asesiad yn nodi mai effaith niwtral/rhannol bositif a ragwelir ar ansawdd a safonau addysg o weithredu opsiynau eraill megis ffederaleiddio, uno ysgolion lleol a sefydlu uned arbenigol ar safle Ysgol Baladeulyn. Noder cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol aml-safle, ac ysgolion fyddai'n rhan o'r ffederasiwn, a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau.

Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiadau uchod a chymharu adroddiadau Estyn, deuir i'r casgliad fod safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Talysarn yn cyfateb (fan lleiaf) i safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Baladeulyn. Gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Talysarn, rhagwelir y bydd cyfle i addysgu plant mewn grwpiau mwy, gyda cyfoedion oed-berthnasol i ehangu ar eu profiadau. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith cadarnhaol ar brofiadau addysgu a dysgu o addysgu dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn Ysgol Talysarn.

O ganlyniad, rhagwelir taw niwtral/rhannol bositif fyddai effaith tebygol gweithredu'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn.

ASESIAD EFFAITH TEBYGOL AR DREFNIADAU TEITHIO – YSGOL BALADEULYN (MEDI 2025)

1. CYFLWYNIAD

1.1 Polisi Cludiant Cyngor Gwynedd

Mae strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd' yn anelu at gyfyngu teithio o'r cartref i'r ysgol i daith un ffordd sydd heb fod yn fwy na 30 munud.

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (nid yw'n cynnwys dysgwyr meithrin). Disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd. Mae'r polisi cludiant i'w weld yn y llawlyfr i rieni:

(<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Ysgolion-a-dysgu---dogfennau/Gwybodaeth-i-Rieni.pdf>)

1.2 Cyd-destun Ysgol Baladeulyn

Mae Ysgol Baladeulyn wedi ei lleoli ger pentref Talysarn a Phenygroes ar gyrion Caernarfon. Mae'n darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 11 oed ac mae ganddi gapasiti o 55 (D-B16) a 7 Meithrin.

2. ASESIAD O EFFAITH TEBYGOL POB OPSIWN AR DREFNIADAU TEITHIO

2.1 Nodir isod effaith tebygol pob opsiwn ar drefniadau teithio:

- Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol

Byddai'r model yma yn golygu na fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol yn nalgylch Ysgol Baladeulyn.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol, gan y byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.

- Ffederaleiddio gyda ysgol cyfagos

Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio.

Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Baladeulyn, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn, a

byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Ysgol Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.

- *Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol cyfagos (Ysgol Talysarn)*

Byddai'r model yma'n golygu cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Talysarn.

Mae Ysgol Talysarn wedi ei lleoli 2.5 milltir o Ysgol Baladeulyn. Dyma'r ysgol ddaearyddol agosaf at Ysgol Baladeulyn.

Byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar drefniadau teithio dysgwyr Ysgol Baladeulyn, gan y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu yn Ysgol Talysarn. Byddai angen darparu cludiant i ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn i Ysgol Talysarn, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd. Rhagwelir costau cludiant ychwanegol (amcan gost) rhwng £17,000 hyd at £30,000 y flwyddyn. Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.

- *Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn*

Mi fydda'r opsiwn yma yn golygu uno nifer o ysgolion lleol fel un ysgol ar draws nifer o safleoedd gan gynnwys safle Ysgol Baladeulyn.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Baladeulyn, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn. Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn ar safle Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Yn ddibynnol ar strwythur yr ysgol newydd, mae posibilrwydd y bydd angen trefnu cludiant rhwng ysgolion.

- *Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant aq anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn*

Mi fydda'r opsiwn yma yn golygu ychwanegu ardal ADY ar safle'r ysgol er mwyn darparu addysg arbennig i'r plant fydda angen cefnogaeth ychwanegol. Ni fydd unrhyw newid i'r elfen ysgol.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Baladeulyn, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY.

- *Ffederaleiddio gyda ysgol gyfagos gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant aq anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn.*

Mi fydda'r opsiwn yma yn golygu ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos ac ychwanegu ardal ADY ar safle ysgol Baladeulyn er mwyn darparu addysg arbennig i'r plant fydda angen cefnogaeth ychwanegol.

Byddai'r opsiwn yma yn golygu ychwanegu ardal ADY ar safle'r ysgol er mwyn darparu addysg arbennig i'r plant fydda angen cefnogaeth ychwanegol, gan hefyd ffederaleiddio Ysgol Baladeulyn gyda ysgol cyfagos.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Baladeulyn, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwr yr uned ADY.

- Cynnwys uned iaith yn safle Ysgol Baladeulyn

Mi fydda'r opsiwn yma yn golygu ychwanegu uned iaith ar safle'r ysgol er mwyn cynnig gwasanaeth trochi i'r plant yn y Gymraeg sydd ei angen cyn ymuno a'u ysgolion dewisol yn llawn amser. Ni fydd unrhyw newid i'r elfen ysgol.

Ni fyddai'r model hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Baladeulyn, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwr yr uned iaith.

2.2. Opsiynau cludiant di-dâl

Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd, disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf.

Y llwybr byrraf sydd ar gael yw'r un nad yw'r Cyngor yn ei ystyried yn arbennig o beryglus, ar ôl asesu'r llwybrau eraill y gellid eu defnyddio, a byddai'r llwybrau hyn yn cael eu hasesu yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

Nodir fod nifer o fsys ysgol yn rhedeg yn yr ardal. Nid oes yr un o'r bysus ysgolion cynradd yn rhedeg rhwng Baladeulyn a Talysarn i fedru manteisio ar un o'r rhan.

2.3. Crynodeb o'r effaith tebygol ar drefniadau teithio

Mae crynodeb isod o'r effaith ar drefniadau teithio yr opsiynau dan ystyriaeth:

Opsiynau	Yr effaith debygol ar drefniadau teithio i ddysgwyr	Yr effaith debygol ariannol blynyddol ar drefniadau teithio i'r Awdurdod
Dim newid- Parhau gyda'r sefyllfa bresennol	Niwtral – Dim newid	£0

	Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	
Ffederaleiddio gyda ysgol cyfagos (Ysgol Talysarn)	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	£0
Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol cyfagos (Ysgol Talysarn)	Negyddol Mae Ysgol Talysarn wedi ei lleoli 2.5 milltir o Ysgol Baladeulyn. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn fyddai'n mynychu Ysgol Talysarn ac yn byw mwy na 2 filltir o'r ysgol, yn unol â Pholisi Cludiant yr Awdurdod. Wedi ystyried niferoedd presennol (Medi 2025), rhagwelir y byddai angen trefnu bws 8 sedd i gludo dysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn (fyddai'n gymwys am gludiant yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd) i Ysgol Talysarn. Rhagwelir y byddai hyn ar gost o hyd at £17,000. Pe byddai cynnydd yn niferoedd dysgwyr y dalgylch i'r dyfodol, yna fe all olygu y byddai angen darparu bws ysgol er mwyn cludo dysgwyd dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn fyddai'n gymwys am gludiant (yn unol a pholisi cludiant Cyngor Gwynedd). Rhagwelir y byddai hyn ar gost o hyd at £30,000. Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.	£17,000 - £30,000

Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn ar safle Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Yn ddibynnol ar strwythur yr ysgol newydd, mae posibilrwydd y bydd angen trefnu cludiant rhwng ysgolion.	£0
Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwr yr uned ADY. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol	£0 Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY.
Ffederaleiddio gyda ysgol arall gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwr yr uned ADY.	£0 Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY.
Cynnwys Uned Iaith yn safle Ysgol Baladeulyn	Niwtral Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.	£0 Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned iaith.

	Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwr yr uned iaith.	

3. CASGLIAD

Ni ragwelir y byddai effaith ar drefniadau teithio dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn deillio o weithredu'r unrhyw un o'r opsiynau a restrir yn y tabl uchod (rhan 2), ac eithrio'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn.

Pe byddai'r opsiwn o gau Ysgol Baladeulyn a chynnig addysg i'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y byddai effaith ar drefniadau teithio i'r plant. Fodd bynnag ni ragwelir y bydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.

Wrth ystyried y data niferoedd diweddaraf, sef Medi 2025, rhagwelir y byddai angen trefnu bws 8 sedd er mwyn cludo dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn fyddai'n gymwys am gludiant (yn unol a pholisi cludiant Cyngor Gwynedd) i Ysgol Talysarn. Amcangyfrifir i'r costau cludiant hyn fod oddeutu £17,000 y flwyddyn.

Pe byddai cynnydd yn niferoedd dysgwyr y dalgylch i'r dyfodol, yna fe all olygu y byddai angen darparu bws ysgol er mwyn cludo dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn fyddai'n gymwys am gludiant (yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd). Amcangyfrifir i'r costau cludiant hyn fod oddeutu £30,000 y flwyddyn.

O ganlyniad, rhagwelir y byddai'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Talysarn yn arwain at gostau cludiant ychwanegol i'r Awdurdod. Amcangyfrifir i'r costau hyn fod oddeutu £17,000-£30,000 y flwyddyn i ddarparu cludiant pe byddai holl ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn yn dewis mynychu Ysgol Talysarn.

1. CYFLWYNIAD

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer trefniadaeth ysgolion, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynnal asesiad o effaith debygol ar y gymuned, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

1.1 Cefndir

Mae Ysgol Baladeulyn wedi ei leoli ger pentref Talysarn ar gyrion Penygroes ac yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos. Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn dros y 10 mlynedd diwethaf. Erbyn hyn, Medi 2025, dim ond 6 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 ac 2 dysgwr Meithrin sy'n mynychu'r ysgol.

Yn eu cyfarfod ar 11 Chwefror 2025, bu i'r Cabinet gefnogi argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda rhanddeiliaid Ysgol Baladeulyn er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer yr dyfodol.

Rhwng Mawrth a Gorffennaf 2025, cynhaliwyd 3 cyfarfod lleol gyda rhan-ddeiliaid Ysgol Baladeulyn ymhle cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau.

2. YR OPSIYNAU

Bu i'r Awdurdod ystyried a thrafod nifer o opsiynau ar gyfer dyfodol Ysgol Baladeulyn, gan gynnwys:

- Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol
- Ffederaleiddio gyda ysgol cyfaos (Ysgol Talysarn)

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng 3 ysgol, gan fod Ysgol Talysarn yn barod wedi ffedereiddio gyda Ysgol Brynaerau. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

- Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol cyfaos (Ysgol Talysarn)

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, ac y byddai dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn yn cael cynnig lle yn Ysgol Talysarn (yr ysgol amgen).

- Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn

Byddai'r opsiwn yma'n golygu uno nifer o ysgolion lleol, drwy gau'r ysgolion a sefydlu un ysgol aml-safle fyddai'n cynnwys safle Ysgol Baladeulyn. Byddai'r opsiwn yn galluogi'r posibilrwydd o rannu adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb safle ysgol ym mhentref Nantlle trwy sefydlu ysgol aml-safle, dan arweiniad pennaeth ac un corff llywodraethol.

- Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn

Byddai'r opsiwn yma'n golygu ychwanegu ardal ar gyfer uned ADY ar safle'r ysgol er mwyn cynnig addysg arbennig i'r plant fyddai angen cefnogaeth ychwanegol.

- Ffederaleiddio gyda ysgol arall gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng 3 ysgol, gan fod Ysgol Talysarn yn barod wedi ffedereiddio gyda Ysgol Brynaearu. Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Yn ogystal â ffederaleiddio, byddai'r opsiwn yma hefyd yn golygu ychwanegu lleoliad ar gyfer Uned ADY.

- Cynnwys Uned Iaith ar safle Ysgol Baladeulyn

Byddai'r opsiwn yma'n golygu ychwanegu Uned Drochi Iaith ar safle'r ysgol er mwyn cynnig gwasanaeth trochi yn y Gymraeg i siaradwyr newydd.

3. CRYNODEB O'R DALGYLCH

3.1 Yr Ardal

Mae Ysgol Baladeulyn wedi ei leoli ym mhentref gwledig Nantlle ger pentref Talysarn a Penygroes yng Ngwynedd ac o fewn ward Llanllyfni a Chlynnog. Yn ôl cyfrifiad 2021, mae 1,957 o bobl yn byw yn ward Llanllyfni a Chlynnog.

3.2 Yr Economi

Mae 55.5% o bobl rhwng 16 a 74 mlwydd oed o fewn ward Llanllyfni a Chlynnog yn weithgar yn economaidd, a 3.7% o'r rhain yn ddi-waith. Mae 43.2% o bobl yn yr un grŵp oedran yn anweithgar yn economaidd gyda 5.9% o'r rhain yn sâl neu'n anabl am gyfnod hir.

Mae'r math o ddiwydiant y mae'r boblogaeth yn weithgar ynddo yn amrywiol yn yr ardal, gyda'r gyfradd uchaf (19.9%) yn gweithio yn y maes iechyd a gwaith cymdeithasol.

Yn ôl data 'Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019)' mae cyfradd cyflogaeth ward Llanllyfni a Chlynnog o gymharu â wardiau eraill yng Nghymru yn rhoi ranc o 1149 allan o 1909 o wardiau. Felly, mae ward Llanllyfni a Chlynnog o fewn y 30-50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

3.3 Amddifadedd

Mae Ward Llanllyfni a Chlynnog wedi 'w raddio o fewn y 30%-50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (ranc 748 allan o 1909 o wardiau).

Mae nifer o feysydd yn llunio'r mynegai cyffredinol yma, gan gynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai.

Nodir fod ward Llanllyfni a Chlynnog o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'Tai'. Dangosyddion y maes hwn yw'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi gorlawn (defnydd ystafelloedd gwely), a'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi heb wres canolog.

Yn ogystal, mae ward Llanllyfni a Chlynnog o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'mynediad i wasanaethau', h.y. amddifadedd am nad yw pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae'r dangosyddion yn cynnwys cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i nifer o wasanaethau megis siopau bwyd, meddygfa, ysgolion cynradd ac uwchradd, swyddfa bost, llyfrgell gyhoeddus, fferyllfa, canolfan hamdden ac amser teithio preifat i orsaf betrol.

Mae crynodeb isod o sut y mae ardal Llanllyfni a Chlynnog wedi ei lleoli yng nghyd-destun ardaloedd eraill yng Nghymru yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019):

Maes	Ranc yng Nghymru, allan o 1909 o ardaloedd. (1 = mwyaf difreintiedig a 1909 = lleiaf difreintiedig)	Mwyaf difreintiedig % yng Nghymru
Cyflogaeth	1149	
Incwm	860	Tud. 205

Iechyd	1267	
Addysg	1238	
Tai	67	O fewn y 10% mwyaf difreintiedig
Amgylchedd ffisegol	1251	
Mynediad i wasanaethau	100	O fewn y 10% mwyaf difreintiedig
Diogelwch cymunedol	922	

3.4 Y Gymuned

Mae nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal yn ardal Nantlle, gan gynnwys;

- Ras Tal y Mignedd
- Gŵyl Dewi
- Trigonos Plas Baladeulyn
- Llys Llywelyn
- Gwasanaethau Nadolig

4. YSGOL BALADEULYN

4.1 Cyd-destun yr ysgolion yn ôl Adroddiadau Arolygon Estyn

Fel rhan o adroddiadau Estyn, gosodir yr ysgolion o fewn cyd-destun, a manylir ar eu cysylltiadau cymunedol. Dyma’r cyd-destun a roddwyd i Ysgol Baladeulyn gan arolygwyr Estyn.

Ysgol Baladeulyn

“Lleolir Ysgol Gynradd Baladeulyn ym mhentref Nantlle wrth droed yr Wyddfa, rhyw dair milltir o Ben-y-groes yng Ngwynedd.”

Ffynhonnell: Adroddiad Estyn, Tachwedd 2017

4.2 Gwybodaeth ystadegol yr ysgolion

Dengys y tabl isod niferoedd Ysgol Baladeulyn a’r ysgolion eraill o fewn dalgylch Ysgol Dyffryn Nantlle. Gwelir yn ogystal yn y tabl hwn beth yw capasiti’r ysgol a nifer ar y gofrestr yn Ionawr 2025. Mae pob ysgol yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ysgol	Capasiti Llawn (M – BI6)	Nifer ar y gofrestr Medi 2025 (M – BI6)	Categori Cyfreithiol	Categori leithyddol
Baladeulyn	62	8	Ysgol Gymunedol	Categori 3
Talysarn	104	101	Ysgol Gymunedol	Categori 3
Bro Lleu	207	190	Ysgol Gymunedol	Categori 3
Llanllyfni	117	72	Ysgol Gymunedol	Categori 3
Nebo	58	12	Ysgol Gymunedol	Categori 3
Brynaerau	81	59	Ysgol Gymunedol	Categori 3
Bro Llifon	196	149	Ysgol Gymunedol	Categori 3

4.3 Gwybodaeth lleoliad annedd a dewis ysgolion dysgwyr

Mae gan bob ysgol ddalgylch penodol y mae’n gwasanaethu ac sydd yn bwysig o ran polisi mynediad a chludiant y Cyngor. Nid oes rhaid i ddysgwyr fynychu eu hysgol dalgylch, mae’r dewis i fyny i rieni (yn unol â’r polisi mynediad).

Dengys y data diweddaraf (data Medi 2025) fod 75% o blant sy’n byw yn nalgylch Ysgol Baladeulyn yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Mae’r tabl isod yn nodi cyfran y dysgwyr sy’n byw yn y dalgylch ac yn mynychu’r ysgol dalgylch, a’r gyfran o ddysgwyr y dalgylch sy’n mynychu ysgolion tu allan i’r dalgylch.

Ysgol	Cyfran o ddysgwyr y dalgylch sy’n mynychu’r ysgol dalgylch	Cyfran o ddysgwyr y dalgylch sy’n mynychu ysgolion all-dalgylch	Cyfran o ddysgwyr yr ysgol sy’n mynychu’r ysgol o du allan i’r Dalgylch
Bro Lleu	79.4%	20.6%	25%
Brynaerau	81.5%	18.5%	17%
Llanllyfni	53.6%	46.4%	25%
Nebo	28.6%	71.4%	81.8%
Talysarn	83.1%	16.9%	23.8%
Baladeulyn	25%	75%	71.4%
Bro Llifon	85.8%	14.2%	23.1%

Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2025

4.4 Crynodeb o’r amrywiol gyfleusterau sydd yng nghymuned Baladeulyn a Talysarn (Medi 2025)

	Baladeulyn	Talysarn
Canolfan Gymuned / Neuadd Bentref	✓	✓
Capel/Eglwys	✓	
Trafnidiaeth Gyhoeddus	✓	✓
Siop		
Caffi/Tafarn		
Swyddfa Bost		
Fferyllfa		
Llyfrgell		
Cae Chwarae Plant	✓	✓
Banc		
Cartref Henoed		
Canolfan Hamdden		
Garej	✓	
Atyniad Twristaidd	✓	
Cylch Ti a Fi + Meithrin		✓

Canolfan Gymunedol

Mae Canolfan Llys Llywelyn wedi ei leoli ym mhentref Nantlle sydd 0.5 milltir oddi wrth ysgol Baladeulyn ac yn cynnal nifer o weithgareddau cymunedol gan gynnwys:

- Ffair Haf
- Ffair Nadolig
- Cyngherddau
- Bore Coffi
- Marchnad

4.5 Crynodeb o ddefnydd yr ysgolion y tu allan i oriau craidd yr ysgol:

	Baladeulyn	Talysarn
Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)		✓
Aelwyd yr Urdd		
Dramâu		
Grwpiau Gwirfoddol		
Bore/Noson Goffi	✓	✓
Arwerthiant Cymunedol		
Llyfrgell Gymunedol		
Ymarfer Côr		
Cymraeg i Oedolion		
Cyfarfod Cyngor Tref/Gymuned		
Cylch/Ysgol Feithrin		✓
Clwb/Gweithgaredd Chwaraeon		✓
Clwb ar ôl Ysgol		
Clwb Diddordeb Lleol		

4.6 Crynodeb o weithgareddau neu grwpiau y mae'r ysgol yn ymwneud yn rheolaidd â nhw:

	Baladeulyn	Talysarn
Cylch Meithrin/Ti a Fi		✓
Eisteddfodau (Lleol/Sirol/Cenedlaethol)		
Adrannau'r Urdd		
Gweithgareddau eraill (chwaraeon, clybiau)		✓

4.7 Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol ar ran y gymuned, ble y byddent yn cael eu darparu os caiff yr ysgol ei chau?

Ysgol	Ble darparir cyfleusterau pe bai'n cau
Baladeulyn	Yn ôl y Pennaeth ar ddechrau 2025, doedd dim defnydd cymunedol yn cael ei wneud o'r ysgol ac mae Canolfan Llys Llywelyn ar gael ar gyfer cynnal gweithgareddau yn yr ardal yn ogystal a Trigonos Plas Baladeulyn.

4.8 Gwybodaeth am bellter ac amser teithio i ysgolion eraill y dalgylch

Mae'r tabl isod yn nodi pellter ac amser teithio rhwng ysgolion yr ardal. Gwelwn mai Ysgol Talysarn yw'r agosaf at Ysgol Baladeulyn. Mae'r amseroedd teithio isod yn ystyried natur y lonydd a'r effaith y gall hynny ei gael ar amser teithio mewn ardal wledig.

Ysgol		Baladeulyn
Talysarn	Milltir	2.5
	Munudau	5
Bro Lleu	Milltir	3.3
	Munudau	6
Llanllyfni	Milltir	4.3
	Munudau	10
Nebo	Milltir	5.8
	Munudau	14
Brynaerau	Milltir	6.1
	Munudau	15
Bro Llifon	Milltir	6.3
	Munudau	13

Ffynhonnell: Mapiau Google 2025

5. ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR Y GYMUNED

Er mwyn asesu effaith cymunedol y modelau posib, penderfynwyd creu meini prawf yn unol ag argymhellion ystyriaethau asesiad cymunedol y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

Positif	Niwtral	Negyddol

OPSIWN 1: DIM NEWID – PARHAU GYDA'R SEFYLLFA BRESENNOL

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Ni fydd unrhyw newid i'r ddarpariaeth bresennol felly ni ragwelir unrhyw newid i'r effaith ar iechyd a llesiant.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Gan nad oes unrhyw newid i'r ddarpariaeth cyfredol ni fydd unrhyw effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus. Bydd unrhyw gludiant sydd angen i Ysgol Baladeulyn ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol a Polisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Ni fydd unrhyw newid i'r ddarpariaeth felly ni ragwelir unrhyw newid i ddefnydd presennol yr ysgol.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni fydd unrhyw newid i'r ddarpariaeth felly ni ragwelir unrhyw newid i effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc	Ni fydd unrhyw newid i'r ddarpariaeth felly ni ragwelir unrhyw newid i sut mae rhieni yn dewis ysgol i'w plant nac yn effeithio ar ddewis byw yn y dalgylch.	Niwtral

yn llai tebygol o symud i'r gymuned		
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Ni fuasai unrhyw newid i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith ar wasanaethau eraill lleol.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni fuasai unrhyw newid i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Ni fuasai unrhyw newid i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith ar y gymuned leol.	Niwtral

OPSIWN 2: FFEDERALEIDDIO GYDAG YSGOL GYFAGOS

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar iechyd a llesiant	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol felly ni ragwelir effaith ar iechyd a llesiant.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni ragwelir effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus. Bydd unrhyw gludiant sydd angen i Ysgol Baladeulyn ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol â Pholisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw newid i effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Gan y byddai ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw newid i sut mae rhieni yn dewis ysgol i'w plant nac yn effeithio ar ddewis byw yn y dalgylch neu ddim. Mae cyfran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (75%).	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Gan y byddai ffedereiddio bod Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw newid i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith ar wasanaethau eraill lleol.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Oherwydd fydda ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw newid i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Oherwydd fydda ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw newid i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith ar y gymuned	Niwtral

	leol. Fodd bynnag, nodir cyfleoedd i gymuned Baladeulyn a chymunedau'r ysgolion fyddai'n rhan o'r ffederasiwn i ddod at ei gilydd.	

OPSIWN 3: CAU YSGOL BALADEULYN A CHYNNIG LLE I'R DYSGWYR MEWN YSGOL GYFAGOS (TALYSARN)

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar lechyd a llesiant	Gan fod yr ysgol amgen wedi ei lleoli tua 2.5 milltir o Ysgol Baladeulyn, ac ymhellach o gartrefi dysgwyr y dalgylch, ni ragwelir y byddent yn debygol o gerdded i'r ysgol. Rhagwelir y byddai bod mewn ysgol mwy megis Ysgol Talysarn yn cynnig mwy o gyfleoedd chwarae a chymryd rhan mewn chwaraeon tîm ac felly yn cyfrannu'n bositif tuag at iechyd a llesiant dysgwyr.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Ni ragwelir bydd unrhyw effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y bydd unrhyw gludiant i ysgol amgen yn sgil unrhyw newid yn cael ei drefnu yn benodol ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn unol a Polisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Dengys yr asesiad effaith nad oes defnydd cymunedol o Ysgol Baladeulyn. O ganlyniad ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf hwn pe byddai'r ysgol yn cau.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Mae cyfran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (75%), a 63% o blant oed cynradd dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu Ysgol Talysarn, felly ni ragwelir y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y gymuned pe byddai'r ysgol yn cau. Yn ogystal, gan fod ysgol amgen wedi ei lleoli 2.5 filltir o Ysgol Baladeulyn, ni rhagwelir y byddai'n cael effaith ar deuluoedd a phant oedran ysgol yn gadael y gymuned.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Mae nifer o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yn Ganolfan Llys Llywelyn. Gan fod y Ganolfan yn annibynnol o'r ysgol ni ragwelir y byddai cau'r ysgol yn cael effaith uniongyrchol arwyddocaol ar ddefnydd cymunedol o Ganolfan Llys Llywelyn.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Gan fod mwyafrif o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion all-dalgylch, ni ragwelir y byddai cau Ysgol Baladeulyn yn cael effaith ar economi ehangach y gymuned.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Gan fod canran uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion all-dalgylch eisoes (75%), ni allwn fynegi yn gadarnhaol y byddai cau'r ysgol yn cael effaith negyddol na phositif ar y gymuned leol. Fodd bynnag, o weithredu'r cynnig byddai'r ysgol leol yn bellach o gartrefi o fewn dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn, ac o safbwynt amddifadedd – golyga fod un o ddangosyddion 'mynediad i wasanaethau' yn pellhau oddi wrth drigolion yr ardal. O ganlyniad, rhagwelir y bydd peth effaith negyddol ar y gymuned leol pe byddai'r ysgol yn cau. I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Nantlle yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Nantlle, lle'n briodol.	Negyddol

OPSIWN 4: UNO YSGOLION LLEOL ER MWYN CEFNOGI A CHYNNAL YSGOL BALADEULYN

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Gan y byddai'r ddarpariaeth ar safle Ysgol Baladeulyn yn parhau, ni rhagwelir y byddai'r opsiwn yma'n effeithio'n negyddol ar iechyd a llesiant.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Gan y byddai'r ddarpariaeth ar safle Ysgol Baladeulyn yn parhau, ni ragwelir effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu Byddai unrhyw gludiant fyddai ei angen i safle Ysgol Baladeulyn ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol a Polisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Gan y byddai safle Ysgol Baladeulyn yn parhau fel rhan o'r ysgol aml-safle, ni ragwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma yn cael effaith ar gyfleusterau/gwasanaethau eraill ar ddarperir yn yr ysgol.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir unrhyw newid i effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni ragwelir unrhyw newid i ddarpariaeth presennol yr ysgol. Mae cyfran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (75%).	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Gan y byddai safle Ysgol Baladeulyn yn parhau fel rhan o'r ysgol aml-safle, ni ragwelir unrhyw newid i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd. O ganlyniad ni ragwelir unrhyw effaith ar wasanaethau eraill lleol.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n effeithio ar yr hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Gan y byddai safle Ysgol Baladeulyn yn parhau, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith gyffredinol ar y gymuned leol pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu.	Niwtral

OPSIWN 5: YCHWANEGU ARDAL ARBENIGOL AR GYFER DYSGWYR AG ANGHENION ARBENNIG YN YSGOL BALADEULYN

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iechyd a llesiant gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar i ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral

Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Gan y bydda ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol felly ni ragwelir effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag darpariaeth uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Oherwydd fydda ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw newid i sut mae rhieni yn dewis ysgol i'w plant nac yn effeithio ar ddewis byw yn y dalgylch neu ddim. Mae cyfran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (75%).	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar economi ehangach y gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral

OPSIWN 6: FFEDERALEIDDIO GYDA YSGOL GYFAGOS GAN YCHWANEGU ARDAL ARBENIGOL AR GYFER PLANT AG ANGHENION ARBENNIG YN YSGOL BALADEULYN

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iechyd a llesiant gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond fel rhan o ffederasiwn gydag ysgol gyfagos, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Bydd unrhyw gludiant sydd angen i Ysgol Baladeulyn ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol â Pholisi Cludiant y Sir.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Gan y bydda ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol felly ni ragwelir effaith ar y meini prawf hwn.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag darpariaeth uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n annog teuluoedd a phlant oedran ysgolion i adael y gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral

Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar economi ehangach y gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. Fodd bynnag, nodir cyfleoedd i gymuned Baladeulyn a chymuned ysgol Talysarn i ddod at ei gilydd.	Niwtral

OPSIWN 7: CYNNWYS UNED IAITH AR SAFLE YSGOL BALADEULYN

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a Llesiant	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iechyd a llesiant gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag darpariaeth Uned Iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag darpariaeth Uned Iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y meini prawf hwn gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag Uned Iaith hefyd wedi ei leoli ar y safle.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag darpariaeth Uned Iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgolion i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n annog teuluoedd a phlant oedran ysgolion i adael y gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag darpariaeth Uned Iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag darpariaeth Uned Iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar economi ehangach y gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag darpariaeth Uned Iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag darpariaeth Uned Iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle.	Niwtral

6. CASGLIAD

Dengys yr asesiad hwn mai niwtral fyddai'r effaith ar y gymuned pe gweithredir yr opsiynau a restrir isod:

- Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.
- Ffederaleiddio gyda ysgol cyfagos (Ysgol Talysarn)
- Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn
- Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn
- Ffederaleiddio gyda ysgol arall gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn
- Cynnwys Uned Iaith yn safle Ysgol Baladeulyn

Er y byddai rhai o'r opsiynau yn golygu lleoli Uned Iaith neu darpariaeth ADY ar safle Ysgol Baladeulyn, ac o ganlyniad, byddai gwasanaethau ychwanegol yn cael ei ddarparu ar safle'r ysgol, ni ragwelir y byddai hynny'n cael effaith ar y gymuned.

Dengys yr asesiad y rhagwelir peth effaith negyddol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn. Cydnabyddir y byddai cau Ysgol Baladeulyn yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle, fodd bynnag nodai'r asesiad fod cyfran helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (63%), ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Ysgol Baladeulyn yn bodoli eisoes.

Er nad oes defnydd cymunedol o adeilad Ysgol Baladeulyn, mae yr ysgol yn ymwneud a'i chymuned ac yn defnyddio cyfleusterau y gymuned yn achlysurol.

Pe byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Talysarn. I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Baladeulyn yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Baladeulyn, lle'n briodol.

Pe byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, bydd yn hanfodol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen (Ysgol Talysarn) a rhieni dysgwyr Ysgol Baladeulyn fel bod modd i rieni a dysgwyr fanteisio ar eu cyfleusterau ac unrhyw weithgareddau ar ôl ysgol.

1. CYFLWYNIAD

Mae cefnogi a datblygu gallu plant Gwynedd i ddysgu a defnyddio eu sgiliau iaith yn allweddol bwysig i strategaethau addysg y Sir.

1.1 Y Sefyllfa yng Ngwynedd

Mae ffigyrau yng Nghyfrifiad 2021 yn nodi fod 66% o bobl dros dair oed yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae Cyfrifiad 2021 hefyd yn nodi bod 64% yn siarad Cymraeg sydd yn ostyngiad ers y cyfrifiad blaenorol, pan oedd y ffigwr yn 65%.

Yng Ngwynedd, fel mewn sawl Awdurdod Lleol eraill yng Nghymru, mae cryn wahaniaeth yng nghanran y siaradwyr Cymraeg o fewn gwahanol wardiau. Ar un eithaf, mewn wardiau megis Aberdyfi, Tywyn a Canol Bangor mae rhwng 26% a 44% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, tra bod cymaint â 86% yn siarad Cymraeg yn yr ardaloedd mwyaf Cymreig e.e. Hendre a Llanrug.

1.2 Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg (CSGA)

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn ddogfen statudol yr Awdurdod Lleol ac yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg (yn unol â thargedau *Cymraeg 2050*). Mae 7 deiliant y disgwylir i Awdurdodau Lleol eu gweithredu er mwyn gwireddu'r deilliannau, sef:

1. Mwy o blant meithrin/3 oed yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.
2. Mwy o blant dosbarth derbyn/5 oed yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.
3. Mwy o blant yn parhau i wella sgiliau wrth drosglwyddo o un cyfnod addysg i'r llall.
4. Mwy o ddysgwyr yn astudio Cymraeg fel pwnc a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
5. Cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.
6. Gwellu darpariaeth addysg Gymraeg i ddisgyblion ADY.
7. Cynyddu nifer staff sydd yn gallu addysgu yn Gymraeg.

1.3 Polisi Iaith

Cynradd

Yr un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y Sir, sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyfedr yn y ddwy iaith erbyn diwedd CA2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, parheir i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

Uwchradd

Yn yr uwchradd, disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd y lefel angenrheidiol, sef lefel 3+ ar ddiwedd CA2 ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Y gobaith yw y gall y disgyblion hyn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd blwyddyn 11.

Mae'r ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau fod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw'r Sir yn diffinio ysgolion uwchradd yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un disgwyliad mewn perthynas â'r Polisi Iaith, sef rhoi cyfle i holl ddisgyblion y Sir fod yn hyfedr ddwyieithog.

1.4 Miliwn o siaradwyr erbyn 2050

Cymraeg 2050 yw strategaeth ddiweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ac mae'n cwmpasu'r tri degawd nesaf. Nodir yn y ddogfen hon dargedau penodol ar gyfer cynyddu'r niferoedd sy'n siarad yr iaith ynghyd â'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae nodau Cymraeg 2050 yn cynnwys:

	Nod	Targed
1.	Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg	1 Miliwn o siaradwyr erbyn 2050
2.	Cynyddu defnydd o'r Gymraeg	Defnyddwyr dyddiol o'r Gymraeg yn cynyddu o 10% i 20%

Pwysleisia'r ddogfen strategol *Cymraeg 2050*: Miliwn o siaradwyr bwysigrwydd cynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg ond hefyd pwysleisir fod cynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg yr un mor bwysig.

Mae symud i sefyllfa lle mae miliwn o siaradwyr yn un agwedd ar ein gweledigaeth ar gyfer ffyniant y Gymraeg. Ond mae iaith Gymraeg sy'n ffynnu yn iaith sy'n cael ei defnyddio. Rydym am i'r defnydd o'r Gymraeg fod yn rhan arferol o fywyd bob dydd, fel bod siaradwyr ar bob lefel yn teimlo'n hyderus i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol..... Yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2013–15 (Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg 2015) mae cysylltiad clir rhwng rhuglder a pha mor aml y defnyddir y Gymraeg – mae 84% o siaradwyr Cymraeg rhugl yn siarad Cymraeg bob dydd.

Ffynhonnell: Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr (2017)

1.5 Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033

Mae Safonau'r Gymraeg a osodwyd ar Gyngor Gwynedd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod disgwyliad ar y Cyngor i lunio strategaeth 5 mlynedd fydd yn dangos sut y bwriedir mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg ar draws y sir. Strategaeth iaith Gwynedd 2023-2033 yw strategaeth ddiweddaraf Cyngor Gwynedd ar gyfer y Gymraeg. Nodir yn y ddogfen hon dargedau penodol ar gyfer cynyddu'r niferoedd sy'n siarad yr iaith:

	Sut byddwn yn cynyddu nifer siaradwyr?	Sut byddwn yn mesur ar lefel leol, ac yn ystod cyfnod y strategaeth?
1.	Rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc nad ydynt eto yn siaradwyr Cymraeg (e.e. newydd-ddyfodiaid, plant sydd ddim yn derbyn addysg prif ffrwd), i ddysgu a dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus.	Nifer y plant sydd yn cael addysg cyfrwng Cymraeg. Nifer plant sydd yn cael cefnogaeth drwy gyfundrefn drochi'r Adran Addysg.
2.	Rhoi cyfleoedd i oedolion ddod yn siaradwyr newydd drwy gynlluniau cefnogi dysgwyr y Cyngor a darpariaeth gymunedol partneriaid.	Nifer gweithwyr y Cyngor sydd yn derbyn gwersi dysgu Cymraeg. Darpariaeth cyrsiau dysgu Cymraeg cymunedol.

Ceir yn y Strategaeth hefyd ymrwymiad i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y meysydd canlynol:

- *laith y blynyddoedd cynnar*
- *laith Dysgu*
- *laith Gwaith a Gwasanaeth*
- *laith y Gymraeg*

2. PROFFIL IAITH DALGYLCH YSGOL BALADEULYN

2.1 Cefndir Proffil Iaith Gwynedd

Mae 64.4% o boblogaeth y Sir sydd dros dair oed yn siaradwyr Cymraeg – sylweddol uwch na'r ffigwr trwy Gymru gyfan o 17.8%. Yng Ngwynedd, mae'r gallu i siarad Cymraeg uchaf yn ward Hendre (mae 86% yn siarad Cymraeg), ac ar ei isaf yn ardal Canol Bangor (25.6%).

2.2 Wardiau

2.3

2.3.1 Wardiau Llanllyfni a Chlynnog, Y Groeslon, Penygroes a Talysarn

Mae dalgyrch Ysgol Baladeulyn, Ysgol Nebo, Ysgol Brynaerau ac Ysgol Llanllyfni o fewn ward Llanllyfni a Chlynnog gyda dalgyrch Ysgol Bro Llifon o fewn ward Y Groeslon, gyda dalgyrch Ysgol Bro Lleu o fewn ward Penygroes a dalgyrch Ysgol Talysarn o fewn ward Talysarn (Swyddfa Ystadegol Gwladol 2021). Mae proffil ieithyddol wardiau'r ysgolion hyn wedi ei grynhoi yn y tabl isod:

	Llanllyfni a Chlynnog	Y Groeslon	Penygroes	Talysarn	Gwynedd	Cymru
Hunaniaeth Gymreig yn unig	1,407 (64.8%)	1,200 (72.2%)	1,363 (75.6%)	1,206 (62.2%)	69,560 (59.3%)	1,715,975 (55.2%)
Dim hunaniaeth Gymreig	35.2%	27.8%	24.4%	37.8%	36.3%	36.7%
Poblogaeth 3+ mlwydd oed	2,173 (100%)	1,621 (100%)	1,802 (100%)	1,943 (100%)	114,308 (100%)	3,018,172 (100%)
Gallu siarad Cymraeg	1,508 (69.4%)	1,247 (77%)	1,447 (80.3%)	1,312 (67.5%)	73,560 (64.4%)	538,296 (17.8%)
Dim sgiliau Cymraeg	429 (19.7%)	237 (14.6%)	195 (10.8%)	390 (20.1%)	29,977 (26.2%)	2,259,017 (74.8%)
Gallu deall Cymraeg ar lafar yn unig	121 (5.6%)	98 (6.0%)	66 (3.7%)	133 (6.8%)	8,166 (7.1%)	156,762 (5.2%)
Gallu siarad Cymraeg ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg	108 (5%)	58 (3.6%)	96 (5.3%)	104 (5.4%)	6,142 (5.4%)	68,391 (2.3%)
Gallu siarad a darllen Cymraeg ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg	53 (2.4%)	43 (2.7%)	52 (2.9%)	57 (2.9%)	3,170 (2.8%)	33,971 (1.1%)
Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	1,327 (61.1%)	1,128 (69.6%)	1,279 (71%)	1,119 (57.6%)	63,256 (55.3%)	429,313 (14.2%)
Gallu ysgrifennu Cymraeg ond ddim yn gallu siarad na darllen Cymraeg	10 (0.5%)	7 (0.4%)	2 (0.1%)	7 (0.4%)	387 (0.3%)	4,970 (0.2%)
Gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg ond ddim yn gallu siarad Cymraeg	16 (0.7%)	23 (1.4%)	24 (1.3%)	12 (0.6%)	1,004 (0.9%)	17,560 (0.6%)
Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg	20 (0.9%)	18 (1.1%)	20 (1.1%)	32 (1.6%)	993 (0.9%)	6,621 (0.2%)

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegol Gwladol

2.4 Ysgol Baladeulyn

Dengys y tabl isod fod y mwyafrif o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Ysgol	Siarad Cymraeg yn rhugl gartref	Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg o gwbl
Baladeulyn	55%	27%	0%	18%	0%

Ffynhonnell: Canran o nifer yr ymatebwyr Ionawr 2025

2.4 Ysgolion cyfagos

Mae data ieithyddol ar gyfer yr ysgolion cyfagos i'w gweld isod.

Ysgol	Siarad Cymraeg yn rhugl gartref	Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg o gwbl
Brynaerau	63%	8%	2%	10%	17%
Llanllyfni	80%	8%	1%	4%	7%
Nebo	50%	12.5%	25%	12.5%	0%
Bro Lleu	73%	3%	2%	6%	16%
Talysarn	37%	16%	4%	19%	24%
Bro Llifton	83%	3%	1%	3%	10%

Ffynhonnell: Canran o nifer yr ymatebwyr Ionawr 2025

2.5 Gweithgareddau ar ôl ysgol

Dyma grynodeb o'r hyn mae Ysgol Baladeulyn a'r ysgolion eraill dalgylch uwchradd Dyffryn Nantlle yn ei gynnig ar safleoedd ysgol.

	Baladeulyn	Talysarn	Bro Lleu	Llanllyfni	Brynaerau	Bro Llifton	Nebo
Grwpiau Chwarae (Gwylliau'r ysgol)			✓				
Aelwyd yr Urdd				✓		✓	✓
Bore/Noson Goffi	✓	✓		✓	✓	✓	
Cylch/Ysgol Feithrin			✓	✓		✓	
Clwb/Clwb ar ôl ysgol / Gweithgaredd Chwaraeon		✓	✓	✓	✓	✓	✓

Gwelir yn y tabl uchod mai dim ond gweithgareddau megis Bore/Noson Goffi a gynhelir yn Ysgol Baladeulyn sydd yn sylweddol llai na'r ddarpariaeth ar ôl ysgol a gynhelir yn ysgolion eraill y dalgylch. Golyga hyn fod llai o gyfleoedd i ddysgwyr Baladeulyn fanteisio ar gweithgareddau ar ôl ysgol i ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg.

2.6 Gweithgareddau Cymunedol

Mae Canolfan Llys Llywelyn wedi ei lleoli oddeutu 0.5 milltir i ffwrdd o Ysgol Baladeulyn ac yn cynnal nifer o weithgareddau. Dyma fraslun o'r elfennau cymunedol mae'r Ysgol yn ymwneud â hwy yn rheolaidd;

- Ffair Haf
- Ffair Nadolig
- Cyngherddau
- Bore Coffi
- Marchnad

2.7 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032

Mae Ysgol Baladeulyn a'r ysgolion cyfagos yn gweithredu amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys:

- Bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bod y disgwyliad hwnnw yn gyson ar draws pob un o'r ysgolion.
- Bod darpariaeth addas i alluogi pob disgybl i ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i ysgolion barhau i feithrin sgiliau'r disgyblion hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n ddysgwyr.
- Bod holl sefydliadau addysg y sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol, yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

Byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn cyd-fynd ag amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32.

2.8 Tystiolaeth Ychwanegol

Ysgol Baladeulyn

Mae adroddiad Estyn yn 2017 yn dweud:

“Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae tua thri chwarter y disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli yn yr ysgol a'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae disgyblion yn dangos balchder tuag at yr iaith a gwerthfawrogiad amlwg o ddiwylliant a hanes yr ardal leol.”

[Adroddiad arolwg Estyn Ysgol Baladeulyn Tachwedd 2017](#)

Ysgol Talysarn

Mae adroddiad Estyn 2017 yn nodi:

“Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu. Fe addysgir Saesneg yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2. Daw oddeutu 50% o'r disgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg... Daw tua hanner y disgyblion o gartrefi di-Gymraeg; er hynny, mae eu medrau llafar Cymraeg yn datblygu'n fuan iawn.”

[Adroddiad arolwg Estyn Ysgol Talysarn Ionawr 2017](#)

3. Asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg

3.1 Yr Opsiynau

- Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.

Byddai cadw'r drefn bresennol yn golygu fod Ysgol Baladeulyn yn parhau yn yr un modd, gyda'r un strwythur staffio.

Noder, er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r model Gwneud dim wedi ei gynnwys yn yr asesiad at ddiben cymharu.

- Ffederaleiddio gydag ysgol cyfagos (Ysgol Talysarn)

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cydweithio gydag ysgol, neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng 3 ysgol, gan fod Ysgol Talysarn yn barod wedi ffederaleiddio gyda Ysgol Brynaerau. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Ni ragwelir y byddai ffederaleiddio yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda chyfleoedd i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth, a chydweithio ar gyfer yr ysgol.

- Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol cyfagos (Ysgol Talysarn)

Byddai'r opsiwn yma'n golygu cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn.

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, ac y byddai dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn yn cael cynnig lle yn Ysgol Talysarn (yr ysgol amgen).

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn cynnwys asesiad o effaith cau Ysgol Baladeulyn ac addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn, ar yr iaith Gymraeg o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae'r tabl hefyd yn amlinellu'r cyfleoedd ychwanegol ar gyfer cryfhau'r iaith Gymraeg, a dulliau lliniaru unrhyw effaith negyddol allai ddeillio o'r cynnig arfaethedig.

- Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn

Byddai'r opsiwn yma yn golygu cau ysgolion lleol, gan gynnwys Ysgol Baladeulyn, gan greu ysgol newydd ar draws nifer o safleoedd, gan gynnwys safle presennol Ysgol Baladeulyn.

Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg. Yn ddibynol ar strwythur yr ysgol aml-safle, gall fod cyfleoedd i ddysgwyr gael mynediad at ystod ehangach o adnoddau addas, cyflenwad uwch yn nhermau staffio, a gallent fod yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion.

- Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gydag Ysgol Baladeulyn gan ychwanegu ardal benodol arbenigol i blant gyda anghenion dysgu ychwanegol ar safle'r ysgol.

Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol arall aqan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant aq anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gydag Ysgol Baladeulyn ac ychwanegu ardal benodol arbenigol i blant gydag anghenion dysgu ychwanegol ar safle'r ysgol gan ei ffedereiddio gydag ysgol arall.

Rhagwelir y byddai ffederaleiddio yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg yn yr ysgol gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda chyfleon i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth, a chydweithio ar gyfer yr ysgol.

- *Cynnwys Uned Iaith yn safle Ysgol Baladeulyn*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gydag Ysgol Baladeulyn gan ychwanegu Uned Iaith ar safle'r ysgol.

Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar yr iaith Gymraeg yn yr ysgol gan na fyddai newid i'r ddarpariaeth addysg a ddarperir gan Ysgol Baladeulyn. Er hynny, mae'n debygol y bydd effaith bositif ar iaith Gymraeg y plant fydd yn mynychu'r Uned Iaith.

4. ASESIAD O’R EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG

Asesiad o’r effaith ar yr iaith Gymraeg – Cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i’r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o’r effaith a’r gwaith	Oes unrhyw fesurau wedi’u hadnabod i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd positif	Effaith derfynol (yn dilyn dulliau lliniaru)
laith yr ysgol (ffurfiol)	Mae Ysgol Baladeulyn yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng. Gan fod Ysgol Talysarn hefyd yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng, deuir i’r casgliad na fyddai’r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar iaith addysg y plant.	Niwtral	Amherthnasol	Amherthnasol
laith yr ysgol (anffurfiol)	Mae ystadegau CYBLD Ionawr 2025 yn dangos fod 55% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn. Byddai gan ddysgwyr fynediad at gyflenwad uwch yn nhermau staffio a byddent yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion o’r un oedran, gallai’r cynnig gryfhau’r cyfleoedd i ddysgwyr o fewn y dosbarth. Fodd bynnag, rhagwelir y gallai’r cynnig effeithio yn negyddol ar ddefnydd cymdeithasol dysgwyr Baladeulyn o’r Gymraeg gan fod llai o ddysgwyr Ysgol Talysarn yn rhugl yn y Gymraeg.	Niwtral	Gallai’r awdurdod lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Talysarn drafod dulliau i annog a meithrin cyfleoedd a hyder disgyblion i ddefnyddio’r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol.	Niwtral
Mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg	Mae Ysgol Talysarn yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng, fel Ysgol Baladeulyn. Ni ragwelir felly y byddai’r cynnig yn effeithio ar y meini prawf hwn.	Niwtral	Amherthnasol	Amherthnasol
Darpariaeth anstatudol	Byddai gan ddysgwyr fynediad at gyflenwad uwch yn nhermau staffio, a byddent yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion o’r un oedran.	Positif	Gallai’r awdurdod lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Talysarn drafod dulliau i sicrhau bod disgyblion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.	Positif
Gweithgareddau cyn / ar ôl ysgol	Mae Ysgol Talysarn yn ysgol fwy o ran niferoedd o ddysgwyr felly bydd y grwpiau cyfoedion yn fwy. Mae Ysgol Talysarn hefyd yn cynnig clybiau a gweithgareddau ar ôl ysgol sydd yn cynnig cyfleoedd i defnyddio’r Gymraeg cyn/ar ôl ysgol.	Positif	Gallai’r Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Talysarn ystyried unrhyw gyfleoedd ychwanegol ar gyfer cynnal gweithgareddau ar ôl ysgol, gan sicrhau fod trefniadau mewn lle i gynnwys dysgwyr dalgylch Baladeulyn.	Positif
Defnyddio’r Gymraeg yn y gymuned	Pe byddai’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol yn deillio o wireddu’r cynnig, gan na fydd	Negyddol	Gall yr Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Talysarn ystyried dulliau o hyrwyddo’r defnydd o’r iaith Gymraeg drwy gynnwys	Niwtral

	rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd yn cyfarfod yn ddyddiol yn nghymuned Baladeulyn wrth ollwng/casglu plant o'r ysgol.		cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol.	

5. CASGLIAD

Ein disgwyliadau yw bod holl ddysgwyr y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys, oed perthnasol er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni. Bydd angen i'r cynigion ar gyfer ad-drefnu gymryd ystyriaeth lawn o'r holl effeithiau ieithyddol. Bydd cynnal a gwell defnydd o'r Gymraeg fel iaith addysgol a chymdeithasol ymhlith plant yn ystyriaeth allweddol wrth lunio cynigion o fewn yr ardal.

Ni ragwelir y byddai unrhyw un o'r opsiynau a nodir yn adran 3 uchod yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.

O safbwynt y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Talysarn, byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith rhannol ar rai elfennau yng nghyd-destun y Gymraeg, yn bennaf:

- y byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.
- Y byddai'r cynnig arfaethedig yn golygu y byddai gan ddysgwyr fynediad at gyflenwad uwch yn nhermau staffio a byddent yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion o'r un oedran, gallai'r cynnig gryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr o fewn y dosbarth.
- y byddai'r cynnig arfaethedig yn golygu y byddai dysgwyr Baladeulyn yn llai tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol r gyda'u cyfoedion y tu hwnt i oriau ysgol.
- Y byddai'r cynnig arfaethedig yn golygu y byddai llai o rieni yn debygol o gyfarfod yn ddyddiol yng nghymuned Baladeulyn wrth ddanfôn a gollwng plant.

Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir na fyddai effaith ar ddefnydd dysgwyr dalgylch Baladeulyn o'r Gymraeg mewn cyd-destun ffurfiol yr ysgol. Byddai effaith bositif ar ddefnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i oriau ysgol yn sgil mynediad at glybiau a gweithgareddau ar ôl ysgol. Serch hynny, rhagwelir y byddai llai o ddefnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol yn yr ysgol.

ASESIAD EFFAITH DEDDF LLESIANT A CHENEDLAETHAU'R DYFODOL – YSGOL BALADEULYN (MEDI 2025)

1. CYFLWYNIAD

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd.

Gweledigaeth y Cyngor yw:

Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant sydd yn ategu'r nodau llesiant cenedlaethol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc
- Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng
- Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau
- Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau
- Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned
- Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd
- Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol.

	Llewyrchus	Cydnherth	Iachach	Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu	Yn gyfrifol ar lefel fyd-eang
GWYNEDD YFORY Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc							
GWYNEDD LEWYRCHUS Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng							
GWYNEDD GLYD Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau							
GWYNEDD OFALGAR Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau							
GWYNEDD GYMRAEG Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.							
GWYNEDD WERDD Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd							
GWYNEDD EFFEITHLON Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon							

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg dysgwyr drwy eu gweithgareddau a'u prosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella yn "Cynllun Gwynedd 2023-2028".

2. SUT MAE'R CYNNIG ARFAETHEDIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

Amcanion	
Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc	Byddai'r cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yr ardal yn meithrin profiadau drwy gymdeithasu gydag ystod ehangach o gyfoedion, oed-berthnasol gan dderbyn addysg o ansawdd mewn ysgol sydd yn gallu cynnig amgylchedd ddysgu a phrofiadau i ystod ehangach o ddysgwyr.
Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng	Rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n arwain at ddiswyddiadau staff. Datblygwyd polisi staffio manwl gan Gyngor Gwynedd mewn cydweithrediad ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd y polisi yn sail i unrhyw newid i gyflogaeth staff sy'n deillio o unrhyw gynnig. Bydd cyfathrebu eglur ac agored yn greiddiol i weithrediad llwyddiannus unrhyw gynigion.
Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau	Dim effaith.
Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau	Bydd sicrhau fod y dysgwyr yn derbyn addysg o'r radd flaenaf yn greiddiol i'r cynnig arfaethedig, gan sicrhau y byddant yn derbyn addysg o'r un ansawdd a safon yn yr ysgol amgen.
Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned	Mae dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn byw mewn cymdeithas Gymraeg ac yn cael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, fel yr ysgol amgen. Mae'n debygol y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith cadarnhaol ar y Gymraeg wrth i ddysgwyr Ysgol Baladeulyn elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol. Fodd bynnag, rhagwelir y gallai'r cynnig effeithio'n negyddol ar ddefnydd cymdeithasol dysgwyr Baladeulyn o'r Gymraeg gan fod llai o ddysgwyr Ysgol Talysarn yn rhugl yn y Gymraeg. Mae Ysgol Talysarn yn gwasanaethu ardal sydd yn gadarnle i'r iaith Gymraeg gydag ychydig dros 2/3 o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg.
Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd	Dim effaith.
Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon	Dim effaith.

3 . A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

Nod	Yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma?	Mesurau lliniaru effeithiau negyddol ar y nod yma:
Cymru lewyrchus Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith.	Byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn ac addysgu'r plant yn Ysgol Talysarn yn golygu fod y dysgwyr yn meithrin profiadau drwy gymdeithasu gydag ystod ehangach o gyfoedion, oed-berthnasol gan dderbyn addysg o ansawdd mewn ysgol sydd yn gallu cynnig amgylchedd ddysgu a phrofiadau i ystod ehangach o ddysgwyr. Gall cyflwyno'r opsiwn arfaethedig yma arwain at staff yn colli eu swyddi.	Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen i ymgynghori ar y cynnig arfaethedig, bydd ymgynghoriad statudol yn cael ei gynnal fyddai'n cynnwys holl ran-ddeiliaid yr ysgol dan sylw, gan gynnwys staff a chynrychiolwyr undebau. Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd ac Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn gyd-fynd â'r polisi hwnnw. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion.
Cymru gydnerth Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).	Ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.	Dim effaith
Cymru iachach Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd.	Ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.	Dim effaith
Cymru sy'n fwy cyfartal Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).	Rhagwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn gwella gallu'r Awdurdod i <i>"gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn"</i> yn unol â gweledigaeth Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd.	Nodai'r Asesiad Cydraddoldeb na ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith negyddol ar gydraddoldeb. Yn ogystal, nodwyd fod polisiâu a threfniadau cadarn mewn lle a fyddai'n sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal. Nodir fod mesurau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol nac aflonyddu.

Cymru o gymunedau gydlynus Cymunedau atyniadol, hyfyrw a diogel sydd â chysylltiadau da.	Mae cymuned Nantlle yn gryf a gweithgar a chydabyddir y gallai cau Ysgol Baladeulyn arwain at beth effaith negyddol ar y gymuned.	Yn dilyn cynnal asesiad o'r effaith tebygol ar y gymuned, daethpwyd i'r casgliad y gallai'r cynnig arfaethedig arwain at beth effaith negyddol ar y gymuned. Wrth gydnabod yr effaith negyddol y gallai cau'r ysgol ei gael ar gymuned Nantlle, nodir bod 62.5% o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn dewis mynychu Ysgol Talysarn. Credir felly bod cyswllt eisoes yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ardal ehangach. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, bydd cyfle i adeiladu ar y cysylltiadau rhwng y gymuned yn Nantlle ac Ysgol Talysarn drwy gynnal trafodaethau fyddai'n hybu cynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgarwch cymunedol yr ysgol.
Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.	Mae'r Gymraeg yn gryf yn nghymuned Talysarn a Nantlle. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu bydd dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Gymraeg. Byddai gan ddysgwyr fynediad at gyflenwad uwch yn nhermau staffio a byddent yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion o'r un oedran fyddai'n cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth. Gall cyflwyno'r opsiwn arfaethedig olygu y byddai dysgwyr Baladeulyn yn llai tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol gyda'u cyfoedion yn yr ysgol a thu hwnt i oriau ysgol.	Yn dilyn cynnal asesiad o'r effaith tebygol ar yr iaith Gymraeg, daethpwyd i'r casgliad y gallai'r cynnig arfaethedig arwain at beth effaith positif a negyddol ar yr iaith Gymraeg. Wrth gydnabod yr effeithiau y gallai cau'r ysgol ei gael ar y Gymraeg, pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, credir bod cyfle i adeiladu ar waith y Siarter Iaith er mwyn hybu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg yr holl ddysgwyr.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.	Ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.	Dim effaith

4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

Egwyddorion Datblygu cynaliadwy	A yw'r cynnig yn ystyried yr egwyddor?
Tymor Hir Cydbwyso anghenion tymor byr gyda rhai hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol.	Mae'r patrwm o niferoedd dysgwyr yn gostwng wedi bod yn gyson ers 2016, gyda rhagamcanion yn dangos y bydd niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn lleihau ymhellach dros y blynyddoedd nesaf, ac felly dengys y bydd yr heriau presennol sydd yn wynebu'r ysgol yn rhai hir dymor, ac felly mae'r achos dros newid yn glir.
Atal Neilltuo adnoddau ar gyfer atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Byddwn yn rhoi sylw i broblemau drwy atal ac ymyrryd yn fuan yn hytrach na thrwy ymateb.	Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu gweithredu ymhellach, bydd anghenion y dysgwyr yn flaenoriaeth yn ystod pob cam o unrhyw broses.
Integreiddio Cael effaith gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant.	Bu i'r awdurdod benderfynu cychwyn y broses o edrych ar ddyfodol Ysgol Baladeulyn yn sgil sefyllfa argyfyngus sy'n wynebu'r ysgol.
Cydweithredu Gweithio gyda phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaethau.	Bydd cydweithio gydag adrannau perthnasol eraill a'r ysgol amgen yn rhan bwysig o gyflawni'r amcanion er lles yr ysgol a phlant y dalgylch.
Cynnwys (Cyfathrebu ac Ymgysylltu) Cynnwys pobl Gwynedd wrth geisio gwireddu ein cynllun a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal.	Yn unol â phenderfyniad y Cabinet (11 Chwefror 2025), sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol Baladeulyn (PAY) gan wahodd y Corff Llywodraethol, rhieni a staff a'r Aelod Lleol i ymuno â'r panel a chymryd rhan yn y drafodaeth. Cynhaliwyd tri chyfarfod PAY rhwng Mawrth 2025 ac Gorffennaf 2025 i drafod ystod o opsiynau i geisio ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu. Pe byddai Cabinet Cyngor Gwynedd yn penderfynu symud ymlaen i ymgynghori ar y cynnig arfaethedig yna bydd yr awdurdod yn cynnal ymgynghoriad statudol gyda rhan-ddeiliaid megis rhieni, staff, undebau a'r gymuned ehangach. Bydd yr ymgynghoriad hwn hefyd yn cynnwys ymgynghoriad penodol gyda plant a phobl ifanc.

5. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion.

Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig arfaethedig hwn, gall arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle, fodd bynnag mae nifer helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn, ac felly mae cyswllt rhwng yr ysgolion a chymuned yr ysgol honno yn bodoli eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y gymuned ac Ysgol Talysarn. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Talysarn yn cynnwys y gymuned lle'n briodol.

Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

Asesu'r Effaith ar Bobl Gwynedd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010.** Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
 - o ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
 - o hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
 - o meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.
- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.
- **Deddf Lluedd Arfog 2021.** Rhaid i Gyngorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

Ysgol Baladeulyn

Awdur: Gwern ap Rhisiart

Dyddiad: Medi 2025

Fersiwn: 1

CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?

- Polisiâu, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu rai sy'n cael eu hadolygu (sy'n golygu newid yn narpariaeth y gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)

2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Ceisir caniatâd Cabinet y Cyngor i gynnal ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

Mae Ysgol Baladeulyn wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd dysgwyr yr ysgol wedi gostwng yn gyson dros y blynyddoedd diweddar ac yn fregus ers peth amser. O ganlyniad, mae'n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys:

- **Niferoedd dysgwyr** – Yng nghyfrifiad Medi 2025, dim ond 6 disgybl llawn amser oedd yn mynychu'r ysgol gyda 2 blentyn yn y Dosbarth Meithrin. Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 55 o ddysgwyr Derbynn i Flwyddyn 6 (+7 yn y Dosbarth Meithrin).
- **Dysgwyr y dalgylch** – Dengys data Medi 2025 mai dim ond 25% o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn sy'n dewis mynychu'r ysgol. Mae 75% o ddysgwyr y dalgylch yn dewis mynychu ysgolion all-dalgylch.
- **Rhagamcanion niferoedd** – Mae rhagamcanion niferoedd (yn cynnwys y Dosbarth Meithrin) yn argymhell bydd y niferoedd yn parhau'n fregus i'r dyfodol: Medi 2026= 8; Medi 2027 = 8; Medi 2028= 7

- **Canran uchel o lefydd gweigion** – Yn seiliedig ar ffigyrau Medi 2025, mae oddeutu 89% o lefydd gweigion (42 mewn nifer).
- **Maint dosbarthiadau bychain** – Mae 2 ddosbarth yn Ysgol Baladeulyn (Medi 2025) gydag un dosbarth yn cwrdd yn y bore gyda 3 dysgwr (yn cynnwys 2 meithrin), a'r ailddosbarth gyda 3 dysgwr blwyddyn Derbyn i Blwyddyn 6.
- **Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau** – Mae amrediad oedran o 3 blynedd yn un dosbarth a 7 mlynedd yn yr ail ddosbarth.
- **Cyllid ychwanegol i'r dyraniad** - Mae Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ymhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Cyfanswm y swm ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol 2025-26 (seiliedig ar niferoedd Medi 2024) oedd £56,781 **Cost fesul dysgwr** – Cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Baladeulyn yn 2025-26 yw £14,953 o gymharu a'r cyfartaledd sirol o £5,780.

3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?

- Staff, Llywodraethwyr a Rhieni/Gwarchodwyr Ysgol Baladeulyn
- Pe byddai'r Cabinet yn cefnogi'r argymhelliad i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig arfaethedig, byddwn yn ymgynghori gyda'r holl ymgynghorai a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion,
- Adran Addysg a Swyddogion adrannau eraill Cyngor Gwynedd

CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?

Oes

Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud

Gweithrediad	Dyddiadau	Gwybodaeth
Panel Adolygu Baladeulyn 1	17 Mawrth 2025	Sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol (PAY) Baladeulyn ym mis Mawrth 2025 a chynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhwng mis Mawrth a Gorffennaf 2025, gyda'r olaf ar y 7fed o Orffennaf 2025. Roedd aelodaeth y PAY yn cynnwys pennaeth a staff yr ysgol, llywodraethwyr, yr Aelod Lleol, rhieni/gwarchodwyr.
Panel Adolygu Baladeulyn 2	19 Mai 2025	
Panel Adolygu Baladeulyn 3	7 Gorffennaf 2025	
		Yn ystod y cyfarfodydd, ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd dalgylch Ysgol Baladeulyn er mwyn

		sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol, gan ymateb yn benodol i'r niferoedd isel o ddysgwyr.

5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?

	Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol	Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol
Hil	Mae gan ysgolion Gwynedd bolisiau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisiau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r Polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol. Yn ogystal, fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn <i>"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i> Ni ragwelir felly y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith negyddol ar y nodwedd yma.	Dim
Anabledd	Ni rhagwelir y byddai'r newid yn cael effaith negyddol ar y nodwedd yma. Byddai asesiad o unrhyw ysgolion amgen perthnasol ar sail hygyrchedd yn cael ei gynnal a byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw gludiant fydd ei angen yn addas ar gyfer anghenion yr unigolyn. Bydd anghenion unrhyw blentyn anabl yn cael eu hystyried yn unol â pholisiau Hygyrchedd a Chydraddoldeb yr Adran Addysg.	Dim
Rhyw	Ni fyddai gweithredu y cynnig arfaethedig yn effeithio ar y nodwedd yma. Bydd gweithredu y cynnig yn golygu fod pawb yn parhau i gael eu trin yn ôl eu hangen beth bynnag yw eu rhyw. Mae bob ysgol yn gweithredu Polisi Cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:	Dim

	<i>“...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion.”</i>	
Oedran	Pe gweithredir y cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai plant Ysgol Baladeulyn yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol yn eu dosbarth gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Talysarn, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas i'w hoedran ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol. Credwn y byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy addas i'w hoedran yn yr ysgol amgen gyfagos oherwydd bydd y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol, ynghyd â gwersi wedi'u gwahaniaethu yn briodol ar gyfer yr ystod oedran. Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn golygu fod pobl o unrhyw oedran yn cael eu trin yn deg ac yn ôl eu hangen. Mae Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn: <i>“...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion.”</i>	Positif
Crefydd a Chred	Ysgolion cymunedol yw Ysgol Baladeulyn a'r ysgol amgen a nodir yn y cynnig arfaethedig (Ysgol Talysarn). Mae gan bob ysgol Bolisi Cynhwysiad a fyddai'n delio ag unrhyw ddigwyddiad gwahaniaethol a allai godi yn yr ysgol, sy'n gysylltiedig â chrefydd neu gred. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar y nodwedd hwn.	Dim
Cyfeiriadedd Rhywiol	Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei gyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, sy'n greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi.	Dim

	Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau. Credwn y bydd dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd a dysgu yn gydweithredol fel rhan o ddosbarth mwy mewn ysgol amgen. Ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar bobl ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Mae Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn, yr ysgol amgen arfaethedig, yn gweithredu polisi cydraddoldeb sy'n nodi fod yr ysgol yn: <i>"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i>	
Ail-bennu rhywedd	Ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar bobl ar sail ailbennu rhywedd. Fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd gan gynnwys Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn fod yr ysgolion yn <i>"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i>	Dim
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar unrhyw un priod neu mewn partneriaeth sifil, gan fod y ddwy ysgol sy'n rhan o'r cynnig arfaethedig yn gweithredu'r un polisiâu.	Dim
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar unrhyw un beichiog, boed yn staff neu yn riant, gan fod y ddwy ysgol sy'n rhan o'r cynnig arfaethedig yn gweithredu'r un polisiâu.	Dim
Iaith Gymraeg	Yr un yw nod Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd y sir, ac mae pob ysgol gynradd (namyn un ysgol) yn disgyn i gategori 3 yn unol â chanllaw categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg, Llywodraeth Cymru. Golyga hyn y bydd dysgwyr Ysgol Baladeulyn, yn gallu parhau i dderbyn eu haddysg yn Gymraeg a dwyieithog yn unol â'r Polisi Iaith Addysg yn Ysgol Talysarn. Rhagwelir pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu y byddai gan ddysgwyr fynediad at gyflenwad uwch yn nhermau staffio a byddent yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion o'r un oedran, fyddai'n cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y dosbarth. Fodd bynnag, rhagwelir y gallai'r cynnig effeithio'n	Negyddol / Positif

	negyddol ar ddefnydd cymdeithasol dysgwyr Baladeulyn o'r Gymraeg gan fod llai o ddysgwyr Ysgol Talysarn yn rhugl yn y Gymraeg. Mae'r ysgol amgen arfaethedig, sef Ysgol Talysarn yn gwasanaethu ardaloedd sydd yn gadarnle i'r iaith Gymraeg. Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, rhagwelir hefyd y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio, ac o ganlyniad, y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol yn deillio o wireddu'r cynnig, gan na fydd rhieni/gwarchodwyr /teuluoedd yn cyfarfod yn ddyddiol yn y gymuned wrth ollwng/casglu plant o'r ysgol.	
Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol	Rhagwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn lleihau anfantais cymdeithasol drwy sicrhau mwy o brofiadau ac amrywiaeth dysgu, mwy o adnoddau a mynediad at fwy o wasanaethau a gweithgareddau.	Positif
Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghyd a'u Teuluoedd	Ni ragwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog, ynghyd â'u teuluoedd. Bydd plant i deuluoedd milwrol neu gyn-filwrol yn cael yr un chwarae teg pa bynnag ysgol mae nhw'n mynychu.	Dim
Hawliau Dynol	Ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn cael effaith ar hawliau dynol.	Dim
Arall	-	-

6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?

Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu cefnogi'r argymhelliad i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig arfaethedig, byddwn yn diweddarau'r holl asesiadau yn dilyn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad arfaethedig.

7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw bolisiâu arfaethedig fydd yn effeithio ar blant a phobl ifanc yr ardal.

8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?

Ni rhagwelir y bydd y cynnig arfaethedig yn cael effaith ar ddyletswydd statudol yr ysgol i amddiffyn dysgwyr rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth.

Anelir i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a hybu'r ysgol amgen arfaethedig i barhau i ddilyn polisiau a gweithdrefnau cydraddoldeb. Pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd cyfartal wrth gael eu lleoli yn Ysgol Talysarn gan y byddai'r dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sy'n seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol, ynghyd â gwersi wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran.

Gan fod nifer o ddysgwyr sy'n byw yn nalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu Ysgol Talysarn mae cysylltiad rhwng yr ysgol a'r gymuned yn bodoli eisoes. Er hynny, pe gweithredir y cynnig arfaethedig, fe hyrwyddir cyfleon i'r ysgol adeiladu ar ei chysylltiadau presennol gyda dalgylch Ysgol Baladeulyn.

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei chyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, sy'n greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosïynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau. O weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd a dysgu yn gydweithredol fel rhan o ddosbarth mwy.

9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)

Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn lleihau yr anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau fod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at fwy o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen. Rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy cyfartal gan y byddai y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sy'n seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

Drwy weithredu'r cynnig arfaethedig, byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn cael gwell amgylchfyd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr o'r un oedran, a byddai'n sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg. Rhagwelir y byddai dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i

fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Ein disgwyliadau yw bod holl ddysgwyr y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys a gallu perthnasol er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Bydd angen i'r cynigion ar gyfer newid trefniadau lleol gymryd ystyriaeth lawn o'r holl effeithiau ieithyddol. Bydd cynnal a chynyddu defnydd o'r Gymraeg fel iaith addysgol a chymdeithasol ymhlith y dysgwyr yn ystyriaeth allweddol wrth lunio'r cynnig.

Yr un yw nod Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd y Sir, ac mae pob ysgol gynradd (namyn un ysgol) yn disgyn i gategori 3 yn unol â chanllaw categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru. Golyga hyn y bydd dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn gallu parhau i dderbyn eu haddysg yn Gymraeg a dwyieithog yn unol â'r Polisi Iaith Addysg yn Ysgol Talysarn, pe gweithredir y cynnig arfaethedig.

Ni ragwelir y byddai effaith negyddol pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, ac mae'n debygol y bydd y cynnig arfaethedig yn cael effaith bositif ar y Gymraeg wrth i ddysgwyr Ysgol Baladeulyn elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol.

Fel y gwelir o'r tabl isod mae canran uchel o ddysgwyr y 2 ysgol yn siarad Cymraeg gartref:

Ysgol	Siarad Cymraeg yn rhugl gartref	Ddim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl	Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl	Ddim yn siarad Cymraeg gartref a nid yn rhugl	Ddim yn gallu siarad Cymraeg o gwbl
Baladeulyn	55%	0%	27%	18%	0%
Talysarn	39%	3%	16%	18%	24%
Cymraeg Rhugl		Ychydig o Gymraeg		Dim Cymraeg	

Pe gweithredir y cynnig arfaethedig rhagwelir y bydd digon o le yn Ysgol Talysarn i unrhyw ddysgwyr o ddalgylch Ysgol Baladeulyn i'r dyfodol.

Dengys yr asesiad y rhagwelir peth effaith negyddol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn. Cydnabyddir y byddai cau Ysgol Baladeulyn yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle, fodd bynnag nodai'r asesiad fod cyfran helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn, ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Ysgol Baladeulyn yn bodoli eisoes

Pe byddai'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Talysarn. I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Nantlle yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng Ysgol Baladeulyn a chymuned Nantlle, lle'n briodol. Yn ogystal, gall yr Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Talysarn ystyried dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol.

11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion.

Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig arfaethedig hwn, gall arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle, fodd bynnag mae nifer helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn, ac felly mae cyswllt rhwng yr ysgolion a chymuned yr ysgol honno yn bodoli eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Talysarn. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Talysarn yn gynnwys y gymuned lle'n briodol.

Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?

Na

CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?

Effaith Gadarnhaol Sylweddol:

Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy cyfartal wrth gael eu lleoli mewn ysgol amgen oherwydd bydd y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sydd yn seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol, ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

Drwy weithredu'r cynnig arfaethedig, byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn cael gwell amgylchfyd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr yr un oedran, bydd yn sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg, ac yn caniatáu mynediad at fwy o weithgareddau pberthnasol i'w lefel gallu. Byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

Effaith Negyddol Sylweddol:

Cydnabyddir y gall yr opsiwn arfaethedig sydd yn cael ei gynnig gael effaith ar sefydliad o fewn y gymuned a chael effaith ar gydlyniant cymunedol, a rhagwelir yr angen i liniaru hyn drwy feithrin cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r gymuned.

Yr ysgol (a'u Corff Llywodraethu) sydd yn gyfrifol am weithredu ei pholisi cydraddoldeb a bydd yr Awdurdod, drwy ei weithdrefnau cefnogi a monitro arferol yn sicrhau cydymffurfiaeth.

14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol

Na

15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?

Ddim yn berthnasol.

Noder y rheswm dros ddweud hynny a'r cyfiawnhad dros barhau

Ddim yn berthnasol.

16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?

Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen i ymgynghori ar y cynnig arfaethedig, yna byddwn yn monitro ymateb yr ymgynghoriad er mwyn gweld os oes unrhyw newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi.

17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?

Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn lleihau yr anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau fod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at fwy o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen. Byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy cyfartal gan y byddai'r dysgwyr yn derbyn

profiadau dysgu sy'n seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

Drwy weithredu'r cynnig arfaethedig, byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn cael gwell amgylchfyd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr yr un oedran, a byddai'n sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg. Byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Rhagwelir y byddai'r cynnig arfaethedig yn cael effaith bositif ar y Gymraeg gan y byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol.

Pe byddai'r ysgol yn cau, gallai'r Awdurdod Lleol a Chyrff Llywodraethol yr ysgolion amgen ystyried dulliau i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn gymdeithasol trwy gyfrwng gweithgareddau allgyrsiol a chymunedol.

19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?

Oes

CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:

Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol.

CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisiâu/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi

gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu [Fframwaith Fesur](#)

21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:

Gweithrediad	Dyddiadau	Amserlen	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth
Ymgynghori yn statudol ar y cynnig (yn ddibynnol ar benderfyniad y Cabinet)	Tymor yr Hydref	42 diwrnod	Adran Addysg	Na

22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:

Trefniadau Monitro ac Adolygu (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi)	Amserlen ac Amllder	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth
Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei wireddu, byddwn yn monitro effaith cau'r ysgol ac yn ymdrechu i gynorthwyo gydag unrhyw effaith negyddol all ddeillio o ganlyniad y polisi.	Parhaol	Adran Addysg	Na

Pecyn Cefndirol

Ysgol Baladeulyn

Cynnwys	
1	Cyfarfod Lleol 1 – 17 Mawrth 2025
	Cyflwyniad
	Cofnodion y cyfarfod
2	Cyfarfod Lleol 2 – 19 Mai 2025
	Cyflwyniad
	Cofnodion y cyfarfod
3	Cyfarfod Lleol 3 – 7 Gorffennaf 2025
	Cyflwyniad
	Cofnodion y cyfarfod
4	Crynodeb o'r mewnbwn yn dilyn Cyfarfodydd Lleol

PANEL ADOLYGU YSGOL BALADEULYN

YSGOL BALADEULYN REVIEW PANEL

17 Mawrth 2025

17 March 2025



Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

1

AGENDA

1. Croeso

2. Sefyllfa Bresennol

3. Ystyriaethau

4. Opsiynau Posib

5. Camau Nesaf

6. Cloi

1. Welcome

2. Current Situation

3. Considerations

4. Possible Options


5. Next Steps

6. Close




Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

2



3



4

SEFYLLFA BRESENNOL – RHAGAMCANION/ CURRENT SITUATION – PROJECTIONS

	Blwyddyn								Cyfanswm	
	M	0	1	2	3	4	5	6	Meithrin	Derbyn-BI.6
Ionawr 2025	0	2	1	0	2	3	1	4	0	13
Rhagamcanion Medi 2025	2	0	2	1	0	2	3	1	2	9
Rhagamcanion Medi 2026	1	2	0	2	1	0	2	3	1	10
Rhagamcanion Medi 2027	1	1	2	0	2	1	0	2	1	8



5

SEFYLLFA BRESENNOL – DYSGWYR Y DALGYLCH CURRENT SITUATION – CATCHMENT PUPILS

		Byw yn Dalgylch (Medi 2024)							Arall	Cyfanswm Ysgol (M-BI6)
		Bro Lleu 2089	Brynaerau 2017	Llanllyfni 2070	Nebo 2081	Talysarn 2108	Baladeulyn 2078	Bro Llifton 2229		
Mynychu Ysgol (Medi 2024)	Bro Lleu						1			
	Brynaerau						0			
	Llanllyfni						0			
	Nebo						0			
	Talysarn						7			
	Baladeulyn	2	3	0	0	4	4	0	0	13
	Bro Llifton						1			
Cyfanswm							14			

Meddalwedd GIS y Cyngor (System Gwybodaeth Ddaearyddol), yn nodi mai dim ond 14 dysgwr oed cynradd sydd yn byw yn nalgylch Ysgol Baladeulyn. Er hyn, dim ond 4 sydd yn dewis mynychu'r ysgol, gyda 9 o'r dysgwyr yn mynychu ysgolion cynradd eraill yn nalgylch Dyffryn Nantlle, ac 1 yn teithio'n all-dalgylch.

The Council's GIS software (Geographical Information System) shows that only 14 primary age learners live in the catchment area of Ysgol Baladeulyn. Despite this, only 4 choose to attend the school, with 9 of the learners attending other primary schools in the Dyffryn Nantlle catchment area, and 1 travelling outside the catchment area.



6

SEFYLLFA BRESENNOL – CYLLIDEB YR YSGOL (2024/25)/ CURRENT SITUATION – SCHOOL BUDGET (2024/25)

	Ysgol Baladeulyn	Cyfartaledd Sirol County Average
Dyraniad Craidd 2024-2025 Allocation 2024-2025	£175,744	-
Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio* Minimum Staffing Protection*	£77,659	-
Cyfanswm Dyraniad Total Allocation	£237,914	-
Cyfartaledd y Disgybl Average per Pupil	£14,982	£5,223

**Mae'r polisi gwarchodaeth yn sicrhau o leiaf pennaeth ac athro/athrawes ym mhob ysgol gyda mwy na 15 disgybl, a pennaeth a chymhorthydd dosbarth mewn ysgolion gyda llai na 15 disgybl.

**The minimum staffing protection policy ensures a minimum of headteacher and teacher at every school which has more than 15 pupils, and a headteacher and a classroom assistant in a school with fewer than 15 pupils.



7

SEFYLLFA BRESENNOL – STRWYTHUR STAFFIO CURRENT SITUATION – STAFF STRUCTURE

Mae strwythur staffio presennol Ysgol Baladeulyn yn cynnwys pennaeth llawn amser, 2 athro rhan amser (3 diwrnod yr un) a chyfwerth â 55 awr o gymorthyddion dysgu.

Trwy Polisi Gwarchodaeth Cyngor Gwynedd, gwarantir isafswm lefel staffio o bennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser. Gan fod llai na 15 o ddysgwyr llawn amser ar y gofrestr ym Medi 2024, bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar gyllideb yr ysgol o Ebrill 2025 ymlaen. Fel mae'r sefyllfa ar hyn o bryd, mae'n bosib bydd yr ysgol angen lleihau lefelau staffio'r ysgol erbyn Medi 2025 gyda gwarchodaeth lleiafswm staff yn caniatáu cyllid ar gyfer pennaeth a chymhorthydd dysgu yn unig o Ebrill 2025.

The current staffing structure of Ysgol Baladeulyn includes a full-time headteacher, 2 part-time teachers (3 days each) and the equivalent of 55 hours of teaching assistants.

Through the Cyngor Gwynedd Protection Policy, a minimum staffing level of a headteacher and assistant is available in schools with less than 15 full-time learners. As there was less than 15 full-time learners on the register in September 2024, this will have a significant impact on the school's budget from April 2025 onwards. As things stand, the school may need to reduce the school's staffing levels by September 2025 with the minimum teaching staff protection allowing financing for only a headteacher and a teaching assistant from April 2025.

8

CRYNHOI PRIF HERIAU'R SEFYLLFA BRESENNOL / SUMMARY OF THE MAIN CHALLENGES OF THE CURRENT SITUATION

1	Nifer disgyblion yr ysgol yr ail-isaf yn y sir <i>The number of pupils at the school is the second lowest in the county</i>
2	Rhagamcanion yn parhau yn isel <i>Projections remain low</i>
3	Nifer uchel o lefydd gweigion <i>High number of surplus places</i>
4	Maint dosbarthiadau bychain iawn <i>Very small class sizes</i>
5	Amrediad ystod oed eang o fewn dosbarthiadau <i>Broad age range within classes</i>
6	Cost y disgybl ymysg yr uchaf yn y sir a sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol <i>Cost per pupil amongst the highest in the county and significantly higher than the county average</i>
7	Ysgol yn derbyn swm ychwanegol o £77,659 (Medi 2024) trwy'r gwarchodaeth staffio <i>School receives an additional £77,659 (September 2024) through the minimum staffing protection</i>



9

YSTYRIAETHAU CONSIDERATIONS

Wrth lunio a chymharu opsiynau, byddwn yn rhoi ystyriaeth i sawl ffactor, gan gynnwys:
In formulating and comparing options, we will consider several factors, including:

1	Maint dosbarthiadau / <i>Class sizes</i>
2	Niferoedd disgyblion / <i>Pupil numbers</i>
3	Arweinyddiaeth a Staffio / <i>Leadership and Staffing</i>
4	Y Gymuned / <i>The Community</i>
5	Adnoddau ariannol / <i>Financial resources</i>
6	Yr iaith Gymraeg / <i>The Welsh language</i>
7	Ansawdd addysg / <i>Quality of education</i>
8	Cyflwr ac addasrwydd adeiladau / <i>Condition and suitability of the building</i>
9	Daearyddol a teithio / <i>Geographical and travel</i>



10

OPSIYNAU POSIB / POSSIBLE OPTIONS

1	Status Quo – Parhau efo'r sefyllfa bresennol. <i>Status Quo – Continue with the current situation.</i>
2	Ffedereiddio Ysgol Baladeulyn gydag ysgol cyfagos. <i>Federating Ysgol Baladeulyn with a neighboring school.</i>
3	Cau Ysgol Baladeulyn o a chynnig lle i'r disgyblion yn yr ysgol agosaf. <i>Close Ysgol Baladeulyn and offer pupils at the nearest school.</i>



11

CAMAU NESAF/ NEXT STEPS

Camau Nesaf / <i>Next Steps</i>	Dyddiad / <i>Date</i>
Dyddiad cau ar gyfer derbyn unrhyw opsiynau / sylwadau pellach <i>Closing date for receiving any further options / comments</i>	28/3/2025
Cyfarfod Panel Adolygu 2 <i>Review Panel Meeting 2</i>	7/4/2025



12

Panel Adolygu Ysgol Baladeulyn

Addysg

Cyfarfod:	Panel Adolygu Ysgol Baladeulyn 1	Dyddiad/Amser/Lleoliad: Dydd Llun, 17 Mawrth 2025 am 18:00 yn Ysgol Baladeulyn
Presennol:	Rhieni, Llywodraethwyr a Staff Ysgol Baladeulyn (wedi'w gofnodi ar y gofrestr); Dafydd Pritchard, Pennaeth Ysgol Baladeulyn (DP); Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Adran Addysg (GapRh); Cynghorydd Dewi Jones, Aelod Cabinet Addysg (DJ); Gareth Richard Jones, Swyddog Moderneiddio Addysg (GRJ); Enid Warren (EW)(cofnodi)	

Cofnod Llawn		
1	Croeso ac Ymddiheuriadau	- Croesawodd DP bawb i gyfarfod y Panel Adolygu Ysgolion a diolchodd i'r staff, llywodraethwyr a rhieni am eu cefnogaeth. Nodwyd bod swyddogion y Cyngor yn bresennol i drafod sefyllfa bresennol yr ysgol. - Derbyniwyd gair o groeso gan y Cyng. Dewi Jones, Aelod Cabinet dros Addysg, a diolchodd i'r mynychwyr am ddod. Pwysleisiodd mai pwrpas y cyfarfod ydi adolygu sefyllfa'r ysgol a'i fod o yno i wrando ar y drafodaeth. - Eglurodd GapRh fod adroddiad wedi'i gyflwyno gerbron y Cabinet yn gofyn am gymeradwyaeth i ddechrau trafodaethau gyda'r ysgol ynglŷn â'r heriau presennol. Eglurodd mai sgwrs gychwynnol ydi'r cyfarfod hwn, gan roi cyfle i randdeiliaid ofyn cwestiynau. Nodwyd y byddai'n gwbl agored ac yn dryloyw, ac ymrwymodd i roi'r ymatebion mwyaf cyflawn posibl i gwestiynau o dan yr amgylchiadau. Aeth drwy'r cyflwyniad gan amlygu rhai heriau amlwg: - Ers 2016, mae nifer y dysgwyr wedi gostwng yn sylweddol. Ar hyn o bryd, mae 42 allan o 55 o lefydd gweigion (76%). Mae llefydd gweigion mewn ysgolion yn gynhennus; mae'r Llywodraeth yn gofyn i adolygu unrhyw ysgol gyda llefydd gweigion o 10%, ond yn Ngwynedd, does dim gormod o sylw i'r mater oherwydd mae llawer o ysgolion dros y trothwy o 10%. - Erbyn Medi 2027, rhagwelir y bydd y nifer y dysgwyr yn gostwng i 8. Mae gan yr ysgol fwy o ddysgwyr ymysg y grwpiau blwyddyn hŷn, gyda llai o blant ifanc yn cofrestru. Mae hyn yn adlewyrchu tuedd o ostyngiad yn niferoedd y dysgwyr. - Mae 14 o blant oed cynradd yn byw yn nalgylch Baladeulyn. Ar hyn o bryd, mae 13 o ddysgwyr yn mynychu Ysgol Baladeulyn, ond dim ond 4 sy'n byw o fewn y dalgylch dynodedig. Daw gweddill y dysgwyr o ddalgylchoedd eraill - Mae rhieni wedi cael yr opsiwn i anfon eu plant i ysgolion y tu allan i'w dalgylch ers gyflwyno rheolau newydd yn 1996. Mae hyn wedi dilyn at batrymau cofrestru amrywiol. - Mae gan ddosbarthiadau'r ysgol ystod oedran eang, sy'n cyflwyno heriau ar gyfer addysgu a dysgu effeithiol. Yn ddelfrydol, dylid grwpio dysgwyr yn ôl oedran a lefel academiaidd. - Mae'r ysgol yn derbyn dyraniad ariannol gan y Cyngor, gan gynnwys gwarchodaeth isafswm i sicrhau lefelau staffio. Mae Ysgol Baladeulyn wedi elwa o'r drefn diogelu hwn ers peth amser. - Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn cyflogi 1 pennaeth llawn amser a 2 athro rhan amser. O dan y polisi ar gyfer ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr, bydd angen i'r llywodraethwyr a'r pennaeth adolygu'r strwythur staffio ar gyfer Medi 2025. - Wrth werthuso a chymharu opsiynau posibl ar gyfer yr ysgol, rhaid rhoi sylw i'r holl ffactorau perthnasol yn y cyflwyniad. Bydd y Cyngor yn asesu nifer o ffactorau a allai effeithio ar yr opsiynau hyn. - Mae'r cyflwyniad eisoes wedi amlygu sawl opsiwn posib: cynnal y sefyllfa bresennol, sefydlu ffederasiwn gydag ysgol arall (ystyriaeth allweddol gan mai ysgol wledig yw hon) neu gau'r ysgol a chynnig lle i ddysgwyr mewn ysgol cyfagos arall.

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

www.gwynedd.gov.uk

		• Bydd yr opsiynau hyn yn sail i adroddiadau a gyflwynir i'r Cabinet, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. • Nodwyd os oes gan unrhyw un opsiynau eraill i'w cyflwyno, i wneud hynny erbyn 24 Mawrth 2025. <i>*Diwedd y cyflwyniad*</i> • Teimlodd rhai mynychwyr fod yr amserlen yn rhy dynn ar gyfer cyflwyno opsiynau. Cydnabuwyd hyn ac estynnodd GapRh y dyddiad cyflwyno i 31 Mawrth, 2025. • Cododd un mynychwr bryder ynghylch dibynnu ar geisiadau FOI cyn cyflwyno opsiynau. Cytunodd GapRh i edrych ar y ceisiadau ar fyrder, ond eglurodd y byddai unrhyw bryderon yn cael eu hadlewyrchu o fewn yr asesiadau effaith, fyddai'n atodiad i'r Adroddiad Cabinet yn dilyn ymgynghoriad llawn. • Nodwyd hefyd nad oedd sylwadau'r Aelod Lleol wedi'u cynnwys yng nghofnodion y Cabinet. Cadarnhaodd GapRh fod y sylwadau wedi'u cofnodi ar waelod yr Adroddiad o fewn rhaglen y Cabinet. • Codwyd pryder am leoliad yr ysgol, gan ei bod wedi ei leoli ar ffin y Parc Cenedlaethol, ac ei bod yn awyddus i'r Cyngor edrych ar ysgolion cynradd eraill o fewn ffin y Parc Cenedlaethol, ac effaith y lleoliad arnynt. • Mynegodd mynychwr arall bwysigrwydd lleoliad yr ysgol, gan bwysleisio'r golygfeydd hardd sydd o'i chwmpas hi. • Nododd DP fod data a ffigyrau'r ysgol yn glir, ac y dylai'r ffocws nawr fod ar gynnig atebion hyfyw. • Nododd GapRh ei fod yn cydnabod y teimladau cryf ynghylch y mater ond pwysleisiodd yr angen i ddilyn y broses gywir. • Bydd Swyddogion y Cyngor yn gwerthuso'r holl opsiynau cyn yr ail gyfarfod. Pe byddai'r Cabinet yn cymeradwyo ymgynghoriad llawn ar yr opsiynau, bydd cyfleoedd i fynychwyr rannu eu barn a'u pryderon. • Gofynnwyd be fyddai'r amserlen pe byddai'r ysgol yn cau? Gallai'r broses lawn cymryd hyd at 18 mis, ond ni ddylid gwneud unrhyw ragdybiaethau ar hyn o bryd. • Tynnodd un o'r mynychwyr sylw at awyrgylch gartrefol yr ysgol, ei chysylltiad cryf â'r gymuned leol, a'r mantais o ran cynnig cymhareb staff-i-ddysgwr uwch. Roedd GapRh yn cydnabod hyn ond pwysleisiodd yr angen i sicrhau tegwch a chyfleoedd cyfartal ar draws y sir. • Mynegodd mynychwr bryderon am ddiffyg tai fforddiadwy yn y pentref, gyda llawer o eiddo yn dai haf neu'n cael eu gadael yn wag. Credai rhai pe byddai anghenion tai cymdeithasol yn cael eu diwallu, y byddai niferoedd yr ysgol yn codi. Nododd GapRh, er nad yw'r Adran Addysg yn rheoli polisi tai, mae'r gostyngiad yn niferoedd yr ysgol yn ymwneud a diffyg niferoedd plant. Soniodd fod cyfradd genedigaethau Gwynedd ar ei isaf erioed, gan effeithio ar nifer o ardaloedd gwledig a threfol hefyd e.e. Bangor. • Gofynnwyd pe byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, a fyddai'r cyngor yn talu i gludo blentyn i'r ysgol amgen? Eglurodd GapRh byddai'r dalgylch yn uno â dalgylch ysgol gyfagos. Byddai polisi trafnidiaeth y Cyngor yn sicrhau bod plant cymwys yn cael cludiant i'w hysgol newydd. • Gofynnwyd a fyddai hebryngwr yn cael ei ddarparu ar gyfer plant sy'n defnyddio cludiant ysgol. Eglurodd GapRh y byddai hebryngwr yn cael ei ddarparu ar gyfer dysgwyr ag ADY yn unig. • Gofynnodd sut y byddai'r Adran Addysg yn sicrhau bod safbwyntiau plant yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Eglurodd GapRh fod y Côt Trefniadaeth Ysgolion yn gofyn am ymgynghori gyda phlant, a bydd y Cyngor yn ceisio gwneud hyn yn y modd mwyaf sensitif â phosibl. • Ymunodd DJ yn y drafodaeth gan gydnabod pryderon y mynychwyr. Cadarnhaodd y byddai'n pasio eu cwestiynau i Adran Tai'r Cyngor.

		• Tynnodd sylw at ddatblygiadau cadarnhaol diweddar gan y Cyngor, gan gynnwys prynu cartrefi ar gyfer lletya, adeiladu tai cymdeithasol a gweithredu offeryn cynllunio Erthygl 4 (Gwynedd yw'r unig Awdurdod Lleol yng Nghymru sydd wedi cyflwyno hyn). Cyfeiriodd DJ at enghraifft gadarnhaol yn barod, wrth iddo enghreifftio bod 6 tŷ teras yn Nhwtill, Caernarfon (sydd wedi bod yn dai gwyliau yn y gorffennol) wedi eu gwerthu'n lleol ers cyflwyno'r rheol cynllunio. Nododd hefyd fod polisi tai cymdeithasol Cyngor Gwynedd yn llym o ran y gofyn am gysylltiadau lleol. • Gofynnodd a fyddai cyllid yn cael ei ddyrannu ar gyfer dysgwyr ADY yr ysgol? Eglurodd GapRh fod y system gyllido yn symud oddi wrth oriau fesul dysgwyr. Yn lle hynny, mae'r dull newydd yn cyfrifo'r gyllideb ADY yn seiliedig ar fformiwla. Roedd £9 miliwn wedi'i neilltuo ar gyfer y Gwasanaeth ADY eleni ynghyd â buddsoddiad o grant ADY ychwanegol o £800,000. • Pwysleisiodd mynychwr rôl hollbwysig yr ysgol wrth hyrwyddo'r Gymraeg. Gofynnwyd a fyddai asesiad yn cael ei gynnal o effaith newidiadau ar yr iaith a'r gymuned? Cadarnhaodd GapRh y byddai asesiad ieithyddol a chymunedol yn cael ei gynnal. • Gofynnwyd a allai rhieni sy'n gyrru eu plant i Ysgol Talysarn ar hyn o bryd ddewis eu cofrestru yn Ysgol Baladeulyn yn lle hynny? Cadarnhawyd na fyddai ceisiadau yn cael eu gwrthod. • Gofynnwyd beth fyddai'r manteision ac anfanteision ffedereiddio gydag ysgol arall? Eglurodd GapRh fod ffedereiddio yn caniatáu i ysgolion weithredu o dan un arweinyddiaeth, ac yn cryfhau'r cyd-weithio. Fodd bynnag, byddai heriau ariannol ysgolion bach yn parhau. Byddai'r opsiwn ffedereiddio yn cael ei werthuso'n ofalus ochr yn ochr â'r opsiynau eraill. • Gofynnwyd a fyddai asesiadau effaith unigol yn cael eu cynnal ar gyfer pob dysgwr. Eglurodd GapRh y byddai rhieni'n cael y cyfle i gyflwyno manylion perthnasol am sefyllfa benodol eu plentyn yn ystod y broses ymgynghori. • Cododd GapRh bwynt ynglŷn a phwysigrwydd ystyried cyflwr adeilad yr ysgol, gan nodi bod polisi ôl-ddefnydd yr ysgolion yn cynnwys opsiwn i gynnig yr hen adeilad ysgol i'r gymuned. • Gan ddod a'r drafodaeth i gasgliad, nododd DJ nad yw hyn yn brofiad braf i neb. Nododd ei fod yn cytuno efo llawer o bryderon y mynychwyr heno. Efallai na fydd cytuno bob tro, ond pwysleisiodd bwysigrwydd i gydweithio drwy'r heriau. Ategodd GapRh yr hyn ddywedodd DJ gan ddiolch am y cwestiynau. • Diolchodd DP i swyddogion y Cyngor a DJ. Nododd fod y drafodaeth heno wedi adlewyrchu'r teimladau cryf sydd ymysg rhanddeiliaid yr ysgol, a gwerthfawrogodd nad oes ymateb i pob cwestiwn. Atgoffodd y mynychwyr bod hyn yn gyfle i gynnig opsiynau amgen, ac fe'u hanogir i gyflwyno eu syniadau iddo ef ei basio ymlaen i'r Cyngor.

PANEL ADOLYGU YSGOL GYNRADD BALADEULYN

YSGOL GYNRADD BALADEULYN REVIEW MEETING

19 Mai 2025
19 May 2025



1

AGENDA

1. Croeso	1. <i>Welcome</i>
2. Crynhoi Prif Heriau	2. <i>Summary of Main Challenges</i>
3. Ystyriaethau	3. <i>Considerations</i>
4. Opsiynau Posib	4. <i>Possible Options</i>
5. Dadansoddiad SWOT	5. <i>SWOT Analysis</i>
6. Camau Nesaf	6. <i>Next Steps</i>



2

CRYNHOI PRIF HERIAU'R SEFYLLFA BRESENNOL / SUMMARY OF THE MAIN CHALLENGES OF THE CURRENT SITUATION

1	Nifer disgyblion yr ysgol yn ail isaf yn y sir <i>The number of pupils at the school is the second lowest in the county</i>
2	Rhagamcanion yn parhau yn isel <i>Projections remain low</i>
3	Nifer uchel o lefydd gweigion <i>High number of surplus places</i>
4	Maint dosbarthiadau bychain <i>Small class sizes</i>
5	Amrediad ystod oedran eang o fewn dosbarthiadau <i>Broad age range within classes</i>
6	Cost y disgybl ymysg yr uchaf yn y sir a sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol <i>Cost per pupil amongst the highest in the county and significantly higher than the county average</i>
7	Ysgol yn derbyn swm ychwanegol o £77,659 (Medi 2024) trwy'r gwarchodaeth staffio <i>School receives an additional £77,659 (September 2024) through the minimum staffing protection</i>



3

YSTYRIAETHAU / CONSIDERATIONS

Wrth lunio a chymharu opsiynau, byddwn yn rhoi ystyriaeth i sawl ffactor, gan gynnwys:
In formulating and comparing options, we will consider several factors, including:

1	Maint dosbarthiadau / <i>Class sizes</i>
2	Niferoedd disgyblion / <i>Pupil numbers</i>
3	Arweinyddiaeth a Staffio / <i>Leadership and Staffing</i>
4	Y Gymuned / <i>The Community</i>
5	Adnoddau ariannol / <i>Financial resources</i>
6	Yr iaith Gymraeg / <i>The Welsh language</i>
7	Ansawdd addysg / <i>Quality of education</i>
8	Cyflwr ac addasrwydd adeiladau / <i>Condition and suitability of the building</i>
9	Daearyddol a teithio / <i>Geographical and travel</i>



4

RHESTR HIR OPSIYNAU / LONG LIST OF OPTIONS

1	Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol / <i>No change - continue with the current situation</i>
2	Ffederaleiddio gyda ysgol cyfagos / <i>Federation with nearby school</i>
3	Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol cyfagos / <i>Close Ysgol Baladeulyn and offer pupils a place at a neighbouring school</i>
4	Ysgol Baladeulyn yn mynd yn ysgol Gristnogol / <i>Ysgol Baladeulyn becomes a Christian school</i>
5	Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn / <i>Merger of local schools in order to maintain Ysgol Baladeulyn</i>
6	Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn / <i>Addition of a specialist area for children with special needs at Ysgol Baladeulyn</i>
7	Ffederaleiddio gyda ysgol arall gan ychwanegu ardal arbennigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn / <i>Federation with another school and addition of a specialist area for children with special needs at Ysgol Baladeulyn</i>



5

DIYSTYRU OPSIWN / DISCOUNTED OPTION

Mae'r opsiwn canlynol wedi cael eu diystyru gan nad ydi o yn cyd fynd gyda chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion / The following option has been discounted as it doesn't adhere to the School Organisation Code

4	Ysgol Baladeulyn yn mynd yn ysgol Gristnogol / Ysgol Baladeulyn becomes a Christian school	Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) yn nodi: Caiff cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir wneud cynigion i newid categori eu hysgol. Fodd bynnag, dylid nodi na cheir gwneud unrhyw newid i ysgol a gynhelir sy'n newid ei chymeriad crefyddol dynodedig neu sy'n peri bod iddi wedyn gymeriad crefyddol dynodedig nad oedd iddi cynt, neu ei bod yn colli ei chymeriad crefyddol dynodedig. Ni chaniateir cymeriad crefyddol i ysgolion cymunedol. Nid yw hi'n bosibl i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr, ysgolion gwirfoddol a reolir nac ysgolion sefydledig, os oes ganddynt gymeriad crefyddol dynodedig, ddod yn ysgolion cymunedol trwy gynnig i newid categori. Yn ogystal â hyn, ni all ysgolion cymunedol ddod yn ysgolion gwirfoddol sydd â chymeriad crefyddol dynodedig. The governing bodies of maintained schools may make proposals to change the category of their school. However, it should be noted that no alteration may be made to a maintained school that changes its designated religious character or causes it to acquire or lose a designated religious character. Community schools are not permitted to have a religious character. It is not possible for voluntary aided, voluntary controlled or foundation schools with a designated religious character to become a community school through a change of category proposal. Similarly community schools cannot become voluntary schools with a designated religious character.



6

OPSIYNAU RHESTR FER DADANSODDIAD SWOT / SHORT LIST OF OPTIONS - SWOT ANALYSIS

Rydym felly wedi cynnal gwerthusiad SWOT i'r 6 opsiwn arall gan gadw mewn cof prif heriau mae'r ysgol yn ei wynebu /
We have therefore carried out a SWOT analysis on the other 6 options giving consideration to the main challenges facing the school

1	Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol / No change - continue with the current situation
2	Ffederaleiddio gyda ysgol cyfagos / Federation with nearby school
3	Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol cyfagos / Close Ysgol Baladeulyn and offer pupils a place at a neighbouring school
5	Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn / Amalgamate local schools in order to maintain Ysgol Baladeulyn
6	Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn / Addition of a specialist area for children with special needs at Ysgol Baladeulyn
7	Ffederaleiddio gyda ysgol arall gan ychwanegu ardal arbennigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn / Federation with another school and addition of a specialist area for children with special needs at Ysgol Baladeulyn

7

1. Dim newid – Parhau hefo'r sefyllfa bresennol / No change – Continue with the current situation

CRYFDERAU / STRENGTHS	GWENDIDAU / WEAKNESSES
Cadw ysgol ac adnodd cymunedol yn Nantlle	Niferoedd yn parhau yn isel.
Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch	Cost y dygwr yn uchel.
Dysgwyr yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3	Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau
Swyddi staff yr ysgol yn parhau (yn ddibynnol ar y dyraniad)	Maint dosbarthiadau bychain yn parhau
Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda	Niferoedd dysgwyr ddim yn ddigon i ganiatáu amser digyswllt i'r Pennaeth.
	Canran uchel o lefydd gweigion yn yr ysgol yn parhau
CYFLEON / OPPORTUNITIES	BYGYTHIADAU / THREATS
Dosbarthiadau bychain yn golygu mwy o sylw i dysgwyr unigol.	Rhagamcanion niferoedd yn parhau yn isel.
Amrediad oedran eang yn y dosbarthiadau yn cynnig cyfle i weithio gyda plant o wahanol oedranau.	Posibilrwydd o ddiffyg yn y gyllideb.
	Costau cynnal a chadw'r adeilad yn parhau
	Canran uchel o blant dalgylch Baladeulyn yn parhau i fynychu ysgolion all dalgylch.
	Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynnaladwydd hir dymor yr ysgol.

8

2. Ffederaleiddio gyda ysgol cyfagos / Federation with a nearby school

CRYFDERAU / STRENGTHS	GWENDIDAU / WEAKNESSES
Cadw ysgol ac adnodd cymunedol yn Nantlle	Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau
Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch.	Maint dosbarthiadau bychain yn parhau.
Dysgwyr yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3	Niferoedd dysgwyr yn parhau yn isel
Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda	Niferoedd ddim yn ddigon i ganiatáu amser digyswllt i'r Pennaeth.
	Llefydd gweigion yn parhau. Dim yn debygol o arwain at gynnydd yn niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn.
	Cost y disgybl yn parhau yn uchel.
CYFLEON / OPPORTUNITIES	BYGYTHIADAU / THREATS
Un Corff Llywodraethol.	Posibilrwydd o ddiffyg yn y gyllideb.
Rhannu adnoddau ac arbenigeddau.	Costau cynnal a chadw'r adeilad yn parhau
Ysgolion yn cefnogi eu gilydd.	Llefydd gweigion sylweddol yn parhau.
Gall model ffurfiol roi strwythur pendant	Rhagamcanion niferoedd dysgwyr yn parhau yn isel.
Dosbarthiadau bychain yn golygu mwy o sylw i dysgwyr unigol.	Canran uchel o blant dalgylch Baladeulyn yn parhau i fynychu ysgolion all dalgylch.
Amrediad oedran eang yn dosbarthiadau yn cynnig cyfle i weithio gyda plant o wahanol oedranau.	Ffederasiwn yn fodel sydd yn ddibynnol ar barodrwydd ysgolion eraill i ymuno â trefniant i gyd-weithio.



9

3. Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i disgyblion y dalgylch mewn ysgol cyfagos / Close Ysgol Baladeulyn and offer pupils from the catchment a place at a neighbouring school

CRYFDERAU / STRENGTHS	GWENDIDAU / WEAKNESSES
Dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy hyfwrdd / addas.	Colli presenoldeb ysgol yn Nantlle
Lleihad yn llefydd gweigion	Pellter teithio pellach o gartref dysgwyr dalgylch Baladeulyn
Llawer o blant dalgylch Baladeulyn yn barod yn mynychu ysgolion cyfagos	Costau cludiant i gludo dysgwyr i ysgol amgen.
Lleihad yng nghost y disgybl.	Dysgwyr i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy.
Gwarchodaeth lleiafswm staffio yn lleihau	Colli'r ymagwedd gynhwysol gadarn sydd yn cael ei gynnal ym mhresennol i gefnogi iechyd a lles.
Ni fyddai rhaid i ddysgwyr deithio pellter afresymol i ysgol gyfagos.	Effaith negyddol posib ar les y dysgwyr presennol.
Ysgolion cyfagos yn cynnig addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3.	
Ansawdd addysg holl ysgolion cyfagos o leiaf gystal a Ysgol Baladeulyn (Arolygon Estyn)	
CYFLEON / OPPORTUNITIES	BYGYTHIADAU / THREATS
Cyfle i ddysgwyr gymysgu yn ddwyddiol gydag eraill o'r un oedran.	Diswyddo staff.
Cymuned ehangach ble gall y plant a'r rhieni elwa ar greu cysylltiadau cryfach rhwng cymunedau.	Posibilrwydd o golli adnodd cymunedol yn y pentref.
Arbed ar gostau cynnal a chadw adeilad	

10

5. Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn / Amalgamate local schools in order to support and maintain Ysgol Baladeulyn

CRYFDERAU / STRENGTHS	GWENDIDAU / WEAKNESSES
Pellter daearyddol rhesymol rhwng ysgolion	Amrediad oedran eang yn parhau yn safle Ysgol Baladeulyn
Cadw ysgol ac adnodd cymunedol yn Nantlle	Maint dosbarthiadau bychain yn parhau yn safle Ysgol Baladeulyn
Ysgolion perthnasol o fewn pellter rhesymol i gartrefi dysgwyr y dalgylch	Niferoedd isel yn Ysgol Baladeulyn yn debygol o barhau
Dim angen cludiant ychwanegol na chostau ynghlwm a hyn	Llefydd gweigion yn parhau. Dim yn debygol o ddenu disgyblion ychwanegol i Ysgol Baladeulyn.
Lleihad yn cost y pen dysgwyr	Ansicrwydd yn parhau ynglŷn a chynladwyedd darpariaeth addysg yn Ysgol Baladeulyn
Dysgwyr yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3	
Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda	
CYFLEON / OPPORTUNITIES	BYGYTHIADAU / THREATS
Un Corff Llywodraethol.	Un pennaeth yn gorfod rheoli mwy nac un safle felly, yn ddibynnol ar y strwythur, mae'n bosib na fydda presenoldeb pennaeth ar safle Ysgol Baladeulyn
Un ysgol ar mwy nag un safle	
Posib rhannu adnoddau.	Costau cynnal a chadw Ysgol Baladeulyn yn parhau
Dosbarthiadau bychain ar safle Ysgol Baladeulyn yn golygu mwy o sylw i dysgwyr unigol.	Dyraniad cyllidol yn annhebygol o fod yn ddigonol i gyflogi athrawon ar gyfer yr holl safleoedd
Amrediad oedran eang yn dosbarthiadau ar safle Ysgol Baladeulyn yn cynnig cyfle i weithio gyda plant o wahanol oedrannau	Llefydd gweigion sylweddol yn debygol o barhau yn safle Ysgol Baladeulyn



11

5. Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn / Amalgamate local schools in order to support and maintain Ysgol Baladeulyn

CYFLEON / OPPORTUNITIES	BYGYTHIADAU / THREATS
Mi fydda uno Ysgol Baladeulyn ag ysgolion eraill yn yr ardal gyfagos yn gyfle i sefydlu niferoedd cofrestru myfyrwyr, cynyddu cyllid, a lleihau costau gweithredu. Byddai'r dull hwn yn sicrhau y gall Ysgol Baladeulyn barhau i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel i bob myfyrwr ac ymdrin â'r heriau a achosir gan y gostyngiad mewn cofrestru.	Rhagamcanion niferoedd yn debygol o barhau yn isel yn safle Ysgol Baladeulyn
Byddai uno Ysgol Baladeulyn ag ysgolion cynradd cyfagos eraill yn yr ardal yn creu sefydliad cyfunol a all weithredu'n fwy effeithlon. Byddai hyn yn golygu cyfuno adnoddau'r ysgolion, megis staff, cyfleusterau a deunyddiau addysgu, gan gynnwys ffocws ar gyfrwng y Gymraeg.	Canran uchel o blant dalgylch Baladeulyn yn debygol o barhau i fynychu ysgolion all dalgylch.
Drwy uno, bydd yr ysgol gyfunol yn elwa o arbedion maint. Bydd yr ysgol fwy yn denu mwy o gyllid gan yr awdurdod lleol oherwydd corff myfyrwyr mwy, gan fod cyllid yn aml yn seiliedig ar niferoedd cofrestru myfyrwyr. Gellir defnyddio'r cyllid cynyddol hwn i wella adnoddau, staff addysgu a chyfleusterau.	Posiblirwydd na fydd y model yn cael ei dderbyn gan ysgolion eraill
Byddai uno yn caniatáu cydgrnhoi swyddogaethau gweinyddol, megis rolau arweinyddiaeth, cyllid, AD a gwasanaethau TG, gan leihau costau gorbennion. Byddai hyn yn arwain at ddefnydd mwy effeithlon o adnoddau, gan sicrhau bod mwy o arian yn cael ei ddrynnu i wella'r profiad addysgol yn uniongyrchol.	
Gall yr ysgol unedig rannu adnoddau megis staff, deunyddiau addysgol, cyfleusterau chwaraeon a rhaglenni allgyrsiol. Byddai hyn yn lleihau costau fesul myfyrwr ac yn gwella ansawdd cyffredinol y profiad addysgol, gan ganiatáu mwy o fuddsoddiad mewn meysydd arbenigol megis addysg arbennig, rhaglenni iaith a thechnoleg.	
Bydd yr uno yn caniatáu i Ysgol Baladeulyn ehangu ei chwricwlwm a'i gweithgareddau allgyrsiol. Gyda adnoddau ychwanegol, bydd yr ysgol yn gallu: Cynnig ystod ehangach o bynciau a gweithgareddau na fyddai efallai wedi bod yn ariannol ymarferol mewn lleoliad ysgol lai.	
Datblygu rhaglenni a chefnogaeth arbenigol i fyfyrwyr ag anghenion arbennig, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gynnwys yn y profiad addysgol.	



12

5. Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn / Amalgamate local schools in order to support and maintain Ysgol Baladeulyn

CYFLEON / OPPORTUNITIES	BYGYTHIADAU / THREATS
Mae'n debyg y bydd ysgol fwy, wedi'i huno, yn derbyn mwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru a'r cyngor lleol, gan fod modelau cyllido yn aml yn ystyried nifer y myfyrwyr cofrestredig. Gallai'r uno arwain at incwm mwy sefydlog a rhagweladwy, gan ganiatáu i'r ysgol gynllunio'n well ar gyfer anghenion y dyfodol yn hytrach na chyfyngiadau cyllidebol cynllunio ariannol y cyngor.	
Gall uno ysgolion helpu i leihau dyblygu gwasanaethau, symleiddio costau gweinyddol, a chaniatáu defnydd mwy effeithlon o adnoddau. Er enghraifft, gall yr ysgol gael un tîm arweinyddiaeth a lleihau nifer y staff nad ydynt yn addysgu sydd eu hangen ar gyfer swyddogaethau gweinyddu a chefnogi, gan ostwng costau uwchben. Gall gwasanaethau a rennir, fel cludiant a chynnal a chadw, hefyd fod yn fwy cost-effeithiol pan gânt eu canoli.	
Efallai y bydd ysgol fwy, mwy integredig yn gallu cael mynediad at gyllid ychwanegol o amrywiol grantiau addysgol a diwylliannol, gan gynnwys y rhai sy'n canolbwyntio ar ddiogelu'r iaith Gymraeg, anghenion dysgu ychwanegol, ac addysg wledig. Gall yr arbedion maint a grëwyd gan yr uno ei gwneud hi'n fwy deniadol i asiantaethau cyllido gefnogi'r ysgol newydd.	
Gall yr uno arwain at ddrynnu staff addysgu yn fwy effeithlon, dilyniant staff a chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant mewn meysydd arbenigol fel ADY, datblygu'r iaith Gymraeg, a thechnoleg. Ar ben hynny, bydd ysgol fwy yn galluogi'r staff i dderbyn datblygiad proffesiynol mwy cadarn, gan arwain at safonau addysgu uwch a chanlyniadau gwell i fyfyrwyr. Mae gan Baladeulyn bresenoldeb cyfartalog uchel eisoes.	
Bydd yr uno yn arwain at gynnig addysg cryfach a mwy amrywiol, gan helpu myfyrwyr i gyflawni eu potensial academaidd mewn amgylchedd mwy sefydlog ac sy'n gyfoethog o ran adnoddau. Bydd hefyd yn sicrhau bod gan blant fynediad at ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol, gwasanaethau cymorth, a rhaglenni arbenigol.	
Bydd uno ysgolion yn helpu i feithrin ymdeimlad mwy o gymuned. Bydd cyfle gan rieni, myfyrwyr a staff o wahanol ysgolion i gydweithio a chreu gweledigaeth a rennir ar gyfer dyfodol addysg cyfrwng Gymraeg yn yr ardal. Bydd y dull cymunedol unedig hwn yn helpu i ddiogelu iaith a diwylliant Gymraeg yr ysgol wrth gryfhau'r cysylltiadau o fewn yr ardal leol.	
Bydd gan yr ysgol fwy, wedi'i huno, y gallu i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn well. Drwy gydgyrnhoi adnoddau ac arbenigedd, gall yr ysgol ddarparu cefnogaeth ac ymyriadau mwy teilwra, gan sicrhau bod gan bob plentyn y cyfle i ffynnu.	

13

6. Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn / Add a specialist area for children with special needs at Ysgol Baladeulyn

CRYFDERAU / STRENGTHS	GWENDIDAU / WEAKNESSES
Cadw ysgol ac adnodd cymunedol yn Nantlle	Niferoedd dysgwyr yn parhau yn isel yn Ysgol Baladeulyn
Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartref dysgwyr y dalgylch.	Llefydd gweigion yn parhau. Dim yn debygol o ddenu disgyblion ychwanegol i Ysgol Baladeulyn.
Dysgwyr yn derbyn addysg cyfrwng Gymraeg Categori 3.	Cost y disgybl yn parhau yn uchel.
Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda	Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau
	Maint dosbarthiadau bychain.
	Niferoedd dysgwyr ddim yn ddigon i ganiatáu amser digyswllt i'r Pennaeth.
	Costau cludiant uwch i gludo dysgwyr gyda ADY i Ysgol Baladeulyn
CYFLEON / OPPORTUNITIES	BYGYTHIADAU / THREATS
Gwell defnydd o'r adeilad dry leoli Uned ADY ar y safle	Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad yn gweithio efo ysgolion i sicrhau bod disgyblion gydag anawsterau penodol yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm, gan sicrhau ethos gynhwysol ysgol gyfan, gyda disgyblion ag ADY yn cael eu cefnogi i gymryd rhan lawn yng nghymuned yr ysgol.
Dosbarthiadau bychain yn Ysgol Baladeulyn yn golygu mwy o sylw i ddysgwyr unigol.	Diffyg cyllid cyfalaf i wneud addasiadau i'r safle
Amrediad oedran eang yn dosbarthiadau Ysgol Baladeulyn yn cynnig cyfle i weithio gyda plant o wahanol oedranau	Costau cynnal a chadw'r adeilad yn parhau
Cyfranu'n gadarnhaol at les meddyliol ac emosiynol y dysgwyr	Angen recriwtio staff arbenigol.

14

6. Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn / Add a specialist area for children with special needs at Ysgol Baladeulyn

CYFLEON / OPPORTUNITIES	BYGYTHIADAU / THREATS
Mae Ysgol Baladeulyn eisoes yn adnodd addysgol gwerthfawr o fewn y gymuned, a thrwy ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig, gallwn ddarparu ateb lleol, yn y Gymraeg i deuluoedd sydd â dewisiadau cyfyngedig ar hyn o bryd. Bydd hyn hefyd yn cyd-fynd â'r gydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd addysg gynhwysol a chefnogaeth i blant ag anghenion dysgu amrywiol. Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol hanes o blant/dysgwyr ag ADY.	Canolfannau arbenigol eisoes wedi'u sefydlu ar gyfer plant gyda anghenion dwys
Ni fydd angen i deuluoedd deithio pellteroedd hir mwyach am gymorth arbenigol, gan y bydd ganddynt fynediad at ateb lleol, Cymraeg ar gyfer anghenion addysgol arbennig eu plant.	Aberthu gofod dysgu ar gyfer yr Uned ADY ar y safle.
Bydd ychwanegu ardal arbenigol yn caniatáu i blant ag anghenion arbennig dderbyn addysg unigol.	Canran uchel o blant dalgylch Baladeulyn yn debygol o barhau i fynychu ysgolion all dalgylch.
Bydd y maes arbenigol yn helpu i feithrin ymdeimlad o gynhwysiant, gan sicrhau bod plant ag anghenion arbennig yn cael eu hintegreiddio i gymuned ehangach yr ysgol a bod pob myfyrwr yn elwa o amgylchedd dysgu meithringar a chefnogol.	
Drwy barhau i ddarparu addysg yn y Gymraeg, bydd Ysgol Baladeulyn yn sicrhau y gall plant ag anghenion arbennig gael mynediad at addysg yn eu hiaith gyntaf, gan gadw eu treftadaeth ddiwylliannol: Nantlle – ardal UNESCO, a hyrwyddo defnydd parhaus o'r Gymraeg yn y gymuned.	



15

7. Ffederaleiddio gyda ysgol gyfagos gan ychwanegu uned arbenigol ar gyfer plant ag ADY yn Ysgol Baladeulyn

CRYFDERAU	GWENDIDAU
Cadw ysgol ac adnodd cymunedol yn Nantlle	Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau
Ysgol o fewn pellter rhesymol i gartref dysgwyr y dalgylch.	Maint dosbarthiadau bychain.
-Dysgwyr yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg Categori 3.	Niferoedd dysgwyr yn parhau yn isel, gan nad yw ffederaleiddio na lleoli uned ADY ar safle ysgol yn arferol yn denu dysgwyr ychwanegol i'r ysgol.
Iechyd a lles dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn parhau i fod yn dda	Niferoedd ddim yn ddigon i ganiatáu amser digyswllt i'r Pennaeth.
	Llefydd gweigion yn parhau. Dim yn debygol o arwain at gynydd yn nifer dysgwyr Ysgol Baladeulyn.
	Cost y dysgwr yn parhau yn uchel.
CYFLEON	BYGYTHIADAU
Un Corff Llywodraethol.	Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad yn gweithio efo ysgolion i sicrhau bod disgyblion gydag anawsterau penodol yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm, gan sicrhau ethos gynhwysol ysgol gyfan, gyda disgyblion ag ADY yn cael eu cefnogi i gymryd rhan lawn yng nghymuned yr ysgol.
Rhannu adnoddau ac arbenigeddau.	Diffyg cyllid i wneud addasiadau i'r safle
Ysgolion yn cefnogi eu gilydd.	Angen recriwtio staff arbenigol
Gall model ffurfiol gynnig strwythur pendant.	Posiblirwydd o ddiffyg yn y gyllideb.
Gwell defnydd o'r adeilad drwy leoli uned ADY ar y safle.	Costau cynnal a chadw'r adeiladau yn parhau.
Dosbarthiadau bychain yn Ysgol Baladeulyn yn golygu mwy o sylw i ddysgwyr unigol.	Rhagamcanion niferoedd yn parhau yn isel.
Amrediad oedran eang yn dosbarthiadau Ysgol Baladeulyn yn cynnig cyfle i weithio gyda plant o wahanol oedranau	Canran uchel o blant dalgylch Baladeulyn yn parhau i fynychu ysgolion all dalgylch.
Cyfranu'n gadarnhaol at les meddyliol ac emosiynol y dysgwyr	Pfederasiwn yn fodel sydd yn ddibynnol ar barodrwydd ysgolion eraill i ymuno â trefniant i gyd-weithio.

16

CAMAU NESAF / NEXT STEPS

Camau Nesaf / <i>Next Steps</i>	Dyddiad / <i>Date</i>
Dyddiad cau ar gyfer derbyn unrhyw gywiriadau / sylwadau <i>Closing date for receiving any corrections / comments</i>	16/6/2025
Cyfarfod Panel Adolygu 3 <i>Review Panel Meeting 3</i>	Gorffennaf 2025 / <i>July 2025</i>
Adrodd yn ôl i Gabinet ar ganlyniad y trafodaethau / <i>Report back to Cabinet on the outcome of the discussions</i>	Medi 2025 / <i>September 2025</i>



Cyfarfod:	Panel Adolygu Ysgol Baladeulyn	Dyddiad/Amser/Lleoliad: 19 Mai 2025, 18:00, Ysgol Baladeulyn
Presennol:	<u>Aelodau Etholedig:</u> Cyngorydd Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg). Peter Thomas (Aelod Ward Llanllyfni) <u>Swyddogion Adran Addysg:</u> Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Gareth Richard Jones (Swyddog Moderneiddio Addysg), Dion Roberts (Swyddog Prosiect Addysg). <u>Staff a Llywodraethwyr Ysgol Baladeulyn:</u> 4 aelod <u>Rhieni / Gwarchodwyr:</u> 15 aelod	

Cofnod Llawn		
	Eitem/ Pwnc	Gweithrediad
1	Croeso	- Croesawodd y pennaeth bawb i'r cyfarfod. - Croesawodd Gwern ap Rhisiart, Pennaeth Addysg bawb i'r cyfarfod. - Trafododd Gwern y rheswm dros y cyfarfod a beth sydd wedi digwydd yn y cyfamser ers y cyfarfod cyntaf.
2	Crynhoi Prif Heriau	- Aethpwyd drwy'r cyflwyniad sydd yn amlygu'r sefyllfa bresennol gan gyfarch y prif heriau sef; - Nifer disgyblion yr ysgol - yr ail isaf yn y sir - Rhagamcanion yn parhau'n isel - Nifer uchel o lefydd gweigion (72%) - Maint dosbarthiadau bychain - Amrediad ystod oed eang o fewn dosbarthiadau - Cost y disgybl ymysg yr uchaf yn y sir ac yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol - Ysgol yn derbyn swm ychwanegol o £77,659 (Medi 2024) trwy'r gwarchodaeth staffio - Nodwyd y byddai'r opsiynau yn cael eu mesur yn erbyn yr heriau yma. - Aethpwyd trwy'r y rhestr opsiynau gan gynnwys y rhai a gynigiwyd yn dilyn y cyfarfod diwethaf. - Nodwyd nad oes newid i'r heriau ers y cyfarfod diwethaf, gyda'r rhagamcanion niferoedd yn parhau i fod yn isel. Nodwyd yn ogystal, os oes mwy na 10% o leoedd gwag bod yna ddyletswydd ar yr Awdurdod i adolygu'r ddarpariaeth.
3	Opsiynau Posib	- Nodwyd fod 7 opsiwn wedi dod i'n sylw a bod dadansoddiad SWOT wedi ei gynnal ar y 7 opsiwn yma er mwyn adnabod eu cryfderau a'u gwendidau gan hefyd adnabod cyfleoedd a bygythiadau posib. - Nodwyd fod opsiwn sydd wedi ei gynnig i newid dynodiad yr ysgol i un Gristnogol wedi ei ddiystyru oherwydd nad yw'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn caniatáu hyn. Opsiwn 1: Dim newid - Parhau gyda'r sefyllfa bresennol Trafodwyd y cryfderau gan nodi fod sylwadau mynychwyr y cyfarfod wedi eu cynnwys. Nododd aelod o'r cyfarfod fod profiadau gwahanol ar gael ym Maladeulyn megis garddio a bod yr amrediad oedran yn galluogi i hyn ddigwydd.

		Cyfeiriwyd at y gwendid nad yw'r Pennaeth yn ddigyswllt. Nodwyd y bydd costau cynnal a chadw'n parhau. Nodwyd bod nifer o ddysgwyr y dalgylch yn dewis mynychu ysgol all-ddalgylch a bod ystod amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau. Opsiwn 2: Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos . Aethpwyd trwy'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau a nodwyd yn y gwerthusiad SWOT. Nodwyd fod ffurfio ffederasiwn yn ddibynnol ar barodrwydd ysgolion i ymuno efo'r trefniant. Opsiwn 3: Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos Aethpwyd trwy'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau a nodwyd yn y gwerthusiad SWOT. Trafodwyd y polisi cludiant gan nodi y byddai unrhyw ddysgwr sydd yn byw dros 2 filltir i ffwrdd o'r ysgol ddalgylch yn gymwys am gludiant am ddim. Bu i ran-ddeiliaid gynnig cyfle i ddefnyddio safle Ysgol Baladeulyn ar gyfer uned iaith Gymraeg hefyd gan nodi fod nifer o ddisgyblion a chyn-ddisgyblion wedi gwneud cynnydd da yn y Gymraeg yn yr ysgol. Nodwyd y byddai dadansoddiad SWOT o'r opsiwn o gynnwys Uned iaith ar safle Ysgol Baladeulyn yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod PAY nesaf. Gofynnodd y Pennaeth am y wybodaeth a gesglir am yr ysgol ddalgylch gan deuluoedd sy'n dewis mynychu ysgol all-ddalgylch? Ymatebwyd drwy nodi nad yw'n briodol i'r swyddog mynediad ofyn pam nad ydynt yn dewis mynychu eu hysgol ddalgylch. Opsiwn 5: Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn Aethpwyd trwy'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau a nodwyd yn y gwerthusiad SWOT. Nodwyd ni ragwelir y byddai dyraniad cyllidol uwch gyda'r opsiwn yma. . Opsiwn 6: Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn Aethpwyd trwy'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau a nodwyd yn y gwerthusiad SWOT. Nodwyd y rhagwelir y byddai costau cludiant yn ystyriaeth ynghlwm â chludo dysgwyr i Baladeulyn i fynychu uned ADY. Nodwyd y byddai angen gwariant sylweddol ar gyfer cynnal a chadw ac ar gyfer addasu'r ysgol ar gyfer pwrpas ADY. Nodwyd y byddai'r gofod ar gyfer dysgwyr ADY yn lleihau'r gofod ar gyfer gweddill y dysgwyr yn yr ysgol (h.y. lleihau capasiti'r ysgol) Nodwyd bod dwy ysgol arbennig a nifer o unedau ABC yng Ngwynedd. Opsiwn 7: Ffederaleiddio gydag ysgol arall gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn

		Aethpwyd trwy'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau a nodwyd yn y gwerthusiad SWOT.
4	Dadansoddiad SWOT	Nodwyd fod yr hyn sydd wedi cael ei gynnig gan y rhan-ddeiliaid wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad SWOT ac y byddent yn cael ystyriaeth lawn wrth symud ymlaen.
5	Camau nesaf	Trafodwyd camau nesaf. Nodwyd y byddai cyfnod o 3 wythnos er mwyn derbyn unrhyw sylwadau gyda dyddiad 16/06/25 wedi ei osod. Nodwyd y byddai cyfarfod panel adolygu ysgol 3 yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf ac yn dilyn hynny byddai angen adrodd yn ôl i'r Cabinet <u>Cwestiynau/Sylwadau</u> A fyddai fy mhlentyn yn derbyn cludiant i ysgol all-dalgylch petai'r ysgol yn cau? Annhebygol, mae'n ddibynnol ar y polisi cludiant. Nodwyd y byddai tîm ar gael i gefnogi rhieni a staff gydag unrhyw opsiwn fydd yn cael ei symud ymlaen gydag o. Nodwyd pryder nad oes digon o dai yn Nantlle ac felly dim teuluoedd i ddarparu dysgwyr i sicrhau dyfodol yr ysgol. Derbyniwyd sylw am y caban newydd sydd wedi ei adeiladu ym Mro Lleu, a gofynnwyd os gall yr adran addysg gludo'r dysgwyr yma mewn bws i ysgol fel Baladeulyn? Mewn ymateb i'r cwestiwn, pwysleisiwyd mai dewis y rhieni yw pa ysgol mae eu plentyn yn mynychu. Nodwyd fod ystyriaeth lawn yn cael ei roi i'r dysgwyr a staff yn ogystal â'r gymuned a'r adeilad yn ei gyfanrwydd. Byddwn yn asesu effaith ac yn gwerthuso pob opsiwn wrth symud ymlaen. Sylw gan y Pennaeth: Diolchwyd i Gwern am y sesiwn. Diolchwyd i'r rhieni am gynnig yr opsiynau sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad SWOT. Gofynnwyd i edrych ar yr effaith gall unrhyw opsiwn ei gael ar les dysgwyr a pa fath o gefnogaeth y byddent yn ei dderbyn yn y dyfodol. Nodwyd yr angen i gydnabod a gweld yr effaith mae'r ysgol yn ei gael ar y dysgwyr yma'n bresennol. Cydnabuwyd fod niferoedd isel yn yr ysgol ond fod angen gwir ystyried beth mae'r ysgol yn ei gynnig i'r gymuned, teuluoedd a'r dysgwyr yn benodol. Cadarnhaodd Gwern y bwriad i asesu'r opsiwn uned iaith yn ychwanegol i'r rhai oedd wedi eu cynnig cyn y cyfarfod.

YSGOL BALADEULYN

7 Gorffennaf 2025
7 July 2025



Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
 Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

1

AGENDA

1. Croeso	<i>1. Welcome</i>
2. Trafodaethau blaenorol	<i>2. Previous discussions</i>
3. Gwerthusiad Opsiynau	<i>3. Options Appraisal</i>
4. Camau Nesaf ac Amserlen Amlinellol	<i>4. Next Steps and the Outline Timetable</i>
5. Cloi	<i>5. Close</i>



Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
 Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

2

TRAFODAETHAU BLAENOROL / PREVIOUS DISCUSSIONS

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



3

PRIF HERIAU'R SEFYLLFA BRESENNOL / MAIN CHALLENGES OF THE PRESENT SITUATION

1	Nifer disgyblion yr ysgol yn ail isaf yn y sir <i>The number of pupils at the school is the second lowest in the county</i>
2	Rhagamcanion yn parhau yn isel <i>Projections remain low</i>
3	Nifer uchel o lefydd gweigion <i>High number of surplus places</i>
4	Maint dosbarthiadau bychain <i>Small class sizes</i>
5	Amrediad ystod oedran eang o fewn dosbarthiadau <i>Broad age range within classes</i>
6	Cost y disgybl ymysg yr uchaf yn y sir a sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol <i>Cost per pupil amongst the highest in the county and significantly higher than the county average</i>
7	Ysgol yn derbyn swm ychwanegol o £77,659 (Medi 2024) trwy'r gwarchodaeth staffio <i>School receives an additional £77,659 (September 2024) through the minimum staffing protection</i>

4

RHESTR HIR OPSIYNAU / LONG LIST OF OPTIONS

Yn sgil y mewnbwn a dderbyniwyd yn ystod, ac yn dilyn y cyfarfod cyntaf, cynhyrchwyd rhestr o opsiynau i'w hystyried. Er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r opsiwn 'Gwneud Dim' wedi ei gynnwys at ddiben cymharu.

As a result of the input received during, and following the first meeting, a list of options was produced for consideration. Although the case for change has been established, the 'Do Nothing' option is included for comparison purposes.

1	Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol	1	No change – continue with the current situation
2	Ffederaleiddio gyda ysgol cyfagos	2	Federation with a nearby school
3	Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol cyfagos	3	Close Ysgol Baladeulyn and offer pupils a place at a neighbouring school
4	Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn	4	Merger of local schools in order to maintain Ysgol Baladeulyn
5	Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn	5	Addition of a specialist area for children with special needs at Ysgol Baladeulyn
6	Ffederaleiddio gyda ysgol cyfagos gan ychwanegu ardal arbennigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn	6	Federation with a nearby school and addition of a specialist area for children with special needs at Ysgol Baladeulyn
7	Ysgol Baladeulyn yn mynd yn ysgol Gristnogol	7	Ysgol Baladeulyn becomes a Christian school
8	Cynnwys uned iaith yn safle Ysgol Baladeulyn	8	Include a language unit on the Ysgol Baladeulyn site

5

DIYSTYRU OPSIWN / DISREGARD OPTION

Rydym wedi ystyried yr 8 opsiwn, a mae'r opsiwn canlynol wedi cael eu diystyru gan nad ydi o yn cyd fynd gyda chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion. We considered the 8 options, and the following option has been disregarded as it doesn't comply with the School Organisation Code guidelines.

Ysgol Baladeulyn yn mynd yn ysgol Gristnogol <i>Ysgol Baladeulyn becomes a Christian school</i>	Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) yn nodi: Caiff cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir wneud cynigion i newid categori eu hysgol. Fodd bynnag, dylid nodi na cheir gwneud unrhyw newid i ysgol a gynhelir sy'n newid ei chymeriad crefyddol dynodedig neu sy'n peri bod iddi wedyn gymeriad crefyddol dynodedig nad oedd iddi cynt, neu ei bod yn colli ei chymeriad crefyddol dynodedig. Ni chaniateir cymeriad crefyddol i ysgolion cymunedol. Nid yw hi'n bosibl i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr, ysgolion gwirfoddol a reolir nac ysgolion sefydledig, os oes ganddynt gymeriad crefyddol dynodedig, ddod yn ysgolion cymunedol trwy gynnig i newid categori. Yn ogystal â hyn, ni all ysgolion cymunedol ddod yn ysgolion gwirfoddol sydd â chymeriad crefyddol dynodedig. Ni fyddwn felly yn rhoi ystyriaeth pellach i'r opsiwn yma.	<i>The School Organisation Code (011/2018) notes:</i> <i>The governing bodies of maintained schools may make proposals to change the category of their school. However, it should be noted that no alteration may be made to a maintained school that changes its designated religious character or causes it to acquire or lose a designated religious character. Community schools are not permitted to have a religious character. It is not possible for voluntary aided, voluntary controlled or foundation schools with a designated religious character to become a community school through a change of category proposal. Similarly, community schools cannot become voluntary schools with a designated religious character.</i> <i>We will therefore not be giving this option further consideration.</i>

6

GWERTHUSIAD OPSIYNAU / OPTIONS APPRAISAL

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



7

OPSIYNAU I'W GWERTHUSO / OPTIONS TO APPRAISE

1	Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol
2	Ffederaleiddio gyda ysgol cyfagos
3	Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol cyfagos
4	Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn
5	Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn
6	Ffederaleiddio gyda ysgol cyfagos gan ychwanegu ardal arbennigol ar gyfer plant ag anghenion arbennig yn Ysgol Baladeulyn
7	Cynnwys uned iaith yn safle Ysgol Baladeulyn

1	<i>No change – continue with the current situation</i>
2	<i>Federation with a neighbouring school</i>
3	<i>Close Ysgol Baladeulyn and offer pupils a place at a neighbouring school</i>
4	<i>Merger of local schools in order to maintain Ysgol Baladeulyn</i>
5	<i>Addition of a specialist area for children with special needs at Ysgol Baladeulyn</i>
6	<i>Federation with a neighbouring school and addition of a specialist area for children with special needs at Ysgol Baladeulyn</i>
7	<i>Include a language unit on the Ysgol Baladeulyn site</i>



8

1	Niferoedd dysgwyr a llefydd gweigion/ <i>Pupil numbers and empty places</i>
2	Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran/ <i>Class sizes and age range</i>
3	Adnoddau ariannol / <i>Financial resources</i>
4	Arweinyddiaeth a Staffio / <i>Leadership and Staffing</i>
5	Ffactorau daearyddol a teithio / <i>Geographical and travel factors</i>
6	Y Gymuned / <i>The Community</i>
7	Yr iaith Gymraeg / <i>The Welsh language</i>
8	Ansawdd addysg / <i>Quality of education</i>
9	Cyflwr ac addasrwydd adeiladau / <i>Condition and suitability of the buildings</i>

ESIAMPL GWERTHUSIAD OPSIYNAU / OPTIONS APPRAISAL EXAMPLE

[illegible]

CAMAU NESAF / NEXT STEPS

Camau / <i>Steps</i>	Amserlen Amlinellol / <i>Outline Timetable</i>
Cwblhau gwerthusiad opsiynau <i>Complete the options appraisal</i>	Gorffennaf – Awst 2025 July – August 2025
Cynnal Asesiadau Effaith (leithyddol, Cymunedol, Cydraddoldeb + Asesiad yn erbyn y Ddeddf Llesiant) ar opsiynau rhestr fer <i>Undertake Impact Assessments (Language, Community, Equality + Assessment against the Wellbeing Act) on the short list of options</i>	Awst - Medi 2025 <i>August - September 2025</i>
Cyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd <i>Gwynedd Council Cabinet Meeting</i>	14 Hydref 2025 14 October 2025



Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

Panel Adolygu Ysgol 3 – Ysgol Baladeulyn

Addysg

Cyfarfod:	Panel Adolygu Ysgol 3 – Ysgol Baladeulyn	Dyddiad / Amser / Lleoliad: 07.07.25 18:00 Ysgol Baladeulyn
Presennol:	<u>Aelodau Etholedig:</u> Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg) <u>Swyddogion Adran Addysg:</u> Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), Gareth Richard Jones (Swyddog Moderneiddio Addysg), Dion Roberts (Swyddog Prosiect Addysg) <u>Staff a Llywodraethwyr Ysgol Baladeulyn:</u> 3 aelod. <u>Rhieni / Gwarchodwyr:</u> 13 aelod	

Cofnod Llawn		
	Eitem/ Pwnc	Gweithrediad
1	Croeso	Croesawodd Gwern pawb i'r cyfarfod Nododd mai pwrpas y cyfarfod yw diweddarau pawb am ble mae'r broses arni ar hyn o bryd.
2	Trafodaethau Blaenorol	Nodwyd ein bod wedi edrych ar y heriau presennol sydd yn wynebu'r ysgol ar hyn o bryd.
3	Prif Heriau'r Sefyllfa Bresennol	Trafodwyd y prif heriau a nodwyd yn y cyflwyniad
4	Rhestr Hir Opsiynau	Aethpwyd trwy'r opsiynau sydd ar y rhestr hir, roedd 8 opsiwn ar y rhestr hir, gan gynnwys: • Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol • Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos • Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos • Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn • Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn • Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn • Ysgol Baladeulyn yn mynd yn ysgol Gristnogol • Cynnwys uned iaith ar safle Ysgol Baladeulyn Mae'r rhestr hir yma yn cynnwys opsiynau sydd wedi eu cynnig yn dilyn y cyfarfod PAY 1. Nodwyd fod yr opsiwn o newid dynodiad crefyddol yr ysgol i fod yn Gristnogol wedi ei ddiystyru gan fod y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi <i>"Ni chaniateir i unrhyw newid gael ei wneud i ysgol a gynhelir sy'n newid cymeriad crefyddol yr ysgol neu'n peri i ysgol gaffael neu golli ei chymeriad crefyddol."</i>
6	Gwerthusiad Opsiynau	Nodwyd y byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i 7 opsiwn o fewn y gwerthusiad opsiynau, sef: • Dim newid - parhau gyda'r sefyllfa bresennol • Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos • Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos • Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn • Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn • Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn

		• Cynnwys uned iaith ar safle Ysgol Baladeulyn
		Nodwyd fod y gwerthusiad opsiynau yma ar waith ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gwblhau dros yr haf. Nodwyd y bydd pob opsiwn yn cael ei ystyried yn y gwerthusiad opsiynau, gydag opsiwn/opsiynau yn mynd gerbron y Cabinet.
8	Camau Nesaf	Nodwyd y bydd adroddiad gydag argymhelliad ar y ffordd ymlaen yn cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet ar 14 Hydref 2025. Esboniwyd amserlen amlinellol y rhaglen a rhesymeg dros yr angen i fynd gerbron Cabinet, ac aethpwyd drwy'r camau nesaf. Nodwyd y bydd cynnwys yr adroddiad Cabinet yn cael ei rannu gyda'r ysgol wythnos cyn iddo fynd gerbron y Cabinet. Cadarnhawyd y bydd yr holl ddogfennaeth yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Os bydd y Cabinet yn penderfynu parhau gydag unrhyw gynnig arfaethedig, yna bydd angen cynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig arfaethedig hwnnw. Gofynnodd y pennaeth os bydd cost y pen yn cael ei adlewyrchu. Atebwyd y bydd. Gofynnodd un rhiant os bydd cyfraniad yr ysgol tuag at gynnydd dysgwyr ag anghenion ADY yn cael ei ystyried. Ymatebwyd drwy nodi fod hyn yn rhywbeth a fydd yn ystyriaeth wrth werthuso'r opsiynau. Nodwyd mai un opsiwn sydd wedi cael ei gynnwys yw newid yr ysgol i hwb arbenigol ar gyfer ADY, sef opsiwn 5 a 6. Rhannodd amryw o rieni bryder am diffyg darpariaeth ar gyfer ADY gan nodi fod darpariaeth Ysgol Baladeulyn wedi bod yn dda ar gyfer eu plant hwy. Trafodwyd sut fydd yr asesiadau effaith yn cael eu cynnal a'u llunio, a nodwyd fod asesiadau effaith prosiectau blaenorol ar gael ar wefan y Cyngor. Gofynnodd y pennaeth os bydd yr ysgol yn cael cyfrannu at y gwerthusiad opsiynau. Nodwyd fod y cyfarfodydd PAY yn gyfle i roi mewnbwn. Gofynnodd y pennaeth os bydd yr agwedd ADY yn cael ei ystyried yn erbyn pob opsiwn. Gofynnodd un aelod os oes posib i unigolyn fod yn rhan o'r cyfarfod Cabinet i gynrychioli'r ysgol. Nodwyd y bydd yr aelod lleol yn rhan o'r cyfarfod a bydd yn derbyn cyfle i ddarparu sylwadau ar yr adroddiad. Nodwyd y bydd gwerthusiad o bob opsiwn yn mynd gerbron y Cabinet a bydd gofyn iddynt benderfynu a ddylid symud ymlaen i gynnal ymgynghoriad statudol neu ddim yn ddibynnol ar yr argymhelliad. Rhoddwyd eglurhad lefel uchel o drefn y broses statudol. Daethpwyd a'r cyfarfod i ben drwy nodi fod croeso i'r rhanddeiliaid cysylltu petai ganddynt unrhyw gwestiynau pellach.

Mewnbwn yn dilyn Cyfarfodydd Panel Adolygu Ysgol Balaldeulyn

Yn dilyn y cyfarfodydd lleol, mae crynodeb isod o'r sylwadau a dderbyniwyd:

Cyfarfod PAY Baladuelyn 1 – 17 Mawrth 2025

Derbyniwyd 6 gohebiaeth gan ran-ddeiliaid Ysgol Baladeulyn yn dilyn y cyfarfod lleol cyntaf. Dyma grynodeb o'r prif sylwadau a nodwyd yn yr ohebiaeth:

- 1 llythyr cynnig opsiwn i uno ysgolion lleol i gryfhau a chynnal Ysgol Baladeulyn, gan fanylu ar fanteision yr opsiwn.
- 1 llythyr yn cynnig ychwanegu ardal/uned ADY ar safle Ysgol Baladeulyn, gan fanylu ar fanteision yr opsiwn.
- 1 llythyr yn cynnig opsiwn i gynnwys darpariaeth ADY ar safle Ysgol Baladeulyn, gan fanylu ar fanteision yr opsiwn.
- 1 llythyr yn cynnig syniadau arloesol a rhanbarthol i gefnogi Ysgol Baladeulyn, gan fanylu ar fanteision yr opsiwn.
- 1 llythyr yn cynnig opsiwn i drosi Ysgol Baladeulyn yn ysgol Gristnogol, gan fanylu ar fanteision yr opsiwn.
- 1 e-bost yn cynnig ffederaleiddio Ysgol Baladeulyn gydag Ysgol Talysarn, gydag Ysgol Baladeulyn yn cynnig darpariaeth ADY.

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Cytundeb ADY a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Mon
Aelod Cabinet:	Cyng. Dewi Jones, Aelod Cabinet Addysg
Swyddog perthnasol:	Gwern Ap Rhisiart (Pennaeth Addysg)
Dyddiad y cyfarfod:	14.10.25

1. Y Penderfyniad a Geisir

Ceisir y penderfyniadau isod:

- 1.1 Comisiynu'r Pennaeth Addysg i gynllunio sefydlu Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd erbyn Medi 2026, i gwrdd ag anghenion disgyblion Gwynedd yn y dyfodol ac yn sgil hynny diddymu'r trefniant cydweithio hanesyddol gyda Chyngor Ynys Môn.

2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

- 2.1 Mae'r pwysau cynyddol a chynnydd yng nghymhlethdod Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y sir yn golygu fod angen i ni ail-fodelu'r gwasanaeth presennol er mwyn gallu darparu'r gwasanaethau addas i bwrpas i gwrdd ag anghenion disgyblion y sir. Mae angen cefnogaeth y Cabinet i wneud y newid i'r ddarpariaeth gan gychwyn gyda ail ddylunio'r gwasanaethau cefnogol arbenigol a ddarperir i ddisgyblion mewn ysgolion prif lif. Fel cam cyntaf, mae'r Adran eisoes wedi adolygu'n ddarpariaeth Cynhwysiad a bu i'r Cabinet benderfynu sefydlu Unedau Cynhwysiad newydd. Mae'r adroddiad hwn yn delio gydag ail gam y newidiadau sydd eu hangen er mwyn sicrhau ein bod yn gallu ymdopi gyda'r cynnydd sylweddol yn y galw am gefnogaeth ADY ers y cyfnod Covid.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

3.1 Cefndir

- 3.1.1 Mae'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad wedi bod yn darparu gwasanaeth ar y cyd i Gyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Mon ers 2017. Pan sefydlwyd y Gwasanaeth yn 2017 fe wnaethpwyd arbediad oddeutu 800k parhaol wrth sefydlu'r gwasanaeth. Yn ystod y blynyddoedd ers cyfnod COVID, mae'r pwysau ar y meysydd gwaith yma wedi cynyddu'n sylweddol, gyda chynnydd hefyd yng nghymhlethdod yr

achosion sy'n wynebu'r Timau arbenigol o ddydd i ddydd. Yn sgil hyn mae cyfeiriad strategol y cynghorau wedi dilyn llwybrau gwahanol mewn meysydd penodol, mewn ymateb i angen disgyblion y ddwy ardal.

3.2 Beth sydd wedi arwain ni i'r pwynt yma?

3.2.1 Mae sicrhau'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth gorau ar gyfer plant sydd gyda Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn un o flaenoriaethau Adran Addysg. Mae'r galw am ddarpariaeth dysgu ychwanegol wedi dwysáu, ac rydym yn gweld cynnydd mewn ymddygiad heriol a chymhlethdod Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y prif lif.

3.2.2 Mae'r angen i reoli nifer fawr o staff, cynllunio yn strategol ar gyfer dau awdurdod, monitro cyllidebau integreiddio ar wahân, adrodd yn erbyn mesuryddion cynnydd gwahanol, darparu adroddiadau cynnydd ar adegau gwahanol, ymgymryd a phrosesau Arolygu Estyn ar wahân, ac mewn ffordd wahanol, yn rhoi pwysau sylweddol ar y Swyddogion sydd a rôl rheolaethol.

3.2.3 Mae'r Gwasanaeth yn rhannu i ddwy brif elfen sef:

- a) Anghenion Dysgu Ychwanegol – mewnbwn ar gyfer dysgwyr gyda Anghenion e.e. gyda Cyfathrebu a Rhyngweithio, Nam Synhwyrdd neu angen corfforol a meddygol, anghenion penodol gyda datblygiad sgiliau llythrennedd a rhifedd.
- b) Cynhwysiad a Lles – mewnbwn ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, mewnbwn ar gyfer dysgwyr gyda Saesneg a Chymraeg yn iaith ychwanegol, a cynorthwyo i wella presenoldeb, mynediad i gwnsela.
- c) Mae'r Seicolegwyr Addysgol a Tim Ansawdd ADY a CH yn gweithio ar draws y ddwy brif elfen.

3.2.4 Mae'r Cabinet eisoes wedi cymeradwyo addasiadau sylweddol i'r ddarpariaeth cynhwysiad (Cabinet Cyngor Gwynedd, Ebrill 2025; Atodiad 1), ac mae'r newid hwn wedi ei wneud i ddarpariaeth Gwynedd eisoes. Mae hynny mewn ymateb i'r cynnydd yn y maes cynhwysiad. Fodd bynnag ni wnaethpwyd penderfyniad ar y pryd sut i gyllido'r cynnydd mewn darpariaeth yn barhaol, gyda rhagrybudd bod bid refeniw parhaol yn debygol er mwyn ariannu'r ddarpariaeth ar ei newydd wedd. Mae'r bid refeniw wedi ei gyflwyno a caiff ystyriaeth.

3.2.5 Mae meysydd ADY hefyd yn gweld cynnydd mewn dwyster anghenion, a'r angen am wasanaeth i gefnogi, ac mae'r rhan hwn o'r gwasanaeth o dan bwysau cynyddol

hefyd, yn enwedig ers y cyfnod COVID. Cyflwynwyd y sefyllfa hwn i Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Ebrill 2025 (Atodiad 2).

- 3.2.6 Mae cynnydd wedi bod mewn ceisiadau am leoliad arbennig wrth i'r anghenion ddwysau. Ond mae gwaith mapio yn dangos nad yw hyn yn addas, gyda straen adnoddau yn y prif lif yn reswm allweddol dros y cynnydd mewn gofyn. Fel yn 3.2.5, fe drafodwyd hyn ym Mhwyllgor Craffu Addysg ac Economi, Ebrill 2025.
- 3.2.7 Er mwyn rhoi syniad o'r cynnydd yn y maes, gweler y tabl yn Atodiad 3 sy'n dangos y rhaniad yn y math o achosion ADY lle mae gan y disgybl Gynllun Datblygu Unigol. Rhwng 2022 a 2024 yn unig gwelwyd cynnydd syfrdanol o 37% - ni all ein cyfundrefn bresennol ymdopi gyda'r cynnydd ac mae angen gweithredu ar fyrder er mwyn gallu parhâi i gefnogi disgyblion, eu rhieni a'r ysgolion.
- 3.2.8 Rôl y timau arbenigol yn y gwasanaeth ADY yw cydweithio a chefnogi Ysgolion i allu ddarparu addysg i ddisgyblion sydd ag ADY a thrwy hynny eu galluogi i barhau mewn addysg prif lif yn eu hysgol leol, ac felly nad oes rheidrwydd mynychu Ysgol Arbennig. Mae'r timau yn cynnwys Seicolegwyr Addysg, Athrawon Arbenigol, Swyddogion Ansawdd, Cymorthyddion Arbenigol, Cwnselwyr, Swyddogion Lles Addysg.
- 3.2.9 Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ganddynt yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan yr ysgolion a hefyd gan rieni'r disgyblion. Heb fewnbwn y timau hyn, byddai'n amhosib i ysgolion prif lif ymdopi gyda chymhlethdod anghenion disgyblion gan arwain at lesteirio datblygiad disgyblion a chynnydd yn y galw am leoliadau mewn ysgolion arbennig. Mae data perfformiad y timau hyn yn tystiolaethu fod y bodlonrwydd cwsmer yn uchel ond fod galw am fwy o wasanaeth. Mae hefyd yn dangos fod y gwasanaeth a roddir yn arwain at gynydd uniongyrchol yn natblygiad disgyblion ADY.

3.3 Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod a beth arall sydd angen ei gyflawni?

- 3.3.1 Mae darpariaeth Cynhwysiad Mon a Gwynedd yn dra gwahanol erbyn hyn, ers i Ynys Mon ail-strwythuro'r ddarpariaeth cynhwysiad uwchradd yn 2022. Yng Ngwynedd, mae'r Cabinet wedi cymeradwyo darpariaeth Cynhwysiad ar gyfer anghenion Gwynedd (Atodiad 1).
- 3.3.2 Mae'r ffaith fod angen i ni allu ail ddylunio ein gwasanaethau ADY yng Ngwynedd hefyd, yn ogystal a'r newid sydd eisoes wedi digwydd yn y maes Cynhwysiad, yn golygu nad yw'r drefn hanesyddol o ddarparu Gwasanaethau ar y cyd gyda Chyngor Ynys Môn bellach yn hyfyw. Mae hyn yn arbennig o wir ar y lefel rheolaethol, gyda

chynifer o ddisgyblion angen cefnogaeth a chyfeiriad strategol yr Awdurdodau yn mynd i gyfeiriadau gwahanol mewn rhai meysydd. Yn unol a'r hyn sydd wedi ei nodi yn y cytundeb presennol gyda Cyngor Mon, mae Cyngor Gwynedd wedi rhoi rybydd o fwriad i ail-edrych ar y cytundeb.

3.3.3 Mae gwaith modelu wedi ei wneud gennym i edrych ar beth fyddai ardrawiad cyllidol sefydlu'r Gwasanaeth ADY newydd yng Ngwynedd. Er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth does dim dwywaith y bydd cost uwch ond byddai hynny'n berthnasol pe byddem yn parhau i ddilyn y model hanesyddol ar y cyd gyda Môn ai peidio. Daw'r gost yn gliriach wrth i'r model newydd gael ei gytuno'r derfynol ond mae'r gwaith modelu cychwynnol yn awgrymu cost uwch oddeutu £200,000 i addasu'r Gwasanaeth ADY.

3.3.4 Bydd angen i'r Cabinet ystyried hyn wrth edrych ar yr holl fidiau eraill yn ystod yr Hydref, ond i raddau helaeth mae'r gost uwch yn anorfod os am allu darparu'r gefnogaeth sydd ei angen i ddisgyblion ADY Gwynedd.

3.3.5 Mae'n debygol y bydd cynnydd pellach yn y niferoedd disgyblion sydd angen cefnogaeth, ac yn sgil hynny bydd angen gwaith pellach (Cam 3) i edrych ar y gefnogaeth sydd yn yr ysgolion prif lif eu hunain. Bydd hynny'n heriol o gofio cymhlethdod presennol ein cyfundrefn ysgolion. Cyn hynny, rhaid cael gwell trefn ar ein trefniadau cefnogi o fewn yr Adran.

3.3.6 Byddai angen i unrhyw brosesau Adnoddau Dynol arferol fod yn rhan o'r newid hwn, yn cynnwys yr angen i weithredu hawliau TUPE gyda unrhyw newid mewn cyflogaeth i aelodau o'r tim.

3.4 Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i dyletswyddau sector gyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig). Yn unol a'r dyletswyddau cyfreithiol yma wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cyngorhau dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig a dal sylw dyledus at y dyletswydd cymdeithasol economaidd dan Adran 1 o'r Ddeddf. Bydd asesiad effaith yn cael ei baratoi fel rhan o'r broses hwn.

3.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau lleisant sef

Cymru sydd yn lewyrchus, gydnherth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Mae'r Strategaeth wedi ei baratoi gan ddal sylw at y gofynion yma ac unol a'r 5 ffordd o weithio.

3.6 Beth yw'r egwyddorion fydd angen eu hystyried wrth sefydlu'r model newydd?

- Ymgynghori yn llawn gyda Swyddogion Cyngor Ynys Mon, a gyda staff y Gwasnaeth
- Model sydd yn cryfhau'r ymateb i anghenion Gwynedd
- Model sydd yn lleihau ar unrhyw haenau rheolaethol and oes eu hangen
- Model sydd yn ystyried posibilrwydd parhau i gydweithio gyda elfennau mwy prin/sgiliau mwy penodol o fewn y gwasanaeth
- Model sydd yn rhoi'r gwerth am arian gorau i Wynedd,

4. Camau Nesaf ac Amserlen

Hydref 2025	Trafodaeth Tim Arweinyddiaeth ynglŷn a'r egwyddorion a phenderfyniad Cabinet i gomisiynu model newydd
Hydref 2025	Ymgynghori pellach gyda Swyddogion Cyngor Môn
Tachwedd 2025 – Ionawr 2026	Ymgynghori gyda staff ynglŷn a Modelau posib
Ionawr – Chwefror 2026	Sefydlu'r model terfynol
Mawrth – Gorffennaf 2026	Proses Ail-strwythuro
Medi 2026	Model newydd ar waith

5. Sylwadau Swyddogion Statudol

5.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf yn fodlon â chywirdeb yr wybodaeth ariannol sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

Mae swyddogion Cyllid yn parhau i gyd-weithio gyda'r gwasanaeth wrth i'r model newydd ddatblygu. Byddwn yn parhau i gynorthwyo'r Adran Addysg dros y flwyddyn nesaf i adnabod cyfleon i ariannu'r cynnydd yn y costau fel bod modd osgoi neu leihau unrhyw ymrwymiad bid parhaol ar gyfer cyllideb 2026/27 ymlaen.

5.2 Swyddog Monitro

Mae'r penderfyniad a geisir yn seiliedig ar ddiddymu y bartneriaeth gyfredol gyda Ynys Mon ar gyfer darparu y gwasanaeth. Rwy'n nodi o'r adroddiad fod ymgysylltu a swyddogion Cyngor Mon yn un brif egwyddorion y broses. Fodd bynnag ddirwyn trefniant cyd-weithredol fel hyn i ben mae hefyd angen dal sylw a chyfarch yr agweddau cytundebol, adnoddau, rheoli gwybodaeth ac adnoddau dynol all fod yn berthnasol i gyflawni y newid. Dylai'r Adran sicrhau fel rhan o'r gwaith yma fod y

cynllun prosiect yn cynnwys camau ynglŷn a'r agweddau yma sydd angen eu cyfarch o'r cychwyn er sicrhau fod y newid model yn digwydd o fewn fframwaith eglur a phriodol .

Rhestr Atodiadau:

Atodiad 1 – Adroddiad Cabinet Ebrill 2025 (eitem Model Cynhwysiad)

Atodiad 2 – Adroddiad Craffu Ebrill 2025 (eitem ADY yn y Priflif ac Ysgolion Arbennig)

Atodiad 3 – Data ADY

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

Teitl yr eitem:	Darpariaeth Cynhwysiad Gwynedd
Aelod Cabinet:	Cyng. Dewi Jones, Aelod Cabinet Addysg
Swyddog perthnasol:	Ffion Edwards Ellis Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad
Dyddiad y cyfarfod:	10.4.25

1. Y Penderfyniad a Geisir

Mae sicrhau'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth gorau ar gyfer plant sydd â phroblemau ymddygiadol yn un o flaenoriaethau Adran Addysg. Mae ymddygiad plant yn gynyddol heriol ac o ganlyniad mae'r nifer o ddysgwyr sydd angen cefnogaeth yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol yn cynyddu. Mae gwaharddiadau penodol a pharhaol ar gynnydd ac yn destun pryder gwirioneddol i'r Adran Addysg, Penaethiaid ac i gymunedau ysgolion Gwynedd (gweler Atodiad 4 ac 8). Mae'r angen i flaenoriaethu'r maes hwn hefyd wedi ei nodi fel argymhelliad gan Estyn (Atodiad 1) ac yna mewn Arfarniad Allanol o'r maes yn dilyn derbyn argymhellion Estyn (Atodiad 2).

Ceisir y penderfyniadau isod:

1. Mabwysiadu yr Opsiwn o greu Uned Gyfeirio Disgyblion Cofrestredig Portffolio (Aml Safle)
2. Fod y Cabinet yn derbyn y cynllun ariannu yn yr adroddiad
3. Fod y Cabinet yn dirprwyo amserlen gweithredu a gwireddu y cynllun i'r Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad a'r Aelod Cabinet Addysg

2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad

Mae'r newidiadau sydd yn cael eu ffafrio yn gofyn i ni ail-fodelu'r gwasanaeth er mwyn gwella beth sydd yn cael ei gynnig. Mae gan yr Adran fwriad i ariannu y gost a wynebier er mwyn gweithredu'r newidiadau yn 2025/26 o ffynonellau presennol gan yr Adran. Bydd yna broses o ail-strwythuro yn digwydd yn ystod 2025/26, ac os bydd yna fwlch yn yr ariannu yn dilyn y broses honno, bydd angen i'r Cabinet ragdybio bid am gyllid parhaol ar gyfer 2026/27 ymlaen.

3. Cyflwyniad a Rhesymeg

Beth sydd wedi arwain ni i'r pwynt yma?

Dros y blynyddoedd yr ydym wedi lleihau'r gwasanaeth cynhwysiad. Nôl yn 2012 bu i ni fabwysiadu strategaeth gynhwysiad uchelgeisiol arweiniodd at gau dwy uned gyfeirio, un ym Mangor a'r llall yn Nolgellau a chau ysgol arbennig Coed Menai.

Ers hynny yr ydym wedi dyrannu swm o arian cynhwysiad (£1.2M) i ysgolion uwchradd ar ffurf grant cynhwysiad gyda'r bwriad o leihau gwaharddiadau a chynyddu presenoldeb.

Yr ydym wedi ceisio modelau gwahanol i ddarparu ar gyfer y plant na ellir ei cynhwyso mewn ysgolion, gyda chanlyniadau cymysg effaith hir dymor, ac ystod y ddarpariaeth ddim yn ddigonol i diwallu'r angen. Yn fwy diweddar bu i ni geisio model hybiau lle bo dwy ysgol yn darparu yn hytrach nag uned ganolog, eto doedd hwn ddim yn fodel effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth i gyd wedi methu darparu'r profiadau gorau ar gyfer ein dysgwyr sydd wedi ei gwahardd ac fe amlygwyd hyn gan Estyn yr Awdurdod nôl yn haf 2023 ac mewn arfarniad gan arbenigwyr allanol gomisiynwyd gan yr Adran Addysg.

Beth sydd wedi cael ei wneud yn barod?

Cyflwynwyd adroddiad i sylw'r Tîm Arweinyddiaeth yn Ionawr 2025 ac ym Mis Mawrth 2025, a oedd yn amlygu'r opsiynau posib. Roedd yr adroddiad yn ymhelaethu mwy ar yr opsiwn ffafredig (Gweler Atodiad 5)

Bydd y cynllun newydd yn dod a chostau ychwanegol i'r Adran yn y tymor byr, ond mae bwriad i fod yn ailstrwythuro ac edrych ar unrhyw arbedion mewn meysydd eraill o fewn y Gwasanaeth ADY a CH, er mwyn ariannu'r buddsoddiad ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf. Fel sydd wedi ei nodi yn rhan 2 uchod, ac os bydd yna fwlch yn yr ariannu yn dilyn y broses honno, bydd angen i'r Cabinet ragdybio bid am gyllid parhaol ar gyfer 2026/27 ymlaen.

3.1 Cefndir/ Cyflwyniad

Yn dilyn adroddiad Estyn (Atodiad 1) a Mrs C Rees (Atodiad 2), sefydlwyd Bwrdd Prosiect aml-asiantaethol a oedd yn cynnwys Penaethiaid ar gyfer cynllunio'r maes hwn. Bu i'r bwrdd ystyried adroddiadau Estyn ac Arfarniad allanol ynghyd ac effaith COVID ar ein plant a phobl ifanc. Mae'r angen yn y maes hwn wedi dwysáu (Atodiad 4), a gwaharddiadau wedi cynyddu.

Mae'n werth nodi bod cyfradd EOTAS Gwynedd yn isel o'i gymharu â siroedd eraill (EOTAS ydi nifer o blant sydd ddim yn derbyn addysg o fewn ysgol), ond mae'r darlun hwn yn gymhleth yn genedlaethol, oherwydd gwahaniaethau mewn darpariaethau.

Bu i aelodau o'r Bwrdd ymweld â siroedd eraill er mwyn gweld arferion amrywiol, a thrafod beth sy'n gweithio, a ddim yn gweithio, o fewn darpariaethau cynhwysiad amrywiol. Bu hefyd cydweithio gyda gwasanaethau eraill i fapio'r cymorth aml-asiantaethol sydd ar gael i'r dysgwyr hyn a'u teuluoedd.

O ganlyniad i'r gwaith hwn rydym wedi cynllunio opsiynau ar gyfer newid yn y ddarpariaeth, ac fe gyflwynwyd y rhain yng nghyfarfod y Tîm Arweinyddiaeth ym mis Ionawr 2025 a Mawrth 2025. Bydd ymgynghori ynglŷn â Strategaeth ar gyfer Cynhwysiad a fydd yn rhoi ffocws newydd ar leihau Gwaharddiadau gyda Phenaethiaid a rhanddeiliaid eraill yn rhan allweddol o'r gwaith.

Mae Atodiad 5 yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r model presennol, a'r modelau y bu i ni ystyried.

Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i dyletswyddau sector gyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig). Yn unol a'r dyletswyddau cyfreithiol yma wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cyngorau dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig a dal sylw dyledus at y dyletswydd cymdeithasol economaidd dan Adran 1 o'r Ddeddf. Paratowyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb sydd wedi ei atodi yn Atodiad 1. Mae gofyn i'r Cabinet ddal sylw at ei ganfyddiadau wrth ddod i benderfyniad. Nid yw yr asesiad yn adnabod unrhyw ardrawiad negyddol yn deillio o'r penderfyniad.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015


Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau lleisant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Mae'r Strategaeth wedi ei baratoi gan ddal sylw at y gofynion yma ac unol a'r 5 ffordd o weithio.

Beth yw'r opsiwn ffafredig?

Uned Gyfeirio Disgyblion Cofrestredig Portffolio (aml safle) yw'r opsiwn ffafredig. Mae hyn yn golygu y bydd y ddarpariaeth gyffelyb i ysgol fechan ar fwy nag un safle a hynny ar gyfer plant phroblemau ymddygiad. Yr ydym o'r farn fod hwn yn fodel fydd yn cryfhau atebolrwydd, gwydnwch llywodraethiant ac yn cynyddu capasiti.

Bydd yr opsiwn yn cynyddu nifer y swyddi yn y strwythur gan gynnwys penodi arweinydd a mwy o athrawon. Yn ogystal a chreu darpariaeth arbenigol, bydd yn cynyddu'r mewnbwn mae'r ysgolion yn ei gael ar gyfer modelu a hyfforddi.


Bydd ardrawiad ar rhai swyddi o fewn y model presennol, ble bydd angen ymgynghori gyda staff presennol ac addasu swydd ddisgrifiadau. Bydd y Strwythur Staffio'r Uned Cyfeirio Disgyblion Portffolio fel a ganlyn:



Gyda'r staff wedi ei rhannu i'r ardaloedd fel a ganlyn (ond gyda hyblygrwydd i symud o un darpariaeth i'r llall):

Rationale dros y strwythur hwn yw:

- angen i gryfhau'r model ymestyn allan
- sicrhau staffio digonol ar gyfer tair canolfan yn rhedeg ar yr un amser.



Bydd y pennaeth, yr athrawon a chymhorthyddion i gyd yn medru cefnogi plant o fewn y ddarpariaeth neu oddi mewn i ysgolion prif lif. Fe fyddan nhw'n weithredol, h.y. gweithio efo plant a phobl ifanc nid cynghori eraill beth y dylid ei wneud. Dyma mae'r ysgolion wedi gofyn amdano.

Bydd angen cryfhau elfennau cydweithio aml asiantaethol y er mwyn cynnal y dysgwyr o ran eu hanghenion cyfan personol a theuluol. Mae'n gwbl allweddol ein bod ni'n gweithio fel rhan o dîm gan nad oes disgwyl i'r gwasanaeth yma ar ei ben ei hun fod ar atebion i gyd.

Lle fydd y ddarpariaeth?

Yr ydym wedi buddsoddi arian cyfalaf grant ADY i uwchraddio adeilad hen ysgol Felinwnda, fe fydd y gwaith wedi gorffen erbyn Medi 2025. Fe fydd hwn yn gartref i'r gwasanaeth ac yn ychwanegu at y ddarpariaeth ym Mhenygroes ar gyfer Arfon/Dwyfor.

Mae gwaith wedi cychwyn ar adnabod lleoliad addas i gynnal lloeren ar gyfer Meirionnydd, lleoliad a fydd yn gweithio i'r mwyafrif. Lle fo costau cludiant yn sylweddol byddwn yn edrych ar leoliadau dros dro fydd yn cyfarch yr anghenion ac yn gwneud gwell defnydd o gyllid. Fel mae Atodiad 8 yn dangos, mae'r angen am y math hwn o ddarpariaeth yn llai o fewn Meirionnydd o'i gymharu ag Arfon/Dwyfor, felly bydd y ddarpariaeth lloeren yn llai.

Beth fydd yn wahanol i'r dysgwyr fyddai'n cael eu cynnal o fewn y ddarpariaeth?

Bydd y dysgwyr sydd yn mynychu'r lleoliadau angen darpariaeth sydd yn wahanol i ddosbarth priflif mewn ysgol. Bydd arlwy mwy ymarferol, therapiwtig, fydd yn edrych ar amrywiaeth o gymwysterau amgen ymarferol, ar gyfer gwella eu llwybr i fyd-gwaith, perthnasau iach, ac i gymryd rhan yn ein cymunedau.

Beth mae hyn yn ei olygu i'r grant cynhwysiad uwchradd?

Fel rhan allweddol o'r cynllun, bydd angen ffurfioli'r monitro ynglŷn â defnydd Ysgolion Uwchradd o'r buddsoddiad o £1.2 miliwn, sydd wedi ei bennu ar gyfer creu darpariaeth cynhwysiad o fewn yr Ysgolion. Nid oes monitro ffurfiol o'r swm hyn ar hyn o bryd ac mae'n rhaid i hyn newid.

Cyfrifoldeb pwy fydd ansawdd profiadau'r plant o fewn y ddarpariaeth yma?

Rôl y Pennaeth Portffolio fydd i reoli'r ddarpariaeth, ansawdd y ddarpariaeth, a pharatoi at sgrwtini e.e. Herio Perfformiad, Arolygon Estyn. Byddai angen 'Pwyllgor Rheoli' ar gyfer y ddarpariaeth yn debyg i gorff llywodraethu ysgol.

Nodweddion Positif:

- Cryfhau ardrawiad mewnbwn ymestyn allan – modelu, hyfforddi, ymgynghori
- Darparu mewn lleoliadau addas penodol gydag amgylchedd ddysgu o ansawdd uchel, gan weithlu cymwys a medrus
- Strwythur staffio a Llywodraethiant cadarn (e.e. Pwyllgor Rheoli, Arolwg Estyn)
- Darpariaeth ganolog arbenigol ar gyfer dysgwyr gydag anghenion lefel uchel
- Gallu darparu ar gyfer sefyllfaoedd eraill hefyd, e.e. amgylchiadau lle mae dysgwr rhwng ysgolion yn dilyn gwaharddiad i gynorthwyo'r trosglwyddiad
- Darpariaeth arbenigol ar gyfer BI 10 ac 11, sef y blynyddoedd mwyaf heriol.

Nodweddion Negatif

- Posibilrwydd i gostau Cludiant gynyddu.
- Strategaeth Cynhwysiad Ysgolion llwyddiannus yn hanfodol i allu darparu – e.e. monitro defnydd cyllid cynhwysiad yr ysgolion yn rhan hanfodol
- Angen am gyllideb ychwanegol yn y cyfnod sefydlu (gweler isod) ac o bosib yn y tymor hir.

Beth fydd cost y model ffafredig?

Bydd cost o £189,554,refeniw yn *ychwanegol* i'r gwariant presennol.

Yn ogystal, mae £157,000 o arian grant ADY yn cael ei ddefnyddio o fewn y model presennol. Mae risg ogwmpas y cyllid hwn pe byddai'r grant yn dod i ben.

Byddwn yn edrych ar arbedion mewn meysydd eraill o fewn ADY a Ch yn ei gyfanrwydd yn y dyfodol ar gyfer ariannu unrhyw fwllch. Fe fydd angen amser i ni wireddu'r arbedion yma, yr ydym yn gofyn i hyn gael ei ystyried. Os bydd yna fwllch yn yr ariannu yn dilyn y broses o ailstrwythuro a cheisio am arbedion, mae risg y bydd angen i'r Cabinet ragdybio bid am gyllid parhaol ar gyfer 2026/27 ymlaen.

Ydi hyn yn darparu y capasiti sydd wirioneddol ei angen?

Bu trafodaeth ynglŷn â capasiti'r ddarpariaeth yn y Tîm Arweinyddiaeth. Mae'r lefelau angen yr ydym yn ei brofi yn y maes hwn yn cynyddu, felly mae angen bod yn cynllunio ymlaen at y dyfodol yn ogystal.

Byddwn yn gweithio ar Strategaeth Cynhwysiad gyda'r Penaethiaid i gyd-fynd a'r gwaith, er mwyn gwella ymateb graddoledig ehangach er mwyn lleihau'r angen am leoliad yn yr Uned Gyfeirio Disgyblion.

Yr ydym yn credu fod y model yn darparu digon o leoliadau tu allan i ysgol. Dylai'r mwyafrif o ddysgwyr fod yn cael eu cynnwys o few neu hysgolion priflif, gyda lleiafrif angen y ddarpariaeth arbenigol y tu allan i'r priflif.

3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

Mae'r wybodaeth sydd yn cael ei gyflwyno o fewn yr adroddiad hwn yn disgrifio'r sefyllfa bresennol. Mae angen gweithio mewn ffordd wahanol, ac mae'r Bwrdd Prosiect yn cyflwyno'r model hwn yn dilyn cyfnod o ymchwilio a modelu ar gyfer gwella'r cynnig ar gyfer dysgwyr Gwynedd sydd ag anawsterau sylweddol gyda sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

4. Camau Nesaf ac Amserlen

Ymgynghori gyda staff presennol a'r Undebau	Ebrill – Mai 2025
Hysbysebu swydd Pennaeth Portffolio UCD	Ebrill – Mai 2025
Adnabod lleoliad lloeren Meirion/Dwyfor	Mawrth – Gorffennaf 2025
Ymgynghori gyda rhanddeiliaid	Gorffennaf 2025
Cofrestru'r Ddarpariaeth UCD Portffolio gyda Llywodraeth Cymru a sefydlu Pwyllgor Rheoli	Gorffennaf – Medi 2025
Darpariaeth mewn lle	Medi 2025

5. Sylwadau Swyddogion Statudol

5.1 Prif Swyddog Cyllid

Mae swyddogion Cyllid wedi cyd-weithio gyda'r gwasanaeth gyda'r ffigyrau ariannol a gyflwynir yn yr adroddiad, a gallaf gadarnhau eu cywirdeb. Byddwn yn parhau i gynorthwyo'r adran dros y flwyddyn nesaf i adnabod cyfleon i ariannu'r cynnydd yn y costau fel bod modd osgoi neu leihau unrhyw ymrwymiad bid parhaol ar gyfer cyllideb 2026/27 ymlaen.

5.2 Swyddog Monitro

Mae pwysigrwydd y maes yma yn amlygu ei hyn yn yr adroddiad. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir.

Rhestr Atodiadau:

- Atodiad 1: Adroddiad Estyn Cyngor Gwynedd
- Atodiad 2: Arfarniad Allanol (Awdur: Mrs Caroline Rees)
- Atodiad 3: Dogfen Egwyddorion ADYaCH
- Atodiad 4: Data angen Gwynedd Cymhariaeth 2019 a 2024
- Atodiad 5: Model Staffio Presennol a'r Opsiynau
- Atodiad 6: Data EOTAS (Addysg heblaw am yn yr Ysgol) Gwynedd
- Atodiad 7: Asesiad Effaith
- Atodiad 8: Data gwaharddiadau yn ol Ardal

CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
DYDDIAD	10/04/25
TEITL	ADY yn y Prif Lif ac Ysgolion Arbennig
RHESWM DROS GRAFFU	Craffu'r ddarpariaeth addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol ac i sicrhau mewnbwn a dealltwriaeth y Pwyllgor Craffu o'r cynnydd a wnaed i sicrhau bod Gwynedd yn barod ar gyfer y Ddeddf ADY a Chynhwysiad newydd.
AWDUR	Ffion Edwards Ellis, Pennaeth Cynorthwyol: Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (Adran Addysg)
AELOD CABINET	Cyng. Dewi Jones

1. Pam fod angen ei graffu?

- 1.1 Cyflwynir yr adroddiad yma mewn ymateb i gais gan aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i dderbyn adroddiad am ADY yn y Prif Lif ac Ysgolion Arbennig.
- 1.2 Yn ystod y drafodaeth ar yr eitem 'Strategaeth Addysg Gwynedd tuag at 2032' yng Nghyfarfod y Pwyllgor ar 14 Medi 2023, mynegwyd pryder ynglŷn â 2 fater penodol,
 - Gorlenwi yn y ddwy ysgol ADY yng Ngwynedd.
 - Y nifer o blant yn y prif lif sy'n methu ymdopi â system addysg prif lif.
- 1.3 Mae newid arwyddocaol yn y maes o ran integreiddio a rôl cymorthyddion. Gellid ystyried sut mae dyraniad cyllidol y sector addysg arbennig yng Ngwynedd yn cymharu gyda gweddill Cymru ynghyd â'r heriau yn y maes.

2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

Bwriad yr adroddiad yma yw cyflwyno gwybodaeth am sefyllfa ADY yng Ngwynedd yng nghyd-destun newid yn y ddeddfwriaeth yn ogystal â newid yn y galw am wasanaeth.

3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

- 3.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r sefyllfa anodd sy'n wynebu Ysgolion Gwynedd yn sgil y newid yn y galw am wasanaeth, yr hinsawdd ariannol bresennol ac effaith toriadau.
- 3.2 Mae angen rhoi diweddariad ynglŷn â sefyllfa Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Ngwynedd yng nghyd-destun newid yn y ddeddfwriaeth a newid yn y galw am wasanaeth.

4. Cefndir / Cyd-destun

4.1. Gwybodaeth Allweddol:

- Mae'r Ddeddf newydd 'ADY a Thribiwnlys Cymru (2018)' wedi dod i rym ers Medi 2021, gyda chyfnod trosglwyddo yn diwedd ym mis Medi 2025.
- Sefydlwyd Gwasanaeth ADY a Chynhwysiad ym Mis Medi 2017, ar y cyd rhwng Cyngor Ynys Môn a Chyngor Gwynedd. Mae'r Gwasanaeth wedi esblygu dros y blyneddau ers hynny, er mwyn ymateb i newidiadau yn y galw, ac wedi cael ei Adolygu yn allanol yn 2020, ac eto yn Rhagfyr 2023.
- Mae dwy Ysgol Arbennig ar gyfer ADY o fewn yr Awdurdod – Ysgol Hafod Lon ac Ysgol Pendalar.

4.2 Beth yw'r ddarpariaeth ADY yn y prif lif?

- Mae pob Ysgol yn derbyn cyllid ar gyfer darparu ar gyfer dysgwyr gyda Chynllun Datblygu Unigol (CDU). Maent yn creu map darpariaeth trwy ddefnyddio'r cyllid hwn. Ar hyn o bryd ceir cyllid ychwanegol trwy wneud cais i'r Panel Cymedroli ar lefel plentyn unigol. O Fawrth 2025 (yn dilyn gwaith gweithgor, ac ymgynghori gydag Ysgolion a swyddogion Cyllid) bydd hyn yn newid i dderbyn cyllid ar sail fformiwla. Bydd y fformiwla yn defnyddio data nifer dysgwyr gyda CDU, yn ogystal â dwyster eu hanghenion.
- Mae'r Gwasanaeth ADY a CH yn cefnogi'r Ysgolion i ddarparu ar gyfer y dysgwyr. Mae'r math o fewnbwn yn ddibynnol ar yr anghenion sydd gan yr ysgol a'r dysgwyr. Rydym yn teilwra'r mewnbwn er mwyn ymateb yn y ffordd fwyaf addas. Mae'r mewnbwn yn cael ei roi am gyfnod, gyda ffocws ar uwchsgilio staff yr ysgol er mwyn gallu ymateb i'r anghenion. Rydym yn mesur cynnydd yn dilyn derbyn mewnbwn. Gweler Atodiad 1.
- Yn hanesyddol, mae cyllideb yr Ysgolion Arbennig wedi eu gwarchod rhag toriadau, tra bod toriadau wedi bod i gyllideb yr Ysgolion Prif lif. Mae'r Ysgolion Arbennig yn cael eu hariannu ar sail dwyster angen pob dysgwr yn defnyddio 'bandiau' i ddisgrifio angen y dysgwyr.

4.3 Beth sy'n gweithio?

- Mae'r trosglwyddo i'r Ddeddf Newydd 'Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Cymru 2018' wedi bod yn llwyddiannus yn nhermau:
 - Cydweithio gyda'r Ysgolion i drosglwyddo dysgwyr i Gynlluniau Dysgu Ychwanegol, o'r hen drefniadau Datganiadau, yn llwyddiannus.
 - Creu mapiau darpariaeth sydd yn gyson (ond gyda blas mwy lleol ar lefel ysgol unigol) ar draws y dalgylchoedd a'r ysgolion.
 - Creu systemau datrys anghydfod gyda rhieni, ysgolion a'r Swyddogion Ansawdd ADY. Mae hyn wedi ei nodi fel arfer dda o fewn Arolwg Thematig ADY Estyn (2023). Mae linc i'r adroddiad i'w weld ar ddiwedd yr adroddiad.
 - Adolygu'r drefn gyllido ar gyfer Ysgolion Cynradd, fel bod y dull o gyllido yn ymateb i ofynion y ddeddf newydd.
 - Mae yna berthynas weithio glos rhwng yr Ysgolion a'r tîm ADY a CH, ac mae adnabyddiaeth dda o'r ddarpariaeth gan yr ALI.
 - Mae'r Ddeddf yn gofyn i Ysgolion a'r ALI 'gadw eu darpariaeth o dan adolygiad parhaus'. Mae hyn y cynnwys dod i farn ynglŷn â pha mor effeithiol yw'r ddarpariaeth, a'r ymyraethau sydd yn cael eu cynnig. Rydym wedi sefydlu proses

i wneud hyn. Mae'r broses adolygu yn ffordd i'r Gwasanaeth Ansawdd fonitro'r darpariaethau a thrafod datblygiadau pellach gyda'r Ysgolion gyda gwybodaeth allweddol ar gael o fewn y CDU. Mae'r timau arbenigol hefyd yn mesur cynnydd y dysgwyr sydd yn derbyn neu fewnbwn yn dymhorol, gyda'r mwyafrif yn gwneud cynnydd da.

- Mae gennym System CDU electroneg, ac mae'r datblygiad hwn wedi bod yn arloesol. Mae gennym Grŵp Defnyddwyr y CDU wedi ei sefydlu er mwyn datblygu'r system ymhellach, gyda ffocws bob amser ar leihau baich gwaith y Cydlynwyr ADY a CH yn ein hysgolion.
- Mae Rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol ADY o fewn y Ddeddf yn Statudol. Mae gennym berthynas agos a systemau cyfathrebu clir gyda'r swyddog yma, ac mae hyn yn rhan allweddol o'n prosesau cyd-weithio a datrys anghydfod gyda rhieni.
- Mae ein hadnabyddiaeth o ADY yn y blynyddoedd cynnar, ynghyd a'r cynnig darpariaeth iddynt yn arfer dda. Mae buddsoddiad wedi bod i'r maes hwn trwy fid am gyllid.

4.4 Sut bwriedir sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu'r galw? Pa gefnogaeth a hyfforddiant arbenigol sydd ar gael i staff sydd yn cefnogi disgyblion gydag anghenion dwys yn yr ysgolion prif lif? A yw'n ddigonol?

Mae'r ddarpariaeth sydd yn cael ei ddarparu wedi ei deilwra i anghenion yr ysgol neu'r dysgwr lle mae hynny yn bosib. Mae Atodiad 1 yn crynhoi beth sydd yn cael ei gynnig.

Mae yn fwy heriol gwneud hyn erbyn hyn, gydag adnoddau yma yn cael eu taenu yn deneuach. Mae'r Data sydd yn Atodiad 2 yn nodi'r cynnydd mewn anghenion. Mae hefyd angen nodi bod anghenion dysgwyr yn fwy cymhleth a lluosog erbyn hyn. Mae sgiliau datblygol cyfathrebu a rhyngweithio, a datblygiad emosiynol a chymdeithasol yn feysydd lle y gwelir twf.

Wrth i gyllidebau ysgolion grebachu, maent yn gweld hi'n anoddach darparu beth sydd yn eu map darpariaeth. Mae hynny yn arwain at fwy o geisiadau am fewnbwn gan y Tîm ADY, a hefyd gwneud ceisiadau i ddysgwyr drosglwyddo i'r Ysgolion Arbennig.

4.5 Pa gamau sydd mewn lle i ymateb i heriau yn y maes?

i) Beth yw'r heriau?

- Mae cyfrifoldeb statudol y Ddeddf ADY wedi ymestyn cyfrifoldebau cyfreithiol. Oherwydd hyn, mae pwysau gwaith ar Ysgolion, yn enwedig y Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CLADY) wedi cynyddu yn sylweddol. Mae hyn yn her i Ysgolion, yn enwedig yn lle mae cyllidebau yn crebachu, a'r gallu i ryddhau'r CLADY i gyflawni'r rôl yn her. Mae hyn wedi ei gydnabod yn Arolwg Thematig ADY Estyn (2022) a gan Lywodraeth Cymru.
- Mae Adnoddau yn brin ac yn prinhaus. Gydag anghenion yn cynyddu a chymhlethu, mae diwallu anghenion yn gynyddol heriol. Hynny yn wir i ysgolion, a'r Tîm ADY yn wynebu cynnydd mewn cyfeiriadau. Mae grantiau yn y maes hwn yn cael eu darparu gan LIC, ond nid yw'n cyfateb i'r cynnydd mewn gofyn, ac nid oes sicrwydd o arian yn ailadrodd, felly mae'n anodd cynllunio yn strategol (Atodiad 2 - Data).
- Mae'r galw am leoliad arbenigol yn cynyddu, ac nid yw pob cais am leoliad arbenigol yn addas. Mae gennym ddysgwyr dwys a chymhleth sydd angen eu cefnogi yn y prif lif, ond

mae'r her o wneud hyn yn cynyddu yn sgil cyllideb. Mae hyn yn gyrru rhieni i wneud ceisiadau am Ysgol Arbennig.

- Mae niferoedd Tribiwnlysoedd wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf (yn rhannol gysylltiedig â'r pwynt blaenorol), sydd yn heriol o ran amser Swyddogion ac Ysgolion (Atodiad 3 - Nifer Tribiwnlysoedd).
- Mae diffyg argaeledd unigolion sydd yn edrych am swydd fel Cymhorthydd o fewn Ysgol yn her, ac yn rhoi straen ar fap darpariaeth ysgolion pan fo swyddi gweigion.
- Mae'r drefn o hyfforddi Seicolegwyr Addysgol trwy Brifysgol Caerdydd yn effeithio ein gallu i recriwtio Seicolegwyr Addysgol sydd yn medru'r Gymraeg. Mae'n rôl statudol o fewn y Ddeddf, ac yn rôl allweddol o ran adnabod y ddarpariaeth y mae'r Dysgwyr ei angen.

ii) Beth fyddwn ni'n ffocysu arno er mwyn ymateb i'r heriau?

- Ym mis Mawrth 2025 fe fydd y dull cyllido Ysgolion Cynradd yn newid i ddull trwy fformiwla er mwyn:
 - Rhoi mwy o sefydlogrwydd cyllidol i gynnal staffio.
 - Trefn sydd yn fwy cyson ar draws ysgolion - mae'r fformiwla yn seiliedig ar nifer y dysgwyr sydd gyda CDU, yn ogystal â dwyster meysydd angen y dysgwr.
 - Lleihau biwrocratiaeth sydd yn bodoli ar hyn o bryd.
- Byddwn angen ystyried a oes angen llunio bid ar gyfer ymestyn y cyllid integreiddio sydd ar gael i ysgolion ddarparu ymyraethau digonol, gyda heriau cyllidol yn rhoi straen ar hyn ar hyn o bryd ac yn gyrru ceisiadau am leoliad arbenigol, ac anghydfod posib gyda rhieni.
- Byddwn yn cyd-weithio gyda Phenaethiaid a CLADY er mwyn:
 - Roi sylw i rôl y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CLADY), lleihau biwrocratiaeth, a threfniadau cydweithio ar draws y dalgylchoedd.
 - Monitro a gwerthuso'r drefn cyllido newydd.
 - Sicrhau bod y gwasanaeth ADY a CH yn addasu i ymateb i ofynion ysgolion Gwynedd.
- Gyda'r galw am leoliad arbenigol yn parhau, rydym yn:
 - Parhau gyda'r gwaith o fapio'r galw tebygol am ddarpariaethau arbenigol o'r blynyddoedd cynnar i fyny (gweler 4.6).
 - Edrych yn ofalus ar beth yw ein cynnig ar gyfer dysgwyr sydd gydag anghenion dwys yn y prif lif, ond lle na fyddai ysgol arbennig yn lleoliad addas. Rydym eisoes wedi trefnu hyfforddiant ym mis Ebrill ar gyfer Ysgol Prif lif, ar gyfer cynllunio ar gyfer dysgwyr gydag anghenion sylweddol yn y prif lif. Bydd yr Ysgolion Arbennig, a rhai o'n Hysgolion Prif Lif, yn rhannu arfer dda yn ystod y diwrnod.
 - Cydweithio gyda Phenaethiaid yr ysgolion arbennig i fapio eu capasiti. A'r cwricwlwm sydd yn cael ei gynnig (e.e. yn y sector OI-16). Byddwn hefyd yn edrych ar y dull cyllido trwy fandio anghenion (Gweler 4.6).
 - Defnyddio grant cyfalaf ADY ar gyfer gwneud addasiadau i gynydd capasiti/amgylchedd ddysgu ar gyfer dysgwyr yn yr ysgolion arbennig, prif lif a'n canolfannau.
- Parhau i roi sylw i'r angen am ddull hyfforddi ar gyfer Seicolegwyr Addysgol. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau ynglŷn â llwybr hyfforddi yng Ngogledd Cymru (Prifysgol Bangor).

4.6 Beth yw'r cynlluniau i ymateb i'r gorlenwi yn yr ysgolion arbennig?

Mae'r Ysgolion Arbennig wedi gweld cynnydd mewn niferoedd dros y blynyddoedd diwethaf (gweler Atodiad 2), ond nid yw'r twf hwn yn gynaliadwy. Mae'r trosglwyddiadau i'r Ysgolion Arbennig yn tueddu i ddigwydd ar adegau penodol:

- Dysgwyr sydd ag anghenion dwys yn y blynyddoedd cynnar, sydd yn cael cyfnod asesu yn y canolfannau ABC, yna'n trosglwyddo i'r Ysgolion arbennig yn oedran Dosbarth Derbyn (4/5 oed).
- Dysgwyr yn symud i mewn i'r ardal sydd wedi bod yn mynychu ysgolion arbennig yn eu hardal flaenorol.
- Dysgwyr sydd yn dod i ddiwedd cyfnod allweddol (fel arfer diwedd y cyfnod sylfaen neu tuag at amser trosglwyddo i'r Uwchradd) gyda phryder am eu gallu i wneud cynnydd yn y prif lif.

Wrth edrych ar y graff yn Atodiad 2, gellir gweld bod yna gynnydd wedi digwydd i'r niferoedd gyda'r plant sydd ym mlwyddyn 6-8 yn bresennol, gyda'r nifer yn sefydlogi ar ôl hynny. Mae'n debygol bod hyn yn y cyfnod pan nad oedd ystod canolfannau ADY a CH ar gael i gefnogi'r prif lif, a hefyd tuag at ddiwedd cyfnod y ddeddfwriaeth bresennol. Fe gafwyd hefyd nifer o deuluoedd yn symud i'r ardal yn dilyn y clo.

Mae'n anarferol i ddysgwyr drosglwyddo yn ôl i'r prif lif unwaith maent wedi symud i ysgol arbennig, ac maent yn gallu aros yn yr ysgol nes eu bod yn cyrraedd Blwyddyn 14 (18/19 oed).

Mae'n anarferol i ddysgwr rannu lleoliad gydag Ysgol Prif lif, ond mae hyn yn gallu gweithio yn dda i rai.

Ar gyfer targedu'r sefyllfa yma rydym wedi bod yn cymryd y camau canlynol:

- Mapio: Mae ein prosesau Blynyddoedd Cynnar ar gyfer adnabod ADY yn gryf. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu mapio anghenion yn y blynyddoedd cynnar ar gyfer rhagweld niferoedd yn well nag erioed. Rydym wedi cychwyn mapio anghenion mwy dwys yn y blynyddoedd cynnar, ynghyd a'r dysgwyr sydd yn derbyn mewnbwn gan y timau, er mwyn rhagweld pa ddysgwyr sydd yn debygol o fod angen lleoliad arbenigol yn y dyfodol.
- Integreiddio: Pan mae dysgwr yn mynychu'r Ganolfan ABC (Meithrin) erbyn hyn, mae pob un yn rhannu lleoliad gydag Ysgol Prif lif. Mae hyn yn ein cynorthwyo i arsylwi ar y plentyn mewn sefyllfa prif lif - os yw'r plentyn yn ymdopi yn y prif lif, yna fe ddylen ni fod yn gallu parhau gyda hynny. Byddwn hefyd yn edrych ar fodolau o rannu lleoliad gydag Ysgol Arbennig lle mae'n bosib, a throsglwyddo yn ôl i'r prif lif os ydy dysgwr wedi gwneud cynnydd digonol i allu ymdopi gyda chwricwlwm prif lif.
- Canolfannau a Grwpiau Ymyrraeth: Rydym wedi cychwyn newid y ddarpariaeth mae rhai o'n timau yn ei ddarparu i ddysgwyr mwy anghenus yn y prif lif, er mwyn rhoi cefnogaeth fwy rheolaidd iddynt, ac uwch sgilio'r ysgolion mewn ffordd wahanol. Byddwn hefyd yn edrych ar fapiau darpariaeth gyda'n hysgolion i wella'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd yn ffinio ar angen lleoliad arbennig, ond yn gwneud cynnydd yn y prif lif.
- Cynllunio ar y cyd: Byddwn yn dod a'r wybodaeth uchod ynghyd gydag Arweinwyr yr Ysgolion Arbennig yn fuan, er mwyn cynllunio ymhellach ar draws y sector.
- Rydym wedi buddsoddi grant Cyfalaf ADY yn Ysgol Pendalar er mwyn gwella defnydd y gofod sydd ar gael yno, a chynyddu capasiti.

Bydd yr uchod yn ein galluogi i ddatblygu gwasanaeth a strategaeth ar gyfer sicrhau ein bod yn diwallu gofynion Dysgwyr Gwynedd.

4.7 Faint o ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol sydd yn ysgolion prif lif Gwynedd?

Mae'r data sydd yn Atodiad 2 yn ddata blynyddol. Roedd data byw ar y 23/3/25 yn dangos yr wybodaeth isod. Mae yna 2139 o blant gyda CDU (cywir 23/3/25) yng Ngwynedd, sydd yn 12.8% o'r boblogaeth 0-25. Mae yna hefyd 36 plentyn sydd â Chynllun Meddygol Unigol oherwydd cyflwr e.e. Epilepsi, Diabetes Math 1, sydd yn ddarpariaeth ar gyfer anghenion meddygol yn unig. Mae hyn yn cyfateb i 0.2% o'r boblogaeth ysgol/cyn ysgol.

CDU Ysgol – Darpariaeth Ysgol	943
CDU Fforwm - Darpariaeth Ysgol, gyda mewnbwn gan Dîm ADY	320
CDU Awdurdod - Darpariaeth ychwanegol i ysgol, gyda mewnbwn gan Dîm ADY	876

4.8 A oes gan yr holl ddisgyblion ADY yn yr ysgolion prif lif Gynllun Datblygu Unigol? Os ddim, oes yna broses mewn lle i gadw llygaid ar y disgyblion yma?

Os yw darpariaeth addysg (cyn ysgol/ysgol neu goleg 0l-16) wedi adnabod bod gan ddysgwr ADY (ac felly angen Darpariaeth Dysgu Ychwanegol) mae gan y dysgwr CDU. Os yw ysgol/cyn-ysgol/coleg yn y broses o dargedu am gyfnod, neu gasglu tystiolaeth i wneud penderfyniad a oes gan ddysgwr ADY, nid oes ganddynt CDU eto.

Mae gan bob ysgol fap darpariaeth, ac fel rhan o'r map byddant yn adnabod sut y maent yn cadw llygad ar gynnydd dysgwr, er mwyn cychwyn proses 'ymholiad ADY' os ydynt yn teimlo efallai bod ADY yn amlygu.

5. Ymgynghori

- Cydweithio gyda Phenaethiaid i Ddatblygu'r Fformiwla Gyllido ADY a CH.
- Casglu gwybodaeth ynglŷn â barn ysgolion trwy fesuryddion bodlonrwydd.
- Bydd Ymgynghori pellach yn digwydd gyda Phenaethiaid yr Ysgolion Arbennig fel sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad.

6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

6.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus ac wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant drwy ddilyn y 5 ffordd o weithio.

6.2 Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd lles ar y Cyngor i gynnal gwaith datblygu cynaliadwy drwy weithredu mewn cydweithrediad â'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy'. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yr effaith ar bobl yn y dyfodol wrth wneud penderfyniadau.

6.3 O ran **cydweithio a chynnwys eraill**, rydym yn:

- Casglu holiaduron bodlonrwydd misol gan rieni a staff ysgolion, ac ymateb i'r sylwadau hyn.
- Casglu barn dysgwyr ar ddiwedd ymyrraeth lle mae hynny yn bosib, a hefyd trwy broses Cynllunio Person Ganolog o fewn y CDU.
- Trafod gyda Phenaethiaid yn y Grwpiau Strategol a'r Ffederasiwn.

- Cyfarfod Panel Blynyddol gyda phob ysgol, lle mae cyfle iddynt roi barn am agweddau gwahanol o'r gwasanaeth.

Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?

- Mae'r Ddeddfwriaeth ADY a Thribiwnlys Cymru yn nodi pwysigrwydd ymateb yn gynnar i unrhyw angen sydd yn codi. Mae adnabod angen dysgwr yn gynnar yn hanfodol i leihau'r angen hir dymor.
- Byddwn yn parhau i adolygu ein prosesau adnabod ADY, fel ein bod yn rhagweithiol mewn atal problemau rhag datblygu.
- Mae gennym brosesau cryf o ran cychwyn y broses yn y blynyddoedd cynnar, ac mae hyn wedi ei adnabod gan Estyn (Arolwg Thematig ADY)

Sut ydych wedi ystyried yr **hirdymor** a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?

O ran y **tymor hir** ac edrych i'r dyfodol, rydym eisoes yn ymwybodol o'r cynnydd yn y galw am wasanaethau. Rydym yn defnyddio data ynglŷn â thueddiadau er mwyn adnabod y galw. Mae hyn yn dechrau o'r crud, gan fod y Ddeddf ADY yn ddeddf 0-25 oed.

Er mwyn sicrhau **integreiddio**, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?

- Rydym yn cydweithio yn agos gyda'r Swyddog Arweiniol Clinigol ADY o fewn y bwrdd lechyd, gyda'n partneriaid yn y Blynyddoedd Cynnar, a gwaith amlasiantaethol cyson.

7. **Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

Mae'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn cydymffurfio â Deddf ADY a Thribiwnlys Cymru 2018

Mae'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn cynnig gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd asesiad effaith yn cael ei gynnal pan yn berthnasol i unrhyw newid.

8. **Camau Nesaf** Gweler 4.5.

Gwybodaeth Cefndir

Thematig Estyn -

Estyn (tud 37 a 43) - [Y system anghenion dysgu ychwanegol newydd](#)

Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys Addysg Cymru -

[The Education Tribunal for Wales, Annual Report 2023-24](#)

Atodiadau

Atodiad 1 – Strwythur Staffio Gwasanaeth ADY a CH (Gwynedd)

Atodiad 2 – Data ADY

Atodiad 3 – Data Apeliadau/Tribiwnlys

Atodiad 2 – Data Tueddiadau Maes ADY

Niferoedd Dysgwyr sydd gyda CDU yng Ngwynedd:

PLASC	CDU Awdurdod	CDU Ysgol /Fforwm	Cyfanswm	
2022	767	1186	1953	Cyfanswm yn dangos cynnydd mewn niferoedd ers 2022. Mae cynnydd ar pob lefel.
2023	804	1109	1913	
2024	795	1148	1943	
2025*	852	1219	2071	Statws CDU Y ydyw CDUFF yn ôl y Ddeddfwriaeth – mae’r lefel Fforwm yn ddisgrifiad lleol i Wynedd a Mon, lle mae’r Tim yn ymwneud a dysgwyr sydd ar CDU Y.


Niferoedd Dysgwyr wedi eu lleoli mewn Ysgolion Arbennig yng Ngwynedd:

Mae’r tabl a’r graff yn dangos nifer dysgwyr wedi eu lleoli mewn Ysgol Arbennig. Sylwer fod y nifer wedi cynyddu ers 2022, ond mae’r proffil oed yn dangos cynnydd mewn cyfnod penodol (bl 6-8 yn y cyfnod hwn), ac mae’r graff yn dangos hyn yn y tueddiad dros amser. Mae’r llinell graff i weld yn sefydlogi yn y blynnyddoedd ieuengaf yn yr ysgol, sydd yn bwysig o ran cynllunio.

Cyfnod / BCC	PLASC	-1	0	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	Cyfanswm
Arbennig	2022	1	14	16	11	9	17	15	12	18	20	18	15	13	17	14	8	218
Arbennig	2023	4	15	13	16	13	10	23	18	16	18	20	18	15	10	15	12	236
Arbennig	2024	1	14	15	15	16	14	12	24	21	15	17	18	15	8	7	11	223
Arbennig	2025	2	17	15	17	17	16	16	13	24	22	14	17	18	14	8	6	236

Atodiad 2 – Data Tueddiadau Maes ADY

Cymhariaeth Oedran Dysgwyr o fewn yr Ysgolion Arbennig



Atodiad 2 – Data Tueddiadau Maes ADY

Disgrifiad PLASC Dysgwyr sydd a CDU (mae posib rhoi dau ddisgrifiad)

Mae angen cofnodi maes angen pob dysgwyr ADY yn y data PLASC blynyddol. Mae Ysgol yn gallu rhoi prif faes, ac ail faes. Fe welir o’r data isod bod y defnydd o rhai disgrifiadau wedi cynyddu dros y dair blynedd diwethaf, gyda’r meysydd sydd mewn coch yn sefyll allan fel meysydd cynnydd. Mae hefyd o bosib yn adlewyrchu’r cynnydd cymhlethdod anghenion, lle mae angen defnyddio mwy nag un cod.

PLASC	ADHD	ASD	Cymdeithasol, Ymddygiadol, Emosiynol	Anawsterau Rhifedd (DYSC)	Anawsterau Llythrennedd (DYSL)	Dysprasia	Anawsterau Dysgu Cyffredinol	Nam Ciyw	Anawsterau Dysgu Cymedrol	Amlsynhwyraidd	Corfforol/Meddyg ol	Dwys a Lluosog	Lleferydd, Iaith a Cyfathrebu	Anawsterau Dysgu Dwys	Nam Golwg	Cyfanswm
2022	29	132	137	3	11	10	25	17	47	3	86	42	264	126	32	964
2023	40	163	196	3	19	14		22	78	5	111	53	382	128	39	1253
2024	36	167	225	2	20	14		20	99	5	112	44	404	131	40	1319

CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd



Teitl yr eitem:	Adroddiad Monitro Blynnyddol - Cynllun Datblygu Lleol 2024-2025
Aelod Cabinet:	Cyng. Craig ab Iago, Aelod Cabinet Amgylchedd
Swyddog perthnasol:	Gareth Jones, Pennaeth Adran Gynorthwyol
Dyddiad y cyfarfod:	14 Hydref 2025

1. PENDERFYNIAD A GEISIR

Bod y Cabinet yn derbyn Adroddiad Monitro Blynnyddol 7 (Atodiad 1) a chytuno i gyflwyno i'r Llywodraeth erbyn diwedd mis Hydref 2025.

2. Y RHESWM PAM FOD ANGEN I'R CABINET WNEUD Y PENDERFYNIAD

Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 yn gosod allan yr angen i fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn flynyddol ac i gyflwyno Adroddiad Monitro Blynnyddol i Lywodraeth Cymru erbyn 31ain Hydref yn flynyddol.

Bydd aelodau'r Cabinet yn cofio o'r adroddiad AMB a gyflwynwyd llynedd, gan fod trefniant cyd-weithio rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn ar faterion Polisi Cynllunio bellach wedi dod i ben, mae cynnwys yr AMB yma, ynghyd a'r rhai dilynol yn canolbwyntio'n ar dystiolaeth sydd yn benodol berthnasol i Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn unig. Bydd y wybodaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn dystiolaeth werthfawr i gefnogi'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI).

Mae'r Adroddiad yn cyflwyno'r seithfed Adroddiad Monitro Blynnyddol sydd yn berthnasol i'r cyfnod 1 Ebrill 2024 - 31 Mawrth 2025 ynghyd a sylwadau'r Gweithgor Polisi Cynllunio ar y ddogfen.

3. CYFLWYNIAD A RHESYMEG



3.1 Cefndir

Y Fframwaith Fonitro (Pennod 7 yn y Cynllun)

3.1.1 Mae'r AMB yn sail tystiolaeth bwysig ar gyfer adolygu'r CDLI ar y Cyd a dros amser gall AMB ddangos tueddiadau, adnabod unrhyw bolisiâu sydd yn

cyflawni ai peidio, ac amlygu unrhyw wagle neu ddiffyg o ran polisi. Mae gan CDLI ar y Cyd Gwynedd a Môn fframwaith fonitro sydd wedi ei gytuno efo'r Arolygydd yn ystod yr Archwiliad Cyhoeddus. Mae'r fframwaith i'w weld ym mhennod 7 o'r CDLI ar y Cyd. Mae 70 o ddangosyddion, sydd yn adrodd ar y 5 thema fel sydd yn y CDLI ar y Cyd. Gan fod y trefniant cyd weithio ar faterion polisi cynllunio rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi dod i ben mae AMB 7 yn adrodd ar y dystiolaeth sydd yn benodol i ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn unig. Mi fydd y wybodaeth sydd yn cael ei gyflwyno yn yr Adroddiad yma yn dystiolaeth ddefnyddiol wrth baratoi'r CDLI.

- 3.1.2 Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisiâu ac i roi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn:-

Symbol	Disgrifiad	Nifer o Ddangosyddion
	Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau.	30
	Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi.	18
	Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwylidig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi.	5
	Nid oes casgliad – mae'r data sydd ar gael yn brin.	2
Dangosyddion sydd wedi ei gyflawni		12
Dangosyddion nad oes angen adrodd arnynt (perthnasol i ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn)		3

- 3.1.3 Mae yna ddisgwyliad i bob fframwaith fonitro gynnwys dangosyddion craidd yn ymwneud a'r canlynol:-

Tabl 1: Dangosyddion Craidd

Dangosydd craidd	Cyfeirnod yn y Fframwaith Fonitro
Dosbarthiad gofodol datblygiad tai	D25
Y lefelau cwblhau tai fforddiadwy blynyddol wedi'u monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig.	D47
Cyfanswm cronol y tai a gwblhawyd wedi'i fonitro yn erbyn y gyfradd cwblhau tai cronol disgwyliedig.	D44
Nifer o dai fforddiadwy adeiladwyd o'i gymharu â'r targed sydd yn y Cynllun.	D47
Pa fath o dai fforddiadwy adeiladwyd (daliadaeth).	Heb gynnwys o fewn y fframwaith Monitro mabwysiedig ac nid yw'n cael ei fonitro ar hyn o bryd.
Tir cyflogaeth a ddefnyddiwyd yn erbyn dyraniadau.	D32 & D33
Hyfywdra'r farchnad ar gyfer datblygiadau tai.	D50
Graddfa datblygu ar ddynodiadau tai.	D45 & D46*
Datblygu prosiectau isadeiledd allweddol.	Heb gynnwys o fewn y fframwaith Monitro mabwysiedig ac nid yw'n cael ei fonitro ar hyn o bryd
Safleoedd llety Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi eu datblygu.	D56*, D57 & D58
Graddfa/math y datblygiad agored iawn i niwed a ganiateir o fewn ardaloedd perygl llifogydd C2.	D18

*Ddim yn cael ei adrodd arnynt, gan eu bod yn benodol berthnasol i Ardal Awdurdod cynllunio Lleol Cyngor Sir Ynys Môn

- 3.1.4 Mae gweddill y dangosyddion sydd i'w gweld yn Fframwaith Fonitro'r CDLI ar y Cyd yn rhai sydd yn benodol i ardal y CDLI y Cyd.
- 3.1.5 Mae'r tabl isod yn nodi'r weithred sydd yn y Fframwaith Fonitro. Gall gweithrediadau eraill fod yn berthnasol, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, e.e. diwygio Canllaw Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd. Mae gweithred wedi cael ei nodi yn erbyn bob un dangosydd yn yr AMB fel rhan o'r dadansoddiad. Mae ambell ddangosydd wedi derbyn y lliw llwyd gan fod y dangosydd wedi cael ei gyflawni e.e. mabwysiadu CCA. Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o'r gweithredoedd yn dilyn asesiad o ddangosyddion y Fframwaith Fonitro:-

Asesiad	Gweithred	Nifer o ddangosyddion yn y categori
Ble mae dangosyddion yn awgrymu fod polisiâu CDLI yn cael eu gweithredu'n effeithiol	Dim gweithred bellach ei angen heblaw am barhau gyda monitro	42
Asesiad o'r penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn awgrymu nad yw polisiâu yn cael eu gweithredu yn y modd y'i bwriedir	Efallai bod angen hyfforddi Swyddog a / neu Aelod	0
Asesiad yn awgrymu bod angen canllaw pellach yn ychwanegol i'r rhai sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun er mwyn i) egluro sut ddylai gweithredu polisi yn gywir, neu ii) i hwyluso datblygiad safleoedd penodol.	Cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol ychwanegol, a all gynnwys briffiau datblygu safleoedd penodol, gweithio'n agos gyda'r sector breifat a darparwyr isadeiledd, ble'n berthnasol.	0
Asesiad yn awgrymu nad yw polisi mor effeithiol a disgwyliwyd iddo fod.	Ymchwil pellach ac ymchwiliad ei angen, gan gynnwys edrych ar wybodaeth gyd-destunol am ar ardal y Cynllun neu faes testun.	13
Asesiad yn awgrymu nad yw polisi yn cael ei weithredu	Adolygu'r polisi yn unol â hynny	0
Asesiad yn awgrymu nad yw'r strategaeth yn cael ei weithredu	Adolygu'r Cynllun	0
Targed wedi ei gyflawni.	Dim angen gweithrediad pellach.	15

3.1.6 Casgliadau Allweddol yr AMB

1. Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 173 o unedau preswyl newydd (gan gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau presennol i ben) yn ystod 2024/25. Gweler dosbarthiad y caniatadau hyn yn Atodiad 2 o'r AMB. Roedd 75uned (43.4%) ar gyfer tai fforddiadwy.
2. Cwblhawyd 212 o dai yn ystod y cyfnod monitro yma.
3. Cwblhawyd 140 o unedau tai fforddiadwy yn 2024-25 sydd yn 66% o'r holl unedau a gwblhawyd ar gyfer eleni. Noder nad yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys tai sy'n fforddiadwy yn sgil eu lleoliad, a'u maint, fel y gallai fod yn wir mewn rhai ardaloedd yn ardal y Cynllun.
4. Nodir bod 2687 o unedau wedi'u cwblhau yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd rhwng y dyddiad cychwyn (2011) a 2024/25, tra bod y taflwybr yn y Cynllun (wedi ei gyfleu i ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd) yn nodi ffigwr cwblhau o 3487 o unedau erbyn y cyfnod hwn. Felly, mae hyn 22.9% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr.
5. Mae 35.3% o'r unedau tai¹ a ganiatawyd yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blyneddol o fewn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Mae 9.8% o'r unedau wedi'u caniatáu o fewn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol gyda 54.9% pellach wedi'u caniatáu mewn Pentrefi, Clystyrau ac yng Nghefn Gwlad Agored.
6. Yn y cyfnod Adroddiad Monitro Blyneddol (2024-25), mae 25.9% o'r unedau tai a gwblhawyd yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd wedi'u lleoli ar safleoedd sydd wedi'u clustnodi ar gyfer tai.
7. Dwysedd cyfartalog y caniatadau tai newydd yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn ystod y cyfnod AMB yw 29.4 o unedau fesul hectar.
8. Caniatawyd 4 safle eithrio tai fforddiadwy yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blyneddol (cyfanswm o 14 uned ar y safleoedd a ganiatawyd).
9. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer un uned marchnad leol o'r newydd o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blyneddol. Ni chwblhawyd yr un uned marchnad leol yng nghyfnod yr AMB hwn o fewn yr ardal hon.
10. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae dros 62% o ganiatadau tai ar safleoedd o'r newydd (heb gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau presennol i ben) ac sy'n cyrraedd y trothwy perthnasol wedi cynnwys y lefel ddisgwyliedig o dai fforddiadwy ar y safle. Ar gyfer yr 2 safle sydd efo 11+ o unedau tai a gafodd ganiatâd yn ystod 2024 i 2025 mae 1 safle ar gyfer datblygiadau 100% o dai fforddiadwy efo'r safle arall yn darparu 66.6% o dai fforddiadwy.
11. Allan o'r unedau gafodd ganiatâd a'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun mae'r canran o dai fforddiadwy yn 52.6%.
12. Derbyniodd y Cyngor 8 Apêl yn ystod y cyfnod monitro efo 3 yn cael ei ganiatáu. Mae 2 o'r apeliadau a ganiatawyd yn ymwneud a materion

dylunio ac effaith y bwriad ar y dirwedd / mwynderau cyfagos. Rhain felly yn faterion goddrychol ac felly ddim yn tanseilio unrhyw bolisi yn y Cynllun. Roedd yr apêl arall yn ymwneud a chais i ddymchwel ac ail godi tŷ o fewn anheddle ble mae tai newydd wedi ei gyfyngu i Dai Marchnad Leol o dan Bolisi TAI 5. Tra bod yr arolygydd wedi cytuno fod Polisi TAI 5 yn berthnasol fe amlygwyd anghysondeb posib efo'r Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer dymchwel ac ail godi tŷ. Credir felly bydd angen ystyried goblygiadau'r dyfarniad wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd.

13. Un o amcanion strategol y CDLI ar y Cyd yw hwyluso amrywiaeth yn yr economi wledig, mae'r amcan hynny wedi bod yn llwyddiannus yn ystod cyfnod AMB, gyda caniatadau wedi cael ei roi ar gyfer amryw o ddefnyddiau cyflogaeth gan gynnwys unedau busnes/diwydiannol hyblyg newydd, modurdy/storfa gychod, codi adeiladau ar gyfer busnesau coed a phigo ffrwythau, gweithdy a storfa..
14. Mae Dangosydd D21 yn gosod targedau ar gyfer cyfarch yr adnoddau ynni adnewyddadwy posib sydd wedi cael ei adnabod yn y Cynllun. Roedd disgwyl y buasai 50% o hyn sef 1,113.35 GWh ar gyfer trydan a 23.65 GWh am wres wedi cael ei gyfarch erbyn 2021. Fodd bynnag hyd at 2025 dim ond 119.6 GWh yn ychwanegol i'r ffigyrau yn nhablau 7 ac 8 yn y CDLI ar y cyd sydd wedi cael ei ddarparu. Felly nid yw'r targed o 50% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib ar gyfer gwres a thrydan yn cael ei ddarparu erbyn 2021 wedi cael ei gyflawni. Mae gan y cynlluniau a ganiateir potensial ar gyfer ynni a gynhyrchir o 3,281.4GWh. Byddai hyn yn cyrraedd y targed o fewn y Cynllun fodd bynnag mae rhai o'r cynigion wedi cael caniatâd ers peth amser. Mae'n amlwg felly bod methu â chyflawni'r targed o fewn y Cynllun mewn perthynas â gweithredu cynlluniau yn hytrach na methiant ym Mholisiâu Ynni Adnewyddadwy'r Cynllun.
15. Cafodd 4 cais ei gwrthod yn rhannol oherwydd materion ieithyddol a chafodd 24 cais ganiatâd efo amod cynllunio ar gyfer mesurau lliniaru ieithyddol.

3.1.7 Bydd casgliadau'r AMB yma ynghyd a'r AMB blaenorol yn darparu sail tystiolaeth bwysig wrth baratoi CDLI newydd. Fel yr amlinellir uchod ac yn yr Adroddiad yn atodiad 1 nid yw rhai targedau polisi yn cael eu cyrraedd, fodd bynnag, mae rhan helaeth o rain yn ymwneud â materion sydd y tu hwnt i reolaeth y CDLI ar y Cyd. Mae'r CDLI yn darparu fframwaith polisi i gefnogi datblygiadau priodol o fewn ardal y cynllun.

Adolygu'r Cynllun

3.1.8 Mae'r Cabinet yn ymwybodol fod gwaith wedi cychwyn ar baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd. Bydd tystiolaeth a chasgliadau'r AMB yn ffurfio rhan o'r sail tystiolaeth a fydd yn

cyfrannu at baratoi'r cynllun newydd. Mae'r AMB hwn yn dilyn yr un fformat â'r rhai blaenorol ond yn adrodd ar berfformiad ACLI Gwynedd yn unig

Barn gyffredinol gan Weithgor Polisi Cynllunio

3.1.9 Derbyniwyd y sylwadau canlynol gan aelodau'r Gweithgor:

1. Nodwyd fod y nifer o dai fforddiadwy sydd wedi cael ei gwblhau yn ystod cyfnod AMB7, sef 140 mewn nifer yn bositif;
2. Yng nghyswllt Dangosydd D2, nodwyd fod yna anghysondeb yn y fersiwn Saesneg o ran y nifer o dai oedd wedi derbyn caniatâd yn y testun eglurhad a'r tabl cysylltiedig;
3. Cwestiynwyd rhan o'r dadansoddiad i Ddangosydd D1 sydd yn nodi "*Yn nifer o'r cymdogaethau sydd wedi gweld y lleihad mwyaf o ran canran y siaradwyr Cymraeg ychydig iawn o dwf tai newydd sydd wedi bod trwy'r Cynllun Datblygu ar y Cyd.*" Nodwyd nad oes unrhyw dystiolaeth ystadegol wedi ei ddarparu i gefnogi'r datganiad hyn. Ymhellach nodwyd nad oes yna asesiad o effaith datblygiadau mawr dros amser ar symud siaradwyr o un gymuned i'r llall.
4. Mynegwyd pryder ynglŷn â'r broses o asesu Datganiadau ac Asesiadau leithyddol gwallus. Ystyriwyd yn briodol sicrhau fod yr hyn a nodir o fewn asesiadau/datganiadau yn gywir (gan gynnwys newidiadau demograffeg posib). Er mwyn sicrhau fod Asesiadau/Datganiadau yn ddiduedd, awgrymwyd y dylid gweithredu trefn newydd ble fo'r Cyngor yn penodi arbenigwyr cydnabyddedig i ymgymryd ag Asesiad/Datganiad leithyddol ar gost i'r ymgeisydd.

Gweithredu yn dilyn cyfarfod y Gweithgor

3.1.10 Yn sgil sylwadau'r Gweithgor, fe ymgwymerwyd â'r diwygiadau canlynol i'r AMB:

1. Nodi'r sylw
2. Mae fersiwn Gymraeg yr Adroddiad Monitro Blynnyddol yn gywir, felly er cywirdeb, mae'r fersiwn Saesneg o ddangosydd D2 wedi'i diwygio yn unol.
3. Mae Dangosydd D1 yn datgan fod AMB 5 wedi edrych ar y newidiadau o fewn gwahanol gymdogaethau Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) gan nodi fod yna nifer o ffactorau yn effeithio ar y newidiadau rhwng 2011 a 2021 yn y canran ar nifer o siaradwyr Cymraeg ynddynt. Mae'r frawddeg a gyfeirir ato yn y sylw yn ymwneud a chanfyddiadau AMB5.
4. Pwrpas dangosydd D3 yw nodir nifer o geisiadau cynllunio sydd wedi eu cefnogi gan Asesiad/Datganiad leithyddol. Nid yw'r pryder a fynegwyd yn uniongyrchol berthnasol i'r dangosydd.

3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

3.2.1 Mae'r Adroddiad Monitro Blynnyddol yn cynnwys gwybodaeth ffeithiol am berfformiad y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Bydd yn rhan o'r sail tystiolaeth ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd. Fel sydd wedi nodi yn rhan 2 o'r adroddiad yma mae Rheoliadau

Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 yn gosod allan yr angen i fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn flynyddol ac i gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn 31ain Hydref yn flynyddol.

3.3 Camau nesaf

- 3.3.1 Yn dilyn unrhyw newidiadau gall ddeillio o'r drafodaeth neu unrhyw fan newidiadau golygyddol bydd ei angen er gyfer cywirdeb, bydd fersiwn terfynol o'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn cael i baratoi a'i yrru i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2025.

4.0 Sylwadau Swyddogion Statudol

4.1 Prif Swyddog Cyllid

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

4.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Rhestr Atodiadau:

Atodiad 1 – Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd 2024-2025.

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn
2011-2026**


**ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL - Gwynedd
1 EBRILL 2024 – 31 MAWRTH 2025
7fed Adroddiad Monitro Blynnyddol**

Cynnwys

CRYNODEB GWEITHREDOL	3
Casgliadau Allweddol yr AMB	6
Adolygu'r Cynllun	8
Monitro'r Asesiad Cynaliadwyedd (AC)	8
PENNOD 1: CYFLWYNIAD	9
Beth yw'r AMB?	10
Dangosyddion	10
Trothwyon.....	11
Camau gweithredu.....	11
Adolygu'r Cynllun	13
Strwythur a chynnwys.....	13
PENNOD 2: DADANSODDI NEWID CYD-DESTUNOL	15
Y CYD- DESTUN CENEDLAETHOL	15
CASGLIAD	18
PENNOD 3: DADANSODDIAD O DDANGOSYDDION.....	19
6.1 Cymunedau Diogel, Nodedig, Iach a Bywiog	22
6.2 Byw'n Gynaliadwy	40
6.3 Economi ac Adfywio	58
6.4 Cyflenwad ac ansawdd tai	76
6.5 Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig	115
PENNOD 4: CASGLIADAU AG ARGYMHELLION	125
Atodiad 1: Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd	127
Atodiad 2 – Dosbarthiad Caniatadau Preswyl	143
Atodiad 3 – Darpariaeth o dir ar gyfer tai.....	147

CRYNODEB GWEITHREDOL


- i. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLI ar y Cyd) ar 31 Gorffennaf 2017. Mae ardal y CDLI ar y Cyd yn cynnwys Ynys Môn ac ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Nid yw'n cynnwys y rhannau o Wynedd sydd oddi mewn i Barc Cenedlaethol Eryri.




- ii. Mae monitro yn rhan barhaus o'r broses o lunio cynllun. Monitro yw'r cysylltiad rhwng casglu tystiolaeth, strategaeth y cynllun a'r gwaith llunio polisïau, gweithredu polisïau, gwerthuso ac adolygu'r cynllun. Mae'r Fframwaith Monitro wedi'i nodi ym Mhennod 7 o'r CDLI ar y Cyd.

Mae'n cynnwys cyfanswm o 70¹ o ddangosyddion sy'n cael eu defnyddio i fonitro effeithiolrwydd y Cynllun a'i bolisiau. Mae'n cynnwys cyfres o dargedau ac yn diffinio trothwyon sy'n sbardun i arwain at weithredu pellach, pan fydd angen hynny. Cafodd y Fframwaith Monitro ei ddatblygu yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Cymru a ystyriwyd yn yr Archwiliad Cyhoeddus o'r CDLI ar y Cyd.

- iii. Fel rhan o broses statudol y Cynllun Datblygu, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi Adroddiad Monitro Blyneddol (AMB). Y Fframwaith Monitro yw sylfaen yr AMB. Bydd yr AMB yn cofnodi'r gwaith o asesu'r dangosyddion ac unrhyw newidiadau cyd-destunol pwysig a allai ddylanwadu ar weithredu'r CDLI ar y Cyd. Dros gyfnod amser mae'n gyfle i'r Cyngor asesu effaith y CDLI ar y Cyd ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ardal y Cynllun.
- iv. Hwn yw'r seithfed AMB i gael ei baratoi ers i'r CDLI ar y Cyd gael ei fabwysiadu. Mae'r AMB hwn yn edrych ar y cyfnod rhwng 1af o Ebrill 2024 hyd at 31 Mawrth 2025 ac yn canolbwyntio'n benodol ar Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd, gweler para 1.13 – 1.17. Mae'n ofynnol cyflwyno'r Adroddiad i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn 31 Hydref, 2025.
- v. Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisiau ac i roi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn:

Symbol	Disgrifiad	Nifer o Ddangosyddion
	Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau.	30
	Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi.	18
	Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyledig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi.	5

¹ Bydd AMB 7 yn adrodd ar 55 o ddangosyddion. Mae'r targed ar gyfer 5 o'r dangosyddion wedi ei gyrraedd yn ystod cyfnod AMB1,5 arall wedi ei gyrraedd yn ystod cyfnod AMB2, 1 wedi ei gyrraedd yn ystod cyfnod AMB3 ac 1 wedi ei gyrraedd yn ystod AMB6. Ymhellach roedd 3 o'r dangosyddion gwreiddiol yn berthnasol i ardal Cyngor Sir Ynys Môn yn benodol - nid oes angen parhau i fonitro'r dangosyddion yma.

	Nid oes casgliad – mae'r data sydd ar gael yn brin.	2
Dangosyddion sydd wedi ei gyflawni		12
Dangosyddion and oes angen adrodd arnynt (perthnasol i ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn)		3

vi. Ceir crynodeb byr o'r canlyniad o asesu'r dangosyddion yn y tabl canlynol:

Tabl A: Crynodeb o gasgliadau'r asesiad o ddangosyddion y Fframwaith Fonitro

Asesiad	Gweithred	Nifer o ddangosyddion yn y categori
Ble mae dangosyddion yn awgrymu fod polisïau CDLI yn cael eu gweithredu'n effeithiol	Dim gweithred bellach ei angen heblaw am barhau gyda monitro	42
Asesiad o'r penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn awgrymu nad yw polisïau yn cael eu gweithredu yn y modd y'i bwriedir	Efallai bod angen hyfforddi Swyddog a / neu Aelod	0
Asesiad yn awgrymu bod angen canllaw pellach yn ychwanegol i'r rhai sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun er mwyn i) egluro sut ddylai gweithredu polisi yn gywir, neu ii) i hwyluso datblygiad safleoedd penodol.	Cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol ychwanegol, a all gynnwys briffiau datblygu safleoedd penodol, gweithio'n agos gyda'r sector breifat a darparwyr isadeiledd, ble'n berthnasol.	0
Asesiad yn awgrymu nad yw polisi mor effeithiol a disgwyliwyd iddo fod.	Ymchwil pellach ac ymchwiliad ei angen, gan gynnwys edrych ar wybodaeth gyd-destunol am ar ardal y Cynllun neu faes testun.	13
Asesiad yn awgrymu nad yw polisi yn cael ei weithredu	Adolygu'r polisi yn unol â hynny	0
Asesiad yn awgrymu nad yw'r strategaeth yn cael ei weithredu	Adolygu'r Cynllun	0

Targed wedi ei gyflawni.	Dim angen gweithrediad pellach.	15

- vii. Fel y gwelir uchod, nid yw'r mwyafrif y dangosyddion angen unrhyw weithred bellach ar wahân i barhau i fonitro. Mae rhai dangosyddion wedi eu lliwio mewn llwyd gan eu bod wedi'u cyflawni. Gan nad oes angen unrhyw weithredu pellach nid ydynt wedi'u nodi uchod. Bydd y wybodaeth sydd yn deillio o'r AMB hyn ar rhai blaenorol yn sail tystiolaeth hanfodol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd.
- viii. Mae nifer bach o ddangosyddion yn ymwneud â pharatoi'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA), a gweler nad yw'r gyfres o CCA wedi eu paratoi erbyn y dyddiad targed. Ym mhob achos, fodd bynnag, cofnodir rhesymau i gyfiawnhau'r oedi wrth baratoi'r CCA a dangosir byddant yn cael eu hystyried ar gyfer eu mabwysiadu cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Ble fo dangosydd yn ymwneud â CCA sydd wedi ei fabwysiadu mae'r weithred wedi ei liwio'n llwyd gan nad yw unrhyw weithredu pellach yn angenrheidiol mewn perthynas â'r dangosydd.
- ix. Wrth asesu perfformiad y CDLI ar y Cyd, yn ogystal ag ystyried y dangosyddion, mae rhaid i'r AMB ystyried unrhyw newidiadau cyd-destunol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn flaenorol. Rhaid hefyd ystyried effaith ganlyniadol y newidiadau hyn ar y CDLI ar y Cyd.

Casgliadau Allweddol yr AMB

1. Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 173 o unedau preswyl newydd (gan gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau presennol i ben) yn ystod 2024/25. Gweler dosbarthiad y caniatadau hyn yn Atodiad 2 o'r AMB. Roedd 75uned (43.4%) ar gyfer tai fforddiadwy.
2. Cwblhawyd 212 o dai yn ystod y cyfnod monitro yma.
3. Cwblhawyd 140 o unedau tai fforddiadwy yn 2024-25 sydd yn 66% o'r holl unedau a gwblhawyd ar gyfer eleni. Noder nad yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys tai sy'n fforddiadwy yn sgil eu lleoliad, a'u maint, fel y gallai fod yn wir mewn rhai ardaloedd yn ardal y Cynllun.
4. Nodir bod 2687 o unedau wedi'u cwblhau yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd rhwng y dyddiad cychwyn (2011) a 2024/25, tra bod y taflwybr yn y Cynllun (wedi ei gyfleu i ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd) yn nodi ffigwr cwblhau o 3487 o unedau erbyn y cyfnod hwn. Felly, mae hyn 22.9% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr.
5. Mae 35.3% o'r unedau tai² a ganiatawyd yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynnyddol o fewn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Mae 9.8% o'r unedau wedi'u caniatáu o fewn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol gyda 54.9% pellach wedi'u caniatáu mewn Pentrefi, Clystyrau ac yng Nghefn Gwlad Agored.

2 Caniatâd newydd am dai neu ganiatâd i ailasesu ac ymestyn y dyddiad pan fo caniatâd blaenorol yn dod i ben

6. Yn y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol (2024-25), mae 25.9% o'r unedau tai a gwblhawyd yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd wedi'u lleoli ar safleoedd sydd wedi'u clustnodi ar gyfer tai.
7. Dwysedd cyfartalog y caniatadau tai newydd yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn ystod y cyfnod AMB yw 29.4 o unedau fesul hectar.
8. Caniatawyd 4 safle eithrio tai fforddiadwy yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol (cyfanswm o 14 uned ar y safleoedd a ganiatawyd).
9. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer un uned marchnad leol o'r newydd o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol. NI chwblhawyd yr un uned marchnad leol yng nghyfnod yr AMB hwn o fewn yr ardal hon.
10. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae dros 62% o ganiatadau tai ar safleoedd o'r newydd (heb gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau presennol i ben) ac sy'n cyrraedd y trothwy perthnasol wedi cynnwys y lefel ddisgwyliedig o dai fforddiadwy ar y safle. Ar gyfer yr 2 safle sydd efo 11+ o unedau tai a gafodd ganiatâd yn ystod 2024 i 2025 mae 1 safle ar gyfer datblygiadau 100% o dai fforddiadwy efo'r safle arall yn darparu 66.6% o dai fforddiadwy.
11. Allan o'r unedau gafodd ganiatâd a'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun mae'r canran o dai fforddiadwy yn 52.6%.
12. Derbyniodd y Cyngor 8 Apêl yn ystod y cyfnod monitro efo 3 yn cael ei ganiatáu. Mae 2 o'r apeladau a ganiatawyd yn ymwneud a materion dylunio ac effaith y bwriad ar y dirwedd / mwynderau cyfagos. Rhain felly yn faterion goddrychol ac felly ddim yn tanseilio unrhyw bolisi yn y Cynllun. Roedd yr apêl arall yn ymwneud a chais i ddymchwel ac ail godi tŷ o fewn anheddle ble mae tai newydd wedi ei gyfyngu i Dai Marchnad Leol o dan Bolisi TAI 5. Tra bod yr arolygydd wedi cytuno fod Polisi TAI 5 yn berthnasol fe amlygwyd anghysondeb posib efo'r Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer dymchwel ac ail godi tŷ. Credir felly bydd angen ystyried goblygiadau'r dyfarniad wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd.
13. Un o amcanion strategol y CDLI ar y Cyd yw hwyluso amrywiaeth yn yr economi wledig, mae'r amcan hynny wedi bod yn llwyddiannus yn ystod cyfnod AMB, gyda caniatadau wedi cael ei roi ar gyfer amryw o ddefnyddiau cyflogaeth gan gynnwys unedau busnes/diwydiannol hyblyg newydd, modurdy/storfa gychod, codi adeiladau ar gyfer busnesau coed a phigo ffrwythau, gweithdy a storfa..
14. Mae Dangosydd D21 yn gosod targedau ar gyfer cyfarch yr adnoddau ynni adnewyddadwy posib sydd wedi cael ei adnabod yn y Cynllun. Roedd disgwyl y buasai 50% o hyn sef 1,113.35 GWh ar gyfer trydan a 23.65 GWh am wres wedi cael ei gyfarch erbyn 2021. Fodd bynnag hyd at 2025 dim ond 119.6 GWh yn ychwanegol i'r ffigyrau yn nhablau 7 ac 8 yn y CDLI ar y cyd sydd wedi cael ei ddarparu. Felly nid yw'r targed o 50% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib ar gyfer gwres a thrydan yn cael ei ddarparu erbyn 2021 wedi cael ei gyflawni. Mae gan y cynlluniau a ganiateir potensial ar gyfer ynni a gynhyrchir o 3,281.4GWh. Byddai hyn yn cyrraedd y targed o fewn y Cynllun fodd bynnag mae rhai o'r cynigion wedi cael caniatâd ers peth amser. Mae'n amlwg felly bod methu â chyflawni'r targed o fewn y Cynllun mewn perthynas â gweithredu cynlluniau yn hytrach na methiant ym Mholisiau Ynni Adnewyddadwy y Cynllun.

15. Cafodd 4 cais ei gwrthod yn rhannol oherwydd materion ieithyddol a chafodd 24 cais ganiatâd efo amod cynllunio ar gyfer mesurau lliniaru ieithyddol.

Adolygu'r Cynllun


- x. Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, mae'n rhaid adolygu Cynlluniau pob pedair blynedd a pharatoi Cynllun Diwygiedig. Cafodd y cynllun presennol ei fabwysiadu ar 31 Gorffennaf 2017 ac felly yn unol â'r canllawiau cenedlaethol cafodd Adroddiad Adolygu ei baratoi. Casgliad yr Adroddiad Adolygu oedd gwneud Adolygiad Llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd yn gyfystyr a pharatoi Cynllun newydd. Yn dilyn hyn penderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn oedd dirwyn y trefniant cydweithio i ben rhwng y ddau Gyngor a pharatoi Cynlluniau Datblygu ar wahân. Daeth y trefniant cydweithio i ben ar 31 Mawrth 2023 a sefydlwyd timau polisi newydd ar gyfer y ddau Gyngor. Fe fydd casgliadau'r holl AMB yn rhan o'r sail tystiolaeth fydd yn cyfrannu at baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol newydd i'r ddau Gyngor. Er bod penderfyniad i baratoi CDLI ar wahân ar gyfer y ddau Gyngor, mae'r AMB hwn yn dilyn yr un fformat â'r rhai blaenorol, fodd bynnag mae AMB 6 a 7 yn canolbwyntio'n benodol ar Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd. Bydd y wybodaeth a gyflwynir yn yr Adroddiad hwn yn ddefnyddiol fel tystiolaeth ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Monitro'r Asesiad Cynaliadwyedd (AC)

- xi. Mae Atodiad 1 yn darparu asesiad manwl o berfformiad y CDLI yn erbyn amcanion monitro'r AC. Nodwyd dangosyddion manwl i ddarparu tystiolaeth fwy penodol ar gyfer perfformiad y CDLI yn erbyn yr Amcanion AC a amlinellwyd yn y CDLI.

PENNOD 1: CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI ar y Cyd) a fabwysiadwyd ar 31 Gorffennaf 2017 yn darparu fframwaith defnydd tir a fydd yn sail i benderfyniadau ynghylch datblygu yn ardal y Cynllun ac o fewn oes y CDLI ar y Cyd (hyd at 2026). Nid yw ardal y Cynllun yn cynnwys y rhannau o Wynedd sydd oddi mewn i Barc Cenedlaethol Eryri.



- 1.2 Mae Isadran 76 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gofyn bod y Cyngor yn cynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) sydd yn berthnasol i'w CDLI ar ôl ei fabwysiadu a chadw llygad rheolaidd ar bob mater y disgwylir y bydd yn effeithio ar ddatblygiad ardal y CDLI ar y Cyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheoliadau a chanllawiau ar beth ddylid ei gynnwys mewn AMB. Bydd angen cyflwyno'r AMB i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefannau'r Cynghorau erbyn 31 Hydref bob blwyddyn ar ôl mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd, cyn belled bod blwyddyn ariannol gyfan (1 Ebrill - 31 Mawrth) wedi mynd heibio ers dyddiad mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd.
- 1.3 Dyma'r seithfed AMB i'w baratoi ers mabwysiadu'r Cynllun. Mae'r AMB hwn yn edrych y cyfnod rhwng 1af o Ebrill 2024 hyd at 31 Mawrth 2025. Mae'n ofynnol fod yr AMB yma (AMB7) yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref, 2025.

Beth yw'r AMB?

- 1.4 Mae'r AMB yn darparu cyfle i gofnodi asesiadau o faterion pwysig a allai ddylanwadu ar y gallu i gyflawni'r CDLI ar y Cyd a chasgliadau'r gwaith hwnnw, yn ogystal â hygyrdd y CDLI ar y Cyd o safbwynt cynaliadwyedd. Bydd canlyniadau'r broses fonitro hon yn bwydo i'r dadansoddiad parhaus o'r CDLI ar y Cyd. Fe fydd casgliadau'r AMBau yn rhan o sail tystiolaeth fydd yn cyfrannu at baratoi CDLI newydd. Mae Adolygiad wedi cael ei gynnal ag Adroddiad Adolygu wedi cael ei baratoi mae gwybodaeth bellach ym mharagraff 1.12 isod.
- 1.5 Y Fframwaith Monitro yw prif sylfaen yr AMB. Mae'r Fframwaith Monitro wedi'i nodi ym Mhennod 7 o'r CDLI ar y Cyd. Mae'n cynnwys cyfanswm o 69 (wedi ei ddiwygio i 70, gweler para 1.6 isod) o ddangosyddion sy'n cael eu defnyddio i fonitro effeithiolrwydd y Cynllun a'i bolisïau.

Dangosyddion

- 1.6 Mae yna ddisgwyliad o fewn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol (Argraffiad 3) i bob fframwaith fonitro gynnwys dangosyddion allweddol yn ymwneud a'r canlynol:-

Tabl 1: Dangosyddion Craidd

Dangosydd craidd	Cyfeirnod yn y Fframwaith Fonitro
Dosbarthiad gofodol datblygiad tai	D25
Y lefelau cwblhau tai fforddiadwy blynyddol wedi'u monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig.	D47
Cyfanswm cronol y tai a gwblhawyd wedi'i fonitro yn erbyn y gyfradd cwblhau tai cronol disgwyliedig.	D44

Nifer o dai fforddiadwy adeiladwyd o'i gymharu â'r targed sydd yn y Cynllun.	D47
Pa fath o dai fforddiadwy adeiladwyd (daliadaeth).	Dim yn cael ei fonitro ar hyn o bryd.
Tir cyflogaeth a ddefnyddiwyd yn erbyn dyraniadau.	D32 & D33
Hyfywdra'r farchnad ar gyfer datblygiadau tai.	D50
Graddfa datblygu ar ddynodiadau tai.	D45 & D46*
Datblygu prosiectau isadeiledd allweddol.	Dim yn cael ei fonitro ar hyn o bryd.
Safleoedd llety Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi eu datblygu.	D56*, D57 & D58
Graddfa/math y datblygiad agored iawn i niwed a ganiateir o fewn ardaloedd perygl llifogydd C2.	D18

*Ddim yn cael ei adrodd arnynt, gan eu bod yn benodol berthnasol i Ardal Awdurdod cynllunio Lleol Cyngor Sir Ynys Môn.

- 1.7 Mae'r Fframwaith Fonitro hefyd yn cynnwys amrywiaeth o ddangosyddion lleol a chyd-destunol a nodwyd gan y Cynghorau sy'n ymwneud â chyd-destun ardal y CDLI ar y Cyd a materion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ehangach yn eu tro.
- 1.8 Mae angen monitro pob un o'r dangosyddion hyn a bydd natur y data a gesglir yn amrywio o un i'r llall. Mae rhai yn ffeithiol (e.e. a oes datblygiad neu CCA wedi cael ei gyflawni o fewn yr amserlen arfaethedig?), tra bydd eraill yn galw am gasglu data a monitro dros gyfnod hwy (e.e. ffigurau cwblhau tai).

Trothwyon

- 1.9 Mae gan bob un o'r dangosyddion drothwy penodol sy'n nodi ar ba adeg gallai fod angen rhoi ystyriaeth bellach i weithrediad y polisi a/neu ei asesu. Gallai hyn olygu bod rhaid cyflawni cynllun erbyn dyddiad penodol, os yw'r cynnydd yn syrthio o dan y gofyniad cronol dros gyfnod penodedig, neu os caniateir datblygiad yn groes i'r fframwaith polisi. Unwaith cyrhaeddir y trothwy, mae'n rhaid ystyried y camau gweithredu sy'n ofynnol i geisio unioni'r sefyllfa (gweler isod).

Camau gweithredu


- 1.10 Mae'r Fframwaith Monitro'n nodi ystod o gamau gweithredu y gellir eu cyflawni a allai fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg casglu data neu ganlyniadau annisgwyl. Fe allai methiant a chyflawni targed penodol olygu fod y polisi hwnnw (neu'r Cynllun cyfan) angen bod yn destun adolygiad.



- 1.11 Mae Tabl 2 isod yn nodi'r camau gweithredu posibl a allai ddeillio o'r monitro ac fe'u nodir yn y Fframwaith Monitro sydd ym Mhennod 7 y CDLI ar y Cyd. Mae sawl opsiwn posibl i helpu i ymdrin â dangosyddion sy'n rhoi'r argraff o beidio â chyflawni'n unol â'r disgwyl. Er mwyn cynorthwyo gyda'r dehongli ar y monitro a wnaed, defnyddiwyd cynllun lliwiau syml, a ddangosir yn Nhabl 3 isod, i ddangos sut mae'r dangosydd yn perfformio.

Tabl 2: Camau gweithredu posibl

Asesiad	Gweithred
Ble mae dangosyddion yn awgrymu fod polisiâu CDLI yn cael eu gweithredu'n effeithiol	Dim gweithred bellach ei angen heblaw am barhau gyda monitro
Asesiad o'r penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn awgrymu nad yw polisiâu yn cael eu gweithredu yn y modd y'i bwriedir	Efallai bod angen hyfforddi Swyddog a / neu Aelod
Asesiad yn awgrymu bod angen canllaw pellach yn ychwanegol i'r rhai sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun er mwyn i) egluro sut ddylai gweithredu polisi yn gywir, neu ii) i hwyluso datblygiad safleoedd penodol.	Cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol ychwanegol, a all gynnwys briffiau datblygu safleoedd penodol, gweithio'n agos gyda'r sector breifat a darparwyr isadeiledd, ble'n berthnasol.
Asesiad yn awgrymu nad yw polisi mor effeithiol a disgwyliwyd iddo fod.	Ymchwil pellach ac ymchwiliad ei angen, gan gynnwys edrych ar wybodaeth gyd-destunol am ar ardal y Cynllun neu faes testun.
Asesiad yn awgrymu nad yw polisi yn cael ei weithredu	Arolygu'r polisi yn unol â hynny
Asesiad yn awgrymu nad yw'r strategaeth yn cael ei weithredu	Arolygu'r Cynllun
Targed wedi ei gyflawni	Dim angen gweithrediad pellach

Tabl 3: Symbolau monitro

	Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau.
	Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi.

	Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwylledig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi.
	Nid oes casgliad – mae'r data sydd ar gael yn brin.

Adolygu'r Cynllun

- 1.12 Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, mae'n rhaid adolygu Cynlluniau pob pedair blynedd a pharatoi Cynllun Diwygiedig. Cafodd y cynllun presennol ei fabwysiadu ar 31 Gorffennaf 2017 ac felly yn unol â'r canllawiau cenedlaethol cafodd Adroddiad Adolygu ei baratoi. Casgliad yr Adroddiad Adolygu oedd gwneud Adolygiad Llawn o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd yn gyfystyr a pharatoi Cynllun newydd. Yn dilyn hyn penderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn oedd dirwyn y trefniant cydweithio i ben rhwng y ddau Gyngor a pharatoi Cynlluniau Datblygu ar wahân. Daeth y trefniant cydweithio i ben ar 31 Mawrth 2023 a sefydlwyd timau polisi newydd ar gyfer y ddau Gyngor. Fe fydd casgliadau'r holl AMB blaenorol yn rhan o'r sail tystiolaeth fydd yn cyfrannu at baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol newydd i'r ddau Gyngor.

Cynnwys AMB 7

- 1.13 Gan fod y cytundeb cyd-weithio rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd ar faterion Polisi Cynllunio wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2023, a chan fo'r awdurdodau cynllunio lleol bellach yn mynd ati i baratoi Cynllun Datblygu Lleol unigol ar gyfer eu hardal Awdurdod Cynllunio Lleol unigol, mae'r Adroddiad Monitro Blyneddol hyn (AMB 7) yn canolbwyntio'n benodol ar Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd.
- 1.14 Oherwydd diffyg mynediad i ddata sydd yn berthnasol i Ynys Môn, nid yw'n bosib adrodd yn unol â gofyn y dangosyddion ym mhob achos. Ymhellach nodir na fyddai'n briodol adrodd ar faterion yn ymwneud ac Awdurdod Cynllunio Lleol arall o gofio mai cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd yw cymeradwyo'r Adroddiad Monitro Blyneddol hwn.
- 1.15 Ymhellach, ni ystyrir yn fanteisiol adrodd ar faterion sydd yn ymwneud ag Ynys Môn gan y gallai rhoi'r cam argraff o lwyddiant neu fethiant y dangosyddion a phriodoldeb ceisio ymateb i'r pryder hynny wrth edrych tua'r dyfodol a pharatoi Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn unig.

Strwythur a chynnwys

1.16 Dyma strwythur gweddill yr AMB hwn.

Tabl 5: Strwythur yr AMB

Pennod		Cynnwys yn fras
2	Dadansoddi newid cyd-destunol sylweddol	Crynodeb ac adolygiad o faterion cyd-destunol ehangach o fewn yr hyn mae'r CDLI yn gweithredu ynddo, e.e. deddfwriaeth/ strategaethau/polisïau allanol.
3	Dadansoddiad ddangosyddion o	Manylion canfyddiadau'r gwaith o fonitro Dangosyddion y CDLI ar y Cyd (yn nhrefn y CDLI ar y Cyd)
4	Casgliad ac argymhellion	Adnabod newidiadau gofynnol i'r cynllun yn ystod adolygiad statudol neu a sbardunwyd yn gynharach, os yw'n briodol.
5	Atodiadau	1. Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd 2. Dosbarthiad caniatadau preswyl. 3. Darpariaeth o dir ar gyfer tai.

1.17 Dylai strwythur yr AMB aros yr un fath o flwyddyn i flwyddyn er mwyn ei gwneud yn rhwydd gallu cymharu un gyda'r blaenorol/olynol. Fodd bynnag, o gofio bod y broses fonitro yn dibynnu ar amrywiaeth eang o wybodaeth ystadegol a ffeithiol a gyrchir gan y Cyngor a ffynonellau allanol, gallai unrhyw newidiadau i'r ffynonellau hyn wneud rhai dangosyddion yn aneffeithiol neu beidio bod yn gyfoes. Yn unol â hynny, efallai y bydd AMB dilynol yn gorfod nodi unrhyw ystyriaethau o'r math hwn.

PENNOD 2: DADANSODDI NEWID CYD-DESTUNOL

- 2.1 Yn ystod y cyfnod monitro, mae dogfennau polisi/canllawiau newydd/diweddariad wedi'u eu cyhoeddi. Mae'n bwysig deall y gwahanol ffactorau a all effeithio ar berfformiad y CDLI ar y Cyd, o'r lefelau byd-eang a chenedlaethol, i lawr i bolisiau a chanllawiau lleol y Cyngorau eu hunain. Mae rhai newidiadau yn amlwg yn hollol allan o reolaeth y Cyngor. Mae'r Bennod hwn yn rhoi trosolwg cryno o'r deunydd cyd-destunol perthnasol a gafodd ei gyhoeddi yn ystod y cyfnod monitro hwn. Mae'n cynnwys cynlluniau, polisiau a strategaethau ar lefel cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Ble'n briodol, amlinellir unrhyw oblygiadau cyffredinol ar yr CDLI ar y Cyd. Mae tueddiadau economaidd cyffredinol sydd wedi digwydd yn ystod cyfnod yr AMB yma hefyd yn cael eu hadnabod. Rhoddir gwybodaeth gyd-destunol sy'n benodol i faes polisi penodol yn y CDLI ar y cyd yn adran dadansoddi polisi perthnasol er hwylustod ac felly nid yw'n cael ei ailadrodd yma.

Y CYD- DESTUN CENEDLAETHOL

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

- 2.2 Daeth Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 a'i chyfres o is-ddeddfwriaeth ategol i rym yn llawn ar 4 Tachwedd 2024.
- 2.3 Dyma'r ddeddfwriaeth gydgyrchoi gyntaf yn rhaglen bum mlynedd ddechreuol Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Mae'r darn hanesyddol hwn o ddeddfwriaeth yn darparu cyfraith gwbl ddwyieithog, drefnus a hygyrch ar gyfer diogelu a rheoli ein hamgylchedd hanesyddol unigryw yn effeithiol fel y gall barhau i gyfrannu at lesiant Cymru a'i phobl. Mae Deddf 2023 a'i rheoliadau ategol o sylwedd yn ffurfio'r cod cyfraith gyntaf sydd wedi'i lunio o dan raglen Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.
- 2.4 Gyda chychwyn llawn Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, nid yw'r Deddfau a ddarparodd y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoli a gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru am ddegawdau - yn bennaf Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 - yn parhau i fod yn berthnasol yng Nghymru.

NCT 15 Datblygu, Llifogydd ac erydu arfordirol – Llywodraeth Cymru - Mawrth 2025

- 2.5 Cyhoeddwyd Nodyn Cyngor Technegol 15 (NCT 15) newydd ar y 31 Mawrth 2025 ac fe ddaw i rym ar unwaith fel man cychwyn ar gyfer ystyried perygl llifogydd yn y system gynllunio. Mae hwn yn disodli'r fersiwn flaenorol o'r NCT a gyhoeddwyd yn 2004. Mae'r Mapiau Cyngor Datblygu blaenorol wedi'u disodli gyda'r Mapiau Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Mae'r NCT 15 newydd yn parhau i fod yn seiliedig ar ymagwedd rheoli risg, gan gategoreiddio defnyddiau tir yn ddatblygiad bregus iawn, datblygiad llai bregus, a datblygiad sy'n gydnaws â dŵr, cyn nodi o dan ba amgylchiadau y gellir lleoli pob categori o ddefnydd tir ym mhob parth perygl llifogydd, yn achos ceisiadau cynllunio a dyraniadau o fewn Cynllun Datblygu Lleol. Yn ganolog i benderfynu priodoldeb datblygiadau yw statws y safle o ran ei fod wedi i'w amddiffyn a p'un a'i yw'n dir gwyrdd neu wedi'i ddatblygu yn flaenorol gyda mwy o hyblygrwydd yn gyffredinol lle mae cynnig ar dir sydd wedi'i ddatblygu a/neu ei amddiffyn yn flaenorol.

Ymgynghori ar Barc Cenedlaethol Newydd (Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) Hydref - Rhagfyr 2024

- 2.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu CNC i asesu'r dystiolaeth a'r achos dros gael Parc Cenedlaethol newydd ac i wneud argymhelliad ar y bwriad.
- 2.7 Yn dilyn cynnal ymarferiad ymgynghori cyhoeddus ar ddiwedd 2023, ynghyd a chyfnod o gasglu tystiolaeth rhwng 7 Hydref a 16 Rhagfyr 2024 fe gynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus o'r bwriad arfaethedig.
- 2.8 Mae'r ardal arfaethedig yn seiliedig ar 'Dirwedd Genedlaethol' Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Mae'r rhan o Wynedd a leolir o fewn yr ardal arfaethedig yn cynnwys ardaloedd Mynydd Mynyllod/Llandderfel.

Adroddiad Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg - Comisiwn Cymunedau Cymraeg – Awst 2024

- 2.9 Adroddiad cynhwysfawr yw hwn sy'n argymhell ymyriadau polisi strategol i atgyfnerthu'r Gymraeg mewn cymunedau lle mae canran uchel o'r boblogaeth yn siarad yr iaith. Mae dynodi 'ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch' yn ganolog i'r cynigion i warchod a chryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw.
- 2.10 Mae'r Comisiwn wedi awgrymu 57 o argymhellion mewn sawl maes polisi allweddol, gan gynnwys:
- Dynodi 'ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch' i gydnabod cymunedau lle ceir canran uchel o siaradwyr Cymraeg, ac i sicrhau mwy o ystyriaeth i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi, y gallu i amrywio polisi, ac i gefnogi defnydd o'r Gymraeg yn effeithiol ar lefel gymunedol. Mae'r Comisiwn yn argymhell dwy ffordd ar gyfer dynodi'r ardaloedd hyn, sef bod y Llywodraeth yn dynodi ardaloedd lle mae dros 40% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, a hefyd roi'r disgrisiwn i awdurdodau lleol ddynodi ardaloedd penodol lle bo'n briodol;
 - Mynd i'r afael â'r argyfwng tai o fewn cymunedau Cymraeg, hyrwyddo datblygiadau tai sy'n seiliedig ar anghenion lleol a thros fentrau tai a arweinir gan y gymuned. Gelwir hefyd am sefydlu cronfa benthyciadau llog isel neu gynllun ecwiti er mwyn cynorthwyo grwpiau cymunedol i brynu tir neu eiddo.
 - Cefnogi modelau o ddatblygu cymunedol sy'n hybu mentrau cymunedol a chydberchnogaeth.
 - Datblygu strategaethau cynllunio ieithyddol ar gyfer cymunedau sy'n wynebu shifft iaith.
- 2.11 Mae'r argymhellion eraill yn mynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar gymunedau Cymraeg, gan gynnwys datblygu cymunedol, gweithleoedd, yr economi, addysg a chydaddoldeb. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys dadansoddiad manwl o ganlyniadau Cyfrifiad 2021,
- 2.12 Sefydlwyd y Comisiwn gan Lywodraeth Cymru yn haf 2022 i ymateb i'r lleihad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau lle mae mwyafrif y boblogaeth yn siarad yr iaith, neu ble mae hyn wedi bod yn wir tan yn gymharol ddiweddar.

Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar Gynllunio Gwlad a Thref - Comisiwn Cymunedau Cymraeg – Chwefror 2025

- 2.13 Trefnodd y Comisiwn weithdy ar gyfer arbenigwyr cynllunio gwlad a thref a chynllunwyr iaith ym mis Hydref 2023 i drafod y berthynas rhwng y ddau faes polisi hyn a darparodd sail i'r bennod ar gynllunio gwlad a thref a gyhoeddwyd yn "Grymuso cymunedau, cryfhau'r

Gymraeg". Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar y gwaith hwnnw ac yn amlinellu 14 o argymhellion. Er bod hwn yn adroddiad annibynnol, dylid ei ddarllen ochr yn ochr â Grymuso Cymunedau, cryfhau'r Gymraeg.

Y CYD-DESTUN LLEOL

Strategaeth Rheoli Llifogydd Lleol, Cyngor Gwynedd

- 2.14 Mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i baratoi Strategaeth Rheoli Llifogydd Lleol ar gyfer eu hardaloedd yn unol â gofynion Deddf Dŵr 2010. Roedd gofyn i Gyngor Gwynedd ddiwygio'r strategaeth wreiddiol (dyddiedig 2013) er mwyn cyd-fynd ag amcanion, mesurau a pholisïau a deddfwriaeth sydd yn gysylltiedig â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer rholi Berygl Llifogydd.
- 2.15 Mae'r strategaeth yn cynnwys amcanion i leihau perygl llifogydd ac erydu arfordirol, datblygu dealltwriaeth o'r peryglon hyn, a chydweithio â chyrff perthnasol. Mae hefyd yn pwysleisio'r angen i godi ymwybyddiaeth ac annog cydweithio ar gynlluniau lliniaru. Mae'r strategaeth yn cyd-redeg â Chynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur y Cyngor, gan anelu at greu cymunedau mwy diogel a chynaliadwy yng Ngwynedd.
- 2.16 Mabwysiadwyd y strategaeth gan Gabinet Cyngor Gwynedd ar 11 Mehefin 2024.

Cyfarwyddyd Erthygl 4 (Medi 2024)

- 2.17 Yn Awst 2023 fe osodwyd Rhybudd Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd er mwyn reoli'r defnydd o dai preswyl fel llety gwyliau. Ynghyd a gosod y rhybudd fe ymgwymerwyd â chyfnod o ymgysylltu cyhoeddus. Roedd y cyfnod yma yn gyfle i fynegi barn ar y bwriad. Yn dilyn y cyfnod ymgysylltu cyhoeddus a rhoddi ystyriaeth i'r holl sylwadau a dderbyniwyd, ar 16 Gorffennaf 2024 fe benderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd i gadarnhau'r Cyfarwyddyd Erthygl 4, gyda'r Cyfarwyddyd yn weithredol o 1 Medi 2024 ymlaen.
- 2.18 Golygai'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 ei fod bellach yn ofynnol derbyn hawl cynllunio er mwyn ymgymryd â'r newid defnydd materol o dŷ preswyl (Dosbarth defnydd C3) i ddefnydd ail gartref (dosbarth defnydd C5), llety gwyliau (Dosbarth defnydd C6) neu ddefnydd cymysg o'r dosbarthiadau defnydd hyn.

Apeliadau

- 2.19 Derbyniodd y Cyngor 8 Apêl yn ystod y cyfnod monitro. Gwrthodwyd 5 ohonynt a chaniatawyd 3. Mae manylion bras yr apeliadau a ganiatawyd fel a chanlyn:
- Storfa slyri yn Glanrafon. Gwrthodwyd gan y Cyngor yn sgil pryder y byddai'n cael effaith ar yr Ardal o Dirwedd Arbennig. Caniatawyd drwy apêl gan nad oedd yna dystiolaeth cadarn i gefnogi'r safbwynt hyn.
 - Estyniad i dŷ gan greu balconi yn Forfa Nefyn. Gwrthodwyd y cais ar sail effaith ar fwynderau tai cyfagos. Caniatawyd yr apêl gan na ystyriwyd y byddai'r bwriad yn cael effaith ar fwynderau tai cyfagos.
 - Dymchwel tŷ presennol a chodi tŷ newydd yn Abersoch. Gwrthodwyd y cais gwreiddiol gan fod maint y tŷ newydd tu hwnt i'r trothwyon sydd wedi ei osod ym Mholisi TAI 5. Caniatawyd yr apêl yn dilyn pryder ynglŷn â pherthnasedd Polisi TAI

5 ac ystyriaethau materol eraill (gan gynnwys yr hawl oedd yn bodoli i ymestyn y tŷ presennol).



- 2.20 Gyda'r ddau apêl cyntaf a restrir uchod (Glanrafon a Morfa Nefyn) ystyrir fod y penderfyniadau hyn yn ymwneud a dyluniad ac ystyriaeth yn gysylltiedig a effaith yr hyn a fwriedir yn y dirwedd/mwynderau. Mae'r materion hyn yn goddrychol ac yn agored i ddehongliad. Gan hynny ni ystyrir fod yr apeliadau penodol hyn wedi tanseilio polisiâu'r Cynllun neu yn achosi unrhyw bryder ynglŷn a dehongliad y polisiâu perthnasol.
- 2.21 O ran yr apêl olaf a ganiatawyd (dymchwel ac ail adeiladu tŷ yn Abersoch), gwrthodwyd y cais gan y Cyngor ar sail fod maint y tŷ presennol o fewn uchafswm maint tŷ 4 ystafell wely a amlygir o fewn Polisi TAI 5 (Tai marchnad Lleol) tra buasai'r bwriad yn arwain at dŷ sylweddol fwy a felly yn groes i ofynion Polisi TAI 5. Cytunwyd yr Arolygydd gyda'r Cyngor mai'r polisi mwyaf perthnasol o ran ystyried priodoldeb egwyddor y bwriad yw Polisi Tai 5 (Tai Marchnad Lleol). Wrth ganiatáu'r apêl, rhoddodd yr arolygydd mwy o bwyslais ar ystyriaethau perthnasol eraill, gan nodi fod y CCA ar gyfer Tai Marchnad Lleol yn cyfeirio tuag at ychwanegu i'r stoc dai bresennol, y gellid ymestyn y tŷ presennol dan hawliau a ganiateir, fod caniatâd yn bodoli ar gyfer estyniadau sylweddol i'r eiddo presennol, gwerth y tŷ presennol a lefel perfformiad ynni y tŷ presennol. Felly yn yr achos yma tra fod yr arolygydd yn ei ystyried yn briodol i asesu'r bwriad yn unol a Pholisi TAI 5, fe amlygir peth anghysondeb posib rhwng polisiâu'r Cynllun a'r dehongliad o fewn y CCA. Ymhellach awgrymir nad yw'r polisi yn darparu'r arweiniad clir o ran sefyllfaoedd amgen (hynny yw dymchwel ac ail-adeiladu). Nodir gan hynny nad yw'r penderfyniad hyn yn peri unrhyw bryder sylweddol, fodd bynnag fe fydd angen ystyried goblygiadau y dyfarniad wrth baratoi y Cynllun Datblygu Lleol newydd.

CASGLIAD

- 2.22 Fel y nodir uchod, gwelwyd deddfwriaeth newydd a chynlluniau, polisiâu a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod monitro hwn. Mi fydd angen rhoi ystyriaeth lawn i'r hyn sydd wedi ei osod allan uchod wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.
- 2.23 Bydd AMBau dilynol yn parhau i ddarparu diweddariadau ar y materion cyd-destunol perthnasol a allai effeithio ar weithrediad y Cynllun yn y dyfodol.

PENNOD 3: DADANSODDIAD O DDANGOSYDDION

- 3.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno asesiad o berfformiad y polisiâu strategol a pholisiâu eraill o fewn y CDLI ar y Cyd gan nodi os ydynt yn cael eu gweithredu ategol fel y bwriadwyd ac os yw strategaeth ac amcanion y CDLI ar y Cyd yn cael eu cyflawni. Mae'r tablau unigol yn y bennod hon yn rhoi casgliadau a chamau priodol (lle bo angen) i fynd i'r afael ag unrhyw faterion gweithredu polisi a nodwyd drwy'r broses fonitro.
- 3.2 Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisiâu ac i roi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn:

Symbol	Disgrifiad
	Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau.
	Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi.
	Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi.
	Nid oes casgliad – mae'r data sydd ar gael yn brin.

- 3.3 Mae'r tabl canlynol yn darparu gwybodaeth o ran y dangosyddion o fewn y Fframwaith Fonitro ble mae targed y dangosydd wedi ei gyflawni yn ystod cyfnod Adroddiad Monitro Blynnyddol blaenorol. Gan hynny, nid oes angen adrodd ar y dangosyddion hyn yn yr Adroddiadau Monitro Blynnyddol olynol:-

Rhif Dangosydd	Disgrifiad	Dyddiad cyflawni targed (Cyfnod AMB)
D4	Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol i hyrwyddo cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy	AMB 2

D9	Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud a darparu mannau agored mewn datblygiadau tai newydd	AMB 1
D10	Paratoi Canllawiau Cynllunio atodol yn ymwneud â rhwymedigaethau Cynllunio	AMB 2
D13	Y nifer o geisiadau a ganiateir o fewn safleoedd/ ardaloedd wedi'u diogelu ar gyfer gwelliannau trafnidiaeth (ardaloedd gwelliannau yng Ngwynedd I gyd wedi ei cwblhau)	AMB 6
D14	Cyflenwi Ffordd Gyswllt Llangefni (cam 4)	AMB 1
D15	Cyflawni gwelliannau i'r A5025	AMB 1
D16	Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol i hyrwyddo cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy	AMB 2
D30	Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio atodol diwygiedig yn ymwneud a Wylfa Newydd.	AMB 1
D34	Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â defnyddiau amgen ar safleoedd cyflogaeth	AMB 3
D51	Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer tai fforddiadwy.	AMB 2
D54	Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer tai marchnad leol.	AMB 1
D55	Paratoi a chymeradwyo Astudiaeth Marchnad Dai Lleol (LHMA) i Wynedd	AMB 2

- 3.4 Yn sgil y ffaith fod yr Adroddiad Monitro Blynnyddol hwn (a'r rhai dilynol) bellach yn adrodd ar faterion sydd yn ymwneud a Chyngor Gwynedd yn unig, ni ystyrir yn briodol adrodd ar y dangosyddion hynny sydd yn benodol berthnasol i ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn yn unig. Gan hynny ni adroddir ar y dangosyddion canlynol yn AMB 7.

Rhif Dangosydd	Disgrifiad
D28	Nifer o geisiadau cynllunio a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd ar gyfer datblygiadau perthynol Wylfa Newydd

D46	Cyfanswm yr unedau tai gaiff eu hadeiladu ar safleoedd a ddynodwyd yn Ynys Môn fel % o'r ddarpariaeth dai cyffredinol
D56	Nifer o leiniau Teithwyr ar gyfer llety preswyl a ddarperir ym Mhenhesgyn, Ynys Môn.

Nodyn: Yn dilyn derbyn [llythyr](#) gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mae Dangosydd D43 wedi cael ei ddisodli gan D43A a D43B.

6.1 Cymunedau Diogel, Nodedig, Iach a Bywiog

Yr iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig

Mae ffigyrau'r Cyfrifiad 2021 ar gyfer y nifer o siaradwyr Cymraeg wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer Cymru gyfan, Awdurdodau Lleol Cymru a fesul pob Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA).

Yng Nghymru roedd y nifer oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 17.8% sydd yn ostyngiad o 1.2% ers 2011 yn wir fe gafwyd gostyngiad mewn 18 allan o'r 22 Awdurdod Lleol Cymru efo'r gostyngiad mwyaf yn Sir Gaerfyrddin (-4.0%) ar gynnydd mwyaf i'w weld yng Nghaerdydd (+1.1%).

Yng Ngwynedd ar ddiwrnod Cyfrifiad 2021 roedd 73,560 o bobl (3+ oed) yn gallu siarad Cymraeg sy'n cyfateb i 64.4%. Yn 2011 roedd y ganran gyfatebol yn 65.4% efo'r nifer o siaradwyr Cymraeg 3+ oed yn 2011 yn 77,000. Felly mae'r gyfran wedi gostwng 1% efo'r nifer o siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o 3,440.

Mae natur ceisiadau tai eleni ar safleoedd o'r newydd sydd wedi cael caniatâd ers mabwysiadu'r Cynllun yn dangos canran sylweddol o dai fforddiadwy sef 50.7% (cynyddu i 62.4% wrth ystyried ceisiadau oedd yn cyrraedd y trothwy am dai fforddiadwy). Yn wir ar gyfer y 2 safle sydd efo 11+ o unedau tai a gafodd ganiatâd yn ystod 2024 i 2025 mae 1 o'r rhain yn darparu safleoedd 100% fforddiadwy efo un arall yn darparu 66.6% o dai fforddiadwy.

Golyga hyn fod caniatadau newydd o dan y Cynllun hyd yma, o ystyried bod angen cyflwyno tystiolaeth gyda cheisiadau cynllunio i ddangos yr angen am y cymysgedd a'r math o dai yn ogystal â chynnwys canran uchel o dai fforddiadwy yn helpu i sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu cyfarch a thrwy hynny helpu i gynnal yr iaith o fewn ardal y Cynllun.

Dangosydd: D1				
Amcan:	SO1	Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned.		
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		PS1
		Deilliant:		Lefel sbardun:
D1 - % Siaradwyr Cymraeg yn 2021 yn Ynys Môn a Gwynedd	Datblygiadau newydd yn cyfrannu at gynnal neu gryfhau'r iaith Gymraeg yn Ynys Môn a Gwynedd (Noder: Mae effaith uniongyrchol datblygiad newydd ar y defnydd o'r iaith Gymraeg mewn cymunedau unigol	AMB 1		Naratif bob dwy flynedd am gynlluniau perthnasol a gwblhawyd, e.e. o dan Bolisi PS 1, Polisi TAI 1 – Polisi TAI 7, erbyn 2019
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		

ac ardal y Cynllun yn faes anodd ei fonitro, o gofio na all y Cynllun wahaniaethu ar sail gallu ieithyddol. Mae'r Cynghorau o'r farn bod angen cyfuniad o ddulliau er mwyn monitro effeithiolrwydd polisiâu, gan gynnwys y dangosyddion a nodir dan y thema hon.)	AMB 5	
	AMB 6	
	AMB 7	

Dadansoddiad:

Mae rôl cynllunio'n gyfyngedig i geisio creu'r amgylchiadau gorau posib drwy Bolisiau'r Cynllun er mwyn hwyluso datblygiadau cynaliadwy a all gynyddu'r canran o siaradwyr Cymraeg.

Ceir nifer o bolisiau yn y Cynllun sydd yn helpu i hwyluso datblygiadau cynaliadwy sef:

- Polisi TAI 5 'Tai Marchnad Leol' yn atal unrhyw dai marchnad agored o fewn yr aneddleuedd arfordirol a restrir;
- Polisi TAI 15 'Trothwy Tai Fforddiadwy a'u Dosbarthiad' yn gofyn am elfen fforddiadwy ar gyfer datblygiadau o 2 neu fwy o unedau tai yn y Canolfannau a'r Pentrefi;
- Polisi TAI 16 'Safle Eithrio' yn cefnogi datblygiadau 100% tai fforddiadwy;
- Polisi TAI 6 'Clystyrau' a TAI 7 'Trosi Adeiladau Traddodiadol yng Nghefn Gwlad Agored i Ddefnydd Preswyl' dim ond yn cefnogi bwriadau ar gyfer tai fforddiadwy;
- Polisi TAI 8 'Cymysgedd Briodol o Dai' yn sicrhau fod pob datblygiad preswyl yn cyfrannu tuag at wella cydbwysedd tai ac yn diwallu'r anghenion a nodir ar gyfer y gymuned gyfan;
- Polisi CYF 1 'Gwarchod, Dynodi ac Amddiffyn Tir ac Unedau ar gyfer defnydd Cyflogaeth' yn sicrhau fod yna ddigon o diroedd ar gyfer cyfleoedd gyflogaeth yn cael ei ddarparu o fewn y Cynllun.

Mae 'Adroddiad Blynyddol o'r boblogaeth' sydd yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg gan yr ONS yn cael ei gyhoeddi yn chwarterol, sail hwn yw data o arolwg. Y ffigyrau diweddaraf yw Rhagfyr 2024 sydd yn datgan fod yna 891,800 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Ar gyfer Gwynedd mae'n datgan fod yna 92,500 yn gallu siarad Cymraeg sef 76% o boblogaeth y Sir.

Fodd bynnag o ganlyniad i ffigyrau yng Nghyfrifiad 2021 (538,300 o Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, a 73,560 sef 64.4% yng Ngwynedd) ar wahaniaeth rhwng hwn ar ffigyrau yn yr Adroddiad Blynyddol mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith i ddarganfod pam fod yna wahaniaeth rhwng y ffigyrau yma.

Mae blog y Prif Ystadegydd (25 Ebrill 2023) yn datgan "...wastad wedi bod yn glir ein bod yn ystyried y cyfrifiad fel y ffynhonnell wybodaeth awdurdodol am nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru...". Yn bellach mae'n datgan "...Mae sawl ffynhonnell ddata arall ar gael sy'n rhoi ychydig o wybodaeth am y Gymraeg y gallwn ei defnyddio i fonitro tueddiadau yn y cyfnod rhwng cyfrifiadau. Mae gan y ffynonellau hyn eu cryfderau a'u cyfyngiadau eu hunain o ran ystadegau ar y Gymraeg...".

Arolwg o'r Llafurlu yw sail i'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth. Er bod arolygon aelwydydd fel arfer yn rhoi amcangyfrifon uwch i ni o allu i siarad Cymraeg, yn gyffredinol maent wedi symud i gyfeiriad tebyg i amcangyfrifon y cyfrifiad. Fodd bynnag, gyda canlyniadau Cyfrifiad 2021, dyma'r tro cyntaf i'r cyfrifiad amcangyfrif bod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng a'r arolygon cartrefi amcangyfrif bod y niferoedd wedi cynyddu.

Oherwydd yr ystod o ffynonellau data sydd ar gael, nid yw'n syml i ddefnyddwyr ystadegau am allu yn y Gymraeg gysoni'r gwahanol amcangyfrifon, yn enwedig gan fod rhai amcangyfrifon yn dangos cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg ac eraill yn dangos bod y niferoedd yn gostwng. Gall hyn ei gwneud yn heriol gwybod sut i ddefnyddio'r ystadegau hyn i lywio polisi cyhoeddus iaith Gymraeg.

O fewn Adroddiad 'Gwahaniaethau rhwng amcangyfrifon o allu yn y Gymraeg yng Nghyfrifiad 2021 ac arolygon aelwydydd' y prif bwyntiau oedd:

- O'r bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn yr Arolwg o'r Llafurlu neu Gyfrifiad 2021, y grwpiau canlynol oedd yn tueddu i gytuno ar draws y ddwy ffynhonnell fwyaf aml: pobl 65 oed neu hŷn; pobl sy'n byw yn y gogledd orllewin; pobl a anwyd yng Nghymru; a phobl â hunaniaeth genedlaethol Gymreig.
- O'r bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn yr Arolwg o'r Llafurlu neu Gyfrifiad 2021, y grwpiau canlynol oedd yn tueddu i anghytuno ar draws y ddwy ffynhonnell fwyaf aml: pobl iau na 25 oed; pobl sy'n byw yn y de ddwyrain a'r gogledd ddwyrain; pobl a anwyd mewn mannau eraill o'r DU; a phobl heb hunaniaeth genedlaethol Gymreig.
- O'r bobl oedd yn cytuno y gallent siarad Cymraeg ar y ddwy ffynhonnell, nododd dros ddwy ran o dair (68.6%) eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd. O'r bobl a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn yr Arolwg o'r Llafurlu ond nid yng Nghyfrifiad 2021, dim ond tua chwarter (24.8%) oedd yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd.
- Mae cyfran lai o aelwydydd cwpl yn cytuno ar eu gallu i siarad Cymraeg rhwng y ddwy ffynhonnell lle nad oes yr un, neu ddim ond un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg o'i gymharu ag aelwydydd cwpl sy'n cynnwys dau neu fwy o oedolion sy'n gallu siarad Cymraeg.

Felly ar sail hyn i gyd ni chredir y dylid rhoi unrhyw bwysau i'r cynnydd yn y nifer o siaradwyr Cymraeg a welir yng Ngwynedd o fewn 'Adroddiad Blynnyddol o'r boblogaeth' Rhagfyr 2024.

Yn AMB 5 fe edrychwyd ar y newidiadau o fewn gwahanol gymdogaethau Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) gan nodi fod yna nifer o ffactorau yn effeithio ar y newidiadau rhwng 2011 a 2021 yn y canran ar nifer o siaradwyr Cymraeg ynddynt.

Mae rhai ardaloedd wedi gweld cynnydd yn y canran ar nifer o siaradwyr efo datblygiadau eithaf mawr breswyl, eraill wedi gweld cynnydd yn y nifer ond gostyngiad yn y canran.

Mae rhai ardaloedd wedi gweld cynnydd yn y canran er bod gostyngiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg, mae hyn ar sail gostyngiad uwch yn y nifer di-gymraeg. I rai cymdogaethau gall hyn fod ar sail colled o unedau o'r stoc dai i ddefnydd fel ail gartrefi / llety gwyliau.

Yn nifer o'r cymdogaethau sydd wedi gweld y lleihad mwyaf o ran canran y siaradwyr Cymraeg ychydig iawn o dwf tai newydd sydd wedi bod trwy'r Cynllun Datblygu ar y Cyd.

Mae elfen fawr o'r newidiadau sydd yn effeithio ar ardaloedd y Cynllun yn dod allan o newidiadau i'r stoc dai presennol.

Daeth Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn weithredol yn Ardal Cynllunio Leol Gwynedd ar 1 Medi 2024. Golyga hyn fod bellach angen caniatâd cynllunio er mwyn ymgymryd a newid defnydd materol o brif fan preswyl (dosbarth defnydd C3) i ddefnydd ail gartref (dosbarth defnydd C5) neu lety gwyliau (dosbarth Defnydd C6).

Mae'r Cyngor yn y broses o baratoi Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) 'Rheoli'r Defnydd o Dai fel Cartrefi Gwyliau (Ail Gartrefi a Llety Gwyliau). Cynhaliwyd cyfnod o ymgynghori cyhoeddus ar fersiwn drafft o'r CCA rhwng 24 Chwefror a 7 Ebrill 2025 efo'r gobaith o'i fabwysiadu'r yn ystod haf 2025.

O edrych ar wybodaeth gan Adran Treth Cyngor y Gwasanaeth Cyllid gwelir y newidiadau canlynol yn y data craidd yn ystod y cyfnod 2024 i 2025 ar gyfer Ail Gartrefi (talw premiwm ail gartref) a Llety Gwyliau (talw treth busnes annomestig llety gwyliau) (Noder fod y rhain yn ffigyrau ar gyfer Gwynedd gyfan):

Cyfnod	Ail Gartrefi	Llety Gwyliau
Cyfanswm Ebrill 2024	4,217	2,628
Cyfanswm Ebrill 2025	4,698	2,200
Newid	+481	-428

Fodd bynnag nid yw'r darlun mor syml a newid sylfaenol o lety gwyliau i ail gartrefi. Mae gwaith ymchwil o ran newidiadau i'r categorïau trethu yn dangos :

Newidiadau o fewn Categori Ail Gartrefi

- Mae 503 o ail gartrefi ychwanegol wedi trosglwyddo o'r categori llety gwyliau (treth busnes annomestig) gan nad ydynt yn cyrraedd y gofynion gosod am o leiaf 182 o ddyddiau ac felly o ran Treth Cyngor yn talu premiwm fel ail gartrefi (gan fod y perchennog yn berchen ar fwy na un tŷ).

Aldrethu annomestig



Premiwm ail gartref



503

BELLACH DDIM YN CYRRAEDD
TROTHWYON ARDRETHU ANNOMESTIG
OND YN PARHAU I GAEL EU
DEFNYDDIOL FEL LLETY GWYLIAU
TYMOR BYR

- Mae 70 o unedau yn disgyn fewn i'r categori Ail Gartrefi gan fod y Cyngor wedi derbyn gwybodaeth nad ydynt bellach yn cael ei gosod fel llety gwyliau.

Aldrethu annomestig



70

BELLACH DDIM YN CAEL EU
DEFNYDDIO FEL LLETY GWYLIAU

Premiwm ail gartref



- Mae 104 uned wedi newid defnydd o ail gartrefi i brif fan breswyl.

Premiwm ail gartref



104

BELLACH DDIM YN CAEL EI DEFNYDDIO
FEL AIL GARTREF

Prif fan preswyl



- Ymddengys fod yna 12 ail gartref newydd wedi cael ei ychwanegu i'r rhestr.

Premiwm ail gartref



+ 12

UNEDAU NEWYDD – DIM
COFNOD BLAENOROL

Newidiadau o fewn Categori Llety Gwyliau

- O ran newidiadau o fewn categori Llety Gwyliau mae 503 uned wedi disgyn i'r categori Ail Gartref oherwydd nad ydynt wedi cael ei gosod am o leiaf 182 o ddyddiau.

Ardrethu annomestig



Premiwm ail gartref



503

BELLACH DDIM YN CYRRAEDD
TROTHWYON ARDRETHU ANNOMESTIG
OND YN PARHAU I GAEL EU
DEFNYDDIOL FEL LLETY GWYLIAU
TYMOR BYR

- Mae i'w weld bod 75 uned ychwanegol wedi ei ychwanegu i'r rhestr.

Ardrethu annomestig



+ 75

UNEDAU NEWYDD – GALL FOD WEDI
TROSGLWYDDO CYN GWEITHREDU Y CE4

Gall fod unedau ail gartrefi a llety gwyliau o'r newydd fod wedi dod trwy unedau C3 yn symud un ai i C5 neu C6 cyn i'r Erthygl 4 ddod yn weithredol. Ers i'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 ddod yn weithredol ar 1 Medi 2024 hyd at ddiwedd Mawrth 2025, nid oes yna unrhyw ganiatâd cynllunio wedi ei roi i newid defnydd uned preswyl C3 i ddefnydd ail gartref C5 neu/a llety gwyliau C6

Credir ei fod yn rhy gynnar yn y cyfnod ar ôl gweithredu ar y Cyfarwyddyd Erthygl 4 i weld pa effaith y mae wedi ei gael ar y farchnad Ail Gartrefi / Llety Gwyliau. Tra bod 104 o unedau Ail Gartrefi wedi newid i fod yn brif fan preswyl mi oedd hyn yn 114 uned yn 2023/24 a 95 uned yn 2022/23 sydd yn agos iawn i ffigwr 2024/25.

Yn y flwyddyn o'r 1 Ebrill 2023 hyd at 31 Mawrth 2024 mae yna 134 o unedau tai o'r newydd (h.y. safleoedd nad oedd efo caniatâd ar ddiwrnod mabwysiadu'r Cynllun) wedi cael caniatâd cynllunio. Mae hyn drwy ganiatâd am dŷ unigol ar 26 o safleoedd efo'r gweddill ar 18 safle yn mynd o safle efo 2 uned hyd at safle o 24 o unedau. Allan o'r ceisiadau oedd yn cyfarch y trothwy i gael cyfraniad tai fforddiadwy h.y. 2 neu fwy o unedau neu o fewn Clwstwr neu drosi adeilad allanol sef 109 o unedau tai, fe gafwyd 68 o unedau fforddiadwy ganiatâd unai trwy amod neu gytundeb cyfreithiol, sydd y golygu canran fforddiadwy o 62.4%.

Yn y cyfnod ers mabwysiadu'r Cynllun mae yna ddwy Gydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai sef astudiaeth 2018 a 2019 wedi cael ei gyhoeddi ynghyd ac arolwg 2020, 2021, 2022, 2023, 2024 a 2025 sydd yn bwydo fewn i'r Dangosyddion newydd ar gyfer asesu'r twf yn erbyn Taflwybr Tai'r Cynllun. Mae'r rhain yn nodi fod 3,219 o unedau tai wedi cael ei gwblhau ers 2017 (2,870 yng Ngwynedd neu Môn hyd at 2023 a 349 o 2023 i 2025 yng Ngwynedd yn unig) efo 2,178 o'r rhain yn rhai oedd efo caniatâd cynllunio cyn i'r CDLI ar y cyd gael ei fabwysiadu.

Mae'r tabl isod yn nodi'r sefyllfa ar gyfer ceisiadau sydd wedi cael caniatâd cynllunio a'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun:

Cyfnod	Nifer o Unedau sydd wedi cael caniatâd a'u cwblhau yng nghyfnod y Cynllun	Nifer o rain sy'n Dai Fforddiadwy	Canran o Dai Fforddiadwy
AMB 1	56	35	62.5%
AMB 2	90	45	50%
AMB 3	125	55	44%
AMB 4	205	87	42.4%
AMB 5	231	117	50.6%
AMB 6*	126	68	54%
AMB 7*	208	141	67.8*
CYFANSWM	1,041	548	52.6%

* Noder i AMB 6 a 7 ffigyrau Gwynedd yn unig yw rhain

Mae'r canran o dai fforddiadwy yn y tabl uchod wedi cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dylid ystyried y lefelau yma yn erbyn y ffaith fod asesiad hyfywedd darparu tai fforddiadwy yn adnabod lefelau o 30%, 20% neu 10% yn y gwahanol ardaloedd prisiau tai. Felly o ystyried hyn mae'r lefel o dai fforddiadwy fel canran o'r holl unedau sydd wedi cael caniatâd a'u cwblhau yn oes y cynllun yn uwch na hyn. Efo'r canran o dai fforddiadwy allan o'r holl unedau tai o'r newydd a gafodd ganiatâd yn cynyddu i dros 50% eto eleni yna'r gobaith yw bydd y canran o dai fforddiadwy wedi ei chwblhau yn cynyddu yn y blynyddoedd nesaf hefyd.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae dros 60% (62.4%) o ganiatâdau tai o'r newydd ac sy'n cyrraedd y trothwy perthnasol wedi bod ar gyfer tai fforddiadwy. Yn ogystal o'r unedau gafodd ganiatâd a'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun mae'r canran o dai fforddiadwy hefyd ychydig yn uwch na 50% (52.6%) (sydd yn uwch na'r trothwyon 10%, 20% a 30% ar gyfer y gwahanol ardaloedd). Golyga hyn fod caniatâdau newydd o dan y Cynllun hyd yma, drwy baratoi canran uchel o dai fforddiadwy sydd yn help i gyfarch anghenion lleol a thrwy hynny helpu i gynnal yr iaith o fewn ardal y Cynllun.

Mae ceisiadau diweddar gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi cael ei cefnogi efo tystiolaeth ar gyfer iaith Ddewisol y Prif Denantiaid ac unrhyw denant ar y cyd sydd wedi dewis Cymraeg o'i gymharu a'r canran o siaradwyr Cymraeg oed 20+ yn y Ward berthnasol ar gyfer datblygiadau diweddar ganddynt. Mae'r tabl canlynol y nodi y wybodaeth yma:

Datblygiad	Nifer a Math o Unedau Fforddiadwy	Iaith Dewisol o Gymraeg gan y Prif Denant ac Unrhyw Denant ar y cyd (%)	Siaradwyr Cymraeg (20+ oed) yn y Ward Berthnasol (%)
Llygaid y Meolwyn, Blaenau Ffestiniog	5 tŷ rent cymdeithasol	89%	73%
Rhandir Mwyn, Caernarfon	18 eiddo, cymysg o dai rhent cymdeithasol a canolraddol	100%	79%
Frondeg, Pwllheli	28 o fflatiau rhent cymdeithasol ar gyfer trigolion drost 55	72%	73%
Cae Rhosydd, Rachub	30 eiddo, cymysg o dai rhent cymdeithasol a canolraddol	56%	59%
Gwel y Foel, Dinas Llanwnda	24 o dai, cymysgedd o dai rhent cymdeithasol, canolraddol a rhentu i brynu	89%	77%
Cae'r Gors, Tregarth	8 tŷ rent cymdeithasol a 4 tŷ rent canolraddol	96%	68%
Trem Engan, Penygroes	24 o dai, cymysgedd rent cymdeithasol ag canolraddol	89%	80%
Gerddi Bach, Waunfawr	4 o dai rent cymdeithasol	75%	69%
Llety'r Adar, Bethesda	17 o dai rhent cymdeithasol	71%	71%
Cae Magw, Rhosgadfan	4 o dai rhent cymdeithasol	100%	77%
Bron Gwynedd, Bethel	4 o dai rhent cymdeithasol	100%	84%
Cae Capel, Bontnewydd	9 o dai rhent cymdeithasol	89%	80%

Fel y gwelir felly mae'r % o Prif Denantiaid sydd wedi dewis Cymraeg fel ei iaith ddewisol yn uwch na'r canran o siaradwyr Cymraeg oed 20+ yn y Ward ble lleolir y tai o fewn 9 o'r datblygiadau yma efo 1 yr union 'run lefel a dau ychydig yn is (1% yn achos un datblygiad a 3% yn y datblygiad arall).

Mae'r ffactorau a gyfeirir tuag atynt uchod yn amlygu sut mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau fod datblygiadau o'r newydd yn cyfarch anghenion y gymuned leol. Fel y gwelir o dadansoddiad o ganlyniadau'r Cyfrifiad mae llawer o'r newidiadau lleol yn deillio o symudiadau o fewn y stoc dai presennol sydd y tu allan i reolaeth y Cynllun. Efo'r newidiadau Cenedlaethol i ddosbarthiadau defnydd ar gyfer tai mae'r ffaith fod y Cyngor wedi cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn golygu fod gan y Cyngor fwy o reolaeth ar y nifer o ail gartrefi / llety gwyliau yn deillio allan o'r stoc dai presennol. Fe fydd angen adlewyrchu'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 wrth lunio polisiau tai i'r Cynllun

Datblygu Lleol Newydd yn ogystal ag diweddaru'r tystiolaeth sydd yn cefnogi'r Polisi Tai Marchnad Lleol i ymestyn yr ardal ble mae'n berthnasol.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd: D2

Amcan: SO1 Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned.

Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		PS1
		Deiliant:		Lefel sbardun:
D2 - Caniatáu ceisiadau cynllunio lle mae angen mesurau lliniaru iaith Gymraeg	Lle bo angen, osgoi neu liniaru niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned yn unol â Pholisi PS 1	AMB 1		Caniatáu un cais cynllunio mewn unrhyw flwyddyn unigol yn groes i Bolisi PS 1
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		AMB 7		

Dadansoddiad:

Fel yr amlygir yn yr ymateb i Ddangosydd D1 yn y flwyddyn 2024/25 mae caniatâd cynllunio wedi cael ei roi ar gyfer 134 o unedau tai newydd (h.y. ar safleoedd nad oedd efo caniatâd cynllunio ar ddyddiad mabwysiadu'r Cynllun).

Mae'r unedau yma wedi cael caniatâd ar safleoedd o'r maint a amlygir yn y tabl isod:

Maint Ceisiadau Tai	Nifer o Safleoedd	Cyfanswm Unedau
1 uned	26	26
2 i 5 uned	12	34
6 i 10 uned	4	34
11+ uned	2	40

O'r 2 safle sydd o faint 11+ uned mae un a'r dir llwyd o fewn y ffin datblygu ar llall yn safle efo'r rhan helaeth o fewn y ffin datblygu efo rhan bach yn ffurfio safle eithrio. Mae un safle yn darparu 100% o unedau fforddiadwy efo un arall yn darparu'r 66.6% o unedau fforddiadwy.

Cafwyd 3 Asesiad Ieithyddol a 22 Datganiadau Ieithyddol efo ceisiadau gafodd ei phenderfynu ble yr oeddynt yn cyfarch y trothwyon o fewn Polisi PS 1 (gweler Dangosydd D3 ar gyfer manylion y math o geisiadau gafodd y rhain ei chyflwyno efo). Yn ogystal, yn unol ag Atodiad 5 o'r CCA,

rhoddwyd ystyriaeth i'r Gymraeg ar gyfer ceisiadau sy'n is na throthwy'r rhai y mae angen Datganiad neu Asesiad ffurfiol arnynt.

Cafodd 4 cais ei gwrthod yn rhannol oherwydd materion ieithyddol canlynol:

- 1 cais preswyl am 21 uned gan ni dderbyniwyd tystiolaeth am yr angen am y nifer o dai a gwybodaeth gyfredol o fewn yr Asesiad ar yr iaith Gymraeg i allu asesu os yw'r bwriad yn cwrdd â gofynion maen prawf 1c o Bolisi PS1. Ar y sail yma, nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ei argyhoeddi na fyddai'r bwriad yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg yn ardal y cynllun;
- 1 cais preswyl am 18 uned fforddiadwy gan nad yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi'i argyhoeddi na fydd effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg ac felly na fyddai'r bwriad yn unol a gofynion Polisi PS1;
- 1 cais ar gyfer trosi hen siop i uned breswyl gan nad oes gwybodaeth ddigonol wedi ei chyflwyno gyda'r cais cynllunio i alluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol asesu'r holl ystyriaethau cynllunio materol angenrheidiol. Er mwyn galluogi asesiad cyflawn dan bolisiau PS 1 fe fyddai'n angenrheidiol cyflwyno'r wybodaeth ganlynol : Datganiad iaith Gymraeg, Asesiad o'r farchnad dai i ddangos sut bydd yr uned newydd yn cwrdd gyda gofynion y gymuned leol;
- 1 cais ar gyfer cael gwared ar gwt haf pren presennol a chodi cwt bugeiliaid yn ei le at ddibenion gosod gwyliau gan nad oes gwybodaeth ddigonol wedi ei chyflwyno fel rhan o'r cais cynllunio i alluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol asesu sawl agwedd o'r cynnig yn llawn gan gynnwys effaith posib ar yr iaith Gymraeg.

Cafodd 24 cais ganiatâd efo amod cynllunio ar gyfer mesurau lliniaru ieithyddol sef:

- 7 cais preswyl efo amod rhaid darparu enw Cymraeg ar gyfer yr annedd a ganiateir drwy hyn (Dylai unrhyw enw newydd ddeillio o gysylltiadau hanesyddol, daearyddol neu leol i'r ardal lle'n bosib.) (rhain ar gyfer cyfanswm o 37 uned preswyl);
 - 7 cais efo amod bod rhaid i unrhyw arwyddion sy'n hysbysebu ac yn hyrwyddo'r datblygiad o fewn ac oddi allan y safle fod yn Gymraeg neu'n ddwyieithog gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg (2 cais codi cyfanswm o 110 uned preswyl, 1 cais ar gyfer 10 uned diwydiannol, 1 cais ar gyfer archfarchnad manwerthu, 1 cais ar gyfer 2 uned busnes, 1 cais ar gyfer garej mot ac 1 cais ar gyfer uned manwerthu);
 - 1 cais ar gyfer archfarchnad manwerthu ble rhaid i'r ymgeisydd/datblygwr gyflwyno cynllun lliniaru effaith yr iaith Gymraeg gan gynnwys manylion am arwyddion mewnol ac allanol dwyieithog/pecynnau gwybodaeth/ trefniadau marchnata i'w gytuno yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn i'r defnydd a ganiateir trwy hyn ddod yn weithredol a rhaid gweithredu'r datblygiad yn unol a'r manylion a ganiateir;
- 9 cais efo amod bod rhaid i unrhyw arwyddion sy'n hysbysebu ac yn hyrwyddo'r datblygiad o fewn ac oddi allan y safle fod yn Gymraeg neu'n ddwyieithog gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg ac amod rhaid darparu enw Cymraeg ar gyfer y bwriad (7 cais codi cyfanswm o 60 uned breswyl, 1 cais defnydd cymysg ar gyfer 3 uned breswyl a 3 llety gwyliau ac 1 cais am godi gweithdy/swyddfa newydd.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd: D3

Amcan:

SO1

Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned.

Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		PS1
		Deiliant:		Lefel sbardun:
D3 Nifer o geisiadau cynllunio gyda Datganiad Iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg	Yr holl geisiadau cynllunio perthnasol i fod â Datganiad Iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg, sy'n ymdrin â ffactorau sy'n berthnasol i'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned fel y nodir yn y Canllawiau Dylunio Atodol.	AMB 1		Un Datganiad iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg mewn unrhyw flwyddyn unigol nad yw'n ymdrin â ffactorau sy'n berthnasol i'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned.
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		AMB 6		
		<u>AMB 7</u>		

Dadansoddiad:

Yn ystod y cyfnod monitro, cyflwynwyd cyfanswm o 22 Datganiad Iaith Gymraeg ac 3 Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg yng Ngwynedd. Yn ogystal, yn unol ag Atodiad 5 o'r CCA, rhoddwyd ystyriaeth i'r Gymraeg ar gyfer ceisiadau sy'n is na'r trothwy sy'n gofyn am Ddatganiad neu Asesiad ffurfiol. Derbyniwyd 13 Datganiad Ieithyddol gyda cheisiadau preswyl, 6 datganiad gyda cheisiadau masnachol, 3 gyda cheisiadau cymysg sef dau ar gyfer creu siop ac unedau preswyl ac un arall ar gyfer defnydd 3 uned preswyl a 3 uned lleu gwyliu. Derbyniwyd 3 Asesiad Ieithyddol i gyd ar gyfer ceisiadau preswyl.

Yn yr achosion ble cyflwynwyd Datganiadau/Asesiadau Iaith Gymraeg nad oedd yn dilyn prif strwythur y templed ymateb sydd wedi ei gynnwys yn y CCA "Creu a Chynnal Cymunedau Nodedig" a fabwysiadwyd yng Ngorffennaf 2019 gofynnwyd am wybodaeth bellach gan yr ymgeisydd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y CCA mabwysiedig.

Ystyrir, felly, fod y polisiâu yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd: D4

Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB 2, dim angen parhau i'w fonitro.

Isadeiledd a Chyfraniadau Datblygwyr

Dangosydd: D5

Amcan:	SO2	Sicrhau bod isadeiledd ffisegol neu gymunedol priodol yn ei le, e.e. cyflenwad dwr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir ei ddarparu (e.e. trwy gyfraniadau datblygwyr) i ymdopi a phob math o ddatblygiad.	
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:	ISA1, ISA2, ISA4, ISA5
		Deiliant:	Lefel sbardun:
D5 - Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir lle cafwyd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr	Lle bo'n briodol, bydd datblygiadau newydd yn ymdrin â'r effaith ar gymunedau drwy ddarparu seilwaith newydd neu well yn unol â Pholisi ISA1.	AMB 1	
		AMB 2	
		AMB 3	
		AMB 4	
		AMB 5	
		AMB 6	
		AMB 7	
Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi ISA 1 mewn unrhyw flwyddyn unigol.			
Dadansoddiad:			
Mae Polisiâu'r Cynllun yn ceisio sicrhau fod y ddarpariaeth isadeiledd yn ddigonol ar gyfer datblygiadau newydd. Pan nad yw hyn yw'r achos, gellir ceisio am gyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr i wneud yn siŵr fod capasiti isadeiledd digonol yn bodoli. Cyflwynwyd 4 chais cynllunio lle roedd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau gan ddatblygwyr. Roedd y rhain yn cynnwys: • 1 i gynyddu capasiti'r ysgol • 3 ar gyfer darparu mannau agored a/neu gyfraniadau ariannol. Ni chafodd unrhyw gais ei gymeradwyo oedd yn gyferbyniol i Bolisi ISA1 dros y cyfnod monitro. Mae'r targed i rwystro datblygiadau gael eu caniatáu ble nad oes seilwaith digonol mewn unrhyw flwyddyn unigol felly'n cael ei gyfarch.			
Gweithred:			
Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.			

Dangosydd: D6			
Amcan:	SO2	Sicrhau bod isadeiledd ffisegol neu gymunedol priodol yn ei le, e.e. cyflenwad dwr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir ei ddarparu (e.e. trwy gyfraniadau datblygwyr) i ymdopi a phob math o ddatblygiad.	

Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		ISA1, ISA2, ISA4, ISA5
		Deiliant:		Lefel sbardun:
D6 - Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer newid defnydd cyfleusterau cymunedol	Cadw cyfleusterau cymunedol hyfyw yn unol â Pholisi ISA 2	AMB 1		Colli un cyfleuster cymunedol hyfyw yn groes i Bolisi ISA 2 mewn unrhyw flwyddyn unigol.
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		<u>AMB 7</u>		
Dadansoddiad:				
Mae Polisi ISA 2 yn anelu i warchod cyfleusterau cymunedol presennol ac annog datblygu cyfleusterau newydd lle bo hynny'n briodol. Caniatawyd 5 cais cynllunio oedd yn golygu colli cyfleuster cymunedol sef: • Dymchwel hen lyfrgell a gosod canolfan gymunedol newydd yn ei le; • Trosi tŷ tafarn i 5 fflat; • Trosi Capel yn dŷ; • Ail ddatblygu safle hen ysgol i 10 tŷ; a • Trosi hen Ysgol i 9 fflat. Fe wnaeth yr holl geisiadau yma fodloni'r profion o fewn Polisi ISA 2 ar gyfer gwaredu'r cyfleuster cymunedol. Mae'r targed i rwystro colled cyfleuster cymunedol hyfyw mewn unrhyw flwyddyn unigol felly'n cael ei gyfarch.				
Gweithred:				
Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.				

Llecynnau Agored

Mae swyddogaeth bwysig llecynnau agored o fewn cymunedau yn ardal y Cynllun wedi'i adlewyrchu yn y CDLI ar y Cyd sy'n ceisio diogelu'r llecynnau agored presennol ac yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu llecynnau agored i ddiwallu anghenion deiliaid datblygiadau tai newydd.

Ers i'r Cynllun cael ei fabwysiadu mae'r polisiâu wedi gwarchod llecynnau agored mewn cymunedau a hefyd wedi sicrhau bod llecynnau agored newydd yn cael ei greu, cynnal a gwella.

Dangosydd: D7				
Amcan:	SO2	Sicrhau bod y seilwaith cymunedol neu ffisegol briodol yn ei le e.e. cyflenwad dŵr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu fod modd ei ddarparu (e.e. drwy gyfrwng cyfraniadau datblygwyr) i ymdrin â phob math o ddatblygiad.		
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol		ISA 4
		Deiliant:		Trothwy:
		AMB 1		Llecynnau agored a gollir mewn unrhyw Ganolfan neu Bentref mewn unrhyw flwyddyn sy'n arwain ar ostyngiad net yn y cyflenwad yn y Ganolfan honno neu'r Pentref hwnnw yn groes i Bolisi ISA 4.
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
<u>AMB 7</u>				
D7 - Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer defnyddiau amgen mewn llecynnau agored				
Cyfanswm y llecynnau agored (ha) mewn aneddeleoedd unigol a gedwir yn unol â Pholisi ISA 4.				
Dadansoddiad:				
8 cais wedi'u cymeradwyo ar lecynnau agored a nodir yn y cynllun (ar y map cynigion) fel llecynnau agored wedi'u hamddiffyn. Mae'r holl geisiadau'n cydymffurfio â meini prawf y polisi: • 2 chais ar rannau o gaeau chwarae ysgol sydd ddim yn tanseilio defnydd y tir fel caeau chwarae (gwelliannau i cegin ysgol a codi ffens newydd). • 2 gais am gwaith trin coed. • 1 cais am gwelliannau i llwybr troed. • 1 cais am gosod cae 3G a llifoleuadau. • 1 cais am ddodrefn a bwrdd ddehongli newydd • 1 cais sy’n ymwneud â system drainio trefol cynaliadwy (SUDS). Ystyrir bod Polisi ISA 4 yn cael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau’n parhau i fonitro'r dangosydd.				
Gweithredu:				
Parhau i fonitro fel rhan o’r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.				

Dangosydd: D8			
Amcan:	SO2	Sicrhau bod y seilwaith cymunedol neu ffisegol briodol yn ei le e.e. cyflenwad dŵr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu fod modd ei ddarparu (e.e. drwy gyfrwng cyfraniadau datblygwyr) i ymdrin â phob math o ddatblygiad.	
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:	ISA 5
		Deiliant:	Trothwy:
D8 - Llecynnau agored (ha) a gafwyd mewn perthynas â datblygiad preswyl o 10 neu fwy o unedau	Darparu llecyn agored newydd os yw safonau meincnod Fields in Trust (FiT) yn nodi fod yna ddiffyg llecyn agored yn unol â Pholisi ISA 5.	AMB 1	
		AMB 2	
		AMB 3	
		AMB 4	
		AMB 5	
		AMB 6	
		<u>AMB 7</u>	
Un cais cynllunio wedi'i gymeradwyo mewn unrhyw flwyddyn nad yw'n cyfrannu at ddiwallu anghenion preswylwyr tai newydd am lecyn agored yn unol â diffiniad safon meincnod FiT yn groes i Bolisi ISA 5.			
Dadansoddiad:			
3 cais am 10 neu fwy o dai wedi cael eu cymeradwyo yn y cyfnod AMB hwn. • Roedd cyfanswm y ddarpariaeth o lecynnau agored wedi ei greu yn 720m². • Cyfraniad ariannol o £1306.86. Ystyrir bod Polisi ISA 4 yn cael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau'n parhau i fonitro'r dangosydd.			
Gweithredu:			
Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.			

Dangosydd: D9
Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB1, dim angen parhau i'w fonitro

Dangosydd: D10
Targed wedi ei gwrdd. Dim angen i barhau i'w fonitro.

Dangosydd: D11				
Amcan:	SO3	Gwella a chynnal rhwydweithiau trafnidiaeth ddiogel, effeithlon, o safon uchel, fodern ac integredig ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg / hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar gefn beic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan felly leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl.		
	SO4	Gwneud yn fawr o gyfleoedd Caergybi fel porth rhyngwladol mawr a'r A55, rhwydwaith Traws Ewrop E22 a'r A5025, A487, A470 fel coridorau cludiant allweddol: Prif ganlyniadau: • Bydd strategaeth a pholisïau'r Cynllun wedi cyfrannu i greu mwy o gymunedau gyda chanran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg; • Ni fydd isadeiledd cymunedol wedi cael ei golli oni bai bod tystiolaeth wedi dangos nad oedd yn allweddol i'r gymuned; • Bydd lleoliad datblygiad yn golygu bod cyfle i fwy o unigolion deithio holl ffordd neu'n rhannol i'w gwaith ar droed, ar gefn beic, ar fysus neu ar y trê; • Bydd ffyrdd newydd neu welliannau i ffyrdd sy'n angenrheidiol ar y rhwydwaith ffyrdd presennol wedi cael eu darparu.		
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		TRA 1, TRA 2, TRA 3, TRA 4
		Deiliant:		Lefel sbardun:
D11 – Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â safonau parcio	Paratoi a mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â safonau parcio o fewn 12 mis o fabwysiadu'r Cynllun	AMB 1		Methiant i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 12 mis o fabwysiadu'r Cynllun
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		AMB 7		
Dadansoddiad:				
Nid yw'r targed polisi wedi'i gyflawni ar hyn o bryd fel y rhagwelwyd ond nid yw hyn yn arwain at bryderon ynghylch gweithredu polisi.				

Mae'r amserlen ar gyfer mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) diwygiedig ar Safonau Parcio wedi'i osod ar gyfer Chwarter 2 yn 2018/19. Nid yw'r targed hwn wedi'i gyflawni oherwydd newidiadau yn amserlen waith a blaenoriaethu adnoddau'r CDLI.

Mae'r awdurdod cynllunio lleol wedi 'arbed' CCA o'r Cynlluniau Datblygu Unedol, a gall hefyd gyfeirio at ganllawiau cenedlaethol wrth benderfynu ar geisiadau newydd.

Gan fod y polisi CDLI newydd ar Safonau Parcio yn unol â chanllawiau cenedlaethol, ni theimlir bod y llithriad yng nghyflwyniad CCA newydd wedi bod yn niweidiol yn y broses gwneud penderfyniad.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd: D12

Amcan:	SO3	Gwella a chynnal rhwydweithiau trafndiaeth ddiogel, effeithlon, o safon uchel, fodern ac integredig ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg / hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar gefn beic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan felly leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl.
	SO4	Gwneud yn fawr o gyfleoedd Caergybi fel porth rhyngwladol mawr a'r A55, rhwydwaith Traws Ewrop E22 a'r A5025, A487, A470 fel coridorau cludiant allweddol: Prif ganlyniadau: • Bydd strategaeth a pholisïau'r Cynllun wedi cyfrannu i greu mwy o gymunedau gyda chanran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg; • Ni fydd isadeiledd cymunedol wedi cael ei golli oni bai bod tystiolaeth wedi dangos nad oedd yn allweddol i'r gymuned; • Bydd lleoliad datblygiad yn golygu bod cyfle i fwy o unigolion deithio holl ffordd neu'n rhannol i'w gwaith ar droed, ar gefn beic, ar fysus neu ar y trênn; • Bydd ffyrdd newydd neu welliannau i ffyrdd sy'n angenrheidiol ar y rhwydwaith ffyrdd presennol wedi cael eu darparu.

Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		TRA 1, TRA 2, TRA 3, TRA 4
		Deiliant:		Lefel sbardun:
D12 – Nifer o geisiadau cynllunio gydag Asesiad Teithio	Yr holl geisiadau cynllunio perthnasol sydd uwchlaw'r	AMB 1		Un cais cynllunio a gyflwynir mewn unrhyw flwyddyn unigol heb
		AMB 2		

	trothwyon perthnasol a nodwyd ym Mholisi TRA 1 i gynnwys Asesiad Teithio	AMB 3		Asesiad Teithio fel sy'n ofynnol gan Bolisi TRA 1
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		<u>AMB 7</u>		

Dadansoddiad:

Cefnogwyd cyfanswm o 3 chais am ddatblygiadau tai mawr ac 1 ar gyfer datblygiad cyflogaeth gan Asesiad Trafnidiaeth. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau heb Asesiad Teithio pan oedd angen.

Mae'r polisi'n glir, ac yn gofyn am asesiad ar sail y trothwyon a osodir yn 'Nhabl 6: Graddfa'r datblygiad sy'n gofyn am asesiad trafndiaeth'. Mae swyddogion yn gofyn am asesiad wrth wneud ymholiad cyn gwneud cais neu ar y cam gwneud cais cynllunio.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd: D13

Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB6, dim angen parhau i'w fonitro

Dangosydd: D14

Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB1, dim angen parhau i'w fonitro

Dangosydd: D15

Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB1, dim angen parhau i'w fonitro

6.2 Byw'n Gynaliadwy

Datblygiadau Cynaliadwy a Newid Hinsawdd

Dangosydd: D16

Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB 2, dim angen parhau i'w fonitro.

Dangosydd: D17

Amcan:	SO5	Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.		
	SO6	Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy: • sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl; • lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau; • hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal; • defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael; • rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir.		
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol		PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2
		Deiliant:		Lefel sbardun:
D17 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir gan gategori NCT 15 mewn ardaloedd gorlifdir C1	Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio o fewn ardaloedd gorlifdir C1 heb gwrdd â'r holl brofion a amlinellir yn NCT15	AMB 1		Caniatáu un cais cynllunio mewn unrhyw flwyddyn unigol o fewn ardaloedd gorlifdir C1 nad yw'n cwrdd â holl brofion NCT15.
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		<u>AMB 7</u>		

Dadansoddiad:

Caniatawyd 23 cais cynllunio llawn ar safleoedd oedd yn llwyr/rhannol o fewn parth llifogydd C1; roedd 8 o'r rhain yn geisiadau deilydd tŷ. Fel rhan o'r broses o asesu'r ceisiadau cynllunio, casglwyd gwybodaeth ynglŷn â chydymffurfiaeth y ceisiadau cynllunio â'r profion sydd wedi'u cynnwys yn Nodyn Cyngor Technegol 15 (Llifogydd); penderfynwyd eu bod yn cydymffurfio â gofynion y profion sydd wedi'u gosod yn NCT 15.

Cesglir fod y ceisiadau a gymeradwywyd yn cydymffurfio â pholisïau PS5, PS6, PCYFF 1 a PCYFF 2 y CDLI ar y Cyd. O ganlyniad, ystyrir fod y polisïau yn parhau i gael eu gweithredu yn effeithiol.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd: D18**Amcan:**

SO5

Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.

SO6

Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:

- sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;
- lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;
- hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;
- defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;
- rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir.

Dangosydd:**Targed:****Polisi perthnasol**

PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3

Deiliant:**Lefel sbardun:**

D18 Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n hynod agored i niwed mewn ardaloedd gorlifdir C2.

Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n hynod agored i niwed mewn ardaloedd gorlifdir C2

AMB 1



AMB 2



AMB 3



AMB 4



Caniatáu un ar gyfer datblygiad sy'n hynod agored i niwed mewn ardaloedd gorlifdir C2 mewn unrhyw flwyddyn unigol.

	AMB 5	
	AMB 6	
	<u>AMB 7</u>	

Dadansoddiad:

Caniatawyd 37 cais cynllunio llawn ar safleoedd oedd yn llwyr/rhannol o fewn parth llifogydd C2; roedd 12 o'r rhain yn geisiadau deilydd tŷ. Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer y math o ddatblygiad a fyddai'n cael ei ystyried yn 'llai agored i niwed' yn unol â Ffigwr 2 Nodyn Cyngor Technegol 15 (Datblygu a Pherygl Llifogydd). Ar ben hynny, roedd yr holl geisiadau a leolwyd (yn rhannol/llwyr) o fewn y parth llifogydd C2 yn cydymffurfio â'r profion sydd wedi'u cynnwys yn NCT 15.

Cesglir fod y ceisiadau a gymeradwywyd yn cydymffurfio â pholisïau PS5, PS6, PCYFF 1 a PCYFF 2 y CDLI ar y Cyd. O ganlyniad, ystyrir fod y polisïau yn parhau i gael eu gweithredu yn effeithiol.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd: D19		
Amcan:	S05	Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad. Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy: • sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;
	S06	• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau; • hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal; • defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael; • rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd ddŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir.

Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol		PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3
		Deiliant:		Lefel sbardun:
D19 - Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd ar dir a ddatblygwyd eisoes (ailddatblygu tir llwyd a throsi adeiladau presennol) wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau a ddatblygwyd bob blwyddyn	Cynnal neu gynyddu'r gyfran o ddatblygiadau newydd a ganiateir ar dir a ddatblygwyd eisoes (ailddatblygu tir llwyd a throsi adeiladau presennol) o'i gymharu â'r % cyfartalog a gofnodwyd yn ystod 2015/ 2016 – 2016/ 2017.	AMB 1		Gostyngiad yn y gyfran o ddatblygiadau a ganiateir ar dir a ddatblygwyd eisoes (ailddatblygu tir llwyd a throsi adeiladau presennol) am 2 flynedd yn olynol.
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		AMB 7		
Dadansoddiad:				
Oherwydd natur wledig yr ardal, mae cyfleoedd i ddatblygu ar dir a ddatblygwyd o'r blaen wedi ei gyfyngu i nifer o safleoedd llai. Tra bo datblygiadau'n cael eu cyfeirio at y safleoedd hyn yn y lle cyntaf, mae'r pwysau i adeiladu ar dir gwyrdd yn anochel, yn enwedig oherwydd natur cynigion e.e. cynlluniau ynni adnewyddol, tai lleol, cynlluniau arallgyfeirio gwledig a datblygiadau twristiaeth. Mae'r gyfran o ddatblygiadau ar dir llwyd yn Gwynedd fel a ganlyn: % o ddatblygiadau ar dir a ddatblygwyd o'r blaen: Gwynedd 2015-2016 = 14.54ha (44%); Gwynedd 2016-2017 = nid oes data ar gael oherwydd roedd cofnodi'r data hwn yn cael ei adolygu ar y pryd. Gwynedd 2017-2018 = 12.82ha (64%); Gwynedd 2018 i'r presennol – gwybodaeth perthnasol ddim yn cael ei gasglu. Methu adrodd ar y dangosydd. Oherwydd diffyg argaeledd gwybodaeth ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd, nid oes modd dod i gasgliad llawn os yw'r targed wedi ei gyrraedd.				
Gweithred:				

Ymchwilio'r posibilrwydd o gasglu'r data er mwyn adrodd arno yn y dyfodol.

Dangosydd: D20

Amcan:	SO5	Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.			
	SO6	Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy: - sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl; - lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau; - hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal; - defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael; - rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd ddŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir.			
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol		PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3	
		Deiliant:		Lefel sbardun:	
D20 - Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir tu allan i ffiniau datblygu.	Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio tu allan i ffiniau datblygu nad ydynt yn cwrdd â gofynion Polisi PCYFF 1 a pholisïau perthnasol eraill yn y Cynllun.	AMB 1		Caniatáu un cais cynllunio tu allan i ffiniau datblygu nad yw'n cwrdd â gofynion Polisi PCYFF 1 a pholisïau perthnasol eraill yn y Cynllun mewn unrhyw flwyddyn unigol.	
		AMB 2			
		AMB 3			
		AMB 4			

		AMB 5		
		AMB 6		
		<u>AMB 7</u>		

Dadansoddiad:

Mae yna gyfanswm o 324 o geisiadau cynllunio sydd wedi cael caniatâd tu allan i'r ffiniau datblygu yn ystod y 7fed cyfnod AMB sy'n cynrychioli 48.5% o bob cais ar gyfer datblygiad.

Mae dadansoddiad o'r mathau o geisiadau cynllunio a ganiatawyd y tu allan i ffiniau datblygu fel a ganlyn:

- Amaethyddiaeth a Choedwigaeth – 30.2%
- Cyflogaeth – 10.8%
- Cymunedol – 2.5%
- Deilydd Tŷ – 31.6%
- Hamdden – 1.9%
- Isadeiledd a Thrafnidiaeth – 4.0%
- Manwerthu – 1.0%
- Tai – 8.0%
- Twristiaeth – 6.5%
- Mwynau a Gwastraff – 0.6%
- Ynni – 2.2%

Fel y gwelir, roedd y mwyafrif o geisiadau cynllunio a ganiatawyd y tu allan i ffiniau datblygu yn rai deilydd tŷ neu'n geisiadau ar gyfer gwiriad amodau ar gyfer ceisiadau cynllunio eisoes wedi eu cymeradwyo. O ran datblygiadau tai, 'roedd y rhain yn cynnwys datblygiadau mewn clystyrau, tai menter wledig a thai a ail-adeiladwyd a oedd yn cydymffurfio â pholisïau'r Cynllun. Ni ganiatadwyd unrhyw gais cynllunio ar gyfer tai marchnad agored y tu allan i ffin ddatblygu. Nodir hefyd fod nifer o geisiadau ar gyfer datblygiadau gwledig er enghraifft twristiaeth, ynni adnewyddol, priffyrdd a datblygiadau amaethyddol. Ni chymeradwywyd unrhyw gais oedd yn groes i Bolisi PCYFF 1.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Technoleg Ynni Adnewyddadwy

Dangosydd: D21

Amcan:	SO5	Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.		
	SO6	Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy: - sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl; - lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau; - hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal; - defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael; - rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir.		
Dangosydd:	Targed	Polisi perthnasol:		PS 1
		Deilliant:		Lefel sbardun:
D21 Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy annibynnol a ganiateir, fesul Technoleg, ardal (Ardal awdurdod Cynllunio Lleol Môn a Gwynedd) ac allbwn ynni a gofnodir (GWh)	50% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (1,113.35 GWh) wedi digwydd erbyn 2021 i gyfarch y galw am drydan	AMB 1		Swm allbwn ynni a gofnodir o ffynonellau ynni adnewyddadwy yn 10% neu fwy islaw'r gofynion yn y Targed Polisi
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		AMB 7		
	100% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (2,226.7 GWh) wedi digwydd erbyn 2026 i gyfarch y galw am drydan			
	50% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (23.65 GWh)			

	wedi digwydd erbyn 2021 i gyfarch y galw am wres 100% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (47.3 GWh) wedi digwydd erbyn 2026 i gyfarch y galw am wres			

Dadansoddiad:

Mae'r polisïau a gynhwysir yn y CDLI yn cefnogi ceisiadau ar gyfer datblygiadau cynhyrchu ynni adnewyddadwy priodol.

Nid yw'r sail tystiolaeth ddaru adnabod cyfleoedd posib o ynni adnewyddadwy o fewn ardal y Cynllun yn gwahaniaethu rhwng cyfleoedd o fewn Ardal Cynllunio Leol Gwynedd ac Ynys Môn. Oherwydd hyn nid oes modd asesu'r dangosydd yma ar gyfer Ardal Cynllunio Leol Gwynedd yn unigol ac felly mae'n ystyried y sefyllfa yn erbyn y ffigyrau diweddaraf ar gyfer Ardal y Cynllun cyfan.

Yn y cyfnod monitro hwn ni chafodd unrhyw gais masnachol ynni adnewyddol o'r newydd ganiatâd cynllunio.

Mae tablau 7 ac 8 o fewn y CDLI ar y Cyd yn nodi capasiti gosodedig o 159.6 (MWe) a 12.4 (MWt) o fewn ardal y cynllun yn 2016. Y fersiwn diweddaraf 'Cynhyrchu Ynni yng Nghymru' (ffigyrau 2023) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru cyfanswm capasiti gwres a thrydan sydd wedi'i osod ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd oedd 265MW a roddodd gynhyrchiad amcangyfrifedig o 470GWh. Mae hyn yn gynydd o 93MW o'r hyn a nodwyd yn nhablau 7 ac 8 yn y CDLI ar y Cyd.

Mae'r lefelau isel o geisiadau sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio yn adlewyrchu gostyngiad yn nifer y ceisiadau a gyflwynwyd dros y blynyddoedd diwethaf yn hytrach nag Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gwrthod ceisiadau. Dylid nodi hefyd fod holl datblygiadau ynni mawr sydd ar gyfer 10MW neu fwy yn cael ei ystyried yn Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu arnynt.

Mae Dangosydd D21 yn gosod targedau ar gyfer cyfarch yr adnoddau ynni adnewyddadwy posib sydd wedi cael ei adnabod yn y Cynllun. Roedd disgwyl y buasai 50% o hyn sef 1,113.35 GWh ar gyfer trydan a 23.65 GWh am wres wedi cael ei gyfarch erbyn 2021. Fodd bynnag hyd at 2025 dim ond 119.6 GWh yn ychwanegol i'r ffigyrau yn nhablau 7 ac 8 yn y CDLI ar y cyd sydd wedi cael ei ddarparu. Felly nid yw'r targed o 50% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib ar gyfer gwres a trydan yn cael ei ddarparu erbyn 2021 wedi cael ei gyflawni.

Nid oes unrhyw fwriad wedi dod ymlaen ar y safleoedd cyfle posib am ynni solar, fodd bynnag mae yna nifer o ymholiadau wedi cael ei cyflwyno i'r Arolygaeth Cynllunio fel bwriad all fod yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol sef Fferm Solar Alaw Môn (Enso Energy) (160MW) (cais wedi mynd trwy archwiliad disgwyl penderfyniad gan yr arolygydd) a Prosiect Maen Hir (gynt yn cael ei alw yn Fferm Solar Môn) (Lightsource BP) (350MW) (yn y cyfnod cyn cyflwyno i'r Arolygaeth Cynllunio).

Os buasai'r ceisiadau solar yma y cael caniatâd yn ei ffurf presennol yna buasai rhain yn paratoi 446.8GWh.

Mae'r datblygiadau canlynol wedi derbyn caniatâd:

- Parc Solar Traffwll (35MW) (Low Carbon) – amodau cyn dechrau wedi cael ei rhyddhau a gwaith gosod cebl i'r safle yn cymryd lle.
- Fferm Gwynt Tryslgwyn (5.6MW) (Ventient Energy Ltd) wedi derbyn caniatâd i ymestyn cyfnod gweithredol hyd at 29 Mehefin 2031.
- Fferm Wynt Llyn Alaw (20.4MW) (Ventient Energy Ltd) ar gyfer ymestyn cyfnod gweithredol hyd at 22 Hydref 2032.
- Uned biomas 299MW yn Caergybi, mae tystysgrif o ddefnydd cyfreithiol wedi cael ei roi yn cadarnhau fod y datblygiad wedi cael ei ddechrau.
- Fferm Solar Porth Wen (49.99MW) (EDF) y safle bellach yn weithredol.
- Morlais (240MW) (Menter Môn) araeau lluosog o ddyfeisiau ynni llanw yn parhau yn y cyfnod adeiladu.
- Glyn Rhonwy Hydro wedi ei bwmpio (100MW) dim manylion wedi ei derbyn ar gyfer dyddiad gweithredu'r caniatâd.

Mae gan y cynlluniau a ganiateir, fel yr amlygwyd uchod, botensial ar gyfer ynni a gynhyrchir o 3,281.4GWh. Byddai hyn yn cyrraedd y targed o fewn y Cynllun ond mae rhai o'r cynigion wedi cael caniatâd ers peth amser e.e. cynlluniau Biomas Caergybi a Hydro Glyn Rhonwy gyda chynllun llanw Morlais, oherwydd y dechnoleg a ddefnyddir, yn debygol o gymryd nifer o flynyddoedd i'w gweithredu. Mae'n amlwg felly bod methu â chyflawni'r targed o fewn y Cynllun mewn perthynas â gweithredu cynlluniau yn hytrach na methiant ym Mholisiau Ynni Adnewyddadwy y Cynllun.

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi cyfrannu tuag at y gwaith o ddarparu Cynllun Ynni Ardal Lleol (LAEP) ar gyfer Cyngor Gwynedd. Mae disgwyl i'r Cynllun Ynni Ardal Lleol fynd ger bron Cabinet Cyngor Gwynedd yn Gwanwyn / Haf 2025. Mi fydd hwn yn unol efo paragraff 5.9.5 o Polisi Cynllunio Cymru yn helpu i nodi targedau heriol ond cyflawnadwy ar gyfer ynni adnewyddadwy yn y Cynllun datblygu lleol newydd.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd y polisiau Ynni Adnewyddol angen cael ei adolygu a'r cyfleon ar gyfer y fath dechnoleg a adnabyddir yn y LAEP fel rhan o baratoi'r Cynlluniau newydd.

Dangosydd: D22

Amcan:

SO5

Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.

	SO6	Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy: - sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl; - lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau; - hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal; - defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael; - rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir.			
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		PS1	
		Deilliant:		Lefel sbardun:	
D22 Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â thechnoleg ynni adnewyddadwy annibynnol.	Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun.	AMB 1		Methiant i fabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun.	
		AMB 2			
		AMB 3			
		AMB 4			
		AMB 5			
		AMB 6			
		AMB 7			
Dadansoddiad:					
Bu oedi yn yr amserlen ar gyfer darparu'r CCA yma oherwydd yr angen i roi blaenoriaeth i CCA eraill wnaeth gymryd yn hirach i'w paratoi a'u hadrodd trwy Bwyllgorau'r ddau Gyngor.					
Mae yna leihad sylweddol wedi bod yn y nifer o geisiadau am gynlluniau ynni adnewyddadwy annibynnol o fewn ardal y Cynllun sydd o bosib yn adlewyrchu'r symudiad i baratoi datblygiadau					

yn y môr a lleihad yn y grantiau sydd ar gael ar gyfer fath ddatblygiadau ar y tir. Dylid nodi hefyd fod holl datblygiadau ynni mawr sydd ar gyfer 10MW neu fwy yn cael ei ystyried yn Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu arnynt.

Mae cyhoeddiad o Dyfodol Cymru: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 ynghyd a thargedau diwygiedig yn Polisi Cynllunio Cymru yn golygu newidiadau cyd-destunol sylweddol ar gyfer technoleg ynni adnewyddol. Bydd adolygiad o bolisiâu ynni adnewyddol sydd yn y Cynllun yng ngoleuni'r newidiadau cyd-destunol yma ynghyd a'r gwaith o ddarparu Cynllun Ynni Ardal Lleol (LAEP) yn galluogi gwerthusiad or angen a chynnwys CCA yn ymwneud â thechnoleg ynni adnewyddadwy annibynnol.

Gweithred:

Yn dilyn paratoi a mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd bydd angen ystyried yr angen am CCA Ynni Adnewyddadwy ar wahân.

Dangosydd: D23

Amcan:	SO5 & SO6	SO5: Sicrhau bod datblygiad yn ardal y Cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.			
		SO6: Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau’r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:			
		• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny’n bosibl; • lleihau’r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau; • hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal; • defnyddio tir sydd wedi’i ddatblygu’n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i’w capasiti llawn, lle maent ar gael; • rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir.			
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3	
		Deilliant:		Lefel sbardun:	
D23 - Dwysedd cyfartalog y datblygiadau tai a	Isafswm dwysedd net cyfartalog cyffredinol o 30 o unedau tai'r hectar a	AMB 1		Methiant i gyflawni isafswm dwysedd	
		AMB 2		cyffredinol net cyfartalog o 30 o unedau tai'r hectar	

ganiateir yn ardal y Cynllun	gyflawnir yn ardal y Cynllun	AMB 3		yn ardal y Cynllun ar gyfer dwy flynedd yn olynol, oni bai ei fod yn cael ei gyfiawnhau gan Bolisi PCYFF 2.
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		<u>AMB 7</u>		
Dadansoddiad:				

Caniatadau o'r newydd – Holl ganiatadau (ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig)³

Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd = 173 uned / 5.88 ha = **29.4 uned yr hectar**

Caniatadau o'r newydd: Safleoedd gyda 5 neu ragor o unedau o'r newydd (ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig)

Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd = 118 uned/3.79 ha = **31.1 uned yr hectar**

Ar sail yr holl ddatblygiadau cymwys sydd wedi eu caniatáu, noder fod y dwysedd cyfartalog yn is na'r targed o 30 uned yr hectar. Mae'r lefel sbardun yn cyfeirio at fethiant i gyflawni dwysedd cyffredinol o 30 uned yr hectar ar gyfer dwy flynedd yn olynol. Noder bod gwybodaeth o gyfnod AMB 6 i Wynedd yn unig, hefyd o dan y lefel targed. Fodd bynnag noder bod y dwysedd cyfartalog ar gyfer cyfnod AMB 7 ond ychydig yn is na'r lefel targed.

Wrth ystyried y caniatadau ar gyfer safleoedd preswyl mawr yn unig, sef rhai ar gyfer 5 neu ragor o unedau, gweler fod y dwysedd cyfartalog dros y ffigwr o 30 uned yr hectar. Noder felly fod y dwysedd disgwylidig yn cael ei sicrhau ar ddatblygiadau newydd sylweddol eu maint.

Mae dwysedd cyfartalog yr holl unedau sengl perthnasol sydd wedi eu caniatáu yng Ngwynedd yn ystod cyfnod yr AMB hwn (sef 26 uned ar 1.55 hectar) yn 16.8 uned yr hectar. Mae'r gallu i fynnu dwysedd uwch ar blotiau unigol yn fwy heriol ar sail agweddau megis dwysedd datblygiadau cyfagos a chymeriad anheddle yn ogystal â siâp y safle mewn rhai achosion.

Noder fod Polisi PCYFF 2 yn cyfeirio at ddwysedd o 30 uned byw o leiaf yr hectar oni bai fod amgylchiadau lleol yn neu gyfyngiadau ar y safle sy'n pennu dwysedd is. Credir bod amgylchiadau penodol yn bodoli, yn enwedig ar blotiau unigol, sydd yn golygu datblygu ar ddwysedd sydd yn is na'r ffigwr hwn. Ni chredir felly fod ffigwr cyfnod yr AMB hwn yn achosi pryder ond credir bod modd edrych yn bellach ar yr agwedd hon wrth baratoi'r Cynllun newydd.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

³ Mae'r wybodaeth ar gyfer y dangosydd hwn yn berthnasol ar gyfer caniatadau o'r newydd a chaniatadau i ail-ystyried neu ymestyn dyddiad terfyn caniatâd blaenorol. Mae'r rhain oll yn geisiadau ble byddai angen ystyried gofynion y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Nid yw felly yn ystyried caniatadau am faterion a gadwyd yn ôl ble mae egwyddor y caniatâd eisoes wedi ei roi nac ychwaith tystysgrifau cyfreithlondeb ar gyfer defnydd preswyl. Nid yw ychwaith yn ystyried unrhyw ganiatâd ar gyfer dymchwel ac ail-adeiladu tŷ h.y. ble nad oes cynnydd yn nifer yr unedau. Noder yn ogystal nad yw'r wybodaeth hyn yn cynnwys caniatadau ôl-weithredol nac ychwaith ganiatadau sydd yn diwygio amodau caniatâd presennol (ac sydd o'r herwydd yn ymestyn caniatâd am 5 mlynedd pellach) ble nad yw'r caniatâd wedi ail-ystyried yn benodol gynnwys y CDLI ar y Cyd.

Dangosydd: D24					
Amcan:	SO7	Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cwrdd â safonau uchel o ran ansawdd eu dyluniad, effeithlonrwydd ynni, diogelwch (pobl ac adeiladau) a hygyrchedd, eu bod yn gweddu’n dda ag unrhyw ddatblygiadau presennol, yn gwella tir y cyhoedd ac yn datblygu mannau o ansawdd sy’n unigryw yn lleol.			
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		PCYFF 2, PCYFF3 & PCYFF4	
		Deilliant:		Lefel sbardun:	
D24 – Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar faterion dylunio	Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar faterion dylunio o fewn 12 mis o fabwysiadu	AMB 1		Methiant i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 12 mis o fabwysiadu	
		AMB 2			
		AMB 3			
		AMB 4			
		AMB 5			
		AMB 6			
		<u>AMB 7</u>			
Dadansoddiad:					
Nid yw'r targed polisi wedi'i gyflawni ar hyn o bryd fel y rhagwelwyd ond nid yw hyn yn arwain at bryderon ynghylch gweithredu polisi. Mae'r amserlen ar gyfer mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) diwygiedig ar Ddylunio wedi'i osod ar gyfer Chwarter 4 yn 2017/18. Nid yw'r targed hwn wedi'i gyflawni oherwydd newidiadau yn amserlen waith a blaenoriaethu adnoddau'r CDLI. Fodd bynnag, mae'r awdurdod cynllunio lleol yn parhau i ddefnyddio CCA sydd yn deillio o'r Cynllun Datblygu Unedol, a gall hefyd gyfeirio at ganllawiau cenedlaethol wrth benderfynu ar geisiadau newydd.					

Gan fod polisi y CDLL ar y Cyd ar Ddylunio yn unol a Canllawiau Cenedlaethol, ni ystyrir fod y llithriad mewn paratoi CCA newydd yn niweidiol i'r broses o wneud penderfyniadau

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd: D25

Amcan:	SO8	SO8: Sicrhau bod aneddiadau yn gynaliadwy, yn hygyrch ac yn diwallu'r holl anghenion sydd gan eu cymunedau yn unol â'u rôl yn y goeden aneddeleoedd:

Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		PCYFF 2, PCYFF 3, PCYFF 4 & PS17
		Deilliant:		Lefel sbardun:
D25 - Nifer y tai newydd a ganiateir fesul categori yn y Goeden Aneddeleoedd a amlinellir ym Mholisi PS 17, wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau a ddatblygwyd bob blwyddyn	O ddyddiad mabwysiadu, nifer yr unedau tai a ganiateir fesul categori anheddle, wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau preswyl, yn unol â gofynion Polisi PS 17, sydd fel a ganlyn: Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol = 53% Canolfannau Gwasanaeth Lleol = 22% Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad = 25%	AMB 1		O ddyddiad mabwysiadu mae nifer yr unedau tai a ganiateir dros 2 flynedd yn olynol, wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau preswyl, mewn: - Canolfan Isranbarthol a Chanolfan Gwasanaeth Trefol a'r Canolfannau Gwasanaeth Lleol yn disgyn dan y gofyniad %; - Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad yn uwch na'r gofyniad %
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		AMB 7		

Dadansoddiad:

Gwybodaeth ar gyfer 2024/25⁴ - Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig

*Noder fod safleoedd eithrio yn cael eu hystyried ar sail yr anheddle mae'n ffinio â hi, yn hytrach nag fel lleoliad yng nghefn gwlad.

Haen	Nifer o unedau sydd wedi derbyn caniatâd	Canran o'r holl ganiatadau preswyl	Dosbarthiad targed
Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol	61	35.3%	53%
Canolfannau Gwasanaeth Lleol	17	9.8%	22%
Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad	95	54.9%	25%
Cyfanswm	173	-	-

Gwybodaeth ar gyfer 2024/25 ar gyfer caniatadau o'r newydd yn unig h.y. heb gynnwys y 39 uned sydd yn destun ymestyn cyfnod caniatâd blaenorol.

Haen	Nifer o unedau sydd wedi derbyn caniatâd	Canran o'r holl ganiatadau preswyl	Dosbarthiad targed
Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol	61	45.5%	53%
Canolfannau Gwasanaeth Lleol	17	12.7%	22%
Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad	56	41.8%	25%
Cyfanswm	134	-	-

Nodai'r lefel sbardun mewn perthynas â'r dangosydd y dylid edrych ar nifer yr unedau tai a ganiateir dros 2 flynedd yn olynol. Wrth gyfuno gwybodaeth ar gyfer AMB 6 a AMB 7 ar y cyd (1af

⁴ Mae'r wybodaeth ar gyfer y dangosydd hwn yn berthnasol ar gyfer caniatadau o'r newydd a chaniatadau i ail-ystyried neu ymestyn dyddiad terfyn caniatâd blaenorol. Mae'r rhain oll yn geisiadau ble byddai angen ystyried gofynion y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Nid yw felly yn ystyried caniatadau am faterion a gadwyd yn ôl ble mae egwyddor y caniatâd eisoes wedi ei roi nac ychwaith tystysgrifau cyfreithlondeb ar gyfer defnydd preswyl. Nid yw ychwaith yn ystyried unrhyw ganiatâd ar gyfer dymchwel ac ail-adeiladu tŷ h.y. ble nad oes cynnydd yn nifer yr unedau. Noder yn ogystal nad yw'r wybodaeth hyn yn cynnwys caniatadau ôl-weithredol nac ychwaith ganiatadau sydd yn diwygio amodau caniatâd presennol (ac sydd o'r herwydd yn ymestyn caniatâd am 5 mlynedd pellach) ble nad yw'r caniatâd wedi ail-ystyried yn benodol gynnwys y CDLI ar y Cyd.

Ebrill 2023-31ain Mawrth 2025), fe nodir y wybodaeth ganlynol (Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig):

Gwybodaeth cyfnodau AMB 6 a AMB 7 ar y cyd

Haen	Nifer o unedau sydd wedi derbyn caniatâd	Canran o'r holl ganiatadau preswyl	Dosbarthiad targed
Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol	99	26.0%	53%
Canolfannau Gwasanaeth Lleol	119	31.2%	22%
Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad	163	42.8%	25%
Cyfanswm	381	-	-

Gwybodaeth ar gyfer cyfnodau AMB 6 a AMB 7 ar gyfer caniatadau o'r newydd yn unig h.y. heb gynnwys caniatadau i ymestyn cyfnod terfyn caniatâd blaenorol

Haen	Nifer o unedau sydd wedi derbyn caniatâd	Canran o'r holl ganiatadau preswyl	Dosbarthiad targed
Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol	99	28.9%	53%
Canolfannau Gwasanaeth Lleol	119	34.8%	22%
Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad	124	36.3%	25%
Cyfanswm	342	-	-

Cyfnod AMB 7 yn unig – Mae'n amlwg nad yw'r dosbarthiad yn cyd-fynd gyda'r lefel targed, gyda'r canran o unedau sydd wedi eu caniatáu yn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol yn sylweddol is na'r lefel targed gyda'r ffigwr ar gyfer yr haen Pentrefi, Clystyrau a Chefn Gwlad yn dipyn uwch na'r hyn a'i nodir yn y wybodaeth targed. Fodd bynnag wrth ystyried caniatadau o'r newydd yn unig, noder fod y canrannau a'u nodir yn fwy cyson â'r ffigyrau targed, er noder bod y ffigwr ar gyfer yr haen Pentrefi, Clystyrau a Chefn Gwlad yn parhau yn arwyddocaol uwch na'r ffigwr targed. Mae'n bwysig fodd bynnag peidio ystyried gwybodaeth ar gyfer un flwyddyn yn unigol a bod angen ystyried cyfnodau mwy eang er mwyn cael darlun llawn o'r sefyllfa o ran y dangosydd hwn.

Dwy flynedd yn olynol (cyfnod AMB 6 ac AMB 7 ar y cyd) - Wrth ystyried y lefel sbardun a'r sefyllfa ddwy flynedd ar y cyd, mae'r wybodaeth o ran y nifer o unedau sydd wedi derbyn caniatâd rhwng y tair haen yn fwy cyfartal o'i gymharu â chyfnod AMB 7 yn unigol, yn enwedig felly wrth ystyried caniatadau o'r newydd yn unig. Credir felly nad yw'r wybodaeth ar gyfer y cyfnod hwn yn cyfleu cydymffurfiaeth clir gyda'r dosbarthiad targed. Mae gwahaniaeth clir yn parhau'n amlwg rhwng y gwir ffigyrau a'r hyn a nodir yn y lefelau targed, yn enwedig o ran yr haen 'Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol' sydd tipyn o dan y ffigwr disgwyledig.

Wrth edrych ar y darlun ehangach dros gyfnod y Cynllun (er yn nodi'r wybodaeth ar y cyd gydag Ynys Môn), ni chredir fod pryder wrth ystyried geiriad y lefel sbardun ar gyfer y dangosydd hwn. Mae'r sefyllfa yn gallu newid o flwyddyn i flwyddyn yn ddibynnol ar wahanol agweddau megis dyheadau datblygwyr a chyfleoedd posib sydd yn codi. Fodd bynnag bydd yn sicr angen ystyried hyn yn ofalus wrth baratoi'r Cynllun newydd a'r modd y mae'r twf tai am gael ei ddosbarthu. Gallai ffactorau megis y ffaith fod Bangor eisoes wedi cyrraedd ei ffigwr twf yn y CDLI ar y Cyd, materion llifogydd a topograffi yng nghanolfannau trefol Pwllheli a Porthmadog a diffyg gwybodaeth ar gyfer canolfannau trefol Ynys Môn, oll fod wedi gallu cael effaith ar y ffigyrau uchod.

Hefyd fel sydd wedi ei nodi mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol, ffactor posib dros y ganran o ganiatadau preswyl yn y Ganolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol yn disgyn o dan y lefel targed yw'r oedi sy'n amlwg o ran safleoedd sydd wedi eu dynodi yn y lleoliadau hyn yn derbyn caniatâd cynllunio. O'r 12 safle sydd wedi eu dynodi o fewn aneddeleoedd yn yr haen hon yng Ngwynedd, yn Ebrill 2025 nid oedd caniatâd cynllunio byw yn bodoli ar gyfer saith (58.3%) o'r safleoedd hyn. Nodir fod y sefyllfa hon yn amlwg blwyddyn yn unig cyn diwedd cyfnod y Cynllun.

Gweler atodiad 2 am fapiau sy'n dangos y dosbarthiad caniatadau cynllunio am unedau preswyl yn 2024/25 ynghyd a nifer y caniatadau cronol ers mabwysiadu'r Cynllun.

Gweithred:	

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

6.3 Economi ac Adfywio

Prosiectau Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol a Datblygiadau Perthynol

Wylfa Newydd

Cyflwynwyd Horizon gais Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) er mwyn datblygu atomfa niwclear (Wylfa Newydd) ar y 1af o Fehefin, 2018. Roedd y cais yn destun archwiliad gan Banel o Arolygwyr Cynllunio a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Daeth yr Archwiliad Cyhoeddus i ben (cau) ar 23ain Ebrill 2019. Ar ddiwedd yr archwiliad, roedd gan y Panel 3 mis i gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn amlinellu eu casgliadau a'u hargymhelliad ynglŷn â ph'un a ddylid rhoi caniatâd i'r bwriad, gyda'r penderfyniad terfynol i'w wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar neu cyn y 23 Hydref 2019 (6 mis ar ôl dyddiad cau'r archwiliad).

Ailbennwyd y dyddiad gwneud penderfyniad i 31 Mawrth 2020 er mwyn caniatáu derbyn rhagor o wybodaeth am effeithiau amgylcheddol a materion eraill a oedd heb eu datrys.

Yn dilyn y cyfyngiadau yn gysylltiedig â phandemig firws Covid-19 penderfynwyd yr Ysgrifennydd Gwladol ailbennu'r dyddiad cau statudol ar gyfer y cais hwn i 30 Medi 2020, gan nad oedd y Senedd yn eistedd. Y bwriad oedd y byddai datganiad yn cadarnhau'r dyddiad cau newydd ar gyfer penderfyniad yn cael ei wneud i Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi yn unol ag adran 107(7) o Ddeddf Cynllunio 2008 cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r Senedd ailddechrau.

Ar yr 22ain o Fedi, 28ain o Fedi a 18fed o Ragfyr 2020 fe anfonwyd Horizon ohebiaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am ohiriad i benderfyniad Cais Gorchymyn Datblygu (DCO) Wylfa Newydd. Nodwyd mai y rheswm am ofyn i ohirio'r penderfyniad oedd yn sgil trafodaethau oedd yn mynd rhagddi hefo thrydydd partïon oedd wedi mynegi diddordeb mewn bwrw ymlaen â datblygu gorsaf bŵer niwclear newydd ar ôl i Hitachi dynnu'n ôl. Ar yr 27ain o Ionawr 2021 fe dynnwyd y Cais Gorchymyn Datblygu yn ôl gan Horizon Nuclear Power. Tynnwyd y cais yn ôl yn sgil diffyg buddsoddwr i'r prosiect ynghyd a'r diffyg polisi ariannu newydd gan y Llywodraeth. O'r herwydd fe olygai fod Hitachi wedi penderfynu dirwyn Horizon i ben fel endid datblygu gweithredol erbyn 31 Mawrth 2021. O ganlyniad i hyn, ystyriwyd yn briodol fod y Cais Gorchymyn Datblygu yn cael ei dynnu'n nôl.

Dangosydd: D26		
Amcan:	SO9	Cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu.

Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		PS8, PS9, PS10, PS11, PS12
		Deiliant:		Lefel sbardun:
D26 - Cam yn y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) mewn perthynas â Wylfa Newydd	Cais am GCD i Wylfa Newydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo erbyn Rhagfyr 2017. Cymeradwyo'r cais am GCD i Wylfa Newydd erbyn Rhagfyr 2018.	AMB 1		Horizon Nuclear Power yn methu a chyflwyno cais am GCD erbyn Rhagfyr 2017.
		AMB 2		
		AMB 3		Horizon Nuclear Power yn methu a chael cymeradwyaeth i'r cais GCD erbyn Rhagfyr 2018.
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		<u>AMB 7</u>		
Dadansoddiad:				
Cyflwynwyd y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (GCD) ar y 1af o Fehefin, 2018. Daeth yr Archwiliad Cyhoeddus i ben ar 23ain o Ebrill, 2019. Cyflwynwyd canfyddiadau a chasgliadau'r Archwiliad, ynghyd ac argymhellion yr Arolygwyr annibynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Roedd y penderfyniad terfynol yn ddisgwyliedig ar 23 Hydref, 2019 - fodd bynnag ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol i dderbyn gwybodaeth bellach ynglŷn ag effeithiau amgylcheddol y bwriad, fe ymestynnwyd y cyfnod yma i 31 Mawrth, 2020. Yn dilyn cais gan Horizon Nuclear Power yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ohirio ei benderfyniad, ar 27ain o Ionawr, 2021 fe gadarnhawyd Horizon Nuclear Power eu bod yn tynnu'r Cais Gorchymyn Datblygu yn nôl.				
Gweithred:				
Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Bydd angen ystyried unrhyw ddatblygiadau yn gysylltiedig â Wylfa Newydd ac ymateb iddynt wrth fynd ati i baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.				

Dangosydd: D27

Amcan:	SO9	Cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu.		
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		PS8, PS9, PS10, PS11, PS12
		Deilliant:		Lefel sbardun:
D27 – Statws y cais i DECC am gymeradwyaeth derfynol.	Prosiect Wylfa Newydd yn cael cymeradwyaeth “cadarnhad” gan DECC erbyn Rhagfyr 2019	AMB 1		Horizon Nuclear Power yn methu a chael cymeradwyaeth / “cadarnhad” gan DECC erbyn Rhagfyr 2019.
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		<u>AMB 7</u>		
Dadansoddiad:				
Cyflwynwyd y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar y 1af o Fehefin, 2018. Daeth yr Archwiliad Cyhoeddus i ben ar 23ain o Ebrill, 2019. Mae canfyddiadau a chasgliadau'r Archwiliad, ynghyd ac argymhellion yr Arolygwyr annibynnol wedi cael ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol gyda'r penderfyniad terfynol yn ddisgwyliedig erbyn 23ain o Hydref, 2019. Fodd bynnag ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol i dderbyn gwybodaeth bellach ynglŷn ag effeithiau amgylcheddol y bwriad, fe ymestynnwyd y cyfnod yma i 31 Mawrth, 2020. Yn dilyn cais gan Horizon Nuclear Power yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ohirio ei benderfyniad, ar 27ain o Ionawr, 2021 fe gadarnhawyd Horizon Nuclear Power eu bod yn tynnu'r Cais Gorchymyn Datblygu yn nôl.				

Gweithred:

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Bydd angen ystyried unrhyw ddatblygiadau yn gysylltiedig â Wylfa Newydd ac ymateb iddynt wrth fynd ati i baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd: D28

Dim angen adrodd ar y dangosydd gan ei fod yn benodol berthnasol i ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn.

Dangosydd: D29**Amcan:**

SO9

Cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu.

Dangosydd:**Targed:****Polisi perthnasol:**

PS8, PS9, PS10, PS11, PS12

Deilliant:**Lefel sbardun:**

D29 – Nifer a math o ddatblygiadau perthynol Prosiect Wylfa Newydd a gychwynnwyd

Datblygiadau perthynol unigol Prosiect Wylfa Newydd wedi eu cychwyn yn unol â chaniatâd cynllunio unigol

AMB 1



AMB 2



AMB 3



AMB 4



AMB 5



AMB 6



Datblygiad perthynol prosiect Wylfa Newydd heb gychwyn o fewn yr amserlen a osodwyd yn y caniatâd cynllunio unigol a'r Gorchymyn caniatâd Datblygu (lle bo'n berthnasol).

		AMB 7		
Dadansoddiad:				
Yn sgil y penderfyniad gan Horizon i dynnu'r Cais Gorchymyn Datblygu yn nol, nid oes yna unrhyw ddatblygiad perthynol wedi cychwyn. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer gwelliannau i'r A5025 (27C106E/FR/ECON) yn 2018 ac yna caniatâd i ddiwygio amod ymestyn cyfnod cychwyn ar y gwaith (VAR/2020/24) i hyd at Orffennaf 2023.				
Gweithred:				
Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Bydd angen ystyried unrhyw ddatblygiadau yn gysylltiedig â Wylfa Newydd ac ymateb iddynt wrth fynd ati i baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.				

Dangosydd: D30
Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB1, dim angen parhau i'w fonitro

Darparu Cyfleon ar gyfer Economi Ffyniannus

Gweledigaeth Economaidd

Mae'r Cyngor yn parhau i weithio'n agos a Llywodraeth Cymru ynghyd â Awdurdodau eraill ar draws Gogledd Cymru drwy'r Bwrdd Uchelgaïs Gogledd Cymru. Mae'r bwrdd yn grŵp ar y cyd o sefydliadau preifat a chyhoeddus yng Ngogledd Cymru sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo twf economaidd ar draws yr ardal. Mae'r amcanion allweddol yn cynnwys annog buddsoddiad busnes yng Ngogledd Cymru gan helpu cwmnïau lleol i fanteisio ar gyfleoedd y gadwyn gyflenwi, ac annog sgiliau cysylltiedig â gwaith yn y rhanbarth.

Ar ddiwedd 2017 bu i bartneriaeth, sy'n cynnwys chwe chyngor Gogledd Cymru, partneriaid busnes, colegau a phrifysgolion, lansio Bargaen Twf Gogledd Cymru yn ffurfiol. Mae'r Fargaen Twf yn nodi gweledigaeth ar gyfer y rhanbarth gyda'r nod o greu 5,300 o swyddi a denu buddsoddiad sector preifat gwerth £1 biliwn yn y rhanbarth dros y 15 mlynedd nesaf. Arwyddwyd y gytundeb derfynol ar gyfer Bargaen Twf Gogledd Cymru ar 17 Rhagfyr, 2020. Caiff y fargaen ei gefnogi gyda £120 miliwn yr un gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Gobeithir y bydd y Fargaen Twf yn trawsnewid economi y rhanbarth drwy gefnogi twf gwyrdd a chynaliadwy.

Dangosydd: D31		
Amcan:	SO10	Sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau o faint ac o safon yn cael eu diogelu a'i ddynodi mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n cwrdd orau a gofynion busnesau cyfredol ac sy'n gallu cefnogi'r sectorau yn yr

		economi lleol sy'n tyfu gan ddenu buddsoddiad, a chadw a chynyddu nifer y swyddi brodorol.		
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol		CYF 1, CYF 3 A CYF 5
		Deiliant:		Lefel sbardun:
D31 – Swm o dir cyflogaeth neu arwynebedd llawr (dosbarth defnydd B1, B2 a B8) a gynhwysir ar safleoedd a amlinellir ym Mholisi CYF 1 sy'n cael eu colli i ddefnyddiau eraill.	Dim colled net o dir cyflogaeth/arwynebedd llawr i ddefnyddiau amgen (defnyddiau heblaw dosbarth defnydd B1, B2 a B8) yn groes i Bolisi CYF 3 neu Bolisi CYF 5.	AMB 1		Caniatáu un cais cynllunio nad yw'n unol a Pholisi CYF 3 neu CYF 5.
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		AMB 7		
Dadansoddiad:				
Caniatawyd cyfanswm o 12 cais cynllunio ar safleoedd cyflogaeth a warchodir yn unol â Pholisi CYF 1. Roedd 11 o'r ceisiadau hyn yn gysylltiedig â defnyddiau yn nosbarthiadau defnydd B1, B2 a B8 neu defnyddiau eraill presennol sydd wedi eu lleoli ar y safleoedd a warchodir. Y cais nad oedd yn ymwneud â'r defnyddiau hyn oedd: C24/0371/16/LL: Newid Defnydd Swyddfa Depo Bysiau Arriva, Ystâd Ddiwydiannol Llandygai, Bangor, LL57 4YH i ganiatáu Canolfan Profi Gyrru Galwedigaethol (defnydd unigryw) - Gorsfa Bws Arriva Ystâd Ddiwydiannol Llandygai, Llandygai, Gwynedd, LL57 4YH Pwysleisir fod y defnydd hwn yn ddefnydd unigryw (sui generis). Mae Polisi Strategol 13 yn caniatáu ar gyfer rhai mathau o ddefnyddiau unigryw (sui generis) addas ar safleoedd cyflogaeth sydd wedi eu gwarchod yn y Cynllun. Ni roddwyd caniatâd cynllunio ar y safleoedd cyflogaeth (wedi eu gwarchod neu ddynodi) ar gyfer defnyddiau amgen nad oeddent yn cydymffurfio â Pholisïau CYF 3 neu CYF 5. Ystyrir fod y polisïau yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol.				
Gweithred:				
Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.				

Dangosydd: D32

Amcan:	SO10	Sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau o faint ac o safon yn cael eu diogelu a'i ddynodi mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n cwrdd orau a gofynion busnesau cyfredol ac sy'n gallu cefnogi'r sectorau yn yr economi lleol sy'n tyfu gan ddenu buddsoddiad, a chadw a chynyddu nifer y swyddi brodorol.			
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol		CYF 1, CYF 3 a CYF 5	
		Deiliant:		Lefel sbardun:	
D32 – Swm o dir cyflogaeth ar safleoedd a warchodir a gynhwyswyd ym Mholisi CYF 1 a gymerwyd i fyny yn ôl dosbarth defnydd datblygu B1, B2 neu B8.	6.9 ha o dir cyflogaeth ar safleoedd a warchodwyd a gymerir i fyny fesul blwyddyn yng Ngwynedd.	AMB 1		Llai na 27.4 ha o dir cyflogaeth wedi ei gymryd i fyny ar safleoedd cyflogaeth a warchodwyd erbyn 2021 yng Ngwynedd. Llai na 57 ha o dir cyflogaeth wedi ei gymryd i fyny ar safleoedd cyflogaeth a warchodwyd erbyn 2021 yn Ynys Môn.	
		AMB 2			
		AMB 3			
		AMB 4			
		AMB 5			
		AMB 6			
		AMB 7			
Dadansoddiad:					

Mae'r sbardun monitro yn ymwneud â swm y tir cyflogaeth sydd wedi ei gymryd fyny erbyn diwedd 2021.

Yng Ngwynedd, mae 0.5384ha o dir wedi derbyn caniatâd ar gyfer defnydd cyflogaeth yn ystod cyfnod y seithfed Adroddiad Monitro Blyneddol (AMB7).

Gan gynnwys caniatadau cynllunio a roddwyd yn ystod AMB1, AMB2, AMB3, AMB4, AMB5 & AMB 6 mae cyfanswm cronws y tir a dderbyniodd ganiatâd ar gyfer defnydd cyflogaeth yng Ngwynedd yw 16.91ha (gan gynnwys adleoli uned 0.47ha ar Stad Cibyn yn gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu ffordd osgoi Caernarfon)

Nodir fod y gyfradd caniatâd ar safleoedd cyflogaeth gwarchodedig yn ystod y cyfnod byr hwn yn is na'r hyn a ddisgwylir. Ystyrir fod y Cynllun yn hwylusydd o ran darparu safleoedd cyflogaeth a bod llai o geisiadau am ddatblygiad ar y safleoedd cyflogaeth yn debygol o fod yn seiliedig ar faterion economaidd sydd tu hwnt i reolaeth y Cynllun.

*NODER: Mae rhan o ffordd osgoi Caernarfon yn mynd trwy gornel de-orllewinol Stad Ddiwydiannol Cibyn. Mae rhan fechan o'r stad ddiwydiannol bresennol wedi cael ei golli i'r ffordd osgoi.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd: D33

Amcan:	SO10	Sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau o faint ac o safon yn cael eu diogelu a'i ddynodi mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n cwrdd orau a gofynion busnesau cyfredol ac sy'n gallu cefnogi'r sectorau yn yr economi lleol sy'n tyfu gan ddenu buddsoddiad, a chadw a chynyddu nifer y swyddi brodorol.

Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol	
		Deilliant:	Lefel sbardun:
D33 – Swm o dir cyflogaeth (hectar) a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel % o'r holl ddynodiadau cyflogaeth.	Sicrhau caniatâd cynllunio ar y safle cyflogaeth a ddynodwyd yng Ngwynedd erbyn 2019 Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer 64 ha o dir cyflogaeth ar safle a ddynodwyd yn	AMB 1	
		AMB 2	
		AMB 3	

Ynys Môn erbyn 2021	AMB 4	
Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer 112ha o dir cyflogaeth ar safleoedd a ddynodwyd yn Ynys Môn erbyn 2024	AMB 5	
	AMB 6	
Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer 144ha o dir cyflogaeth ar safleoedd a ddynodwyd yn Ynys Môn erbyn 2026	AMB 7	

Dadansoddiad:

Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau cynllunio ar y safleoedd a ddynodir yng Ngwynedd yn ystod AMB 7.

Mae'r targed yn nodi'r angen i'r safleoedd dderbyn caniatâd cynllunio erbyn 2019 yng Ngwynedd a Môn, ac o ganlyniad mae'r lefel sbardun eisoes wedi ei gyrraedd. Fodd bynnag, mae'r hinsawdd economaidd yn sylweddol wahanol i pan fabwysiadwyd y Cynllun ac ystyrir fod hyn wedi cael cryn effaith ar faint o dir cyflogaeth sy'n cael ei ddatblygu.

*NODYN: Mae'r dadansoddiad hyn yn ymwneud a ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn unig.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd. Bwriedir paratoi Asesiadau o Dir Cyflogaeth fel rhan o'r sail tystiolaeth i'r gefnogi'r Cynllun.

Dangosydd: D34

Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB3, dim angen parhau i'w fonitro.

Dangosydd: D35

Amcan:	SO11	Sicrhau cyfleoedd i wella sgiliau ac addysg y gweithlu		
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:	PS 9, ISA 3	
		Deiliant:	Trothwy:	
D35 - Statws cyflogaeth 16+	Cyflawni cynnydd yng nghyfradd y	AMB 1		

	gweithgarwch economaidd erbyn 2026 o gymharu â'r lefel yn 2017	AMB 2		Cyfradd gweithgarwch economaidd yn gostwng am 2 flynedd yn olynol
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		AMB 7		

Dadansoddiad:

Arolwg o'r Gweithlu Lleol: Crynodeb o weithgarwch economaidd (16-64)

	Blwyddyn yn dod i ben mis March 2021	Blwyddyn yn dod i ben mis Mawrth 2022	Blwyddyn yn dod i ben mis Mawrth 2023	Blwyddyn yn dod i ben mis Mawrth 2024	Blwyddyn yn dod i ben mis Medi 2024
Ynys Môn	78.8%	74.1%	79.6%	Dim yn monitro	Dim yn monitro
Gwynedd	77.9%	75.9%	77.7%	73.7 %	76.7% (+3%)
Cymru	76.6%	75.6%	75.5%	76.2%	75.1% (-1.1%)

Tarddiad: Stats Cymru - Cyfradd Gweithgarwch Economaidd (16-64) yn ôl Ardal Leol a'r Flwyddyn yng Nghymru

Mae cyfradd gweithgaredd economaidd Gwynedd wedi codi rhwng Mawrth 2024 a Medi 2024. Nid oedd ystadegau Mawrth 2025 ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Gweithredu:

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf.

Dangosydd: D36

Amcan:	SO11	Sicrhau cyfleoedd i wella sgiliau ac addysg y gweithle			
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		PS 9, ISA 3	
		Deilliant:		Lefel sbardun:	
D36 – Nifer o bobl sy'n cymudo o Ynys Môn i Wynedd	Yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun, lleihau'r nifer o bobl sy'n cymudo o Ynys Môn	AMB 1		Methiant o'i leihau'r nifer o bobl sy'n cymudo o Ynys Môn i Wynedd erbyn 2019.	
		AMB 2			

	i Wynedd erbyn 2026 o'i gymharu â'r lefel yn 2017.	AMB 3	
		AMB 4	
		AMB 5	
		AMB 6	
		AMB 7	

Dadansoddiad:

Mae'r tabl isod yn amlygu patrymau cymudo o Ynys Môn i Wynedd dros y blynyddoedd diweddar.

Blwyddyn	Cyfanswm cymudwyr Ynys Môn	Nifer cymudwyr o Ynys Môn i Wynedd	% Cymudwyr o Ynys Môn i Wynedd
2016	32,200	7,900	24.5%
2017	31,500	7,000	22.2%
2018	32,200	7,900	24.5%
2019	32,000	7,500	23.4%
2020	30,900	7,400	24%
2021	30,000	5,700	19%
2022	31,600	4,300	13.6%
2023	32,500	4,800	14.8%
2024	30,300	6,500	21.5%

(Ffynhonnell: StatsWales, Llywodraeth Cymru)

Fel y gwelir, mae'r gyfradd poblogaeth weithio a gymudodd o Ynys Môn i Wynedd wedi amrywio dros y flynyddoedd, ar ôl gostyngiad clir rhwng 2021 a 2023 mae yna gynnydd wedi bod yn 2024 er dal yn is na'r sefyllfa yn 2016. Gall hyn fod o ganlyniad i newidiadau mewn patrwm gweithio pobl ar ôl cyfnod y pandemig.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd: D37

Amcan:	SO12	Arallgyfeirio economi wledig ardal y Cynllun, adeiladu ar gyfleoedd, cynnig cyfleon cyflogaeth lleol gyda swyddi o ansawdd, ac sy'n gweddu'r gymuned leol a pharchu buddiannau amgylcheddol.

Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol		CYF 6
		Deiliant:		Lefel sbardun:
D37 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar gyfer busnesau newydd mewn Pentrefi Gwasanaeth/ Lleol/ Gwledig/ Arfordirol neu yn y cefn gwlad	Caniatáu busnesau newydd ar raddfa fach ar safleoedd addas neu mewn adeiladau addas o fewn neu'n agos at bentrefi neu yn y cefn gwlad yn unol â Pholisi CYF 6	AMB 1		Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer busnesau graddfa fach newydd ar safleoedd/ mewn adeiladau o fewn neu'n agos at bentref neu yn y cefn gwlad am ddwy flynedd yn olynol
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		AMB 7		

Dadansoddiad:

Cymeradwywyd 6 o geisiadau cynllunio ar gyfer busnesau newydd mewn pentrefi gwasanaeth/lleol/gwledig/arfordirol a chefn gwlad agored sydd wedi cyfeirio at Bolisi CYF 6 wrth ystyried egwyddor y bwriad. Mae'r mathau o geisiadau sydd wedi'u cymeradwyo yn cynnwys unedau busnes/diwydiannol hyblyg newydd, modurdy/storfa gychod, codi adeiladau ar gyfer busnesau coed a phigo ffrwythau, gweithdy a storfa.

Ymddengys fod Polisi CYF 6 yn parhau i gael ei ddefnyddio'n effeithiol i gymeradwyo ceisiadau am fusnesau newydd ar raddfa fechan ac y gall, felly, gyfrannu at sicrhau ffyniant economaidd a chyfleoedd gwaith mewn ardaloedd gwledig.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Canol Trefi a Datblygiad Manwerthu

Mae canolfannau manwerthu yn parhau i fod yn ganolbwynt ar gyfer defnyddiau manwerthu. Nid oes yna unrhyw geisiadau mawr o fewn yr ardaloedd manwerthu (canol trefi a phrif ardal siopa) wedi ei

dderbyn yn ystod cyfnod y seithfed Adroddiad Monitro Blynyddol. Mae effaith Brexit a pandemig Covid-19 ar ganol trefi wedi amlygu ei hun fwyfwy yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda nifer o siopau gadwyn amlycaf y stryd fawr wedi cau. Golygai hynny fod yna wagle nodweddiadol wedi ei adael yn rhai o'n prif canol trefi.

Yn 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r ddogfen 'Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydwerth a Mwy Disglair'. Mae'r ddogfen hyn yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y system gynllunio yng Nghymru yn dilyn pandemig Covid. Rhoddir cryn bwyslais o fewn y ddogfen i adferiad y stryd fawr yn dilyn Covid.

Dangosydd: D38					
Amcan:		SO13	Hyrwyddo canol trefi llawn bywyd a ffyniannus yn Amlwch, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caergybi, Caernarfon, Llangefni, Porthmadog a Phwllheli, sydd wedi un ai gynnal eu rôl neu gael ail wynt fel canolfannau gwasanaeth ac i weithio ynddynt, ac sy'n llefydd deniadol a llawn bywyd i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.		
Dangosydd:		Targed:	Polisi perthnasol		MAN 1, MAN 2 & MAN 3
			Deiliant:		Lefel sbardun:
D38 Swm y datblygiad manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr a ganiateir (m.sg.) o fewn a thu allan i ffiniau sefydledig canol trefi		Swm blynyddol o arwynebedd llawr manwerthu mawr (m.sg.) a ganiateir o fewn ffiniau canol trefi sefydledig o'i gymharu â'r swm blynyddol a ganiateir tu allan i ffiniau canol trefi sefydledig ar safleoedd ar ymylon y canol a safleoedd tu allan i'r canol	AMB 1		Swm blynyddol o arwynebedd llawr manwerthu mawr (m.sg.) a ganiateir ar safleoedd tu allan i ganol trefi sefydledig yn fwy na'r swm blynyddol a ganiateir o fewn canol trefi sefydledig
			AMB 2		
			AMB 3		
			AMB 4		
			AMB 5		
			AMB 6		
			AMB 7		
Dadansoddiad:					
Nodir bod lefel sbardun y dangosydd eisoes wedi'i chyrraedd yn dilyn caniatáu cais manwerthu mawr (C19/0398/11/LL) y tu allan i ganol dinas Bangor yn ystod cyfnod Monitro Blynyddol 2 (1 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020).					
Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau cynllunio manwerthu mawr yn ystod y cyfnod monitro hwn (AMB 7).					
Gweithred:					
Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.					

Dangosydd: D39					
Amcan:	SO13	Hyrwyddo canol trefi llawn bywyd a ffyniannus yn Amlwch, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caergybi, Caernarfon, Llangefni, Porthmadog a Phwllheli, sydd wedi un ai gynnal eu rôl neu gael ail wynt fel canolfannau gwasanaeth ac i weithio ynddynt, ac sy'n llefydd deniadol a llawn bywyd i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.			
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		MAN 1, MAN 2, MAN 3	
		Deilliant:		Lefel sbardun:	
D39 – Cynnal astudiaeth i archwilio safleoedd manwerthu ymgeisiol posibl ym Mangor, Llangefni a Phwllheli	Archwiliad i archwilio safleoedd manwerthu ymgeisiol posibl ym Mangor, Llangefni a Phwllheli yn cael ei gwneud erbyn diwedd 2017/2018 o fabwysiadu'r Cynllun. Dynodi safleoedd manwerthu ym Mangor, Llangefni a Phwllheli i gyfarch casgliadau'r Astudiaeth adeg adolygu'r Cynllun.	AMB 1		Methiant i gynnal astudiaeth i archwilio safleoedd manwerthu ymgeisiol posibl ym Mangor, Llangefni a Phwllheli erbyn diwedd 2016/2017 o fabwysiadu'r Cynllun.	
		AMB 2			
		AMB 3			
		AMB 4		Methiant i ddarparu safleoedd manwerthu i gyfarch casgliadau'r Astudiaeth.	
		AMB 5			
		AMB 6			
		AMB 7			

Dadansoddiad:	
Ers mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd, ymddengys fod y niferoedd o geisiadau cynllunio ar gyfer defnyddiau manwerthu (A1) ym Mangor a Phwllheli yn gymharol isel ac mewn gwirionedd beth sydd yn cael ei gyflwyno ydi ceisiadau er mwyn newid defnydd unedau dosbarth defnydd A1 i ddefnyddiau amgen, er enghraifft defnydd A3 ac C3 neu i leihau arwynebedd llawr daear y gofod manwerthu. Mae effaith Brexit a'r pandemig wedi effeithio canol trefi yn sylweddol gan arwain at ymadawiad siopau cadwyn o ganol trefi yn hytrach na galw am ychwaneg o ofod. Oherwydd y diffyg cynnydd a phwysau ar gyfer defnyddiau A1 yn y canolfannau manwerthu penodol hyn nid yw'n ymddangos fod y galw ar gyfer defnyddiau manwerthu yn cyd-fynd a chasgliadau'r Astudiaeth Manwerthu (2013) a gynhaliwyd gan Applied Planning. Yn sgil hynny, ni ystyrir yn briodol i gynnal Astudiaeth i archwilio safleoedd manwerthu posibl ym Mangor a Phwllheli.	

Rhagwelir y bydd yr Astudiaeth Manwerthu (2013) yn cael ei ddiweddarau yn ystod y broses o adolygu'r Cynllun. Bydd casgliadau'r Astudiaeth yn sail i'r polisiâu manwerthu yn yr adolygiad ac yn ein galluogi i ragweld os yw'r pwysau a'r galw am ychwaneg o ofod llawr nwyddau cymhariaeth yn parhau i fodoli ym Mangor a Phwllheli.

Mae'r polisiâu a gynhwysir o fewn y Cynllun yn hwyluso'r ddarpariaeth o safleoedd manwerthu yn unol â'r galw a phriodoldeb y safle, gan hynny mae yna fecanwaith polisi yn ei le er mwyn cyfarch y galw pe byddai'n codi. Ymhellach, ystyrir yn briodol i gynnal adolygiad o'r Astudiaeth Manwerthu yn ystod y broses o baratoi Cynllun newydd er mwyn canfod os yw'r casgliadau yn parhau i fod yn gyfredol ac asesu'r angen ar gyfer darpariaeth o lawr gofod manwerthu.

Oherwydd y diffyg galw ar gyfer gofod manwerthu ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu, ystyrir yn briodol fod yr angen a'r galw am ofod manwerthu ar gyfer y dyfodol yn derbyn ystyriaeth fel rhan o'r broses o baratoi Cynllun newydd.

*NODYN: Mae'r dadansoddiad hyn yn ymwneud a ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn unig.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd: D40

Amcan:	SO13	Hyrwyddo canol trefi hanfodol a bywiog yn Amlwch, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caergybi, Caernarfon, Llangefni, Porthmadog a Phwllheli, sydd un ai wedi cynnal neu wedi ailddarganfod eu pwrpas fel canolfannau gwaith a gwasanaethau, ac sy'n lleoedd bywiog a deniadol i drigolion.		
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:	PS 15, MAN 1, MAN 2, MAN 3	
		Deilliant:	Trothwy:	
D40 - Nifer y ceisiadau cynllunio am ddefnyddiau nad ydynt yn A1 a gymeradwywyd mewn ardaloedd manwerthu cynradd unigol.	Defnyddiau A1 yn parhau i fod y prif ddefnydd o fewn ardaloedd manwerthu cynradd unigol o gymharu â'r astudiaeth arwynebedd llawr manwerthu yn 2017.	AMB 1		Defnyddiau nad ydynt yn rhai A1 sydd wedi'u caniatáu mewn ardaloedd manwerthu cynradd unigol yn groes i Bolisi MAN 2.
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		

		AMB 7		
Dadansoddiad:				
15 cais wedi'u cymeradwyo yn yr Prif Ardal Siopa. Mae pob cais yn cydymffurfio â meini prawf y polisi: • 1 caniatâd i osod gwaith celf, • 1 caniatâd ar gyfer adeilad newydd gydag A1, A2 ac A3 ar y llawr gwaelod a fflatiau ar y lloriau uwch, • 1 caniatâd i newid defnydd o A1 i ddefnydd A1/A3 cymysg, • 1 caniatâd i newid defnydd o A1 i A3, • 1 caniatâd i newid defnydd o A2 i A3, • 1 caniatâd i newid defnydd o A1 i D2, • 1 caniatâd i newid defnydd o A1 i D1, • 2 ganiatâd am defnydd preswyl i'r lloriau uchod, • 2 ganiatâd ar gyfer isrannu unedau manwerthu presennol, • 3 caniatâd ar gyfer arwyddion, • 1 caniatâd i newid blaen siop. Ystyrir bod polisiau manwerthu'r cynllun yn cael ei weithredu'n effeithlon gan nad oes caniatâd wedi ei roi i unrhyw ddefnydd nad yw'n cael ei ystyried fel defnydd canol tref (yn unol â diffiniad PCC). Bydd y Cynghorau yn parhau i fonitro'r dangosydd.				
Gweithredu:				
Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.				

Yr Economi Ymwelwyr

Mae twristiaeth yn sector deiniamig sy'n newid yn barhaus. Mae ganddo gyfraniad sylweddol i'w wneud i economi ardal y cynllun. Mae'r economi ymwelwyr yn darparu swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau sy'n hanfodol i lesiant a mwynhad cymunedau lleol a thrigolion ardal y cynllun.

Mae pwysigrwydd twristiaeth i Wynedd i'w weld yn yr ystadegau isod:

Crynodeb Twristiaeth Gwynedd* 2023 (STEAM)

Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth (£Bn)	1.72
% newid ar 2022	-0.6%
Cyfanswm diwrnodau ymwelwyr (Miliynau)	24.20
% newid ar 2022	+0.1%
Diwrnodau ymwelwyr sy'n aros (Miliynau)	20.25
% newid ar 2022	-0.8%
Cyfanswm yr ymwelwyr (Miliynau)	8.02
% newid ar 2022	+1.7%

Nifer yr ymwelwyr sy'n aros (Miliynau) % newid ar 2022	4.07 -1.2%
Nifer yr ymwelwyr dydd (Miliynau) % newid ar 2022	3.95 +4.9%

Nifer o swyddi FTE⁵ sy'n cael eu cefnogi gan wariant twristiaeth	17,538 -1.1%

*yn cynnwys Eryri National Park

Dangosydd: D41					
Amcan:		SO14	Rheoli'r ardal fel cyrchfan gynaliadwy amgen i dwristiaid gan ddarparu cyfleusterau o safon uchel sy'n diwallu anghenion cyfoes ac sy'n cynnig manteision trwy gydol y flwyddyn.		
Dangosydd:		Targed:	Polisi perthnasol: PS 14, TWR 1		
			Deiliant:		
			Trothwy:		
D41 - Nifer yr atyniadau a chyfleusterau i newydd neu well ymwelwyr neu welliannau wedi'u cymeradwyo i atyniadau a chyfleusterau		Atyniadau a chyfleusterau newydd neu well wedi'u caniatáu ar safleoedd addas yn unol â pholisi TWR 1	AMB 1		Dim ceisiadau cynllunio am atyniadau neu gyfleusterau newydd, neu i wella atyniadau neu gyfleusterau wedi'u caniatáu am ddwy flynedd yn olynol.
			AMB 2		
			AMB 3		
			AMB 4		
			AMB 5		
			AMB 6		
			AMB 7		
Dadansoddiad:					
5 caniatâd newydd ar gyfer chyfleusterau twristiaeth: 3 cais i wella cyfleusterau ym Mharc Llyn Padarn a 2 gais i gosod byrddau dehongli.					
Gweithredu:					
Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.					

Dangosydd: D42				
Amcan:	SO14	Rheoli'r ardal fel cyrchfan gynaliadwy amgen i dwristiaid gan ddarparu cyfleusterau o safon uchel sy'n diwallu anghenion cyfoes ac sy'n cynnig manteision trwy gydol y flwyddyn.		

⁵ FTE = Cyflogaeth Llawn Amser (Full Time Employment)

Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		PS 14, TWR 3, TWR 5
		Deiliant:		Trothwy:
D42 - Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiateir am unedau gwersylla amgen parhaol a dros dro	Unedau gwersylla amgen parhaol neu dros dro a ganiateir yn unol â Pholisi TWR 3 neu Bolisi TWR 5	AMB 1		Dim ceisiadau cynllunio am unedau gwersylla amgen parhaol neu dros dro wedi'u caniatáu am ddwy flynedd yn olynol.
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		<u>AMB 7</u>		
Dadansoddiad:				
1 caniatâd cynllunio newydd am ddatblygiadau gwersylla amgen parhaol (TWR 3).				
Ystyrir bod Polisiâu TWR 3 a TWR 5 yn cael eu gweithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau'n parhau i fonitro'r dangosydd.				
Gweithredu:				
Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.				

6.4 Cyflenwad ac ansawdd tai

Lleoliad Tai (Rhan 1)

Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3), Mawrth 2020, yn nodi'r angen i gyflwyno dau ddangosydd newydd yn seiliedig ar y Taflwybr Tai o fewn y Cynllun. Mae hyn yn disodli'r angen i ymgymryd â Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai ac i fonitro ar sail y cyflenwad tir a'i hamlygir ar sail yr astudiaeth honno (Dangosydd D43 yn flaenorol fel nodir yn y CDLI ar y Cyd). Gweler y ddau ddangosydd newydd hyn isod, sef dangosyddion D43(A) a D43(B).

Nodir bod yn rhaid nodi'r lefelau cwblhau mewn perthynas â dangosyddion D43(A) a D43(B) yn glir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar ffurf rhifau a chanrannau (plws/minws x %).

Nodir ar gyfer y cynlluniau hynny a gyhoeddwyd cyn cyhoeddi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020), megis felly'r CDLI ar y Cyd, caiff lefelau cwblhau tai eu mesur yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog a nodir yn y Cynllun.

Yn unol â gofynion y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, rhan 8.16), fe asesir y ddarpariaeth tai yn erbyn y taflwybr tai a'i nodir yn y Cynllun gan ddiwygio'r taflwybr er mwyn ei gymharu gyda'r taflwybr sydd yn rhan o'r Cynllun.

Fe noder bod y taflwybr yn y Cynllun yn cyfleu gwybodaeth i ardal y Cynllun yn ei gyfanrwydd sydd yn cynnwys Ynys Môn. O gofio bod y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi dirwyn i ben yn Ebrill 2023, bellach mae angen ystyried gwybodaeth o ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unigol. Yn sgil hyn mae'r taflwybr gwreiddiol a gyflwynwyd yn y CDLI ar y Cyd wedi ei gyfleu yn yr AMB hwn ar sail ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig. Mae'r wybodaeth sydd wedi ei gasglu yn cael ei ystyried a'i asesu felly yn erbyn y taflwybr i Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig.

Mae'r wybodaeth o'r taflwybr gwreiddiol wedi ei gyfleu ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig wedi ei nodi yn y tabl isod:

Blwyddyn	2011/ 12	2012/ 13	2013/ 14	2014/ 15	2015/ 16	2016/ 17	2017/ 18	2018/ 19	2019/ 20	2020/ 21	2021/ 22	2022/ 23	2023/ 24	2024/ 25	2025/ 26	CYFANSWM
Safleoedd bach	74	79	65	75	83	79	79	79	79	79	79	80	80	80	80	1170
Safleoedd mawr	47	92	107	136	70	79	79	79	79	79	79	79	79	79	80	1243
Dynodiadau	0	0	4	27	58	88	127	165	159	147	147	119	103	90	65	1299
Gofyniad blynyddol y Cynllun	247.5	247.5	247.5	247.5	247.5	247.5	247.5	247.5	247.5	247.5	247.5	247.5	247.5	247.5	247.5	3712.5
Cyfanswm cwblhau	121	171	176	238	211	246	285	323	317	305	305	278	262	249	225	3712
Cyfanswm cwblhau cronol	121	292	468	706	917	1163	1448	1771	2088	2393	2698	2976	3238	3487	3712	


Mae'n rhaid i'r Adroddiad Monitro Blynyddol gynnwys adran sy'n cynnwys graff gwreiddiol y taflwybr a thabl Cyfrifo'r Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig (neu Gofyniad Blynyddol Cyfartalog yn achos y CDLI ar y Cyd) ac mae'n rhaid i'r AMB gynnwys diweddariad o'r ddwy elfen. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i waith monitro, cymharu â dadansoddi mwy manwl gael ei wneud yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Nodir mai'r pwynt allweddol yw y dylai fod yn glir i'r darllenwyr beth sydd wedi newid rhwng y cynllun a fabwysiadwyd a'r Adroddiad Monitro Blynyddol presennol.

Noder fod yn rhaid cynnwys sylwadau ar y canlyniadau a'r goblygiadau a nodi'n glir pa gamau (lle y bo'n berthnasol) sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg/tangyflawni yn erbyn strategaeth y cynllun. Noder fod sylwadau o'r fath yn cael eu cynnig o fewn y dadansoddiad o ddangosyddion D43(A) a D43(B) isod.


O gofio mai blwyddyn sydd ar ôl o gyfnod y CDLI ar y Cyd, ni ymgynghorwyd gyda tirfeddianwyr/datblygwyr mewn perthynas â sefydlu'r bwriad o ran dynodiadau tai'r Cynllun ynghyd a'r safleoedd banc tir mawr (5 neu fwy o unedau). Ni ymgynghorwyd ychwaith â'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai wrth ystyried y taflwybr arfaethedig i weddill cyfnod y CDLI ar y Cyd.

Gweler Atodiad 3 ar gyfer asesiad o'r dynodiadau tai a'r safleoedd banc tir mawr ynghyd a'r wybodaeth berthnasol o ran y broses hon.

Graff y Taflwybr fel y'i nodir yn y CDLI a'i fabwysiadwyd – gwybodaeth wedi ei gyfleu ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig



Graff y Taflwybr – fel y'i diwygiwyd drwy'r Adroddiad Monitro Blyneddol – Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig



Mae'r graff hwn yn seiliedig ar y wybodaeth yn y tabl canlynol sydd yn cyfleu'r wybodaeth yn y Cynllun a'i mabwysiadwyd i ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig. Mae hyn ar sail unedau sydd wedi eu cwblhau mewn gwirionedd a thybiaethau a wneir ar sail elfennau eraill o'r cydrannau cyflenwad tai. Mae'r sail y ffigyrau ar gyfer 2025-26 i'w gweld yn Atodiad 3 o'r Adroddiad hwn.

Mae'r tabl hwn a'r graffiau uchod yn darparu'r sail ar gyfer yr asesiad o ddangosyddion D43(A) a D43(B).

Blwyddyn y CDLI ar y Cyd	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15
	2011 - 12	2012 - 13	2013 - 14	2014 - 15	2015 - 16	2016 - 17	2017 - 18	2018 - 19	2019 - 20	2020 - 21	2021 - 22	2022 - 23	2023 - 24	2024 - 25	2025 - 26
Tai wedi eu cwblhau ar safleoedd mawr	47	92	111	163	128	218	160	228	186	97	124	63	82	187	
Tai wedi eu cwblhau ar safleoedd bach	74	79	65	75	83	58	48	53	59	38	45	44	55	25	
Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd a'u dynodwyd yn ystod y flwyddyn															58
Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd banc tir yn ystod y flwyddyn															149

Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd ar hap mawr yn ystod y flwyddyn															0
Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd ar hap bach yn ystod y flwyddyn															0
Nifer y Tai Wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn	121	171	176	238	211	276	208	281	245	135	169	107	137	212	
Nifer y Tai a'u rhagwelir fydd wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn															207
Gofyniad Blynyddol Cyfartalog	247	247	247	247	247	247	247	247	247	247	247	247	247	247	247

Dangosydd D43

Y dangosydd yma wedi cael ei ddisodli ar sail llythyr y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol dyddiedig 26 Mawrth 2020: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/newidiadau-i-bolisiau-a-chanllawiau-ym-maes-cynllunio-yngghylch-cyflenwi-tai_0.pdf

Dangosydd: D43(A)

Amcan:	SO15 & SO16	SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddeleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd. SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth			
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19	
		Deilliant:		Lefel sbardun:	
Y lefelau cwblhau tai blynyddol wedi'u monitro yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog	Caiff lefelau cwblhau tai eu mesur yn erbyn y Gofyniad Blynyddol	AMB 1		Ymateb i wyriad sydd unai yn sylweddol uwch neu'n sylweddol is na'r gyfradd gofyniad blynyddol cyfartalog	
		AMB 2	—		
		AMB 3	—		

	Cyfartalog a nodir yn y Cynllun	AMB 4	—	
		AMB 5	—	
		AMB 6	—	
		AMB 7	—	

Dadansoddiad:

Nodir ar gyfer y cynlluniau hynny a gyhoeddwyd cyn cyhoeddi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020), caiff lefelau cwblhau tai eu mesur yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog a nodir yn y Cynllun.

Fe nodir y dylid monitro cydrannau'r cyflenwad tai, gan gynnwys dynodiadau, a safleoedd hap bach a mawr ar wahân.

Rhaid nodi'r lefelau hyn yn glir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol mewn rhifau a chanrannau (plws/minws x %).

Fe noder y wybodaeth ganlynol o ran yr unedau sydd wedi eu cwblhau yn flynyddol yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog ynghyd â'r wybodaeth gwblhau flynyddol a noder yn y taflwybr tai yn y CDLI ar y Cyd (wedi ei nodi ar sail ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig). Ochr yn ochr â hyn noder ei fod yn bwysig ystyried gwybodaeth mewn perthynas â'r taflwybr diwygiedig ar gyfer y flwyddyn sydd yn weddill yn oes y Cynllun.

2024/25

Cymhariaeth â'r taflwybr tai (Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig)

	Unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd	Gwybodaeth o daflwybr tai y Cynllun h.y. nifer yr unedau a ddisgwyllir eu cwblhau	Cymhariaeth rhwng yr unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd a'r wybodaeth yn y taflwybr
Safleoedd ar hap bychan (Llai na 5 uned)	25	80	-55 (-68.8%)
Safleoedd ar hap mawr (5 uned neu ragor – heb fod ar ddynodiad tai)	132	79	+53 (+67.1%)
Safleoedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai	55	90	-35 (-38.9%)
Cyfanswm cwblhau	212	249	-37 (-14.9%)

Cymhariaeth â'r Gofyniad Blynnyddol Cyfartalog (Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig)

Unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd	Gofyniad blynnyddol cyfartalog y Cynllun	Cymhariaeth rhwng yr unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd â'r gofyniad blynnyddol cyfartalog
212	247	-35 (-14.2%)

- Yng nghyfnod yr AMB hwn, noder fod 212 o unedau wedi eu cwblhau yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Y Gofyniad Cyfartalog Blynnyddol yw 247 o unedau i Wynedd yn unig (felly 35 uned yn llai neu -14.2%) ac roedd y taflwybr yn rhagweld datblygu 249 o dai, heb lwfans llithro, yn ystod 2024/25 (felly 37 uned yn llai neu -14.9%).
- O'i gymharu â'r wybodaeth o'r taflwybr (heb ystyried y lwfans llithro), noder ar gyfer 2024/25 fod 55 uned yn llai (-68.8%) wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap bychan; 53 uned yn fwy (+67.1%) ar safleoedd ar hap mawr (5 neu fwy o unedau); gyda 35 yn llai o unedau wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn y Cynllun (-38.9%).
- Er mwyn cymharu â'r blynnyddoedd blaenorol, noder y wybodaeth ganlynol ar gyfer ardal y Cynllun yn ei gyfanrwydd ynghyd ac ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unigol:

	Ardal y CDLI ar y Cyd			Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd		
	Nifer o unedau wedi eu cwblhau	Cymhariaeth gyda ffigwr taflwybr	Cymhariaeth gyda Gofyniad Cyfartalog Blynnyddol	Nifer o unedau wedi eu cwblhau	Cymhariaeth gyda ffigwr taflwybr	Cymhariaeth gyda Gofyniad Cyfartalog Blynnyddol
2016/17	402	+6.9%	-16.0%	276	+12.2%	+11.7%
2017/18	462	-8.5%	-3.5%	208	-27.0%	-15.8%
2018/19	548	-11.2%	+14.4%	281	-13.0%	+13.8%
2019/20	453	-28.2%	-5.4%	245	-22.7%	-0.8%
2020/21	360	-44.4%	-24.8%	135	-55.7%	-45.3%
2021/22	347	-44.3%	-27.6%	169	-44.6%	-31.6%
2022/23	298	-47.3%	-37.7%	107	-61.5%	-56.7%
2023/24	-	-	-	137	-47.7%	-44.5%

- Ceir trafodaeth bellach ynglŷn â'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau yn flynyddol ac ar y dynodiadau tai yn y dadansoddiad i ddangosyddion D44 a D45.
- Mae'r wybodaeth ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd i gyfnod AMB 7 yn cyd-fynd â'r tueddiad cyffredinol sydd wedi bod yn amlwg yn yr ardal hon ynghyd ag ardal y Cynllun yn ei gyfanrwydd ers 2019/20, sef y ffaith nad yw'r nifer o unedau a'u darparwyd yn cwrdd â'r gofyniad yn y taflwybr nac y gofyniad blynnyddol cyfartalog (sydd wedi ei gyfleu i ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd). Fodd bynnag noder bod y diffyg hwn yn llawer yn is nag y mae wedi bod ar gyfer y blynnyddoedd diweddar (i ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd). Mae

cynnydd arwyddocaol wedi bod yn y nifer o dai a gwblhawyd yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn 2024/25 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

- Gellir nodi, yn unol â'r lefel sbardun, bod yr hyn sydd wedi ei ddatblygu ychydig yn is na'r gyfradd gofyniad blynyddol cyfartalog (i ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig), er nodir bod y diffyg hwn yn sylweddol llai na'r hyn sydd wedi bod yn amlwg yn flynyddol ers cyfnod AMB 2. Credir fod yna'n sicr angen i ystyried yr hyn a'i hamlygir yn y dangosydd hwn wrth baratoi'r Cynllun newydd. Noder yn ogystal fod y taflwybr diwygiedig yn awgrymu cyflenwad tai ar gyfer blwyddyn olaf oes y Cynllun sy'n gyson â'r lefel cwblhau ar gyfer cyfnod yr AMB hwn ac yn uwch na'r ffigwr ar gyfer y pedair mlynedd blaenorol (er nodir fod y ffigwr ar gyfer 2025/26 yn parhau yn is na'r gofyniad cyfartalog blynyddol). Dylid nodi mai gwybodaeth ragdybiaethol yw hyn ac mae'r hyn fydd yn digwydd mewn gwirionedd yn ddibynnol a'r nifer o ffactorau.
- Yn hyn o beth mae'n bwysig ystyried y gwahanol gydrannau o ddarparu tai h.y. rôl safleoedd ar hap bach a mawr ynghyd a'r dynodiadau, wrth asesu'r ddarpariaeth yn ei gyfanrwydd. Mae'n amlwg fod y nifer o dai sydd wedi eu datblygu ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn sylweddol is na'r hyn a ragwelir yn y taflwybr (gweler hefyd ymateb i ddangosydd D45). Fodd bynnag mae'r diweddariad o'r taflwybr yn awgrymu fod y nifer o unedau i'w darparu ar ddynodiadau tai ym mlwyddyn olaf oes y Cynllun yn debyg i'r hyn a gafodd eu darparu ar safleoedd o'r fath yn ystod cyfnod yr AMB hwn. Credir bod angen cadw llygaid ar y sefyllfa yn ei gyfanrwydd wrth baratoi Cynllun newydd a bydd yn bwysig ystyried y wybodaeth hyn ynghyd a materion eraill cyd-destunol, megis y sefyllfa economaidd a chynnwys dogfen Cymru'r Dyfodol ar y cyd a'r wybodaeth o ran dangosydd D43(B) wrth ystyried effaith datblygiadau blynyddol ar y ffigwr tai yn ei gyfanrwydd.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd: D43(B)

Amcan:	SO15 & SO16	SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddeleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd. SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth

Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:	PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19
		Deiliant:	Lefel sbardun:
		AMB 1	

Cyfanswm cronol y tai a gwblhawyd wedi'i fonitro yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronol	Caiff lefelau cwblhau tai cronol eu mesur yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronol a nodir yn y Cynllun	AMB 2		Ymateb i wyriad sydd unai yn sylweddol uwch neu'n sylweddol is na'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronol
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		AMB 7		

Dadansoddiad:

Nodir ar gyfer y cynlluniau hynny a gyhoeddwyd cyn cyhoeddi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, caiff lefelau cwblhau tai cronol eu mesur yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronol a nodir yn y Cynllun.

Fe nodir y wybodaeth ganlynol o ran yr unedau sydd wedi eu cwblhau mewn gwirionedd yn erbyn y gyfradd cwblhau tai cronol disgwyledig a nodir yn nhaflwybr tai'r CDLI ar y Cyd (wedi ei nodi ar sail ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig).

Gwybodaeth o ran y gyfradd cwblhau gronol hyd at 2024/25 – gwybodaeth fesul cydrannau darpariaeth tai (ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig)


	Unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd	Gwybodaeth o daflwybr tai'r Cynllun h.y. nifer yr unedau a ddisgwylir eu cwblhau	Cymhariaeth rhwng yr unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd a'r wybodaeth yn y taflwybr
Safleoedd bychan (Llai na 5 uned)	801	1090	-289 (-26.5%)
Safleoedd mawr (5 uned neu ragor – heb fod ar ddynodiad tai)	1209	1163	+46 (+4.0%)
Safleoedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai	677	1234	-557 (-45.1%)
Cyfanswm unedau cronol wedi eu cwblhau	2687	3487	-800 (-22.9%)

Cyfradd darparu tai blynyddol o'i gymharu â'r wybodaeth yn y taflwybr tai (ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig)


Blwyddyn	Ffigwr cwblhau cronol a nodir yn y taflwybr	Gwir ffigwr cwblhau (blynyddol)	Cymhariaeth gyda ffigwr cwblhau blynyddol yn y taflwybr	Cyfanswm cwblhau cronol	Cymhariaeth gyda ffigwr cwblhau cronol yn y taflwybr	% cwblhau yn erbyn y ffigwr cwblhau cronol
2011-12	121	121	0	121	0	0%
2012-13	292 (+171)	171	0	292	0	0%
2013-14	468 (+176)	176	0	468	0	0%
2014-15	706 (+238)	238	0	706	0	0%
2015-16	917 (+211)	211	0	917	0	0%
2016-17	1163 (+246)	276	+30	1193	+30	+2.6%
2017-18	1448 (+285)	208	-77	1401	-47	-3.2%
2018-19	1771 (+323)	281	-42	1682	-89	-5.0%
2019-20	2088 (+317)	245	-72	1927	-161	-7.7%
2020-21	2393 (+305)	135	-170	2062	-331	-13.8%
2021-22	2698 (+305)	169	-136	2231	-467	-17.3%
2022-23	2976 (+278)	107	-171	2338	-638	-21.4%
2023-24	3238 (+262)	137	-125	2475	-763	-23.6%
2024-25	3487 (+249)	212	-37	2687	-800	-22.9%
2025-26	3712 (+225)					

Mae'r graffiau isod yn cymharu'r tai sydd wedi eu darparu fesul y gwahanol gydrannau yn erbyn y wybodaeth yn nhaflwybr tai'r Cynllun (wedi ei seilio ar wybodaeth Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig).


Unedau wedi eu cwblhau (gwir nifer a'r ffigyrau taflwybr) - Safleoedd ar hap bychan



Unedau wedi eu cwblhau (gwir nifer a'r ffigyrau taflwybr) - Safleoedd ar hap mawr



Unedau wedi eu cwblhau (gwir nifer a'r ffigyrau taflwybr) - Dynodiadau tai



Noder isod wybodaeth sydd yn asesu'r gwir ddarpariaeth tai yn erbyn y gofyniad blynyddol cyfartalog a'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronol, sef yr hyn a nodir yn y wybodaeth targed fel yr amlygir yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3.

Cyfradd darparu tai o'i gymharu â'r gofyniad blynyddol cyfartalog a'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronol (ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig)

Blwyddyn	Gofyniad blynyddol cyfartalog cronol (247 uned y flwyddyn)	Gwir ffigwr cwblhau (blynyddol)	Cymhariaeth yn erbyn y gofyniad blynyddol cyfartalog	Cyfanswm cwblhau cronol	Cymhariaeth yn erbyn gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronol	% cwblhau yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronol
2011-12	247	121	-126	121	-126	-51.0%
2012-13	495	171	-76	292	-203	-41.0%
2013-14	742	176	-71	468	-274	-36.9%
2014-15	990	238	-9	706	-284	-28.7%
2015-16	1237	211	-36	917	-320	-25.9%
2016-17	1485	276	+29	1193	-292	-19.7%
2017-18	1732	208	-39	1401	-331	-19.1%
2018-19	1980	281	+34	1682	-298	-15.1%
2019-20	2227	245	-2	1927	-300	-13.5%
2020-21	2475	135	-112	2062	-413	-16.7%
2021-22	2722	169	-78	2231	-491	-18.0%
2022-23	2970	107	-140	2338	-632	-21.3%
2023-24	3217	137	-110	2475	-742	-23.1%
2024-25	3465	212	-35	2687	-778	-22.5%
2025-26	3712					

- Gan gynnwys gwybodaeth o gyfnod yr AMB hwn, noder bod 800 yn llai o unedau wedi eu cwblhau yn ardal awdurdod Cynllunio Gwynedd o'i gymharu â'r ffigwr disgwyledig a noder

yn y taflwybr ar gyfer ardal Gwynedd. Wrth gymharu gyda'r gofyniad blynyddol cyfartalog, noder fod y gwir ffigwr 778 uned yn is na'r ffigwr disgwyledig erbyn 2024/25. Noder nad yw hyn yn cymryd i ystyriaeth y lwfans llithro yn y Cynllun ond yn hytrach y gwir ffigwr ar gyfer cwrdd â ffigwr tai'r Cynllun.

- Noder fod 2687 o unedau wedi eu cwblhau yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd ers y dyddiad sail yn 2011 hyd at 2024/25. Mae hyn 22.9% yn is na'r ffigwr a noder yn y taflwybr a 22.5% yn is na'r ffigwr o ran y gofyniad blynyddol cyfartalog cronol.
- Mae'r diffyg o ran y canran o unedau sydd wedi eu cwblhau mewn gwirionedd o'i gymharu â'r ffigwr cwblhau cronol disgwyledig yn y taflwybr wedi lleihau ychydig ers y wybodaeth o gyfnod AMB 6 (o -23.6% i -22.9%). Fodd bynnag, noder fod cynnydd arwyddocaol wedi bod yn y diffyg hwn dros y blynyddoedd diweddar (er enghraifft, roedd y diffyg yn -13.8% yng nghyfnod AMB 3). O ran cymhariaeth gyda'r gofyniad tai blynyddol cronol yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd, noder eto bod lleihad bychan wedi bod yn y diffyg rhwng cyfnodau AMB 6 a AMB 7 (o -23.1% i -22.5%). Mae'r diffyg hwn ychydig yn llai arwyddocaol dros gyfnod ehangach o'i gymharu â'r gymhariaeth gyda ffigyrau'r taflwybr e.e. o -16.7% yng nghyfnod AMB 3 i -22.5% ar gyfer cyfnod AMB 7.
- Noder fod y gyfradd cwblhau gronol wedi bod yn eithaf cyson â'r wybodaeth a nodir yn y taflwybr hyd nes cyfnod AMB 2 ond nodir fod y bwlch, o safbwynt y ffigwr canran, wedi cynyddu yn gyson ers hynny (o ran diffyg) hyd nes cyfnod yr AMB hwn ble cafwyd lleihad. Er hyn, noder o ran y gwir ffigwr fod y bwlch rhwng y nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau yn gronol a'r ffigwr yn y taflwybr wedi cynyddu rhwng cyfnodau AMB 6 ac AMB 7.
- Tra bod diffyg arwyddocaol yn y nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau o'i gymharu â'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronol, noder, ar y cyfan, fod y nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau yn gronol wedi bod yn fwy cyson â'r gofyniad blynyddol cyfartalog cronol yn y cyfnod ers mabwysiadu'r Cynllun o'i gymharu â blynyddoedd cynnar oes y Cynllun (ar ffurf canran). Mae'r wybodaeth o gyfnod AMB 7, o safbwynt lleihad yn y bwlch (ar ffurf canran) rhwng y gwir nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau a'r ffigwr gofyniad tai blynyddol cronol, wedi gwyrddio'r tueddiad diweddar o ran cynnydd blynyddol yn ystod y 4 mlynedd flaenorol.
- Wrth ddadansoddi'r wybodaeth yn fanylach o safbwynt cymharu gyda'r wybodaeth gronol o'r taflwybr ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd (heb ystyried y lwfans llithro) noder fod 289 uned yn llai (-26.5%) wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap bychan (llai na 5 uned) o'i gymharu â'r hyn a nodir yn y taflwybr; 46 uned yn fwy (+4.0%) wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap mawr (5 neu fwy o unedau); gyda 557 yn llai o unedau wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn y Cynllun (-45.1%).
- Mae'r graffiau uchod yn amlygu fod unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap bychan yn y blynyddoedd diweddar wedi bod yn is na'r hyn roedd y taflwybr yn ei ragweld tra ar y llaw arall fod yr unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap mawr (5 uned neu ragor) wedi bod yn uwch na'r wybodaeth yn y taflwybr. Mae'n amlwg fod unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn benodol ar gyfer tai yn y Cynllun wedi bod yn sylweddol is na'r hyn roedd y taflwybr yn ei ragweld (gweler sylwadau pellach ynglŷn â'r agwedd hon yn y sylwadau i ddangosydd D45).

Noder y pwyntiau canlynol yn gysylltiedig â'r wybodaeth hyn:

- Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3 yn nodi lle y ceir diffyg o ran lefelau cwblhau tai cronnol yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog am ddwy flynedd yn olynol, mae'n rhaid i'r ACLI ystyried maint unrhyw ddiffyg a nodi ei gasgliad/camau monitro o ran y goblygiadau ar gyfer cyflenwi'r lefel ofynnol o dai neu gyflawni'r strategaeth. Mae'r lefel sbardun o ran y dangosydd hwn yn nodi bod yn rhaid ymateb i wyriad sydd unai yn sylweddol uwch neu'n sylweddol is na'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol.
- Ceir trafodaeth bellach ynglŷn â'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau yn gronnol ac ar y dynodiadau tai yn y dadansoddiad i ddangosyddion D44 a D45.
- Wrth edrych ar y diweddariad i'r taflwybr, rhagwelir y bydd y nifer o dai a'u cwblheir ym mlwyddyn olaf oes y Cynllun yn gyson â'r lefel cwblhau ar gyfer cyfnod yr AMB hwn. Tra bod y ffigwr hyn yn uwch na'r ffigwr ar gyfer y pedair blynedd blaenorol, mae'n parhau'n is na'r gofyniad blynyddol cyfartalog. Dylid nodi mai rhagdybiaeth yw hyn ac fel y gwelir gyda'r gwir ffigyrau dros y blynyddoedd blaenorol gall y sefyllfa newid ac mae'r nifer o unedau a gaiff eu cwblhau mewn gwirionedd yn ddibynnol ar amgylchiadau o ran safleoedd unigol ac o ran agweddau a gofynion fwy eang e.e. sefyllfa economaidd. Tra bod ystyriaeth yn cael ei roi i'r holl agweddau perthnasol wrth ragweld lefelau twf tai yn y dyfodol, y gwir yw bod hyn yn ddibynnol ar ddymuniad a dyheadau'r tirfeddianwyr a datblygwyr i ddatblygu'r safleoedd perthnasol. Hwylusydd yw'r Cynllun i ddarparu tai - ni all orfodi hyn. Fodd bynnag oherwydd mai blwyddyn sydd ar ôl yng nghyfnod y Cynllun, mae'r taflwybr diwygiedig yn cyfleu'r unedau hynny ble mae gwir gyfle y byddent yn cael eu cwblhau yn yr amser hwn e.e. ble mae unedau wrthi yn cael eu datblygu.
- Mae'n amlwg fodd bynnag o'r wybodaeth hyd at gyfnod yr AMB hwn fod diffyg wedi bod yn y ddarpariaeth tai ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn y CDLI ar y Cyd o'i gymharu â'r hyn oedd yn ddisgwyliedig. Fel amlygir mewn perthynas â dangosydd D45, wrth baratoi'r Cynllun newydd bydd rhaid ystyried addasrwydd dynodiadau tai'r Cynllun i gyfrannu yn effeithiol at y ffigwr tai.
- Nodir mai rôl y CDLI ar y Cyd ydyw i ddarparu'r amodau i gyflawni datblygiadau perthnasol ac i gyflenwi tai yn y modd mwyaf addas. O gofio fod y gwaith o baratoi Cynllun o'r newydd wedi cychwyn, ni chredir fod angen gweithredu ar hyn o bryd mewn perthynas â'r dangosydd hwn.
- Bydd yr ystyriaethau mewn perthynas â'r dangosydd hwn yn greiddiol wrth baratoi Cynllun o'r newydd. Tra bod y Cynllun yn ceisio sicrhau fod y safleoedd a'u nodir yn gallu cyflawni'r datblygiadau perthnasol, ni all y Cynllun orfodi bod y datblygiadau hyn yn digwydd yn unol â'r wybodaeth yn y taflwybr. Wrth baratoi'r Cynllun newydd, mi fydd yn hollbwysig ystyried y lefel twf tai yn ei gyfanrwydd ynghyd ac adnabod y safleoedd gorau a mwyaf addas i gwrdd â'r twf hwn mewn modd effeithiol sydd yn cwrdd â strategaeth y Cynllun.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd: D44				
Amcan:	SO15 & SO16	SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.		
		SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth		
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19
		Deilliant:		Lefel sbardun:
D44 Nifer yr unedau tai newydd a adeileidir yn ardal y Cynllun	Darparu 7,184 unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun, yn ôl y dadansoddiad a nodir ym Mhapur Pwnc 20B Taflwybr Tai	AMB 1		Y nifer o unedau tai newydd a ddarperir yn ardal y Cynllun yn disgyn islaw'r gofyniad am 2 flynedd yn olynol
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		AMB 7		
		Targedau blynyddol ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun:		
2016/ 17 = 376				
2017/ 18 = 505				
2018/ 19 = 617				
2019/ 20 = 631				
2020/ 21 = 647				
2021/ 22 = 623				
2022/ 23 = 565				
2023/ 24 = 527				
2024/ 25 = 528				
2025/ 26 = 466				
Dadansoddiad:				
Mae'r tabl isod yn nodi cymhariaeth o ran y nifer o unedau sydd wedi eu hadeiladu yn ardal y Cynllun o'i gymharu â'r targed:				
Blwyddyn	Targed	Nifer gwirioneddol	Gwahaniaeth (%)	
Ardal y Cynllun yn ei gyfanrwydd				
2016/17	376	402	+6.9%	
2017/18	505	462	-8.5%	

2018/19	617	548	-11.2%
2019/20	631	453	-28.2%
2020/21	647	360	-44.4%
2021/22	623	347	-44.3%
2022/23	565	298	-47.3%
Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig			
2023/24	527 (gydag Ynys Môn)	137	-
2024/25	528 (gydag Ynys Môn)	212	-

O gofio bod y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn wedi dirwyn i ben ar 31ain Mawrth, 2023 ac mai dim ond gwybodaeth o ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd sydd ar gael ar gyfer cyfnod AMB 7, mae'r tabl isod yn cyfleu gwybodaeth ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd gan ddefnyddio'r wybodaeth o'r taflwybr ar gyfer yr ardal hon yn unig.

Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig

Blwyddyn	Targed	Nifer gwirioneddol	Gwahaniaeth (%)
2016/17	246	276	+12.2%
2017/18	285	208	-27.0%
2018/19	323	281	-13.0%
2019/20	317	245	-22.7%
2020/21	305	135	-55.7%
2021/22	305	169	-44.6%
2022/23	278	107	-61.5%
2023/24	262	137	-47.7%
2024/25	249	212	-14.9%

O safbwynt y targed a'r lefel sbardun, mae'n amlwg fod y nifer o unedau tai newydd a ddarperir yn ardal awdurdod Cynllunio Gwynedd wedi disgyn islaw'r gofyniad am ddwy flynedd yn olynol. Yn wir nid yw'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau wedi cwrdd â'r lefel targed blynyddol, yng Ngwynedd nac ychwaith yn ardal y Cynllun yn ei gyfanrwydd, ers 2016/17.

O ran ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig, wrth ychwanegu'r wybodaeth o gyfnod AMB 7 i'r wybodaeth yn y blynyddoedd blaenorol a'u noder yn y tabl uchod (h.y. cyfnod 2016-25), fe nodir bod 1770 o unedau wedi eu cwblhau o'i gymharu â tharged o 2570 o unedau. Mae hyn gyfystyr â 68.9% o'r lefel targed (diffyg o 800 uned dros gyfnod o 9 mlynedd sef 89 uned y flwyddyn).

Noder bod cynnydd arwyddocaol yn y nifer o unedau preswyl sydd wedi eu cwblhau yng nghyfnod yr AMB hwn o'i gymharu a'r flwyddyn flaenorol (+75 uned) ynghyd â'r dair blynedd cyn hynny. Dyma'r ffigwr cwblhau uchaf ar gyfer ardal Gwynedd ers 2019/20. Tra noder nad yw'r ffigwr ar gyfer cyfnod AMB 7 yn cwrdd a'r lefel targed, mae'r diffyg yn llawer is nag y mae wedi bod yn y blynyddoedd diweddar. Mae'r bwlch rhwng y ffigwr targed a'r nifer o unedau sydd wirioneddol wedi eu hadeiladu wedi gweld lleihad amlwg rhwng cyfnod AMB 6 (-125 uned) a AMB 7 (-37 uned).

O'i gymharu â'r ffigwr cwblhau blynyddol uchaf ers mabwysiadu'r Cynllun, sef 2018/19, mae 69 yn llai o unedau wedi eu cwblhau yng Ngwynedd yng nghyfnod AMB 7. Mae'r ffigwr gwahaniaeth hwn yn llawer yn is na'r hyn sydd wedi ei weld yn y blynyddoedd diweddar. Credir mai un ffactor dros nifer uwch o unedau preswyl yn cael eu datblygu yw rhaglenni datblygu cymdeithasau tai. Mae Cymdeithasau Tai yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r unedau sydd wedi eu cwblhau yng Ngwynedd yng nghyfnod AMB 7 (127 o unedau ar 8 safle, sef 59.9% o'r holl unedau sydd wedi eu cwblhau yng nghyfnod yr AMB hwn). Ar sail hyn noder bod cyfran arwyddocaol o'r holl unedau sydd wedi eu cwblhau yng nghyfnod AMB 7 yn unedau fforddiadwy (66.7%).

Tra bod y gwaith maes o ran y dangosydd hwn yn dangos fod gwaith yn parhau i fynd rhagddo ar rhai o ddynodiadau tai'r Cynllun, noder nad oes caniatâd cynllunio o'r newydd wedi ei roi ar unrhyw ddynodiad tai yn ystod cyfnod yr AMB hwn (er noder ymestyn cyfnod y caniatâd ar safle T65 yn Neiniolen). Mae'r ffigwr cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn arwyddocaol is na'r lefel targed yn y taflwybr. Mae hyn felly yn ystyriaeth o ran y lefel sbardun. Noder nad oes caniatâd cynllunio (Ebrill 2025) yn bodoli ar gyfer nifer arwyddocaol o'r safleoedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai h.y. 16 o'r 38 dynodiad yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd, sef 42.1%. Nodir fod hyn ond blwyddyn cyn diwedd oes y Cynllun.

O gofio'r bwlch rhwng y lefel targed (yn flynyddol ac yn gronnol) a'r hyn sydd wedi ei gwblhau mewn gwirionedd, credir fod hyn yn agwedd bydd yn rhaid ei ystyried wrth baratoi'r Cynllun newydd.

Bydd y gwaith o fonitro'r Cynllun yn fodd o asesu os ydyw'r gyfradd datblygu tai yn dderbyniol yn unol â'r dangosydd hwn gan ystyried felly addasrwydd rhai o'r dynodiadau tai yn y Cynllun i gyfrannu yn effeithiol at y targed. Noder fodd bynnag mai rôl y Cynllun Datblygu Lleol yw darparu'r amodau i gyflawni datblygiadau perthnasol ac i gyflenwi tai yn y modd mwyaf addas. Ni all y Cynllun orfodi bod y safleoedd hyn yn cael eu datblygu. Wrth baratoi Cynllun o'r newydd credir y dylid ail-edrych ar y gyfradd twf tai ynghyd a'r dynodiadau i'w gynnwys ynddo.

Mae'r diweddariad i'r taflwybr tai [gweler dangosyddion 43(A) a D43(B)] yn awgrymu cyflenwad tai ar gyfer blwyddyn olaf oes y Cynllun sy'n gyson â'r lefel cwblhau ar gyfer cyfnod yr AMB hwn.

Gweithred:

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi'r Cynllun newydd, yn benodol fel rhan o'r gwaith casglu tystiolaeth mewn perthynas â'r maes tai.

Dangosydd: D45				
Amcan:	SO15 & SO16	SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddeleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd. SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth		
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15- TAI 19
		Deiliant:		Lefel sbardun:
D45 Cyfanswm yr unedau tai gaiff eu hadeiladu ar safleoedd a ddynodwyd yng Ngwynedd fel % o'r ddarpariaeth dai gyffredinol	Safleoedd wedi eu dynodi o fewn Polisiâu TAI 1 - 5 am 1,467 o unedau tai newydd yng Ngwynedd (gan gynnwys lwfans llithriad o 10%) dros gyfnod y Cynllun, sy'n cyfateb i 19% o'r ddarpariaeth dai gyffredinol. Targedau cwblhau blynyddol ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun:	AMB 1		Nifer cyffredinol yr unedau tai newydd a gaiff eu hadeiladu ar safleoedd a ddynodwyd o fewn Gwynedd yn disgyn islaw'r gofyniad am 2 flynedd yn olynol
		AMB 2		
		AMB 3		

		AMB 4	—																							
	<table><tr><td></td><td>Safleoedd a ddynodwyd</td></tr><tr><td>2016/17</td><td>99</td></tr><tr><td>2017/18</td><td>144</td></tr><tr><td>2018/19</td><td>187</td></tr><tr><td>2019/20</td><td>180</td></tr><tr><td>2020/21</td><td>166</td></tr><tr><td>2021/22</td><td>166</td></tr><tr><td>2022/23</td><td>135</td></tr><tr><td>2023/24</td><td>117</td></tr><tr><td>2024/25</td><td>102</td></tr><tr><td>2025/26</td><td>74</td></tr></table>		Safleoedd a ddynodwyd	2016/17	99	2017/18	144	2018/19	187	2019/20	180	2020/21	166	2021/22	166	2022/23	135	2023/24	117	2024/25	102	2025/26	74			
	Safleoedd a ddynodwyd																									
2016/17	99																									
2017/18	144																									
2018/19	187																									
2019/20	180																									
2020/21	166																									
2021/22	166																									
2022/23	135																									
2023/24	117																									
2024/25	102																									
2025/26	74																									
		AMB 5	—																							
		AMB 6	—																							
		<u>AMB 7</u>	—																							
Dadansoddiad:																										

Mae'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn benodol ar gyfer tai yng Ngwynedd wedi disgyn islaw'r targedau a'u nodir ar gyfer cyfnod yr AMB hwn ynghyd a phob un o'r blynyddoedd eraill a'u nodir yn y wybodaeth darged:

	Targed	Nifer gwirioneddol
2016/ 17	99	70
2017/ 18	144	77
2018/ 19	187	123
2019/ 20	180	106
2020/ 21	166	49
2021/22	166	38
2022/23	135	55
2023/24	117	13
2024/25	102	55

Noder fod rhai o'r dynodiadau tai wedi derbyn caniatâd cynllunio cyn dyddiad mabwysiadu'r Cynllun, yn aml ar sail eu bod yn ddynodiadau yn y cynllun datblygu blaenorol, a bod hyn yn gyfrifol ar gyfer canran arwyddocaol o'r unedau sydd eisoes wedi eu cwblhau fel nodir yn y tabl uchod, yn enwedig felly yn y blynyddoedd cynnar wedi mabwysiadu.

Mae enghreifftiau o'r fath (o safbwynt safleoedd a oedd wedi eu cwblhau yng nghyfnod AMBau blaenorol) yn cynnwys safleoedd megis safle T1 Goetra Uchaf ym Mangor a safle T27 Lôn Cae Phillips yng Nghaernarfon, sef rhai o'r dynodiadau mwyaf y CDLI ar y Cyd yng Ngwynedd.

Yng nghyfnod AMB 7 noder bod yr holl unedau a gwblhawyd ar ddynodiadau tai yn safleoedd a oedd wedi eu dynodi yn flaenorol yng Nghynllun Datblygu Unedol Gwynedd, sef Tir ger Canol Cae, Penrhyndeudraeth, Tir ger North Teras, Cricieth a Cae Denio, Pwllheli. Ni gwblhawyd unrhyw uned yn ystod 2024/25 ar ddynodiadau o'r newydd a gyflwynwyd yn y CDLI ar y Cyd. Nid yw'r ddarpariaeth ar ddynodiadau o'r newydd (a gyflwynwyd yn y CDLI ar y Cyd) yn ddigonol felly i gwrdd â'r lefel targed a nodir yn y dangosydd. Byddai disgwyl erbyn hyn i'r dynodiadau tai ddarparu cyfran arwyddocaol o unedau tai yn flynyddol. Noder felly fod y gyfran o unedau sydd wedi eu cwblhau ar ddynodiadau tai yn sylweddol is na'r targed.

Noder ym mis Ebrill 2025 fod 28 uned wrthi yn cael eu datblygu ar 4 gwahanol safle sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai yn y CDLI ar y Cyd o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Rhoddwyd caniatâd yn ogystal yn ystod cyfnod yr AMB hwn ar gyfer ymestyn cyfnod caniatâd cynllunio ar safle sydd wedi ei ddynodi yn Neiniolen (27 uned). Tra bod cyfle y bydd peth cynnydd yn y ddarpariaeth ar ddynodiadau tai yn y dyfodol, mae cwestiwn os bydd hyn yn ddigonol i gwrdd â'r targed ar gyfer cyfnod yr AMB nesaf.

O'r 26 dynodiad yng Ngwynedd nad oedd wedi eu cwblhau erbyn diwedd cyfnod yr AMB hwn, mae caniatâd cynllunio yn bodoli ar gyfer 10 o'r safleoedd hyn (h.y. caniatâd byw ar 31 Mawrth, 2025). Golygai hyn felly bod 16 safle wedi eu dynodi yng Ngwynedd nad sydd â chaniatâd

cynllunio hyd at 31ain Mawrth 2025. Mae cyswllt yma gyda'r taflwybr tai o ran pryd yr ystyrir y bydd y dynodiadau tai yn cael eu datblygu.

Mae 25.9% o'r holl unedau sydd wedi eu cwblhau yng Ngwynedd yn 2024/25 wedi eu lleoli ar ddynodiadau tai. Tra bod hyn yn ffigwr isel, mae yn uwch na'r ffigwr ar gyfer cyfnod AMB 6, sef 9.6%. Mae'r ffigwr ar gyfer 2024/25 yn parhau'n is fodd bynnag na'r gyfradd ar gyfer y cyfnodau AMB blaenorol eraill ar wahân felly i AMB 4: AMB 5 (51.4%); AMB 4 (22.5%); AMB 3 (36%) ac AMB 2 (43%). Mae'r taflwybr tai yn y Cynllun yn nodi y disgwylir i 46.6% o unedau a'u cwblheir yn 2024/25 yn ardal y Cynllun i fod ar ddynodiadau tai.

Gan nad yw'r nifer o unedau a ddatblygir ar y dynodiadau tai yn gyson heb gwrdd â'r targedau o ran y dangosydd hwn a bod y bwlch rhwng y gwir ddarpariaeth a'r ffigyrau targed yn rhai arwyddocaol yn y blynyddoedd diweddar, credir bod lle i ail-ystyried y safleoedd sydd yn berthnasol i'w dynodi wrth baratoi'r Cynllun newydd. Mae'n rhaid ystyried addasrwydd yr holl ddynodiadau tai yn y Cynllun o ran eu gallu i gyfrannu yn effeithiol at y targed.

Mae'r diweddariad i'r Taflwybr Tai [Dangosyddion 43(A) a 43(B)] yn awgrymu cyflenwad tebyg ar ddynodiadau tai ym mlwyddyn olaf oes y Cynllun i'r hyn a welwyd yng nghyfnod AMB 6.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd: D46

Dim angen adrodd ar y dangosydd gan ei fod yn benodol berthnasol i ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn.

Tai Fforddiadwy

Dangosydd: D47

Amcan:	SO15 & SO16	SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleuoedd er mwyn cefnogi twf economaidd. SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth

Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:	PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19
		Deiliant:	Lefel sbardun:

D47 Cyfanswm nifer tai fforddiadwy ychwanegol a gaiff eu hadeiladu yn ardal y Cynllun	Adeiladu 1,572 o dai fforddiadwy yn ardal y Cynllun erbyn 2026	AMB 1	—	Y nifer cyffredinol o unedau tai fforddiadwy ychwanegol a gaiff eu hadeiladu yn ardal y Cynllun yn 10% neu fwy yn is na'r targed cronol yn y Targed Polisi
	Targedau adeiladu yn ystod gweddill oes y Cynllun (2015 – 2026):			
	Adeiladu 345 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2018	AMB 2	—	
		AMB 3	—	
		AMB 4	—	
	Adeiladu 575 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2020	AMB 5	—	
		AMB 6	—	
		<u>AMB 7</u>	—	
	Adeiladu 805 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2022			
	Adeiladu 1035 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2024			
	Adeiladu 1,266 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2026			
Dadansoddiad:				

Yn y cyfnod 2015-23 nodir fod 854 o unedau fforddiadwy wedi eu hadeiladu yn ardal y Cynllun. Fodd bynnag mae'r wybodaeth o gyfnodau AMB 6 a 7 yn berthnasol i Wynedd yn unig. Yn 2024-25 adeiladwyd 142 uned fforddiadwy yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Mae hyn yn ychwanegol i'r 67 uned fforddiadwy a adeiladwyd yn yr ardal yn ystod 2023-24. Golygai hyn felly ddarpariaeth o 1063 uned fforddiadwy yn y cyfnod perthnasol gan eithrio gwybodaeth Ynys Môn yng nghyfnodau AMB 6 ac AMB 7.

Mae'n anodd gwneud asesiad uniongyrchol yn erbyn y targed a nodir yn y dangosydd o gofio'r diffyg gwybodaeth o Ynys Môn ar gyfer y ddwy flynedd diwethaf. Noder hefyd nad oes targed wedi ei nodi ar gyfer 2025 ond yn hytrach noder targed o adeiladu 1266 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2026.

Nid yw'n bosib felly asesu os yw'r nifer cyffredinol o unedau tai fforddiadwy ychwanegol sydd wedi eu hadeiladu yn ardal y Cynllun yn 10% neu fwy yn is na'r targed cronol yn y Targed Polisi. Noder fodd bynnag fod y nifer o unedau sydd wedi eu hadeiladu ers 2015 (heb gynnwys ffigwr Ynys Môn ar gyfer AMB 6 a AMB 7) yn uwch na'r targed a roddwyd erbyn diwedd 2024 ar gyfer ardal y Cynllun yn ei gyfanrwydd, sef 1035 o dai fforddiadwy ychwanegol.

Maer rhaniad yr unedau fforddiadwy sydd wedi eu cwblhau fel y ganlyn:

Blwyddyn	Cyfanswm ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd	Cyfanswm ardal y Cynllun yn ei gyfanrwydd
2015-16	44 uned	82 uned
2016-17	54 uned	68 uned
2017-18	31 uned	61 uned
2018-19	118 uned	187 uned
2019-20	98 uned	120 uned
2020-21	31 uned	99 uned
2021-22	74 uned	115 uned
2022-23	58 uned	122 uned
2023-24	68 uned	-
2024-25	140 uned	-
Cyfanswm	716 uned	854 uned* (ddim yn cynnwys 2023-25)

* Noder bod y ffigyrau uchod wedi eu diwygio ar sail ail-edrych ar y wybodaeth o ran unedau fforddiadwy sydd wedi eu cwblhau (lleihad o 9 uned fforddiadwy o'i gymharu â'r hyn a nodir hyd at gyfnod AMB 6).

Tra noder nad oes targed penodol wedi ei nodi ar gyfer cyfnod yr AMB hwn, ni chredir fod angen gweithredu mewn perthynas â'r dangosydd hwn. Ar gyfer Gwynedd yn unig, noder bod y nifer o unedau fforddiadwy sydd wedi eu cwblhau yng nghyfnod yr AMB hwn yn uwch nag mewn unrhyw flwyddyn arall ers mabwysiadu'r Cynllun. Yn wir mae'n ffigwr sydd yn uwch nag unrhyw

ffigwr cwblhau blynyddol ar gyfer ardal y Cynllun yn ei gyfanrwydd (hyd ar AMB 5) ar wahân felly i 2018-19.

Tra noder nad oes targed penodol wedi ei nodi ar gyfer cyfnod yr AMB hwn, ni chredir fod angen gweithredu mewn perthynas â'r dangosydd hwn.

Er mwyn cyrraedd y targed a noder ar gyfer 2026 bydd angen adeiladu 204 o unedau fforddiadwy yng nghyfnod AMB 8. Er mwyn sicrhau darpariaeth sydd yn uwch na'r lefel sbardun (10% neu fwy yn is na'r targed cronol yn y Targed Polisi), bydd angen adeiladu 77 o unedau yn y cyfnod nesaf. Tra nad yw'r nifer angenrheidiol o unedau fforddiadwy o'r newydd i gwrdd â tharged 2026 erioed wedi ei gyflawni yn ystod y cyfnod sy'n destun y dangosydd hwn, noder byddai'r nifer o unedau fforddiadwy a gwblhawyd yng nghyfnod AMB 7 yng Ngwynedd yn ddigonol i beidio gorfod ystyried y lefel sbardun. Noder hefyd nad yw'r ffigyrau hyn yn cymryd i ystyriaeth unedau fforddiadwy sydd wedi eu cwblhau yn Ynys Môn yn ystod cyfnodau AMB 6 ac AMB 7.

Oherwydd yr angen i gyfiawnhau unedau fforddiadwy ar sail hyfywedd, mae polisiâu'r CDLI ar y Cyd yn nodi trothwyon sydd yn aml yn is na'r rhai a nodwyd yn y cynlluniau datblygu blaenorol ar gyfer gofyn am ddarpariaeth fforddiadwy. Gall gymryd amser i'r polisi hwn arwain at gynnydd arwyddocaol yn nifer o unedau fforddiadwy a gaiff eu datblygu yn ardal y Cynllun. Yn hyn o beth noder fod nifer yr unedau fforddiadwy sydd wedi eu hadeiladu yn flynyddol ers 2018-19 yn arwyddocaol uwch na'r wybodaeth ar gyfer y blynyddoedd blaenorol. Noder fod y nifer o unedau fforddiadwy a'u cwblhawyd yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yng nghyfnod AMB 7 yn llawer uwch na'r wybodaeth gyfatebol ar gyfer ardal y Cynllun yn ei gyfanrwydd ym mlynnyddoedd cynnar y wybodaeth a ddangosir.

Mae'r ffigwr o ran nifer y tai fforddiadwy sydd wedi eu darparu yn debygol o fod yn uwch ar gyfer yr ardal na'r hyn a nodir, gan nad yw'n cynnwys unedau tai sydd yn fforddiadwy oherwydd eu maint a'u lleoliad (ond heb eu clymu yn ffurfiol fel unedau fforddiadwy drwy amod neu rwymedigaeth gyfreithiol). Yn ogystal mae cyfraniad ariannol wedi ei dderbyn mewn rhai datblygiadau yn hytrach na darpariaeth fforddiadwy ar y safle.

Mae'r gwaith maes ynghlwm â'r dangosydd hwn (Ebrill 2025) yn nodi bod caniatâd cynllunio yn bodoli ar gyfer 299 o unedau fforddiadwy yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd (187 o unedau heb eu dechrau a 112 o unedau wrthi yn cael eu datblygu). Mae yna gyflenwad niferus o unedau fforddiadwy felly eisoes o fewn y banc tir presennol a all gyfrannu i gwrdd yn effeithiol â'r targedau a'u nodir yn y dangosydd hwn.

Action:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd: D48				
Amcan:	SO15 & SO16	SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddeleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.		
		SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth		
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19
		Deiliant:		Lefel sbardun:
D48 % unedau tai fforddiadwy a ganiateir fesul ardal prisiau tai	% darpariaeth tai fforddiadwy yn unol â'r targed dangosol fesul ardal prisiau tai	AMB 1		% gyffredinol darpariaeth tai fforddiadwy yn disgyn islaw'r targed dangosol fesul ardal prisiau tai am 2 flynedd yn olynol, oni bai y'i cyfiawnheir o dan Bolisi TAI 15
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		AMB 7		
Dadansoddiad:				
Noder fod y wybodaeth isod yn cyfeirio at safleoedd lle mae'n berthnasol i ofyn am ganran o unedau fforddiadwy yn unol â Pholisi TAI 15 h.y. trothwy o 2 neu ragor o unedau ac nid yw'n ystyried safleoedd mewn clystyrau neu yng nghefn gwlad. Nid yw ychwaith yn ystyried caniatâd ar safleoedd eithrio ble mae'n rhaid i'r bwriad fod ar gyfer 100% tai fforddiadwy. Mae'r wybodaeth yn berthnasol ar gyfer caniatadau o'r newydd a cheisiadau i ail-ystyried neu ymestyn dyddiad terfyn caniatâd blaenorol. Mae'r rhain oll yn geisiadau ble y byddai angen ystyried y ddarpariaeth fforddiadwy yn unol â chynnwys Polisi TAI 15. Nid yw felly yn ystyried caniatadau am faterion a gadwyd yn ôl ble mae egwyddor y caniatâd eisoes wedi ei roi nac ychwaith tystysgrifau cyfreithlondeb ar gyfer defnydd preswyl. Nodir fod y lefel sbardun yn cyfeirio at 2 flynedd yn olynol. Tra bod angen ystyried y wybodaeth ar gyfer 2024/25 ar y cyd â'r wybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 6, noder nad yw gwybodaeth Ynys Môn bellach yn cael ei gyflwyno yn y wybodaeth isod. Mae'r wybodaeth o ran y dangosydd hwn				

ond felly yn cyfeirio at y wybodaeth berthnasol ar gyfer ardaloedd prisiau tai sydd wedi eu lleoli yng Ngwynedd.

Tabl yn crynhoi'r wybodaeth ar gyfer yr holl Ardaloedd Prisiau Tai

Ardaloedd Tai	Pris	Cyfnod	Canran o dai fforddiadwy y ceisir	Gwir ddarpariaeth tai fforddiadwy (canran)	Cwrdd â'r lefel targed?
Arfordir Uchel Gwynedd	Gwerth	2023/24	Dim caniatâd cynllunio perthnasol.		
		2024/25	Dim caniatâd cynllunio perthnasol.		
Aneddleoedd Arfordirol Mwy		2023/24	30%	67%**	✓
		2024/25	30%	33%	✓
Canolfannau Gwledig		2023/24	Dim caniatâd cynllunio perthnasol.		
		2024/25	Dim caniatâd cynllunio perthnasol.		
Arfordir Gogleddol a De Arfon		2023/24	20%	32%**	✓
		2024/25	20%	56%(*)(**)	✓
Llŷn		2023/24	Dim caniatâd cynllunio perthnasol.		
		2024/25	10%	40%	✓
Arfordir Gorllewinol Arfon Wledig	ac	2023/24	10%	95%**	✓
		2024/25	10%	44%**	✓
Y Mynyddoedd		2023/24	10%	100%	✓
		2024/25	10%	33%	✓
Dwyrain Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol		2023/24	Dim caniatâd cynllunio perthnasol.		
		2024/25	Dim caniatâd cynllunio perthnasol.		
Blaenau Ffestiniog		2023/24	Dim caniatâd cynllunio perthnasol.		
		2024/25	10%	17%	✓

*Cyfraniad ariannol (fforddiadwy) yn ogystal

** Unedau ychwanegol nad sydd yn fforddiadwy o safbwynt TAN 2 ond credir i fod y fforddiadwy 'drwy ddyluniad' wedi eu caniatáu yn ogystal (heb eu cyfrif i bwrpas y dangosydd hwn)

O'r 8 ardal pris tai sydd wedi eu lleoli yng Ngwynedd, noder nad oes caniatâd cynllunio perthnasol wedi bod yn nhair o'r rhain yng nghyfnod AMB 7. O'r 6 ardal ble mae caniatâd perthnasol wedi ei roddi, noder fod pob un wedi cwrdd â'r targed dangosol (fel amlygir ym Mholisi TAI 15) o ran y canran cyffredinol o dai fforddiadwy a'u darperir fel rhan o ganiatadau cynllunio preswyl perthnasol yng nghyfnod AMB 7.

Ynghyd a'r ddarpariaeth fforddiadwy ffurfiol, noder bod unedau a'u hystyrir i fod yn fforddiadwy trwy ddyluniad hefyd wedi eu caniatáu yn ystod y cyfnod hwn. Mae cyfraniad ariannol hefyd i'w dderbyn ar draul darpariaeth fforddiadwy ar yr un safle perthnasol a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod 2024/25.

Ar sail yr uchod, credir felly fod y wybodaeth o ran y ddarpariaeth fforddiadwy yn ystod cyfnod AMB 7 yn dderbyniol.

Os yn ystyried y lefel sbardun, sef bod canran gyffredinol darpariaeth tai fforddiadwy yn disgyn islaw'r targed dangosol fesul ardal prisiau tai am 2 flynedd yn olynol, noder nad yw hyn wedi bod yn amlwg yn yr un ardal pris tai. Noder fodd bynnag nad oes gwybodaeth berthnasol ar gael i bob ardal ar gyfer y ddwy flynedd berthnasol.

Ardaloedd Prisiau Tai ar y cyd: Canran fforddiadwy 30% - Gwybodaeth i Wynedd yn unig

Cyfnod	Nifer ganiatadau o	Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu	Tai fforddiadwy	Canran unedau fforddiadwy
2023/24	3	55	37	67%
2024/25	1	12	4	33%

Ardaloedd Prisiau Tai ar y cyd: Canran fforddiadwy 20% - Gwybodaeth Gwynedd yn unig

Cyfnod	Nifer ganiatadau o	Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu	Tai fforddiadwy	Canran unedau fforddiadwy
2023/24	7	34	11	32%
2024/25	6	54	30	56%

Cyfnod	Nifer ganiatadau o	Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu	Tai fforddiadwy	Canran unedau fforddiadwy
2023/24	4	64	62	97%

2024/25	10	65	26	40%

Wrth ystyried ardaloedd prisiau tai ar y cyd i ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig (ble mae'r canran o dai fforddiadwy ai geisir yn gyson), noder fod y ddarpariaeth fforddiadwy yn cydfynd yn effeithiol â'r holl dargedau polisi (o safbwynt gofyniad 30%, 20% a 10%). Ynghyd a'r ddarpariaeth ffurfiol uchod o unedau fforddiadwy, dylid cofio hefyd bod unedau pellach wedi eu caniatáu sydd yn cael eu hystyried yn 'fforddiadwy drwy ddyluniad' ac hefyd mae cyfraniad ariannol wedi ei dderbyn ar gyfer un safle ar draul darpariaeth o unedau fforddiadwy ar y safle.

Mae'r nifer o ganiatadau cynllunio sydd yn berthnasol i'w hystyried o ran y dangosydd hwn yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yng nghyfnod AMB 7 (17 cais) yn uwch na'r wybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 6 (14 cais perthnasol) ac yn gyson â'r wybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 5 (17 cais). Noder fodd bynnag bod ambell ardal prisiau tai ble nad oes yna ganiatâd perthnasol wedi bod yn 2024/25 nac ychwaith 2023/24 o safbwynt ystyried gofynion Polisi TAI 15.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd: D49				
Amcan:	SO15 & SO16	SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden anedlleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd. SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth		
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		
		Deilliant:		Lefel sbardun:
D49 Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiateir ar safleoedd eithriedig gwledig	Cynnydd yn y nifer o safleoedd eithriedig tai fforddiadwy o'i gymharu â'r cyfartaledd yn ystod 2015/ 16 – 2016/ 17	AMB 1		Dim cynnydd yn y nifer o safleoedd eithriedig tai fforddiadwy a ganiateir am 2 flynedd yn olynol
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		

		AMB 7		

Dadansoddiad:

Caniatâd cynllunio ar safleoedd eithrio yn ystod cyfnod yr AMB hwn (Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig)⁶:

Safle	Nifer o unedau
Bodernabwy, Aberdaron	5
Tŷ Isaf, Bryniau Fawnog Ffordd Minffordd, Llanrug	1
Tir Maes Twnti, Morfa Nefyn	6*
Tir Ger By Talardd, Dinas	2*
Cyfanswm (Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig)	14

*Safleoedd wedi eu lleoli tu mewn ac oddi allan i'r ffin datblygu. Ble fod y rhan tu allan i'r ffin yn cael ei ystyried yn erbyn Polisi TAI 16 (Safleoedd Eithrio), yna caiff yr unedau hynny sydd ar y safle eithrio eu hystyried yn y ffigwr hwn.

Gwybodaeth flaenorol:

Cyfnod	Ardal y Cynllun		Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig	
	Nifer o safleoedd	Nifer o unedau	Nifer o safleoedd	Nifer o unedau
AMB 1 (i gyd yn 2018/19)	6	24	-	-
AMB 2⁷	4	45	1	10
AMB 3	3	10	2	8
AMB 4	2	24	1	1
AMB 5	5	33	2	4
AMB 6	-	-	3	26

Mae'n anodd gwneud cymhariaeth gyda ffigyrau o gyfnodau blaenorol gan nad yw'r wybodaeth o'r cyfnod AMB hwn yn ystyried gwybodaeth o Ynys Môn. Fodd bynnag wrth edrych ar y wybodaeth o gyfnodau'r Adroddiadau Monitro Blynnyddol diweddar, ac yn enwedig felly o ran

⁶ Caniatadau o'r newydd yn unig

⁷ Rhai safleoedd wedi eu lleoli tu mewn ac oddi allan i'r ffin datblygu. Ble fod y rhan tu allan i'r ffin yn cael ei ystyried yn erbyn Polisi TAI 16 (Safleoedd Eithrio) yna caiff y safleoedd/unedau hyn eu hystyried yn y ffigwr hwn.

gwybodaeth Gwynedd yn unigol, credir bod ffigyrau eleni yn dderbyniol. Mae mwy o safleoedd eithrio wedi eu caniatáu yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yng nghyfnod AMB 7 nag mewn unrhyw gyfnod AMB arall (Gwybodaeth i Wynedd yn unigol ddim ar gael ar gyfer cyfnod AMB 1). Fodd bynnag, noder fod y nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu ar safleoedd eithrio yn dipyn yn is na'r flwyddyn flaenorol (er noder fod y ffigwr hwn yn uwch na unrhyw un o'r blynyddoedd eraill ar gyfer Gwynedd yn unigol).

Mae'r ffigyrau ar gyfer Gwynedd yng nghyfnod AMB 7 yn uwch na ffigwr ardal y Cynllun yn ei gyfanrwydd yng nghyfnod AMB 3 (o ran nifer o safleoedd ynghyd a'r nifer o unedau) ac yn uwch na'r nifer o safleoedd o'r fath a gafodd ganiatâd yn ardal y Cynllun yng nghyfnod AMB 4.

Mae'n debyg fod y rheswm am hyn yn gyfuniad o lai o safleoedd addas ar gael o fewn ffiniau datblygu ar sail dod i ddiwedd cyfnod y Cynllun, rhaglenni a graddfa datblygu Cymdeithasau Tai (safle ger Talardd, Dinas) ynghyd a Chyngor Gwynedd eu hunain (Tir Ger Maes Twnti, Morfa Nefyn), ynghyd a chyfleoedd unigol sydd wedi cyflwyno eu hunain.

Tra bod y lefel sbardun yn berthnasol ar gyfer ardal y Cynllun yn ei gyfanrwydd, credir bod y wybodaeth o gyfnod yr AMB hwn, o safbwynt Gwynedd yn unigol, yn cyd-fynd yn effeithiol gydag ef. Noder hefyd fod cynnydd cyson o 1 safle wedi bod yn flynyddol yn y nifer o safleoedd eithrio sydd wedi derbyn caniatâd yn ardal cynllunio Gwynedd ers cyfnod AMB 4, gan olygu felly bod cydymffurfiaeth gyda'r lefel sbardun.

Tra ei fod yn bwysig ystyried y modd mae'r Cynllun yn hwyluso darpariaeth o unedau fforddiadwy ar safleoedd eithrio, fe nodir bod ceisiadau ar gyfer safleoedd o'r fath yn rhywbeth sy'n ddibynol ar gynlluniau penodol i ddod yn eu blaen mewn lleoliadau ble na all y galw am dai fforddiadwy gael ei gwrdd o fewn y ffin ddatblygu. Tra ei fod yn bwysig ystyried y ddarpariaeth ychwanegol o unedau fforddiadwy, credir ei fod yn bwysig ystyried hyn yng nghyswllt y ddarpariaeth fforddiadwy yn ei gyfanrwydd.

Noder fod y targed o ran y dangosydd hwn yn nodi "Cynnydd yn y nifer o safleoedd eithriedig tai fforddiadwy o'i gymharu â'r cyfartaledd yn ystod 2015/ 16 - 2016/ 17". Nodir mai'r ffigwr o ran nifer y safleoedd eithrio a'r unedau a'u caniateir yn y blynyddoedd hyn oedd: 2015/16 (3 safle: 3 uned); 2016/17 (2 safle: 3 uned) – ar gyfer ardal y Cynllun yn gyfan. Noder fod y wybodaeth o ran caniatadau safleoedd eithrio a roddwyd yn 2024/25 yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig, o ran y nifer o safleoedd ynghyd a'r nifer o unedau ar y safleoedd hyn, yn cymharu'n bositif â'r targed hwn. Mae'r wybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 7 yn dderbyniol felly o'i gymharu â'r wybodaeth targed

Ar sail y wybodaeth uchod, ni chredir fod angen unrhyw weithrediad o safbwynt y dangosydd hwn ond credir bod angen ystyried hwyluso darpariaeth ddigonol o unedau fforddiadwy wrth baratoi'r Cynllun newydd.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd: D50

Amcan:	SO15 & SO16	SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddeleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd. SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth.

Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:	PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19

		Deilliant:		Lefel sbardun:	
D50 Newidiadau mewn gwerthoedd gweddilliol ar draws yr ardaloedd prisiau tai a nodwyd ym Mholisi TAI 15	Cyflenwi'r lefel uchaf bosib o dai fforddiadwy a ystyrir yn hyfyw yn unol â Pholisi TAI 15	AMB 1	☒	Cynnydd neu ostyngiad o 5% mewn gwerth gweddilliol mewn unrhyw ardal prisiau tai mewn unrhyw flwyddyn unigol	
		AMB 2	☐		
		AMB 3	☒		
		AMB 4	☒		
		AMB 5	☒		
		AMB 6	☐		
		<u>AMB 7</u>	☐		

Dadansoddiad:

Mi fydd yna sail tystiolaeth cyfredol ar gyfer hyfywedd gwahanol ardaloedd i baratoi unedau fforddiadwy ar safleoedd preswyl yn cael ei baratoi fel rhan o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Yn ogystal mae'r Cyngor wrthi yn paratoi Asesiad Marchnad Tai Lleol ac mae'r fersiwn drafft yn adnabod ardaloedd marchnad tai sydd yn wahanol i'r hyn sydd yn y Cynllun ar y cyd presennol.

Oherwydd hyn nid yw'r Cyngor wedi cario allan gwaith yn asesu'r newidiadau o fewn gwerthoedd gweddilliol ardaloedd prisiau tai sydd yn y Cynllun ar y cyd a felly ni ellid diweddu'r dangosydd yma.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Bydd astudiaethau hyfywedd manwl yn cael eu cynnal gan yr awdurdodau unigol fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer eu Cynlluniau Datblygu Lleol newydd.

Dangosydd: D51

Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB 2, dim angen parhau i'w fonitro.

Lleoliad Tai (Rhan 2)**Dangosydd: D52**

Amcan:	SO15 & SO16	SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden anedlleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd. SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth

Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		Lefel sbardun:
		Deilliant:		
D52 Nifer o unedau tai marchnad leol a gaiff eu hadeiladu mewn aneddleoedd a nodir ym Mholisi TAI 5	Cyflenwi'r lefel uchaf bosibl o dai marchnad leol mewn aneddleoedd a restrir ym Mholisi TAI 5.	AMB 1		Llai na 10 o unedau tai marchnad leol yn cael eu hadeiladu mewn aneddleoedd a nodir ym Mholisi TAI 5 mewn unrhyw flwyddyn unigol
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		<u>AMB 7</u>		

Dadansoddiad:

2024/25: 0 uned marchnad lleol wedi ei gwblhau (Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig)

Gweler isod wybodaeth o ran y nifer o unedau marchnad leol sydd wedi eu cwblhau fesul blwyddyn (ers mabwysiadu'r CDLI ar y Cyd)

Cyfnod	Ardal y CDLI ar y Cyd	Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig
AMB 7*	-	0
AMB 6*	-	1
AMB 5	3	1
AMB 4	0	0

AMB 3	0	0
AMB 2	1	1
AMB 1	0	0
Cyfanswm	5	3

* Heb gynnwys unrhyw unedau marchnad lleol posib yn Ynys Môn

Mae'n amlwg, o safbwynt ystyried ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unigol, nad yw'r wybodaeth uchod yn cyd-fynd yn effeithiol gyda'r lefelau targed a sbardun o ran y dangosydd hwn.

Noder bod caniatâd ar gyfer 1 uned marchnad lleol wedi ei ganiatáu yn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd yn ystod cyfnod AMB 7. Yng Ngwynedd noder mai dyma'r unig ganiatâd byw ar gyfer uned marchnad lleol (ar 31/3/25).

Noder bod cyfanswm o 5 uned marchnad lleol wedi eu cwblhau yn ardal y Cynllun (heb gynnwys unrhyw uned posib o'r fath yn Ynys Môn yn ystod cyfnodau AMB 6 ac AMB 7). Mae 3 o'r unedau hyn yng Ngwynedd.

Tra roedd awgrym ar sail gwybodaeth yng nghyfnod AMB 5 bod y gofyniad polisi newydd hwn wedi dechrau cael gwir effaith, nid yw hyn fodd bynnag yn cael ei gyfleu yng ngwybodaeth cyfnodau AMB 6 ac AMB 7.

Mae'n rhaid cofio bod Polisi TAI 5 mewn perthynas â Thai Marchnad Lleol wedi cyflwyno egwyddor polisi hollol newydd nad oedd yn amlwg mewn cynlluniau datblygu blaenorol ac o bosib golygai hyn wahaniaethau o flwyddyn i flwyddyn o ran nifer o unedau marchnad lleol sydd yn cael eu cwblhau. Derbynnir fodd bynnag bod tipyn o amser wedi mynd heibio bellach ers mabwysiadu'r Cynllun ac fe ddylai'r egwyddorion newydd a gafodd ei gyflwyno ynddo bellach gael ei drosglwyddo i ganiatadau ac yna datblygiadau perthnasol. Mae'r ffaith mai dim ond 1 uned marchnad lleol sydd â caniatâd cynllunio byw yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn golygu nad yw'r ffigyrau cwblhau yn y byr dymor am fod yn uchel iawn.

Roedd hefyd awgrym yn yr asesiad o wybodaeth AMB 5 bod gofyniad y polisi yn dechrau cael ei dderbyn yn fwy eang gan y cyhoedd a'r sawl sydd yn datblygu tai (er noder fod hyn ar gyfer ardal y Cynllun yn ei gyfanrwydd). O gofio'r wybodaeth o gyfnodau AMB 6 ac AMB 7, byddai monitro parhaus yn gallu cadarnhau unrhyw dueddiadau penodol.

Tra mai'r gobaith yw y bydd cynnydd pellach yn nifer yr unedau o'r fath sydd yn cael eu hadeiladu a'u caniatáu wrth i'r egwyddor polisi cael ei sefydlu a'i dderbyn ymhellach er mwyn cwrdd ag anghenion y cymunedau lleol, noder fod y polisi yn amlwg wedi cyfyngu ar ddatblygiadau hapfasnachol yn y lleoliadau sydd a'r problemau mwyaf dwys o ran y farchnad dai.

Bydd yn bwysig ystyried agweddau mewn perthynas â hybu mwy o ddatblygiadau tai marchnad lleol fel rhan o Gynllun newydd er mwyn sicrhau fod y polisi mor effeithiol â phosib o ran diwallu anghenion tai lleol.

Ni chredir fod angen unrhyw weithrediad ar hyn o bryd o safbwynt y dangosydd hwn. Byddai asesiad pellach o'r polisi hwn yn bwysig fel rhan o'r gwaith o baratoi Cynllun newydd. Yn hyn o beth byddai'n bwysig, er enghraifft, diweddaru'r sail dystiolaeth gan o bosib ystyried ffynonellau eraill o dystiolaeth yn ogystal. Mae angen cynnal ymchwil hefyd i ddeall y rhesymau dros y nifer isel o unedau marchnad leol sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio a'u datblygu gan gynnwys unrhyw agweddau newydd a rhwystrau sydd wedi eu hamlygu ers cyflwyno'r polisi. Rhaid sicrhau drwy hyn bod dystiolaeth gadarn i gefnogi polisi o'r fath yn y Cynllun newydd.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd: D53

Amcan:	SO15 & SO16	SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden anedlleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd. SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth

Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		Lefel sbardun:
		Deilliant:		
D53 Ceisiadau cynllunio ac apeliadau i ddiwygio neu gael gwared â chytundebau A106 neu amod ar gyfer tai marchnad leol	Cadw cytundebau 106 ac amodau i hyrwyddo adeiladu tai marchnad lleol yn unol â Pholisi TAI 5	AMB 1		Cais cynllunio neu benderfyniad apêl i ddiwygio neu gael gwared â chytundebau A106 neu amodau ar gyfer tai marchnad lleol yn cael eu cymeradwyo neu eu caniatáu (fel bo'n berthnasol) mewn unrhyw flwyddyn
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		<u>AMB 7</u>		

Dadansoddiad:

Nid oes yr un cais cynllunio neu benderfyniad apêl i ddiwygio neu gael gwared â chytundebau adran 106 neu amodau ar gyfer tai marchnad lleol wedi cael eu cymeradwyo neu eu caniatáu (yng nghyfnod yr AMB hwn nag ychwaith ers mabwysiadu'r Cynllun).

Yn unol â Deddf Cynllunio 1990 gellir apelio ymrwymiad cynllunio i'r Arolygaeth Cynllunio ar ôl 5 mlynedd ar sail nad oes rheswm cynllunio perthnasol ar ei gyfer. Cyn hynny fe ellir ail-negodi ymrwymadau cynllunio os yw'r awdurdod cynllunio lleol a'r datblygwr yn cytuno i hynny. Fodd bynnag o gofio bod unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer tŷ marchnad lleol yn seiliedig ar bolisi yn y CDLI ar y Cyd a fabwysiadwyd yn 2017, mae'n annhebygol iawn y byddai Awdurdod Cynllunio Lleol yn barod i ddiwygio neu gael gwared ag amod/chytundeb 106 sy'n ymwneud a chyfyngu eiddo i fod yn dŷ marchnad lleol.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd: D54

Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB1, dim angen parhau i'w fonitro.

Asesiad Marchnad Tai Lleol**Dangosydd: D55**

Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB 2, dim angen parhau i'w fonitro.

Llety ar Gyfer Sipsiwn a Theithwyr

Comisiynwyd ARC 4 i helpu i gynnal Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn 2022 (GTAA), cyflwynwyd yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2023.

Nododd y GTAA yr angen preswyl canlynol o fewn Gwynedd:

Awdurdod Lleol	Angen heb ei ddiwallu (5 mlynedd) i 2025	Angen heb ei ddiwallu (cyfnod y cynllun) i 2036 sy'n cynnwys targed 2025
Gwynedd	7	11

Ar gyfer anghenion tramwy daethpwyd i'r casgliad fod dim angen safle pellach yng Ngwynedd gan fod yna le stopio ar gael yng Nghaernarfon yn barod.

Gan na fydd Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei fabwysiadu tan ar ôl 2025 bydd yn rhaid cyflawni unrhyw angen a nodwyd erbyn 2025 drwy Bolisi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd TAI 19 'Safleoedd ar gyfer Lleiniau Parhaol neu Deithiol neu Dros Dro i Sipsiwn a Theithwyr'.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r GTAA, ond hyd at ddiwedd Mawrth 2025 tydy'r Cyngor heb ei gytuno / mabwysiadu eto. Mae'r Cyngor yn gweithio i gyfarch yr angen ychwanegol, ac yn parhau i fod mewn trafodaethau â tirfeddianwyr wrth edrych am safle addas.

Mae angen preswyl o 7 llain erbyn 2025 wedi'i nodi yn y GTAA, gan na fydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei fabwysiadu tan ar ôl 2025, bydd angen cyflwyno'r angen hwn trwy Bolisi TAI 19 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Dangosydd: D56

Dim angen adrodd ar y dangosydd gan ei fod yn benodol berthnasol i ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn.

Dangosydd: D57

Amcan: SO15 Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden anedlleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.

SO16 Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth:

Prif ganlyniadau:

- bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai;
- bydd y twf tai wedi cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â'r dosbarthiad gofodol;
- bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;
- bydd y galw am lecynnau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch.

Dangosydd:

Targed:

Polisi perthnasol:

PS1

Deiliant:

Lefel sbardun:

D57 Nifer o leiniau Sipsiwn ychwanegol a ddarperir ar estyniad i'r safle Sipsiwn presennol,

Darparu 5 llain ychwanegol ar estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw

AMB 1



AMB 2



Methiant i ddarparu 5 llain ychwanegol ar estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw Stad Ddiwydiannol

gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor	Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2017/ 2018	AMB 3	—	Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2017/ 2018
		AMB 4	—	
		AMB 5	—	
		AMB 6	—	
		AMB 7	—	
	Darparu cyfanswm cronnol o 10 llain ychwanegol ar estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2026			Methiant i ddarparu cyfanswm cronol o 10 llain ychwanegol ar estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2026

Dadansoddiad:

Mae 5 llain ychwanegol wedi'u darparu gyda chyfanswm o 12 llain barhaol bellach ar gael i Sipsiwn oedd i gyd wedi'u meddiannu ym mis Mawrth 2024.

Mae adroddiad GTAA 2022 yn nodi angen preswyl o 7 llain erbyn 2025 gyda 4 arall erbyn 2036. Mae darparu 5 llain ychwanegol yn ogystal ag uwchraddio'r lleiniau presennol ar safle Sipsiwn yn ystâd ddiwydiannol Llandygai yn golygu nad oes tir ychwanegol ar gael i ehangu'r safle hwn ymhellach. Gan na fydd Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei fabwysiadu tan ar ôl 2025, bydd yn rhaid darparu'r 7 llain sydd eu hangen erbyn 2025 trwy Bolisi TAI 19 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd: D58

Amcan:

SO15

Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddeleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.

	SO16	Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth: Prif ganlyniadau: - bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai; - bydd y twf tai wedi cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â'r dosbarthiad gofodol; - bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu; - bydd y galw am lecynnau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch.		
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		PS1
		Deilliant:		Lefel sbardun:
D58 Yr angen am lain ychwanegol wedi'i nodi mewn Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA)	Darparu nifer a math o leiniau i ymdrin â'r angen o nodwyd yn yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr erbyn diwedd 2026	AMB 1		Methiant i ddarparu nifer a math o lain ychwanegol i ymdrin â'r angen o nodwyd yn yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr erbyn diwedd 2026
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		<u>AMB 7</u>		
Dadansoddiad:				

Mae Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2022 yn nodi'r angen am safleoedd tramwy yn ardal Caernarfon yng Ngwynedd.

Ar gyfer cyfarch yr angen am safle dros dro o fewn ardal Caernarfon mae'r Cyngor wedi cytuno i ddefnyddio rhan bellaf o faes parcio Shell yng Nghaernarfon pan fo yna alw, efo cyfleusterau priodol yn cael eu darparu i'r Sipsiwn / Teithwyr.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd: D59

Amcan:	SO15	Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddeleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.
	SO16	Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth: Prif ganlyniadau: • bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai; • bydd y twf tai wedi cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â'r dosbarthiad gofodol; • bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu; • bydd y galw am lecynnau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch.

Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		PS1
		Deiliant:		Lefel sbardun:
D59 Nifer o wersylloedd Sipsiwn a Theithwyr diawdurdod yr adroddir arnynt yn	Monitro newidiadau yn yr angen am leiniau a chymharu â chyflenwad o leiniau yn y cyfnod rhwng yr	AMB 1		Nifer o wersylloedd a hyd yr arhosiad yn awgrymu angen am leiniau ychwanegol
		AMB 2		

flynyddol a hyd yr arhosiad	Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr	AMB 3	
		AMB 4	
		AMB 5	
		AMB 6	
		<u>AMB 7</u>	

Dadansoddiad:

Ni chafwyd unrhyw wersyll anawdurdodedig yn ystod y flwyddyn yma yng Ngwynedd.

O adolygu'r sefyllfa, nid oes dim yn peri pryder ar hyn o bryd.

Gweithred:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

6.5 Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig

Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol

Dangosydd: D60				
Amcan:	SO17	Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol.		
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol		PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4
		Deiliant:		Lefel sbardun:
D60 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy'n bwysig yn lleol	Cynnal neu wella gwerth bioamrywiaeth a geoamrywiaeth safleoedd sy'n bwysig yn lleol yn unol â Pholisi AMG 5 a Pholisi AMG 6	AMB 1		Caniatáu un cais yn groes i Bolisi AMG 5 neu Bolisi AMG 6.
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 5		
		AMB 6		
		<u>AMB 7</u>		
Dadansoddiad:				
Ar ôl archwilio'r ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt, nid yw'n ymddangos fod unrhyw ganiatâd cynllunio wedi ei gymeradwyo yn groes i bolisiâu AMG 5 ac AMG 6 yn ystod y cyfnod monitro.				
Ymddengys fod y polisiâu yn cael eu gweithredu'n effeithiol.				
Gweithred:				
Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.				

Dangosydd: D61			
Amcan:	SO17	Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol.	

Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol		PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4
		Deiliant:		Lefel sbardun:
D61 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n rhyngwladol neu ar safleoedd sy'n effeithio ar werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth y safleoedd a ddynodwyd	Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio sy'n niweidiol i werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n rhyngwladol	AMB 1		Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi PS 19
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		<u>AMB 7</u>		
Dadansoddiad:				
Cymeradwywyd cyfanswm o 2 cais cynllunio a oedd yn llwyr/rhannol o fewn safleoedd dynodedig cenedlaethol neu ryngwladol o werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth (h.y. Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchod Arbennig, Ramsar, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol). Dyma fanylion y 2 cais: - C24/0541/05/LL - Cais Cynllunio ôl-weithredol ar gyfer gosod gabions - Bwlch Bryn Caravan Park, Penrhyndeudraeth, Gwynedd, LL48 6RY - C24/0307/18/LL - Trwsio ffabrig allanol yr adeiladau, adfer to'r uned amlbwrpas sy'n cwmpo - Creu mannau ar gyfer canolfan blymio i'w defnyddio fel ystafelloedd addysgu, newid a gorffwys. Darparu mannau storio a sychu. Tynnu'r caban symudol presennol, a fydd yn cael ei symud yn dilyn y gwaith. Bydd y rhain o fewn yr uned amlbwrpas bresennol ac o fewn pod yn yr adeilad storio. - Darparu lloches / amddiffyniad ac o bosibl arddangos y peiriannau presennol a achubwyd o fewn y lloches chwyth. - Dehongli, gwasanaethau a gwaith gwella ecolegol perthnasol. - Parc Gwledig Padarn, Llanberis, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4TY Ni ystyriwyd fod unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd yn amharu ar werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth rhyngwladol/cenedlaethol y dynodiadau hyn. O ganlyniad, ystyrir fod pob caniatâd yn cydymffurfio â pholisi PS 19, a bod y polisi yn parhau i gael ei weithredu'n effeithiol.				
Gweithred:				
Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.				

Dangosydd: D62				
Amcan:	SO17	Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol.		
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol	PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4	
		Deiliant:	Lefel sbardun:	
D62 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar gyfer datblygiad mawr mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).	Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad mawr sy'n niweidiol i harddwch naturiol AHNE.	AMB 1		Caniatawyd un cais cynllunio yn groes i Bolisi PS 19 a Pholisi AMG 1
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		AMB 7		
Dadansoddiad:				
Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau cynllunio am ddatblygiad mawr o fewn yr ardaloedd AHNE yn ystod y cyfnod monitro.				
Gweithred:				
Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.				

Diogelu a Gwella Asedau Treftadaeth

Dangosydd: D63				
Amcan:	SO17	Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol.		
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol	PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4	
		Deiliant:	Lefel sbardun:	
D63 Nifer o geisiadau cynllunio	Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio	AMB 1		

a ganiateir mewn Ardaloedd cadwraeth a Safleoedd Treftadaeth y Byd sy'n effeithio ar eu gwerth hanesyddol neu ddiwylliannol	sy'n niweidiol i gymeriad ac edrychiad yr Ardal Gadwraeth neu Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd	<table border="1"> <tr><td>AMB 2</td><td></td></tr> <tr><td>AMB 3</td><td></td></tr> <tr><td>AMB 4</td><td></td></tr> <tr><td>AMB 5</td><td></td></tr> <tr><td>AMB 6</td><td></td></tr> <tr><td>AMB 7</td><td></td></tr> </table>	AMB 2		AMB 3		AMB 4		AMB 5		AMB 6		AMB 7		Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi PS 20 neu Bolisi AT 1
AMB 2															
AMB 3															
AMB 4															
AMB 5															
AMB 6															
AMB 7															
Dadansoddiad:															
Ni chymeradwywyd cais cynllunio o fewn STB 'Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward'. Cymeradwywyd 42 cais o fewn STB 'Dirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru', a chyfanswm o 43 cais cynllunio (llawn/amlinellol) o fewn Ardal Gadwraeth y Cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys gosod pypiau gwres, paneli solar, newid defnyddiau, tai annedd/fflatiau newydd, trosi adeiladau, ffenestri blaen newydd, ac estyniadau. Ystyrir fod y caniatadau hyn yn cydymffurfio â Pholisïau PS 20 ac AT 1 a bod y polisïau hyn yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol.															
Gweithred:															
Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.															

Dangosydd: D64													
Amcan:	SO17	Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd a'r amgylchedd hanesyddol											
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol	PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4										
		Deiliant:	Lefel sbardun:										
D64 - Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud ag Asedau Treftadaeth	Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud ag Asedau Treftadaeth o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun	<table border="1"> <tr><td>AMB 1</td><td></td></tr> <tr><td>AMB 2</td><td></td></tr> <tr><td>AMB 3</td><td></td></tr> <tr><td>AMB 3</td><td></td></tr> <tr><td>AMB 5</td><td></td></tr> </table>	AMB 1		AMB 2		AMB 3		AMB 3		AMB 5		Peidio mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun
AMB 1													
AMB 2													
AMB 3													
AMB 3													
AMB 5													

		AMB 6	
		<u>AMB 7</u>	

Dadansoddiad:

Mae'r gwaith cychwynnol yn ymwneud â pharatoi'r CCA wedi digwydd. Fodd bynnag, gyda chyhoeddiad NCT 24 (Yr Amgylchedd Hanesyddol) a nifer o gyhoeddiadau canllaw gan CADW, ystyrir nad oes bellach angen CCA penodol ar y mater hwn. Hefyd, bod y Canllaw Cynllunio Atodol: Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-Orllewin Cymru mabwysiedig yn amlinellu sut fyddai Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid yn rheoli'r Safle yn y dyfodol, drwy warchod ein treftadaeth a thrwy sicrhau datblygiad o ansawdd uchel a phriodol.

Gweithred:	

Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r angen i baratoi Canllaw wrth baratoi'r Cynllun newydd.

Rheoli Gwastraff

Dangosydd: D65				
Amcan:	SO18	Annog rheoli gwastraff wedi ei seilio ar hierarchaeth lleihau, ail-ddefnyddio, adfer a gwaredu diogel.		
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		GWA 1
		Deiliant:		Trothwy:
D65 - Faint o dir a chyfleusterau sydd eu hangen i ymdrin â gwastraff yn ardal y Cynllun	Cynnal digon o dir a chyfleusterau i ymdrin â gwastraff ardal y Cynllun (i'w gadarnhau ar lefel ranbarthol yn unol â threfniadau monitro gwastraff TAN 21)	AMB 1		Y trothwyon i gael eu sefydlu ar lefel ranbarthol yn unol â TAN21
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		<u>AMB 7</u>		
		Dadansoddiad:		

Yn seiliedig ar Adroddiad Monitro Gwastraff Gogledd Cymru, 2020, nid oes angen darparu cyfleuster tirlenwi newydd ar gyfer gwastraff nad yw'n beryglus neu sy'n anadweithiol yn rhanbarth Gogledd Cymru, a rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i'r posibilrwydd o gael gormod o ddarpariaeth wrth ymdrin â chynigion pellach i ddatblygu cyfleusterau trin gwastraff gweddilliol yn y rhanbarth.

Yn unol â gofynion TAN 21, rhaid cwblhau Adroddiadau Monitro Gwastraff er mwyn adnabod a oes capasiti digonol ar gyfer trin gwastraff a thirlenwi yn y rhanbarth; p'un a yw'r ddarpariaeth ofodol yn ddigon i ddiwallu'r angen; a ph'un a oes angen i awdurdodau cynllunio lleol weithredu camau angenrheidiol i ddiwallu unrhyw faterion nas ragwelwyd, ac i alluogi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol i ddarparu trosolwg strategol o dueddiadau yn y sector gwastraff i gyfrannu at y CDLI a darparu arweiniad wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio gwastraff.

Gweithredu:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Dangosydd: D66

Amcan: SO18 Annog rheoli gwastraff wedi ei seilio ar hierarchaeth lleihau, ail-dddefnyddio, adfer a gwaredu diogel.

Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		GWA 1
		Deilliant:		Trothwy:
D66 - Nifer y ceisiadau cynllunio am gyfleusterau rheoli gwastraff ar safleoedd cyflogaeth a nodir ym Mholisi GWA 1 a Pholisi CYF 1.	Cynnydd yn nifer y cyfleusterau rheoli gwastraff a ddarperir ar safleoedd cyflogaeth a nodir ym Mholisi GWA 1 a Pholisi CYF 1, o gymharu â'r nifer a ddarparwyd ar safleoedd cyflogaeth yn 2016/2017.	AMB 1		Dim ceisiadau cynllunio am gyfleusterau rheoli gwastraff ar safleoedd cyflogaeth a nodir ym Mholisi GWA 1 a Pholisi CYF 1.
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		<u>AMB 7</u>		

Dadansoddiad:

1 caniatâd newydd am cyfleuster rheoli gwastraff yn y cyfnod AMB yma.

Ystyrir bod Polisiâu CYF 1 a GWA 1 yn cael eu gweithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau'n parhau i fonitro'r dangosydd.

Gweithredu:

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.

Mwynau

Dangosydd: D67				
Amcan:	SO19	Diwallu anghenion mwynau'n lleol a rhanbarthol mewn ffordd gynaliadwy.		
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		PS 22, MWYN 6
		Deilliant:		Lefel sbardun:
D67 – Swm yr agregau cynradd a enillwyd o'r tir a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sydd ei angen fel y nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MNCT)	Cynnal cyflenwad o leiaf 10 mlynedd o gronfeydd agregau cerrig mâl drwy gydol cyfnod y Cynllun yn ardal y Cynllun yn unol â Pholisi PS 22.	AMB 1		Y cronfeydd agregau cerrig mâl yn disgyn islaw 12 mlynedd yn ardal y Cynllun
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		

		AMB 7		
Dadansoddiad:				
Ar ddiwedd 2016 roedd 42.94 miliwn o dunelli o gronfeydd wrth gefn a ganiateir ar gyfer creigiau mâl yn weddill, sydd ymhell dros y lefel trothwy (Ffynhonnell: Adroddiad Monitro Blynnyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru (2016)). Mae'r wybodaeth hyn yn seiliedig ar y dosraniad a amlinellir yn yr Ail Adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) sydd yn cael ei gynnal pob 5 mlynedd. Mae pob adolygiad o'r DTRh yn darparu mecanwaith er mwyn annog amcanion cynladwyedd cenedlaethol sydd angen ei gyflawni gan bob Awdurdod Lleol unigol o fewn y rhanbarth dros gyfnod o 25 mlynedd ar gyfer carreg fâl (sydd yn ddigonol er mwyn cyflawni gofynion NCTM1 o gyflawni banc tir o 10 mlynedd) yn ystod cyfnod 15 mlynedd y CDLI ar y Cyd. Mae'r ardaloedd a ffafir ar gyfer cerrig mâl ym Mholisi MWYN 2 o'r CDLI ar y Cyd yn fwy na'r lleiafswm sydd angen ei ddynodi ar gyfer cwrdd â'r ddarpariaeth angenrheidiol sydd wedi ei adnabod yn y Ail Datganiad Technegol Rhanbarthol.				
Gweithred:				
Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.				

Dangosydd: D68				
Amcan:	SO19	Diwallu anghenion mwynau'n lleol a rhanbarthol mewn ffordd gynaliadwy.		
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:	PS 22, MWYN 6	
		Deiliant:	Lefel sbardun:	
	Cynnal cyflenwad o leiaf 7 mlynedd o	AMB 1		

D68 – Cyflenwad tir tywod a graean yn ardal y Cynllun	dywod a graean drwy gydol cyfnod y Cynllun yn unol â Pholisi PS 22.	AMB 2		Y Cronfeydd tywod a graean yn disgyn islaw 9 mlynedd.
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		<u>AMB 7</u>		
Dadansoddiad:				
Roedd gan Ogledd Cymru oddeutu 15.70 miliwn o dunelli metrig o dywod a graean yn weddill ar ddiwedd 2016 (cyfraniad ardal y Cynllun tuag at y cyfanswm hwn yn 1.175 miliwn). Gan ddefnyddio cyfartaledd gwerthiant dros 10 mlynedd, fel yr argymhellir gan Lywodraeth Cymru yn eu llythyr egluro polisi CL-04-14 mae hyn yn gyfwerth â banc tir o 21.8 mlynedd. Mae'r wybodaeth hyn yn seiliedig ar y dosraniad a amlinellir yn yr Ail Adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) sydd yn cael ei gynnal pob 5 mlynedd. Mae pob adolygiad o'r DTRh yn darparu mecanwaith er mwyn annog amcanion cynladwyedd cenedlaethol sydd angen ei gyflawni gan bob Awdurdod Lleol unigol o fewn y rhanbarth dros gyfnod o 22 mlynedd, ar gyfer tywod a graean (sydd yn ddigonol er mwyn cyflawni gofynion NCTM1 o gyflawni banc tir o 7 mlynedd) yn ystod cyfnod 15 mlynedd y CDLI ar y Cyd. Tra bod y banc tir tywod a graean ar gyfer ardal y Cynllun yn is na'r trothwy 7 mlynedd, mae'r ardaloedd a ffafrir sydd wedi eu hadnabod ym Mholisi MWYN 2 o'r CDLI ar y Cyd yn fwy na'r lleiafswm sydd angen ei ddynodi ar gyfer cwrdd â'r ddarpariaeth angenrheidiol yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol.				
Gweithred:				
Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.				
Dangosydd: D69				

Amcan:	SO19	Diwallu anghenion mwynau'n lleol a rhanbarthol mewn ffordd gynaliadwy.		
Dangosydd:	Targed:	Polisi perthnasol:		PS 22, MWYN 6
		Deilliant:		Lefel sbardun:
D69 – Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir o fewn clustogfa mwynau	Dim caniatáu datblygiad o fewn clustogfa mwynau a fyddai'n arwain at sterileiddio'r adnodd mwynau, oni mai ei fod yn unol â Pholisi MWYN 5.	AMB 1		Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi MWYN 5.
		AMB 2		
		AMB 3		
		AMB 4		
		AMB 5		
		AMB 6		
		<u>AMB 7</u>		
Dadansoddiad:				
Rhoddwyd 13 o ganiatadau cynllunio ar safleoedd sydd o fewn glustogfa mwynau. Mae'r mathau o ganiatadau yn amrywio o fod yn ddatblygiadau yn gysylltiedig a cheisiadau deilydd tŷ, safleoedd twristiaeth sefydledig, datblygiad amaethyddol, datblygiadau ynni a cheisiadau yn gysylltiedig a safleoedd mwynau. Ni roddwyd caniatâd Cynllunio o fewn clustogfa mwynau sydd yn groes i Bolisi MWYN 5. Gan hynny ystyrir fod Polisi MWYN 5 yn cael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau yn parhau i fonitro'r dangosydd.				
Gweithred:				
Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn baratoi Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd.				

PENNOD 4: CASGLIADAU AG ARGYMHELLION

- 4.1 Fel gyda AMBau blaenorol, bydd AMB7 yn darparu'r dystiolaeth ar gyfer y dangosyddion er mwyn galluogi'r Cyngor i gymharu gwybodaeth yn y dyfodol ac i adnabod unrhyw dueddiadau. Mi fydd AMB7 ynghyd a'r AMB blaenorol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd.
- 4.2 Ar y cyfan fe ystyrir bod cynnydd da yn cael ei wneud o ran cyflawni'r targedau a amlinellwyd yn y fframwaith monitro. Ble nad yw targedau wedi eu cwrdd, mae hyn ar sail ffactorau sydd i raddau helaeth y tu allan i reolaeth y CDLI ar y Cyd. Fel sydd wedi ei nodi uchod, bydd yn rhaid ystyried y ffactorau hyn wrth baratoi Cynlluniau newydd. Er bod yna faterion lle mae angen gwaith pellach a bod angen edrych eto ar y polisiâu mae rhaid dilyn y broses statudol o baratoi Cynllun newydd a chasglu sail tystiolaeth gadarn i gefnogi unrhyw newidiadau i bolisi.
- 4.3 Mae'r nifer o dai sydd wedi cael ei gwblhau yn ardal y Cynllun ers dyddiad cychwyn y Cynllun (2011) yn is na'r ffigwr disgwyledig. Mae nifer o rhesymau am hyn gan gynnwys, twf economaidd ddim wedi bod ar y raddfa ddisgwyledig, dydi prosiectau isadeiledd ar raddfa mawr ddim wedi dod yn ei flaen, ac o ganlyniad i'r pandemig a olygir fod y galw am dai mewn rhai ardaloedd o'r Cynllun ddim wedi bod ar y raddfa ddisgwyledig.
- 4.4 Rhoddwyd caniatâd am 75 o unedau tai fforddiadwy yn ystod 2024-25. Cwblhawyd 617 o unedau tai fforddiadwy yn ystod y cyfnod 2017-25. Cwblhawyd 140 o unedau tai fforddiadwy yn ystod y cyfnod yr AMB hwn yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd sydd yn gynydd sylweddol o'i gymharu o'r flwyddyn flaenorol. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys tai sy'n fforddiadwy yn sgil eu lleoliad a'u maint, fel y gallai fod yn wir mewn rhai ardaloedd yn ardal y Cynllun ac felly mae'r ddarpariaeth o dai sy'n fforddiadwy yn debygol o fod yn uwch na'r ffigwr hwn. O'r unedau a gafodd ganiatâd am y tro cyntaf a'u cwblhau ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu, mae canran y tai fforddiadwy tua 52%. Mae hyn yn golygu bod caniatadau newydd o dan y Cynllun hyd yma wedi darparu canran uchel o dai fforddiadwy, gan sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu cwrdd, mae hyn yn helpu i gynnal yr iaith o fewn ardal y Cynllun.
- 4.5 Ar y cyfan mae'r dangosyddion o fewn y fframwaith monitro yn perfformio yn unol â'r disgwyliadau o dan yr amgylchiadau. Ble nad yw targedau polisi yn cael eu cwrdd, mae hyn, ar y cyfan, yn seiliedig ar ffactorau sydd y tu allan i reolaeth y CDLI ar y Cyd. Ble na fo targedau polisi eraill yn cael eu cyflawni, nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch gweithredu'r polisi. Bydd y materion hyn yn cael eu hystyried wrth i'r Cyngor baratoi'r sail tystiolaeth ar gyfer ei Gynllun Datblygu Lleol newydd. Er y newidiadau cyd-destunol, fe ystyrir fod polisiâu'r CDLI ar y Cyd yn parhau'n berthnasol ac yn darparu fframwaith gynllunio gadarn ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio ar draws ardal y Cynllun. Mae'r pwyntiau isod yn amlygu sut mae'r Cynllun yn parhau i gyflawni er budd yr ardal:
- Nodir nad oes unrhyw un o'r polisiâu yn methu a chyflawni amcanion y Cynllun. Fodd bynnag, nodir fod 13 dangosydd yn adnabod fod y polisi ddim yn cael ei weithredu mor effeithiol a ddisgwyliwyd. Mae'r rhan helaeth o'r dangosyddion hyn yn ymwneud a methu a chyrraedd y twf disgwyledig, e.e. tir cyflogaeth, ynni adnewyddol a lefel twf tai. Fel y nodir yn yr AMB, mae'r methiant hyn oherwydd ffactorau sydd y tu allan i rheolaeth y CDLI.
 - Cafodd 4 cais ei wrthod yn rhannol oherwydd materion ieithyddol a chafodd 24 cais ganiatâd efo amod cynllunio ar gyfer mesurau lliniaru ieithyddol.
 - Mae rhai datblygiadau yr adroddwyd arnynt yn benderfyniadau a wnaed cyn mabwysiadu'r Cynllun ar y Cyd.

- Ar y cyfan mae penderfyniadau apêl ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi cefnogi polisiau a strategaeth y cynllun. Nid yw'r penderfyniadau apêl sydd wedi'u caniatáu yn tanseilio polisiau y CDLI ar y Cyd. Fodd bynnag mae yna benderfyniadau diweddar wedi ei derbyn sydd yn amlygu materion a fydd angen rhoddi ystyriaeth ofalus iddynt lunio polisiau penodol yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd.
 - Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 173 o unedau preswyl newydd (gan gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau presennol i ben) yn ystod 2024-25. Roedd 75 uned (43.4%) ar gyfer tai fforddiadwy.
 - Mae 140 o unedau tai fforddiadwy wedi'u cwblhau yn 2024-25.
 - Roedd y banc tir ar gyfer tai (safleoedd â chaniatâd presennol) yn 2025 yng Ngwynedd gan eithrio unedau mae'r CDLI wedi nodi sydd yn annhebygol o gael eu datblygu yn ystod oes y Cynllun yn 811 o unedau (489 heb ddechrau a 322 yn cael eu hadeiladu) ac roedd 299 ohonynt ar gyfer unedau fforddiadwy (187 o unedau heb ddechrau a 112 uned wrthi yn cael eu hadeiladu).
 - Nodir bod 2687 o unedau wedi'u cwblhau yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd rhwng y dyddiad sail (2011) a 2024/25, tra bod y taflwybr yn y Cynllun yn nodi ffigwr o 3487 o unedau hyd at y cyfnod hwn. Felly, mae hyn 22.9% (800 uned) yn is na'r ffigur yn y taflwybr. Mae taflwybr diwygiedig wedi ei baratoi ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig ar sail gwybodaeth hyd at ddiwedd cyfnod AMB 7.
 - Nid oes unrhyw geisiadau cynllunio na phenderfyniadau apêl i addasu neu ddileu cytundebau neu amodau S106 ar gyfer tai marchnad leol wedi'u cymeradwyo na'u caniatáu (yn ystod y cyfnod AMB hwn nac ers mabwysiadu'r Cynllun).
 - Mae cynigion ar gyfer datblygu cyflogaeth newydd ar safleoedd sydd wedi ei ddiogelu wedi'u cefnogi gan y polisiau yn y Cynllun ar y Cyd.
 - Ar y cyfan mae'r dangosyddion a gynhwysir o fewn y fframwaith monitro yn perfformio yn unol â'r disgwyliadau, lle nad ydynt yn cael eu cyflawni nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu polisi.
- 4.6 Bydd y CDLI ar y Cyd yn parhau i gael ei fonitro'n unol â'r fframwaith monitro a nodwyd ym Mhennod 7 y CDLI ar y Cyd. Bydd ystyriaeth llawn yn cael ei rhoi i casgliadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol wrth baratoi'r sail tystiolaeth fydd yn cefnogi polisiau y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Bydd ystyriaeth llawn yn cael ei rhoi i gasgliadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol wrth baratoi'r sail tystiolaeth fydd yn cefnogi polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol newydd.

Atodiad 1: Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

1. MONITRO'R ARFARNIAD CYNALIADWYEDD

- 1.1 Roedd y CDLI ar y Cyd yn ddarostyngedig i Arfarniad Cynaliadwyedd (AC), yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) fel proses iterus drwy gydol y broses o baratoi'r cynllun. Bu i'r AC ymgorffori'r gofynion ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol o dan Gyfarwyddeb yr UE 2001/42/EC. Diben yr AC oedd arfarnu effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd tebygol y Cynllun, er mwyn sicrhau eu bod yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Bu i AC y CDLI ar y Cyd adnabod 11 o amcanion a 29 o ddangosyddion sydd wedi'u bwriadu i fesur effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Cynllun.
- 1.2 Dylid nodi mai rhagarweiniol oedd y rhaglen fonitro a gynhwyswyd yn yr Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd a'i bod wedi tynnu sylw at ddangosyddion posib yn unig. Canfu'r broses monitro bod cyfle i wella'r dasg o fonitro'r AC i sicrhau bod data priodol yn cael ei gasglu. Er nad oes yr un dangosydd yn cael ei ddileu, dylid nodi bod y dadansoddiad yn nodi'n glir lle nad yw gwybodaeth ar gael ac/neu yn amherthnasol. Mewn rhai achosion, nid oes gwybodaeth ar gael mwyach (neu nid yw'n berthnasol); mewn achosion eraill, nid yw'r data sydd ar gael yn ddigon manwl fel y gellir monitro'n ddefnyddiol.
- 1.3 Mae nifer o Ddangosyddion AC lle nad yw gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi'n flynyddol, er enghraifft, y rhai sy'n seiliedig ar y cyfrifiad. Mae goblygiadau'r pandemig Cofid hefyd wedi golygu nad yw rhai mathau o wybodaeth wedi bod ar gael. Diben y fframwaith monitro yw adolygu newidiadau yn flynyddol, ac o ganlyniad nid yw'r rhain, o reidrwydd, am fod yn ddefnyddiol wrth symud ymlaen o ran monitro yn y dyfodol. Fodd bynnag, maent wedi'u cadw er mwyn darparu gwaelodlin, gwneir gwaith pellach mewn pryd ar gyfer yr AMB nesaf i bennu p'un a oes ffynonellau gwybodaeth amgen ar gael.
- 1.4 Dylid nodi nad yw'r system goleuadau traffig a ddefnyddiwyd ar gyfer Dangosyddion Monitro'r CDLI wedi'u defnyddio wrth Fonitro'r AC. Mae nifer o'r amcanion AC o natur ddyheadol ac i raddau mae'n wybodaeth fyddai'n cael ei monitro mewn sefyllfa ddelfrydol. Yn ogystal, nid y CDLI ei hun fyddai'r unig ffactor i'w ystyried wrth gyflawni'r nodau. Nid yw'r Monitro AC yn cynnwys Targedau fel y cyfryw, yn wahanol i Fonitro'r CDLI, felly byddai'n anodd dehongli'r sylwadau mewn system sgorio goleuadau traffig.
- 1.5 Gan mai hon yw'r pumed Adroddiad Monitro Blynnyddol, bydd y ffocws ar asesu'r newidiadau sydd wedi digwydd i bob dangosydd AC ers y pedwerydd AMB y CDLI. Mae'r data a gasglwyd yn cynnwys cymysgedd o ddata ansoddol a meintiol ac mae sylwadau i'w cael o dan bob amcan AC sy'n disgrifio'r cynnydd. Mae pob Amcan AC yn cael ei asesu yn erbyn y dangosyddion monitro perthnasol, ac mae'r casgliadau wedi'u nodi yn y rhannau isod. Mae'r lliwiau isod wedi'u defnyddio i roi crynodeb cyffredinol o'r canfyddiadau ar gyfer pob dangosydd:

Lliw	Effaith
✓	Effeithiau positif
+/-	Effeithiau cymysg
x	Effeithiau negyddol
0	Niwtral / Data ddim ar gael

Crynodeb Monitro AC

- 1.6 Mae Tabl 1 yn nodi asesiad cryno o ganlyniadau'r Monitro Arfarniad Cynaliadwyedd. Cynhwysir crynodeb o'r canlyniadau hyn ym mharagraff 1.7.

Tabl 1: Monitro Arfarniad Cynaliadwyedd – Crynodeb		
	Amcanion	Canlyniad
1	Cynnal a mwyhau buddion a chysylltedd bioamrywiaeth	✓
2	Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniant, ac iechyd a lles cymunedol	0
3	Rheoli a lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu	✓
4	Cadw, hyrwyddo a gwella'r iaith Gymraeg	x
5	Cadw, hyrwyddo a gwella adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol	✓
6	Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth leol	✓
7	Darparu tai o ansawdd da, yn cynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni angen lleol	✓
8	Gwerthfawrogi, cadw a gwella tirweddau gwledig a threfweddau ardal y cynllun	✓
9	Defnyddio'r tir ac asedau mwynol yn effeithlon a hyrwyddo mecanweithiau ar gyfer lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff	✓
10	Cefnogi a gwella cysylltiadau trafnidiaeth da i gefnogi'r gymuned a'r economi	✓
11	Diogelu ansawdd dŵr, rheoli cynaliadwyedd adnoddau dŵr a lleihau'r risg o lifogydd	✓

Crynodeb o'r Canlyniadau

- 1.7 Mae canlyniadau'r monitro Arfarniad Cynaliadwyedd yn nodi, o'r 11 Amcan Cynaliadwyedd, nodwyd effeithiau cadarnhaol ar gyfer 9 amcan, effeithiau niwtral ar gyfer 1 amcan efo 1 amcan gydag effaith negyddol. Dengys y tabl bod cynnydd yn cael ei wneud, wrth gydbwyso popeth, gyda mwyafrif yr amcanion cynaliadwyedd a nodwyd, yn erbyn yr amrediad o ddangosyddion monitro ar gyfer yr amcan penodol. Mae'r tablau canlynol yn cynnwys dadansoddiad manwl o berfformiad y dangosyddion:

Amcan AC 1: Bioamrywiaeth				
Dangosydd AC	Targed	Gwaelodlin/Data Blaenorol	Data Diweddar	Perfformiad
1) Colled bioamrywiaeth drwy ddatblygiad sy'n cael ei fesur drwy golled neu ardrawiad i safleoedd rhyngwladol (h.y. Natura 2000), safleoedd cenedlaethol (e.e. SoDdGA) a safleoedd lleol yn ardal y CDLI.	Gostyngiad	2023/2024	Gweler esboniad isod	✓
2) Gwir golled bioamrywiaeth yn ardal y Cynllun oherwydd datblygiad.	Cynnydd	-	Gweler esboniad isod	0
3) % o nodweddion (gwahanol fathau) mewn cyflwr ffafriol, gan gynnwys nodweddion ar y tir ac ar y môr	Cynnydd	2021/2022	Gweler esboniad isod	0
4) Llwyddiant amcanion a thargedau BAP (DU a gwledydd penodol/rhanbarthol/ lleol)	Cynnydd	-	Gweler esboniad isod	0
5) Tueddiadau a statws NERC 2006, Rhan 42 rhywogaethau / cynefinoedd.	Gwelliant	-	Gweler esboniad isod	0
6) Nifer ac arwynebedd SINCS a GNL o fewn y Cynllun.	Cynnal/Cynnydd	2019/2020	Gweler esboniad isod	✓
Esboniad / Dadansoddiad				
1) Cymeradwywyd cyfanswm o 5 cais cynllunio a oedd yn llwyr/rhannol o fewn safleoedd dynodedig cenedlaethol neu ryngwladol o werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth (h.y. Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchod Arbennig, Ramsar, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol); roedd y rhain fel a ganlyn: C24/0179/04/TR – Ail godi llinell 11kv sengl – awgrymwyd CNC amodau i sicrhau bod unrhyw effeithiau posibl ar ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid a SoDdGA Afon Fyfrdwy yn cael ei lliniaru.				

- C24/0904/39/LL – Codi adeilad amaethyddol ar iard fferm presennol. Roedd gan CNC bryderon y gallai'r datblygiad effeithio ar AGA Mynydd Cilian, Trwyn y Wylfa ac Ynysoedd Sant a SoDdGA Porth Ceiriad, Porth Neigel ac Ynysoedd Sant Tudwal ond roedd o'r farn na fyddai'n cael effaith andwyol pe bai'r datblygiad yn cael ei gwblhau yn unol â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddiaeth) (Cymru).
 - C24/0830/25/CC – Gwaith Coed - awgrymwyd CNC amodau i sicrhau bod unrhyw effeithiau posibl ar SoDdGA Coedydd Afon Menai yn cael ei lliniaru.
 - C24/0307/18/LL – Trosi adeilad ar gyfer defnydd economic/twristiaeth. Dywedodd CNC nad oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiad gan ei fod yn ystyried na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn effeithio'n debygol ar SoDdGA Coed Dinorwig a SoDdGA Llyn Padarn.
 - C24/0541/05/LL – Cais ôl-weithredol i osod gabions. Dywedodd CNC nad oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiad gan ei fod yn ystyried na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn effeithio'n debygol ar SoDdGA Ysity Bron y Garth.
- 2) Er nad yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod oherwydd diffyg adnoddau, mae polisïau o fewn y CDLI yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei warchod.
 - 3) Dim data mwy diweddar er yr AMB blaenorol. Dim ond ar gyfer ACA ac AGA y mae'r wybodaeth ar gael ac mae'r canlyniadau fel a ganlyn:
 - ACA - 40% (8 o'r 20 ACA sydd wedi'u lleoli neu wedi'u lleoli'n rhannol yn ardal y CDLI) o ardal yr holl nodweddion mewn cyflwr 'ffafriol';
 - ACA - 89% (8 o'r 9 AGA sydd wedi'u lleoli neu wedi'u lleoli'n rhannol yn ardal y CDLI) o'r holl nodweddion mewn cyflwr 'ffafriol'.
 - 4) Dim gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd gan nad yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod oherwydd diffyg adnoddau.
 - 5) Dim gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd gan nad yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod oherwydd diffyg adnoddau.
 - 6) Dim newid ers yr AMB blaenorol:
 - 392 (7115HA) Safleoedd Bywyd Gwyllt wedi'u cadarnhau (Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur)
 - 13 (3137HA) Gwarchodfa Natur Leol

Amcan AC 2: Cymuned a Iechyd				
Dangosydd AC	Targed	Gwaelodlin/Data Blaenorol	Data Diweddar	Perfformiad
1) % cyfanswm poblogaeth gyda mynediad at wasanaethau allweddol.	Cynnydd	-	Data ddim ar gael	0
2) Mesurau iechyd sy'n gysylltiedig â ffordd o	Gwelliant	-	Data ddim ar gael	0

fyw (e.e. gorbwysedd) – Arolwg Iechyd Cymru.				
Esboniad / Dadansoddiad				
1) Nid yw'r data ar gael ar lefel Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Parhau i fonitro'r dangosydd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol. 2) Nid yw'r data ar gael ar lefel Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Parhau i fonitro'r dangosydd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol				

Amcan AC 3: Newid Hinsawdd						
Dangosydd AC	Targed	Gwaelodlin/Data Blaenorol	Data Diweddar	Perfformiad		
% newid mewn allyriad carbon deuocsid gan ddiwydiant /masnach, domestig, trafnidiaeth ffordd a’r sector coedwigaeth.	Gostyngiad	2018/19	Gweler esboniad isod	✓		
Esboniad / Dadansoddiad						
Nid oes diweddariad wedi bod yn yr ystadegau ers yr AMB blaenorol.						
Mae’r tablau canlynol yn dangos amcangyfrifon allyriadau CO2 (KtCO2) ym mhob un o’r 5 sector yng Ngwynedd ers 2018:						
Gwynedd						
	2018	2019	2020	2021	2022	2023
Diwydiannol	49.6	46.9	44.4	50.2	49.5	44.5
Masnachol	59.6	49.3	40.2	48.2	46.7	41.0
Domestig	198.1	189.5	183.3	184.1	151.8	147.8
Trafnidiaeth	277.1	269.9	212.4	227.2	230.0	232.6
Coedwigaeth a Newid Defnydd Tir	-142.6	-145.7	-150.1	-152.4	-153.7	-154.1
(Ffynhonnell: Adran Diogelwch Ynni a Net Sero)						
Fel a welir o’r tabl uchod, gwelwyd gostyngiad yn allyriadau carbon o fewn yr holl sectorau ers 2018.						

Amcan AC 4: Iaith Gymraeg				
Dangosydd AC	Targed	Gwaelodlin/Data Blaenorol	Data Diweddar	Perfformiad

Nifer/ % siaradwyr Cymraeg	Cynnydd	Blwyddyn yn gorffen Rhagfyr 2021	Cyfrifiad 2021	X
Esboniad / Dadansoddiad				
Mae Polisi PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig, yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg. Nod Polisiâu PS 1, PS 5 a PS 6 yw integreiddio 'datblygiadau cynaliadwy' yn y broses ddatblygu, er mwyn cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy. Mae 'Adroddiad Blynyddol o'r boblogaeth' sydd yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg gan yr ONS yn cael ei gyhoeddi yn chwarterol, sail hwn yw data o arolwg. Y ffigyrau diweddaraf yw Rhagfyr 2024 sydd yn datgan fod yna 891,800 o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Ar gyfer Gwynedd mae'n datgan fod yna 92,500 yn gallu siarad Cymraeg sef 76% o boblogaeth y Sir. Fodd bynnag o ganlyniad i ffigyrau yng Nghyfrifiad 2021 (538,300 o Siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, a 73,560 sef 64.4% yng Ngwynedd) ar wahaniaeth rhwng hwn ar ffigyrau yn yr Adroddiad Blynyddol mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith i ddarganfod pam fod yna wahaniaeth rhwng y ffigyrau yma. Mae blog y Prif Ystadegydd (25 Ebrill 2023) yn datgan "...wastad wedi bod yn glir ein bod yn ystyried y cyfrifiad fel y ffynhonnell wybodaeth awdurdodol am nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru...". Yn bellach mae'n datgan "...Mae sawl ffynhonnell ddata arall ar gael sy'n rhoi ychydig o wybodaeth am y Gymraeg y gallwn ei defnyddio i fonitro tueddiadau yn y cyfnod rhwng cyfrifiadau. Mae gan y ffynonellau hyn eu cryfderau a'u cyfyngiadau eu hunain o ran ystadegau ar y Gymraeg...". Arolwg o'r Llafurlu yw sail i'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Er bod arolygon aelwydydd fel arfer yn rhoi amcangyfrifon uwch i ni o allu i siarad Cymraeg, yn gyffredinol maent wedi symud i gyfeiriad tebyg i amcangyfrifon y cyfrifiad. Fodd bynnag, gyda canlyniadau Cyfrifiad 2021, dyma'r tro cyntaf i'r cyfrifiad amcangyfrif bod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng a'r arolygon cartrefi amcangyfrif bod y niferoedd wedi cynyddu. Oherwydd yr ystod o ffynonellau data sydd ar gael, nid yw'n syml i ddefnyddwyr ystadegau am allu yn y Gymraeg gysoni'r gwahanol amcangyfrifon, yn enwedig gan fod rhai amcangyfrifon yn dangos cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg ac eraill yn dangos bod y niferoedd yn gostwng. Gall hyn ei gwneud yn heriol gwybod sut i ddefnyddio'r ystadegau hyn i lywio polisi cyhoeddus iaith Gymraeg. O fewn Adroddiad 'Gwahaniaethau rhwng amcangyfrifon o allu yn y Gymraeg yng Nghyfrifiad 2021 ac arolygon aelwydydd' y prif bwyntiau oedd: - O'r bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn yr Arolwg o'r Llafurlu neu Gyfrifiad 2021, y grwpiau canlynol oedd yn tueddu i gytuno ar draws y ddwy ffynhonnell fwyaf aml: pobl 65 oed neu hŷn; pobl sy'n byw yn y gogledd orllewin; pobl a anwyd yng Nghymru; a phobl â hunaniaeth genedlaethol Gymreig. - O'r bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn yr Arolwg o'r Llafurlu neu Gyfrifiad 2021, y grwpiau canlynol oedd yn tueddu i anghytuno ar draws y ddwy ffynhonnell fwyaf aml: pobl iau na 25 oed; pobl sy'n byw yn y de ddwyrain a'r gogledd ddwyrain; pobl a anwyd mewn mannau eraill o'r DU; a phobl heb hunaniaeth genedlaethol Gymreig. - O'r bobl oedd yn cytuno y gallent siarad Cymraeg ar y ddwy ffynhonnell, nododd dros ddwy ran o dair (68.6%) eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd. O'r bobl a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn yr Arolwg o'r Llafurlu ond nid yng Nghyfrifiad 2021, dim ond tua chwarter (24.8%) oedd yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd.				

- Mae cyfran lai o aelwydydd cwpl yn cytuno ar eu gallu i siarad Cymraeg rhwng y ddwy ffynhonnell lle nad oes yr un, neu ddim ond un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg o'i gymharu ag aelwydydd cwpl sy'n cynnwys dau neu fwy o oedolion sy'n gallu siarad Cymraeg.

Felly ar sail hyn i gyd ni chredir y dylid rhoi unrhyw bwysau i'r cynnydd yn y nifer o siaradwyr Cymraeg a welir yng Ngwynedd o fewn 'Adroddiad Blyneddol o'r boblogaeth' Rhagfyr 2024.

Yn AMB 5 fe edrychwyd ar y newidiadau o fewn gwahanol gymdogaethau Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) gan nodi fod yna nifer o ffactorau yn effeithio ar y newidiadau rhwng 2011 a 2021 yn y canran ar nifer o siaradwyr Cymraeg ynddynt.

Mae rhai ardaloedd wedi gweld cynnydd yn y canran ar nifer o siaradwyr efo datblygiadau eithaf mawr breswyl, eraill wedi gweld cynnydd yn y nifer ond gostyngiad yn y canran.

Mae rhai ardaloedd wedi gweld cynnydd yn y canran er bod gostyngiad yn y nifer o siaradwyr Cymraeg, mae hyn ar sail gostyngiad uwch yn y nifer di-gymraeg. I rai cymdogaethau gall hyn fod ar sail colled o unedau o'r stoc dai i ddefnydd fel ail gartrefi / llety gwyliau.

Yn nifer o'r cymdogaethau sydd wedi gweld y lleihad mwyaf o ran canran y siaradwyr Cymraeg ychydig iawn o dwf tai newydd sydd wedi bod trwy'r Cynllun Datblygu ar y Cyd.

Mae elfen fawr o'r newidiadau sydd yn effeithio ar ardaloedd y Cynllun yn dod allan o newidiadau i'r stoc dai presennol.

Am fwy o fanylder ar faterion iaith gweler dangosyddion yr Iaith Gymraeg ym Mhennod 3.

Amcan AC 5: Treftadaeth / Diwylliant				
Dangosydd AC	Targed	Gwaelodlin/Data Blaenorol	Data Diweddar	Perfformiad
Nifer o asedau hanesyddol dan risg / newid yn y nifer dan risg	Gostyngiad	2023/2024	Gweler esboniad isod	✓
Esboniad / Dadansoddiad				
Ar hyn o bryd, nid yw data sy'n ymwneud â nifer o asedau hanesyddol dan risg / newid yn y nifer dan risg ar gael ar lefel Awdurdod Lleol. Ni roddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer ceisiadau oedd yn groes i bolisiau PS 20 ac AT 1 yn ystod y cyfnod monitro. Cymeradwywyd 48 o geisiadau cynllunio o fewn Tirwedd Llechi Safle Treftadaeth y Byd Gogledd Cymru a chymeradwywyd 1 cais o fewn Safle Treftadaeth y Byd Castell a Muriau Caernarfon. Cymeradwywyd cyfanswm o 68 o geisiadau cynllunio o fewn Ardaloedd Cadwraeth y Cynllun o gymharu â 96 yn y cyfnod AMB diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys trosi adeiladau, anecsau, newid defnydd, addasiadau ac estyniadau a gwaith coed. Ystyrir bod y caniatadau hyn yn cydymffurfio â Pholisiau PS 20 ac AT 1 a bod y polisiau hyn yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol.				

Amcan AC 6: Economi a Chyflogaeth

Dangosydd AC	Targed	Gwaelodlin/Data Blaenorol	Data Diweddar	Perfformiad
1) Actifedd economaidd fesul sector	Cynnydd	2023/2024	Gweler esboniad isod	✓
2) Statws cyflogaeth preswylwyr dros 16 mlwydd oed.	Cynnydd	2023/2024	Gweler esboniad isod	✓
3) Nifer o bobl yn cymudo i fewn ac allan o ardaloedd awdurdodedig.	Gostyngiad	2023/2024	Gweler esboniad isod	+/-

Esboniad / Dadansoddiad

1 + 2) Dengys ystadegau y bu cynnydd mewn gweithgaredd economaidd a chyfradd cyflogaeth yn ardaloedd Awdurdod Lleol Gwynedd rhwng Mawrth 2024 ac Medi 2024 fel y gwelir yn y tabl isod.

Arolwg o'r Gweithlu Lleol: Crynodeb o weithgarwch economaidd (16-64)

	Blwyddyn yn dod i ben mis March 2021	Blwyddyn yn dod i ben mis Mawrth 2022	Blwyddyn yn dod i ben mis Mawrth 2023	Blwyddyn yn dod i ben mis Mawrth 2024	Blwyddyn yn dod i ben mis Medi 2024
Ynys Môn	78.8%	74.1%	79.6%	Dim yn monitro	Dim yn monitro
Gwynedd	77.9%	75.9%	77.7%	73.7 %	76.7% (+3%)
Cymru	76.6%	75.6%	75.5%	76.2%	75.1% (-1.1%)

Tarddiad: Stats Cymru - Cyfradd Gweithgarwch Economaidd (16-64) yn ôl Ardal Leol a'r Flwyddyn yng Nghymru

3) Dengys ystadegau fod cynnydd wedi bod yn nifer y bobl sy'n cymudo allan o Wynedd ac Ynys Môn yn 2024. Tra bu cynnydd yn nifer y bobl sy'n cymudo i Wynedd mae nifer y bobl sy'n cymudo i Ynys Môn wedi aros yn gyson ers 2022 fel y gwelir yn y tablau isod. Parhau i fonitro'r dangosydd.

Patrymau Cymudo fesul Awdurdodau Lleol yng Nghymru

Blwyddyn	Ynys Môn	Gwynedd	Cymru
Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2018	10,200	8,600	95,400
Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2019	10,500	8,700	98,500

Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2020	9,800	8,000	100,300
Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2021	7,800	5,700	92,100
Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2022	6,900	7,100	78,500
Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2023	8,400	6,800	81,800
Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2024	8,300	7,300	92,600

Ffynhonnell: Stats Cymru

Blwyddyn	Ynys Môn	Gwynedd	Cymru
Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn i'r awdurdod 2018	4,200	12,500	47,000
Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn i'r awdurdod 2019	4,500	12,200	42,700
Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn i'r awdurdod 2020	4,300	13,300	48,400
Number of people commuting into the area 2021	1,900	10,100	34,900
Number of people commuting into the area 2022	3,000	7,300	32,500

Number of people commuting into the area 2023	3,000	8,900	31,600
Number of people commuting into the area 2024	3,000	11,200	37,400

Ffynhonnell: Stats Cymru

Amcan AC 7: Tai																																								
Dangosydd AC	Targed	Gwaelodlin/Data Blaenorol	Data Diweddar	Perfformiad																																				
Nifer o unedau tai fforddiadwy sy'n cael ei ddarparu bob blwyddyn fel canran o'r holl unedau.	Cynnydd	2023-24	Gweler esboniad isod	✓																																				
Esboniad / Dadansoddiad																																								
Mae'r tabl isod yn cymharu'r ganran o dai fforddiadwy a gwblhawyd ers mabwysiadu'r cynllun (Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn unig): <table><tr><th>Blwyddyn</th><th>Unedau tai fforddiadwy a gwblhawyd</th><th>Cyfanswm yr unedau tai a gwblhawyd</th><th>Unedau fforddiadwy fel canran o gyfanswm y tai a gwblhawyd</th></tr><tr><td>2017-18</td><td>31</td><td>208</td><td>14.9%</td></tr><tr><td>2018-19</td><td>118</td><td>281</td><td>42.0%</td></tr><tr><td>2019-20*</td><td>102</td><td>245</td><td>41.6%</td></tr><tr><td>2020-21*</td><td>36</td><td>135</td><td>26.7%</td></tr><tr><td>2021-22</td><td>74</td><td>169</td><td>43.8%</td></tr><tr><td>2022-23</td><td>58</td><td>107</td><td>54.2%</td></tr><tr><td>2023-24</td><td>67</td><td>137</td><td>48.9%</td></tr><tr><td>2024-25</td><td>140</td><td>212</td><td>66.0%</td></tr></table> <i>*Nodir oherwydd cyfyngiadau pandemig coronafirws, nid oedd yn bosib ymweld â phob safle dros y cyfnod hwn.</i> Mae cynnydd yn y nifer o unedau tai fforddiadwy a'u cwblhawyd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac hefyd o ran y ganran o dai fforddiadwy fel cyfanswm y tai a gwblhawyd. Mae'r targed					Blwyddyn	Unedau tai fforddiadwy a gwblhawyd	Cyfanswm yr unedau tai a gwblhawyd	Unedau fforddiadwy fel canran o gyfanswm y tai a gwblhawyd	2017-18	31	208	14.9%	2018-19	118	281	42.0%	2019-20*	102	245	41.6%	2020-21*	36	135	26.7%	2021-22	74	169	43.8%	2022-23	58	107	54.2%	2023-24	67	137	48.9%	2024-25	140	212	66.0%
Blwyddyn	Unedau tai fforddiadwy a gwblhawyd	Cyfanswm yr unedau tai a gwblhawyd	Unedau fforddiadwy fel canran o gyfanswm y tai a gwblhawyd																																					
2017-18	31	208	14.9%																																					
2018-19	118	281	42.0%																																					
2019-20*	102	245	41.6%																																					
2020-21*	36	135	26.7%																																					
2021-22	74	169	43.8%																																					
2022-23	58	107	54.2%																																					
2023-24	67	137	48.9%																																					
2024-25	140	212	66.0%																																					

ar gyfer y dangosydd hwn felly wedi ei gyrraedd o ran y ddau agwedd hon. Parhau i fonitro felly mewn AMBau dilynol.

Amcan AC 8: Tirlun a Threflun				
Dangosydd AC	Targed	Gwaelodlin/Data Blaenorol	Data Diweddar	Perfformiad
1) Cyfran o'r dirwedd o ansawdd uchel/uchel iawn fel mae wedi ei adnabod gan LANDMAP	Cynnydd	2019-2020	Gweler y dadansoddiad isod	✓
2) Nifer / cyfran o ddatblygiadau newydd o fewn yr AHNE	Gostyngiad	2021-2022	Gweler y dadansoddiad isod	✓
3) Nifer / cyfran o ddatblygiadau newydd o fewn ardaloedd wedi eu categorio'n bwysig gan LANDMAP	Gostyngiad	2021-2022	Gweler y dadansoddiad isod	✓
Esboniad / Dadansoddiad				
1) Dim newid ers yr AMB blaenorol. Mae'r canlyniadau ar gyfer yr ardaloedd a ddiffiniwyd dan LANDMAP fel a ganlyn: - Gweledol a Synhwyrdd - dosbarthwyd 51% (135 o 267 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol; - Diwylliannol - dosbarthwyd 98% (374 o 382 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol; - Daearegol - dosbarthwyd 62% (133 o 213 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol - Tirweddau Hanesyddol - dosbarthwyd 81% (319 o 392 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol; - Cynefinoedd y Dirwedd - dosbarthwyd 47% (592 o 934 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol 2) Mae nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd mewn AHNE fel a ganlyn: 2018/2019 = 540 2019/2020 = 219 2020/2021 = 222 2021/2022 = 340 2022/2023 = 209 2023/2024 = 100 (ACLI Gwynedd yn unig) 2024/2025 = 96 (ACLI Gwynedd yn unig)				

- 3) Mae nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd mewn ardaloedd a ddosbarthwyd yn rhagorol gan LANDMAP fel a ganlyn:

Categori LANDMAP	AMB 1	AMB 2	AMB 3	AMB 4	AMB 5	AMB 6*	AMB 7*
Gweledol a Synhwyrdd	81	26	20	24	31	7	4
Diwylliannol	1587	619	613	861	687	502	523
Daearegol	724	291	287	374	322	235	255
Hanesyddol	1270	532	528	691	493	278	255
Cynefinoedd y Dirwedd	70	26	24	36	36	20	19

Mae'r nifer o geisiadau cynllunio a chymeradwywyd o fewn ardaloedd wedi eu categorio fel rhagorol gan LANDMAP wedi aros yn cyson ers yr AMB blaenorol. Bydd y dangosyddion uchod yn parhau i gael eu monitro mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol.

Amcan AC 9: Tir, Mwynau a Gwastraff				
Dangosydd AC	Targed	Gwaelodlin/Data Blaenorol	Data Diweddar	Perfformiad
1) % cyfradd datblygiad ar dir a ddatblygwyd o'r blaen.	Cynnydd	2021/2022	Gweler esboniad isod	0
2) % gwastraff bwrdeistrefol a yrrwyd i'w dirlenwi	Gostyngiad	2018/2019	Gweler esboniad isod	✓
3) % ail-ddefnyddio / ailgylchu gwastraff bwrdeistrefol	Cynnydd	2024/2025	Gweler esboniad isod	+/-
Esboniad / Dadansoddiad				
1) mae % cyfran y datblygiad ar dir a ddatblygwyd eisoes fel a ganlyn: - Gwynedd 2017-2018 12.82ha (64%); - Gwynedd 2018 i'r presennol – gwybodaeth perthnasol ddim yn cael ei gasglu. Methu adrodd ar y dangosydd. Oherwydd diffyg argaeledd gwybodaeth ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd, nid oes modd dod i gasgliad llawn os yw'r targed wedi ei gyrraedd. 2) Mae % y gwastraff bwrdeistrefol sy'n cael ei dirlenwi fel a ganlyn (<i>Ffynhonnell: StatsWales</i>):				

- 2016-2017 = Gwynedd (31%)
- 2017-2018 = Gwynedd (24.3%)
- 2018-2019 = Gwynedd (18.1%)
- 2019-2020 = Gwynedd (7.6%)
- 2020-2021 = Gwynedd (0.6%)
- 2021-2022 = Gwynedd (1%)
- 2022-2023 = Gwynedd (0.5%)
- 2023-2024 = Gwynedd (0.4%)

Mae'r gyfran o wastraff a aeth i dirlenwi yng Ngwynedd wedi gostwng yn sylweddol ers 2018-2019.

3) Mae % y gwastraff bwrdeistrefol sy'n cael ei ailgylchu fel a ganlyn (*Ffynhonnell: My Recycling Wales*):

- 2016-2017 = Ynys Môn (66%) Gwynedd (61%)
- 2017-2018 = Ynys Môn (72%), Gwynedd (60%)
- 2018-2019 = Ynys Môn (70%) Gwynedd (62%)
- 2019-2020 = Ynys Môn (68%) Gwynedd (65%)
- 2020-2021 = Ynys Môn (65.7%) Gwynedd (65.5%)
- 2022-2023 = Ynys Môn (62.3%) Gwynedd (64.2%)
- 2023 – 2024 = Gwynedd (65%)
- 2024 – 2025 = Gwynedd (64%)

Mae Gwynedd wedi gweld gostyngiad bychan yng nghanran y gwastraff dinesig a ailgylchwyd rhwng 2023/2024 a 2024/2025. Parhau i fonitro mewn AMBau dilynol.

Amcan AC 10: Trafnidiaeth a Mynediad				
Dangosydd AC	Targed	Gwaelodlin/Data Blaenorol	Data Diweddar	Perfformiad
1) Dull o deithio i'r gwaith - % o'r boblogaeth weithiol sy'n teithio gyda char	Gostyngiad	Cyfrifiad 2011	Cyfrifiad 2021	✓
2) Canran datblygiad preswyl o fewn 30 munud (amser trafndiaeth gyhoeddus)	Cynnydd	2017/2018/2019	Gweler esboniad isod	0
3) Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau gan drafndiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio.	Cynnydd	2016/17	Gweler esboniad isod	0

4) % cynnydd yn y rhwydwaith beicio	Cynnydd	Papur Testun Trafnidiaeth (2015)	Gweler esboniad isod	0
5) Cyfradd adnoddau tanwydd lpg ar gyfer cerbydau modur.	Cynnydd	2019 ymlaen	Gweler esboniad isod	0

Esboniad / Dadansoddiad

1) Mae'r tablau isod yn cymharu'r sefyllfa yn Môn, Gwynedd a Chymru rhwng Cyfrifiad 2011 a 2021 ar gyfer y gwahanol ddulliau o deithio i'r gwaith (rhain ar sail poblogaeth oedran 16-74 sydd yn gweithio):

Ynys Môn

Dull a ddefnyddir i deithio i'r gweithle (12 categori)	Ynys Môn % (Cyfrifiad 2011)	Ynys Môn % (Cyfrifiad 2021)	Newid %
Gweithio'n bennaf gartref	6.85%	22.51%	15.66%
Cludiant Tanddaearol, metro, rheilffordd ysgafn, tram	0.07%	0.02%	-0.05%
Trên	0.71%	0.41%	-0.30%
Bws neu bws mini	2.67%	1.59%	-1.08%
Tacsi	0.38%	0.32%	-0.06%
Beic modur, sgwter neu moped	0.73%	0.39%	-0.34%
Gyrru car neu fan	70.40%	61.35%	-9.05%
Teithiwr mewn car neu fan	6.10%	4.64%	-1.46%
Beic	1.58%	0.96%	-0.62%
Ar droed	9.54%	6.87%	-2.67%
Ffyrdd eraill o deithio i'r gwaith	0.96%	0.74%	-0.22%

Gwynedd

Dull a ddefnyddir i deithio i'r gweithle (12 categori)	Gwynedd % (Cyfrifiad 2011)	Gwynedd % (Cyfrifiad 2021)	Newid %
Gweithio'n bennaf gartref	8.41%	23.66%	15.25%
Cludiant Tanddaearol, metro, rheilffordd ysgafn, tram	0.07%	0.05%	-0.02%
Trên	0.71%	0.38%	-0.33%
Bws neu bws mini	4.53%	2.44%	-2.09%
Tacsi	0.23%	0.24%	0.01%
Beic modur, sgwter neu moped	0.51%	0.26%	-0.25%
Gyrru car neu fan	62.97%	56.61%	-6.36%
Teithiwr mewn car neu fan	5.94%	4.38%	-1.56%
Beic	1.31%	1.03%	-0.28%
Ar droed	14.55%	10.21%	-4.34%
Ffyrdd eraill o deithio i'r gwaith	0.78%	0.74%	-0.04%

Cymru

Dull a ddefnyddir i deithio i'r gweithle (12 categori)	Cymru % (Cyfrifiad 2011)	Cymru % (Cyfrifiad 2021)	Newid %
Gweithio'n bennaf gartref	5.36%	25.61%	20.25%
Cludiant Tanddaearol, metro, rheilffordd ysgafn, tram	0.09%	0.04%	-0.05%
Trên	2.01%	0.84%	-1.17%
Bws neu bws mini	4.61%	2.30%	-2.31%
Tacsi	0.48%	0.56%	0.08%
Beic modur, sgwter neu moped	0.56%	0.34%	-0.22%
Gyrru car neu fan	67.37%	56.46%	-10.91%
Teithiwr mewn car neu fan	6.80%	4.83%	-1.97%
Beic	1.44%	1.10%	-0.34%
Ar droed	10.64%	7.06%	-3.58%
Ffyrdd eraill o deithio i'r gwaith	0.64%	0.86%	0.22%

Fel y gwelir y newid mwyaf yw yn y canran o bobl sydd yn gweithio o adref +15.66% yn Môn, +15.25% yng Ngwynedd a +20.25% yng Nghymru. O ran y nifer sy'n gyrru car neu fan i'r gwaith mae hyn wedi gostwng -9.05% yn Môn, -6.36% yng Ngwynedd a -10.91% yng Nghymru.

2) 100% o ddatblygiadau preswyl newydd o fewn 30 munud.

3) Dim diweddariad ers yr AMB blaenorol

- Ym Môn, ceir y trydydd nifer isaf o ddeiliaid tocyn bws mantais ar gyfer pobl 60 mlwydd oed a throsodd (75.6%).
- Mae'r pedwerydd nifer isaf i'w gael yng Ngwynedd (80.0%).
- Yr ardal gyda'r nifer isaf yw Powys (71.5%).
- Yr ardal gyda'r nifer uchaf yw Caerdydd (98.9%).
- Y cyfartaledd cenedlaethol yw 87.0%. Felly, mae Ynys Môn a Gwynedd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

4) Dim diweddariad ers yr AMB blaenorol

- Mae Ynys Môn wedi'i chynnwys yn ardal Taith. Mae Gwynedd wedi'i chynnwys yn ardaloedd Taith a Tracc.
- Y Llwybrau Beicio Cenedlaethol yn ardal Taith yw: 5 - Reading i Gaerdybi; 8 - Caerdydd i Gaerdybi.
- Y Llwybrau Beicio Cenedlaethol yn ardal Tracc yw: 8 - Caerdydd i Gaerdybi; 42 - Y Clas-ar-Wy i Gaerloyw; 43 - Llanfair ym Muallt i Abertawe; 81 - Aberystwyth i'r Amwythig; 82 - Porthmadog i Aberteifi.

5) Dim diweddariad ers yr AMB blaenorol

- Ar hyn o bryd, mae 92 o orsafoedd tanwydd yng Nghymru sy'n gwerthu tanwydd LPG.
- Mae deg gorsaf yng Ngwynedd yn gwerthu LPG. Y rhain yw: A496 – 1; A4487 – 1; Bangor – 1; Abermaw – 1; Blaenau Ffestiniog – 1; Caernarfon -2; Machynlleth – 1; Pwllheli – 2.

Amcan AC 11: Dŵr a Pherygl Llifogydd				
Dangosydd AC	Targed	Gwaelodlin/Data Blaenorol	Data Diweddar	Perfformiad
1) % o ddatblygiadau newydd gyda systemau draenio cynladwy.	Cynnydd	-	Data ddim ar gael	0
2) % cyrff dŵr gyda statws ecolegol da neu botensial	Cynnydd	2018/2019	Gweler yr esboniad isod	✓
3) Cyfradd / nifer absoliwt o ddatblygiadau yn C1 ac C2 (fel y'i diffinnir yn NCT15).	Gostyngiad	2023-2024	Gweler yr esboniad isod	✓
Esboniad / Dadansoddiad				
1) Nid yw'r Awdurdodau yn casglu'r wybodaeth hon ar hyn o bryd. 2) Dim gwybodaeth diweddar ers yr AMB blaenorol ar gael. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro yn y dyfodol 3) Caniatwyd 20 cais cynllunio ar safleoedd oedd yn llwyr/rhannol o fewn parth llifogydd C1; y rhan fwyaf am ddatblygiadau llai agored i niwed ag ar dir â ddatblygwyd o'r blaen. Fel rhan o'r broses o asesu'r ceisiadau cynllunio, casglwyd gwybodaeth ynglŷn â chydymffurfiaeth y ceisiadau cynllunio â'r profion sydd wedi'u cynnwys yn Nodyn Cyngor Technegol 15 (Llifogydd); penderfynwyd eu bod yn cydymffurfio â gofynion y profion sydd wedi'u gosod yn NCT 15. Caniatwyd 26 cais cynllunio llawn ar safleoedd oedd yn llwyr/rhannol o fewn parth llifogydd C2; y rhan fwyaf am ddatblygiadau llai agored i niwed ag ar dir â ddatblygwyd o'r blaen. Ni chaniatwyd unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer y math o ddatblygiad a fyddai'n cael ei ystyried yn 'llai agored i niwed' yn unol â Ffigwr 2 Nodyn Cyngor Technegol 15 (Datblygu a Pherygl Llifogydd). Ar ben hynny, roedd yr holl geisiadau a leolwyd (yn rhannol/llwyr) o fewn y parth llifogydd C2 yn cydymffurfio â'r profion sydd wedi'u cynnwys yn NCT 15. Cesglir fod y ceisiadau a gymeradwywyd yn cydymffurfio â pholisïau PS5, PS6, PCYFF 1 a PCYFF 2 y CDLI ar y Cyd. O ganlyniad, ystyrir fod y polisïau yn parhau i gael eu gweithredu yn effeithiol.				

Atodiad 2 – Dosbarthiad Caniatadau Preswyl

Gwybodaeth i ardal Awdurdod Cynllunio
Gwynedd yn unig ar sail fod y cytundeb cyd
weithio rhwng Gwynedd a Ynys Môn wedi dirwyn
i ben ar 31ain Mawrth, 2023.

Canolfan Isranbarthol:

1. Bangor (52 uned preswyl wedi cael caniatâd y
cyfnod yma / 370 uned preswyl wedi cael
caniatâd ers i'r cynllun cael ei fabwysiadu)

Canolfannau Gwasanaeth Trefol:

2. Blaenau Ffestiniog (7 uned / 31 uned),
3. Caernarfon (1 uned / 112 uned),
4. Porthmadog (0 uned / 19 uned),
5. Pwllheli (1 uned / 86 uned)

Canolfannau Gwasanaeth Lleol:

6. Abermaw (3 uned / 23 uned),
7. Abersoch (0 uned / 2 uned),
8. Bethesda (6 uned / 59 uned),
9. Cricieth (0 uned / 67 uned),
10. Llanberis (0 uned / 15 uned),
11. Llanrug (4 uned / 19 uned),
12. Nefyn (2 uned / 15 uned),
13. Penrhyndeudraeth (0 uned / 59 uned),
14. Penygroes (0 uned / 39 uned),
15. Tywyn (2 uned / 30 uned)

Pentrefi Gwasanaeth:

16. Bethel (0 uned / 46 uned),
17. Bontnewydd (0 uned / 29 uned),
18. Botwnnog (0 uned / 1 uned),
19. Chwilog (1 uned / 57 uned),
20. Deiniolen (27 uned / 74 uned),
21. Rachub (0 uned / 31 uned),
22. Tremadog (0 uned / 1 uned),
23. Y Ffôr (1 uned / 1 uned)

Pentrefi Lleol, Gwledig ac Arfordirol:

A) Pentrefi Lleol

24. Abererch,
25. Brynrefail (0 uned / 1 uned),
26. Caeathro (12 uned / 12 uned),
27. Carmel (3 uned / 4 uned),
28. Cwm y Glo,
29. Dinas (Llanwnda) (16 uned / 28 uned),
30. Dinas Dinlle (1 uned / 1 uned),
31. Dolydd a Maen Coch,

32. Efailnewydd,
33. Garndolbenmaen (0 uned / 1 uned),
34. Garreg-Llanfrothen,
35. Groeslon,
36. Llandwrog,
37. Llandygai,
38. Llangybi (1 uned / 2 uned),
39. Llanllyfni,
40. Llanystumdwy (0 uned / 7 uned),
41. Nantlle (0 uned / 1 uned),
42. Penisarwaun (0 uned / 3 uned),
43. Pentref Uchaf (0 uned / 3 uned),
44. Rhiwlas (1 uned / 5 uned),
45. Rhosgadfan (0 uned / 4 uned),
46. Rhostryfan,
47. Sarn Mellteyrn (0 uned / 2 uned),
48. Talysarn (0 uned / 2 uned),
49. Trefor (1 uned / 2 uned),
50. Tregarth (2 uned / 19 uned),
51. Tudweiliog,
52. Waunfawr (0 uned / 2 uned),
53. Y Fron



B) Pentrefi Arfordirol/Gwledig:



54. Aberdaron (6 uned / 6 uned),
55. Borth-y-Gest (0 uned / 1 uned),
56. Clynog Fawr,
57. Corris (0 uned / 1 uned),
58. Edern (4 uned / 6 uned),
59. Fairbourne,
60. Llanaelhaearn (1 uned / 3 uned),
61. Llanbedrog (0 uned / 1 uned),
62. Llangian,
63. Llithfaen (0 uned / 2 uned),
64. Morfa Bychan (0 uned / 2 uned),
65. Morfa Nefyn (12 uned / 15 uned),
66. Mynytho,
67. Rhoshirwaun,
68. Sarn Bach,
69. Y Felinheli (0 uned / 25 uned)

Clystyrau:

70. Aberdesach,
71. Aberllefenni,
72. Aberpwll,
73. Bethesda Bach,
74. Bryncir,
75. Bryncroes,
76. Caerhun/Waen Wen,
77. Capel y Graig,
78. Corris Uchaf,
79. Crawia,

- 80. Dinorwig (0 uned, / 1 uned),
- 81. Gallt y Foel,
- 82. Glasinfryn (0 uned / 9 uned),
- 83. Groeslon Waunfawr,
- 84. Llanaber (0 uned / 1 uned),
- 85. Llandderfel,
- 86. Llanengan (0 uned / 2 uned),
- 87. Llanfor,
- 88. Llanllechid,
- 89. Llannor,
- 90. Llanwnda,
- 91. Llwyn Hudol,
- 92. Minffordd,
- 93. Minffordd (Bangor),
- 94. Mynydd Llandygai,
- 95. Nebo,
- 96. Pantglas,
- 97. Penmorfa,
- 98. Penrhos,
- 99. Penrhos (Caeathro),
- 100. Pentir,
- 101. Pentrefelin,
- 102. Pistyll (0 uned / 1 uned),
- 103. Pontllyfni,
- 104. Rhoslan,
- 105. Saron (Llanwnda),
- 106. Swan,
- 107. Tai'n Lôn,
- 108. Talwaenydd,
- 109. Talybont,
- 110. Tan y Coed,
- 111. Treborth (0 uned / 4 uned),
- 112. Ty'n-lôn,
- 113. Ty'n y Lôn,
- 114. Waun (Penisarwaun) (0 uned / 1 uned).





Atodiad 3 – Darpariaeth o dir ar gyfer tai

Cefndir

Mae Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 12 (Chwefror 2024) (paragraffau 4.2.11 a 4.2.12) yn nodi fod yn rhaid dangos y gallu i ddarparu'r gofyn am dai yn y Cynllun drwy daflwybr tai. Rhaid i awdurdodau cynllunio ddefnyddio eu taflwybr tai fel sail ar gyfer monitro'r broses o gyflawni eu gofyniad tai. Mae angen gwybodaeth fanwl ar y tai a gyflenwir wedi'i hasesu yn erbyn y taflwybr er mwyn llunio rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer Adroddiadau Monitro Blynnyddol y cynllun datblygu ac adolygiad cynllunio dilynol. Nodir y gall tangyflawni yn erbyn y taflwybr fod yn ddigon o reswm ynddo'i hun i adolygu cynllun datblygu. Mae'r broses hon wedi disodli'r angen i arddangos cyflenwad tir 5 mlynedd ar gyfer tai a oedd yn cael ei asesu drwy'r broses Cyd-astudiaeth Tir ar gyfer Tai.

Ceir gwybodaeth yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, Mawrth 2020) gan Lywodraeth Cymru o ran y broses o ystyried a diweddarau'r taflwybr o fewn Adroddiadau Monitro Blynnyddol. Gweler y tabl a'r graff diwygiedig yn y wybodaeth mewn perthynas â dangosyddion D43(A) a D43(B).

Fel rhan o'r broses hon mae angen cyflwyno tablau sydd yn nodi amserlen datblygu ar gyfer y safleoedd sydd wedi eu dynodi yn y Cynllun ynghyd a safleoedd ar hap mawr o fewn y banc tir h.y. safleoedd sydd â 5 neu fwy o unedau sydd â chaniatâd cynllunio ond nad sydd wedi eu lleoli ar ddynodiad tai.

O gofio mai blwyddyn sydd ar ôl o gyfnod y CDLI ar y Cyd, ni ymgynghorwyd gyda tirfeddianwyr/datblygwyr mewn perthynas a sefydlu'r bwriad o ran dynodiadau tai'r Cynllun ynghyd a'r safleoedd banc tir mawr (5 neu fwy o unedau). Ni ymgynghorwyd ychwaith â'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai wrth ystyried y taflwybr arfaethedig i weddill cyfnod y CDLI ar y Cyd.

Gweler y modd y mae'r safleoedd banc tir mawr a'r safleoedd sydd wedi eu dynodi yn benodol ar gyfer tai yn y Cynllun wedi eu categoreiddio yn nhablau A1 ac A2 isod.

Noder isod sut mae'r wybodaeth hyn, ynghyd a rhagdybiaethau a wnaethpwyd ar gyfer cydrannau eraill o'r ddarpariaeth tai, wedi bwydo i mewn i'r diweddariad o'r taflwybr. **Mae'r ffigyrau a nodir yn y tabl taflwybr yn yr AMB [cyn dangosyddion D43(A) a D43(B)] wedi eu hamlygu gyda lliw yn y wybodaeth isod.**

Safleoedd bach (Safleoedd banc tir a safleoedd ar hap)

Ar gyfer safleoedd banc tir bach (caniatâd am lai na 5 uned) ystyriwyd y cyfartaledd o ran unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd o'r fath dros y 5 mlynedd diwethaf:

2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	Cyfanswm	Cyfartaledd
38	45	44	55	25	207	41.4 = 41

O gofio mai blwyddyn sydd ar ôl yng nghyfnod y Cynllun, mae'r cyfartaledd blynyddol uchod yn cyfleu'r ddarpariaeth ar safleoedd banc tir bach ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun h.y. cyfartaledd 5 mlynedd dros gyfnod o flwyddyn sef 41 uned

Ar sail arolwg tai Ebrill 2025 nodir bod 205 uned yn y banc tir safleoedd bach heb gyfrif yr unedau ble nad oes unrhyw weithgaredd wedi digwydd ar y safleoedd hynny yn y 5 mlynedd diwethaf (o ran unrhyw waith datblygu na chaniatâd pellach).

Gan fod y nifer o unedau sydd yn y banc tir (safleoedd bach) yn uwch na'r ffigwr cyfartaledd unedau sydd wedi eu datblygu ar safleoedd bach dros y 5 mlynedd blaenorol wedi ei gyfleu dros gyfnod o flwyddyn, i bwrpas y taflwybr nid oes unedau ychwanegol i'w darparu ar safleoedd ar hap bychan h.y. caniatadau o'r newydd yn dilyn cyfnod AMB 7, gan rhagdybir y bydd y ddarpariaeth berthnasol yn cael ei gwrdd drwy fodd unedau sydd eisoes yn y banc tir (gweler tabl perthnasol isod).

Noder felly'r 41 uned y flwyddyn sydd i'w ddisgwyl ar safleoedd bychan oll ar safleoedd banc tir (caniatâd presennol) gyda dim ar safleoedd ar hap (caniatadau o'r newydd). Er mai blwyddyn sydd ar ôl yng nghyfnod y Cynllun, byddai rhagdybiaeth beth bynnag am y ddwy flynedd nesaf fod yr holl unedau i'w datblygu ar safleoedd sydd yn y banc tir yn bresennol.

Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd banc tir bach:

2025/26
41

Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd ar hap bach yn ystod y flwyddyn

2025/26
Dim unedau ar safleoedd ar hap o'r newydd yn cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn nesaf.

Safleoedd banc tir mawr

Mae'r ffigyrau ar gyfer unedau ar hap mawr yn deillio o dabl A1 isod mewn perthynas â safleoedd banc tir mawr yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Mae'r ffigyrau yn nodi'r unedau a ddisgwylir i gael eu datblygu ar y safleoedd perthnasol fesul blwyddyn.

Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd banc tir mawr:

2025/26
108

Felly:

Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd banc tir yn flynyddol (safleoedd mawr a bach)

2025/26
149 (108 safleoedd mawr / 41 safleoedd bach)

Safleoedd ar hap mawr (5 neu fwy o unedau)

Ar gyfer y rhagdybiaeth o ran darpariaeth ar safleoedd ar hap mawr (h.y. caniatadau o'r newydd ar safleoedd gyda 5 neu fwy o unedau nad sydd wedi eu dynodi), mae'r taflwybr diwygiedig yn defnyddio'r wybodaeth ar gyfer unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap mawr yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf (gweler y tabl isod). Nid yw hyn yn cyfrif unedau sydd wedi eu cwblhau ar ddynodiadau tai. Mae'r ffigwr hwn yn 346 o unedau.

2020-21	2020-21	2021-22	2022-23	2023-24	Cyfanswm
51	86	8	69	132	346

O gofio mai blwyddyn sydd ar ôl yng nghyfnod y Cynllun, mae'r cyfartaledd blyneddol uchod yn cyfleu'r ddarpariaeth ar safleoedd ar hap mawr ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun h.y. cyfartaledd 5 mlynedd dros gyfnod o flwyddyn, sef $346/5 = 69.2 = 69$ uned

Noder fod tabl A1 isod yn rhagweld y bydd 108 uned yn cael eu datblygu ar safleoedd banc tir mawr ym mlwyddyn olaf cyfnod y Cynllun, sydd yn uwch na'r ddarpariaeth safleoedd mawr a'i nodir uchod. I bwrpas y taflwybr, nid oes unrhyw unedau wedi eu cynnwys felly am weddill oes y Cynllun ar safleoedd ar hap mawr o'r newydd. Ar sail tueddiadau datblygu'r gorffennol, credir fod nifer digonol o unedau yn debygol o gael eu datblygu ar safleoedd banc tir mawr i gwrdd â'r anghenion o ran y rhan hon o'r ddarpariaeth tai.

Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd ar hap mawr yn flynyddol

2025/26
Dim unedau ar safleoedd ar hap o'r newydd yn cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn nesaf.

Dynodiadau tai

Mae'r wybodaeth ar gyfer y nifer o unedau a ragwelir fydd yn deillio o ddynodiadau tai'r Cynllun i'w gweld yn Nhabl A2 isod.

Mae tabl A2 yn nodi'r wybodaeth fanwl fesul safle. Mae'r cyfanswm o unedau a ragwelir fydd yn cael eu datblygu ar holl ddynodiadau'r Cynllun (o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd) fesul blwyddyn fel y ganlyn:

Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd a'u dynodwyd yn flynyddol

2025/26
58

Tabl A1: Amseru a chatau cyflawni safleoedd â chaniatâd cynllunio – Safleoedd banc tir mawr (Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd)

Cyfeirnod ACLI	Haen yr anheddle	Enw'r safle	Cyfeirnod caniatâd cynllunio	Capasiti'r safle	Unedau'n weddill	Unedau wedi eu cwblhau	Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLI ar y Cyd	Wrthi yn cael eu datblygu	2025/26	Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLI ar y Cyd
4	Canolfan Is-ranbarthol	30-32, Ffordd Caergybi, Bangor	3/11/722B	8	8	0	0	0		8
1932	Canolfan Is-ranbarthol	Neuadd Deiniol & Wayside, Ffordd Caergybi, Bangor	C11/0342/11/TC	24	24	0	0	0		24
5006	Canolfan Is-ranbarthol	137 Stryd Fawr, Bangor	C20/0848/11/LL	12	0	12	12	WEDI GWBLHAU 2024/25		
178	Canolfan Is-ranbarthol	Coed y Maes (Caeau Briwas), Penrhos, Bangor	3/25/195AB	20	2	18	0	0		2
179	Canolfan Is-ranbarthol	Tir yn Y Garnedd, Penrhosgarnedd, Bangor	C06A/0663/25/LL	5	1	4	0	0	0	1
5105	Canolfan Is-ranbarthol	Railway Institute, Ffordd Euston, Bangor	C21/0803/11/LL	25	25	0	0	0		25
5106	Canolfan Is-ranbarthol	Plas Penrhos, Ffordd Penrhos, Bangor	C21/0648/11/LL	39	0	39	39	WEDI GWBLHAU 2024/25		
5109	Canolfan Is-ranbarthol	Tir yn Ffordd Pen y Ffridd, Bangor	C19/1072/11/LL	30	0	22	22	WEDI GWBLHAU 2024/25		
5200	Canolfan Is-ranbarthol	Blenheim House, Ffordd Caergybi, Bangor	C20/0669/11/LL	36	36	0	0	0		36
5201	Canolfan Is-ranbarthol	Maes Berea, Bangor	C18/0365/11/AM	9	9	0	0	0	0	9
5255	Canolfan Is-ranbarthol	Plas Llwyd Terrace, Bangor	C07A/0755/11/MG	10	10	0	0	0	0	10

Cyfeirnod ACLI	Haen yr anheddle	Enw'r safle	Cyfeirnod caniatâd cynllunio	Capasiti'r safle	Unedau'n weddill	Unedau wedi eu cwblhau	Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLI ar y Cyd	Wrthi yn cael eu datblygu	2025/26	Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLI ar y Cyd
5305	Canolfan Is-ranbarthol	Coed Mawr, Bangor	C24/0436/11/LL	10	10	0	0	6	10	0
5242	Canolfan Is-ranbarthol	340 Stryd Fawr, Bangor	C22/0950/11/LL	9	0	9	9	WEDI GWBLHAU 2024/25		
5273	Canolfan Is-ranbarthol	290-294 Stryd Fawr, Bangor	C21/0959/11/LL	24	24	0	0	24		24
5298	Canolfan Is-ranbarthol	Ysgol Annibynol, Bangor	C24/0074/11/LL	9	9	0	0	0		9
2206	Canolfan Gwasanaeth Trefol	Rhan OS 8825, Cae Clyd, Manod, Blaenau Ffestiniog	C14/0248/03/LL	5	5	0	0	0		5
5069	Canolfan Gwasanaeth Trefol	Ffordd Wynne, Blaenau Ffestiniog	C20/0538/03/LL	5	0	5	5	WEDI GWBLHAU 2024/25		
1660	Canolfan Gwasanaeth Trefol	Cyn Westy Marine, Ffordd y Gogledd, Caernarfon	C18/1040/14/LL	15	15	0	0	15		15
5209	Canolfan Gwasanaeth Trefol	Garej Lleiod, Ffordd Llanberis, Caernarfon	C22/0745/14/LL	21	21	0	0	21	21	
2518	Canolfan Gwasanaeth Trefol	Capel Garth, Bank Place, Porthmadog	C16/0761/44/LL	9	9	0	0	9		9
1969	Canolfan Gwasanaeth Trefol	Snowdon Mill, Heol yr Wyddfa, Porthmadog	C07D/0707/44/LL	24	24	0	0	24		24
1640	Canolfan Gwasanaeth Trefol	Plot 31, Awel y Grug, Porthmadog	C15/0224/44/LL	10	1	9	0	0	0	1

Cyfeirnod ACLI	Haen yr anheddle	Enw'r safle	Cyfeirnod caniatâd cynllunio	Capasiti'r safle	Unedau'n weddill	Unedau wedi eu cwblhau	Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLI ar y Cyd	Wrthi yn cael eu datblygu	2025/26	Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLI ar y Cyd
4838	Canolfan Gwasanaeth Trefol	Tir Ysgubor Wen, Pwllheli	C20/0870/45/LL	5	1	4	4	1	1	
743	Canolfan Gwasanaeth Lleol	Promenad Abermaw	5/51/815B	26	26	0	0	0		26
4100	Canolfan Gwasanaeth Lleol	Safle Gwesty Whitehouse, Abersoch	C14/1208/39/LL	18	18	0	0	18	18	
5023	Canolfan Gwasanaeth Lleol	Tir ger Llain y Pebyll, Bethesda	C20/0018/13/LL	7	0	7	7	WEDI GWBLHAU 2024/25		
5249	Canolfan Gwasanaeth Lleol	Brig y Nant, Bethesda	C22/0256/13/LL	18	18	0	0	0	0	18
24	Canolfan Gwasanaeth Lleol	OS 8361, 8958, 8650, Bryn Caseg, Bethesda	3/13/130A-E	22	1	21	0	0	0	1
5269	Canolfan Gwasanaeth Lleol	Banc Natwest, Bethesda	C23/0969/13/LL	6	6	0	0	0		6
224	Canolfan Gwasanaeth Lleol	Stad Gorseddfa, Cricieth	2/15/143A-Z	13	1	12	0	0		1
225	Canolfan Gwasanaeth Lleol	Stad Wern y Wylan, Cricieth	C96D/0181/15/CL	9	1	8	0	0		1
5198	Canolfan Gwasanaeth Lleol	Tir ger Treddafydd Stryd Fawr, Penygroes	C19/1089/22/LL	12	12	0	0	0	12	0
2495	Canolfan Gwasanaeth Lleol	Capel Seion, Stryd y Plas, Nefyn	C04D/0722/42/LL	7	7	0	0	7	0	7
285	Canolfan Gwasanaeth Lleol	Stad Bro Gwylwyr, Nefyn	C07D/0699/42/LL	35	1	34	1	0	0	1

Cyfeirnod ACLI	Haen yr anheddle	Enw'r safle	Cyfeirnod caniatâd cynllunio	Capasiti'r safle	Unedau'n weddill	Unedau wedi eu cwblhau	Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLI ar y Cyd	Wrthi yn cael eu datblygu	2025/26	Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLI ar y Cyd
3790	Canolfan Gwasanaeth Lleol	Tir y Farchnad, Sandilands Road, Tywyn	C13/0102/09/LL	18	18	0	0	18	0	18
76	Pentref Gwasanaeth	Bro Eglwys, Saron, Bethel	3/18/2021	50	14	36	0	0		14
4576	Pentref Gwasanaeth	Cae Bodlondeb, Ael y Bryn (Safle 1), Chwilog	C16/1363/41/AM & C20/0674/41/MG	9	0	9	9	WEDI GWBLHAU 2024/25		
4577	Pentref Gwasanaeth	Cae Bodlondeb, Ael y Bryn (Safle 2), Chwilog	C16/1603/41/AM & C20/0673/41/MG	9	0	9	9	WEDI GWBLHAU 2024/25		
5177	Pentref Gwasanaeth	Capel Ebeneser, Stryd Fawr, Deiniolen	C19/1194/18/LL	7	7	0	0	0	0	7
2477	Pentref Gwasanaeth	Llwyn Bedw Estate, Rachub	C10A/0040/21/MG	13	1	12	8	0	1	
3966	Pentref Lleol	Plot o dir ger Hen Gapel, Ffordd Waunfawr, Caeathro	C09A/0412/26/LL	12	12	0	0	0	0	12
2216	Pentref Lleol	Ceir Cwm, Cwm y Glo	C10A/0087/23/LL	8	5	3	3	0		5
5310	Pentref Lleol	Tir ger Talardd, Dinas	C20/1093/24/LL	16	16	0	0	0	16	
5171	Pentref Lleol	Tir ger Maes Llwyd, Llanystumdwy	C21/1091/41/LL	6	6	0	0	0	4	2
5274	Pentref Arfordirol / Gwledig	Bodernabwy, Aberdaron	C24/0011/30/AM	5	5	0	0	0	0	5
1669	Pentref Arfordirol / Gwledig	Plotiau 15-23 Heol Seithendre, Fairbourne	C04M/0072/01/LL	9	5	4	0	0	0	5

Cyfeirnod ACLI	Haen yr anheddle	Enw'r safle	Cyfeirnod caniatâd cynllunio	Capasiti'r safle	Unedau'n weddill	Unedau wedi eu cwblhau	Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLI ar y Cyd	Wrthi yn cael eu datblygu	2025/26	Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLI ar y Cyd
5290	Pentref Arfordirol / Gwledig	Tir Maes Twnti, Morfa Nefyn	C24/0689/42/LL	9	9	0	0	0	0	9
5107	Pentref Arfordirol / Gwledig	Tir ger Cae Gors, Tregarth	C21/0617/16/LL	12	0	12	12	WEDI GWBLHAU 2024/25		
2517	Pentref Arfordirol / Gwledig	Gyferbyn Halfway House, Y Felinheli	C09A/0424/20/LL	7	7	0	0	0		7
1730	Pentref Arfordirol / Gwledig	Gwesty Plas Dinorwig, Y Felinheli	C05A/0152/20/LL	8	8	0	0	0		8
1428	Pentref Arfordirol / Gwledig	Harbwr, Y Felinheli	C05A/0750/20/LL	22	3	19	0	0		3
5256	Pentref Arfordirol / Gwledig	Tir ger Y Wern, Y Felinheli	C23/0772/20/LL	23	23	0	0	0	18	5
5168	Clwstwr	Ger Bro Infryn, Glasinfryn	C21/1206/25/LL	7	0	7	7	WEDI GWBLHAU 2024/25		
2428	Clwstwr	OS 3910, Ger Eglwys St Egan, Llanengan	C11/1186/39/MG	6	1	5	5	1	1	
CYFANSWM				807	479	320	152	144	108	371

Tabl A2: Amseru a chamau cyflawni dynodiadau tai (Safleoedd ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn unig)

Cyfeirnod ACLI	Haen yr anheddle	Cyfeirnod y safle a ddynodwyd	Enw'r safle a ddynodwyd	Cyfanswm capasiti'r safle*	Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)	Camau cyflawni'r datblygiad				
						Unedau wedi eu cwblhau	Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLI ar y Cyd	Wrthi yn cael eu datblygu	2025/26	Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLI ar y Cyd
3944	Canolfan Is-ranbarthol	T1	Goetra Uchaf, Bangor			SAFLE WEDI'I GWBLHAU				
4591	Canolfan Is-ranbarthol	T2	Caeau Chwarae Hen Ysgol Friars, Bangor	43						43
4225	Canolfan Is-ranbarthol	T3	Hen safle Jewsons, Bangor	17						17
4592	Canolfan Is-ranbarthol	T4	Tir dros ffordd i'r Amloggfa, Bangor	72						72
4596	Canolfan Gwasanaeth Trefol	T23	Cyn Gaeau Chwarae, Blaenau Ffestiniog	95						95
4597	Canolfan Gwasanaeth Trefol	T24	Tir yn Congl y Wal, Blaenau Ffestiniog	60						60
4443	Canolfan Gwasanaeth Trefol	T25	Cyn Ysgol Hendre, Caernarfon			SAFLE WEDI'I GWBLHAU				
1373	Canolfan Gwasanaeth Trefol	T26	Tu cefn i Maes Gwynedd, Caernarfon	29						29
1372	Canolfan Gwasanaeth Trefol	T27	Lôn Cae Phillips, Caernarfon			SAFLE WEDI'I GWBLHAU				

Cyfeirnod ACLI	Haen yr anheddle	Cyfeirnod y safle a ddynodwyd	Enw'r safle a ddynodwyd	Cyfanswm capasiti'r safle*	Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)	Camau cyflawni'r datblygiad				
						Unedau wedi eu cwblhau	Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLI ar y Cyd	Wrthi yn cael eu datblygu	2025/26	Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLI ar y Cyd
2213	Canolfan Gwasanaeth Trefol	T28	Tir ger Lôn Caernarfon, Pwllheli Caniatâd C22/0969/45/LL (am archfarchnad) ar ran o'r safle Nifer o unedau yn seiliedig ar yr arwynebedd o'r safle sydd yn weddill.	90						90
1400	Canolfan Gwasanaeth Trefol	T29	Cae Deiniol, Pwllheli	14	Caniatâd cynllunio C21/0111/45/LL	12	12	2	2	
1399	Canolfan Gwasanaeth Trefol	T30	Cyn Gae Hoci, Pwllheli	14	Caniatâd cynllunio C18/1198/45/AM	0	0	14	14	
2205	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T41	Tir ger North Teras, Cricieth	23	Caniatâd cynllunio C21/1136/35/LL	12	12	11	11	
1374	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T42	Tir ger Gwesty'r Fic, Llanberis	16						16
2790	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T43	Tir ger Lôn Tŷ Du, Llanberis	SAFLE WEDI'I GWBLHAU						
3602	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T44	Cae'r Eglwys, Llanrug	10	Caniatâd cynllunio C18/0942/23/LL & C23/0033/23/LL	9	9	0	0	1

Cyfeirnod ACLI	Haen yr anheddle	Cyfeirnod y safle a ddynodwyd	Enw'r safle a ddynodwyd	Cyfanswm capasiti'r safle*	Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)	Camau cyflawni'r datblygiad				
						Unedau wedi eu cwblhau	Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLI ar y Cyd	Wrthi yn cael eu datblygu	2025/26	Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLI ar y Cyd
2567	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T45	Tir ger Lôn Rhythallt, Llanrug	SAFLE WEDI'I GWBLHAU						
4603	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T46	Tir ger Helyg, Nefyn	19						19
3832	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T47	Cyn Gerddi Rhandir, Nefyn	SAFLE WEDI'I GWBLHAU						
1405	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T48	Canol Cae, Penrhyndeudraeth	SAFLE WEDI'I GWBLHAU						
4604	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T49	Tir ger cyn Ysbyty Bron Garth, Penrhyndeudraeth	46						46
4605	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T50	Tir ger Canol Cae, Penrhyndeudraeth	31						31
1379	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T51 (rhan)	Tir ger Maes Dulyn, Penygroes Caniatâd C20/0942/22/LL (5064) ar ran o'r safle - Nifer o unedau yn seiliedig ar yr arwynebedd safle sydd yn weddill.	15						15

Cyfeirnod ACLI	Haen yr anheddle	Cyfeirnod y safle a ddynodwyd	Enw'r safle a ddynodwyd	Cyfanswm capasiti'r safle*	Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)	Camau cyflawni'r datblygiad				
						Unedau wedi eu cwblhau	Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLI ar y Cyd	Wrthi yn cael eu datblygu	2025/26	Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLI ar y Cyd
5064	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T51 (rhan)	Tir ger Maes Dulyn, Penygroes	SAFLE WEDI'I GWBLHAU						
2142	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T52	Sŵn y Tonnau, Tywyn	41	Caniatâd cynllunio C06M/0069/09/LL	32	23	0	0	9
667	Canolfan Gwasanaeth Lleol	T53	Garreglwyd, Tywyn	23	Caniatâd cynllunio 5/79/134	11	2	0		12
4598	Pentref Gwasanaeth	T57	Tir gyferbyn â Stad y Cremlyn, Bethel	30	Caniatâd cynllunio C23/0657/18/LL	0	0	30	30	
4599	Pentref Gwasanaeth	T58	Tir gyferbyn â Stad Rhoslan, Bethel	7	Caniatâd cynllunio C18/0545/18/MG	6	6	1	1	
2478	Pentref Gwasanaeth	T59	Tir ger Stad Glanrafon, Bontnewydd	SAFLE WEDI'I GWBLHAU						
4593	Pentref Gwasanaeth	T60	Tir ger Pont Glan Beuno, Bontnewydd	10						10
4594	Pentref Gwasanaeth	T61	Tir ger Cefn Capel, Botwnnog	21						21
4595	Pentref Gwasanaeth	T62	Tir ger Pentre, Botwnnog	11						11
4125	Pentref Gwasanaeth	T63	Tir tu cefn i'r Madryn Arms, Chwillog	SAFLE WEDI'I GWBLHAU						

Cyfeirnod ACLI	Haen yr anheddle	Cyfeirnod y safle a ddynodwyd	Enw'r safle a ddynodwyd	Cyfanswm capasiti'r safle*	Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)	Camau cyflawni'r datblygiad				
						Unedau wedi eu cwblhau	Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLI ar y Cyd	Wrthi yn cael eu datblygu	2025/26	Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLI ar y Cyd
1364	Pentref Gwasanaeth	T64	Tir ger Cae Capel, Chwillog	21	Caniatâd cynllunio C18/1055/441/LL	0	0	0		21
3959	Pentref Gwasanaeth	T65	Tir ger Pentre Helen, Deiniolen	27	Caniatâd cynllunio C09A/0396/18/AM	0	0	0		27
4600	Pentref Gwasanaeth	T66	Tir ger Maes Bledwyn, Rachub	SAFLE WEDI'I GWBLHAU						
4601	Pentref Gwasanaeth	T67	Tir ger Tyn Lôn, Y Ffor	18						18
4602	Pentref Gwasanaeth	T68	Tir ger yr Ysgol, Y Ffor	10						10
2214	Pentref Gwasanaeth	T69	Tir ger Bro Gwystil, Y Ffor	SAFLE WEDI'I GWBLHAU						
CYFANSWM						82	64	58	58	673
*	Ar gyfer safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio, mae'r ffigwr yn nodi'r nifer o unedau sydd wedi derbyn caniatâd.									
	Safle wedi ei gwblhau									
	Caniatâd cynllunio byw (datblygiad heb ei gwblhau)									

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Dyddiad y cyfarfod: 14 Hydref 2025

Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Craig ab Iago

Swyddog Cyswllt: Bethan Richardson, Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd

Teitl yr Eitem: Adroddiad Blynyddol 2024/25 Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

1. Y penderfyniad a geisir

- i. Bod y Cabinet yn ystyried ac yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2023/24 Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur Cyngor Gwynedd.

2. Y Rheswm Dros yr Angen am Benderfyniad

- i. Mae Cyngor Gwynedd wedi cyhoeddi datganiad argyfwng hinsawdd fis Mawrth 2019 ac yn sgil fe hynny fe gyhoeddwyd y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23-2029/30 (CAHN) fis Mawrth 2022. Mae'r CAHN hefyd yn un o'r prosiectau o fewn pennawd Gwynedd Werdd yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028.
- ii. Daeth y [Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf \(llyw.cymru\)](#) i fodolaeth ar ddechrau blwyddyn 2022/23 ac ers hynny fe gyhoeddwyd [adroddiadau blynyddol](#) ar gyfer 2022/23 a 2023/24 yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cabinet.
- iii. Mae llawer o'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio yn yr adroddiad blynyddol hwn eisoes wedi ei graffu gan y Bwrdd Hinsawdd a Natur a thrwy drefniadau herio perfformiad mewnol y Cyngor, ond mae'r adroddiad blynyddol yn dod â'r holl wybodaeth at ei gilydd am y tro cyntaf.
- iv. Gan ddilyn yr un drefn â blynyddoedd blaenorol, dyma gyfle i'r Cabinet benderfynu os ydynt yn fodlon bod yr Adroddiad Blynyddol yn Atodiad 1 yn rhoi darlun cywir a chytbwys a'i peidio o'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2024/25 er mwyn cyrraedd uchelgais y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (CAHN).
- v. Yn ôl Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae gan awdurdodau cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru ddyletswydd i gynnal ac i wella bioamrywiaeth ac i annog cryfder ecosystemau. Rydym yn adrodd ar y cynnydd yn erbyn 'dyletswydd Adran 6' o fewn Adroddiad Blynyddol Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2024/25.
- vi. Trafodwyd fersiwn drafft o'r Adroddiad Blynyddol mewn cyfarfod o Bwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd ar 18 Medi, ac mae sylwadau'r pwyllgor wedi eu crynhoi yn 4. isod.

- vii. Gall y Cabinet hefyd gynnig sylwadau ac arweiniad ar drywydd gwaith y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur i'r dyfodol.

3. Cefndir

- i. Mabwysiadodd y Cyngor y [Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf \(llyw.cymru\)](#) yn dilyn cyfarfod o'r Cabinet ar 8 Mawrth 2022. Uchelgais y cynllun yw "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030." Mae "Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd" hefyd yn un o 8 o Flaenoriaethau Gwella y Cyngor o fewn [Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 \(llyw.cymru\)](#).
- ii. Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (y Cynllun) yn amlinellu sut y byddwn fel Cyngor yn addasu ein ffordd o weithio ac o ddarparu gwasanaethau er mwyn lleihau ein allyriadau carbon a chynyddu capasiti amsugno carbon. Mae'n cynnig enghreifftiau o brosiectau y byddwn yn eu dilyn, eu costau amlinellol a'r amserlen er mwyn cyflawni.
- iii. Mae Cyngor Gwynedd, fel y rhan fwyaf o gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru, yn casglu data ar allyriadau ac amsugno carbon gan ddilyn methodoleg sydd wedi ei datblygu gan Lywodraeth Cymru. Buom yn casglu data ar gyfer blwyddyn 2024/25 gan ddilyn y prosesau hyn, ac rydym yn defnyddio data 2019/20 fel ei blwyddyn waelodlin ar gyfer cymhariaeth.
- iv. Mae angen i ni gasglu data am y carbon sy'n deillio o'n prosesau caffael, ond mae'r fethodoleg bresennol yn seiliedig ar fesur yn ôl gwariant ariannol yn unig. Yn syml, po fwyaf yr ydym yn ei wario, po fwyaf yw'r allyriadau. Oherwydd y gall hyn greu darlun amherffaith o'r gwir sefyllfa mae'r Adroddiad Blynnyddol yn nodi dau set o ddata gwahanol – gyda chaffael a heb ddata caffael.
- v. Ar sail y data hwn rydym yn gwybod faint yw'r 'bwlch i sero net' ac felly faint yn rhagor o waith sydd o'n blaenau os ydym am gyrraedd ein targed.

4. Argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau

- i. Cafodd yr Adroddiad Blynnyddol ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 18 Medi ac mae eu sylwadau a'u hargymhellion o faterion i'w trafod gan y Cabinet wedi eu nodi isod:
 - 1. Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.
 - 2. Argymhell i'r Aelod Cabinet Amgylchedd bod angen ail-edrych ar uchelgais y Cyngor i fod yn garbon sero net erbyn 2030 a dylid ystyried gosod targed realistig ar gyfer lleihau allyriadau carbon.

5. Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

- i. Yn ôl Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae gan awdurdodau cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru ddyletswydd i gynnal ac i wella bioamrywiaeth ac i annog cryfder ecosystemau.
- ii. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol, sef y 'Cynllun Gweithredu Adfer Natur' yn 2015 oedd yn amlinellu'r ymrwymiad i wrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru, ac ynddo y mae 6 amcan ar gyfer gweithredu. Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd Adran 6 mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi cynllun eu hunain sy'n seiliedig ar gynllun Llywodraeth Cymru, ac yna mae angen adrodd ar y cynnydd.

- iii. Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn diweddarau ein Cynllun Adfer Natur ein hunain er mwyn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf, ond yn y cyfamser rydym yn adrodd ar ein cynnydd yn erbyn 6 amcan y Cynllun Gweithredu Adfer Natur cenedlaethol drwy'r Adroddiad Blynyddol Hinsawdd a Natur. Mae'r wybodaeth i'w weld ym mhennod 3 ac ar ddiwedd penodau 6 i 11.

6. Prif Faterion

- i. Mae pennod 5 yr Adroddiad Blynyddol yn rhoi gwybodaeth am y lefelau o allyriadau ac amsugno carbon yr oedd y Cyngor yn gyfrifol amdanynt, ac am y ffigwr holl-bwysig, sef y bwlch sy'n weddill er mwyn cyrraedd sero net. Ein bwlch i sero net yn 2024/25 oedd 18,132,729 kgCO₂e.
- ii. Mae'r allyriadau carbon o'n prosesau caffael yn seiliedig ar wariant yn unig ar hyn bryd, a gall hyn greu darlun camarweiniol o wir effaith ein gwariant ar yr hinsawdd. Yn syml, po fwyaf yr ydym yn ei wario po fwyaf yw'r allyriadau.
- iii. Roedd cyfanswm allyriadau carbon Cyngor Gwynedd yn 2024/25, gan gynnwys caffael, wedi cynyddu 4% ers blwyddyn waelodlin 2019/20 a chynyddu 24% ers 2023/24. Y prif reswm am hynny yw'r cynnydd mewn gwariant ariannol.
- iv. Roedd cyfanswm allyriadau carbon Cyngor Gwynedd yn 2024/25, heb gynnwys caffael, wedi lleihau 35% ers blwyddyn waelodlin 2019/20 a chynyddu 4% ers 2023/24. Y prif resymau am y cynnydd ers 2023/24 yw'r cynnydd mewn defnydd o ynni a rhagor o deithio, ond mae'r esboniad fanylach i'w weld yn yr adroddiad blynyddol.
- v. Wrth edrych ar ein data allyrru ac amsugno carbon gyda'i gilydd, heb ystyried data caffael, yna mae ein bwlch i sero net 32% yn llai yn 2024/25 o'i gymharu â 2019/20 a 4% yn uwch nag yn 2023/24.

7. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- i. A ydych wedi **cynnwys** trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?
- ii. Bydd yr Adroddiad Blynyddol terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ar ôl derbyn sêl bendith y Cabinet a byddwn yn rhannu gwybodaeth amdano i holl aelodau'r Cyngor, ac i drigolion Gwynedd a'r cyhoedd yn gyffredinol.
- iii. A ydych wedi ystyried **cydweithio**?
- iv. Mae penodau 11 a 12 o'r Adroddiad Blynyddol yn adrodd ar waith sydd wedi ei gynnal yn rhannol gan Bartneriaeth Natur Gwynedd, sef consortïwm o fudiadau lleol sy'n cael eu harwain gan y Cyngor. Mae nifer o brosiectau eraill sydd yn y CAHN yn cael eu cynnal mewn partneriaeth ag eraill, megis prosiectau teithio llesol ar y cyd â phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- v. Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?
- vi. Un o egwyddorion sylfaenol y CAHN yw ceisio atal cynnydd pellach yn nhymheredd cyfartalog y blaned ac i gyfyngu cynhesu byd eang i "ymhell islaw 2 °C" yn unol â Chytundeb Paris y Cenhedloedd Unedig. Mae pob un o brosiectau'r cynllun yn ceisio sefydlogi neu hyd yn oed wrthdroi y siawns bod y sefyllfa bresennol yn arwain at ragor o broblemau yn y dyfodol.
- vii. Sut ydych wedi ystyried yr **hirdymor** a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?

- viii. Fel y nodwyd uchod, sail y CAHN yw ceisio atal problemau cynhesu byd eang rhag gwaethygu i'r dyfodol, ac er bod targed i'r Cyngor ei hun fod yn garbon sero net erbyn 2030 mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i Gymru gyfan fod yn sero net erbyn 2050. Mae'r CAHN felly hefyd yn cymryd i ystyriaeth y bydd newid arferion trigolion a busnesau Gwynedd yn waith hirdymor y tu hwnt i 2030.
- ix. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn amlygu bod y CAHN ei hun yn datgan bod yna waith pellach angen ei wneud er mwyn ymgorffori prosiectau fydd yn helpu trigolion, busnesau a chymunedau i ymateb i newid hinsawdd sydd eisoes yn newid ein tirwedd, megis effaith llifogydd a thywydd eithafol. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i adolygu'r CAHN ac i wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol felly mae'n debygol iawn y gwelwn brosiectau ychwanegol i'r dyfodol fydd yn canolbwyntio ar helpu trigolion Gwynedd i addasu i'r anghenion gwahanol dros gyfnod hir o amser.
- x. Er mwyn sicrhau **integreiddio**, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?
- xi. Mae nifer fawr o brosiectau'r CAHN yn cael eu cynllunio neu eu gweithredu ar y cyd â chyrrff cyhoeddus eraill neu gyda'r sector wirfoddol a chymunedau. Gweler 7.iv.
- xii. Mae nifer o gyrff cyhoeddus lleol gan gynnwys Cyngor Gwynedd yn aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac un o dri Amcan Llesiant yng Nghynllun Llesiant Gwynedd a Môn 2023-2028 yw 'Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon'. Mae yna gydweithio parhaus gydag awdurdodau lleol eraill ar draws gogledd Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth i Gymru sydd wedi arwain at gynllunio a chomisiynu gwaith ar y cyd. Mae nifer o brosiectau'r CAHN hefyd yn ddibynnol ar gydweithio llwyddiannus gyda phartneriaid eraill, megis ein prosiectau bioamrywiaeth a defnydd tir ar y cyd â Phartneriaeth Natur Gwynedd.

8. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

- i. Lluniwyd Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol ar y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur pan y gafodd ei fabwysiadu yng nghyfarfod y Cabinet ar 8 Mawrth 2022. Mae'r asesiad hwn yn uniongyrchol berthnasol i'r Adroddiad Blynyddol ar y CAHN yn ogystal.

9. Camau nesaf ac amserlen

- i. Byddwn yn cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol ar ein gwefan ac yn rhannu gwybodaeth amdano.
- ii. Byddwn yn parhau i gyd-drafod ac adeiladu perthynas gyda phartneriaid allanol er mwyn trafod gwersi a ddysgwyd o waith ein gilydd, a sut orau i ddatblygu'r gwaith i'r dyfodol.

Barn y swyddogion statudol

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid:

Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol.

Atodiadau

Atodiad 1 - Adroddiad Blynyddol 2024/25 Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur



Adroddiad Blynyddol

Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur
Cyngor Gwynedd

2024/25

Cynnwys

1.	Rhagair Arweinydd Cyngor Gwynedd	2	7.	Symud a Thrafnidiaeth	17
2.	Cefndir	3	8.	Gwastraff	22
3.	Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016	4	9.	Llywodraethu	25
4.	Cyrraedd y Sefyllfa Bresennol	6	10.	Caffael	27
5.	Allyriadau ac Amsugno Carbon 2023/24	8	11.	Defnydd Tir	29
6.	Adeiladau ac Ynni	11	12.	Ecoleg	32

1. Rhagair Arweinydd y Cyngor



Mae'n bleser i gen i gyflwyno adroddiad sy'n rhoi trosolwg manwl o gynnydd Cyngor Gwynedd i wireddu ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn ystod 2024/25. Mae'n cynnwys data, gwybodaeth am brosiectau, a gwerthusiad ar draws sawl maes gweithredu.

Mae gweithredu ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn ran ganolog o'r gwaith i greu Gwynedd Werdd, sy'n un o'r

blaenoriaethau yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028. Rydym yn ceisio newid sut mae'r Cyngor yn gweithredu er mwyn lleihau'r niwed ar y blaned, ac mae'n bwysig bod pob aelod etholedig a staff yn cyfrannu at y gwaith hwn. Wedi dweud hyn, nid ar chwarae bach mae newid arferion gwaith ac ymddygiad ac mae gennym her o'n blaenau os ydym am gyrraedd ein huchelgais i fod yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030.

Er hynny, cymerwyd camau positif ymlaen yn ystod 2024/25. Drwy fuddsoddi mewn gosod paneli solar ar 66 safle rydym wedi lleihau ein costau ynni yn ogystal ag arbed carbon. Buom hefyd yn helpu trigolion i wneud y gorau o dechnoleg arbed ynni

fydd yn ei dro, gobeithio, yn helpu i leihau'r broblem ddifrifol o dlodi tanwydd.

Rwy'n falch ein bod yn cymryd camau mawr ymlaen i newid ein fflyd i gerbydau trydan. Mae 43% o'n ceir a faniau bellach yn gerbydau trydan, a bydd y gweddill yn cael eu newid pan fydd oes y cerbyd yn dod i ben. Mae ein cefnogaeth i wasanaeth bysiau cyhoeddus Sherpa'r Wyddfa wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn defnydd eto eleni.

Rydym i gyd yn ymwybodol pa mor heriol ydi'r amgylchiadau ariannol presennol, felly mae'n rhaid i bob ceiniog o fuddsoddiad ariannol gennym fel Cyngor arwain at y gwerth gorau wrth leihau allyriadau carbon a lleihau costau. Ers 2019 mae Cyngor Gwynedd wedi buddsoddi £6.8M mewn prosiectau sy'n rhan o'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ond mae hynny wedi ein galluogi i ddenu £13.5M mewn grantiau gan gyrff allanol. Mae'r grantiau yma wedi bod yn hanfodol i fedru cyflawni ein gwaith, ac mae angen rhagor o gyllid os ydym am barhau â'r gwaith hanfodol hwn i'r dyfodol.

Cynghorydd Nia Jeffreys

Arweinydd Cyngor Gwynedd

2. Cefndir

Mae Cyngor Gwynedd wedi datgan yn glir bod ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur yn un o'i flaenoriaethau, ac mae Gwynedd Werdd yn un o 7 maes blaenoriaeth yng [Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028](#).

Er mwyn deall rhagor am yr hyn mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni, trowch at y [Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf](#) ([llyw.cymru](#)) (CAHN) a fabwysiadwyd gan y Cabinet fis Mawrth 2022.

Uchelgais y Cynllun yw "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030."

Mae'r uchelgais yn cyd-fynd â tharged Llywodraeth Cymru i sefydliadau'r sector gyhoeddus ar y cyd fod yn garbon sero net erbyn 2030 ac i Gymru fod yn wlad sero net erbyn 2050.

Mae ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn cynnwys nifer o brosiectau o fewn y prif themâu –

- adeiladau ac ynni
- symud a thrafnidiaeth
- gwastraff
- llywodraethu

- caffael
- defnydd tir
- ecoleg

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i holl awdurdodau lleol a chyrff y sector gyhoeddus yng Nghymru i gyflwyno data'n flynyddol ar eu hallyriadau ac amsugno carbon, gan ddefnyddio taenlen data sy'n gyffredin i bawb. Mae'r holl ddata yn yr adroddiad hwn wedi dynnu o'r data a gyflwynir i'r Llywodraeth.

Mae'r cynnydd yn y cynllun yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y Bwrdd Hinsawdd a Natur, sydd ag aelodaeth o swyddogion ac Aelodau Cabinet a chynrychiolwyr o bwyllgorau craffu.

Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi cipolwg o'r cynnydd sydd wedi ei wneud ym mhob un o brosiectau'r CAHN yn ystod blwyddyn 2024/25, sef y drydedd flwyddyn i'r cynllun fod yn weithredol.

Mae adroddiadau blynyddol blaenorol i'w gweld yma - [Hinsawdd a natur: Cynlluniau, polisïau ac adroddiadau](#).

Bydd yr Adroddiad Blynyddol hwn yn cael ei graffu mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 18 Medi 2025 ac yna bydd yn cael ei gyflwyno i Gabinet Cyngor Gwynedd.

3. Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (CAHN) yn datgan ein uchelgais: “Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac **yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030.**” Un o'r camau y gallwn ei gymryd er mwyn gwireddu hyn yw gweithredu ar gynnwys Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Yn ôl Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae gan awdurdodau cyhoeddus sy'n gweithredu yng Nghymru ddyletswydd i gynnal ac i wella bioamrywiaeth ac i annog cryfder ecosystemau.

Mae 'Adran 6' yn nodi y dylai awdurdodau cyhoeddus ymgorffori'r angen i ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu syniadau a'u cynlluniau busnes cychwynnol, gan gynnwys unrhyw bolisiâu, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau beunyddiol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru strategaeth bioamrywiaeth genedlaethol, sef y 'Cynllun Gweithredu Adfer Natur' yn 2015 oedd yn amlinellu'r ymrwymiad i wrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru, a'r amcanion ar gyfer gweithredu. Mae'n cynnwys 6 amcan ar gyfer adferiad natur yng Nghymru:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd Adran 6 mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi cynllun eu hunain yn amlinellu'r hyn maent yn bwriadu ei wneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac annog gwytnwch. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai cyrff cyhoeddus ystyried seilio eu cynllun dyletswydd Adran 6 hwythau ar y Cynllun Gweithredu Adfer Natur cenedlaethol.

Mae Cyngor Gwynedd wrthi'n datblygu Cynllun Adfer Natur diwygiedig, ond yn y cyfamser rydym hefyd wedi cynnwys gwybodaeth berthnasol yn y CAHN. Tra fod gwarchod natur a bioamrywiaeth wedi ei wau drwy'r CAHN cyfan mae'r adrannau Defnydd Tir ac Ecoleg yn rhestru'r prosiectau fydd yn canolbwyntio'n benodol ar y gwaith hwn.

Ar ddiwedd pob adran o'r adroddiad blynyddol hwn fe welwch ddisgrifiad o sut y mae'r gwaith sydd wedi ei gyflawni yn cyfrannu at wireddu un neu fwy o'r 6 amcan uchod, sydd yn ei dro yn cydymffurfio ag Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Dyma grynodeb o'r cysylltiad rhwng prosiectau'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ac Amcanion Adran 6:

Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

	Amcan 1	Amcan 2	Amcan 3	Amcan 4	Amcan 5	Amcan 6
Adeiladau ac Ynni						
Symud a Thrafnidiaeth						
Gwastraff						
Llywodraethu						
Caffael						
Defnydd Tir						
Ecoleg						


4. Cyrraedd y Sefyllfa Bresennol

2010 - 2019

Cyn bodolaeth y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur roedd y Cyngor eisoes wedi bod yn gweithredu ers blynyddoedd i geisio lleihau ein ôl troed carbon. Cyhoeddwyd y Cynllun Rheoli Carbon 1 yn 2010 a Chynllun Rheoli Carbon 2 yn 2015. Defnyddiwyd 2005/06 fel y flwyddyn waelodlin er mwyn mesur y data a'r cynnydd ar gyfer y ddau gynllun.

Drwy fuddsoddi oddeutu £8m mewn mesurau lleihau defnydd ynni rhwng 2010 a 2019 bu i ni lwyddo i leihau ein allyriadau carbon 58% yn y meysydd adeiladau, teithio busnes, goleuadau stryd, fflyd a gwastraff.

Gellir gweld y gostyngiad fesul maes yn y graff gyferbyn a theg dweud fod ein hymdrechion wedi arwain at gydnabyddiaeth genedlaethol sawl tro.



Ers 2019

Ym mis Mawrth 2019, mewn cyfarfod o Gyngor Gwynedd, fe gyhoeddwyd ddatganiad ein bod yn wynebu argyfwng hinsawdd, gan ymrwmo i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu am ddyfodol di-garbon. Y cam nesaf ar y daith hon oedd llunio strategaeth a chynllun gweithredu er mwyn i ni fod â rhaglen waith glir i'w dilyn.

Tra'n datblygu'r strategaeth daeth yn amlwg bod angen rhoi sylw cyfartal i'r argyfwng sy'n wynebu byd natur yn ogystal, gan eu bod yn cyd-redeg mor agos â'i gilydd. Penllanw'r gwaith oedd cyhoeddi [Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf](#) (CAHN) fis Mawrth 2022. Gweler bennod 2 'Cefndir' am ragor o fanylion.

Mesur ein Allyriadau Carbon

Pan oedd y Cyngor yn gweithredu Cynlluniau Rheoli Carbon 1 a 2 roeddem yn dilyn dulliau mesur allyriadau carbon cydnabyddedig y Carbon Trust, ac yn mesur cynnydd mewn 5 maes fel mae'r siart yn ddangos. Ers 2019 mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu trefn wahanol o fesur data carbon ac felly mae'r CAHN wedi defnyddio data blwyddyn 2019/20 fel gwaelodlin newydd. Gan fod amrywiadau bychan rhwng y ddwy drefn o fesur byddai'n gamarweiniol i wneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng data carbon cyn, ac ar ôl, 2019.

Rydym bellach hefyd yn mesur ein allyriadau carbon mewn meysydd ychwanegol – caffael, cymudo staff, a gweithio o gartref (ers 2021/22). Rydym hefyd yn mesur faint o garbon y mae ein tiroedd yn ei amsugno, ac wrth wrthbwysu'r ffigwr hwnnw yn erbyn cyfanswm yr allyriadau fe gawn ffigwr net, sef y bwlch i gyrraedd sero net.

5. Allyriadau ac Amsugno Carbon 2024/25

Ein bwlch i sero net (**gan** gynnwys caffael) yn 2024/25 oedd 72,857,729 kgCO₂e.

Ein bwlch i sero net (**heb** gynnwys caffael) yn 2024/25 oedd 18,132,729 kgCO₂e.

Allyriadau
21,255,302
kgCO₂e



Bwlch
18,132,729
kgCO₂e



Amsugno
3,123,254
kgCO₂e

Allyriadau Carbon

Mae'r siart cyntaf gyferbyn yn dangos ein allyriadau carbon dros 8 pennawd, ac yn cynnwys allyriadau caffael (prynu nwyddau a gwasanaethau).

Mae'r fethodoleg o fesur allyriadau carbon sy'n deillio o'n prosesau caffael yn amherffaith gan ei fod yn seiliedig ar faint o arian yr ydym yn ei wario. Po fwyaf yr ydym yn ei wario po fwyaf yw'r allyriadau.

Oherwydd y gall y data caffael greu darlun amherffaith mae'r ail siart gyferbyn yn cyflwyno data ar gyfer y 7 pennawd sy'n weddill ar ôl diystyru caffael.




Amsugno Carbon

Fel mae'r siart isod yn ei ddangos, mae lefelau amsugno carbon ar diroedd y Cyngor wedi gostwng 47% rhwng blwyddyn waelodlin 2019/20 a 2024/25, ond wedi cynyddu 1% rhwng 2023/24 a 2024/25.

Mae gostyngiad ers 2019/20 yn rhannol oherwydd bod newid yn y dulliau o gyfrifo ond hefyd am ein bod bellach yn berchen ar lai o hectrau o dir. Mae'r cynnydd ers 2023/24 oherwydd bod rhai llecynnau wedi newid o fod yn dir llwyd i fod yn laswelltir.


Gweler benodau 11 a 12 am ragor o fanylion am y gwaith a wnaethpwyd i gynyddu lefelau amsugno carbon ar diroedd y Cyngor.




Ble ydym ni ar y daith o gyrraedd sero net erbyn 2030, ac ydi data 2024/25 yn dangos ein bod ar y trywydd cywir?

Dros y 6 mlynedd rhwng 2019/20 a 2024/25 fe wnaeth y Cyngor fuddsoddi £6.8M yn y prosiectau sydd yn y CAHN, ond fe wnaeth hynny fwy na dyblu yn ei werth gan i ni hefyd ddenu £13.5M mewn grantiau allanol dros yr un cyfnod.

Rhwng 2019/20 a 2024/25 bu i ni lwyddo i leihau ein allyriadau carbon 35% ar draws cyfanswm meysydd adeiladau ac ynni, teithio busnes, goleuadau stryd, fflyd, gwastraff, cymudo a gweithio o gartref.




Mae'r newid ers 2019/20 yn amrywio yn ôl y meysydd unigol, fel mae'r siart isod yn ei ddangos. Mae rhagor o wybodaeth am y rhesymau y tu ôl i'r newid i'w gweld ym mhenodau 6 - 12.



Bwlch i Sero Net

Yn syml iawn, y bwlch i sero net ydi faint o CO2e sydd angen i ni ddileu er mwyn cyrraedd ein uchelgais: "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030." Mae cyfanswm y CO2e yn cael ei gyfrifo drwy dynnu gwerth cyfanswm y carbon sy'n cael ei amsugo allan o gyfanswm y carbon sy'n cael ei allyrru.

Wrth edrych ar ein data allyru ac amsugno carbon, **heb** ystyried data caffael, yna mae ein bwlch i sero net 32% yn llai yn 2024/25 o'i gymharu â 2019/20 a 4% yn uwch nag yn 2023/24.



Bwlch sero net 2024/25 ydi 18,132,729 kgCO2e. Mae hyn ychydig yn llai na'r allyriadau sy'n deillio o'n adeiladau, ffilyd a chymudo gyda'i gilydd. Mae hefyd bron 6 gwaith yn fwy na gwerth amsugno ein tiroedd.

Bydd angen cwmp sylweddol mewn allyriadau a chynnydd sylweddol mewn lefelau amsugno os ydym am gyrraedd yr uchelgais i fod yn sero net erbyn 2030.

6. Adeiladau ac Ynni

Mae'r allyriadau carbon o adeiladau ac ynni yn 2024/25 yn 49% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael), sy'n 14% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 8% o gynnydd ers 2023/24.

Mae'r allyriadau carbon o oleuadau stryd yn 2024/25 yn 3% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael), sy'n 36% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 1% o ostyngiad ers 2023/24.

Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2024/25?

Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

Prosiectau:

1. Anelu am fuddion tymor hir wrth gynllunio gwaith adeiladu neu adnewyddu adeiladau.
2. Dadgarboneiddio cyflenwad ynni'r cyngor.
3. Defnyddio dulliau adeiladu carbon isel Passivhaus wrth ddatblygu ein cynllun peilot tai arloesol.
4. Cynnig cyngor a gwybodaeth i drigolion Gwynedd am fanteision a chyfleoedd i ddefnyddio dulliau adeiladu

carbon isel wrth adeiladu cartrefi a systemau gwresogi/ynni carbon isel i gynnal cartref.

5. Gosod rheoliadau gwresogi ystafelloedd unigol er mwyn lleihau'r ynni sydd ei angen i wresogi adeilad.
6. Uwchraddio goleuadau stryd ac arwyddion traffig er mwyn defnyddio llai o ynni.
7. Gwella'r isadeiledd ynni yng Ngwynedd a gogledd Cymru er mwyn cynnal systemau ynni a thrafnidiaeth carbon isel.

Be wnaethom ni?

Mewn gwirionedd mae pob un o'r prosiectau uchod wedi parhau y tu hwnt i'r cyfnod 'tymor byr' naill ai oherwydd bod gwaith cynnal a chadw yn gyfrifoldeb parhaus neu oherwydd ein bod wedi gweld cynnydd yn y galw am y gwaith.

Prosiect 1 –Mae'r gwaith o wella ffabrig adeiladau er mwyn eu gwneud mor effeithlon o ran ynni (prosiectau 1, 9 & 14) yn waith parhaus sydd wedi bod ar y gweill gennym fel cyngor ers dros ddegawd. Gweler wybodaeth am brosiectau 9 & 14 isod am ragor o fanylion.

Ein nod hirdymor yw cynllunio datblygiadau i ffabrig adeiladau drwy eu modelu yn y *Passivhaus Planning Package* (PHPP), sef

dull o ddylunio adeiladau sydd mor effeithlon o ran ynni a phosib.

Prosiect 2 a 7 – Mae'r Cyngor wedi parhau i gynyddu faint o drydan yr ydym yn ei gynhyrchu drwy baneli solar, sydd yn ei dro yn lleihau faint o drydan sydd angen ei brynu drwy'r grid cenedlaethol ac yn lleihau allyriadau carbon. Gweler adroddiad ar Brosiect 9 am ragor o wybodaeth.

Yn ystod 2023/24 a 2024/25 bu'r cyngor yn cydweithio ag Uchelgais Gogledd Cymru, cwmni ARUP a rhanddeiliaid lleol er mwyn datblygu Cynllun Ynni Lleol. Bwriad y Cynllun Ynni Lleol yw creu system ynni carbon isel integredig ar gyfer Gwynedd, gan wella'r isadeiledd presennol fydd yn ei dro yn cefnogi pob sector i drawsnewid eu defnydd presennol o ynni. Bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno i Gabinet Cyngor Gwynedd yn 2025/26 ond mae trafodaethau gyda phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol yn parhau er mwyn cytuno sut all y cynllun gael ei weithredu a'i ariannu.

Prosiect 3 – Mae egwyddorion Passivhaus yn ystyriaeth wrth i'r cyngor gynllunio adeiladau newydd, ee. Ysgol Bontnewydd. Mae'r union ddulliau adeiladu yn cael eu cytuno fesul datblygiad. Gweler hefyd adroddiad ar Brosiect 14 am ragor o fanylion.

Prosiect 4 - Mae ECO 4 yn gynllun sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ond ei weinyddu gan y Cyngor. Mae'n darparu cyllid ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn y cartref fel system wresogi canolog newydd, uwchraddio i'r

system wresogi bresennol a/neu inswleiddio a/neu baneli solar. Mae ein swyddogion trechu tlodi a chynghorwyr ynni wedi bod yn cynnal sesiynau gwybodaeth wyneb yn wyneb yn ein cymunedau yn ogystal ag ateb ymholiadau drwy'r wefan neu dros y ffôn ac yn helpu trigolion i fanteisio ar gynllun ECO 4.

Rhwng Hydref 2022 a Ebrill 2025 bu gwelliant ym mherfformiad ynni 753 o dai trigolion Gwynedd. Fe newidiodd yr EPC (*Energy Performance Certificate*) er gwell, gyda 70 wedi cynyddu i A, 563 i B a 101 i C. Mae hyn yn golygu bod gwariant o dros £10M wedi ei wneud ar dai yng Ngwynedd ers cychwyn ECO 4.

Yn ogystal â chynllun ECO 4, yn ystod 2024/25 fe ddosbarthwyd 656 o dalebau ynni gwerth £24,719 i drigolion mewn angen sydd ar fesurydd rhag-dalu. Ers dechrau'r cynllun yn 2022 mae 5,671 o dalebau ynni wedi'u rhannu, sydd wedi helpu pobl Gwynedd yn uniongyrchol.

Prosiect 5 - Mae gennym systemau canolog ar gyfer rheoli gwres mewn adeiladau felly nid ydym yn gweld yr angen i symud ymlaen i osod rheoliadau gwresogi ystafelloedd unigol ar hyn o bryd. Fe all yr angen hwn newid i'r dyfodol os fydd y prosiect Rhyngrwyd y Pethau (o fewn Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd 2023-28) yn dangos bod gwerth ychwanegol i newid y drefn bresennol.

Prosiect 6 – Dechreuodd y prosiect hwn i newid lampau stryd a thraffig i rai LED yn 2016/17, a chwblhawyd y rhan helaethaf o'r

gwaith erbyn diwedd 2022/23 gan arwain at ostyngiad sylweddol mewn defnydd o drydan a chostau ariannol.

Yn ystod 2022/23 fe fabwysiadodd y Cyngor y cyfrifoldeb am rannau helaeth o'r A487 o amgylch Caernarfon gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, ac yn sgil hyn nifer fawr o lampau stryd ychwanegol oedd angen eu newid i LED, wnaeth arwain at gynnydd eto mewn cost a defnydd o drydan.

Erbyn diwedd 2024/25 roedd y rhan fwyaf o'r gwaith ychwanegol yma wedi ei orffen, ac er bod cynnydd o 1.2% mewn gwariant ar drydan o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, roedd y ffaith ein bod wedi gosod lampau LED yn arwain at 1% yn llai o allyriadau carbon. Er mor fychan yw'r allyriadau o oleuadau stryd (3% heb caffael), mae'r allyriadau hynny'n deillio o'r ffaith fod y trydan sy'n eu pweru yn dod o'r grid cenedlaethol.

Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

Prosiectau:

8. Arbed 5% o allyriadau carbon o adeiladau drwy ddod â hwy i safon 'arfer dda' CIBSE.
9. Lleihau ein allyriadau carbon drwy ehangu ein defnydd o baneli solar i greu ynni adnewyddadwy.
10. Trydaneiddio systemau gwresogi adeiladau er mwyn lleihau allyriadau carbon.

11. Gosod ffaniau awyru EC (*electronically commutated*) mewn adeiladau er mwyn lleihau'r ynni sydd ei angen i'w rhedeg o'i gymharu â ffaniau arferol.

12. Uwchraddio goleuadau arbenigol mewn canolfannau hamdden er mwyn defnyddio llai o ynni.

Be wnaethom ni?

Prosiect 8 – Efallai mai'r dull symlaf ac amlycaf o leihau allyriadau o adeiladau yw lleihau'r galw a'r defnydd o ynni. Mae'r Cyngor wedi gosod System Rheoli Adeiladau mewn dros 100 o'n adeiladau, sy'n ein galluogi i ddarllen a rheoli defnydd o ynni o bell. Drwy fonitro'r system yma'n rheolaidd mae'n bosib adnabod unrhyw wastraff o ynni yn syth, a datrys y broblem. Mae'r gwaith monitro yma'n arbed tua £250,000-300,000 y flwyddyn, yn ogystal ag arbed allyriadau carbon.

Mae'r gwaith monitro hwn hefyd wedi dangos i ni bod ein defnydd o nwy wedi bod 10% yn uwch yn ystod 2024/25 nag yn 2023/24, a hynny oherwydd y bu 10% yn rhagor o ddiwrnodau tymheredd isel. Mae'r cynnydd hwn yn esbonio'r cynnydd o 8% mewn allyriadau o adeiladau yn ystod y flwyddyn. Byddwn yn parhau yn ddibynnol ar nwy fel ffynhonnell gwres hyd nes y bydd ffabrig ein hadeiladau wedi eu haddasu, a'u bod yn barod ar gyfer pymphiau gwres.

Mae pob prosiect arall hefyd yn cyfrannu at nod y prosiect hwn o leihau allyriadau carbon o'n hadeiladau.

Prosiect 9 - Yn dilyn penderfyniad i fuddsoddi £2.8M gan y Cyngor er mwyn ymestyn ein cynlluniau i osod paneli solar PV, erbyn diwedd Mawrth 2025 roedd paneli solar wedi eu gosod ar 66 o'n safleoedd.

Mae ychydig o oedi yn y rhaglen waith oherwydd daeth yn amlwg bod angen clymu'r gwaith hwn gydag unrhyw waith adnewyddu neu gynllunio ynni arall i adeiladau. Rydym hefyd yn cael ein cyfyngu i wneud gwaith ar adeiladau ysgolion yn ystod gwyliau ysgol yn unig. Er enghraifft, fe gymrodd 6 wythnos dros wyliau haf 2024 i osod paneli solar yn Ysgol Llanbedrog, ac roedd angen aros hyd nes gwyliau haf 2025 cyn gwneud gwaith pellach i osod pypiau gwres. Rydym hefyd wrthi'n ail-fodelu faint o drydan fydd ei angen ar gyfer nifer o'n hadeiladau wrth i ni fesur os fydd angen i ni osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan.

Serch hynny mae'r gwaith yn parhau, gyda chynlluniau eisoes ar waith i osod rhagor o baneli PV ar 22 safle (ysgolion, cartrefi gofal a swyddfeydd) erbyn diwedd 2025.

Prosiect 10 – Bu'r cyngor yn llwyddiannus i ddenu grant sylweddol i ariannu prosiect peilot i osod pypiau gwresogi ar 3 safle, ac fe gytunodd Cabinet y cyngor i gyfrannu 10% o gostau cyfatebol (£194,535). Mae cymal 1 o osod y pypiau gwres ar safleoedd ysgolion wedi dechrau yn ystod gwyliau haf 2024 a bydd yn cael ei gwblhau yn ystod gwyliau haf 2025. Bellach, mae pypiau gwres wedi eu gosod mewn 5 o'n hysgolion. Gweler hefyd y cysylltiad rhwng y prosiect hwn â phrosiect 9.

Prosiect 11 – Bydd ffaniau awyru yn cael eu gosod ar safle 1 ysgol ac 1 cartref gofal fel rhan o'r prosiect pypiau gwres (Prosiect 10).

Prosiect 12 - Cytunodd Cabinet y cyngor i gyfrannu £416,617 tuag at gostau rhedeg cynllun peilot er mwyn gosod goleuadau LED mewn 6 safle. Mae gwaith gosod y goleuadau wedi llithro oherwydd roedd angen blaenoriaethu amser i osod pypiau gwres, ond mae'r Uned Ynni a'r Uned Cynnal a Chadw wedi cydweithio er mwyn parhau â'r gwaith yn Ysgol Friars dros haf 2025, gyda'r bwriad i gwblhau'r gwaith erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2025/26. Bydd yr arbedion carbon ac ariannol yn cael eu mesur cyn penderfynu gwerth ymestyn y cynllun i amnewid goleuadau ar draws weddill stad y cyngor.

Blaenoriaethau Tymor Hir 2022/23 – 2029/30

Prosiect:

13. Cynyddu ein 'credyd' carbon drwy osod ffermydd solar er mwyn cynhyrchu ynni y gall y Cyngor ei ddefnyddio neu ei werthu.

Be wnaethom ni?

Prosiect 13 – Nid yw'r prosiect yma'n flaenoriaeth ar hyn o bryd gan fod y costau ariannol o gysylltu â'r grid cenedlaethol mor uchel, ac oherwydd na fedr y Cyngor, o dan drefniadau

adrodd data presennol, hawlio'r 'credyd carbon' ar unrhyw drydan a gynhyrchir. Serch hynny, mae'r Cynllun Ynni Lleol wedi adnabod cyfleoedd i ddatblygu ffermydd solar a byddwn yn parhau i drafod sut i ariannu prosiectau peilot o'r fath. Gweler hefyd brosiect 9.

Blaenoriaethau Parhaus

Prosiectau:

14. Gwellu ffabrig adeiladau sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn eu gwneud mor effeithlon o ran ynni a phosibl.
15. Rhwystro gor-ddatblygu cynlluniau ynni tanwydd ffosiledig.
16. Uchafu i'r eithaf y buddion a ddaw o weithredu ein polisiau ynni a gwresogi.
17. Offer a ddefnyddir o fewn adeiladau'r cyngor i fod mor effeithlon o ran ynni a phosibl.

Be wnaethom ni?

Prosiect 14 – Er mwyn cael y budd mwyaf o unrhyw gynlluniau i arbed ynni, megis gosod paneli solar neu bympiau gwres, mae'n angenrheidiol i wella ffabrig adeiladau yn gyntaf.

Yn ystod 2024/25 bu'r Cyngor yn llwyddiannus i ddenu grant o £1.7M drwy gynllun grant Gwres Carbon Isel Llywodraeth Cymru er mwyn uwchraddio cartref preswyl Plas Ogwen ym

Mathesda i safon EnerPHit, sef '*retrofit*' Passivhaus. Mae'n bosib mai hwn fydd y cartref preswyl cyntaf o'i fath ym Mhrydain. Mae disgwyl i'r gwaith arwain at arbediad o 80% mewn allyriadau carbon yn deillio o wresogi.

Prosiect 15 – Mae sylw wedi ei roi i'r mater hwn wrth greu'r Cynllun Ynni Lleol (Prosiectau 2 & 7), ac hefyd wrth ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd 2024-2039.

Prosiect 16 – Mae prosiectau 1-17 yn cyfrannu at y nod hwn.

Prosiect 17 – Yn dilyn mabwysiadu Cynllun Digidol Cyngor Gwynedd 2023-28 mae prosiectau ar y gweill i arbed ynni, leihau defnydd o bapur a lleihau gwastraff. Bellach, yn 2025/26 mae cytundeb newydd mewn lle i ddarparu peiriannau argraffu a llungopïo fydd yn arwain at leihad mewn costau ariannol ac allyriadau carbon.

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Gweler Prosiect 15 uchod.

7. Symud a Thrafnidiaeth

Mae'r allyriadau carbon o fflyd y cyngor yn 2024/25 yn 24% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 2% o gynnydd ers 2019/20 ac yn 3% o gynnydd ers 2023/24.

Mae'r allyriadau carbon o gymudo staff yn 2024/25 yn 17% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 34% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 6% o gynnydd ers 2023/24.

Mae'r allyriadau carbon o deithio busnes yn 2024/25 yn 6% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 34% o ostyngiad ers 2019/20 ac yn 4% o gynnydd ers 2023/24.

Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2024/25?

Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

Prosiectau:

1. Symud oddi wrth defnyddio cerbydau tanwydd ffosil tuag at fflyd o gerbydau (ceir a faniau) ULEV (ultra low emission vehicles).
2. Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer cerbydau'r cyngor

3. Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar gyfer trigolion Gwynedd

4. Lleihau teithio busnes

5. Lleihau allyriadau carbon a phroblemau parcio mewn ardaloedd sy'n boblogaidd ymysg ymwelwyr

Be wnaethom ni?

Prosiect 1 – Ers mabwysiadu ein Cynllun Fflyd Werdd 2023-29 fis Ionawr 2023 ein polisi yw i brynu cerbydau trydan (EV) newydd ble mae'n bosib wrth i'r fflyd bresennol o geir petrol a disel ddod i ddiwedd eu hoes. Ar ddiwedd 2024/25 bu'r Cyngor yn llwyddiannus yn denu grant o £124,379 gan Lywodraeth Cymru er mwyn prynu 11 cerbyd trydan: 9 fan fechan a 2 fws mini. Fe ddylem weld arbedion ariannol yn ogystal ag arbedion carbon wrth i'r cerbydau newydd gael eu defnyddio yn ystod 2025/26.

Erbyn diwedd 2024/25 roedd 79 cerbyd trydan a 9 cerbyd Hybrid yn rhan o'r fflyd, sef 43% o'r holl geir a faniau yr ydym yn berchen arnynt. Rydym wedi cyfrifo defnydd trydan y cerbydau yma o fewn ffigurau fflyd ar gyfer 2024/25 yn hytrach nag o fewn defnydd trydan adeiladau, fel y gwnaethom yn 2023/24. Er hynny, mae ein fflyd trydan yn gyfrifol am 0.4% yn

unig o holl allyriadau fflyd y Cyngor, sy'n dangos y gwahaniaeth mae'r newid hwn wedi ei wneud i'n taith i sero net.

Prosiect 2 – Bu'r cyngor yn llwyddiannus yn denu grant o £406,897 ar ddiwedd 2024/25 er mwyn gosod 21 o bwyntiau gwefru ar 11 o safleoedd y Cyngor, ynghyd â 6 batri ar 6 safle fydd yn gallu storio ynni sy'n cael ei gynhyrchu gan ein paneli solar fydd yn eu tro yn gallu bwydo'r pwyntiau gwefru.

Erbyn diwedd Mawrth 2025 roedd yna 52 pwynt gwefru yn weithredol ar 11 safle, gyda rhaglen waith i osod rhagor o bwyntiau dros 6 safle ychwanegol eisoes wedi cychwyn yn ystod 2025/26.

Prosiect 3 - Erbyn diwedd 2023/24 roedd y cyngor yn berchen ac yn rheoli 38 pwynt gwefru i'r cyhoedd mewn 10 lleoliad ac roedd 14 pwynt gwefru ychwanegol mewn 4 o safleoedd yn eiddo i'r cyngor yn cael eu rheoli gan Trafnidiaeth i Gymru. Rydym fel cyngor yn cydweithio â Thrafnidiaeth i Gymru a Pharc Cenedlaethol Eryri wrth gynllunio lleoliadau pwyntiau gwefru cyhoeddus. Roedd nifer llawer uwch o beiriannau wedi eu gosod, ond yn aros i'r cysylltiad trydan gael ei awdurdodi.

Llwyddwyd i ddenu grant o £105,000 o gronfa ULEV er mwyn ein galluogi i osod pwyntiau gwefru yn ystod 2024/25. Mae ein rhaglen barhaus i osod pwyntiau gwefru cyhoeddus yn parhau yn ystod 202/26 a byddwn yn ei hadolygu wrth asesu anghenion y dyfodol.

Prosiect 4 – Rydym fel cyngor yn cynnal nifer o gyfarfodydd mewnol a chyhoeddus yn rhithiol, gan gynnwys pob un o brif gyfarfodydd y cyngor – Cyngor Llawn, Cabinet, Craffu, Cynllunio – gan leihau'n sylweddol yr angen i deithio i ganolfannau gwaith. Mae'r dull yma o weithredu wedi arwain at ostyngiad sylweddol o 34% mewn allyriadau carbon o deithio busnes ers 2019/20. Er hyn, gwelwyd gynydd bychan o 4% rhwng 2023/24 a 2024/25 a hynny wrth i ragor o gyfarfodydd ac ymweliadau safle gael eu gwneud mewn ceir petrol a disel personol yn hytrach na thrwy gyfarfodydd rhithiol. Ers i'r Cyngor fabwysiadu'r Cynllun Gweithio Hybrid mae angen i staff weithio o leoliad gwaith am 2 ddiwrnod yr wythnos (ar sail llawn amser), felly mae niferoedd y teithiau busnes wedi cynyddu.

Wrth symud ymlaen rydym wedi dechrau galluogi staff i fod yn defnyddio cerbydau fflyd trydan y Cyngor yn hytrach na cheir personol. Rydym hefyd am wella cywirdeb y data am allyriadau carbon y 'fflyd lwyd', neu'r defnydd o gerbydau personol i wneud teithiau busnes, er mwyn gallu casglu gwybodaeth am gerbydau trydan yn ogystal â phetrol a disel.

Prosiect 5 - Un o lwyddiannau mawr system drafnidiaeth integredig yw'r gwasanaeth bysiau Sherpa'r Wyddfa, sef rhwydwaith o wasanaethau bws o amgylch dalgylch yr Wyddfa sy'n cynyddu opsiynau teithio llesol er mwyn lleihau'r problemau parcio mewn mannau poblogaidd yn Eryri. Ers cyflwyno'r system archebu ymlaen llaw ym maes parcio Pen y Pass yn 2021, a gwasanaeth cynyddol ar Sherpa'r Wyddfa, dim ond 2 achos o barcio peryglus sydd wedi bod ar Fwlch Llanberis

lle mae'r heddlu wedi cael eu galw – cymhariaeth amlwg â blynyddoedd blaenorol.

Yn Awst 2024, defnyddiodd 72,296 o bobl y gwasanaeth Sherpa, cynnydd o 79% ers Awst 2023 a dyma'r tro cyntaf i'r nifer o deithwyr fynd yn uwch na 70,000 mewn mis.

Blaenoriaethau Tymor Hir 2022/23 – 2029/30

Prosiect:

6. Bod ag opsiynau tanwydd carbon isel neu ddi-garbon ar gyfer fflyd trwm y cyngor

Be wnaethom ni?

Prosiect 6 – Mae 32% o holl allyriadau fflyd y Cyngor ar gyfer 2024/25 yn deillo o gerbydau (HGV yw'r mwyafrif) sy'n rhan o'r gwaith o gludo gwastraff. Nid ydym o'r farn bod yna opsiynau trydan neu hydrogen addas ar gael ar y farchnad ar hyn o bryd fydd yn ein galluogi i symud oddi wrth y cerbydau disel presennol. Er hyn, mae trosi'r fflyd o gerbydau trwm i fod yn defnyddio trydan neu hydrogen yn broses hir dymor, ac mae swyddogion y cyngor yn cydweithio ag Uchelgais Gogledd Cymru ar eu prosiect Hwb Hydrogen a gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn rhannu datblygiadau newydd ac arfer dda ymysg awdurdodau lleol.

Blaenoriaethau Parhaus

Prosiectau:

7. Lleihau allyriadau carbon drwy arferion cymudo staff
8. Annog teithio llesol ymysg staff – er budd iechyd a lles ac i leihau allyriadau carbon
9. Annog teithio llesol ymysg trigolion ac ymwelwyr i Wynedd er mwyn gwella lles corfforol a meddyliol a lleihau allyriadau carbon teithiau ceir byr
10. Cynyddu'r cyfleoedd i fudiadau cymunedol gael mynediad at gerbydau EV neu ULEV neu ddefnyddio technoleg carbon isel

Be wnaethom ni?

Prosiectau 7 ac 8 - Fe wnaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, y mae'r cyngor yn aelod ohono, fabwysiadu'r Siarter Teithio Llesol yn ystod 2024/25. Mae Grŵp Tasg Teithio Llesol o fewn y cyngor yn arwain ar waith i annog teithio llesol drwy dreialu gwahanol gymhellion i staff newid arferion teithio dyddiol, ac mae ein pencampwyr teithio llesol wedi bod yn annog staff i newid eu harferion teithio i'r gwaith. Datblygiad newydd cyffrous oedd creu ap sy'n cymharu cost ariannol ac allyriadau carbon taith ar fws a thaith car, ac fe arweiniodd hyn at osod her teithio ar fws i staff. Cynhaliwyd sesiwn yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru fis Tachwedd 2024 i staff dreialu beiciau trydan ar y cyd â menter Yr Orsaf o Benygroes, ac mae hyn wedi arwain at nifer o sesiynau tebyg yn ystod 2025/26.

Mae gan y cyngor Gynllun Ceir Gwyrdd a Chynllun Beics Gwyrdd ar gael i'r rhan fwyaf o staff, sef cynlluniau aberthu cyflog er mwyn lesu car trydan/hybrid neu feic newydd. Rydym wedi bod yn annog staff i gymryd mantais llawn o'r cyfleoedd yma, gan gynnal sawl diwrnod agored er mwyn treialu beiciau trydan. Mae cyfanswm o 32 o staff wedi manteisio ar y cynllun beic ac 16 wedi lesu car trydan neu hybrid yn ystod 2024/25.

Prosiect 9 – Bu sawl prosiect hir-dymor ar y gweill yn ystod 2024/25 - Llwybrau cerdded a beicio diogel ar Ffordd Penrhos, Bangor; llwybrau newydd a gwella mynediad i Ysgol Rhostryfan ac Ysgol Treforthyr, Cricieth, ynghyd â mân welliannau i rannau eraill o'r rhwydwaith. Mae'r cyngor yn gwarchod a datblygu rhwydwaith o Lonydd Glas ar draws y sir, sy'n cynnig cyfanswm o 31.5 milltir o lwybrau cerdded a beicio diogel. Ail-agorwyd llwybr Lôn Las Ogwen yn ystod y flwyddyn ar ôl uwchraddio'r strwythurau arni. Mae llwybrau cyhoeddus, hawliau tramwy a llwybrau sy'n rhan o rwydwaith Llwybr Arfordir Cymru hefyd yn cael eu cynnal gan Gyngor Gwynedd er lles trigolion ac ymwelwyr. Gweler hefyd Brosiectau 5, 7 & 8 uchod.

Prosiect 10 – Mae trafodaethau wedi cychwyn yn ystod y flwyddyn rhwng y cyngor a mudiadau ynni cymunedol er mwyn ymchwilio i'r posibilrwydd i gydweithio ar brosiect i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar feysydd parcio. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2025/26.

Sylwadau pellach

Fe gymerodd Cyngor Gwynedd gamau mawr ymlaen yn ystod 2024/25 er mwyn ehangu ein fflyd o gerbydau trydan, ac mae hynny'n amlwg wedi dwyn ffrwyth gan mai dim ond 0.4% o holl allyriadau'r fflyd sy'n deillio o gerbydau trydan.

Mae 32% o allyriadau'r fflyd yn deillio o gerbydau trwm sy'n casglu gwastraff, felly dylid nodi mai o dan y pennawd fflyd, yn hytrach na gwastraff, y mae'r allyriadau yma'n cael eu cofnodi. Fel y nodwyd uchod, ar hyn o bryd nid oes opsiynau trydan amgen i'r cerbydau HGV disel, ac felly bydd yn anodd iawn i ostwng yr allyriadau fflyd gwastraff ymhellach.

Er ein bod wedi amnewid ceir a faniau bychan petrol a disel am rai trydan wrth iddynt ddod i ddiwedd eu hoes, nid ydym yn anffodus wedi llwyddo i leihau y nifer o gerbydau sydd yn ein fflyd. Mae'r galw cynyddol am wasanaethau, yn ogystal â'r angen i fod â fflyd sy'n gwasanaethu sir sy'n fawr yn ddaearyddol, yn golygu bod lleihau y milltiroedd sy'n cael eu teithio yn her fawr. Er hyn, mae'r gwaith yn parhau yn 2025/26 er mwyn rhesymoli niferoedd y cerbydau yn ein fflyd er mwyn cynnal gwasanaethau angenrheidiol tra hefyd yn lleihau allyriadau carbon teithiau ein fflyd.

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Un o sgil-ffeithiau positif cynyddu'r ddarpariaeth o drafnidiaeth cyhoeddus yn ardal Eryri (Prosiect 5) yw bod yr achosion o barcio anghyfrifol a pheryglus wedi lleihau. Mae hyn yn ei dro wedi helpu i warchod bioamrywiaeth ar ymylon ffyrdd ac yn agos at leoliadau sy'n cynnal bioamrywiaeth sy'n fregus.

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Mae Prosiectau 5, 8 a 9 uchod yn rhedeg ochr yn ochr a gwaith y Cyngor i gynnal hawliau tramwy cyhoeddus, ac i gynnal a chadw tiroedd. Tra'n gofalu am rwydwaith o lonydd glas, llwybrau beicio a cherdded y sir rydym wedi bod yn gwarchod ymylon llwybrau a ffyrdd er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth.

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am rwydwaith Hawliau Tramwy sydd oddeutu 3,800km o hyd ac yn agored i gerddwyr, marchogwyr, beicwyr, ceffyl a throl a cherbydau modur.

8. Gwastraff

Mae'r allyriadau carbon o wastraff y cyngor yn 2024/25 yn 0% o'r cyfanswm (heb gyfri caffael) sy'n 100% o ostyngiad ers 2019/20 ac ers 2023/24.

Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2024/25?

Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

Prosiectau:

1. Hyrwyddo economi gylchol er mwyn lleihau nifer yr eitemau sy'n cael eu gwaredu a lleihau allyriadau carbon yn y gadwyn gyflenwi o brynu nwyddau newydd
2. Lleihau'r gwastraff stryd sy'n mynd i'w waredu a chynyddu'r gwastraff stryd sy'n cael ei ailgylchu
3. Lleihau defnydd papur

Be wnaethom ni?

Prosiectau 1, 4, 5 a 6 – Bu'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda nifer o fentrau cymunedol ar brosiectau i roi hwb i'r economi gylchol yng Ngwynedd, oll wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru. Bu'r prosiectau canlynol yn rhedeg yn llwyddiannus yn ystod 2024/25: Sied Werdd gydag Antur Waunfawr, , Gofodau

Ffiws ac Ar y Lon gyda Msparc, a Caffis Trwsio. Fel rhan o'r prosiect Ffiws, mae'r Gronfa Cylchol wedi clustnodi arian grant o £319,156 i 24 o fentrau ledled Gwynedd. Pwrpas y gronfa yw cefnogi mentrau i weithredu mewn modd mwy cylchol, i ail-dddefnyddio ac/neu leihau eu gwastraff. Dechreuwyd wasanaeth newydd yn ystod 2024/25 pan sefydlwyd Sied Baent mewn 4 canolfan ailgylchu i ail-ddosbarthu paent i'r cyhoedd: Llandegai, Pwllheli, Garndolbenmaen a Dolgellau.

Prosiect 2 – Gorffennwyd rhaglen waith o osod biniau ailgylchu cyhoeddus ar draethau poblogaidd, gyda'r rhai olaf wedi eu gosod yn dilyn gorffen gwaith ail-ddatblygu yn Ninas Dinlle. Mae gwaith yn parhau i osod y biniau yn ein safleoedd gwerau dros dro, Arosfan. Rydym yn asesu'n barhaus yr angen i osod biniau ailgylchu cyhoeddus mewn safleoedd ar draws y sir, felly byddwn am osod biniau yn nhrefi Caernarfon, Pwllheli, Blaenau Ffestiniog a Dolgellau fel rhan o waith ehangach i 'wella canol trefi'. Gan fod cynnydd yn y swmp o wastraff stryd wedi ei ailgylchu, erbyn diwedd y flwyddyn daeth yn amlwg bod angen i ni gymryd cam yn ôl er mwyn mesur os ydym yn casglu'r gwastraff yn y ffordd fwyaf effeithlon. Yn 2025/26 byddwn felly'n ail-asesu gofynion fflyd casglu gwastraff er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau prin.

Prosiect 3 – Un newid i'n trefniadau gweithio mewnol sydd wedi aros ers cyfnod Covid 19 yw lleihau defnydd o bapur mewn swyddfeydd, a phenderfyniad i beidio argraffu papurau ar gyfer cyfarfodydd oni bai bod yna eithriad rhesymol dros wneud.

Yn ystod y flwyddyn buom yn paratoi cytundeb 5 mlynedd newydd ar gyfer argraffyddion ar draws safleoedd y Cyngor, gyda'r niferoedd wedi eu lleihau. Erbyn diwedd 2024/25 roedd cynllun a thendr newydd wedi ei lunio yn barod i'w gyhoeddi, a bydd y trefniadau newydd yn lleihau'n sylweddol ar ddefnydd papur ac yn arbed ynni.

Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

Prosiect:

4. Lleihau'r nifer o eitemau sy'n cyrraedd safleoedd llosgi gwastraff drwy annog pobl i drwsio ac ail-ddefnyddio (Caffis Trwsio)

Be wnaethom ni?

Gweler Prosiect 1 uchod.

Blaenoriaethau Parhaus

Prosiect:

5. Trwsio ac addasu offer a fyddai fel arall yn cael ei waredu a'i losgi, a'i werthu

6. Lleihau gwastraff bwyd drwy gefnogi prosiectau cymunedol sy'n ceisio ail-ddosbarthu bwyd fyddai fel arall yn cael ei daflu

Be wnaethom ni?

Prosiect 5 – Gweler Prosiect 1 uchod.

Prosiect 6 – Fe agorwyd Cronfa Grant Bwyd newydd ar gyfer 2024/25 i gefnogi cynlluniau cymunedol sy'n mynd i'r afael a lleihau gwastraff bwyd, ail-ddosbarthu bwyd gweddilliol gan fynd i'r afael a thlodi a fforddiadwyedd bwyd. Ariannwyd y gronfa gyda grant o £40,000 gan Lywodraeth Cymru.

Sylwadau pellach

Pan yn sôn am 'wastraff' rydym yn cyfeirio at wastraff sy'n cael ei gynhyrchu gan drigolion a busnesau Gwynedd, yn ogystal â'r gwastraff y mae Cyngor Gwynedd ei hun fel sefydliad yn gyfrifol amdano.

Mae'r allyriadau o dan y pennawd 'gwastraff' yn dellio o brosesau trin gwastraff, tra fod yr allyriadau sy'n deillio o gasglu a chludo'r gwastraff i gael ei brosesu wedi eu cyfri o dan y pennawd 'fflyd'. Mae 32% o allyriadau fflyd yn 2024/25 yn deillio o gasglu a chludo gwastraff.

Mae newidiadau pellach wedi eu gwneud i'r fethodoleg o gyfrifo allyriadau carbon gwastraff yn 2024/25. Bellach mae pob dull o drin gwastraff, ar wahân i dirlenwi, (ee. ailgylchu, hylosgiad,

treulio anerobig ayb) yn rhoi ffigwr o sero i ni. Mae holl wastraff gweddilliol trigolion a busnesau Gwynedd yn cael ei drin ar safle Parc Adfer yng Nglannau Dyfrdwy, ble mae'n cael ei losgi i gynhyrchu ynni, ac felly nid oes gwastraff yn mynd i dirlenwi.

Buom hefyd yn cychwyn datblygu Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd yn ystod 2024/25, a bydd hon yn cael ei chyhoeddi yn ystod 2025/26.

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Wrth ddatblygu'r prosiectau sy'n rhan o'r cynllun i hybu'r economi gylchol fe fuom yn ymgynghori'n barhaus gyda'n holl bartneriaid cymunedol, ac mae swyddogion ar sawl lefel o fewn y cyngor wedi bod yn ystyried effaith y prosiectau ar fioamrywiaeth.

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

Mae prosiectau 4, 5 a 6 uchod yn cyfrannu at amcanion 2, 3 a 4 gan fod ein hybiau bwyd a gerddi cymunedol wedi asesu eu dylanwad ar fioamrywiaeth, a'u datblygu mewn modd na fydd yn niweidio'r amgylchedd o'u cwmpas.

9. Llywodraethu

Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2024/25?

Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

Prosiectau:

1. Rhannu gwybodaeth yn gyhoeddus am y gwaith y mae'r cyngor yn ei wneud i leihau allyriadau carbon er mwyn annog eraill i newid arferion
2. Cefnogi cymunedau i gynllunio a darparu atebion lleol i anghenion lleol

Be wnaethom ni?

Prosiect 1 – Rydym yn rhannu gwybodaeth am brosiectau y mae'r cyngor yn ymwneud â nhw yn rheolaidd drwy'n cyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg, ac hefyd yn rhannu gwybodaeth am gyfleoedd i arbed ynni ac arian drwy'r gynllun Eco4.

Buom yn cynnal ymgyrchoedd lleol mewn cymunedau penodol yn ystod y flwyddyn er mwyn ceisio newid ymddygiad trigolion i'w hannog i ailgylchu mwy.

Mae prinder adnoddau yn parhau yn rwystr i ni symud ymlaen gyda'r gwaith ehangach o ddylanwadu a newid arferion trigolion, ond mae hyn yn fater y byddwn yn rhoi sylw iddo wrth adolygu ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur. Rydym hefyd

yn rhan o waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i wireddu eu Cynllun Llesiant. Un o 3 Amcan Llesiant y cynllun yw "Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon".

Prosiect 2 - Mae ein sioeau teithiol arbed ynni yn rhannu gwybodaeth am gefnogaeth ariannol sydd ar gael i drigolion i addasu eu cartrefi, yn ogystal a chynnig gwybodaeth am ddulliau arbed ynni ac arian.

Mae ein prosiectau eraill ninnau fel cyngor hefyd yn cyfrannu at helpu a dylanwadu ar arferion trigolion – Cymunedau Glan a Thaclus, prosiectau'r economi gylchol megis cefnogi hybiau bwyd, Ffiws/Caffi Trwsio (gweler pennod 'Gwastraff' am ragor o fanylion).

Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

Prosiect:

3. Aelodau etholedig a staff sydd:

- yn deall oblygiadau effaith newid hinsawdd
- yn cymryd penderfyniadau ar sail gwybodaeth am yr effeithiau
- yn gweithredu yn y modd mwyaf cadarnhaol posib tuag at liniaru effaith newid hinsawdd a bod yn ecolegol gadarnhaol

Be wnaethom ni?

Prosiect 3 – Cafodd yr e-fodiwl hyfforddiant Hinsawdd a Natur ei lansio ar ddechrau 2024/25, ac mae’n cael ei hyrwyddo’n gyson er mwyn annog staff ac aelodau etholedig i’w gwblhau. Mae aelodau Bwrdd Hinsawdd a Natur y Cyngor, sef y grŵp mewnol sy’n gosod cyfeiriad strategol ac yn monitro datblygiad y gwaith, yn derbyn gwybodaeth rheolaidd am faterion perthnasol cyn iddynt gymryd penderfyniad, gan gynnwys penderfyniadau ariannol.

Gwelwyd gynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn yn yr wybodaeth a newyddion am ddigwyddiadau sy’n cael eu rhannu gyda staff ac aelodau drwy ein newyddlen newydd. Mae’r adran Hinsawdd a Natur ar y fewnrwyd, y newyddlen, a’r wybodaeth sy’n cael eu rhannu drwy fwletin mewnol a thudalen Facebook staff yn ddull effeithiol o rannu gwybodaeth ac yn helpu i newid ymddygiad yn ogystal.

Blaenoriaethau Parhaus

Prosiect:

4. Annog staff i ddatblygu gyrfa mewn meysydd sy’n lleihau effaith newid hinsawdd neu’n ecolegol gadarnhaol
5. Adolygu polisïau a strategaethau presennol y cyngor fel bod lleihau allyriadau carbon neu leihau effaith newid hinsawdd yn ffactor wrth ddod i benderfyniad

Be wnaethom ni?

Prosiect 4 – Mae gan y cyngor ddau gynllun sy’n llwyddiannus yn denu ymgeiswyr, sef cynllun prentisiaethau a chynllun hyfforddai proffesiynol (‘Cynllun Yfory’) ar gyfer graddedigion. Fis Medi 2024 fe gychwynnodd ein Hyfforddai Proffesiynol Newid Hinsawdd cyntaf. Dechreuodd y gwaith hefyd er mwyn recriwtio Hyfforddai Proffesiynol Ecolegydd Cynllunio a Phrentis Ynni ar gyfer haf 2025.

Prosiect 5 – Treuliwyd lawer o amser dros y flwyddyn yn datblygu Cynllun Ynni Lleol newydd i Wynedd sy’n mynd ger bron y Cabinet yn ystod 2025/26, ac mae Strategaeth Gwefru Cerbydau EV hefyd yn cael ei ddatblygu, eto i gael ei fabwysiadu yn 2025/26.

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae’r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Gwaith wedi cael ei wneud gyda Chynghorau Tref a Chymuned i roi gwybod iddynt am eu dyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni’r amcanion ar waith

Mae’r gwaith sydd wedi ei gyflawni o dan brosiectau 3 a 5 yn cyfrannu at wireddu Amcanion 1 a 6.

10. Caffael

Roedd 72% o allyriadau carbon y cyngor yn ystod 2024/25 yn deillio o'n prosesau caffael, sydd yn 35% o gynnydd ers 2019/20 ac yn 34% o gynnydd ers 2023/24.

Mae'r dull o fesur allyriadau carbon caffael, neu'r gadwyn gyflenwi, yn seiliedig ar wariant yn unig. Yn syml, po fwyaf yw'r gwariant, po fwyaf yw'r allyriadau. Mae'r gost gynyddol o brynu nwyddau a gwasanaethau yn arwain felly at gynnydd mewn allyriadau carbon o dan y pennawd 'caffael'. Mae'r fformiwla i fesur yr allyriadau hefyd wedi ei newid ers 2023/24, felly er bod y cynnydd mewn gwariant mewn maes megis gofal cymdeithasol yn gymhedrol, mae cynnydd yn y fformiwla yn arwain at gynnydd sylweddol mewn allyriadau.

Y meysydd ble mae gwariant uchaf y Cyngor drwy gytundebau caffael ydi: gofal iechyd a chymdeithasol; bwyd a nwyddau; adeiladwaith.

Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2024/25?

Blaenoriaethau Parhaus

Prosiectau:

1. Darparu cefnogaeth i'r farchnad, yn enwedig i ddarparwyr lleol, i fedru mesur effaith eu gweithrediadau ar eu ôl troed carbon

2. Deall a mesur allyriadau carbon wrth wireddu contractau yn y gadwyn caffael

Be wnaethom ni?

Prosiect 1 – Fe wnaeth y Cyngor ddewis canolbwyntio ar helpu busnesau sy'n darparu gofal iechyd a chymdeithasol yn ystod 2024/25 er mwyn lleihau eu hallyriadau carbon ac i fesur yr allyriadau. Bydd hyn yn helpu i leihau allyriadau Gwynedd fel sir, ac hefyd yn rhoi opsiwn i ni fel Cyngor i fesur allyriadau caffael yn fwy cywir – ar sail adroddiadau Cynllun Rheoli Carbon yn hytrach na gwerth ariannol y cytundeb. Buom yn cydweithio â Busnes Cymru er mwyn cynnal gweithdai ar-lein i gwmnïau, ac yna maent wedi derbyn cefnogaeth un i un gan Busnes Cymru er mwyn creu Cynllun Rheoli Carbon.

Fe wnaethom newidiadau i'r gofynion yn y cytundebau trafndiaeth ysgolion yn 2024/25, gan osod mwy o bwyslais ar wobrwyo darparwyr oedd yn defnyddio cerbydau llai llygrol. Buom hefyd yn cefnogi cychwyn prosiect peilot 'Llysiau o Gymru i Ysgolion Cymru', gan ddod â thyfwyr bwyd organig lleol ynghyd ag ysgolion lleol. Edrychwn ymlaen at weld datblygiad y prosiect hwn yn 2025/26.

Prosiect 2 – Mae'r gwaith o dan Prosiect 1 uchod yn cefnogi darparwyr i fedru mesur eu hallyriadau carbon yn fwy cywir, ond er mwyn cael y gorau o hyn mae angen i swyddogion y Cyngor hefyd ddeall sut i'w cefnogi. Er mwyn helpu gyda hyn fe wnaethom adolygu

ein Polisi Caffael Cynaliadwy a datblygu canllawiau i staff sy'n comisiynu cytundebau er mwyn goruchwilio sut mae darparwyr yn adrodd ar leihau carbon.

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Mae'r ddau brosiect uchod yn cyfrannu at y ddau Amcan yma, gan y byddai derbyn a monitro Cynlluniau Rheoli Carbon yn rhoi tystiolaeth i ni o sut mae darparwyr am warchod bioamrywiaeth.

10. Defnydd Tir

Mae holl diroedd y cyngor (sy'n cynnwys safleoedd 'llwyd' sydd wedi eu hadeiladu) yn amsugno gwerth 3,123,254 kgCO_{2e} net o garbon yn 2024/25. Mae hyn 47% yn llai na 2019/20 ac yn 1% o gynnydd ers 2023/24.

Mae gwrthbwysu'r carbon sy'n cael ei amsugno yn erbyn ein allyriadau carbon yn cyfrannu at leihau'r bwlch i sero net.

Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2024/25?

Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

Prosiectau:

1. Adnabod cyfraniad coed sy'n eiddo i'r cyngor i amsugno a storio carbon a lleihau llifogydd
2. Adnabod cyfraniad tiroedd sy'n eiddo i'r cyngor i amsugno a storio carbon a lleihau llifogydd
3. Sefydlu meithrinfeydd coed er mwyn tyfu coed yn barod i'w plannu
4. Adnabod cyfleon i blannu coed fel rhan o fenter Coedwig Genedlaethol Cymru
5. Gwarchod tir amaethyddol yng Ngwynedd a'i ddefnyddio i bwrpas cymwys, a rheoli prosiectau coedwigo

Be wnaethom ni?

Prosiect 1 a 7 – Parhawyd â gwaith cynnal a chadw angenrheidiol ar 8 safle o goetir sy'n eiddo i'r Cyngor, ac fe wnaethpwyd gwaith atgyweirio ym Mharc Dudley, Waunfawr, ac yng nghoedlan hynafol Parc Meurig, Bethesda, sydd bellach yn ddiogel ac yn agored i'r cyhoedd ei mwynhau.

Prosiect 2 – Adnabwyd darnau o dir y Cyngor i drosi i ddolydd blodau gwyllt sydd yn cynyddu gallu'r tir i amsugno mwy o garbon. Mae plannu dolydd blodau gwyllt, yn enwedig ar ymylon ffyrdd, bellach yn waith parhaus, ac rydym yn rhannu gwybodaeth am fanteision hyn yn rheolaidd gyda thrigolion.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â Map Data Cymru ar declyn ar-lein fydd yn galluogi Llywodraeth Leol i fesur gwerth carbon tiroedd sy'n eiddo iddynt.

Mae'r gwaith o adnabod tiroedd ar gyfer eu potensial i leihau llifogydd yn digwydd wrth greu Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd (gweler Adran 12).

Prosiectau 3 a 4 – Sefydlwyd dwy feithrinfa ar raddfa fach fel rhan o brosiectau Partneriaeth Natur Gwynedd. Bwriad y meithrinfeydd yw tyfu cyflenwad o goed lleol i blannu ar dir cyhoeddus. Daeth pwysigrwydd hyn yn amlwg ar ôl Storm Darragh, pan fu'n rhaid ail-blannu er mwyn disodli coed oedd wedi dymchwel.

Mae Partneriaeth Natur Gwynedd yn partneriaethu gyda nifer o sefydliadau allanol i gynnal a chadw meithrinfeydd coed brodorol a choed cynhenid i Wynedd. Cydweithiwyd gyda thri cartref gofal i hybu garddio llesol, gan gynnwys gwarchod egin blanhigion at ddefnydd y Cyngor.

Prosiect 5 – Yn ystod y flwyddyn fel lansiwyd prosiect Ffermio Bro, sef rhaglen ffermio mewn ffordd natur gyfeillgar wedi ei weinyddu gan AHNE Llŷn - [Llŷn AONB - Hafan](#).

Blaenoriaethau Parhaus

Prosiectau:

6. Rheoli Clwy yr Onnen mewn coed a gwneud yn iawn am unrhyw allyriadau carbon fyddai'n ganlyniad i dorri coed
7. Bod coedlannau sy'n eiddo i'r Cyngor yn cael eu gwarchod er mwyn gwneud y gorau o'u potensial i amsugno carbon a bod yn gynefinoedd i fyd natur

Be wnaethom ni?

Prosiect 6 - Yn anffodus mae'r galw i ymdrin â nifer cynyddol o goed sy'n dioddef o Glwy yr Onnen yn rhoi rhagor o bwysau ar ein adnoddau prin. Er hynny, mae'r tîm sy'n gyfrifol am y gwaith wedi gallu defnyddio meddalwedd Ezytreev er mwyn cadw cofnod manwl o unrhyw goeden sy'n gorfod cael ei dymchwel, gan gynnwys ei gwerth carbon. Maent wedyn yn cydweithio â'r Tim Bioamrywiaeth a mudiadau cymdeithasol er mwyn plannu coed newydd.

Prosiect 7 – Gweler Prosiect 1 uchod.

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Mae Cyngor Gwynedd yn arwain gwaith Partneriaeth Natur Gwynedd, sef casgliad o sefydliadau ac unigolion sy'n gweithredu er mwyn gwarchod a hybu bioamrywiaeth yn y sir. Un o egwyddorion gweithredu sylfaenol y Partneriaeth yw ymgynghori â chymunedau er mwyn cynllunio prosiectau ar lawr gwlad.

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Mae prosiectau 1 – 7 yn cyfrannu at wireddu'r amcan hwn.

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Mae prosiectau 1 – 7 yn cyfrannu at wireddu'r amcan hwn.

Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

Mae prosiectau 1 – 7 yn cyfrannu at wireddu'r amcan hwn.

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Mae'r cyngor wedi parhau i gydweithio â system gofnodi Cofnod sy'n ein cynorthwyo i greu gwaelodlin ar gyfer bioamrywiaeth ar draws Gwynedd.

11. Ecoleg

Be wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2024/25?

Blaenoriaethau Tymor byr 2022/23 – 2023/24

Prosiectau:

1. Adnabod y camau sydd angen i ni eu cymryd er mwyn gwarchod cynefinoedd natur a bioamrywiaeth i'r dyfodol
2. Adnabod ein rhywogaethau a'n cynefinoedd gwerthfawr a pha fesurau sydd eu hangen i'w gwarchod a'u hadfer

Be wnaethom ni?

Prosiect 1 – Roedd gwaith wedi parhau yn ystod y flwyddyn i lunio ein Cynllun Adfer Natur diwygiedig ar gyfer y sir ac ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn, a bydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi yn ystod 2025/26.

Prosiect 2 - Ochr yn ochr â datblygu'r Cynllun Adfer Natur, rydym hefyd wedi bod yn defnyddio prosesau Cofnod i fapio rhywogaethau, ac mae'r gwaith hwnnw'n parhau. Rydym hefyd yn y broses o lunio Asesiad Isadeiledd Gwyrdd fel rhan o'r gwaith o lunio Cynllun Datblygu Lleol newydd.

Blaenoriaethau Tymor Canolig 2022/23 – 2026/27

Prosiectau:

3. Cynyddu nifer y peillwyr drwy warchod cynefinoedd neu blannu cynefinoedd newydd (safleoedd tirlenwi)
4. Cefnogi mudiadau gwirfoddol a chymunedol a chynghorau tref a chymuned sy'n gwarchod neu'n hybu byd natur

Be wnaethom ni?

Prosiectau 3 a 5 – Bu'r gwaith o blannu dolydd blodau gwyllt a chynefinoedd newydd i beillwyr yn parhau yn ystod 2024/25. Roedd Partneriaeth Natur Gwynedd wedi creu dros 50 hectar o ddol blodau gwyllt ar diroedd y Cyngor, ac mae hyn yn 25% o darged cenedlaethol i'r Partneriaethau dros Gymru. Bu'r gwaith o greu dolau blodau gwyllt ar ymylon ffyrdd yn cael ei ymestyn ym Meirionnydd, ac fe fyddwn am gomisiynu gwaith arolygu effaith y gwaith hwn i wella bioamrywiaeth lleol.

Prosiectau 3 a 6 - Mae yna ddau safle yng Ngwynedd arferai fod yn safleoedd tirlenwi sydd bellach wedi eu trosi yn safleoedd [Tirlenwi Gwyllt](#) i warchod a hyrwyddo natur. Cafodd gwaith cynnal a chadw a phlannu coed ei wneud yn Llwyn Isaf ger Clynog a Ffridd Rasus ger Harlech ac mae'r ddwy safle hefyd wedi derbyn 'safon aur' gan [Restor](#), yr hwb rhyngwladol ar gyfer adferiad natur. Mae'r cysylltiadau â sefydliadau academiaidd

wedi cryfhau, sydd wedi arwain at lwybr i ddatblygu 'gyrfaoedd gwyrdd' ac ymweliadau gan ysgolion.

Prosiect 4 & 5 – Mae'r cyngor yn arwain gwaith Partneriaeth Natur Gwynedd, sef casgliad o fudiadau cymunedol, cynghorau cymuned ac unigolion sy'n gweithio er mwyn gwarchod a hybu bioamrywiaeth yng Ngwynedd ([Wales Biodiversity Partnership - Gwynedd](#)).

Derbyniodd amryw o gynghorau tref a mudiadau cymunedol gymorth ariannol gan Bartneriaeth Natur Gwynedd yn ystod 2024/25, ac mae uchafbwyntiau'r flwyddyn yn cynnwys gwelliannau i erddi cymunedol, gwelliannau i safleoedd gwyrdd trefol, diwrnodau agored mewn perllannau cymunedol, prosiectau gwyddoniaeth dinasyddion, a mapiau cymunedol.

Yn ychwanegol at hyn fe wnaeth y Cyngor gynnal nifer o weithgareddau i drigolion lleol, a buont yn boblogaidd iawn. Daeth dros 300 i ddiwrnod agored 'coed a natur' ym Mhlas Glyn y Weddw, ac mae nifer o weithgareddau clirio traethau a chasglu hadau morwellt wedi eu trefnu i'r gymuned leol gan [Pen Llŷn a'r Sarnau Ardal Cadwraeth Arbennig \(ACA\)](#).

Mae gwybodaeth am waith Partneriaeth Natur Gwynedd, Pen Llŷn a'r Sarnau, AHNE Llŷn a thimau bioamrywiaeth y Cyngor oll yn cael eu rhannu drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd, yn ogystal ag yng nghylchgronau Llygad Llŷn ac O Dan y Don.

Prosiect 6 – Yn ychwanegol at y gwaith sydd wedi ei ddisgrifio o dan brosiectau 3, 4 a 5, mae gwaith [Pen Llŷn a'r Sarnau Ardal Cadwraeth Arbennig \(ACA\)](#) yn hanfodol bwysig i warchod iechyd bioamrywiaeth arfordir Llŷn a Meirionnydd. Mae'r gwaith a wneir i blannu a gwarchod morwellt yn cyfrannu'n sylweddol at amsugno carbon, ond nid yw'n bosib i ni fel Cyngor gyfri gwerth hyn o fewn ein ystadegau amsugno carbon ein hunain ar hyn o bryd.

Blaenoriaethau Parhaus

Prosiectau:

5. Meithrin a chynnal diddordeb trigolion Gwynedd mewn materion ecolegol er mwyn iddynt fod eisiau helpu i warchod byd natur
6. Gwarchod cynefinoedd gwerthfawr i fyd natur

Be wnaethom ni?

Prosiect 5 – Gweler Prosiect 4 uchod.

Prosiect 6 – Gweler Prosiect 3 uchod.

Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae'r prosiectau uchod yn cyfrannu at yr amcanion isod:

Amcan 1: Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i wreiddio bioamrywiaeth drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel

Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar gyfer cyflawni'r amcanion ar waith

Mae'r holl waith yr ydym fel Cyngor yn ymgymryd ag o drwy'r Bartneriaeth Natur Lleol yn cael ei gynllunio neu ei ddarparu ar y cyd â sefydliadau, cymunedau neu ysgolion lleol.

Mae prosiectau 1 a 2 hefyd yn cyfrannu at y 3 amcan uchod.

Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwys mwyaf a gwella eu rheolaeth

Mae prosiectau 1 – 6 yn cyfrannu at wireddu'r amcan hwn.

Amcan 3: Cynyddu gwytnwch ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd newydd

Mae prosiectau 1 – 6 yn cyfrannu at wireddu'r amcan hwn.

Amcan 4: Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

Mae prosiectau 1 – 6 yn cyfrannu at wireddu'r amcan hwn.

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	14 Hydref 2025
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd R. Medwyn Hughes
Swyddog Cyswllt:	Llŷr Jones, Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned
Rhif Ffôn Cyswllt:	01286 679219 / Est 2219
Teitl yr Eitem:	Cynllun Rheoli Maes Parcio Dinas Dinlle

1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Fod y Cabinet yn cefnogi y cynnig yn yr adroddiad i fwrw ymlaen gyda'r proses ar gyfer gwneud gorchymyn parcio oddi ar y stryd parhaol ym Maes Parcio Dinas Dinlle.

Dirprwyo awdurdod i Bennaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet Economi a Chymuned a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol ac yn unol â'r Rheoliadau i baratoi gorchymyn drafft, cyhoeddi Rhybudd o Fwriad i wneud y gorchymyn gyda cyfnod ymateb cyhoeddus, coladu ac ystyried pob ymateb, ymateb i wrthwynebwyr ac addasu'r cynnig os oes angen ac, yn ddarostyngedig i'r prosesau yma Gwneud y Gorchymyn terfynol a chyhoeddi Hysbysiad o Wneud Gorchymyn.

2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Gofynnir am gymeradwyaeth y Cabinet er mwyn bwrw ymlaen gyda chamau cyfreithiol o gyflwyno Gorchymyn Traffig Parhaol ar gyfer maes parcio Dinas Dinlle gan ddilyn y drefn statudol a welir yn Rheoliadau Gorchymynion Traffig i Awdurdodau Lleol (Trefn) (Cymru a Lloegr) 1996.

Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r bwriad o wneud gorchymyn o'r newydd gan sicrhau fod y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r rheoliadau a'r gofynion perthnasol.

3 CYFLWYNIAD

Mae'r Cabinet eisoes wedi cefnogi'r bwriad i gychwyn proses ar gyfer gwneud gorchymyn parcio oddi ar y stryd parhaol ym Maes Parcio Dinas Dinlle.

Cyflwynwyd adroddiad ar Gynllun Rheoli Maes Parcio Dinas Dinlle i'r Cabinet ar 10fed o Fehefin 2025, sydd i'w weld ar y linc isod :

<https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//ielistdocuments.aspx?cid=133&mid=5487&ver=4&>

Bryd hynny, cytunwyd i ddechrau proses ar gyfer gwneud gorchymyn parcio oddi ar y stryd barhaol ym Maes Parcio Dinas Dinlle a dirprwyo awdurdod i Bennaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad a'r aelod Cabinet a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i baratoi gorchymyn fydd yn gwneud y gorchymyn arbrofol yn barhaol, ac yna rhoi rhybudd o hyn yn y wasg yn unol â'r Rheoliad 22 a 23 o'r Rheoliadau. Fodd bynnag, yn dilyn gwaith cyfreithiol pellach ystyrir y byddai yn well paratoi gorchymyn traffig parhaol ar ben ei hun gan nad yw'r Gorchymyn Arbrofol bellach yn weithredol.

Cyflwynir yr adroddiad yma i'r Cabinet er mwyn cynnig diweddariad ar y gwaith, ac argymhell fod gorchymyn parcio newydd yn cael ei greu yn hytrach na throsi'r gorchymyn arbrofol yn un parhaol. O ganlyniad, byddai'r Gorchymyn newydd yn cael ei chreu o dan Adrannau 32-36, 124 (1) ac Atodlen 9 (Rhan 4) o Ddeddf Rheoli Traffig y Ffordd 1984.

Mae maes parcio traeth Dinas Dinlle yn rhan o gyfrifoldebau Gwasanaeth Morwrol, Adran Economi a Chymuned. Mae'r maes parcio wedi ei sefydlu yno ers blynnyddoedd maith, ac sydd yn boblogaidd gyda ystod o ddefnyddwyr yn cynnwys trigolion lleol ac ymwelwyr i'r ardal. Mae cynllun lleoliad o'r safle wedi ei gynnwys fel Atodiad 1.

Yn ystod cyfnod 2018/19 bu i'r Cyngor ystyried rhestr o arbedion ariannol er mwyn cyfarch bwlch ariannol oedd yn wynebu awdurdodau lleol yng Nghymru ar y pryd. Yn ei gyfarfod ar 19eg Chwefror 2019, bu i'r Cabinet gymeradwyo symud ymlaen i weithredu rhestr cynlluniau arbedion, gan gynnwys sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle.

Trafodwyd y bwriad gyda'r Cyngor Cymuned yn 2019 gan gydnabod y byddai angen datblygu manylion pellach, a chyfle i ymgorffori gwelliannau i'r safle. Yn anffodus, bu'n rhaid atal y gwaith datblygol am gyfnod sylweddol yn sgil cyfnod a blaenoriaethau eraill yn sgil effaith pandemig C-19.

Yn ystod 2022/23, bu i'r Gwasanaeth adnabod adnoddau er mwyn gwneud gwaith rhagbaratoi ar gyfer cynllun uwchraddio'r maes parcio. Yn 2023, llwyddwyd i ddenu grant o raglen Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru yn amodol fod angen gwario rhan helaeth o'r arian yn ystod 2023/4. Penodwyd contractwr i wneud gwaith cyfalaf ar y safle rhwng Hydref 2023 – Mawrth 2024 yn cynnwys gwaith ail-wynebu, addasu'r mynedfeydd, marcio manau parcio unigol, darparu llecyn bws, tirweddu ac uwchraddio cyfleusterau megis biniau, arwyddion, byrddau picnic, rheiliau a waliau cynnal.

Ers cwblhau'r gwaith cyfalaf, mae gwaith pellach wedi ei wneud gan y Gwasanaeth gyda'r bwriad o ddatblygu cynllun rheoli tymor hir ar gyfer y safle.

4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Mae'r Gwasanaeth Morwrol yn gyfrifol am reoli a goruchwyllo nifer o draethau ar hyd arfordir Gwynedd. Mae cynllun rheoli traethau wedi ei ddatblygu gyda'r nod o gynnig mynediad cyhoeddus a diogel i draethau ac adnoddau arfordirol ar gyfer trigolion lleol ac ymwelwyr a thrwy hynny hwyluso gweithgareddau i hybu'r economi leol a chyfrannu at lesiant ein cymunedau.

Mae'r cynllun yn adnabod prif draethau yn Aberdaron, Aberdyfi Abermaw, Abersoch, Cricieth, Morfa Bychan, Pwllheli, Tywyn, a Dinas Dinlle. Mae'r Gwasanaeth Morwrol yn

gyfrifol am drefniadau diogelwch traethau yn y lleoliadau hyn, ac yn penodi wardeiniaid traeth tymhorol i'w gweithredu.

Mae nodweddion y prif draethau hyn yn amrywiol iawn, ynghyd â'r isadeiledd a chyfleusterau cysylltiedig. Mae darpariaeth meysydd parcio yn rhan bwysig o'r isadeiledd – gyda ffioedd parcio yn daladwy ar feysydd parcio'r prif draethau, gyda Dinas Dinlle yr unig eithriad. Wrth ystyried trefniadau posib ar gyfer cyflwyno ffioedd parcio yn Ninas Dinlle, mae nifer o ystyriaethau gweithredol hefyd wedi eu hamlygu, ac ystyrir fod cyfle i sefydlu cynllun rheoli ehangach ar gyfer y safle.

a) Cyflwyno Ffioedd Parcio ym maes parcio traeth Dinas Dinlle (Cyfnod Arbrawf)

Yn ystod trafodaethau cychwynnol gyda Aelodau Cyngor Cymuned Llandwrog yn 2019, fe ddaeth yn amlwg fod pryderon lleol ynghylch y bwriad o gyflwyno ffioedd parcio yn Ninas Dinlle. Mae pryderon o'r fath yn cynnwys effaith andwyol ar fusnesau a thrigolion y pentref, diogelwch priffyrdd, a'r farn y traeth yn gwasanaethu dalgylch eang o drigolion Gwynedd, ac yn cyfrannu at iechyd a llesiant.

Yn ystod Gwanwyn 2024, ac yn dilyn cwblhau'r gwaith ffisegol ar y safle, bu i'r Gwasanaeth gynnal trafodaethau pellach gyda'r Aelodau Lleol ac Aelodau o'r Cyngor Cymuned er mwyn ceisio llunio pecyn ar gyfer y safle. Yn dilyn y trafodaethau hyn, penderfynwyd cynnal cyfnod arbrofol yn ystod mis Awst 2024 gan gyflwyno ffioedd parcio. Teimlwyd y byddai manteision o gynnal cyfnod arbrawf, gan adolygu a gwerthuso'r cyfnod fel rhan o waith i ddatblygu trefniadau rheoli parhaol ar gyfer y safle.

Trefnwyd Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (Arbrofol) ar gyfer y safle, ac roedd y cyfnod arbrofol yn weithredol rhwng 16 Awst – 30 o Fedi 2024. Yn ystod y cyfnod yma, roedd y ffioedd parcio isod yn daladwy rhwng oriau 0900 – 1700 yn ddyddiol drwy beiriannau talu :

Hyd at 1 awr	: Dim
Hyd at 2 awr	: £2.00
Hyd at 3 awr	: £3.00
Hyd at 8 awr	: £6.00
Tocyn tymor	: £25.00

Yn dilyn y cyfnod arbrawf, trefnwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod mis Hydref a Thachwedd gan wahodd adborth gan drigolion busnesau lleol, defnyddwyr y maes parcio, sefydliadau statudol a grwpiau lleol.

Mae'r Gwasanaeth wedi adolygu a gwerthuso'r cyfnod arbrawf, a gellir crynhoi'r prif gasgliadau isod :

i) Ystyriaethau rheolaethol a gweithredol

Wrth weithredu trefniadau'r cyfnod arbrawf roedd adborth gan swyddogion o'r Gwasanaeth Morwrol yn nodi :

- Roedd oediad yn derbyn ac yna cysylltu'r peiriannu talu wedi arwain at oedi'r cyfnod arbrawf
- Collwyd cysylltiad trydanol yn ystod penwythnos cyntaf y cyfnod arbrawf
- Tywydd gwlyb iawn yn ystod pythefnos olaf mis Awst wedi effeithio niferoedd yn defnyddio'r maes parcio
- Penderfynwyd peidio gweithredu trefniadau gorfodaeth yn ystod y cyfnod arbrawf, gyda nifer o ddefnyddwyr wedi peidio talu ffi parcio
- Peiriannau talu wedi gweithio'n dda ar y cyfan, ond trefniadau am awr gyntaf am ddim yn aneglur ambell waith
- Gwelwyd fod lefel graen o fewn y 'grasscrete' yn gostwng wrth setlo, ac angen i'w adfer yn rheolaidd
- Mynedfeydd a gosodiad newydd y maes parcio wedi gweithio yn dda, ond rhai achosion lle fod gyrwyr yn anwybyddu'r drefn 'un ffordd' o fewn y maes parcio.

ii) Ystyriaethau ariannol

Gosodwyd tri pheiriant talu ar y safle, gyda thaliadau yn cael eu gwneud gyda cherdyn neu drwy ap 'Pay By Phone'. Mae dadansoddiad o'r tocynnau parcio wedi eu cynhyrchu yn ystod y cyfnod 16 Awst – 30 Medi wedi eu nodi isod :

Peiriant	Nifer o docynnau	Nifer o docynnau taledig	Nifer o docynnau 'awr am ddim'	Nifer o docynnau tymhorol	Incwm gasglwyd
Dinas 1 (rhan deheuol)	1411	737	671	3	£1824
Dinas 2 (rhan canol)	231	120	109	2	£336
Dinas 3 (rhan gogleddol)	652	284	367	1	£696
Is Gyfanswm	2,294	1141	1,147	6	£2,856
Pay by Phone	371	371	-	-	£727
Cyfanswm	2,665	1,512	1,147	6	£3,583

Gwelir felly fod gwerth £3,583 o docynnau parcio wedi eu harchebu yn ystod y cyfnod arbrofol.

a) Adborth a sylwadau derbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus

Fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, cafodd holiadur pwrpasol ei baratoi gan wahodd adborth gan drigolion a busnesau lleol, defnyddwyr y maes parcio a

sefydliadau lleol. Roedd copïau ar gael ar safle we’r Cyngor; Siop Gwynedd yng Nghaernarfon a Pwllheli; ac yn llyfrgelloedd Penygroes a Chaernarfon. Gyrrwyd llythyrau at drigolion a busnesau cyfagos, sefydliadau lleol, a chafodd yr ymgyrch ei hyrwyddo yn y wasg a’r cyfryngau cymdeithasol.

Mae copi o adroddiad ‘Arolwg Maes Parcio Dinas Dinlle’ (Rhagfyr 2024) wedi ei gynnwys fel Atodiad 2.

Ni fwriedir ail-adrodd holl gynnwys yr adroddiad yma, ond nodir :

- Bod 248 o ymatebion wedi eu derbyn (yn cynnwys 4 busnes)
- Roedd 43.9% o’r unigolion yn defnyddio maes parcio Dinas Dinlle o leiaf unwaith yr wythnos
- Roedd 82.8% o’r unigolion yn defnyddio’r maes parcio am hirach nac un awr
- O safbwynt profiad o ddefnyddio’r maes parcio, 19% yn dda iawn, 25% yn dda, 28% yn dderbyniol, 14% yn wael, 8% yn wael iawn gyda 3% heb ymateb.
- Roedd 64% o’r farn fod y ffioedd parcio yn rhy uchel, a 30% o’r farn fod lefel ffioedd yn iawn.
- O safbwynt trefniadau rheoli safle, roedd 50% o’r farn y dylid cynnwys mesurau ar gyfer aros dros nos mewn cerbyd; 36% o’r farn y dylid cynnwys mesurau rhag cam-ddefnydd o’r manau parcio ar gyfer bathodynau glas; 34% rhag camddefnydd o’r manau ‘cadw’n glir’ a’r mynedfeydd; 28% rhag parcio tu allan i’r baeau parcio; a 23% rhag camddefnydd o’r lle cyn bws newydd.
- Holwyd hefyd am effaith ffioedd parcio ar bobl sy’n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, ac roedd 64% yn credu y byddai’n cael effaith negyddol arnynt.

Ystyrir fod y cyfnod arbrawf wedi bod y ddefnyddiol iawn gan gynnig profiad gweithredol o’r trefniadau sydd i’w cyflwyno, gan gynnig cyfle i adlewyrchu ar y profiad wrth lunio cynigion tymor hir. Ystyrir hefyd fod cyfle i ddatblygu trefniadau rheoli newydd ar gyfer y maes parcio gan geisio cyfarch materion sydd yn ehangach na ffioedd parcio yn unig.

b) Ystyriaethau eraill ar gyfer rheoli maes parcio traeth Dinas Dinlle

Mae cyfuniad o gynnal cyfnod arbrofol, adborth o’r gwaith ymgysylltu cyhoeddus a phrofiad gweithredol Gwasanaeth Morwrol wedi amlygu nifer o agweddau y gellid eu hymgorffori i drefniadau rheoli tymor hir ar gyfer y maes parcio traeth Dinas Dinlle.

Mae’r tabl isod yn ceisio crynhoi’r agweddau hynny, gan gynnig argymhellion ar gyfer datblygu trefniadau rheoli newydd :

	Mater	Rhesymeg (Crynodeb)	Argymhelliad

i	Ffioedd Parcio	Mae Cabinet y Cyngor eisoes wedi sefydlu'r egwyddor o gyflwyno ffioedd parcio yn Ninas Dinlle fel rhan o becyn arbedion i gyfarch bwlch yn y gyllideb. Mae cyfnod arbrawf 2024 wedi dangos ei bod yn ymarferol bosib. Byddai ffioedd hefyd yn creu ffynhonnell incwm er mwyn sefydlu cyllideb cynnal a chadw blynyddol.	I gyflwyno ffioedd parcio fel rhan i'r trefniadau rheoli
ii	Ffioedd tymhorol	Mae patrwm tymhorol i'r defnydd sydd yn cael ei wneud o'r maes parcio gan ymwelwyr. Nid yw'r peiriannau yn addas i'w lleoli mewn lleoliad agored ac arfordirol yn ystod misoedd y Gaeaf.	I gyflwyno ffioedd tymhorol rhwng 01 Mawrth – 31 Hydref yn unol â strwythur parcio'r Cyngor .
iii	Tocyn Lleol / Tocyn tymor	Dylid cydnabod fod pryderon wedi eu derbyn ynghylch effaith codi ffioedd ar fusnesau'r pentref; a nifer trigolion lleol sydd yn ei ddefnyddio yn rheolaidd (yn aml iawn yn hybu eu llesiant drwy wneud hynny). Yn yr arolwg, roedd 65% yn credu fod y ffioedd yn rhy uchel; a sylwadau hefyd wedi eu derbyn o blaid parcio am ddim ac / neu docyn blynyddol i drigolion lleol. Ystyrir y byddai opsiwn o docyn blynyddol, am gost resymol, yn bwysig i gynnal prysurdeb y safle, yn enwedig gan bobl sydd yn gwneud defnydd rheolaidd o'r maes parcio.	I gyflwyno trefniadau yn cynnig tocyn tymor am ffi resymol
iv	Awr gyntaf am ddim	Roedd 50% o docynnau parcio ar gyfer cyfnod hyd at 1 awr, ac wedi bod yn boblogaidd. Mae'r arolwg yn dangos fod y maes parcio yn boblogaidd gyda thrigolion lleol sydd yn ei ddefnyddio yn rheolaidd. Ystyrir hefyd fod yr awr o gymorth i fusnesau lleol, ac yn lleihau'r effaith ar unigolion yn wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.	I gyflwyno awr am ddim fel rhan o'r strwythur ffioedd arfaethedig
v	Aros dros nos mewn cerbydau	Roedd 50% o'r ymatebion a dderbyniwyd yn cytuno dylid rheoli cerbydau sydd yn parcio dros nos yn y maes parcio. Yn ymarferol, fe ellir gwahardd pobl rhag aros mewn cerbydau dros nos.	I gyflwyno mesurau yn gwahardd pobl aros mewn cerbydau dros nos
vi	Peiriannau talu	Mae trefniadau arbrofol 2024 wedi dangos fod y peiriannau yn gweithio – a hynny drwy gerdyn neu ap ffôn.	I barhau gyda'r peiriannau presennol ar gyfer derbyn taliadau
vii	Trefniadau Gorfodaeth	Yn ystod cyfnod arbrawf, gwelwyd achosion nad oedd defnyddwyr yn talu, gan nad oedd trefniadau gorfodaeth yn weithredol. Mae angen sicrhau pwerau a threfniadau gorfodaeth er mwyn sicrhau rheolaeth addas o'r maes parcio.	I gyflwyno trefniadau gorfodaeth fel rhan o'r trefniadau rheoli

viii	Gwarchod mannau parcio ar gyfer bathodynna u glas	Mae mannau pwrpasol wedi eu darparu, ac mae angen sicrhau pwerau a threfniadau gorfodaeth addas er mwyn eu gwarchod rhag camddefnydd.	I gyflwyno trefniadau gorfodaeth fel rhan o'r trefniadau rheoli
ix	Parcio tu hwnt i'r ffiniau	Mae mannau pwrpasol wedi eu darparu, ac mae angen sicrhau pwerau a threfniadau gorfodaeth addas er mwyn eu gwarchod rhag camddefnydd.	I gyflwyno trefniadau gorfodaeth fel rhan o'r trefniadau rheoli
x	Gwarchod llecyn bws	Mae llecyn bws trafniadaeth gyhoeddus bwrpasol wedi eu darparu, ac mae angen sicrhau pwerau a threfniadau gorfodaeth addas er mwyn eu gwarchod rhag camddefnydd.	I gyflwyno trefniadau gorfodaeth fel rhan o'r trefniadau rheoli
xi	Gwarchod mannau cadw'n glir / mynedfeydd	Mae gosodiad y maes parcio wedi ei ddylunio i gwrdd â safonau technegol. Mae angen sicrhau pwerau a threfniadau gorfodaeth addas er mwyn eu gwarchod rhag camddefnydd.	I gyflwyno trefniadau gorfodaeth fel rhan o'r trefniadau rheoli
xii	Gwaith cynnal a chadw	Mae'r cynllun uwchraddio wedi gwella cyflwr ac edrychiad y maes parcio. Mae angen gwaith cynnal a chadw er mwyn sicrhau nad yw'r cyflwr yn dirywio eto. Yn benodol, mae defnydd o'r maes parcio yn 2024 wedi amlygu'r angen i sicrhau bod lefelau digonol o graen o fewn y 'grasscrete'.	I glustnodi tua 15% o'r incwm ar gyfer cynnal a chadw blynyddol
xiii	Llinellau melyn	Mae cyfyngiadau 'Dim Aros' tymhorol yn ar ran o'r briff ffordd yn Ninas Dinlle sy'n weithredol 10am-7pm rhwng 1af Fehefin – 30 Medi. Mae'r cyfyngiadau wedi eu marcio gyda llinell felyn ac wedi eu hail-baentio yn 2023.	Dim

c) Strwythur Ffioedd Parcio arfaethedig

Ar 1af Ebrill 2025, daeth newidiadau yn i rym gan olygu cynnydd o fewn strwythur ffioedd parcio sydd wedi eu mabwysiadu gan Gyngor Gwynedd. Mae'r strwythur ffioedd parcio yn gosod gwahanol feysydd parcio mewn bandiau yn seiliedig ar nodweddion a lleoliad.

Yn unol â rhan ii) o'r tabl uchod, argymhellir mai ffioedd tymhorol fyddai yn addas ar gyfer maes parcio Dinas Dinlle. Yn gyson gyda strwythur parcio'r Cyngor (Band 3 : Tymhorol) byddai ffi yn daladwy rhwng 1af o Fawrth a 31 Hydref bob blwyddyn.

Mae prif strwythur ffioedd parcio yn ystyried nodweddion a lleoliadau meysydd parcio unigol. Argymhellir fod strwythur ffioedd ar gyfer safle Dinas Dinlle yn ystyried amgylchiadau penodol, gan gynnwys

- Pryderon y gallai codi ffioedd parcio uchel arwain at gerbydau parcio ar y rhwydwaith ffordd gul gyfagos – gan amharu ar ddiogelwch y briffordd ac amwynderau lleol
- Nod y buddsoddiad diweddar i greu amodau sy'n annog defnydd o'r maes parcio a'r cyfleusterau cysylltiedig
- Cysylltiad agos hanesyddol sydd rhwng y maes parcio a busnesau pentref Dinas Dinlle
- Mae'r maes parcio yn diwallu gwahanol anghenion, a'r angen trefniadau sydd yn adlewyrchu hynny.

O ganlyniad, argymhellir fod strwythur ffioedd penodol yn cael ei ystyried ar gyfer Dinas Dinlle yn weithredol 0900 – 1700 yn ddyddiol, gan gynnig cyfnodau gymharol fyr hyd at gyfnodau dyddiol, megis :

Hyd at 1 awr : Dim ffi
 Hyd at 2 awr : £2.20
 Hyd at 4 awr : £4.20
 Hyd at 8 awr : £6.00
 Tocyn tymor : £30.00

Argymhellir y strwythur uchod yn benodol ar gyfer maes parcio traeth Dinas Dinlle er mwyn cynhyrchu ffrwd incwm a chyfrannu at dargedau incwm y Gwasanaeth, gan ystyried nodweddion a chyfyngiadau'r safle.

Diweddariad ar y sefyllfa bresennol

Mae'r Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad cychwynnol gyda phartïon dynodedig, ynghylch y bwriad o wneud gorchymyn traffig parhaol ar faes parcio Dinas Dinlle (yn unol â Rheoliad 6).

Derbyniwyd sylwadau gan Gyngor Cymuned Llandwrog sydd yn nodi pwysigrwydd fod unrhyw newidiadau i barcio yn Dinas Dinlle yn cynnwys:

- Trwyddedau am ddim neu fforddiadwy i'r gymuned leol.
- Cyfathrebu clir ac amserol am leoliadau'r gorchmynion parcio.

Nid oes sylwadau pellach wedi ei dderbyn gan y sefydliadau statudol yn ystod y cam cychwynnol yma

5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Yn amodol o dderbyn cymeradwyaeth y Cabinet, y cam nesaf fyddai cyhoeddi rhybudd o fwriad i wneud y gorchymyn gan wahodd sylwadau / gwrthwynebiadau o fewn cyfnod heb fod yn llai na 21 niwrnod (Rheoliad 7). Byddai angen coladu ac ystyried pob ymateb, ymateb i wrthwynebwyr, addasu'r cynnig os oes angen. Yn ddarostyngedig i'r prosesau yma, byddai angen wedyn gwneud y gorchymyn o dan Rhan 3 o'r Rheoliadau. Wedyn dan Rheoliad 17 cyhoeddi ail rybydd yn dweud fod y gorchymyn wedi ei wneud.

6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Prif Swyddog Cyllid:

“Gallaf gadarnhau fod targed incwm ar gyfer Maes Parcio Dinas Dinlle ers i’r Cabinet gytuno i gyflwyno ffi, a’i fod yn £57,930 ar gyfer 2025/26. Rwyf felly’n croesawu’r penderfyniad a geisir er mwyn ffurfioli’r trefniadau a sicrhau cysondeb gyda penderfyniad cyllidebol blaenorol.”

Swyddog Monitro

Mae’r adroddiad yma wedi bod yn destun mewnbwn gan y Gwasanaeth Cyfreithiol . Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

Atodiadau

Atodiad 1 : Cynllun lleoliad maes parcio traeth Dinas Dinlle

Atodiad 2 : ‘Arolwg Maes Parcio Dinas Dinlle’ (Rhagfyr 2024)

Atodiad 3 : Asesiad Effaith Cydraddoldeb

1:2,500

0 0.02 0.04 0.08 mi

0 0.03 0.07 0.13 km

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000821460 - Cyngor Gwynedd



Arolwg Maes Parcio Dinas Dinlle

Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth

Cyngor Gwynedd

Rhagfyr 2024

Cynnwys yr Adroddiad

Cyflwyniad	2
Canlyniadau	3
1. Ymatebion.....	3
1.1 Niferoedd	3
1.2 Cwestiynau i'r Busnesau	3
1.3 Cwestiynau i'r Unigolion	4
1.4 Cwestiynau i Unigolion a Busnesau	7
Casgliadau.....	9
Atodiad A – Nodweddion yr ymatebwyr	10

Rhestr Tablau

Tabl 1 : Nifer ymateb	3
Tabl 2 : Ymweld yn ystod y cyfnod prawf	4
Tabl 3 : Pa mor aml fyddwch chi'n defnyddio'r maes parcio	4
Tabl 4 : Hyd arosiad	4
Tabl 5 : Sylwadau am brofiad unigolion o ddefnyddio'r maes parcio.....	5
Tabl 6: Sylwadau am farn unigolion o'r ffioedd parcio.....	6
Tabl 7: Effaith y newidiadau i faes parcio Dinas Dinlle ar yr iaith Gymraeg	7
Tabl 8: Nifer gweithwyr llawn amser a rhan-amser fesul sector	8

Rhestr Ffigyrau

Ffigwr 1 : Sut oedd eich profiad o ddefnyddio maes parcio Dinas Dinlle?	5
Ffigwr 2 : Beth yw eich barn am y ffioedd parcio a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod prawf?	6
Ffigwr 3 : Trefniadau rheoli safle	7

Cyflwyniad

Yn gynharach eleni, cwblhawyd gwelliannau i faes parcio Dinas Dinlle yn cynnwys ail-wynebu, addasu'r fynedfa, marcio mannau parcio, tirweddu ac uwchraddio cyfleusterau.

Yn ystod cyfnod 16 Awst – 30 o Fedi trefnwyd cyfnod arbrawf drwy godi ffioedd parcio isod rhwng oriau 0900 – 1700 yn ddyddiol :


Hyd at 1 awr : Am ddim

Hyd at 2 awr : £2.00

Hyd at 3 awr : £3.00

Hyd at 8 awr : £6.00

Tocyn Tymor : £25.00



Cynhaliwyd yr arolwg hwn er mwyn casglu adborth defnyddwyr y maes parcio, trigolion a busnesau lleol ar y cyfnod arbrawf. Bydd y canlyniadau yn cael eu hystyried wrth lunio trefniadau rheoli'r maes parcio i'r dyfodol.

Cafodd yr arolwg ei hysbysebu mewn erthyglau yn y wasg, cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, ar wefan Cyngor.

Mae'r arolwg wedi ei ddadansoddi a'r adroddiad yma wedi ei ysgrifennu gan y Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth, Cyngor Gwynedd.

Canlyniadau

1. Ymatebion

1.1 Niferoedd

Derbyniwyd 248 ymateb i'r arlowg gyda 244 o rhain yn ateb fel unigolion a 4 yn ymateb ar ran busnes lleol. Nodir bod 17 o'r unigolion yn byw tu allan i Wynedd. Gellir gweld nodweddion yr unigolion yn Atodiad A.

Tabl 1 : Nifer ymateb

	Nifer	Fel %
Fel unigolyn	244	98.4%
Fel busnes lleol	4	1.6%
	248	100.0%

1.2 Cwestiynau i'r Busnesau

Holwyd y busnesau "Pa mor aml mae cwsmeriaid y busnes yn defnyddio'r maes parcio yn Dinas Dinlle?". Bu i 2 o'r busnesau ddweud bod eu cwsmeriaid yn defnyddio'r maes parcio yn rheolaidd iawn. a'r ddau arall yn nodi mai o bryd i'w gilydd roedd eu cwsmeriaid nhw yn defnyddio'r maes parcio. Nid oedd dau o'r busnesau wedi eu lleoli yn Ninas Dinlle. Wrth nodi sylwadau pellach bu i'r ddau fusnes oedd wedi eu lleoli yn Dinas Dinlle nodi bod eu cwsmeriaid yn ei ddefnyddio yn ddyddiol ac and oes unlle arall iddynt barcio.

Wrth holi'r busnesau am eu barn am y ffioedd parcio roedd eu barn yn un cymysg. Roedd y ddau fusnes oedd wedi eu lleoli yn Ninas Dinlle yn gweld byddai codi ffioedd yn cael effaith ar eu busnesau ac ar bobl leol sydd yn ymweld â'u busnesau hwy. Roedd y ddau fusnes oedd wedi eu lleoli ym Mhenryndeudraeth yn awyddus i weld y ffioedd yn codi.

Holwyd y busnesau "***Yn ystod y cyfnod prawf, beth oedd eich barn ar y gwelliannau i'r maes parcio a'r ffioedd parcio ar y Gymraeg, y cyfleoedd i'w defnyddio a'i statws o fewn y gymuned?***". Ni fu i fusnesau wedi eu lleoli yn Ninas Dinlle wneud sylw. Doedd y busnesau wedi eu lleoli ym Mhenryndeudraeth ddim yn gweld bod y cwestiwn yn berthnasol i godi ffioedd parcio.

Holwyd y busnesau "***Beth ydych chi'n gredu fyddai effaith y ffioedd parcio ar bobl sy'n wynebu anfantaïs economaidd-gymdeithasol?***". Ni fu i fusnesau wedi eu lleoli yn Ninas Dinlle wneud sylw. Doedd y busnesau wedi eu lleoli ym Mhenryndeudraeth yn gweld bod blaenoriaethau unigolion yn wahanol a bydd y rhai sydd eisiau ymweld â'r traeth yn fodlon talu ffioedd parcio.

1.3 Cwestiynau i'r Unigolion

Gofynnwyd i'r unigolion “*Fuoch chi ym maes parcio Dinas Dinlle yn ystod y cyfnod arbrawf?*” Roedd 77.0% ohonynt wedi ymweld â'r maes parcio yn ystod y cyfnod prawf.

Tabl 2 : Ymweld yn ystod y cyfnod prawf

	Nifer	Canran
Do	188	77.0%
Naddo	47	19.3%
Heb ateb	9	3.7%
	244	100.0%

Wrth eu holi am ei defnydd o'r maes parcio roedd 43.9% o'r unigolion yn defnyddio maes parcio Dinas Dinlle o leiaf unwaith yr wythnos.

Tabl 3 : Pa mor aml fyddwch chi'n defnyddio'r maes parcio

	Nifer	Canran
Mwy nag unwaith yr wythnos	60	24.6%
Unwaith yr wythnos	47	19.3%
Yn achlysurol	131	53.7%
Byth yn defnyddio'r maes parcio	3	1.2%
Heb ateb	3	1.2%
	244	100.0%


Wrth holi'r unigolion “*Pa mor hir fyddwch yn defnyddio maes parcio Dinas Dinlle fel arfer?*” roedd 82.8% ohonynt yn aros am hirach nac un awr.

Tabl 4 : Hyd arosiad

	Nifer	Canran
Hyd at 1 awr	36	14.8%
Hyd ar 2 awr	115	47.1%
Hyd ar 3 awr	70	28.7%
Hyd ar 8 awr	12	4.9%
Mwy na 8 awr	5	2.0%
Heb ateb	6	2.5%
	244	100.0%

Holwyd yr unigolion am eu profiad o ddefnyddio'r maes parcio yn ystod y cyfnod prawf. Mae **Ffigwr 1** yn dangos beth oedd eu barn a **Tabl 5** yn dangos y sylwadau wnaeth 121 allan o'r 244 eu gwneud.

Ffigur 1 : Sut oedd eich profiad o ddefnyddio maes parcio Dinas Dinlle?




Tabl 5 : Sylwadau am brofiad unigolion o ddefnyddio'r maes parcio

	Nifer	Canran
Llai o lefydd parcio rwan	36	29.8%
Edrych yn llawer gwell/mwy hwylus	29	24.0%
Llawr yn anwastad a pheryglus oherwydd y tyllau	17	14.0%
Creu problem parcio ar y lôn	16	13.2%
Ddim yn mynd i'w ddefnyddio yn y dyfodol oherwydd y ffioedd parcio	12	9.9%
Angen cyfnod hirach nac awr am ddim	11	9.1%
Gwastraff arian	10	8.3%
Angen gwella'r cyfleusterau cyhoeddus rwan hefyd	7	5.8%
Angen ystyried cynllun disgownt os yn defnyddio'r busnesau lleol	6	5.0%
Angen tocyn blynyddol i drigolion lleol	4	3.3%
Edrych yn fwy naturiol cyn y gwelliannau	4	3.3%
Angen gwell arwyddion mynedfa/allanfa	3	2.5%
Cynllun parcio teg iawn	3	2.5%
Diffyg llefydd parcio rhiant a phlentyn / bathodyn glas	2	1.7%
Gwagio a llwytho car yn anoddach rwan	2	1.7%
Cyfnod od i gynnal cyfnod prawf	2	1.7%
Rhy hawdd i'r camperfans ei ddefnyddio	2	1.7%
Peiriant talu ddim wastad yn gweithio	2	1.7%
Ddim yn hybu twristiaeth	2	1.7%
Gormod o gŵn ar y traeth	1	0.8%
Angen opsiwn talu gyda arian parod	1	0.8%
Dim llefydd parcio i faniau mawr	1	0.8%

Holwyd yr unigolion am eu barn am y ffioedd parcio yn ystod y cyfnod prawf. Mae **Ffigur 2** yn dangos beth oedd eu barn a **Tabl 6** yn dangos y sylwadau wnaeth 152 allan o'r 244 eu gwneud.

Ffigwr 2 : Beth yw eich barn am y ffioedd parcio a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod prawf?




Tabl 6: Sylwadau am farn unigolion o’r ffioedd parcio

	Nifer	Canran
Dylai fod am ddim i bobl lleol	37	24.3%
Ni ddylech godi ffioedd o gwbl	37	24.3%
Dylai bod dwy awr am ddim	26	17.1%
Cytuno gyda'r ffioedd newydd	20	13.2%
Busnesau yn dioddef	18	11.8%
Dwi peidio dod yna mor aml	16	10.5%
Angen tocyn tymor sy'n cynnwys holl feysydd parcio Gwynedd	10	6.6%
Gormod o barcio ar y lôn oherwydd y ffioedd	9	5.9%
Dyluniad y maes parcio ddim yn gweddu gyda'r amgylchedd	7	4.6%
Ni ddylid cynyddu'r cyfnod codi ffioedd e.e. tu allan i dymor gwyliau	6	3.9%
Angen codi ffioedd ar y rhai sydd yn parcio dros nos	3	2.0%
Rhaid monitro'r maes parcio	3	2.0%
Angen gwella'r arwyddion	2	1.3%
Rhaid cadw ardal yn lân a thaclus os yn codi ffioedd	2	1.3%

1.4 Cwestiynau i Unigolion a Busnesau

Gan bydd y Cyngor yn ystyried trefniadau ar gyfer rheoli'r safle ar gyfer y dyfodol holwyd a ddylid cymryd camau i liniaru rhai materion. O'r 248 roedd 50% yn cytuno dylid cael mesurau i stopio cerbydau aros dros nos.

Ffigwr 3 : Trefniadau rheoli safle



Holwyd pa effaith fyddai'r gwelliannau a'r ffioedd parcio yn gallu ei gael ar yr iaith Gymraeg a'r cyfleoedd i'w defnyddio o fewn y gymuned. Roedd 41.9% o'r ymatebwyr yn credu mai effaith niwtral fyddai'r newidiadau yn achosi. Roedd cyfle i'r ymatebwyr wneud sylw pellach am hyn. Gwnaeth 58 unigolyn sylw pellach, ble roedd 24.1% ohonynt yn credu na fysa na unrhyw effaith a'r 75.9% arall yn meddwl byddai llai o bobl leol / siaradwyr Cymraeg yn ymweld â Dinas Dinlle.

Tabl 7: Effaith y newidiadau i faes parcio Dinas Dinlle ar yr iaith Gymraeg

	Nifer	Canran
Effaith gadarnhaol	28	11.3%
Ychydig o effaith gadarnhaol	27	10.9%
Niwtral	104	41.9%
Ychydig o effaith negyddol	24	9.7%
Effaith negyddol	60	24.2%
Heb ateb	5	2.0%
	248	100.0%

Yn yr un modd holwyd pa effaith fyddai y ffioedd parcio ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Roedd 63.7% ohonynt yn credu y byddai yn cael effaith negyddol arnynt. Eto roedd cyfle iddynt wneud sylwadau pellach, gyda 102 yn dewis gwneud hynny. O'r rheiny roedd 82.4% yn credu ei fod yn mynd i fod yn anoddach i deuluoedd incwm isel gael diwrnod ar y traeth, 9.8% yn credu na fyddai dim effaith a 7.8% yn credu y byddai'r teuluoedd yn gallu parcio yn y meysydd parcio sydd ymhellach ymlaen ar y traeth.

Tabl 8: Nifer gweithwyr llawn amser a rhan-amser fesul sector

	Nifer	Canran
Effaith gadarnhaol	8	3.2%
Ychydig o effaith gadarnhaol	4	1.6%
Niwtral	27	10.9%
Ychydig o effaith negyddol	49	19.8%
Effaith negyddol	158	63.7%
Heb ateb	2	0.8%
	248	100.0%

Casgliadau

O ran casgliadau, mae'r prif ddarganfyddiadau fel a ganlyn:

- Bu i 248 ymateb i'r arolwg, 244 unigolyn a 4 busnes.
- Roedd 188 (77.0%) wedi ymweld â maes parcio Dinas Dinlle yn ystod y cyfnod prawf.
- Roedd 107 (43.9%) yn nodi eu bod yn ymweld a Dinas Dinlle o leiaf unwaith yr wythnos
- Hyd at 2 awr oedd yr arhosiad mwyaf poblogaidd yn y maes parcio gyda 115 (47.1%).
- Roedd 111 (45.5%) yn dweud eu bod wedi cael profiad da neu da iawn o ddefnyddio'r maes parcio, tra roedd 56 (23.0%) yn nodi eu bod wedi cael profiad gwael neu gwael iawn.
- Roedd 36 (29.8%) yn credu bod llai o lefydd parcio ers i'r maes parcio gael ei addasu.
- Roedd 29 (24.0%) yn credu bod y maes parcio yn edrych yn llawer gwell ac ei fod yn fwy hwylus.
- Roedd 161 (64.9%) yn credu bod y ffioedd parcio a gyflwynwyd yn rhy uchel yn ystod y cyfnod prawf.
- Roedd 37 (24.3%) yn credu dylai parcio fod am ddim i bobl lleol.
- Roedd 37 (24.3%) yn credu na ddylai'r Cyngor godi ffioedd o gwbl am barcio yn Dinas Dinlle.
- Roedd 124 (50.0%) yn cytuno dylid rheoli cerbydau sydd yn parcio dros nos yn y maes parcio.

Atodiad A – Nodweddion yr ymatebwyr

Nodwch eich rhyw

	Nifer	Canran
Dyn / Gwryw	70	28.7%
Dynes / Benyw	144	59.0%
Gwell gennyf beidio â dweud	30	12.3%
	244	100.0%

Oedran

	Nifer	Canran
16 - 24 oed	6	2.5%
25 - 34 oed	37	15.2%
35 - 44 oed	43	17.6%
45 - 54 oed	46	18.9%
55 - 64 oed	52	21.3%
65 - 74 oed	27	11.1%
75 - 84 oed	4	1.6%
Gwell gennyf beidio â dweud	29	11.9%
	244	100.0%

Gallu yn y Gymareg

	Nifer	Canran
Siarad, darllen ac ysgrifennu yn rhugl	151	61.9%
Siarad, darllen ac ysgrifennu, ond ddim yn hyderus iawn	17	7.0%
Siarad, darllen ac ysgrifennu – wrthi'n dysgu	27	11.1%
Siarad, ond ddim yn darllen nac ysgrifennu	7	2.9%
Ddim yn gallu siarad na deall Cymraeg	7	2.9%
Arall	15	6.1%
Gwell gennyf beidio â dweud	20	8.2%
	244	100.0%

Hunaniaeth / Cenedligrwydd

	Nifer	Canran
Cymreig	163	66.8%
Prydeinig	31	12.7%
Seisnig	18	7.4%
Gwyddelig o Ogledd Iwerddon	1	0.4%
Albanaidd	1	0.4%
Arall	11	4.5%
Gwell gennyf beidio â dweud	19	7.8%
	244	100.0%

Hîl

	Nifer	Canran
Gwyn	203	83.2%
Asiaidd	1	0.4%
Cymysg / sawl grŵp ethnig	3	1.2%
Arall	3	1.2%
Gwell gennyf beidio â dweud	34	13.9%
	244	100.0%

Crefydd

	Nifer	Canran
Cristion	86	35.2%
Dim crefydd	106	43.4%
Arall	9	3.7%
Gwell gennyf beidio â dweud	43	17.6%
	244	100.0%

Pa un o'r rhain sy'n eich disgrifio chi orau?

	Nifer	Canran
Heterorywiol / Strêt	176	72.1%
Dynes hoyw / lesbiaidd	2	0.8%
Dyn hoyw	1	0.4%
Deurywiol (Bisexual)	3	1.2%
Arall	10	4.1%
Gwell gennyf beidio â dweud	52	21.3%
	244	100.0%

Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eich geni?

	Nifer	Canran
Nac ydi	184	75.4%
Ydi	3	1.2%
Gwell gennyf beidio â dweud	57	23.4%
	244	100.0%

A ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?

	Nifer	Canran
Ydw	22	9.0%
Nac ydw	173	70.9%
Gwell gennyf beidio â dweud	49	20.1%
	244	100.0%

Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

I) Manylion

I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Mae Adran Economi a Chymuned yn bwriadu sefydlu trefniadau rheoli newydd ar gyfer maes parcio Dinas Dinlle. Fel rhan o'r trefniadau hyn, bwriedir cyflwyno Gorchymyn Parcio Oddi Ar y Stryd gan gynnwys codi ffioedd parcio ar y safle.

I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Yn ei gyfarfod ar 19fed Chwefror 2019, bu i'r Cabinet cymeradwyo rhestr o cynlluniau arbedion er mwyn cyfarch bwlch ariannol yn ei gyllideb. Un o'r cynlluniau arbedion oedd yr egwyddor o sefydlu ffioedd parcio ar faes parcio traeth Dinas Dinlle. Nid oedd cynigion manwl wedi eu paratoi, ac y byddai angen datblygu manylion pellach i'w weithredu.

Yn ystod 2023/24, bu i Gyngor Gwynedd weithredu gwelliannau amgylcheddol i faes parcio Dinas Dinlle yn cynnwys ail-wynebu, addasu'r fynedfeydd, marcio mannau parcio, tirweddau ac uwchraddio cyfleusterau. Yn dilyn cwblhau'r gwelliannau ffisegol ar y safle, penderfynwyd cynnal cyfnod arbrolfol yn mis Awst a Medi 2024 gan gyflwyno ffioedd parcio ar y safle. Pwrpas y cyfnod arbrawf oedd profi agweddau ymarferol ar y safle, gan gynnig cyfle ar gyfer adolygu a gwerthuso'r trefniadau dros dro, gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus gan wahodd adborth gan drigolion a busnesau lleol, defnyddwyr, sefydliadau statudol a grwpiau lleol.

Y bwriad sydd yn destun yr asesiad yma yw cyflwyno Gorchymyn Parcio Oddi Ar y Stryd ar gyfer maes parcio Dinas Dinlle, gan ymgorffori'r agweddau canlynol :

- Cyflwyno ffioedd parcio tymhorol fyddai yn daladwy rhwng amseroedd 0900 – 1700 yn ddyddiol rhwng 01 Fawrth hyd at 31 Hydref bob blwyddyn
- Byddai strwythur ffioedd parcio fel a canlyn :
 - Hyd at 1 awr : Dim
 - Hyd at 2 awr : £2.20
 - Hyd at 4 awr : £4.20
 - Hyd at 8 awr : £6.00
 - Tocyn tymor : £30.00
- Byddai'r Gorchymyn hefyd yn cyflwyno mesurau ar gyfer rheoli'r safle drwy:
 - Gwarchod mannau dynodedig ar gyfer defnyddwyr gyda bathodynau glas yn unig
 - Cerbydau i barcio oddi fewn i llinellau mannau parcio
 - Gwahardd parcio o fewn y llecyn bws trafniadaeth cyhoeddus
 - Gwahardd pobl aros mewn cerbydau dros nos ar y safle
 - Gwahardd parcio o fewn mannau 'cadw'n glir' neu ger mynedfeydd y safle

Byddai codi ffi parcio ar y safle yn creu ffrwd incwm i'r Gwasanaeth, a bwriedir clustnodi canran ar gyfer costau cynnal a chadw blynyddol, a thrwy hynny warchod y buddsoddiad a cyfleusterau newydd ar y safle.

Byddai cyflwyno Gorchymyn Parcio Oddi Ar y Stryd yn dilyn proses statudol, yn cynnwys cyfnod ymgynghori gyda sefydliadau perthnasol, ynghyd â chyfnod ymgynghori cyhoeddus.

I.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Llyr B. Jones, Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned

I.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Medi 2025 – Fersiwn I.3 (Asesiad yn dilyn cyfnod arbrawf)

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Fel rhan o drefniadau'r Cyfnod Arbrawf trefnwyd ymgynghoriadau gyda Aelodau Lleol, Cyngor Cymuned Llandwrog, Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd, Gwasanaeth Tan, Gwasanaeth Ambiwylans, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru Post Brenhinol, Gwylwyr y Glannau Llandwrog a Grŵp Mynediad Arfon

Hefyd, trefnwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod mis Hydref a Tachwedd 2024 gan wahodd adborth gan drigolion a busnesau lleol, defnyddwyr y maes parcio a'r sefydliadau nodir uchod. Roedd copïau ar gael ar safle we'r Cyngor; Siop Gwynedd yng Nghaernarfon a Pwllheli; ac yn llyfrgelloedd Penygroes a Chaernarfon. Gyrrwyd llythyrau at drigolion a busnesau cyfagos, sefydliadau lleol, a chafodd yr ymgyrch ei hyrwyddo yn y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol.

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Yn ystod gwaith cychwynnol, mae trafodaethau wedi eu cynnal gyda Aelodau Lleol, a cynrychiolwyr Cyngor Cymuned Llandwrog. Yn ystod 2023, bu i'r Gwasanaeth Morwrol gyflwyno trefniadau i dderbyn adborth a sylwadau gan ddefnyddwyr traethau drwy system Cod QR.

Yn dilyn cynnal Cyfnod Arbrawf yn 2024, cafodd holiadur penodol ei baratoi ar gyfer busnesau, trigolion defnyddwyr a grwpiau lleol. Gwahoddwyd adborth a sylwadau gan Grŵp Mynediad ac aelodau Grŵp Craidd Cydraddoldeb y Cyngor.

Fel rhan o'r holiadur, holwyd barn ynghylch effaith y gwelliannau i'r maes parcio a'r ffioedd parcio ar y Gymraeg, y cyfleoedd i'w defnyddio a'i statws o fewn y gymuned. Hefyd, holwyd am farn effaith y ffioedd parcio ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Mae copi o adroddiad 'Arolwg Maes Parcio Dinas Dinlle' (Rhagfyr 2024) wedi ei gynnwys fel Atodiad.

Mae prif grynodedb o'r adroddiad yn nodi :

- Bod 248 o ymatebion wedi eu derbyn (yn cynnwys 4 busnes)
- Roedd 43.9% o'r unigolion yn defnyddio maes parcio Dinas Dinlle o leiaf unwaith yr wythnos
- Roedd 82.8% o'r unigolion yn defnyddio'r maes parcio am hirach nac un awr
- O safbwynt profiad o ddefnyddio'r maes parcio, 19% yn dda iawn, 25% yn dda, 28% yn dderbyniol, 14% yn wael, 8% yn wael iawn gyda 3% heb ymateb.

- Roedd 64% o'r farn fod y ffioedd parcio yn rhy uchel, a 30% o'r farn fod lefel ffioedd yn iawn.
- O safbwynt trefniadau rheoli safle, roedd 50% o'r farn y dylid cynnwys mesurau ar gyfer aros dros nos mewn cerbyd; 36% o'r farn y dylid cynnwys mesurau rhag cam-ddefnydd o'r mannau parcio ar gyfer bathodynau glas; 34% rhag camddefnydd o'r mannau 'cadw'n glir' a'r mynedfeydd; 28% rhag parcio tu allan i'r baeau parcio; a 23% rhag camddefnydd o'r llecyn bws newydd.
- Holwyd hefyd am effaith ffioedd parcio ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, ac roedd 64% yn credu y byddai'n cael effaith negyddol arnynt.

O'r ymatebion a dderbyniwyd, roedd 22 unigolion wedi nodi eu bod yn anabl :

- Roedd 27% yn defnyddio'r maes parcio fwy nag unwaith yr wythnos; 23% unwaith yr wythnos; a 50% yn achlysurol. Roedd 23% yn defnyddio'r maes parcio am gyfnod hyd at 1 awr; 45% hyd at 2 awr; a 18% hyd at 3 awr.
- Nododd 14% fod y profiad o ddefnyddio'r safle yn dda iawn; 23% fod y profiad yn dda; a 45% yn dderbyniol. Roedd 18% o'r farn fod y profiad yn wael.
- Roedd 54% o'r farn fod angen mesurau er mwyn gwarchod cam-ddefnydd o'r mannau parcio ar gyfer defnyddwyr bathodynau glas.

Ystyrir fod y cyfnod arbrawf wedi bod y ddefnyddiol iawn gan gynnig profiad gweithredol o'r trefniadau sydd i'w cyflwyno, gan gynnig cyfle i adlewyrchu ar y profiad wrth lunio cynigion tymor hir.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae'r Gwasanaeth Morwrol yn gyfrifol am reoli a goruchwylio nifer o draethau ar hyd arfordir Gwynedd. Mae Cynllun Rheoli Traethau wedi ei ddatblygu gyda'r nod o gynnig mynediad cyhoeddus a diogel i draethau ac adnoddau arfordirol, ar gyfer trigolion lleol ac ymwelwyr a thrwy hynny hwyluso gweithgareddau i hybu'r economi leol a chyfrannu at lesiant ein cymunedau.

Mae'r Cynllun yn adnabod 'prif draethau' yn Abersoch, Morfa Bychan, Tywyn, Aberdaron, Abermaw, Aberdyfi, Cricieth, Pwllheli a Dinas Dinlle. Mae'r Gwasanaeth Morwrol yn gyfrifol am weithredu mesurau diogelwch ar y traethau hyn, ac yn penodi wardeniaid traeth tymhorol ar gyfer y lleoliadau hyn. Mae darpariaeth mannau parcio yn rhan bwysig o'r isadeiledd y traethau hyn. Nodir fod ffi parcio yn daladwy ar feysydd parcio prif draethau'r Sir – gyda Dinas Dinlle yr unig eithriad. Byddai cyflwyno ffi parcio ym maes parcio Dinas Dinlle yn cysoni trefniadau gyda'r prif draethau eraill.

Yn 2019, bu Cabinet y Cyngor ystyried rhestr o arbedion er mwyn cyfarch bwlch ariannol oedd yn wynebu'r awdurdod ar y pryd. Trafodwyd y bwriad gyda'r Cyngor Cymuned bryd hynny gan gydnabod y byddai angen datblygu manylion pellach, a chyfle i ymgorffori gwelliannau i'r safle

Yn ystod y cyfnod yma, roedd y Gwasanaeth Morwrol wedi derbyn cwynion a phryderon am gyflwr maes parcio Dinas Dinlle. Roedd waliau'r safle wedi erydu gyda cherrig yn disgyn i'r briffordd gyfagos. Yn ystod 2022/23 bu i'r Gwasanaeth Morwrol gyflwyno trefniadau i dderbyn

adborth a sylwadau gan ddefnyddwyr traethau drwy system Cod QR. Derbyniwyd sylwadau ac adborth am y maes parcio yn nodi :

- Bod cyflwr y maes parcio ac ymddangosiad cyffredinol y traeth yn wael
- Bod wyneb y maes parcio yn anwastad
- Anawsterau cael mynediad i'r traeth

Yn ystod 2023/24, llwyddodd y Cyngor i sicrhau pecyn ariannol ar gyfer uwchraddio cyflwr a gosodiad maes parcio Dinas Dinlle sydd wedi ei gwblhau. Roedd hyn yn cynnwys marcio manau parcio gan cynnwys rhai ar gyfer deiliaid bathodyn glas. Bwriad y Cyngor yw sefydlu trefniadau rheoli tymor hir ar gyfer y maes parcio er mwyn gwarchod y buddsoddiad a'r cyfleusterau sy'n cael eu darparu. Bydd cyflwyno ffi parcio yn rhan bwysig o hyn, gan y bydd yn cynnig incwm blynyddol, ac yn galluogi'r Cyngor i glustnodi adnoddau penodol ar gyfer gwaith cynnal a chadw.

2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Nid oes bylchau penodol wedi eu hadnabod. Cynhaliwyd Cyfnod Arbrofol yn ystod mis Awst / Medi 2024 pryd cyflwynwyd ffioedd parcio ar y safle. Trefnwyd gwaith ymgysylltu pellach yn mis Hydref a Tachwedd 2024 gan wahodd adborth gan trigolion, busnesau lleol, defnyddwyr, sefydliadau a grwpiau lleol.

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

Nodweddion	Sut fath o effaith?	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Negyddol	Mae ystadegau'n dangos fod rhai pobl o leiafrif ethnig yn fwy tebygol o fod yn dlotach na pobl Prydeinig gwyn. Mae hynny'n golygu y gallai cyflwyno ffioedd parcio gael effaith arnynt. Ni fyddai yn effeithio pobl sydd heb gar / cerbyd. Bwriedir lliniaru'r effaith drwy beidio codi ffi parcio am yr awr gyntaf.
Anabledd	Negyddol	Mae ystadegau'n dangos fod rhai teuluoedd hefo aelod anabl yn fwy tebygol o fod yn dlotach na theuluoedd heb aelod anabl. Mae hynny'n golygu y gallai cyflwyno ffioedd parcio gael effaith arnynt. Ni fydd yn effeithio pob sydd heb gar / cerbyd; nac yn effeithio pob anabl sydd â bathodyn glas oherwydd fod darpariaeth ar eu cyfer a dim ffi parcio yn daladwy. Nodir nad yw pob person anabl gyda bathodyn glas. Bwriedir lliniaru'r effaith drwy beidio codi ffi parcio am yr awr gyntaf.

	Positif	Mae gwelliannau i'r maes parcio yn cynnwys mannau parcio dynodedig ar gyfer yr anabl, ac mae lefelau'r maes parcio bellach yn gyson gyda'r rampiau at y promenâd. Mae bolards wedi eu gosod i warchod y rampiau rhag cerbydau ac mae canllawiau newydd wedi eu gosod. Ni fydd ffi yn cael ei godi ar ddeiliaid bathodynau glas. Mae ramp concriid newydd wedi ei osod i'r man picnic, a byrddau ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn wedi eu gosod ac mae'n bosib felly bydd mwy o bobl anabl yn gallu defnyddio'r cyfleusterau.
Rhyw	Negyddol	Mae ystadegau yn dangos fod merched mwy debygol i fod yn dlotach - yn enwedig merched sydd yn rhieni sengl. Mae hynny'n golygu y gallai cyflwyno ffioedd parcio gael effaith arnynt. Bwriedir lliniaru'r effaith drwy beidio codi ffi parcio am yr awr gyntaf.
Oedran	Negyddol	Mae ystadegau'n dangos fod teuluoedd hefo plant bychan yn fwy tebygol o fod yn dlotach. Mae hynny'n golygu y gall cyflwyno ffi gael effaith arnynt. Ni fyddai yn effeithio pob sydd heb gar / cerbyd. Bwriedir lliniaru'r effaith drwy beidio codi ffi parcio am yr awr gyntaf.
	Positif	Gwell trefn r y lle parcio a diogelwch, ac cyfleusterau mwy addas. Mae lefelau'r maes parcio bellach yn gyson gyda'r rampiau, ac mae canllawiau newydd wedi eu gosod.
Cyfeiriadedd rhywiol	Dim	Nid oes effaith wedi ei adnabod
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Dim	Nid oes effaith wedi ei adnabod
Ailbennu rhywedd	Ddim	Nid oes effaith wedi ei adnabod
Beichiogrwydd a mamolaeth	Dim	Nid oes effaith wedi ei adnabod
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim	Nid oes effaith wedi ei adnabod
Yr iaith Gymraeg	Niwtral	Gwella darpariaeth a cyfleusterau'r ardal. Effaith a fusnesau lleol allai gael eu heffeithio.
Anfantais Economaidd-Gymdeithasol	Negyddol	Mae cyflwyno ffioedd parcio yn debygol o effeithio ar unigolion dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Bwriedir lliniaru'r effaith drwy beidio codi ffi parcio am yr awr gyntaf. Ni fyddai yn effeithio pob sydd heb gar / cerbyd.
	Positif	Gwella darpariaeth a chyfleusterau'r ardal gan hybu cyfleoedd hamdden a hybu lles.

- 3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Nac ydi	Dim effaith wedi ei adnabod
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi	Fel a ddangosir uchod, mae'n bosib y gallai cyflwyno ffioedd parcio effeithio ar pob hefo nodweddion cydraddoldeb sydd yn fwy tebygol o fod yn dlotach. Mae gwelliannau i'r maes parcio yn cynnig cyfleusterau sydd yn fwy addas gan roi darpariaethau penodol i ddefnyddwyr bathodyn glas ac felly hyrwyddo'r un cyfleoedd i ddefnyddio'r maes parcio.
Meithrin perthnasau da	Ydi	Fel a ddangosir uchod, mae'n bosib y gallai cyflwyno ffioedd parcio effeithio ar pob hefo nodweddion cydraddoldeb sydd yn fwy tebygol o fod yn dlotach. Mae gwelliannau i'r maes parcio yn cynnig cyfleusterau sydd yn fwy addas. Bydd datblygu cynllun rheoli (a ffioedd parcio) yn cryfhau trefniadau rheoli er budd a diogelwch defnyddwyr; ac yn cynnig ffrwd incwm ar gyfer cynnal a chadw cyfleusterau i'r dyfodol. Mae'r maes parcio a'r traeth cyfagos yn cael ei ddefnyddio gan ystod o ddefnyddwyr, ac fe allai gwell rheolaeth a chyfleusterau feithrin perthynas da rhwng nodweddion (e.e. pobl hyn, pobl ifanc a phobl anabl yn cyd-ddefnyddio'r ardal mewn modd diogel).

- 3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Ni fydd y gwaith fydd yn deillio o'r bwriad yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar y Gymraeg oherwydd natur y gwaith, fodd bynnag, bydd yn ganolbwynt creiddiol i'r elfen o gyfathrebu. Bydd holl drefniadau cyfathrebu yn gwbl ddwyieithog gyda'r holl ddogfennau cysylltiedig ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Peiriannau talu yn gweithio'n llawn yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Nid oes mesurau ychwanegol wedi eu hadnabod.

3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).

Yn dilyn gweithredu'r Cyfnod Arbrawf yn 2024, mae mesurau penodol wedi eu ymgorffori i'r trefniadau arfaethedig sydd yn cynnwys

- Mae manau parcio penodol wedi eu dynodi ar gyfer pobl anabl o fewn y maes parcio. Ni fydd ffioedd parcio yn cael eu codi ar gerbydau gyda Bathodyn Glas.
- Ni fydd defnyddwyr am gyfnod byr yn gorfod talu, gan na fydd ffi parcio yn daladwy am yr awr gyntaf
- Bwriedir cynnig tocyn lleol / tocyn tymor am bris rhesymol

3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

Nid oes mesurau ychwanegol wedi eu hadnabod. Bydd y Gwasanaeth yn monitro trefniadau rheoli'r maes parcio, er mwyn ymateb i faterion sy'n codi.

3.7 Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal? (Rhowch grynodedd o'ch darganfyddiadau os ydych wedi ystyried hyn eisoes fel rhan o'r broses sgrinio)

- Mesurau rheoli fyddai yn darparu a gwarchod cyfleusterau i'r hir dymor
- Drwy godi ffioedd parcio bydd modd gweithredu er mwyn cynnal cyfleusterau ac atal problemau megis diffyg cynnal a chadw
- Darparu cyfleusterau sydd yn cyfrannau at amcanion llesiant y Cyngor Gwynedd
- Cydweithio gyda sefydliadau a grwpiau lleol

- Byddwn hefyd yn ymgynghori ymhellach ac yn gwahodd sylwadau gan ddefnyddwyr. Bydd modd ystyried unrhyw fesurau neu newidiadau wrth werthuso'r cyfnod arbrawf.

3.8 Er mwyn cydymffurfio gyda deddf Lluoedd Arfog 2022, beth yw effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd, o ran gwasanaethau tai ac addysg?

Dim effaith wedi ei adnabod

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Mae'r uchod yn adnabod manteision o'r bwriad, gan gynnwys gwarchod darpariaeth mannau parcio bathodynau gas, cyfleusterau newydd neu wedi eu uwchraddio a gwell rheolaeth o'r safle. Bwriedir clustnodi canran o'r incwm parcio ar gyfer gwaith cynnal a chadw blynyddol, a thrwy hynny warchod cyfleusterau cyhoeddus ar y safle megis canllawiau mynediad a llwybrau ar y safle.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Mae'n bosib y gallai'r cynllun gael effaith ar bobl hynny sydd yn fwy tlawd (e.e. teuluoedd hefo pobl anabl, rhai pobl o leiafrif ethnig), ond nid y rhai sydd heb gerbyd. Mae maint yr effaith yn ddibynnol ar lefel ffioedd parcio, a chyfnod(au) o'r flwyddyn y byddai ffioedd parcio yn weithredol.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	le
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth	

4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Gallai'r Cyngor ganfod faint o orfodaeth parcio sydd ei angen, a hefyd pa mor aml y defnyddir y mannau parcio a faint o incwm parcio sy'n cael ei gynhyrchu. Yna byddai'r Cyngor yn gallu penderfynu faint o incwm parcio cyfartalog fyddai'n cael ei gynhyrchu yn ystod cyfnodau penodedig.

Er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effeithiau negyddol bydd parcio hyd at 1 awr yn ddi-dal.

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Dim yn berthnasol

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Er bod ffioedd parcio eisoes yn weithredol mewn meysydd parcio prif draeth eraill Gwynedd, bydd trefniadau ar gyfer monitro'r bwriad yn cynnwys

- Bydd y Gwasanaeth yn parhau i wahodd sylwadau / adborth gan ddefnyddwyr
- Bydd swyddogion Gwasanaeth Morwrol yn ymweld a'r safle yn rheolaidd (mae Warden Traeth hefyd wedi ei leoli ar draeth Dinas Dinlle
- Bydd y Gwasanaeth Morwrol yn cynnal adolygiad o'r cyfnod prawf, gan ddadansoddi canlyniadau a'r sylwadau / adborth a gyflwynir